



C 4010.24

~~Celtic I A.47~~

211

HANES LLENYDDIAETH GYMREIG.

211

HANES LLENYDDIAETH GYMREIG.

HANES
LLENYDDIAETH GYMREIG,

Ō'r flwyddyn 1300 hyd y flwyddyn 1650.

Gan "*LLYWELYN FYCHAN*": sef,

R. I. PRYS (GWEIRYDD AP RHYS).

GOBRWYEDIG A CHYHOEDDEDIG

Gan "*Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaetbol.*"

Argraffwyd (dros y Gymdeithas) gan I. FOULKES, 18, Brunswick Street, Liverpool.



CYMDEITHAS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL.



Llywydd :

Syr WATKIN WILLIAMS WYNN, Barwnig, A.S.

Trysorydd :

Mr. J. H. PULESTON, A.S.

Llywydd y Cyngbor :

Mr. LEWIS MORRIS, M.A.

Ysgrifenydd Mygedol :

Mr. T. MARCHANT WILLIAMS, B.A.

Ysgrifenydd :

Mr. E. VINCENT EVANS.

Swyddfa :

LONSDALE CHAMBERS, 27, CHANCERY LANE, LONDON, W.C.

NODIAD.

YN Eisteddfod Genedlaethol 1883, yr hon a gynnaliwyd yng Nghaerdydd, cynnygiwyd gwobr o Gan Punt gan GYMDEITHAS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL (*The National Eisteddfod Association*) am y Traethawd goreu ar "Hanes Llenyddiaeth Gymreig o'r flwyddyn 1300 hyd y flwyddyn 1650." Ennillwyd y wobwr gan Mr. R. I. PRYS (*Gweirydd ap Rhys*), Caerdybi.

Yn unol âg awgrymiad y Beirniaid, ymgymrodd y Gymdeithas â chyhoeddi y gwaith, yr hwn yn awr a gyflwynir i Genedl y Cymry. Yn dilyn ceir talfyriad o'r Feirniadaeth ar y cyfansoddiad gan Proffeswr POWEL, Caerdydd; Proffeswr RHYS, Rhydychain; a Mr. T. MARCHANT WILLIAMS, Llundain.

Y FEIRNIADAETH.

ANFONWYD *t'r Gystadleuaeth ar y testyn lwn saith o gyfansoddiadau, yn dwyn y ffugenwau Glantanad, A Daughter of Wales, A Compiler, Merlin, Sion Cent, Herodotus, a Llywelyn Fychan. Ysgrifennodd pedwar yn Saesneg a thri yn Gymraeg.*

LLYWELYN FYCHAN.—*Traethawd Gymraeg; ac y mae'n waith helaeth a llafurfawr; ac er ei fod yn ffrwyth llafur mawr, nid ffrwyth anaddfed ydyw. Y mae'n amlwg fod yr awdur o'r blaen yn dra chydabyddus â "Hanes Llenyddiaeth Gymreig" yn gyffredinol. Nid yw'r maes yn ddieithr iddo, na'r llewybrau yn anadnabyddus; felly y mae'n gosod ei droed i lawr yn gryf a dibetrus*

Y mae traethawd "Llywelyn Fychan" yn tra rhagori ar draethodau ei gydymgeiswyr. Y mae gryn lawer yn helaethach na'r un o honynt; a cheir ynddo adroddiad manwl a chyflawn am amgylchiadau Llenyddiaeth Gymreig yn y cyfnod y traetha am dano.

Galleu fanylu ynghylch rhagoriaethau y gwaith; ond gan ein bod yn gobeithio y cyhoeddir ef yn fuan, mwy buddiol fydd nodi rhai diffygion ynddo; y rhai, er nad ydynt, yn ol ein barn ni, yn gwneud y gwaith yn annheilwng o gydnabyddiaeth, etto a ddylent gael eu cyflawni cyn ei osod yn y wasg.

Diffygion yw y rhai a nodwyd genym, y bydd yn hawdd eu cyflawni heb newid nemmawr ar gorph y gwaith. Y mae ynddo gronfa o wybodaeth am lenyddiaeth ein gwlad yn y canrifoedd tan sylw, y byddai yn drueni mawr am-ddifadu y cyhoedd o honi.

Cynnygiwn, gan hyny, bod y wobr yn cael ei rhoddi i "Llywelyn Fychan," ar yr ammod iddo adolygu ei draethawd a chyflawni y diffygion a nodwyd. Annogwn hefyd fod i'r gwaith gael ei argraphu mor fuan ag y byddo modd.

THOMAS POWEL,
JOHN RHYS,
T. MARCHANT WILLIAMS.

O.Y.—Cyflawnwyd y "diffygion" a nodwyd er boddlonrwydd i'r Beirniaid; a chyflwynwyd y *Wobr o Gan Punt* i'r awdwr.

HANES LLENYDDIAETH GYMREIG

O'r fl. 1300 Hyd y fl. 1650.

PENNOD I.

PWYSIGRWYDD Y TESTYN; Y PRIF BETHAU PERTHYNOL I LENYDDIAETH;
DOSPARTHIAD LLENYDDIAETH GYMREIG YN BEDWAR CYFNOD;
COFRES O LENORION Y CYFNOD CYNTAF; COFRES O LENORION YR
AIL CYFNOD, A'U CYFANSODDIADAU; YR EISTEDDFODAU; DIRYWIAD
LLENYDDIAETH GYMREIG; DYFODIAD YR ANTERLIWTIAU I ARFER;
HANES YR HEN HUD A LLEDRITH.

TYBIR mai prin y mae angenrhaid crybwyll bod hwn yn destyn gwir bwysig, mewn ystyr lenyddol, ac yn un tra theilwng o gael ei drafod, a hyny mor fanwl ag y gellir. Wrth ystyried bod y diweddar THOMAS STEPHENS (*Gwrnerth*), Merthyr Tydfil, wedi ysgrifenu Hanes Llenyddiaeth Gymreig o'r fl. 1080 hyd 1350, sef yr ail gyfnod yn ol ei ddosparthiad ef, mor wych, yn ei LITERATURE OF THE KYMRY, y mae braidd yn rhyfedd na buasai rhyw lenor, neu lenorion Cymreig, ynglŷn â rhai o'r gwahanol Gymdeithasau Llenyddol ac Eisteddfodol, wedi dwyn y testyn dyddorol yma i sylw ymhell cyn hyn. Dichon bod y ffaith mai yn Saesneg yr ysgrifenedd y traethawd galluog hwnw, yn un achos o'r esgeulusdra; canys y gwirionedd ydyw, er maint yw manteision yr oes sydd yn codi i ddysgu Saesneg, bod y rhan fwyaf o'n beirdd a'n llenorion hyd yn hyn, yn llawer hoffach o gyfansoddiadau yn "Iaith eu Mam," nag o rai yn iaith gyfoethog eu cymmydogion tu hwnt i Glawdd Offa.

Pa wedd bynnag, y mae CYMDEITHAS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL yn wir deilwng o barch ac edmygedd holl lenorion y genedl, am ddwyn y testyn pwysig hwn i sylw

cyffredinol ; ac am ei chynnyg haelfrydig mewn cyssylltiad âg ef, er cael cyfansoddiad cyfattedbol i'w bwysigrwydd ; a " phoed anfethllog fyddo yr arfaeth."

Wrth Llenyddiaeth Gymreig (a llenyddiaeth pob cenedl arall hefyd, yn wir), y deallir pob peth a ysgrifenydwyd gan lenorion y genedl. Cynnwys bob math ar gyfansoddiad, barddonol, rhyddieithol, a cherddorol : *Barddonol*, o'r ganig isel i fynu hyd yr arwrgerdd aruchel ; *Rhyddieithol*, o'r traethawd athronyddol i lawr hyd y chwedl deuluaid ; a *Cherddorol*, o erddygan seml y crwth a'r delyn, i fynu hyd y fyg-alaw fawreddog.

Ystyrir mai'r prif bethau perthynol i " Hanes Llenyddiaeth Gymreig," fel pob llenyddiaeth arall, ydyw amser y cyfansoddiadau, eu nifer, eu dosparth, eu hansawdd, a'u hawduron ; yr hyn bethau sydd mewn cyssylltiad agos â'u gilydd, fel y gwelir wrth i ni fyned rhagom. Dosparthwyd Llenyddiaeth Gymreig gan Stephens o Ferthyr fel y canlyn :—

Y MAE pedwar cyfnod nodedig yn perthyn i Hanes Llenyddiaeth Gymreig. O'r rhai hyn, perthyn y cyntaf i dyngedion Cymry Ystrad Clud,¹ rhyfeloedd y Gododiniad yng Ngogledd Lloegr yn y chweched ganrif, ac ymfudiad canlynol y bobl hyn i Ddeheu-barth Cymru ; yr ail sydd gynrwysegol rhwng y blynyddoedd 1080 ac 1350 ;² y trydydd, o hyn ydychi yn hanner cyntaf o'r eilfed ganrif a'r bymtheg ; a'r pedwerydd o 1650 hyd yn bresennol.³

Gresyn na buasai Stephens yn dangos yn fanylach *pahau* y dosparthai efo ein llenyddiaeth fel y gwnaeth. Yr wyf ffinau yn casglu bod gwahanol nodweddau llenyddiaeth Gymreig yn dosparthu ei hanes yn bur naturiol i bedwar cyfnod ; ond tybir nad yw y nodweddau hyn, neu'r symmudiadau o'r naill nodwedd i'r llall, yn ateb yn fanwl i'r terfynau a nodir gan Stephens. Ymddengys bod y terfynau hyn yn ateb yn bur fanwl i gynnifer o ddygwyddiadau pwysig yn hanes y Genedl Frytanaid. Ymdrechaf egluro hyn mor fyr ag y gellir. Y mae'n hyspys i bob hanesydd manwl mai y Beirdd oedd prif lenorion y Cymry dros oesau lawer yn y tair cangen benaf o

¹ *Strathelyle* ydyw y gair a ddefnyddia Stephens ; ond dywed y Beirniad mai " yr hyn a'i gelwid ydoedd *Strat Clut*, yr hyn yng Nghymraeg y dyddiau hyn a fyddai *Ystrad Clud*."—*Third Annual Report of the National Eisteddfod Association*, p. 13.

² Ar yr ail gyfnod yma yr ysgrifennodd Stephens ei hun yn benaf.

³ Lit. Kymry, Pref. p. vi. 1st edition.

lenyddiaeth, sef Prydyddiaeth, Rhyddiaith, a Cherddoriaeth. Gan hyny, neillduolion yn eu cyfansoddiadau hwy, yn benaf, a ddynodant derfynau cyfnodau hanesyddol ein llenyddiaeth.

I. Yn y cyfnod cyntaf, o'r pedwar a nodwyd, y gellir cyflëu y cynnyrchion sydd ar gael o waith y Beirdd a gyfansoddent o'r amseroedd boreuaf, hyd derfyn yr ymdrech waedlyd a ddygid ym mlaen yn erbyn y Sacsoniaid, er mwyn cadw penaduriaeth genedlaethol yr Ynys; a gellir dywedyd mewn ystyr gyffredinol i hyny barhau o'r 5ed ganrif hyd ddechreu y 10fed ganrif; dyweder, o'r fl. 460 hyd pan ddechreuodd Hywel Dda deyrnasu ar Gymru oll, yn y fl. 940; sef tua 140 o flynyddoedd yn gynnarach na'r terfyn olaf a ddyry Stephens i'r cyfnod.

Llenorion y cyfnod yma, y rhai y trosglwyddwyd eu henwau, eu hamseroedd, a rhyw gymmaint o gyfansoddiadau amryw o honynt i'r oesau hyn, yw y rhai canlynol:—

- 460—520.¹ Gwyddno, ysgr. ac argr.²
- 470—520. Gwydion ab Don, ysgr. ac argr.
- 500—550. Talhaiarn Cataguen.³
- 510—560. Aneurin,³ ysgr. ac argr.
- 520—570. Taliesin,³ ysgr. ac argr.
- 520—570. Bluchbard.³
- 520—570. Cian,³ yr hwn a elwid Guenith Guaut.
- 530—600. Myrddin, ysgr. ac argr.
- 550—640. Llywarch Hen, ysgr. ac argr.
- 560—630. Golyddan (Hynaf), ysgr. ac argr.
- 600—650. Meigant, ysgr. ac argr.
- 640—700. Elaeth, ysgr. ac argr.
- 660—720. Tysilio, ysgr. ac argr.

¹ Y rhifnodau a ddynodant amserau y prydyddion, yn ol *Contents y Myyrrian Archæology of Wales*.

² Y darneiriau hyn a arwyddant fod rhai o gyfansoddiadau y Beirdd y cyssylltir hwy wilynt, yn *ysgrifenedig ac argraffedig*.

³ Dengys Nennius fod y pum bardd hyn yn cydoesi, a'u bod "oll yn enwog ar y pryd, mewn Prydyddiaeth Frytanaid."—*Giles's Old Engl. Chron.*, p. 414. Tybiodd amryw mai *Llywarch Hen* a feddylid wrth *Bluchbard*; ond ni welaf fi ddim sail i'r fath dyb, nac yn fuffr yr enw nac mewn un awgrym hynafol. Gadawodd Nennius enw *Myrddin* allan yr un modd a *Llywarch Hen*.

770—800. Cuhelyn, ysgr. ac argr.

900—940. Llefoed, ysgr. ac argr.

Y mae 15 o ganiadau dienw yn y *Myv. Arch.*,¹ a briodolir i'r cyfnod yma ; ac y maent yn dwyn amryw nodau pur hynafol. Nid yw hyspys ai cyfansoddiadau y tri bardd hynafol ydynt, wrth enwau y rhai ni chyssylltir cyfansoddiadau, ai peidio ; sef Talhaiarn, Bluchbard, a Cian.

II. Yr ail gyfnod yn hanes Llenyddiaeth Gymreig a gyrhaedd, fel yr ymddengys i mi, o'r fl. 940, pan ddechreuodd Hywel Dda deyrnasu ar Gymru oll, fel y crybwyllwyd, hyd y fl. 1283, pan laddwyd Dafydd ab Gruffydd, Tywysog Cymreig diweddaf ein cenedl, a brawd

Llewelyn ein Llyw olaf.

Prin y gellir ystyried bod y cyfnod yma yn nemmawr ryddach oddi wrth olygfeydd o drais a dinystr na'r un blaenorol ; gan hyny, gellid dysgwyl i gynnyrchion y Beirdd ddwyn llawer o debygolrwydd i rai Beirdd y cyfnod hwnw. Y mae yn anhawdd gwybod pa un ai syrthio i ddiffrwythder cyffredinol a wnaeth yr Awen Gymreig tua diwedd y cyfnod o'r blaen a dechreu hwn, ynte ai rhyw ddinystr difaol a wnaed ar lawysgrifau y tymmor hwnw. Beth bynnag am hyny, y mae'n wirionedd rhyfedd nad oes enw ond *un bardd* ar gael yn ystod mwy na thair canrif, sef o amser Cuhelyn hyd amser Meilyr, yr hwn a fuchedai, yn ol Carnhuanawc a Stephens, o'r fl. 1080 i 1160.² *Llefoed* oedd yr un y cyfeiriwyd ato, yr hwn oedd yn ei flodau, fel y gwelwyd, o'r fl. 900 i 940. Heb law mai enw un Bardd sydd genym yn ystod yr adeg a nodwyd, *un gerdd* o waith hwnw sydd ar gof a chadw, hyd y gwyddys, yr hon a elwir "Gossymdaith Llevoet Wyneb Glawr."³

Pa wedd bynnag, y mae'n eglur wrth Gyfreithiau Hywel Dda, fod rhai a elwid yn feirdd yn ei lys ef, megis "Bardd Teulu," a "Phencerdd," yr un a'r "Bardd Cadeiriog," ac ymddengys bod gan yr olaf "Gydymdeithion" a dysgyblion ; canys dywedir fel y canlyn yn y Cyfreithiau :—

¹ *Myv. Arch.* t. 127—133.

² Hanes Cymru, t. 560 ; Lit. Kymry, pp. 104—5.

³ *Myv. Arch.* t. 118.

DEGMED y6 y pencerd. Ev a dily ei tir yn ryd a'i le y6 ar neilla6 yr ynad lŷs. Ev a dily decreu o Du6, a'r ail o'r brenin picufo y lŷs, neu o aral. Ni dily erci namyn pencerd, ac o'i cyd a'i cydymteition, d6yran ido ev. Ev a dily cafael can pob cerda6r, g6edi yd ymada6o 6'i dysg, pedair ar again. Ev a dily amohyr merced y cerdorian ereil.¹

Gellir casglu oddi wrth y difyniad uchod fod *cerddoriacth* yn rhan arbenig, os nad y rhan benaf, o lenyddiaeth Beirdd Llys Hywel Dda; a dyma ddifyniad arall yn dangos yr un peth :—

WYTMED y6 bard teulu. Ev a dily ei tir yn ryd, a'i marc presbŷl; a'i lieing6isg y can y brenines, a'i bretyn6isg y can y brenin. Ev a dily eisted yn nesav i'r penteulu yn y teirg6yl wrt rodi ei telyn yn ei la6. Ev a dily dilad y dystain yn y teirg6yl. Pan myner canu cerd, y bard cadeiria6g a decreu; a'r canu cyntav o Du6, a'r ail o'r brenin picufo y lŷs; neu oni byd ido ev a caner, caned o brenin aral. G6wedi y bard cadeiria6g y bard teulu piau canu tri canu o cerd amcen. O derbyd i'r brenines mynu cerd, aed y bard teulu i canu idi cerd yn divesur, a hyny yn isel, mal nad avlonydo y neuad canto. Ev a dily bu6c neu 6c o'r anrait a g6ne! y teulu yn gorg6lat, g6edi y del i'r brenin y traian. Yntau a dily pan rancent yr anrait canu Unpeniaet Prydyn.²

Gwelir mai fel *cerddorion* yn unig y traethir am y Beirdd yn y difyniadau blaenorol; ond y mac'n debyg eu bod yn rhyw fath ar *Brydyddion* hefyd, fel yr oedd yr hen feirdd yn gyffredin; er nad oes genym gymmaint ag un g6n, nac enw neb fel prydydd (nac *enw* neb fel Bardd chwaith, yn wir) yn ystod holl oes Hywel Dda, ond *Llefoed*, yr hwn a fucheddai pan oedd Hywel yn Dywysog y Dheubarth yn unig, cyn i Wynedd hefyd ddisgyn i'w ran.

Pa wedd bynnag, fe ddechreuodd yr Awen Gymreig ddeffro o ddifrif tua 132 o flynyddau ar ol marwolaeth Hywel Dda, yn y fl. 948; a pharhaodd i ymgryfhau ac ymddisgleirio, gydag ambell eithriad, o hyny hyd derfyn y cyfnod, yn niwedd y 13edd ganrif, fel yr arwydda'r Gofres ganlynol :—

1080—1160. Meilyr, ysgr. ac argr.

1090. Bleddyn Ddu, ysgr. ac argr.

1140—1172. Hywel ap Owain Gwynedd, ysgr. ac argr.

1150—1190. Gwalchmai (hynaf), ysgr. ac argr.

1150—1197. Owain Cyfeiliog, ysgr. ac argr.

1150—1200. Cynddelw (hynaf), ysgr. ac argr.

1150—1200. Daniel ap Llogwrn Mew, ysgr. ac argr.

1157. Gwrgant ap Rhys.

1157. Madawg ap Iddon.

¹ Myv. Arch. t. 973.

² Myv. Arch. t. 903.

- 1160—1210. Seisyll, ysgr. ac argr.
 1160—1220. Elidyr Sais, ysgr. ac argr.
 1160—1220. Gwynfardd Brycheiniog, ysgr. ac argr.
 1160—1220. Llywarch ap Llywelyn (Prydydd y Moch),
 ysgr. ac argr.
 1160—1220. Gwilym Ryfel, ysgr. ac argr.
 1170. Perif ap Cedifor, ysgr. ac argr.
 1170. Llywarch Llew Cad, ysgr. ac argr.
 1170—1210. Dewi Mynyw, ysgr. ac argr.
 1170—1220. Meilyr ab Gwalchmai, ysgr. ac argr.
 1170—1220. Einiawn ab Gwalchmai, ysgr. ac argr.
 1190—1240. Dafydd Benfras, ysgr. ac argr.
 1190—1240. Gwgawn, ysgr. ac argr.
 1200—1250. Einiawn Wan, ysgr. ac argr.
 1200—1250. Phylip Brydydd, ysgr. ac argr.
 1200—1250. Einiawn ab Gwilym, ysgr. ac argr.
 1210—1260. Gruffydd ab Gwrgenau, ysgr. ac argr.
 1210—1260. Prydydd Bychan, ysgr. ac argr.
 1220—1270. Llygad Gwr, ysgr. ac argr.
 1230—1270. Einiawn ab Madawg Rhahawd, ysgr. ac argr.
 1230—1280. Llywelyn Fardd, ysgr. ac argr.
 1240. Adda Fras.
 1240—1280. Hywel Foel ab Griffri, ysgr. ac argr.
 1250—1290. Bleddyn Fardd, ysgr. ac argr.
 1250—1300. Madawg ab Gwallter, ysgr. ac argr.
 1260—1300. Gruffydd ab yr Ynad Coch, ysgr. ac argr.
 1270. Gwerneg ap Clydno, ysgr. ac argr.
 1270. Ednyfed Fychan, ysgr. ac argr.
 1280. Cadwgan ap Cynfrig.
 1280. Llywelyn Brydydd Hodnant, ysgr. ac argr.
 1280. Hillyn, ysgr. ac argr.
 1280. Heilyn Ddu.
 1280—1320. Gwilym Ddu, ysgr. ac argr.

Y mae genym enwau a gwaith amryw lenorion eraill, y rhai oedd yn eu blodau mewn rhan o'r cyfnod hwn; ond gan fod y rhan fwyaf o'u buchedd flodeucg yn y cyfnod nesaf, tybir

mai yn y cyfnod hwnw, sef cyfnod y testyn, y dylid eu cyfleu ; megis Iorwerth Fychan, Llywelyn Ddu, Casnodyn, ac amryw eraill, y rhai a flodeuent o'r fl. 1290 i 1340.

Nifer llenorion yr ail gyfnod, cyn belled ag y canfyddaf fi, fel y gwelir wrth y gofres flaenorol, yw 41 ; ond dichon i mi fethu eu cael oll, a bod enwau amryw wedi colli yn nhrefigliad amser. Y mac'r holl gyfansoddiadau argraffedig a briodolir iddynt yn y *Myeyrian Archaeology, Literature of the Kymry*, a'r *Four Ancient Books of Wales*, tua 238 o nifer, heb law 15 o gyfansoddiadau argraffedig a briodolir i'r un cyfnod ;¹ a dengys gwahanol ysgriflyfrau sydd ar gof a chadw bod llawer o'u gwaith heb ei argraffu.

Yr unig fardd o'r holl rai a nodwyd, hyd y gwyddys, a ganodd ar Dafydd ab Gruffydd ap Llywelyn, y Tywysog Cymreig olaf, oedd Bleddyn Fardd ;² yr hwn, fel y gwelir yn y gofres flaenorol, oedd yn ei flodau o'r fl. 1250 i 1290.

Ymgododd Prydyddiaeth Gymreig i radd uchel yn ystod y cyfnod hwn, fel y prawf caniadau Hywel ap Owain Gwynedd, Gwalchmai, Owain Cyfeiliog, Cynddelw, Llywarch ap Llywelyn (Prydydd y Moch), Dafydd Benfras, Prydydd Bychan, Bleddyn Fardd, Gruffydd ap yr Ynad Coch, a rhai eraill ; ond ni pherthyn i mi fanylu ar lenorion y cyfnod yma.

Gwelir bod yr ail gyfnod hwn o hanes llenyddiaeth Gymreig yn terfynu, yn ol y syniadau blaenorol, ryw hanner canrif yn gynt na'r amser a briodolai T. Stephens i'w derfyniad ; sef yn niwedd y 13edd ganrif, gyda marwolaeth ein Tywysogion Cymreig olaf, Llewelyn ab Gruffydd a'i frawd Dafydd ; ac felly y dechreu y

III. Cyfnod, sef cyfnod y testyn, yn ddigon naturiol, yn nechreu y 14edd ganrif. Pan laddwyd Llywelyn ab Gruffydd yn y fl. 1282, a'i frawd Dafydd tua blwyddyn ar ol hyny, nid yn unig diflannodd annibyniaeth y Cymry, ond hefyd syrthiodd eu hysbryd, a mawr edwinodd eu defodau a'u llenyddiaeth dros ennyd ; ar fyr, llethid pob sefydliad a allai ymddangos megis yn milwrio dim yn erbyn golygiadau y gorchfygwr, ac

¹ Myv. Arch. t. 251—350.

² Yr un, t. 251.

yn erbyn yspryd yr Offeiriadaeth Babaid; canys y mae genym sicrwydd yng ngwaith y beirdd eu hunain, bod yr hen sefydliad Barddonol a'r glerigaeth Babaid, yn hollol groes i'w gilydd. Dyma dystiolaeth Myrddin ar y pwngc :—

NA rann periglaur na cherdda6r
Ny byd nac adreidyau yr alla6r.
Yny dyg6yldho nef ar la6r.¹

Ny chymmeraf gymun
Gan ysgymun uyneich
Ac eu t6ygau ar eu clun
Am kymuno du6 e hun.²

Ond y mae gwawr trydydd cyfnod yr Awen Gymreig, sef cyfnod y testyn, yn tywynu arnom, ar ol nos o gryn ganrif o gaddug pur dywyll. Yn lle y Tywysogion Cymreig, daeth Pendefigion y wlad i gefnogi llenyddiaeth y genedl; megis Ifor Hael, Iarll Mortimer, Syr Richard Neville, Iarll Penfro, Syr Richard Basset, ac eraill. Ond haf a gauaf, oerni a gwres, a dydd a nos ydyw tynged pob peth yn y byd hwn; ac felly, mewn modd arbenig y mae wedi bod ar lenyddiaeth Gymreig. Ymddengys i'n llenyddiaeth edwino cilwaith, ar ol y Pendefigion a nodwyd, a'r beirdd oedd yn cydocsî â hwynt, cyn i gyfnod y testyn fod yn llawn 150 oed. Y mae genym dystiolaeth nodedig ar hyn yn yr ymgom a fu rhwng Llawdden a Gruffydd ab Nicolas o gylch y fl. 1450, neu ychydig yn gynt, ond odid. Dyma fel y dywedir :—

A LLAWDDEN Fardd gwr o Landeilo Tal y Bont, yng Ngwyr, ar ucha diwarnod yn Abermarlais gyda ei gar a'i gyfrin Gruffydd ap Nicolas, dyma Glerwr yn dyfod i'r Neuadd dan enw Bardd, a chan moliant o'r fath ag oedd, i Ruffydd, a mawl iddo am ddrygai na ddaeth erioed ar ei feddlwl eu gwneuthur, a'u galw yn gampau gwrolion; a Gruffydd a roddes y ddyrif yn llaw Llawdden; Llawdden a'i darllenodd, a Saesoneg oedd, ag ar ol ei darllain efe a gant yr englyn a ganlyn :

Pob gair cras diras pob Dyri goegiaith,
Pob gogan a brynti;
Pob drawdod, pob dirieidi,
Ei gludo a wnaed i'n Gwlad ni.

Gwir yw hynny, ebe Gruffydd, a pha fodd y gellir amgen? Yn ddigon hawdd a'i gellir, ebe Llawdden; galwer am Eisteddfodau a Chadeiriau dan Osteg a Rhybudd undydd a blwyddyn, fal y bu gynt, er adnewyddu hen Wybodau Llythyr a Cherdd Dafod Cencell y Cymry, a chadarnhau braint wrth Gerdd Dafod; ac yna ceir gweled mai bach y bydd ddisyng Awen a Chydwylod.

Attebai Gruffydd, ni chaniatteir hynny gan gyfraith y Brenin y dydd heddyw; gwneir, ebe Llawdden, pei ceisid yn gyfiawnbwyll gantho; fallai hynny, ebe

¹ Skene's Four Ancient Books of Wales, vol. ii., p. 231

² *Ibid.* p. 233.

Gruffydd, eithr pa le'r gobaith? Lle gennych chwi f'Arglwydd, ebe Llawdden, os y chwi a'i cais; ac os ei geisio a wnewch, mi a ddaroganaf i chwi lwyddiant, a bodd eich calon. Mi a'i ceisiaf, ebe Gruffydd. Efe a'i ceisiodd ac a'i cafas; a Gwarant a Braint diogelwch dyfod a dychwel, dann nawdd Llythyr Cynnwys y Brenin, &c.¹

Cynnaliwyd yr Eisteddfod honno yng Nghaerfyrddin, yn y fl. 1451, fel y bernir yn gyffredin, prif wroniaid llenyddol yr hon oedd Llawdden a Dafydd ab Edmwnnt, fel y ceir gweled eto. Pa wedd bynnag, nid ymddengys y parhaodd effaith yr Eisteddfod honno yn hir iawn; canys cynnaliwyd Eisteddfod yng Nghaerwys dan nawdd, neu'n hytrach, trwy orchymyn, Harri VIII. yn y fl. 1524, i geisio dwyn y Beirdd a'r Cerddorion i drefn a dosparth; ac ymddengys na pharhaodd effaith honno chwaith ond ychydig iawn o amser, mewn cymhariaeth; canys yr ydys yn cael i Eisteddfod arall gael ei chynnal yng Nghaerwys eto, trwy awdurdod "Llythyr Cynnwys" y Frenines Elizabeth i'r un perwyl, yn y fl. 1568; yr hon, mewn gwirionedd, oedd yr ymdrech cyhoeddus olaf, yn ystod y cyfnod hwn, i roi egni newydd yn llenyddiaeth ein gwlad. Ond y cwbl a wnaed trwy gyfrwng yr Eisteddfod honno oedd dangos bod llenyddiaeth Gymreig yn prysur gymmeryd y nodwedd oedd yn dynodi terfyn y cyfnod yma. Yr oedd ein llenyddiaeth weithian yn cyfartal ddadfeilio â diffyg y nawdd oedd wedi bod yn fywyd iddi; canys yr oedd yr achos cystal a'r effaith yn amlwg yn yr Eisteddfod olaf a nodwyd; yr hon yn lle bod yn wyl gyfnodol sefydliad parhaus, nid oedd fwy nag arddangosfa i foddhau ychydig foneddigion gwladgarol, y rhai nid oeddynt yn meddu digon o ddylanwad er peru i'w hesampl gael ei hefelychu; canys nid ydys yn gweled i Eisteddfod gael ei chynnal mwyach hyd ymhen mwy na dau gan mlynedd o'r cyfnod nesaf; ac yng Nghaerwys y cynnaliwyd honno hefyd, yn y fl. 1798, dan nawdd y gwladgar Owain Myfyr, a Chymdeithas y Gwyneddigion.

IV. Dechreu y pedwerydd cyfnod llenyddol, mewn ystyr manwl a naturiol, yn ol fy nhyb i, gyda dechreu yr 17fed ganrif; sef tua hanner canrif cyn tertyn olaf cyfnod y testyn,

¹ Cyfrinach y Beirdd, argr. 1829, t. 239.

yr hwn a derfyna gyda'r fl. 1650; a chredaf, fel Stephens, y pery'r pedwerydd cyfnod hyd yn bresenol.

Yr oedd uchelwyr y Cymry erbyn hyn, sef tua diwedd yr 16fed ganrif, wedi ffurfio'r fath gymdeithas â Lloegr, fel yr oedd eu harferion cenedlaethol wedi gwisgo ymaith i raddau mawrion; a dechreuasant gymmeryd arnynt yr hyn a ystyrir yn goethder cyffredinol Ewrop, yr hyn oedd yn bur wahanol i ddefodau ac arferion cartrefol yr hen Gymry. Nid yn unig yr oedd y fath gymdeithas estronol yn tueddu i ddilëu y nawdd a'r gefnogaeth a roddid yn flacnrol i lenyddiaeth Gymreig, ond hefyd, coleddid rhagfarn yn erbyn yr iaith Gymraeg; a defnyddid moddion, er yn aneffeithiol, i'w dilëu yn hollol, fel cyfrwng rhy farbaraidd i'w peiriannau llafar coethedig hwy erbyn hyn. Y mae yr hen Ioan Dafydd Rhys, yn ei "Annerch" Gymraeg o flaen ei Rammadeg, a gyhoeddwyd yn y fl. 1592, yn cwyno mewn iaith finiog, dduchanllyd, bod nid yn unig y boneddigion, ond y gwreng a'r werin yn diystyru eu hiaith yn ei amser ef mewn modd cywilyddus. Fel y canlyn y traetha efe ei lën ar y pwngc:—

NYD oes nemor o iaith (hyd y gwn i) ynn Ewrôpa a'i hynysodh, na's cabhas ei hymgelëdhu a'i choledh gann ei Ieithydhion a'i Gwladwyr ihun o amser i gilydh; onyd ein hiaith ni y Cymry. Yr honn yna'or yn hôyr ac o bhraidh, a dhechreua'odh gaphael pëth gôrtaith gann 'ôyrda dyscedig o'n hamser ni; a' hynny yn enôedic o rann cymrec-hâu coph yr yscrythur lân. Canys o's golygêch arr genhedloeth a' phobloeth eraill megys y Groecieit, a'r Lladinieit; chwî a' elhêch ganbhod nadd oes nebryw 'ôybodaeth na chelbhydhyd dann yr haul o'r a dhichon bod myôn dyn, na's capher ei gôledh yn amlêc ynn ei hiaith a'e lhybhrau hây, yn gyn amled, a' bôd hôlh Europa yn gybhlaôn o'i hiaith a'e lhybhreu hây, yn tragôydholi moliant a' gogoniant i'r gôledyth hynny, ac i'r Aôluriaid ac i Ymgeledhây yr ieithoeth hynny hyd tra bydho byd. A' gôedi yr hein hynny, y dilynassant yr Ieithoeth cyphredlin megys yr Italieith, yr Hyspanieith, y Phrangec, yr Almanieith, y Saesônec, y Scotieith, a' ieithoeth eraill heb law hynny a bhedwrn eu hadroth ony bei rhac obhn 'yeh trablino. A'r ieithoeth hynn olh a gybharbhûant o amser i amser a Ieithydhion a' Ieithymgeledhây hawdgharabh o'r byd, ac eôlythysgarabh i ymgeledhu a' choledh, a' maôrâu bob yn o honynt ei iaith 'i hun; hyd ynn y dîedth nadd oes cymeint ac vn medhir o'r holh ieithoeth cyphredin vchod na bo yndhei holh gelbh-yddôdeu'r byd, 'ôedi eu cybbleu a'i cymhennu yn brintiedic myôn cobhlyhbreu, a barhâont hyd tra bydho phyrbhâbhen. Yr hyn bêth a bhagodh dhirbha'ôr bareh a' maôrâd tragôydhâôl, nyd yn vnic i'r Ieithydhion, a'r Gôrteithây, a'r Aôdurieit; ond hebhyd i'r Gôladwyr a'r cenedloeth hynny. Eithr ninheu y Cymry, (mal gôeision gôychion) rhai o honon' ynn myned morr dhibblas, ac mor bhursen-naidd, ac (yn augenach nog vn bobl aralh o'r byd) morr benhoelen, ac y daô brith gyôilydh arnam gynnyg adroth a dyfêledh eyn hiaith eyn hûain; ielh a gôynn eyn byd ryô rai o honon bhedru bôd mor bhindlôs, a chymeryd arnam dharbôd inni o gôbl abergôbhi y Gymraec, a' medru ôeithion (malpei) dhoedyd Saessnee, a' Phranghec, ac Italieith, neu ryô iaith alhtudaidd aralh paryôbynnac a bhô honno odhieithr Cymraec. Cytboet yn ôir ynn y cybhrôgh hynny, na's medrom y ganbhed rann o'r dhieithriaith a gymherasam arnam ei gôybod a'i doydud morr hybhedr.

Eithr nyd y6 y bhursennaidh sorod hynn o Gymry (os teg doydud y g6ir) onyd gohilion a' lh6gr, a' chrachydhion y bobl, a' i brynteion ; a megys cachadurieit y 6lad. Ac ynn yr vn orsedhbha a' chadeir a' r rhai hynn y dylid lheidau a' gosod y rhai a' bhynnynt dodhi a' dibha holh iaith y Cymry, a' chyblleu a' dodd iaith y Saeson yn ei lhe hi : Yr hynn beth yssydd ymhossibl ei gwblhau a' i berpheithio, heb dhibha yn lh6yr holh genedl y Cymry a' i gwneuthur yn Seisnic.

Wedi cymmaint a hyn o sylw, braidd nad afraid crybwyll pa fodd y blodeuai llenyddiaeth Gymreig yn ystod yr adran flaenaf yma o'r pedwerydd cyfnod, a'r adran olaf o gyfnod y testyn. Pa wedd bynnag, yr oedd yn rhagorach nag y gallasid dysgwyl iddi fod dan y fath amgylchladau, fel y ceir gweled rhag llaw. Rhoddes cyfansoddiadau llafurfawr ac uchelryw le i rai a ofynent lai o amser a myfyrdod, ond gyda rhai eithriadau, pan y diystyrai athrylith bob anhawsderau.

Pan derfynodd cefnogaeth gyffredinol y pendeigion i Farddoniaeth, ac y peidiodd a bod yn grefft i gael bywioliaeth oddi wrthi, fel yr ydoedd gynt, daeth Pennillion, Caneuon, Diarhebion, ac Anterliwtiau¹ i gael eu cyfansoddi a'u coleddu yn fwy cyffredinol ; ond nid yn yr adeg hon y dechreuwyd ysgrifenu cyfansoddiadau o'r ansawdd yma. Yr oedd cyfoethogi'r bobl â phennillion a diarhebion yn un o hen arferion y sefydliad Barddonol ; ac y mae'r nifer dirfawr o'r rhai hyny a crysorai yr hen bobl yn eu cof, yn ddigon o syndod i'r oes bresennol. Nid peth anghyffredin gynt oedd cyfarfod â phobl a allent adrodd rhai cannoedd a bennillion, ne'u "canu gyda'r tannau."

Dichon nad yw Anterliwtiau (rhyng-chwareuon, ysmaldodion), fel y cyfryw, y rhai oedd mor boblogaidd yn y wlad tua chan mlynedd yn ol, yn bur hynafol, gan na chrybwyllir hwy gan ysgrifenywyr ond megis yn ddamweiniol, herwydd nad ystyrid hwy ond cyfansoddiadau israddol. Er hyny, yr oedd-ynt yn ddifyrwrch pur gyffredin ar amserau neillduol o'r flwyddyn, er yn bur foreu. Y mae'n dra thebyg i'r dull yma o chwareugerdd darddu o'r hen ddull a elwid "Hud a Lledrith."² Ymddengys bod hwnw mor hen, o leiaf, a Gruffydd ap Rhys, yr hwn oedd yn ei flodau yn y fl. 1135, am yr hwn y dywedir fel y canlyn :—

¹ Interludes.² Illusion and Phantasm.

GWEDI adynnill ei diroedd fe wnaeth Gruffydd ab Rhys Wledd anrhydeddus yn Ystrad Tywi ; lle y gwahoddde efe attaw bawb a ddeuent yn heddwch o Wynedd, a Phowys, a Deheubarth, a Morganwg, a'r Mers, a pharottoi pob moethus o fwydydd a diodydd, a phob ymryson Doethineb, a phob diddanwch cerdd arwest a cherdd llannau, a chroesawi prydyddion, a cherddorion, a chynnal pob *chwaraeon hud a lledrith, a phob arddangos.*¹

Dyna'r crybwylliad hynaf a welais i am "Hud a Lledrith;" ac wela'n canlyn ddarluniad o'r dull, a gymmerwyd, fel y dywedir, "O Lyfr Ieuan Fawr ap y Diwlith," ap Rhys Goch ap Rhicertt :—

CERDD Hud a Lledrith a fydd honno lle bo ymrysonau a chyfariaith nifer o ddyniaidon ynddi dan ledrihoedd amgen o fraint a gradd a chyflwr nag y byddant herwydd gwirionedd, a phob un yn ei radd a'i gyflwr Lledrith yn ymryson ag arall yngwrth neu ym mhlaidd yr hynn a ddodir yn gyfi ymryson rhyddynt, er dangos a fo cyfiawn ag anghyfiawn, a diddan ag anniddan, ar a fo ryddynt, parth digwydd a gwrth-digwydd, a rhyw a gwrthryw, a rhaid a gwrthraid er diweddu fal y dylyddai er anrhydedd a gofr i bob iawn a gwaradwydd a cholled a chosp i bob amgen na Iawn. ag aifwydd i bob drwg o gamp a gweithred a chynneddf, a Llwydd i bob daionus arnynt. Ag arddull hawl ag ateb y trefnir y gerdd gwrth a phlaidd, plaidd a phlaidd, a gwrth ag yngwrth Modd ybo ar Lun a chyfrith gwir parth y bod a'r digwydd yn y cant euhulo awelont o ddechreu hyd ddiweddd yn y bont yn credu mai Gwir y cwbl o'r arddangos dan ledrith. ag am hynny Cerdd Hud a Lledrith a gware Hud a Lledrith ag ymryson Hud a Lledrith a'i gelwid yn yr hen amser a Thwmpath Hud a Lledrith y lle ar gwyr a i dangoso ai gelwir yn awr. a gware miragl.²—O 'Rywiau Cerdd Dafawd herwydd y Ceinnyger o Lyfr Ieuan fawr ap y Diwlith.)³

Gwelir mai *cerddi* oedd yr hen Hud a Lledrith ; a Cherddi oedd yr Anterliwtiau hen a diweddar. Y mae tair o gerddi o'r ansawdd yma yn *Llyfr Du Caerfyrddin*, yr hynaf sydd ar gael o'r hen law-ysgrifau. Math ar ymddiddan ydyw y gyntaf sydd ynddo, rhwng "Myrtin (Myrddin) a Thalyessin" (Taliessin) ; a dechreu fel hyn :—

Mor truan genhyf mor truan.
Aderyv. am Keduyv a chaduan.
Oed llachar kyulauar kyulauan.
Oed yscuid o tryruyd o tryuan.

TALIESSIN.

Oed maelgun a uelun innman
Y teulu rac toryuulu ny thauant.

MYRTIN.

Rac deuur ineutur ytirran.
Rac errith. a gurrith y ar welugan.
Mein winev yn diheu a dygan.
Moch guelher y niuer gan elgan.
Och oe leith maur a teith y deuthan.

¹ Myv. Arch. t. 708.—Yr ysgrifenydd a Itaeiddiodd y geiriau yna.

² A Play of Miracles.

³ Iolo MSS. t. 85.

TALIESSIN.

Rys undant oet rychvant y tarian.
 Hid attad y daeth rad kyulaun.
 Llas kyndur tra messur y kuynan.
 Llas haelon o dinon tra uuan.
 Tryuir. nod maur eu clod. gan. elgan.¹

Cynnwys y gerdd bedwar o bennillion eraill 4 linell, a thri o rai 2 linell. Y mae'r un gerdd yn y *Myv. Arch.*, a dywedir yn y penawd mai o'r *Llyfr Du* y cymmerwyd honno hefyd. Os cywir hyny, rhaid bod y difynwr wedi newid y llythraeth, a rhai pethau eraill, fel y gwelir trwy gymharu y difyniad isod â'r un blaenorol :—

YMDIDAN

RHWNG MYRDIN WYLLT A THALIESSIN.
 ALLAN O'R LL. DU O GAERFYRDIN.

MYRD.

Mor truan genhyf mor truan a dery
 Am Kedvy a chavan
 Oed llachar Kyflavar cyflavan
 Oed yscuid o Tryvvuyd o truan

TAL.

Oed Maelgwn a welwn yn ymwan y deulu
 Rac ter y uulu ni thawant

MYRD.

Rhac deuwr yn nentur y tirran
 Rhac Errith a Churrith yar welugan
 Meinwineu yndiheu a dygan
 Moch gweler y nifer gan Elgan
 Och oē leith mawr ateith y deuthan

TAL.

Rys undant oedd rychwant y tarian
 Hyd attad y daeth rhad cyflawn
 Llas Cyndur tra messur y cwynan
 Llas haelon o ddynon tra fuan
 Trywyr nod mawr eu clod gan Elgan²

Yr ail gerdd o'r natur yma sydd yn y *Llyfr Du*, a ddechreu fel hyn :—

Dv dy uarch du dy capan.
 Du dy pen du duhanan.
 Ia du ae ti yscolan.
 Mi iscolan ysgolheic.
 Yscawin y puill iscodic.
 Guae. ny baut agaut guledic.³

¹ Skene, vol. ii. p. 3.

² Myv. Arch. t. 45.

³ Skene, vol. ii. p. 42.

Pennillion tair llinell yw y gerdd yna yn y *Myv. Arch.*; a dechreu fel y canlyn :—

I YSCOLAN

MYRDIN WYLLT AI CANT.

Du dy Farch du dy gappan
Du dy benn du dy hunan
Iad du ai ti Yscolan

Mi Yscolan Ysgolheic
Ysgafn ei bwyll Ysgodie
Gwae ni bawt a gawt gwledic¹

Cerdd o gyffelyb ansawdd i'r ail ydyw y drydedd sydd yn y *Llyfr Du*; a dechreu fel hyn :—

MARCHAUC agirch y dinas
Ae cun gwinion ae cirn bras
Nythadwaen. mi rythwelas.
Marchauc a kirch ir aber.
Y ar march cadarn kad fer.
Dabre genhiw nym gwatter.²

Cynnwys hon 33 o linellau; ac y mae wedi ei threfnu yn bennillion tair llinell yn y *Myv. Arch.*; ac y mae'r cyffelyb newidiad yn y llythraeth, &c. Dechreu fel y canlyn :—

YMDIDDAN

RHWNG UGNACH AB MYDNO, O GAER LEON A THALIESIN, O GAER DEGANWY.

TAL. 1.

MARCHAUC a girch y Dinas
Ae con guinion ae cirn bras
Nyth adwaen nu rythweles

UGN. 2.

Marchauc a circh ir Aber
Y ar March cadarn cadfer
Dabre genhiw nim gwatter³

Y mae tair cerdd o'r un dosparth yn y *Llyfr Coch o Hergest*; ⁴ ac y mae dwy o honynt yn y *Myv. Arch.* ⁵ Cynnwys y gerdd gyntaf sydd yn y *Llyfr Coch* 120 o linellau, yn bennillion tair llinell gan mwyaf; ond cynnwys y gerdd sydd yn y *Myv. Arch.* dros 400 o linellau, y rhai a ddosperthir yno hefyd, gan mwyaf, yn bennillion tair llinell, tra y mae rhai o'r pennillion gryn lawer yn fwy. Dechreu cerdd gyntaf y *Llyfr Coch* fel hyn :—

¹ *Myv. Arch.* t. 104.² *Sk.-ne.* vol. ii., p. 50.³ *Myv. Arch.* t. 44.⁴ *Skene.* vol. ii., pp. 218, 237, 421.⁵ *Myv. Arch.*, t. 108, 123.

KYUOESSI MYRDIN AG6ENDYD YCH6AER.

DEUTHUM i attat y atra6d
Ygnadaeth y gogled y gennyf.
Sy6 pob tut traeth6yt 6rthyf.

Yr g6eith arderyd ac erydon
Gwendyd ar meint dybyd arnaf
Encichiat kyued kwd af.

Kyuarchaf ym llallogan
Vyrdin g6r doeth darogenyd
Kan hepcoryd o honaf.
Pari an bun gantha6.

Yn y *Myv. Arch.* dechreu yr un gerdd fel y canlyn :—

KYVOESI MYRDIN A GWENDYD Y CHUAER.

1.

M. DEUTHUM i attat y adraut
Yngnadaeth y gogled y gennyf
Syu pob tyt traethuyt urthyf
Yr gueith Arderyd ac Erydon

2.

G. Guendyd er meint a dybyd arnaf
Eneichyad kyvod kud af
Cyfarchaf i'm llallogan
Merddin y chwedllau dysgygan
Ple edewaist dyfynan
Dymgoeu gorober
Dydd llawenydd yn ehangder

3.

Kyvarchav ym llogellan Vyrdin
Gur doeth darogenyd
Kan hepkoryd o honau
Pan au bun ganthau.

Y mae'r gwahaniaeth a nodwyd yn yr hen ganiadau hyn yn profi bod yr un cyfansoddiadau mewn gwahanol ysgriflyfrau. Heb law y caniadau crybwylledig sydd ar gynllun yr hen "Hud a Lledrith," y mae pump o ganiadau eraill o gyfansoddiad cyffelyb yn y *Myv. Arch.* a elwir fel y canlyn :—

Ymddyddan Ar.hur a Chai a Glewlwyd.¹

Canig fechan ydyw hon, yn cynnwys rhyw 51 o linellau ; a dechreu fel hyn :—

PA gwr yw y Porthavr
Gleivid Gafaellawr
Pa wr ai govin Arthur a Chei gwin
Pa imdda genhit gwin goreu im bid
Ym ty ny ddoi onis gwaredy

¹ *Myv. Arch.*, t. 127

Ymddiddan rhwng Arthur Frenin a'i Ail Wraig Gwenhwyfar.¹

Cerdd fechan ydyw hon hefyd, allan "o'r Ll. Gwyrdd," yn cynnwys dim ond rhyw 30 o linellau. Dechreu fel y canlyn :—

- A. Du yw fy march a du dana
Ac er dwr nid arswyda
A rhag ungwr ni chilia
- G. Glas yw fy march o liw dail
Llwyr ddirmygid mefl mawrair
Nid gwr ond a gywiro ei air

Englynion Ymddiddan rhwng Arthur ab Uthur a'i nai Liwlod ab Madog ab Uthur oed farw, ac wedi ymrithio yn rhith Eryr.—Allan o'r Llyfr Gwyrdd.²

Cynnwys y gerdd hon 53 o bennillion tair llinell, fel y ddau ganlynol, sydd flacnaf yn y gân :—

- A. Y sy ryfedda gan wy fardd
Ar flaen dâr a i brig yn hardd
Pa edrych eryr pa xwardd
- E. Arthur bell glod oddiwes
A'th lu llawenydd a'th les
Yr Eryr gynt a'th weles.

Englynion a fu rhwng Trystan Fab Tallwch a Gwalchmai Fab Gwyar, gwedi bod Trystan dair blynedd allan o Lys Arthur ar sorriant, a gyru o Arthur wyth ar hugain o Filwyr i geisio ei ddal a'i ddwyn at Arthur ac e fwriedd Trystan hwynt i lawr bob un yn ol eu gilydd, ac ni ddaeth er neb ond Gwalchmai a'r Tafod Aur.³

Hon ydyw y bedwaredd gerdd a nodwyd ; a chynnwys 22 o bennillion fel y rhai canlynol :—

- G. PRWYSTYL sydd tan anianawl
Pan fo'r mor yn ei chanawl
Pwy wyl filwr anfeidrawl
- T. Prwystyl fydd tonn a tharan
Cyd bont brwystul eu gwahan
Yn nydd trin mi yw Trystan
- G. Trystan barabl difai
Yn nydd trin nid ymgiliai
Cydymaith yt oedd Gwalchmai

Ymddiddan y Saint a Chybi. Wrth fyned i Ynys Enlli.⁴

Hon ydyw y bummed gerdd a nodwyd ; ac y mae'n eglur mai "ymddiddan" ydyw fel y lleill a fuant dan sylw ; ond ymddengys nad yw yn agos mor hen a rhai o honynt, yn enwedig y rhai sydd yn y *Llyfr Du* a'r *Llyfr Coch*. Gan nad yw hon ond ber, dodir hi yma yn gyflawn :—

¹ Myv. Arch., t. 130.

² Yr un, t. 130.

³ Yr un, 132.

⁴ Yr un, 134.

PAN oedd saint senedd Brevi
 Yn ol gwiw pregeth Dewi
 Drwy arch y Prophwydi
 Yn myned i Ynys Enlli
 Yno i gofynnent i Gybi
 Bwy borthiant sydd ar weilgi
 Duw a ro cyngor ini
 Ar dir a mor yleni
 Cann haws gan Dduw roddi
 Na chan ddyn diddim erchi
 Mal medd y Prophwydi
 Ddau parthiant byd or heli

Gweddiwn Dduw o ddiffri
 A goddefwn galedi
 Ni chair lles o ddiogi
 Trech llafur no direidi.

Yno i dywawd Eleri
 O chredir llyfr Genesis
 Ni rodd Duw ddyn geni
 Heb lafur iddo i'w borthi

Wellwell fydd Duw oi addoli
 Waethwaeth Diawl oi berchi
 Dirwest fydd a gweddi
 A orfydd bob caledi.

Y mwyaf yn nydd cyfri
 Y mwyaf ei amberchi
 Yr hacraf ei ferthyri
 Teccaf a fydd gerbron Celi

Nag ofnwch for heli
 Mwy nor fwyalch ynghelli
 Nid ardd nid erddir iddi
 Nid llawenhach neb no hi.

Archwn i Dduw un a thri
 Arglwydd yr holl arglwyddi
 Iesu ar ei hun gweli
 Yn dwyn o bob cyfelrhi

Y mae'r holl ganiadau a nodwyd ar ddull "Hud a Lledrith," i'r sawl y mae yr Anterliwtiau diweddar yn lled debyg o ran eu cyfansoddiad. Y mae llythyaeth a geiriadaeth y pum cerdd a nodwyd olaf, yn profi nad ydynt hynach, os cyn hyned, a dechreu cyfnod y testyn; a dilys ddiammheu bod rhai o honynt yn llawer diweddarach.

C

PENNOD II.

PWYSIGRWYDD AMSEKYDDIAETH CYFANSODDIADAU; ESAMPLAU O LENEYDDIAETH GWAHANOL GANRIFOEDD; EFFAITH GEIRIADUR Y DR. PUGHE AR LENEYDDIAETH GYMREIG; CYNGHANEDD YN AWGRYMU AMSER PRYDYDDIAETH GYMREIG; Y BEIRDD YN BRIEF LENORION YR HEN GYMRY YM MHOB CANGEN O LENEYDDIAETH; YR HEN FEIRDD YN WYR BONEDDIG TIRIAWG, AC YN GERAINT A CHYFFEILLION I'R BREINIOEDD A'R TYWYSOGION; HEN YSCRIF AR SWYDDI BEIRDD GWYNEDD; TREFN GWYR WRTH GERDD DAFOD YN OL CYNLLUN Y DEHEUBARTH; ANSAWDD LLENEYDDIAETH GYMREIG WEDI NEWID ERBYN DECHREU CYFNOD Y TESTYN.

DICHON nad oes dim mwy pwysig yng nglŷn â hanes llenyddiaeth nag amser y cyfansoddiadau; a chan fod dull y llythyr-aeth a'r eiriadaeth yn gynnorthwy gwych i farnu hyny, dodir ychydig enghreifftiau ger bron yma o'r gwahanol ddulliau a arferid o'r hen amseroedd hyd derfyn cyfnod y testyn, i ysgrifenu y Gymraeg.

*Y 6ed Ganrif. Boddfaen Cadfan Sant.*¹

Tangrugcimal ted Guadgan marth molt
Clode tuar tricet nitanaam,
Cincen-celen arteranedclubmarciau.

Hyny yw :—Tan grug Cynfael tedd Gadfan marth
moled ei glod ef ddaear triged nid anaf,
Cyngen celain ar du rhwng dybryd muriau.

Y 7fed Ganrif. Ysgrif yn Llyfrygell Caergrawant.

Niguorocosam nenheunaur
Henoid mitelu nit gurmaur
Mi amfranc dam ancalaaur.

Hyny yw :—Ni orgys-gaf ni hunaf un awr
Heno ly nheulu ni-l gorfawr
Mi a'm ffrangc¹ daf a'n callawr.

Yr 8fed neu'r 9fed Ganrif. Ysgrif yn Rhylychain.

Ni ceinguodeimisauh.

Hyny yw :—Ni chain oddefasoch.

¹ Dyn a'r penawd a ddyry T. Stephens, yn y *Beirniad*, *Llyfr* iv., t. 384; ond beirniad y Traethawd hwn a ddywedant fel hyn;—"Nid oes un rheswm da dros ystyried y cerfiad sydd ar Garreg Towynd fel enghraifft o Gymraeg y chweched ganrif, yn gymalnt ag nad oes un dehongliad derbyniol o hono wedi ei gyflwyno i'r cyhoedd."—*Third Ann. Rep. of the Nat. Eist. Asso.* p. 13.

¹ Tybir mai gwas y Bardd oedd Ffrangc.

Cyfraith Hywel Dda. Copi o'r 13edd neu'r 14edd Ganrif.

Mae elle etal estraun o alanas kemint abraut enelle enuicer aralanas maab ad duco iuami kenedel aralle kan eneb aueicus drostau.

Hyny yw:—

Mae y lle y tâl estron o alanas gymmaint a brawd yn y lle y cynnygier ar alanas mab a ddygo ei fam i genedl arall y gan y neb a feichws drosto.

Y 14edd Ganrif. Y fl. 1346. Llyfr Llanddewi Bref.

Llyma synhvyr euangel Ieuan abostol, hervud ydyall ar synhvyr arodes duv yr neb ae troes o ladin ygkymraec.

Hyny yw:—

Llyma synwyr Efengyl Ieuan [Ioan] apostol, herwydd y deall a'r synwyr a roddes Duw i'r neb a'i troes o'r Lladin yng Nghymraeg.

Y 15fed Ganrif. Llyma Gyroydd Kynog Sant.

Kadw yn tir kaedwad da
Kynog o wlad vrekania
Pen raith y wlad yth adwyd
Perchen a mab brychan wyd.

Hywel abdayydd ap jevan ap Rys ai kant.

Yr 16fed Ganrif. Cyfieithiad William Salesbury o'r Testament Newydd, 1567.

A's can hyny, pan ddel yr oll Eccles ynghyt yn vn, a phawp yn dywedyt tavodau *dicithr*, daw y mewn rei andyscedic neu rei eb gredu, any ddywedant, eich bot wedy gorphwylllo (ynvydu¹)? Eithyr a's pawp a propwytant, a' dyvot y mewn vn eb gredu, neu vn andyscedic, ef a arguoeddir (vejir) gan bawp, ac a vernir gan bawp. Ac velly yr amlygir dirgeloedd (cyvrinache) ei galon, ac velly y cwmp ef ar ei wynep ac yr addola Diluw, ac a ddywait yn 'oleu vot Duw ynoch yn ddiaw. Beth bellach, vroder? Pan ddeloch yn-cyt *wrth val* y bo gan bop vn o hanoch psalm, *neu* vot ganto ddysceidiaeth, *neu* vot ganto davot, *neu* vot gantho *datgudd*, neu vot gantho esponiat (ddeogliat), byddet (gwneler) pop peth oll er *adailith*.— 1 Cor. xiv., 23—26.

Yr 16fed Ganrif eto. Cyfieithiad y Dr. Wm. Morgan, 1588, o'r un ymadroddion.

23. Am hynny pan ddel yr eglwys yng-hyd oll, a phawb yn llefaru â thafodau, a dyfod i mewn rai annyscedic neu anghredadwy, oni ddywedant mai ynfydu yr ydych?

24. Eithr pe prophwyde pawb, a dyfod i mewn o anghredadyn ne annyscedic, efe a argyoeiddid gan bawb, [ac] a fernid gan bawb.

25. Ac felly yr amlygid dirgeloedd ei galon, ac felly y syrthie ar ei wyneb, ac yr addole Dduw, ac y dywede mai Duw sydd ynoch yn ddiaw.

26. Beth gan hynny yw [hyn] frodyr? pan ddeloch yng-hyd, pob un sydd ganddo Psalm sydd ganddo athrawiaeth, sydd ganddo dafodiaeth, sydd ganddo weledigaeth, sydd ganddo gyfieithiad, gwneler pob peth er adeiladaeth.

Yr 17fed Ganrif. Yr Ail Argraffiad o Gyfieithiad y Dr. Richard Parry a'r Dr. John Davies o Fallowd o'r un ymadroddion. Argr. 1630. (Nid yw argr. 1620 wrth law).

23. Gan hynny, os daw yr Eglwys oll ynghŷd i'r vn lle, a llefaru o bawb â thafodau *dicithr*, a dyfod o rai annyscedig neu ddi-grêd i mewn; oni ddywedant eich bod yn ynfydu?

24. Eithr os prophwyda pawb, a dyfod o vn di-grêd neu annyscedig i mewn, efe a argyoeiddir gan bawb, a fernir gan bawb.

¹ Y geiriau sydd ar ymyl y dall yw y rhai hyn sydd yma rhwng cromfachau.

25. Ac felly y gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg, ac felly gan syrthio ar ei wyneb, *efe* a addola Dduw, gan ddywedyd fod Duw yn wir ynoch.

26. Beth gan hynny frodyr? pan ddeloch ynghyd, y mae gan bob un o honoch Psalm, y mae ganddo athrawiaeth, y mae ganddo dafodiaith, y mae ganddo ddatcuddiad, y mae ganddo gyfieithiad: gwneir pob peth er adeiladaeth.

Gwelir y dechreu cyfnod y testyn o gylch amser y copi a nodwyd o Gyfreithiau Hywel Dda, yn nechreu y 14edd ganrif; ac y terfyna ymhen 20 mlynedd ar ol cyhoeddi yr ail argraffiad a nodwyd, o gyfieithiad y Dr. Parry, yn y fl. 1630. Os gwna'r darlennydd ei hun yn berffaith gydnabyddus â llythraeth y gwahanol enghreifftiau a nodwyd, bydd hyn yn gymmorth nid bychan iddo benderfynu o gylch pa amser yr ysgrifenydd y cyfansoddiad a chwilir ganddo.

Y mae peth gwahaniaeth rhwng llythraeth rhai geiriau yn yr argraffiadau diweddaraf o'r Bibl, yn oed a'r ail argraffiad a nodwyd o gyfieithiad y Dr. Parry, a gyhoeddwyd yn y fl. 1630. Nodir yma un enghraifft er dangos hyn, o argraffiad Rhydychain, a gyhoeddwyd yn y fl. 1857; sef, yr un ymadroddion ag a ddifynwyd eisoes o'r argraffiadau a nodwyd.

23. Gan hynny os daw yr eglwys oll ynghyd i'r un lle, a llefaru o bawb â thafodau *dieithr*, a dyfod o rai annysgedig neu ddigred i mewn; oni ddywedant eich bod yn ynfydu?

24. Eithr os prophwyda pawb, a dyfod o un digred neu annysgedig i mewn, *efe* a argyhoeddir gan bawb, a fernir gan bawb.

25. Ac felly y gwneir dirgelion ei galon ef yn amlwg; ac felly gan syrthio ar ei wyneb, *efe* a addola Dduw, gan ddywedyd fod Duw yn wir ynoch.

26. Beth gan hynny, frodyr? pan ddeloch ynghyd, y mae gan bob un o honoch psalm, y mae *ganddo* athrawiaeth, y mae *ganddo* dafodiaith, y mae *ganddo* ddatcuddiad, y mae *ganddo* gyfieithiad. Gwneir pob peth er adeiladaeth.

Bu cyhoeddiad Geiriadur Cymraeg a Saesneg y Dr. W. O. Pughe yn y blynyddoedd 1803 ac 1832, yn foddion i wneud newidiad dirfawr yn llythraeth pob llyfrau Cymraeg, oddi eithr y Bibl; ac effeithiodd gryn raddau mewn amser ar lythraeth amryw eiriau yn y Bibl hefyd, yn enwedig yn argraffiadau y *Bibl Gymdeithas Frytanaid a Thramor*; megis *angelion*, yn lle *angylion*; *daiar*, yn lle *dacar*; *i waered*, yn lle *i wared*; *oedfa*, yn lle *odfa*, ac amryw eraill.

Ei gynllun ef oedd llythyrenu pob geiriau Cymraeg, yn ol ei syniad ef am eu gwraidd a'u tarddiad, heb oddef i *sain* gael odid ddim effaith ar eu llythraeth, oddi eithr "newidiad

rheolaidd” y naw cydsain a elwir “y cydseiniaid cyfnewidiol;” sef p, t, c; b, d, g; m, rh, ll. Yn unol â’r syniad anghywir yna, ysgrifennai efe a’i ddysgyblion y geiriau canlynol, a’u cyffelyb, fel hyn:—*ammharod, yu nghyd, yu Mon*; cwbyl, amyl, llyfyr, &c. Ond erbyn hyn y mae ein hysgrifenwyr goreu a chywiraf yn rhoddi lle priodol i *sain a tharddiad* geiriau; ac yn ysgrifenu *ammharod, ynghyd* (neu *yng nghyd*), *ym Mon*, cwbl, a’r cyffelyb.

Heb law llythraeth a geiriadaeth, peth arall a ddyry gynnorthwy arbenig i ddyfalu am amser cyfansoddiadau Cymreig pan fyddont yn brydyddiaeth, ydyw absenoldeb neu bresenoldeb *cynganedd* ynddynt. Ceir achlysur i sylwi yn fanylach ar hyn, pan ddelir at yr amser y sefydlwyd cynganedd a’i pherthynasau yn ddefodol. Wrth fyned rhagom hefyd y ceir achlysur i fanylu ar nifer ac ansawdd cyfansoddiadau llenyddiaeth Gymreig.

Crybwyllwyd eisoes mai’r Beirdd oedd prif lenorion yr hen Gymry yn nhair cangen fawr, hynafol llenyddiaeth; sef prydyddiaeth, traethodaeth, a cherddoriaeth. Gwelwyd eisoes fod cyfreithiau Hywel Dda yn dangos bod y Bardd Teulu a’r Pencerdd, sef y Bardd Cadeiriog, yn gerddorion. Ymddengys bod hyn yn drestadaeth hynafiaid y Cymry; canys dywed Diodorus Siculus fod y Beirdd Celtaidd yn canu ar offer tebyg i delynau, gan foli rhai a goganu eraill.¹ Strabo hefyd a ddywed mai cantorion a phrydyddion oedd y Beirdd;² ac Ammianus Marcellinus a dystia y canai’r Beirdd ganiadau gwychion ar eu telynau, am weithredoedd nerthol eu gwroniaid.³

Dros ba hyd y parhaodd y Beirdd yn brydyddion a cherddorion, nis gall yr ysgrifenydd benderfynu yn fanwl; ond yn Eisteddfod Caerfyrddin yn y fl. 1451, ystyrid hwy yn ddau ddosparth gwahanol o lenorion, fel y ceir gweled yn y lle priodol. Y mae’n eglur mai prydyddiaeth oedd prif gangen llenyddiaeth Gymreig dros amser maith o gyfnod y testyn; a’r Beirdd oedd prif lenorion y genedl mewn traethodaeth, cystal ag mewn prydyddiaeth a cherddoriaeth.

¹ Dio1. Sic. lib. v.² Strabo, lib. iv.³ Amm. Marcell., lib. xv. c. 9.

Yr oedd y Beirdd gynt, braidd yn ddieithriad, yn “wŷr boneddig tiriawg ;” ac yr oedd amryw o feirdd cyfnod y testyn felly. Y mae genym sicrwydd yng Nghyfreithiau Hywel Dda, fod eu “tir yn rhydd” i'r Pencerrdd a'r Bardd Teulu, heb son * am luaws o fanteision eraill a berthynent iddynt ; ac ni feiddiai “taiog” na “gŵr caeth ddysgu ysgolheigddod, gofaniaeth, na barddoniaeth,” dan boen cospedigaeth drom.

Heb law mai'r Beirdd oedd ceidwaid achau a hanes eu noddwyr pendefigaidd, ac mai hwynt-hwy oedd athrawon eu hiliogaeth, yr oeddynt hefyd ymhlith eu cymdeithion penaf, fel y tystia Phylip Brydydd wrth ymliw â'i noddwr Rhys Gryg, gan ddywedyd,—

NAM cassa pwylla pylliawe eluynt rys
Y rwng ros ac epynt
Bart vum itt trimmud tremynt
A chedymdeith kanweith kynt.¹

Anfonid y Beirdd hefyd yn fynych ar negesau pwysig oddi wrth y naill benadur at y llall : ar fyr, edrychid ar y Bardd fel dirprwywr neu gynnrychiolydd ei noddwr. Darlunia Meilyr y Bardd mewn ymadroddion angerddawl, y fath anrhydedd a fwynhai efe yn llys Gruffydd ap Cynan, fel y canlyn :—

Yfais gan deyrn o gyrn eurawe
Arfod fact feitiad anghad weiniawe
Yn llys Aberffraw yr ffaw ffodiawe
Bum o du gwledig yn lleithiawe
Eiliweith yt aethum yn negessawe
O leufer llyw camawn iawn dywysawe
Bu fedd aegylehwy yn fodryawe²

Parhaodd swyddi ac anrhydedd y Beirdd dros hir ennyd yng nghyfnod y testyn, fel y crybwyllwyd eisoes. Dywed y Dr. D. Powel mai swydd y beirdd oedd cyfansoddi cywyddau ac odlau ; a chadw cof am arfbeisiau ac achau boneddigion ; ac mai hwy oedd yn cael y parch mwyaf yn eu plith.³ Mewn hen ysgriflyfr, yn llyfrgell Bodleian, yn Rhydychain, a nodir K.K.K. t. 207, y mae hen ysgrif a elwir “Y Gyssefin Bennod o Dri Chof Ynys Brydain,” yr hon a ddyry hanes ddyddorol am swyddi a thaliadau y beirdd yn ystod yr hen amseroedd,

¹ Myv. A:ch., t. 257.

² Myv. Arch., t. 141.

³ Powel's Hist. Cambria, p. 191.

ynghyd â rhan helaeth o gyfnod y testyn; o'r hon ysgrif y dodir yr arallciriad canlynol:—

Swydd beirdd Cymru oedd cadw Tri Chof Ynys Brylain, yr hyn a elwir hefyd Hynafiaethau Brytanaidd; a chynnwysai dair rhan, a elwir Tri Chof. Pan urddid y prydyddion ar ddechreu eu gyrfa farddonol, gobrwyid hwynt yn driphlyg am gadw y Cofion hyn; un wobr am bob Cof, fel y dadgan yr hen fardd Tudur Aled, yr hwn a obrwywyd yn gyfelyb ar ddechreu ei yrfa farddonol; ac a raddiwyd yn neithior freiniol Ifan ab Dafydd ap Ithel o Degeingl, yn sir Fflint; a chofnoda Tudur y dygwyddiad ym marwnad yr Ifan ab Dafydd ap Ithel hwnw, fel y canlyn:—

Cyntaf neuadd i'm graddiwyd,
Fu oror llys feryr llwyd;
Am Dri Chof i'm dyrchafodd
Yn neithior; llyma'r tair rhodd.

Dengys hyn iddo gael ei dlyrchafu a'i urddo yn y neithior honno am ei wybodaeth o'r Tri Chof; ac anrhegwyd ef â thair gwobr wahanol.

Y Cof cyntaf o'r Tri yw hanes gweithredoedd canmolaudd breinioedd a thywysogion Brylain a Chynru.

Yr ail Cof o'r Tri, yw jaith y Brytanaid, am bob gair a sill o'r hon y dyry'r beirdd gyfrif pan y gofynir hyny ganldynt; er mwyn cadw yr hen iaith, ac atal iddi gael ei chymmysgu, a thafodieithoedd estronol gael ei dwyn iddi i'w diraddio.

Y Trydydd Cof a gynnwys achau y pendeligion, ddisparthiad eu tiroedd,¹ a thyniad eu harfau, yr hyn a elwid arwydd-farddoniaeth.

¹ Yn ol yr hen gyfreithiau Cymreig, mesurid y tir, a rheidid ef fel y canlyn:—Tri hyd gronyn haidd a wnant fodfedd; tair modfedd a wnant half; tair palf a wnant droedfedd; tair troedfedd a wnant gan; tri cham a wnant naid; tair naad a wnant rwn, neu dir; a mil o dir a wnant tlltir (mil-tir). Dyma oedd yr hen hyd-fesuraa.

Eto: mewn mesur arwyneb, dodid tri hyd gronyn haidd yn y fodfedd; tair modfedd yn y half; tair palf yn y droedfedd; pe-lair troedfedd yn y fferiva (dau fer); wyth droedfedd yn y meiau; deuddeg troedfedd yn y caselliau; un droedfedd ar bymtheg yn yr hiriau (rhwd, ar lafar gwlad yn awr—a *pale*, a *roft*); yr hyn oedd lled erw o dir; a deg hiriau ar hugain oedd hyd erw gyfreithiol o dir; pedair erw yn y tyddlyn; pedwar tyddlyn yn y rhandir; pedwar rhandir yn y gafael; pedur gafael yn y dref; pe-lair tref yn y faenor; deuddeg maenor a dwy dref yn y cwmwd; a dau gwmwd yn y gantref.

Yn ol y cyfrif yma, yr oedd pob tyddlyn yn cynnwys pedair erw; pob rhandir yn cynnwys un erw ar bymtheg; a phob gafael yn cynnwys pedair erw a thriugain. Yr oedd pob tref yn cynnwys deugain a haenar a chwech o erwau o dir lafar, neu dir ffrwythlawn, heb na gwaendir porfeldir, na chocttir yn y cyfrif; canys ni fesurid dim ond tir ar ffrwythlawn yn unig; a chyfrifid pob tir arall yn gyttir, sef tir rhwng pawb, fel y dylai fod eto. Yr oedd pob maenor yn cynnwys pe-lair tref; pob cwmwd, haenar cant o drefydd; a chantref yn cynnwys cant, fel yr arwydda yr eaw.

Yr oedd pob gwlad, neu lywodraeth arglwydd, yn ei ei ddisparthu wrth y cantrefi; ac yr oedd i bob cantref, cwmwd, maenor, a gafael eu henwau priod; megis cantref Aberffraw; Cwmwd Llŷon, a'r cyffelyb. Llywodraeth un arglwydd neu dywysog oedd gwlad, pa un bynnag ai cantref ai ychwaneg a gynnwysai'r wlad honno. Felly, pan ddiigwyddai fod gwr wedi myned o wlad i wlad, y moddwl fyddai ei fod wedi myned o lywodraeth un arglwydd i lywodraeth un arall; megis, er esampol, pan gytlanwyd dyn ryw drosodd yng Gwynedd, a ffoi i Bowys, byddai wedi myned o un lywodraeth i un arall, trwy'r hyn yr osgosai gomp cyfraith Gwynedd, am ei fod allan o'r wlad. Yr oedd Tegeingl yn wlad, er na chynnwysai ond un cantref; ac felly yr oedd Dyffryn Clwyd, yr hwn hefyd ni chynnwysai ond un cantref; a phan ffoai rhywun o Degeingl i Ddyffryn Clwyd, byddai allan o safael cyfraith Tegeingl; a'r un modd, pan ffoai un o Ddyffryn Clwyd i Degeingl, neu ryw wlad arall. Weithiau, cynnwysai cantref ddau gwmwd; bydd arall tri, pedwar, neu bump; megis Cantref Morganwg, yn yr hwn yr oedd pump o gymmydau.

Yr oedd gwobr deilwng i'r hen feirdd o bob tir llafur yn y wlad, at eu cynnalïaeth; ac yr oeddnt yn gael myned ar gylehdaith glerwrol, neu gardodaidd, unwaith yn y tair blynedd, i ymweld â thai holl foneddigion y wlad, yr hyn a elwid 'Cylch Clera'; a rhoddai hyn fantais iddynt i gadw y Tri Chof dywededig. Yn ystod y cylchoedd clerwraidd hyn, byddent yn casglu hanes pob peth a wneisid ac a ddigwyddasai yn ystod y tair blynedd a aethent heibio, ymboch gwlad a berthynai i'w swydd, gan eu hysgrifenu mewn llyfr. Felly, nis gallai r bardd fod yn anhyspys o unrhyw ddygwyddiad pwysig; megis marwolaeth rhyw ŵr mawr, ei hiliogaeth, dosparthiad ei dir, ei arfbais, a'i blant ymboch cylch clera. Pan ar y teithiau hyn, derbyniai r beirdd dair gwobr, sef rhoddion gan y boneddwr a'u harfollid yn ei dŷ; a'r enw a roddid ar y cyfryw wobrau oedd clera.

Cerdd foliant y gelwid cân a gyfansoddid er molï boneddwr, neu ei foneddïges, yn ystod ei fywyd ef neu hithau.

Cerdd farwnad y gelwid cân a gyfansoddid er cof am weithredoedd canmoladwy gwŷr ardderchog, ac er galar o blegid eu marwolaeth.

Yr enw a roddir i'r sawl a nodwyd yw gwŷr boneddig; ac nid oes gan neb hawl i'r enw hwnw, ond a fo wedi hanu o freninoedd neu dywysogion Brydain; a rhaid i bob boneddwr esgyn i ryw ŵr breninol, oddi wrth yr hwn y cafodd ei dir a'i arfbais yn y dechreuad. Gelwid boneddwr wedi disgyn o dad a mam boneddïgaidd gan y gyfraith, yn 'foneddig cynnwynawl,' sef boneddig perffaith. Boneddig yw y radd uchaf a all neb gael; a pharha yn ei waed o'i enedigaeth hyd ei angau; ac nis gellir ei throsglwyddo i neb; ac amhosibl amddifaflu neb o honi a'r a'i meddianno yn wirioneddol. Gellir cymmyrd pob urdd neu radd arall oddi ar ŵr, neu gall ddiplannu trwy farwolaeth; ond erys y radd yma yn ei waed i'w hiliogaeth, fel nas gellir ei gwahanu oddi wrtho. Y mae amryw fŷr cyffredin yn ddiweddar wedi cymmyrd y radd o fonedd; ond nid ydynt felly mewn gwirionedd, er y gelwir hwy felly o foegarwch, o blegid eu cyfoeth, neu rhinweddau; eithr personol yn unig yw'r pethau hyn, tra y mae bonedd yn ddirange a pharhaol. Gellir canfod oddi wrth hyn fod gan bendeufigion y wlad ddyddordeb arbenig yn y Tri Chof, neu hanes gweithredoedd eu hynafiaid a'u ceraint, a chadwraeth yr iaith, yr arfbaisiau, yr hiliogaeth, a dosparthiad y tiroedd a gofnodid. Am hynny ni sefydlwyd talu eu gobrau i'r beirdd heb achos arbenig; ac nid arfollid hwy yn haelionus yn eu cylchoedd clera heb wir reswm; gan y csglid holl hanesion a gweithredoedd nerthol y breninoedd a'r pendefigion, ac y cofnodid hwy gan y beirdd, y rhai a'u trosglwyddent i'r oesau dyfodol yng ngherddi moliant a marwnadau y pendefigion a gyflawnt wrolgampau ar faes y gwaed. A chan y cyfansoddid yr hanesion hyn o dair blynedd i dair blynedd, yr oedd yn amhosibl celu na gwyrddroi y gwirionedd. Heb law hyn, yr oedd y gyfraith yn gweinyddu cospau llymion ar y beirdd, sef carehariat maith, coll bywoliaeth ac anrhydedd, ynghyda dirfawr sarhâd, os cofnodai neb o honynt ddim fel gwirionedd na byddai wirionedd, mewn unrhyw gân neu hanes a gyfansoddid ganddynt.

Ni ddysgrifiai neb o'r beirdd unrhyw frwydr heb fod yn llygad-dyst o honi; canys rhai o'r prif feirdd yn bur fynych a fyddent gad-lywyddion y brwydrau. Y beirdd hefyd a eisteddnt mewn cynghor ar y maes; a hwy oedd hyspyswyr y brenin, neu'r cadlywydd, o agwedd y frwydr. Felly nis gallent fod yn anhyspys o ddim a ddygwyddai ym maes y frwydr, am eu bod bob amser yn bresennol.

Wedi i'r Normanïad ennill rhyw barth o'r Dywysogaeth, gosodent raglawïad neu oruchwyflwr yn y parth hwnw, yr hwn a alwai'r Cymry yn *steyddog*; a galwent yr arglwyddïaeth y byddai ynddi yn *steydd*, a elwir weithian yn gyffredin yn *sir*. Yr oedd gwaith y swyddog hwnw yn gyfelyb i waith *sirydd* yn yr oes bresennol.

Y Bardd oedd swyddog neu srydd ei arglwydd Cymreig yr hwn, fel y dywed yr hen ysgrif uchod, oedd i ofalu, nid yn unig am achau ac arfbaisiau ei arglwydd, ond hefyd am ddisparthïad ei diroedd yn gystal; yr hyn a ddengys bod gwaith y bardd yn swydd bwysig a chyfrifol dros ben.

¹ Yr oedd naw gradd ymhlith yr hen Gymry:—Brenin neu deyrn, tywysog, iarl, arglwydd, barwn, breyr neu uchelwr, gwreng (*yeoman*), alltud, a chaeth. Yr oedd gan bob un o'r naw gradd hyn dri daliad gwahanol o diroedd; megis maerŵr, ucheldir, a phriodoldir. Yr oedd enwau eraill hefyd yn eu plith yn deillïaw o enedigaeth, swydd, neu urddas; ond cynuwyd hwy oll dan y naw gradd arbenig a nodwyd.

Gwelsom sefyllfa y Bardd Teulu a'r Pencerdd yn y llys yng 'Ngyfreithiau Hywel Dda.' Heb law hyny, rhoddid tlws ar lun cadair i'r prif bencerdd ar ei urddiad, yr hwn a grogid wrth ysnoden, neu gadwyn a roddid am ei wddf. Yna gelwid ef yn Fardd Cadeiriog; ac eisteddai ar gadair yn llys y brenin neu'r tywysog yn rhinwedd ei urddas fel bardd, yr hyn nid oedd gyfreithlawn i neb ond Bardd Cadeiriog.

Pan fyddai'r Bardd Cadeiriog farw, rhoddid y tlws i fynu weithiau trwy gyd-syniad y beirdd a phawb eraill, heb gydymgais, i'r hwn a fernid yn benaf yn y wlad honno o ran medr a gwybodaeth; ond os heriai rhyw fardd arall ef i gydymgais, nis gellid ei roddi iddo heb iddo ei ennill yn deg trwy fuddugoliaeth, yn ol barn gwlad ac arglwydd.

Yr oedd y beirdd yn gyffredin, fel y crybwyllwyd, yn wŷr o achau uchel, ac yn synych yn hanu o'r tywysogion a'r hen freninoedd, y rhai a gyfarchent fel eu ceraint a'u cyfeillion. Fel hyn y cânt Bleddyn Fardd :—

Collais a gerais o gâr—ac arglwydd,
Erglyw ein tramgwydd, tryngwyn anwar !
Collais chwe theyrn cedyrn cadfar,
Chwech eryr cedyrn cadr eu darpar ;
Llywelyn a'i blant blaengar—frodorion,
A'i haelion wyrion ; oer eu galar.

Cynddelw Brydydd Mawr hefyd a gyfarchai Madog ab Meredydd, tywysog Powys, fel ei arglwydd a'i gydymaith, neu ei gydfardd, fel y canlyn :—

Cyfarch y'm rhi rad obaith ;
Cyfarchaf, cyferchais ganwaith,
Yn profi prydu o'm prifaith—eurgerdd,
Y'm harglwydd gydymaith.

Mewn cyffelyb fodd yr honai Iolo Goch garenydd Æg Ithel ap Robert, o Goed y Mynydd, Tegeingl, fel hyn :—

Hyd ar untro clo y clod,
Er un llwyth o Ronwy Llwyd,
Post diefrydd pais diyfrwyd,
A'n henfeistr gwys yn hanfod
Cydwesog cof diweirsalm,
Fum âg ef yn dolef dalm.

Fel hyn gwelir bod yr hen feirdd yn oes y tywysogion yn geraint a chyfeillion iddynt; ac yn yr oesau dilynol, ar ol y tywysogion, yr oeddynt yn geraint i ben-defigion y wlad, megis yr oedd Iolo Goch i Ithel ap Robert, a Llywelyn Goch ab Meirig Hen i deulu pendefigol Nannau. Ni feiddiai mab taioŷ ddysgu celfyddyd barddoniaeth yn amser yr hen dywysogion Cymreig; ond pan ddiflannodd y rhai hyny, symmudwyd y tersyn, a goddefwyd i bwy lynnag a feddai ddawn ac athrylith ddysgu celfyddyd y beirdd, a chymmeryd eu hurddo, ond dan yr enw prydyddion.

Pan gyhoeddwyd cyfreithiau gorthymus Edward I.,¹ a'i olynwyr, cymmerth y pendefigion Cymreig y Beirdd dan eu nawdd; annogasant hwy i dderbyn dysgyblion cymhwys o ran dawn ac athrylith i'r alwad; a rhoddasant iddynt eu hawliau, eu rhagorfreintiau, a'u harfollau, megis yn yr hen amseroedd. Ond weithian, ysywaeth! y mae mawr wybodaeth y beirdd, a'u teilyngdod, bron wedi llwyr edwino a darfod o'n plith.²

Nid oes dim bri i'r prydyddion yn awr chwaith, o blegid amryw resymau. Nid yw'r beirdd mwyach yn parhau eu croniciâu, er pan ddiddymwyd y gyfraith trwy farwolaeth y tywysogion, gweithredoedd y rhai yr oeddynt yn rhwym i'w

¹ Teyrnasni Edward I. o'r fl. 1272 hyd 1307.

² Os ydyw dyfaliad "Bardd y Brenin" yn gywir, mai Humphrey Llwyd, oedd yn ei fodau o 1527 i 1568; neu William Salesbury, oedd yn ei fodau o 1520 i 1590, oedd awdwyr yr hen ysgrif hynod hon prin y mae'r haerlad fod y 'beirdd wedi llwyr edwino a darfod o'r wlad' y pryd hwn yn gywir, fel y ceir gwelid yn ein cofres o lenorion yr adran honno o gyfnod y testyn.

cofrestru. Felly nid oes hanes wedi ei hysgrifenu ganddynt hwy ar ol marwolaeth Llywelyn ab Gruffydd, Tywysog olaf Cymru; canys nid oedd ganddynt dywysogion eu hunain mwyach i gofnodi eu gweithredoedd; ac y mae holl weithredoedd teiwlwg y Cymry, er marwolaeth eu tywysogion, wedi eu cyssylltu wrth goron Lloegr, ac yn cael eu hawlio gan freninoedd Lloegr, dan y rhai y gwasanaethant fel deiliaid. Fel hyn, enhuddid holl weithredoedd canmoladwy y Cymry dan len Seisnig, a gorchuddid hwy gan y faner Seisnig.¹

Bwriadaf draethu ar weithredoedd rhai o'n cydwladwyr ar ol teyrnasiad ein tywysogion,² mewn lle arall. Hefyd, amcana ysgrifenu ar iaith y Brytaniaid, gan ei bod yn un o'r Tri Chof, ac yn rhan o hynafiaeth Brydain, er mwyn ei gwneud yn haws i'w darllen a'i deall. Yna âf rhagof at hanes breninoedd Brydain a Chymru, fel y caf hi yn rhai o'n hen lyfrau; ac un o honnynt yw'r traethawd yma; yr hwn a ystyriaf fel sylfaen gwaith helaethach. Am hyny, cyn dechreu ar hynafiaeth, yr hon a draetha ar weithredoedd breninoedd a thywysogion Brydain a Chymru, dechreuaf gyda sylfaen grammadeg, ac a draethaf ar lythrenau, eu gwir sain, eu tôn, a'u hacen, fel y defnyddir hwynt yn ein hiath ddiweddar.³

Ymddengys wrth y talfyriad blaenorol o'r hen ysgrif mai beirdd oedd yn ysgrifenu "hanes gweithredoedd canmoladwy brenhinoedd a thywysogion Brydain a Chymru;" yn gofalu am "iaith y Brytaniaid—pob gair a sill;" sef ei Grammadeg a'i Geiriadur; yng nhydag "achau y pendefigion, dosparthiad eu tiroedd, a thyniad eu harfau," cystal ag yn cyfansoddi "cerddi moliant a cherddi marwnad eu gwŷr ardderehog." Ond cymmerth diwygiad le cyn ysgrifeniad yr hen ysgrif dan sylw; canys yn lle bod yn rhaid i'r beirdd a'r awduron hanu o'r breninoedd a'r tywysogion, fel cynt, dywed yr hen awdur, fel y gwel-som, pan ddiflannodd y tywysogion Cymreig ar ol i Edward I. gymmeryd meddiant o orsedd Brydain, yn niwedd y cyfnod o'r blaen a dechreu cyfnod y testyn, y "symmudwyd y terfyn; a goddefwyd i bwy bynnag a feddai ddawn ac athrylith ddysgu celfyddyd y beirdd, a chymmeryd eu hurddo, ond dan yr enw prydydd;.....a chymmerth y pendefigion Cymreig y beirdd dan eu nawdd; annogasant hwynt i dderbyn dysgyblion cymmwys o ran dawn ac athrylith i'r alwad; a rhoddasant iddynt eu hawliau, eu rhagorfreintiau, a'u harfollau megis yn yr hen amseroedd."

Y mae'n anhawdd gwybod at ba adeg y cyfeirir yn yr hen ysgrif flacnorol, pan y cymmerai'r beirdd "eu hurddo *ond* dan

¹ Wrth "weithredoedd canmoladwy y Cymry," y golgai yr hen ysgrifenydd yma, yn ddiun, eu gweithredoedd rhyfelgar, yr unig rai, braidd, a ystyrid gynt yn werth eu cofnodi.

² Y mae'n dra thebyg mai at ymgodiad Llywelyn Bren, Gruffydd Llwyd, ac Owain Glyn-dwr, y cyfeirir yma.

³ E. Jones's Mus. and Poet. Relics, vol. i. pp. 51-59.

yr enw prydyddion ;” canys graddau'r beirdd a'r cerddorion, mor foreu, o leiaf, a'r fl. 1451, fel y ceir gweled eto, oedd Dysgybl Yspâs Heb Radd, Dysgybl Yspâs Graddawl, Dysgybl Dysgyblaidd, Dysgybl Pencerddaidd, a Phencerdd, neu Brifardd ; a chyffelyb oedd y graddau yn Eisteddfodau Caerwys yn y blynyddoedd 1524 ac 1568. Dangosir yn *Y Greal* (t. 300), bod hen raddau barddonol y Deheubarth yn wahanol, yr hon ysgrif sydd fel y canlyn :—

TREFN GWYR WRTH GERDD DAVOD.

Llyma Drefn ar Wyr wrth Gerdd Davod, a elwir Hen Drefn Deheubarth ; ac a en yn Ngwynedd, cyn nos amser Gruffydd ab Cynan, o Lyfr Thomas Bona.

Tair cangen celydydd cerdd davawd y sydd : nid amgen, cyntaf, CLERWR-IAETH ; ail, TEULUWRIAETH ; a thrydydd, PRYDYDDIAETH.

Clerwr, gwr wrth gerdd yspyddaid yw ; ac arno o swydd a chelydydd, y mae ymsenu, ac ymoganu, ac ymddyvalu, ac ymresymu gair tra gair, ac ymddywared, ac ymwarthruddliaw, ac ymserthu, ac ymwasweddu ; a dodi ar wirth ac anvawl, yn warantedig o gafaeliad ; a dodi argyfred gyhoeddus ar y dynion, a'r pethau, a'r moddau nas gellir clod a mawl prydydd dosparthus iddynt ; can na ddylai prydydd gwarantedig o awdurdod a dosparth eisteddfod, ymarver a'r pethau a savant ar y clerwr, eithyr eu gafael arno : ac nid oes angen o ddosparth arno no llys gwlad a chyvraith.

Teuluwr, gwr wrth gerdd ddosparthus ydyw ev, ac yn warantedig o awdurdawd ; ac arno y mae canu yn vesuraidd, herwydd y gelydydd wrth gerdd davawd ; a medru ar achau, a'u dosparth ; a theilyngdawl priodasau, ac ar bob gwybodau teuluaid, a darllen y Gymraeg, a'i hysgrifenu yn gyviawn ; a chynnal cŵ dosparthus ar achau a phriodasau y teulu math yn y bob ev ; a dodi addysg i'r dynion ieuaine ; a dangaws cyvarwyddyd o'r hen gerdd, a'r hen awduron cŵ a chadw ; ac arno y mae cyvanneddu, ac ymddydlanu, ac ymddygrivau, yn ddisertheidd, ac ymdestyniaw drwy eiriau ammwys, ac ymddyvalu gan syberwyd wers tra gwers, ac ymarvelli yn garuaid, o dodi gwybodau yn ddosparthus, ac ymgvarwyddlaw ac ymddangos ar wybodau Cymreigion ; ac ymsyberwadu yn voneddigaid ; a medru ar wleddau a neithiorau, a phob arvollau teuluaid ; a chadw rhôl ddosparthus, a chyvarwyddyd a ddylid i'r teulu ; a chanu yn deuluaid, vwythugerdd gyvannedd ; a chanu rhieingerdd yn garuaid ddigoddiant, heb orddereherdd, ac yn deuluaid o gelydydd ; megys gwr yn hanfod o gerdd davawd warantedig o awdurdawd.

Prydydd, gwr wrth gerdd ddosparthus o awdurdawd ydyw ev, herwydd gwarant gan eisteddfod a chadair ; ac ev a ddylai wybod cyvarwyddyd oddiwirth y tri phrivardd ; ac arno y mae cynnal cŵ cadwedig am achau Erenioedd, a boneddigion, a cheneid y Cymry ; a chadw ar deilyngdwl priodasau ; ac iawn gynnal y Gymraeg, a gwybodau cerdd davawd, a'i pherthynasau. Hevyd, arno y mae iawn ddiysgu, iawn varnu, ac iawn ganu, yn warantedig o awdurdawd ; a chynnal yn ei gelydydd, a rhodion gwarantedig o dleuawd i'i bob ei gerdd a'i gyvarwyddyd. Hevyd, arno y mae canu mawl pob molianus, o gamp, a gwesthered, a gwybod ; a chana o Dduw a'i saint, ac o ddalioni ; ac yn erbyn pechawl ; a mawl pob gweddus a syber, a gwrthwynebu sertheidd y clerwr ; a chanu yn vesuraidd, ac yn gerddwraidd, gan gelydydd a dosparth awdurdawl a gwarantedig o gadair, ar y gwr wrth gerdd davawd. Ac arno y mae tri gorchest ; nid amgen duchan heb serthyd, rhieingerdd heb orddereheidd, a mawl heb druth a gwestleddiaeth, sef yw gwestleiddiaeth, peth ni chynglain ag a vo cyviawn o syrth, ac a elo yn erbyn a weddai ar a voler ; megys moli gwraig am ymladd, neu voli gwr eglwysig am gampau chwaryddion. Ac ev a ddylai glovori pob haelioni,

1 Gruffydd ab Cynan a lywodraethai o'r fl. 10:0 hyd 1157.

a digriwch meddwl, a chanu cyvarnedd ; canys privovyn ar brdydd yw cyvarnedd ; a moli pob awenyddiaeth a cherddwriaeth, a phob gwybodau moliannus, a phob arverion a devodau anrhydeddus, a boneddigaidd, a daionus. Ac ev a ddylai wrthneu a gwrthwynebu gogangerdd y clerwr, lle y bryto prydydd dosparthus a gwarantedig o awdurdawd ; ac nid rhydd iddo ev oganu neb ; canys canmol a dodli moliant a chlod anrhydeddus, lle y bo a'i dirper, y dylai eve. Ac arno yn ddeawd y mae divyrwch meddwl, a dyddanu dynion, a doddi addysg ar wybodau Cymreigolion, ac athrylith awenyddawl. Hevyd, arno y mae ymwrthod yn gadarn â'r saith brivwyd, a'r pechodau marwolion, nid amgen trais, a lledrad, a balchedd, a godineb, a glythineb, a llid, a llesgedd, a chenfigen ; canys y rhai hyn a ddifrwthant gôv, ac awen, ac athrylith, a dychymyg y prydydd : ac yn lle y rhai hyn y dylai eve ymarver â'r wyth gynneddvau dwyvolion ; sev ydynt haelioni, a chywirdeb, ac uvuddawd, a diweirdeb, a dirwest, a chariad perfaith, a diwydrwydd, a thangnevedd : y rhai hyn a wellânt gôv, ac awen, ac ethrylith, a dychymyg y prydydd, ac â anlânt wybodau moliannus a daionus, ac â frwythant gerdd davawd.

Prydydd gwarantelig o gelydydd â ddwg arwydd o dlws euraidd neu arian-aidd ; sev a'i doddi iddo o awdurdawd eisteddvod ddevodawl yn warrantedig ; a chantho ev y cymmerant y gwyr wrth gerdd davawd eu hansoddau, a'u cyvarwyddyl, a'u dysg, a'u gwybodau, mal y bont deilyngion.

Â hen drevn ar wyr wrth gerdd davawd yw hon, â oedd cyn nog amser Gruffydd ap Cynan, â gwymerwyd o lyvyr Ieuan Vawr ab y Diwlith¹ o Gil Vai ; medd lyvyr Thomas Bona

Yn ol yr hen ysgrif hon, *prydydd* oedd y radd farddonol uwchaf yn y Deheubarth, er yr hen amseroedd ; pan, yn ol yr hen ysgrif flaenorol, fel y gwelwyd, mai ar ol diflaniad y tywysogion a'r pendefigion Cymreig "yr urddid y beirdd dan yr enw prydydd"-ion. Ond beth bynnag am awdurdod y mynegiad yma, fel y crybwyllwyd eisoes, y mac'n eglur fod ansawdd barddoniaeth Gymreig wedi newid yn drwyadl erbyn dechreu cyfnod y testyn. Yn yr hen amseroedd, hyd farwol-aeth "Llywelyn ein llyw olaf," yn y fl. 1282, rhyfeloedd dinystriol, gwroniaid ymladdgar, brenhinoedd a thywysogion ymrysongar a gwaedlyd, braidd oedd holl wrthddrychau ein prydyddiaeth ; ond pan laddwyd Llywelyn, tarawyd yr holl genedl â syndod a dychryn anaele ; ac ym mlith dirywiadau eraill, parlyswyd awen y beirdd, fel y buant oll dros dymmor heb ymadfer ond i raddau bychain iawn. Wedi i'r genedl gael amser i ymdawelu yn ystod blynyddau o dawelwch, ymadnewyddodd awen y beirdd yn raddol, a newidiodd eu testynau

¹ Os mai Rhys Goch ap Rhicert oedd Ieuan Fawr ap y Diwlith, yn ol fel y dengys yr *Iolo MSS.* (t. 88), nis gallasai fucheddu yn forenach, fel y ceir gwelod rhag llaw, nag o gylich dechreu cyfnod y testyn. Pa ddelw bynnag, dengys ymadroddiad a chystrawen yr ysgrif uchod, heb son am ei llythraeth, nat oedd copi llyfr Thomas Bona hynach na'r 16fed ganrif, o bellaf ; ond diacon i'r adysgrifenyddi ei chael o gopi llawer hynach, ac iddo ef ei hyagrifenu yn ei ddull ei hun, fel y mae sicrwydd yr arferai rhai wneutlur ; ac yn wir, y mac'n eglur mai felly yr ysgrif-enodd Gol. Y *Great* yr hen ysgrif uchod.

cystal ag ansawdd eu prydyddiaeth. Yn lle canu byth a hefyd ar yr un testynau, fel cynt, sef rhyfeloedd a galanastra, trodd y beirdd eu hawen, erbyn tua dechreu cyfnod y testyn, neu'n fuan ar ol hyny, at wahanol byngciau cymdeithasgar, gwladol, a chrefyddol, fel y prawf caniadau Gruffydd ab Icredydd ab Dafydd, Rhys Goch ap Rhicert, Dafydd ab Gwilym, ac eraill.

PENNOD III.

HEN LLENYDDIAETH Y CYMRY MEWN LLAW YSGRIFAU HYD PAN DDECHREUWYD ARGRAFFU CYMRAEG; CHWALIAD HEN LYFRGELLOEDD LLAWYSGRIFOL Y MYNACHDAI; PRIF GASGLYDDION Y LLAWYSGRIFAU CYMREIG; CRYNOAD A HANES CYNNWYS Y PRIF GASGLIADAU LLAWYSGRIFOL; TALFYRIAD O GYNNWYS Y LLYFR COCH O HERGEST, A CHASGLIAD IOAN MYFYR.

YR oedd holl lenyddiaeth y Cymry, o'r hen amseroedd hyd y fl. 1545, sef yn lled bell, fel y gwelir, yn y 3edd ganrif o gyfnod y testyn, pan ddechreuwyd argraffu Cymraeg, yn gynnwysedig mewn llawysgrifau; a'r rhai hyny, gan mwyaf, yn cael eu cadw mewn gwahanol lyfrgelloedd yn y mynachdai. Parodd dadgorfforiad yr hen sefydliadau hyny yng Nghymru dan deyrnasiad Harri VIII., o'r fl. 1509 hyd 1549, a chwaliad y llyfrgelloedd mewn canlyniad, i luaws o lawysgrifau a gedwid ynddynt fyned i feddiant personau neillduol; a dechreuwyd gwneud casgliadau yn fuan o honynt. Y prif gasglyddion yng Ngwynedd oedd John Jones, Ysw., o'r Gelli Lyfdy, ym mhlwyf Ysgeifog, Sir Fflint, yr hwn oedd gyfreithiwr yn Llys Cyffindiroedd Cymru, yr hwn a sturfiodd ei gasgliad rhwng y blynyddoedd 1590 ac 1630; a Robert Fychan (Vaughan), Ysw., o'r Hengwrt, gerllaw Dolgellau, yn Sir Feirionydd, oedd y casglydd mawr arall o lawysgrifau yng Ngwynedd. Yr oedd Jones a Fychan wedi cyttuno i gasgliad yr hwn a fyddai farw gyntaf fyned yn eiddo y goresydd; a chan i Jones farw o

flaen Fychan, aeth ei gasgliad gwerthfawr ef i'r Hengwrt ; ac yno y bu 'r ddau gasgliad godidog hyd o fewn rhai blynyddau yn ol, pan y gadawyd hwy yn Ewyllys Syr Robert Fychan, o'r Hengwrt, i W. W. E. Wynn, Ysw., o Beniarth, ym meddiant yr hwn y buant hyd ei farwolaeth ; ac yr oedd y boneddwr gwladgarol hwnw, er ei fythol glod, yn caniatäu i lenorion hyspys a pharchus eu chwilio, ac adysgrifio o honynt yn ol eu hewyllys, a chlywais fod ei olynydd yn ymddwyn yn gyffelyb.

Cynnygiodd Cymdeithas Cymmodorion Powys wobr, i'w chyflwyno yn Eisteddfod y Trallwng, a gynnelid ar yr 8fed o Fedi, 1824, am y Gofres gyflawnaf o Lawysgrifau oedd yng ngwahanol Lyfrgelloedd Gwynedd ; ac i Aneurin Owen, Ysw., mab y Dr. W. Owen Pughe, y cyflwynwyd y wobr am Gyfresau o Lawysgrifau oedd yn y Llyfrgelloedd canlynol :—

BODYSGALLEN, DOWNING, GLODDAITH, HENGWRT,
LLANSILIN, LLANASA, PALE.

LLYFRGELL BODYSGALLEN a gynnwysai 21 o gyfrolau, yn cynnwys prydyddiaeth a rhyddiaith, o waith yr un awduron, ac ar yr un testynau, gan mwyaf, ag a geir yn Llyfrgell yr Hengwrt.

LLYFRGELL DOWNING a gynnwysai 9 o gyfrolau, oll yn rhyddiaith ; ond ar yr un testynau, a chan yr un awduron, braidd oll, ag a geir yn Llyfrgell yr Hengwrt.

LLYFRGELL GLODDAITH a gynnwysai 28 o gyfrolau, rhai yn brydyddiaeth a rhai yn rhyddiaith ; ond ceir eu cynnwys braidd oll, fel y ddwy lyfrgell flaenorol, yn yr Hengwrt.

LLYFRGELL YR HENGWRT, cynnwys yr hon sydd yn awr, fel y crybwyllwyd, ym Mheniarth. Cynnwys y llyfrgell amhrisiadwy hon 361 o gyfrolau, o wahanol drwch a phlyg, y rhan fwyaf yn Gymraeg, tra y mae yno rai yn Saesneg, Lladin, a Ffrangaeg, yn cynnwys prydyddiaeth a rhyddiaith ; ac y mae yno un gyfrol a elwir *Rules of Musick and Poetry*. Ym mhilith y prif ysgrifau prydyddol sydd yno, gellir crybwyll *Llyfr Du Caerfyrddin*, *Llyfr Taliesin*, *Prydyddiaeth Dafydd ab Gwilym*, *Gruffydd Gryg*, *Dafydd Nanmor*, *Lewis Glyn Cothi*, *Dafydd ap Edmunt*, *Twlur Aled*, *Simwnt Fychan*, *Huw Morus*, o llu eraill.

Ym mysgr y rhyddiaith, y mae yno amryw adysgrifau o Gyfreithiau Hywel Dda, Brutiau y Breninoedd, Brutiau y Tywysogion, Trioedd, Diarhebion, Achau, Liber Landavensis (Llyfr Llandaf),¹ Bucheddau y Saint, Mabinogion, Meddygon Myddfai, Y Greal, Grammadeg Simwnt Fychan, Grammadeg Edeyrn Dafod Aur, &c. ; ac y mae yno un Anterliwt Gymraeg —“ A Welsh Interlude written in 1613, finished in 1622 (John Jones). Quarto, one inch thick.”—Llyfr, rhif 338.

LLYFRGELL LLANSILIN a gynnwysai 35 o gyfrolau. Heb law amryw o'r cyfansoddiadau sydd yn llyfrgell Hengwrt, yr oedd yn y llyfrgell yma gopi o Gyfrinach y Beirdd ; a naw neu ddeg o gyfrolau yn cynnwys Caniadau Huw Morus. Hefyd, cynnwysai gryn swrn o gyfansoddiadau lled ddiweddar ; megys, Caniadau Elis Cadwaladyr, 1735 ; Rees Lewis o Fallwyd, 1736 ; Jonathan Huws ; Thomas Edwards (o'r Nant) ; a Huw Jones o Langwm ; a chynnwysai bedair cyfrol o Anterliwtiau ; sef, “ Y Mab Afradlon, gan Huw Morus ; ” “ Hanes Phylip a Mari, gan Elis Cadwaladyr ; ” “ Hanes y Brenin Llyr (*Lear*) a'i dair Merch,” gan awdwr anhyspys ; a “ Hanes Castell Dinas Bran a Chorwen, ac amryw leocdd craill, gan Huw Jones o Langwm, 1767.”

LLYFRGELL LLANASA a gynnwysai dair cyfrol yn Lladin, ar byngciau Cymreig ; sef, “ Pentarchia,” neu hanes y Pum

¹ Dywedir yn y feirniadaeth fel hyn —“ Nid ydyw *Liber Landavensis* yn nghasgliad Hengwrt.”

Yr wyf yn deall bod y dywedlad yna yn gywir yn awr ; ond yr oedd adysgrif brydforth o'r llyfr yn nghasgliad Hengwrt 60 mlynedd yn ol, pan ysgrifennai Aneurin Owen ei Gofres Fuddugol o Lawysgrifau Cymreig, &c., i Eisteddfod Trallwng yn y fl. 1824, yn yr hon Gofres y dywedir fel y canlyn :—

“157. *Liber Landavensis*, copied by Mr. Vaughan, from the original in Mr. Selden's Library, which had Teilo's picture in brass on the lid, and was overlaid with gold and silver, but at this time almost worn out with age, and written in the very same character in the year 1220 on vellum. Folio, three inches.” *Trans. of the Cymmrodor*, Vol. II., Part IV., p. 409.

Ychydig amser yn ol cefais yr hyn a ganlyn ar y pwngc oddi wrth un o brif Lenorion Cymru :—

“ Y mae yn wir i Robert Vaughan wneyd adysgrif ragorol iawn o'r *Lib. Land.* ; a hono a ddefnyddiwyd fel sail argraffiad y *Welsh MSS. Socy.* Ond nis gwn pa le y mae yn awr. Yn yr argraffiad o'r llyfr, *Preface*, p. xxviii., dywedir,—“ *The transcript is now in the possession of Col. Vaughan, a lineal descendant of Mr. R. Vaughan, and has been removed from the Library of Hengwrt to that of Rug, in the same County of Merioneth, another residence of its possessor.*”

Dengys y *Preface*: crybwylliedig fod adysgrifau o'r *Lib. Land.* mewn amryw fanau eraill, naill ai yn gyflawn, neu mewn rhan. yn y fl. 1810, pan argraffwyd y Gwaith.

Llwyth Breninol, gan Powel o Edenhope, mewn mydr Lladin ; yr ail, oedd "Charta de Englefield," a ganiatawyd gan Harri III. ; a'r trydydd, oedd "Hanes yr Hen Frytaniaid yn Lladin, o'r fl. 400 hyd 1000."

LLYFRGELL PALE yw yr olaf y gwnaeth Aneurin Owen gofres o honi, yr hon a gynnwysai bum cyfrol : pedair o brydyddiaeth yr un beirdd ag a gynnwysai y llyfrgelloedd eraill ; ac un gyfrol o ryddiaith yn Lladin, ar yr iaith Lydawaidd, am yr hon gyfrol y dywedodd Edward Lhwyd fel hyn :—"Y llyvyr ymma a brynes yn rhy dhrud yn y Castelh Pawl yn Lhydaw, yn y vlwydhyn 1700. Nid oedh ar werth yn unlhe ; am hyny mi a adewes Eirlyvyr yr Athraw Davies, yr hwn a'i tal ganwaith, yn ei le, ym Mynachlog y Brodyr Lheia." Dyma y llyfr a ddefnyddiai Lhwyd wrth gyfansoddi ei Rammadeg Llydawig.¹

Wele yn canlyn enwau amryw hen lyfrgelloedd eraill yng Ngwynedd, y rhai a gynnwysent luaws o lawysgrifau hen a diweddar, am y sawl nid oes genyf fanylion :—

Llyfrgell Syr Watkin W. Wynn, yn Wynnstay, yr hon a ddinystriwyd ychydig flynyddau yn ol gan dân.

Llyfrgell Mr. Leo, yn Llanerch.

Llyfrgell Gruffydd Roberts, M.D., yn Nolgellau.

Llyfrgell Paul Panton, Ysw., Plas Gwyn, Pentraeth, ym Môn. I feddiant Paul Panton yr aeth casgliad helaeth Ieuan Brydydd Hir Ieuf (Ieuan Fardd ac Offeiriad). Pan fu farw P. Panton yn y fl. 1797, aeth ei gasgliad lluosog ef i feddiant ei berthynasau annysgedig ac anwladgar, y rhai a'i cloisant mewn hen gistiau derw, y sawl nid agorwyd er ys rhai ugeiniau o flynyddoedd bellach ; ac ni chaiff neb eu hagog gan y perchenog presennol, yr hon a dybia fod rhyw werth cyfriniol annhraethadwy i'r etifeddion dyfodol yn yr hen gistiau braenllyd hyny ! Y mae pob lle i gasglu bod y rhan fwyaf o'r ysgrifau sydd yn yr hen gistiau hyny wedi eu hysu gan bryfed o'r coed braenedig sydd yn eu hamgylchu, fel na byddant yn werth dim i'r etifeddion na neb arall.

¹ *Trans. Cymmrod. vol. II. Part IV., pp. 400 - 418.*

Heb law y casgliadau a nodwyd, yr oedd amryw eraill gynt yng Ngwynedd gan y llengarwyr canlynol :—Rhys Jones o'r Blaenau, ger llaw Dolgellau ; Thomas Edwards (Twm o'r Nant), yn Nantglyn, ger llaw Dinbych ; Dafydd Thomas (Dafydd Ddu Eryri), yn Llandegai, Arfon ; Owen Williams (Owain Gwyrfa), o'r Waen Fawr, yn Arfon ; Syr Richard W. Bulkeley, Baronhill, Beaumaris ; a dywed Angharad Llwyd, awdures *A History of the Island of Mona*, bod casgliadau o wahanol nifer o lawysgrifau yn cael eu cadw yn y manau canlynol :—Actyn Bach, Bangor Iscoed ; Bodrhuddan ; Caerwys ; Castell y Waen ; Coed Coch ; Coed Llai ; Dinbych ; Galltfaenan ; Glan y Wern ; Gwasanau ; Gwerc'las ; Halston ; Llanerch ; Llanrhaiadr ym Mochnant ; Mostyn ; Nantclwyd ; Pantafon ; Penbedw ; Pengwern ; Rhuthyn ; ac yr oedd gan ei thad hithau, y Parch. John Llwyd, gasgliad gwych yn Rhyl.

Yr oedd gan Gwilym Lleyl hefyd, casglydd diwyd *Llyfr-yddiaeth y Cymry*, " Gronfa o hen ysgrifau ac ysgriflyfrau oedranus ;" a chyhoeddodd gynnwysiad un o honynt, yr hwn a ysgrifenasid, eb efe, tua 'r fl. 1700.¹ Cynnwys hwnw 30 o gyfansoddiadau ; ac y mae amseriad wrth y rhai canlynol :—

CYWYDD, nid amgen na wrth fy mynediad oddi cartref, o blegid dyled a machniaeth.—Ffowc Wynn. Tachwedd 26ed, 1684.

Concerning the Papysts Plott in the year of our Lord God, 1678.

Vnghylch Plott Presbyterians yn y flwyddyn o oedran Christ 1682. Huw Morus.

Christmas Carol 1678. Huw Morus.

An Elegy to—, gan Ffowc Wynn, Plas Nantglyn 3^d Novembris, 1684.

Y mae gan yr ysgrifenydd hefyd ddau hen ysgriflyfr o gryn werth yn ei olwg, ef. Enw un o honynt sydd fel hyn :—

GRAMMADEG Simwnt Vychan o'r Ty Brith yn Llanfair Dyffryn Clwyd yn flwydd oed ein Harglwydd 1565.

Ar odreu y ddalen enwol y mae yr hyn a ganlyn :—

HUGH Roberts ai sgrifenodd allan o Lyfr Mr. Vychan iddo ei hun Blwyddyn 1772.

Pedwarplyg bychan, tua modfedd o drwch, ydyw yr hen ysgriflyfr, wedi ei ysgrifenu yn eglur a hardd, mewn llythyren drom, rhwng ysgrifen ac argraff ; ond y mae'n bur ddiffygiol o ran gwahannodiad a llythraeth. Cynnwys y gwaith bum

¹ Brython, cyf. III., t. 391.

rhan, a elwir "Pum Llyfr Cerddwriaeth." Y cyntaf a draetha ar y llythyrenau a'r sillau; yr ail, ar y rhanau ymadrodd; y trydydd, ar y pedwar mesur ar hugain cerdd dafod; y pedwerydd, ar y cynghaneddion; a'r pummed, ar y "Beiau Cyffredin." Fel y canlyn y dechreu'r pummed llyfr:—

LYMMA y diweuthaf o'r pump Llyfr—Cerddwriaeth cerdd dafawd yr hwn a elwyr prydlyfr. Ag ysbyswn bellach y Beiau gocheladwy: y rhai a elwyr beiau Cyffredin ai perthynasau neu eu ceingiau.—Ag i'r holl feiau hynny: nid oes ond dau wreiddyn: neu ddau gychwyniad. Sef yw hynny dau achos Khu ag Eisiau, neu Gormod a Rhu fychan. A'r Beiau hynny a berthynant At y prydlyfr. Canys ni ddichon prydudf fod yn bencerdd neu yn Athraw: ar farldoniaeth iawn ddyysgu ag Jawn ganu ag Jawn farnu, nes Gwybod y beiau Cyffredin ai dosbarth.

Cynnwys yr hen ysgriflyfr arall sydd genyf ydyw cywyddau ymryson rhwng Edmwnt Prys a William Cynwal; 19 o waith y blaenaf, ac 11 o waith yr olaf, oll yn 30 o gywyddau lled feithion. Dengys *Y Greal* (Llundain) fod yr holl gywyddau ymryson yn 54; sef 35 gan E. Prys, a 19 gan W. Cynwal, heb law Cywydd Marwnad W. Cynwal gan E. Prys; oll yn 55 o nifer.¹

Heb law y cywyddau crybwylledig rhwng E. Prys a W. Cynwal, cynnwys fy hen ysgriflyfr "Gywydd Cymmod Wmffreac ab Howel ab Sion;" cywydd "Mawl gwaradwyddus i Ferch o waith Rhys Goch or Eryri wr Bonheddig a pherchenog yr Hafod Garregog;" a darn o "Gywydd Marwnad y Frenhines Ann," o waith "Hugh Philip."

Y prif gasglyddion llawysgrifol yn y Deheubarth, cyn belled ag y canfyddaf, oedd y rhai canlynol:—

Casgliad Syr William Herbert, Iarll Penfro, o Gastell Rhaglan, yn Sir Fynwy, a ddechreuwyd o gylch y fl. 1590, ac a ddinstriwyd gan dân yng Nghastell Rhaglan, yn amser Oliver Cromwel.

Casgliad Syr Edward Mansel o Middlescombe, yn Sir Gaerfyrddin, tad yr hwn a gafodd llawysgrifau yn anrheg o Fynachlog Margam, ym Morganwg, yn y fl. 1591. Ni wyddys beth a ddigwyddodd i'r casgliad yma.

Casgliad Herbert Hurst, Ysw., o'r Ceubalfa, ger llaw Llandaf, a gawsai efe ar ol Syr Thomas Herbert.

¹ *Y Greal*, t. 13.

Casgliad y Weddw Bevan, o Dre'r Bryn, ger llaw Pont y Fon. Gwnaed y casgliad yma yn y fl. 1684, gan Thomas Bevan.

Casgliad Dafydd Thomas, Ysw., o'r Dref Groes, ger llaw Pont y Fon.

Casgliad y Parch. Jarvis Powel, Llanharan, ger llaw Pont y Fon. Yr oedd hwn yn gasgliad lluosog a phur werthfawr.

Casgliad Cywrain Cilfach Fargod, ym mhlwyf Gelli Groes.

Casgliad manwl Josiah Rees, o'r Gelli Gron, ger llaw Abertawe.

Casgliad da—, ym Mlaenau Gwent, ger llaw Rhaglan.

Casgliad yng Nghelydd Ifan yn y Bettws, ger llaw Pen y Bont ar Ogwy, yr hwn a berthynai i'r Weddw Evans oedd yn byw yn Ystrad Hafodwg. Yr oedd cyfieithiad Cymraeg o'r Bibl, a wnaed o gylch y fl. 1480, yn y casgliad yma.

Casgliad y Parch. Mr. Richards, o Lanegwad, yn Sir Gaerfyrddin.

Casgliad Thomas James, Ysw., o'r Hafod.

Casgliad Turberville, Ysw., o Lanharan.

Casgliad Henry Williams, Ysw., o Gareg Hyywel.

Casgliad Edward Williams (Iolo Morganwg), Flintstone, neu Flemingstone, yn Sir Forganwg. Aeth y casgliad lluosog yma, o'r hwn yr argraffwyd amryw bethau fel y ceir gweled eto, ar ol marwolaeth Iolo, i'w fab, Taliesin Williams (Ab Iolo), ac ar ol marwolaeth yr olaf yn y fl. 1847, aeth y llawysgrifau i feddiant ei weddw, ac ni wyddys beth a ddygwyddodd iddynt.

Dywedir bod casgliadau eraill yn Aberdâr, yn Coedriglan, yn Llanymddyfri, yn Llys Stockpole, ym Merthyr Tydfil, ac mewn rhai manau eraill yn Sir Forganwg.

Y mae yn Rhydychain hefyd rai casgliadau o lawysgrifau Cymreig rhagorol, megys y rhai canlynol :—

Casgliad Iarll Macclesfield, i'r hwn yr aeth casgliad lluosog a gwerthfawr Moses Williams, cyhoeddwr clodfawr y gwaith canlynol :—

COFRESTR o'r holl lyfrau Printiedig, gan mwyaf a gyfansoddwyd yn yr Iaith Gymraeg, neu a gyfieithwyd iddi hyd y Flwyddyn 1717. Printiedig yn L.un.lain, gan Brintwyr y Brenin.

Y mae casgliad gwych hefyd o lawysgrifau Cymreig yng Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain, y penaf o ba rai, ac, yn wir, un o'r llawysgrifau pwysicaf yn yr iaith Gymraeg, yw LLYFR COCH HERGEST; yr hwn y dywedir iddo gael ei alw felly o blegid iddo gael ei gasglu gan Fychaniaid Hergest, yn Sir Henffordd, ar wahanol amserau yn ystod y ddwy ganrif gyntaf o gyfnod y testyn, sef y 14ed a'r 15fed. Ymddengys iddo fyned i Rydychain o gasgliad Margam yn y Deheubarth. Y mac cynnwysiad pur fanwl i'r hen Ysgriflyfr helaeth hwn yn y *Cambro Briton*.¹ Dengys y cynnwysiad hwnw bod yr Ysgriflyfr yn cynnwys 37 o erthyclau rhyddieithol a Barddonol; ac y mae hen benawdiau Cymreig i 33 o honynt, gydag eglurhad Seisnig, a chyfeiriad i'r tudalen y dechreu pob un o honynt, fel y canlyn, er esampl:—

I. YSTORIA DARED.—The History of the Trojan War, written by Dared Phrygius, from the Latin translation, vulgarly ascribed to Cornelius Nepos. P. 1.

II. BRUT Y BRENNHODD.—The History of the Isle of Britain, from the landing of Brute to the death of Cadwaladr, the last British King, at Rome, Anno D. 688. P. 31.

This history was written originally in the *Brytanaeg* or old British, but modernised by Gwalter or Walter, Archdeacon of Oxford, and at his request, translated into Latin by Jeffry of Monmouth.

III. BRUT Y TYWYSOGION.—The History of the Princes of Wales,—remarkable events from *Anno* 680 to 1280. [Qy.—Whether this is Caradog of Llancarvan's *Chronicon Principum Wallie* ?]. P. 230.

Yr erthyclau craill y mae iddynt enwau Cymreig ac eglurhad Seisnig, fel y rhai uchod (yr hwn eglurhad a adewir allan rhag gormod meithder), yw y rhai canlynol:—

VI. Ystoria Charlymaen, p. 381.

VII. Imago Mundi *neu* Delw y Byd, p. 502.

IX. Cyngor y Doeth i'w Fab, p. 520.

X. Chwedyl y Seithnyn Doeth, p. 527.

XI. Breuddwyd Rhonabwy, p. 555.

XII. Prophwydoliaeth Sibli Ddoeth, p. 568.

XIII. Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd ei Chwaer, p. 577. *Item*. Gwasgarddgerdd Myrddin yn ei Fedd, p. 584.

XV. Prophwydoliaeth yr Eryr Ynghaer Septon, p. 515.

XVI. Enwau y Tri Dynion a gawsant Gampeu Adda, p. 588.

XVII. Pan aeth Llu i Lychlyn, p. 589.

XVIII. Triodd Ynys Brydain, p. 590.

XIX. Triodd y Meirch, p. 596.

XIX. Enwau Ynys Brydain a'i Rhagynsoedd, &c., p. 600.

- XX. Ystoria Chyarlys, p. 605.
 XXI. Chwedyl Iarllles y Ffynon, p. 627.
 XXII. Ystori Peredur, p. 655.
 XXIII. Breuddwyd Maxen Wledig, p. 697.
 XXIV. Cyfrange Lludd a Llefelys, p. 705.
 XXV. Mabinogi, yn bedair rhan :
 Rhan I. Ystoria Pwyll Pendefig Dyfed, p. 710.
 ,, II. Ystoria Bran Fendigaid, p. 726.
 ,, III. Ystoria Manawydan, p. 739.
 ,, IV. Ystoria Mathonwy, p. 751.
 XXVI. Ystoria Geraint Fab Eriin, p. 769.
 XXVII. Ystori Kilhwch Fab Kilydd, *alias* Ystori y Twrch Trwyth, p. 810.
 XXVIII. Ystori Bown o Hampton, p. 845.
 XXIX. Llyfyr y Meddyginiaethau [Meddygon Myddfai], p. 928.
 XXX. Diarebion y Doethion, p. 964.
 XXXI. Imago Myndi *neu* Delw y Byd, p. 975. [Gwel gyfieithiad arall, p. 502].
 XXXII. Brut y Saeson, p. 999.
 XXXIV. Ymadered Llewelyn a Gwrnerth, p. 1026.
 XXXV. Gwaith Llywarch Hen, p. 1028.
 XXXVI. Gwaith Taliesin, p. 1049.
 XXXVII. Cymdeithas Amlyn ac Amyc, p. 1085.

Yn nesaf, ceir Rhestr yn cynnwys 68 o enwau Beirdd, yr amserau y blodeuent, a chyfeiriad i'r tudalenau o'r Llyfr Coch a gynnwys eu cyfansoddiadau, fel hyn, er esampyl :—

- Elidr Sais, who flourished A.D. 1290. P. 1143.
 Meilir ab Gwalchmai, fl. 1146. P. 1146.
 Y Brawd Fadawg Gwalter, fl. 1250. P. 1151.

Cynnwys y rhestr hon enwau 30 o Feirdd a ddodir i fucheddu yn ystod cyfnod y testyn, o Gruffydd ap Llywelyn Llwyd, a ddodir yn ei flodau yn y fl. 1350, hyd Rhys Dafydd ap Einion, a ddodir yn ei flodau yn y fl. 1480.

Y mae casgliad o lawysgrifau yn Llyfrgell Bodleian; hefyd, yn Rhydychain; ond y mae cynnwysiad y casgliad hwnw yn anhyspys i'r ysgrifenydd.

Y mae amryw gasgliadau o lawysgrifau Cymreig yn Llun-dain hefyd; megis casgliad yr Ysgol Gymreig; casgliad Edward Jones (Bardd y Brenin); a chasgliad Owen Jones (Myfyr), yr hwn gasgliad sydd yn awr yn yr Amgueddfa Frytanaidd; ac o'r casgliad helaeth hwnw yr argraffwyd y rhan fwyaf o'r cyfansoddiadau sydd yn y *Myfyrian Archæology of Wales*.

Cynnwys y casgliad yma 100 o gyfrolau o wahanol blygiadau a gwahanol nifer o dudalenau. Gwnaeth y Dr. Pughe

Gofres helaeth a manwl o'r ysgriflyfrau hyn, y rhai y berthynent ar y pryd i'r Cymmrodorion ; a chyhoeddwyd y Gofres yn y *Transactions of the Cymmrodorion*, vol. i., pp. 177—202. Trefnodd y Dr. ei Gofres yn ddwy ran, fel y canlyn :—

PART I.—POETRY.

Cynnwys y rhan brydyddol hon o'r casgliad 47 o gyfrolau, yn cynnwys 4,700 o ddarnau prydyddol, heb law dros 2,000 o Englynion ; oll o gylch 16,000 o dudalenau. Y mae'r awdwr yn nodi cynnwys pob cyfrol yn ofalus, yn Saesneg, gan roddi enwau y prydyddion, a nifer caniadau pob un ym mhob cyfrol. Er mwyn i'r darlennydd ddeall cynllun y Gofres yn drwyadl, dodir ychydig enghreifftiau ger bron yma, yn iaith a dull yr awdwr ei hun :—

No. I. A folio book, of 807 pages, mostly in the handwriting of Mr. Owen Jones, containing the works of the following Bards :—

	Pieces.		Pieces.
S. Cent	5	Ieuan Deulwyn	2
Sir D. Trevor... ..	4	W. Lleyn	11
D. Nanmor	9	S. Vychan	5
D. ab Edmwent	11	Edm. Prys	8
Robin Ddu	4	W. Cynwal... ..	4
Gutyn Owain	8	Lewys Mon	9
Guto y Glyn	12	Huw Machno	6
Rhys Goch Eryri	2	S. Tudur	30
G. ab I. Ll. Vychan	8	S. Philip	4
Gr. Hiraethog	7	Ed. Morys	11

No. II.—A folio book, of 685 pages, written by Mr. O. Jones, containing the works of Lewys Glyn Cothi, being 179 poems and odes.

No. III.—A folio book, of 527 pages, written by Mr. O. Jones, containing the works of D. ab Gwilym, being 258 poems and odes, and of which an edition was printed at the expense of Mr. Jones in 1789.

No. IV.—A long book, called the Hirwyn, written by Mr. O. Jones, of 416 pages, containing Englynion, by several hands, in the first 56 pages, and the remainder by the following Bards :—

	Pieces.		Pieces.
Guto y Glyn	1	Gr. Gryg	1
Ior. Gyriog	1	Iolo Goch	22
Rob. Ddu	1	Rhis. Iorwerth	1
Ieu. Deulwyn... ..	3	Lewys Mon	2
Ior. Vynglwyd	5	Tudyr Aled	30
D. Ddu Hiraddug	1	Ieu. ab Bedo Gwyn	1
L. Morganwg	2	O. Gwynedd	3
Syp. Cyveiliog	2	W. Cynwal... ..	2
Ll. Goch ab Meirig Hen	1	D. Nanmor	1
Math. Bromfield	1	W. Egwad	1
Gutyn Goch	1	Bedo Brwynllys	1
Lew. Trevnant	1	Bedo Havesb	1
S. Tudyr	1	Hywel ab Sir Mathew	1
H. ab Rhys	1	G. Ll. ab D. ab Einion	1
G. ab I. ab Ll. Vychan	1	H. ab D. ab I. ab Rhys	1
Gr. Hiraethog	1	Ieuan Rhaiadr	1

Cyffelyb ydyw y 43 cyfrol prydyddol eraill. Y mae'r holl ysgriflyfrau hyn yn cynnwys nifer lluosog o enwau beirdd, o Cynddelw Brydydd Mawr hyd Goronwy Owain a'i gydoeswyr, ac felly y maent yn cynnwys y nifer mwyaf o feirdd a llenorion cyfnod y testyn. Gan fod caniadau yr un beirdd yn dygwydd yn fynych yn y gwahanol gyfrolau, fel y gwelir yn oed yn y difyniadau blaenorol, prif ddiffyg y gofres ydyw, peidio nodi pan ddygwyddo yr un caniadau yn y gwahanol gyfrolau, yr hyn a ddygwydd yn fynych. Er enghraifft, cyfarfyddir â chaniadau S. Cent, y blaenaf yn y gofres, mewn 15 o wahanol gyfrolau; a nodir eu nifer fel y canlyn :—5, 11, 1, 1, 1, 4, 3, 2, 1, 12, 16, 5, 3, 2, 2,—69.

Yn awr, yr holiad nas gellir ei ateb trwy gymmhorth y Gofres hon ydyw, Pa un ai 69 ai 16 yw *gwir* nifer caniadau S. Cent? Pe cymmerid hanner y nifer mwyaf, sef 34, dichon y byddid yn agos i'r gwir nifer felly; ac y mae'n bur debyg bod y nifer mwyaf a nodir yn y gofres, sef 16, yr un mor bell oddi wrth y gwir nifer. Gan hyny, ymddengys nad oes dim i'w wneud gyda golwg ar nifer y caniadau, yn ol y Gofres hon, ond dyfalu.—Yn awr, dodir ychydig esamplau o ail ran y gofres :—

PART II.—PROSE.

Cynnwys y rhan hon o'r casgliad 53 o gyfrolau ysgrifenedig, mewn tua 15,300 o dudalenau; yn cynnwys nifer mawr o ysgrifau anghyffredin ar wahanol byngciau; a rhai o honynt yn cynnwys “Llenyddiaeth Gymreig” a gynnyrchwyd yn y rhan gyntaf o gyfnod y testyn, y rhai a ddeuant dan sylw yn y lleoedd priodol. Dylid sylwi hefyd fod yr un cyfansoddiadau yn dygwydd yn fynych mewn gwahanol goflyfrau o'r rhan hon o'r casgliad, yr un modd a'r rhan flaenorol. Wele ychydig esamplau o ddechreu y rhan hon eto o'r gyfres :—

No. I.—A folio book of 445 pages, called *Achau*, volume 1, written by Mr. O. Jones, being the Genealogies of the principal families of Wales.

No. II.—A folio book of 406 pages, called *Achau*, volume 2, written by Mr. O. Jones, being a continuation of the Welsh Genealogies, with the blazonry of the arms of the ancient families.

No. III.—A folio book, interleaved of 314 pages, written by W. Williams, A.D. 1630, and containing the following documents :—

1. Extenta com. Anglisey facta per Johannem de Delves, Anno 26^o Regis Edwardi tertii, post conquestum Anglie, annoq. Domini 1352.
2. The charter of North Wales, dated apud Westminster, tertio die Martii, anno regni uri vicesimo secundo, A.D. 1507.
3. Charter Elian, given by Edward IV.—'Zeste meipso apue Caernarvon decimo die Octobris, anno regni uri octavo, 1469.'
4. A Bull or Letter of Pope Julius 2^{us}. 'dilecto filio Johanni Hughes canonico ecclie de Kastre Kyby Bangorien dioc.—Dat.....anno incarnationis Dominice milesimo quingentesimo sexto pridie Ro: Octobris pontificatus uri anno tertio, 1506.

No. IV.—A folio book, of 292 pages, being a Miscellany, called Y Gell Gymysg, volume I, written by Mr. O. Jones, and containing, among other articles, the following :—

1. Cwynion, or Ancient Welsh Law-pleadings.
2. Goreuon, or Most Excellent Things.
3. The Ancient British Kings.
4. Letters on Archæology and Poetry.
5. Extracts from Lewis Dwnn's Genealogies.
6. The Thirteen Rarities of the Isle of Britain.
7. Damegion or Fables written about A.D. 1300.
8. An Account of Poetical Controversy between the Rev. Archdeacon Prys and W. Cynwal.
9. Additions to Dr. Davies's Dictionary, by L. Morris.

Dilynir y rhan yna gan dair rhan arall o'r *Gell Gymmysg*, o gynnwysiad cyffelyb; y pedair rhan wedi eu hysgrifenu gan Mr. Owen Jones, ac oll yn 967 o dudalenau.

Heb law amryw gyfrolau craill o'r casgliad lluosog hwn a adysgrifenyd gan Mr. O. Jones, a chan Mr. H. Maurice, y Dr. Pughe, ac eraill i Mr. O. Jones, cynnwys y cynnulliad luaws o ysgrifau gwir hynafol, ar femrwn ac ar bapur; megys Cyfreithiau Hywel Dda, y Brutiau, y Diarhebbion, y Mabinogion, a'r cyffelyb, a ysgrifenyd gan hynafiaid nas gwyddys yn fanwl pa bryd. Yr hyn a bâr i'r darllenydd ymchwilgar ymdeimlo braidd yn somedig wrth ddarllen y gofres hon, a rhai eraill a ysgrifenyd yn ddiweddar, ydyw gwaith yr adysgrifwyr yn peidio nodi yr hen lawysgrifau a adysgrifened ganddynt, ac yn peidio dilyn y llythyreniad yn fanwl a gofalus.

Pethau a dery'r darllenydd crassus wrth chwilio cynnwysiad gwahanol hen lawysgrifau ydyw, nid yn unig bod yr un cyfansoddiadau i'w cael mewn gwahanol gasgliadau, ond hefyd bod amryw gopïau o'r un cyfansoddiadau i'w cael yn yr un casgliad. Cymmerer ychydig esamplau o'r casgliad cyflawna, ond odid, sydd ar gael, sef eiddo yr Hengwrt (Peniarth yn bresenol). Cynnwys y casgliad godidog hwnw, er enghraifft, 17 o gopïau o Gyfreithiau Hywel Dda; 10 o Frut y Brenhin-

oedd ; 3 o Frut y Tywysogion ; 3 o Waith Lewis Glyn Cothi ; a cheir ynddo amryw gopïau o Frut y Saeson ; y Trioedd ; y Mabinogion, a hen gyfansoddiadau eraill. Wrth gymmeryd y pethau hyn i ystyriaeth, yn enwedig, wrth gofio bod cynnifer o'r un cyfansoddiadau mewn gwahanol gasgliadau, gall hoffwyr hen lenyddiaeth Gymreig obeithio, o leiaf, nad ydyw'r colledion a gafwyd trwy dân, a damweiniau eraill, ddim yn llawn cymmaint ag y gellid ofni eu bod, ar yr ystyriaeth gyntaf.

PENNOD IV.

YMCHWILIAD EDWARD LLWYD I HEN GASGLIADAU LLAWYSGRIFOL ; CYHOEDDIAD LLAWYD O HEN LAWYSGRIFAU Mewn Canlyniad ; A GWAHANOL FEIRNIADAETHAU ARNYNT.

YCHYDIG a wyddid am gynnwysiad hen Lawysgrifau Cymreig hyd y fl. 1707, pan gyhoeddodd Edward Llwyd yr *Archæologia Britannica*. Chwiliodd ef yr holl hen gasgliadau cyrhaeddadwy iddo ; a llwyddodd yr hanes sydd yn ei waith i dynu cryn sylw atynt ; ond nid argraffwyd dim o honynt hyd y fl. 1764, pan y cyhoeddodd y Parch. Evan Evans (*Ieuan Brydydd Hir Ieuaif*) ei *Specimen of the Poetry of the Ancient Welsh Bards* ; yn yr hwn y mae deg o ganiadau y "Gogynfeirdd," gyda chyfieithiad Seisnig ar gynllun Macpherson.

Dilynwyd esampl Ieuan gan Edward Jones (*Bardd y Brenin*), yr hwn yn y fl. 1784, a gyhoeddodd ei *Musical and Poetical Relics of the Welsh Bards* ; yn yr hwn y cyhoeddodd amryw ddarnau o ganiadau y "Cynfeirdd" a'r "Gogynfeirdd," gyda chyfieithiad llythyrenol gan Iolo Morganwg ; a chynorthwyid ef hefyd gan y Dr. Pughe.

Yn y blynyddoedd 1789 ac 1790, cyhoeddodd y Doethawr bump o ganiadau a briodolid i Taliesin yn y *Gentleman's Magazine*, gyda chyfieithiad Seisnig ; ond bernir yn gyffredin

fod y cyfieithiad yn rhoi ystyr rhy gyfriniol i'r ymadroddion er rhoi syniad cywir am wir natur y caniaidau. Pa wedd bynnag, gwelir i *Archaiologia* Edward Llwyd roddi cynhyrriad effeithiol yn llenorion y genedl i chwilio, cyfieithu, egluro, a chyhoeddi hen lawysgrifau lliosog a dyddorol y Cymry; eithr nid yw yr hyn a nodwyd ond rhan fechan o'r cynnyrch gwerthfawr a ddilynodd, fel y dangosir mor fyr ag y gellir rhag llaw.

Yn y fl. 1792, cyhoeddodd y Dr. Pughe *The Heroic Elegies and other Pieces of Llywarch Hen*,—gyda chyfieithiad Seisnig llawer mwy llythyrenol na'r cyfieithiad a roddes yn y *Gentleman Magazine*. Cynnwys y gwaith gasgliad lled gyflawn o waith Llywarch Hen; ond ni fynegir o ba ysgriflyfrau y cymmerwyd y testyn argraffedig, tra y cynnwys y nodiaidau gymhariadau, fel y dywedir, â *Llyfr Du Caerfyrddin* ac â *Llyfr Coch Hergest*; ond nid yw'r gwahanol ddarlleniadau i'w cael yn y llyfrau hynafol hyny fel y maent yn y nodiaidau.

Llwyddodd llafur Edward Llwyd, a'i olynwyr, o'r diwedd, i dynu sylw y Saeson at hen lenyddiaeth y Cymry; canys yn y fl. 1799, cyhoeddodd Sharon Turner ei *History of the Anglo-Saxons*. Yn y gwaith hwnw, seiliodd Turner brofion hanesyddol ar rai o'r caniaidau a gyhoeddassid gan Ieuan Brydydd Hir Ieuaf, gan Fardd y Brenin, a chan y Dr. Pughe. Difynodd *Farwnad Geraint ap Erbin* a briodolir i Lywarch Hen, megis yn cynnwys hanes am frwydr wirioneddol a ymladdwyd yn Llongborth, rhwng Cerdic, sylfaenydd Teyrnas Wessex, a'r Brytaniaid. Cyfeiriodd hefyd at y caniaidau a briodolir i Taliesin, a elwir "Argoed Llwyfain" a "Gwaith Gwenystrad," fel gwir hanesyddiaeth; ac ystyriai fod cân fawr y "Gododin" gan Aneurin, yn darlunio gwir ryfel rhwng y Brytaniaid ac Angliaid Teyrnas Ida. Tynodd hyn feirniadaeth arno gan ddau o brif wrthwynebwyr honiaidau Ossian, sef John Pinkerton a Malcolm Laing, y rhai a haerent fod y caniaidau hyny yr un mor annheilwng o grediniaeth. Mewn canlyniad i'r ymosodiadau hyny, cyhoeddodd Turner yn y fl. 1803, ei *Vindication of the Genuineness of the Ancient British Poems of Aneurin, Taliesin, Llywarch Hen, and Merddin*. Ymdrechodd brofi

dau osodiad yn y traethawd llafurus hwn :—Yn gyntaf, bod y pedwar bardd hyn yn wir hanfodau, ac yn byw yn y 6ed ganrif ; ac, yn ail, bod y cania dau a briodolir iddynt, gyda rhai eithriadau, yn wir waith iddynt. Pa wedd bynnag, â'r cania dau hanesyddol yn unig yr ymdrinodd efe, gan eu hystyried yn ddigonol i'w amcan ; ac ni chynnygiodd unrhyw ddadansoddiad beirniadol ar y cania dau fel cyfanwaith. Ystyriwyd bod yr amddiffyniad hwnw, ar y cyfan, yn penderfynu bod y cania dau yn wir waith y beirdd y priodolir hwynt iddynt ; ac ymddangosai y credid yn gyffredin, fel gwirionedd, fod corff o wir farddoniaeth Gymreig yn bod yn y 6ed ganrif, a roddai oleuni neillduol ar hanes y wlad.

Yn y fl. 1801, cyhoeddwyd yr holl ganiadau a nodwyd, a llawer ychwaneg, trwy haelfrydedd Mr. O. Jones (Myfyr), Pân-fasnachydd,¹ yn Thames Street, Llundain ; yr hwn, yn y flwyddyn honno, a'r rhai dilynol, a gyhoeddodd y *Myvyrian Archaeology of Wales*, yn cynnwys prif gynnyrchion hen lenyddiaeth Gymreig, yn brydyddol, traethodol, a cherddorol. Cynnorthwyd Jones gan Iolo Morganwg a'r Dr. Pughe, fel casglwyr a golygwyr y gwaith. Bernir mai prif ddiffygion y casgliad pwysig hwn ydyw peidio cyfeirio i'r hen lawysgrifau y cymmerwyd y cyfansoddiadau o honynt ; a pheidio rhoddi dim cynnorthwy i wahaniaethu rhwng y rhai sy'n debyg o fod yn wir hynafol a'r rhai sydd yn ffugiol. Gadewir y testyn hefyd heb ei gyfieithu na'i egluro. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r *Myv. Arch.* yn y fl. 1860, a'r blynyddoedd dilynol, mor fanwl ag y gellid, o'r argraffiad cyntaf, gan Mr. Thomas Gee, Dinbych ; ac i'r argraffiad hwnw y cyfeirir yn y traethawd yma.

Yn lled fuan ar ol cyhoeddi yr argraffiad cyntaf o'r *Myv. Arch.*, a thra'r oedd cyffro mawr ynghylch yr hen lenyddiaeth Gymreig, daeth y Parch. Edward Davies (" Y Celtig Ddafis ") i'r maes, a chymmerth olwg hollol wahanol i'r eiddo Turner, ac eraill, yn y ddau waith a gyhoeddwyd ganddo ; sef, y *Celtic Researches*, a gyhoeddwyd yn y fl. 1804, a'r *Mythology and Rites of the British Druids*, a gyhoeddwyd y fl. 1809. Ei

¹ A furrler.

² Hynafant Cymry Myfyr.

ddamcaniaeth ef ydyw, bod yr hen ganiadau yn trosglwyddo cyfundrefn o chwedloniaeth a fu'n grefydd y Derwyddon yn y cyfnod Paganaid ; a'i bod fyth yn cael ei phroffesu yn ddirgel gan y Beirdd Cymreig, eu gwir olynwyr. Ymdrecha ddangos trwy gyfeithiad llafurus o'r Gododin, mai perthyn y mae i hanes draddodiadol "Cyflafan y Beirdd," yng Nghaer Gawr,¹ a elwir "Brad y Cyllyll Hirion," ac ychwanegodd nifer o ganiadau Taliesin at ei waith, gyda chyfeithiadau i ddangos yr ystyr gyfriniol, yn ei dyb ef, sydd yn eu tryfritho. Ymdrechwyd cadarnhau yr amcandyb yma ym mhellach fyth gan yr Anrhydeddus Algernon Herbert, mewn dau waith a gyhceddwyd ganddo heb ei enw wrthynt ; sef, *Britannia after the Romans*, yn y fl. 1836, a *The Neo-Druidic Heresy*, yn 1838. Cymmer ef yr un golwg ar ystyr y *Gododin* a Davies ; a thrwy lawer o amcandyb cywraïn a gwyllt o barth hanes *Ol-Rufeinig Brydain*, haera fod cydymlyniad wrth hen Baganiaeth y Derwyddon wedi achosi rhwygiad yn yr Eglwys Frytanaidd ; a bod y Beirdd dan enw Cristionogion, a rhith o enw Cristionogol, yn dirgel broffesu Paganïaeth fel cyfrinwisg, a elwir ganddo ef "*The Neo-Druidic Heresy* ;" at yr hyn, fel yr haera efe, y dirgel awgrymir yng nghaniadau Taliesin. Dichon y byddai yn anhawdd canfod esampl ryfeddach o gywreindeb gwyrdroedig a chamddefnyddiad dysg, nag a gynnwys gwaith Davies a Herbert ; ond dfa'u ddarfod i'r egni â'r hwn yr amddiffyent hwy eu golygiadau, a'r ffugwisg dan yr hon yr ymdengys eu cam-gyfeithiadau, gynnyrchu argraff ar feddwl rhai fod canïadau Taliesin yn cynnwys math ar athronïaeth gyfriniol ; ac y mae'n ddilys ddiarreau fod ffug-ganiadau rhamantus beirdd diweddarach, megis Thomas ap Einion Offeiriad, ac eraill, a gam briodolir i Taliesin, fel y ceir gweled etto, wedi cadarnhau llawer ar yr argraff honno : er hyny, cydnabyddid yn gyffredin fod *Gododin* Aneurin, a chaniadau Llywarch Hen, yn gynnyrchion gwirioneddol y beirdd hyny ; a'u bod yn cofnodi gwir ddygwyddiadau hanesyddol.

¹ Stonehenge.

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd Herbert ei *Neo-Druidic Heresy*, sef 1838, dechreuodd yr *Arglwyddes Charlotte Guest* gyhoeddi y *Mabinogion*, o *Llyfr Coch Hergest*, gan mwyaf dan yr enw canlynol:—

The Mabinogion, from the Llyfr Coch o Hergest and other Ancient Manuscripts: with an English Translation and Notes, By Lady Charlotte Guest.

London: Longman, Orme, Brown, Green, and Longmans, Paternoster Row; and W. Rees, Llandoverey. MDCCCXXXVIII. [8plyg breiniol].

Dywed yr Arglwyddes fod y Mabinogion hyn yn gwahan-iaethu cymmaint o ran nodwedd, fel y gellir ystyried eu bod yn ffurfio dau ddosparth gwahanol; un yn dathlu gwroniaid y Cylch Arthuraid yn gyffredinol; tra y cyfeiria'r dosparth arall at bersonau a digwyddiadau boreuach.

Prif werth yr hen chwedlau Pabyddol ac eithafol ramantus hyn, fel yr hen chwedlau Cymreig braidd yn ddiethriad, ydyw dangos athrylith ddychymmygfawr eu cyfansoddwyr, ynghyd âg ansawdd ac arddull yr iaith Gymraeg yn yr amser y cyfansoddwyd, neu yr adysgrifenyd hwynt. Dechreu y chwedl flaenaf yng nghanoliad yr Arglwyddes Guest fel y canlyn:—

IARLLES Y FFYNNAWN.

Yr amherawdyr arthur oed ygkaerllion arwysc. Sef ydoedd yn eisted diwarnawt yny ystauell. Ac ygyt ac ef owein uab uryen. Achynon vab clydno. A chei uab kyner. A gwenhwyuar ac llawuorinyon yngwniaw wrth ffenestr. Achyt dywettit uot porthawr ar lys arthur. nyt oed yr vn. Glewlwyt gauaelawr oed yno hagen ar ureint porthawr y aruoll ysp aphellennigyon. ac ydechreu euhanyrdedu. ac y uenegi moes y llys ac deuwat udunt. Yr neb adlylei synet yr neuad neu yr ystauell oe venegi idaw. Ac ymperued llawr yr ystauell ydoedd yr amherawdyr arth yr eisted. ar demyl oirvrwyn allenn obali melyngoch ydanaw. Agobennyd aedudet o bali coch dan penn y elin.¹

Y mae ail argraffiad o'r chwedlau rhamantus hyn wedi cael ei gyhoeddi yn ddiweddar gan Mr. Isaac Foulkes (Llyfrbryf), 18, Brunswick Street, Liverpool.

Ym mhen tua dwy flynedd ar ol i'r Arglwyddes Guest ddechreu cyhoeddi y *Mabinogion*, dechreuodd y Gymdeithas ragorol a elwid *The Welsh MSS. Society*, ar ei gorchwyl o gyhoeddi hen lawysgrifau Cymreig. Ei blaenffrwyth oedd y gwaith canlynol:—

The Liber Landavensis, *Llyfr Teilo*, or the ancient register of the Cathedral Church of Llandaff; from MSS. in the Libraries of Hengwrt, and of Jesus

¹ Guest's Mabin. Part I. page 1.

College, Oxford : with an English Translation and explanatory notes, By the Rev. W. J. Rees, M.A., F.S.A., Rector of Cascob, Radnorshire, Prebendary of Brecknock, and honorary member of the Royal Cambrian Institution.

Published for the Welsh MSS. Society. Llandoverly : Printed and Published by William Rees : Sold also by Longman and Co., D. Williams, and H. Hughes, London ; and E. Parry, Chester. MDCCCXL. [8 plyg breiniol].

Math ar goflyfr Eglwys Gadeiriol Babaidd Llandaf ydyw yr hen lyfr, yn yr hwn y cofnodir Bucheddau Chwedlonol prif hen Esgobion Pabyddol y lle ; rhoddion gwaddoliadol y sefydliad ; a phethau eraill perthynol i'r esgobacth. Ysgrifenyddyd yr hen lyfr yn Lladin, heb ond ambell ymadrodd Cymraeg ynddo, yma ac acw, yn bur anfynych. Gwelir yn yr enwadalen uchod, ac fel y crybwyllwyd o'r blaen, fod copi o hono, cyn ei argraffu, yn Llyfrgelloedd Hengwrt a Choleg Iesu, Rhydychain. Dyma esampl o'i Gymraeg :—

O pen claud Ismael ar nant di galles i claud ni hit trui i coit bet imais, dilicat finnain gualon, gualon ni hit bet nant greitiaul ar hit bet mingui, mingui ni hit aper nant i galles, nant i galles ni hit bet penn claud Ismael, ubi incept ?¹

Dywedir mai Galfrid, neu Jeffrey, brawd Urban, Esgob Llandaf, oedd casglydd y gwaith hwn, tua dechreu y 12fed ganrif.

Yr ail gyfansoddiad a gyhoeddwyd gan *The Welsh MSS. Society*, a hyny yn y fl. 1846, oedd yr un canlynol :—

The Heraldic Visitation of Wales and the Marches, in the time of Queen Elizabeth, by Lewis Dwnn ; Deputy Herald at Arms, from such original Manuscripts as still exist. Edited by the late Sir Samuel R. Meyrick, K.H., LL.D., F.S.A., F.R.S., &c., assisted by W. W. E. Wynne, Esq., M.P., and Mr. Joseph Morris of Shrewsbury. [2 Gyfrol 4plyg freiniol].

Y trydydd gwaith a gyhoeddwyd gan *The Welsh MSS. Society* oedd hwn :—

Iolo Manuscripts. A selection of ancient Welsh Manuscripts, in prose and verse, from the collection made by the late Edward Williams (*Iolo Morganwg*), for the purpose of forming a continuation of the Myvyrian Archaeology ; and subsequently proposed as materials for a new History of Wales : with English translations and notes, by his son, the late Taliesin Williams (*Ab Iolo*), of Merthyr Tydfil. MDCCCLXVIII. [8plyg breiniol].

Llandoverly : Printed by William Rees.

Bu Ab Iolo farw yn y fl. 1847, cyn golygu mwy o'r gwaith na hyd t. 494, a gorphenwyd y gwaith dan olygiad y Parch. Thomas Price (*Carnhuanawc*). Y mae'n annichonadwy gwybod yn fanwl pa bryd y cafodd y dernynach sydd yn y

¹ Lib. Land., p. 152

gwaith hwn eu hysgrifenu gyntaf ; ond nid yw llythraeth y rhai a ystyrir hynaf o honynt, odid ddim hynach na Iolo Morganwg ei hun, fel y ceir gweled mewn difyniadau o'r gwaith a ddirir ger bron rhag llaw.

Y pedwerydd llyfr a gyhoeddwyd gan *The Welsh MSS. Society*, yw yr un canlynol :—

Lives of the Cambro British Saints, of the fifth and the succeeding centuries, from ancient *Welsh & Latin MSS.* in the British Museum and elsewhere, with English Translations, and Explanatory Notes ; By the Rev. W. J. Rees, M.A., F.S.A., Rector of Cascoed, &c.

Llandoverly : Printed and Published by William Rees ; London, Longman & Co., &c. MDCCCLIII. [8plyg breiniol.]

Casgliad yw'r gwaith hwn o fywgraffiadau chwedlonol yr hen Saint Cymreig Pabaidd ; sef Brychan, Beuno, Cadoc, Carannog, Dewi, Gwynlliw, Illtyd, Cybi, Padarn, Gwenfrewi, Catherine, Margaret, Midus, Brenandus, a Tathan. Cynnwys hefyd Achau amryw o'r hen "Saint" Cymreig ; Hanes Brychan Brycheiniog ; Hymnau y Merthyr Sant Curig ; a Thalfyriad o Hanes Brydain. Y mae Buchedd Beuno yn Gymraeg ; Dewi, yn Gymraeg a Lladin ; Catherine, yn Gymraeg ; Margaret, yn Gymraeg ; y lleill oll yn Lladin ; a'r cwbl wedi eu cyfieithu i'r Saesneg. Welc'n canlyn esampl o Gymraeg y llyfr :—

YMA YTREITHIR O ACH DEWI, AC O DALYM OE VUCHED.

DAVYD vab Sant, vab kredic, vab kuneda, vab Edyrn, vab Padarn Beistrud, vab Deil, vab Gordeil, vab Dwfsyn, vab Gordwfsyn, vab Amgnod, vab Amweryc, vab Onyt, vab Peru, vab Dubun, vab Ongen, vab Avallach vab Eugen, vab Eirdolen, vab chwaer Veir Wry, mam Iessu Grist.

Keredic vrenhin a wledychawd dalym o vlynnyded, ac ce enw ef y kavas Keredygyawn y henw, a vab a vu idaw, ac enw y mab oed Sant ; ac y hwnnw yd ymdangosser angel yn y hun, a dywedut wrthaw, " Vory," heb ef, " ti ey y hely, a thi agefili tri dyvot geyr llaw avon Deivi, nyt amgen Karw a Gleisiat, a Heit o weryn y mewn pren uch penn yr avon, yn y lle a elwir Henllan yr awr hon ; dyro dylery y tir y vab ny aned cito, efo breuydy deu le hyt dyd brawt y rei adywespywt uhot Linhenllan a Liconiancan."¹

Tybir i'r hen "Fucheddau" hyn gael eu cyfansoddi, medd y Golygydd, o gylch y 12fed ganrif ; ac y mae eu hansawdd dra Phabyddol yn profi iddynt gael eu cyfansoddi ryw bryd pan oedd Pabyddiaeth yn ei llawn rwysg yn y wlad ; ond y mae llythraeth, ac yn enwedig attalnodiad y Bucheddau

¹ Lives of the Cambr. Brit. Saints, p. 102.

Cymreig sydd yn y casgliad hwn, yn profi bod y copïau o'r sawl y cymmerwyd hwynt yn llawer diweddarach. Cymharer y difyniad yna â'r difyniad a gymmerwyd o Fabinogi "Iarlles y Ffynnawn."

Y pummed gwaith a gyhoeddwyd i'r *Welsh MSS. Society*, yw y canlynol :—

Dosparth Edeyrn Davod Aur ; or the Ancient Welsh Grammar, which was compiled by royal command in the thirteenth century by Edeyrn the Golden Tongued, to which is added Y Pum Llyfr Cerddwriaeth, or the Rules of Welsh Poetry, originally compiled by Dafydd Ddu Athraw, in the fourteenth, and subsequently enlarged by Simwnt Vychan, in the sixteenth century. With English Translations and Notes, by the Rev. John Williams. Ab Ithel, M.A., Rector of Llanymowddwy, and author of the Ecclesiastical Antiquities of the Cymry, &c.

Llandovery : Published by William Rees. London : Longman & Co. MDCCCLVI. [8 plyg.]

Dywedir, medd y Golygydd, bod y Grammadeg sy'n ffurfio sail "Dosparth Edeyrn Dafod Aur," wedi ei gasglu gan Geraint Fardd Glas yn y 10fed ganrif ; a bod y llawysgrif a ddefnyddiwyd yn cael ei chadw yng Nghastell Rhaglan, cyn iddo gael ei ddinystrio yn rhyfeloedd y Weriniaeth. Dywed i Edeyrn gasglu ei Rammadeg o gylch y fl. 1270 ; ond mai'r copi sy'n sail i'r un a gyhoeddwyd dan ei olygiad ef ydyw un "a ysgrifenyddwyd o adysgrif Mr. Lewis Richards o Darywen, Sir Faesyfed, wedi ei amseru yn y fl. 1821, gan y Parch. W. J. Rees, Cascob, yn 1832." Dywed, yr ymddengys, i Mr. Richards gymmeryd ei adysgrif o lawysgrif Iolo Morganwg." Ymddengys i minnau nad yw llythraeth a geiriadaeth y copi a argraffwyd nemawr, os dim, hynach nag amser Iolo Morganwg ; ond barned y darlennydd oddi wrth y difyniad canlynol :—

LLYMA Ddosparth a wnaeth Edeyrn Dafawd Aur, ar y llythyrenau Cymreig, ac ac ar Ymadroddion, ac ar y Mesurau Cerdd Dafawd, tan gof a chadw. Ac ef a'i gwnaeth wrth arch, a dymuniad y tri Arglwydd Penrhaith hynn, nid amgen, Llywelyn, fab Gruffydd, tywysawg Aberffraw, a brenhin Cymru oll, a Rhys Fychan, arglwydd Dinefwr, ac Ystradywy, a Morgan Fychan, ab Morgan Arglwydd, ab Caradoc, ab Rhydderch, ab Caradoc, ab Iestyn, ab Gwrgant, Arglwydd cyfoeth rhwng Nedd, ac Afan, a Chilfai, ac Arglwydd Penrhaith Morganwg.

Dengys Cofres Ancurin Owen fod copi o'r hen lyfr yng Nghasgliad yr Hengwrt (Peniarth yn awr), rhif 212, ac yng Nghasgliad Llansilin, rhif 33 ; ond nis gwn pa fath yw llythraeth a chystrawen y naill na'r llall. Ymddengys i mi mai fel cywreinbeth hynafol y mae prif werth y gwaith hwn, ac nid fel Grammadeg manwl a chywir o'r Iaith Gymraeg.

Llyfr arall a gyhoeddwyd i'r *Welsh MSS. Society*, sef y chweched, a'r olaf i'r Gymdeithas werthfawr honno, hyd y gwn i, ydyw y canlynol :—

The Physicians of Myddvai; *Meddygon Myddfai*, or the Medical Practice of the celebrated Rhiwallon and his sons, of Myddfai in Caermarthenshire, Physicians to Rhys Gryg, Lord of Dynevor and Ystrad Towy, about the middle of the thirteenth century. From ancient MSS. in the libraries of Jesus College, Oxford, Llanover, and Tonn; with an English Translation; and the Legend of the Lady of Llyn y Van.

Translated by John Pughe, Esq., F.R.C.S., of Penhelyg, Aberdovey, and edited by the Rev. John Williams Ab Ithel, M.A., Rector of Llanymowddwy.

Llandovery: Published by D. J. Roderic; London, Longman & Co. MDCCLXI. [8 plyg.]

Cynnwys y llyfr sydd fel y canlyn :—

CONTENTS.

Preface	page ix.
Legend of Llyn y Van	xxi.
Meddygon Myddveu	1
Physicians of Myddvai.	Part I.	35
Llyfr Meddyginiaethau	87
Enwau Llyisiau	281
Pwysau a Mesurau	281
Pethau da Meddyg	296
Anheporion Meddyg	296
Physicians of Myddvai.	Part II.	299
Weights and Measures	458
Index	493

Tybir bod yr hen lyfr hwn y gwerthfawrocaf, o ran sylwedd, i'r Cymry yn gyffredinol, o'r holl hen lawysgrifau Cymreig a gyhoeddwyd hyd yn hyn; a gresyn na cheid argraffiad rhad a helaeth o hono, wedi ei ysgrifenu yn llythraeth bresennol y Gymraeg, fel y gallai pob teulu yn y wlad ei feddiannu a'i ddeall; gan fod y meddyginiaethau, fel rheol, ynghyraedd pawb, herwydd mai *llyisiau* ydyw y rhan fwyaf o honynt.

Y mae'r llyfr argraffedig gwerthfawr hwn, fel y gwelir wrth y cynnwysiad uchod, yn ddwy ran. Y Rhan gyntaf yn proffesu bod yn gopi o waith digyfrwng Meddygon cyntefig Myddfai; sef, Rhiwallon a'i dri Mab, Cadwgan, Gruffydd, ac Einion, meddygon Rhys Gryg, Arglwydd Dinefwr. Am y copi hwn, a ddefnyddiwyd i'w argraffu, dywed y Golygydd yn ei Ragymadrodd Seisnig i'r perwyl yma :—

Tybir mai y llawysgrif wreiddiol ydyw yr un a drosglwyddwyd yn ddiweddar o lyfrgell yr Ysgol Rad Gymreig yn Llundain, i'r Amgueddfa Frytanaid. Y mae amryw gopïau o hon; yr un a fabwysiadwyd fel sylfaen y gyfrol hon o'r Llyfr Coch, yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, yr hon a gymharwyd yn ofalus gan y

Parch. Robert Owen, B.D., Cymmrawd o'r dywededig Goleg, âg adysgrif a wnaed gan y diweddar Mr. Saunders o gopi Mr. Rees, Tonn; yr hon lawysgrif, ymhellach, a gopiwyd o gylch 1766, gan William Bona, o Lanpumsant, o un arall a berthynai i Iago ap Dewi o Lanllawddog

Dechreu y rhan yma o'r gwaith fel y canlyn :—

§ I. Yma gan borth duw goruchel bendeuic, y dangossir y medegynyaether arbenickaf a phennaf wrth gorff dyn; a sef y neb a beris eu hyscrivennu yn y mod hwn Riwallawn uedic ae ueibon: nyt amgen: Kadôgaon a Gruffud ac Ein-aon. Kany's bynt a oedynt oreu a phennaf or meddyon yn eu hamser hwy; ac yn amser rys gryc eu harglwyd; ac arglwyd dïnefôr, y gwr a gedwis eu breint ac eu dlyet yn gôbyl ôrthynt yn enrydedus mal y dilynt.

Dengys cofres Aneurin Owen fod dau gopi o'r hen lawysgrif dan sylw yn Llyfrgell Hengwrt, Rhif 350 a Rhif 351; a bod yno hen lawysgrif arall, Rhif 24, a elwir yn y Gofres, "Medical Treatise, collected out of various authors, principally from Meddygon Myddvai."

Am yr ail Ran o'r llyfr argraffedig, dywed y Golygydd (Ab Ithel) fel hyn :—

Arwyddir i'r ail ran o'r gyfrol hon gael ei chasglu gan Howel y Meddyg, mab Rhys, mab Llewelyn, mab Philip y Meddyg, disgynydd unionllin o Einion, mab Khiwallon, o lyfrau Meddygon cyntaf Myddfai. Gwnaeth William Bona adysgrif o lyfr John Jones, Meddyg Myddfai, y disgynydd unionllin olaf o'r teulu, yn 1743. Cymmerth y diweddar Iolo Morganwg gopi o'r Llawysgrif hon yn 1801, a'i gopi ef, sydd yn awr yn Llyfrgell Llanofor, sy'n furfio testyn ein cyfrol.

Dechreu y rhan hon o'r gyfrol fel hyn :—

LLYMA Lyfr Meddyginiaethau a gafwyd yn oreuon ac arbennicaf wrth Gorph Dyn drwy ddeall ac ymbwyll ystig Khiwallon Feddyg a'i dri meibion, nid amgen na Chadwgawn a Gruffydd ac Einion; sef Meddygon oeddynt i Rhys Gryg ab Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr eu Harglwydd, yr hwn a roddes iddynt ansawdd a thiroedd a breintiau ym Myddfai, fal y gellynt ymgynnal ac ymddarbod au celfyddyd au dysegeidiaeth er iachad a lles au hymgeisiai.

Y mae'n ddigon amlwg mai yn llythyaeth Iolo Morganwg y mae y rhan hon o'r gwaith; ond ymddengys bod cynnwys y rhan yma o'r gyfrol yn llawn mor bwysig a chynnwys y rhan arall. Cymmerer ychydig esamplau ar ddoluriau sy'n bur fynych yn ein plith :—

RHAG Y DDANNOEDD.

Cymmer ddistyll rhos cochion, ag ychydig gwyr melyn, ag ychydig menyn r.ewydd, yr un faint o'r cwr a'r menyn, cymmysg ynghyd mewn dysgyl ar y marwor, gwlych liain ynddo a gosod ar yr ên lle bo'r dolur mor frwd ag y gelych ei oddef.

RHAG LLOSG TAN NEU DDWFR BRWD.

Rhostia ddeuddeg wi yn galed fel y garreg, yna cymmer y melyn o honynt, a dod mewn padell ffrio, ffria nhwy oni bont yn eliw, yna hidla, ag ira'r llosg ag ef wedi hynny cymmer bledren ac ira hi a gliw'r liwydden, a dod wrth y llosg.

RHAG CLWYF YR EISTEDDFA, A ELWIR HEFYD CLWYF Y
MARCHOGION (PILES).

Cymmer goch yr wden a sych ef, a gwna'n lwch mor fâl ag y gellych, yna dod ef ar farwor mewn tanllestr, a dod y llestr mewn cadair gist, ag eiste uwch ei benn.

RHAG DOLUR Y GARREG.

Cymer bylor y feleneuraidd, a elwir yn Lladin *virga aurea*, a dod lwyaid o hono mewn wi newydd ddodwi, gwedi 'i rostio'n dyner, a dyro i'r claf yn fwyd bore, ag na fwytaed ddim bedair awr yn ol hynny, a efe a wna ddwr cyn penn hanner awr ar ol hynny, ag arfered felly ddeg neu ddeuddeg diwarnod, ac efe a gaiff wated y garreg yn ddihoen, a da iawn yw hynn hefyd rhag y cyllwst wynt.

Cynnwys y rhan hon o'r gyfrol bwysig yma 784 o gynghorion syml, tebyg i'r rhai blaenorol, ar gynnifer o ddoluriau a chlefydau. Yna ceir 31 o sylwadau ar "Rinweddau a chyferddonau amrafaelion o lysiau er meddyginiaethu dyn." Dilynir hyna â Rhestr egwyddorol o "enwau y llyisiau a'r ffrwythau, a'r defnyddiau Llyseugael ac eraill a ddylai pob meddyg eu gwybod ag ymarfer ag wynt, fel y gwypo yn gadarn y maint a ddylid o bob peth yn ei raid a'i achos." Yn nesaf, hanner tudalen o enwau "pethau da eu bod ar wybod gan bob meddyg a phob penn teulu." Yn olaf, dau dudalen ar y "pethau a ddylent fod gan Feddyg, ar cynneddfau a ddylent fod arnaw, ag a elwir anhepgorion meddyg."

Dilynir hynyna gan 188 o sylwadau ar wahanol glefydau a doluriau, ynghyd â chyfarwyddiadau i'w hiachâu.

Am chwedl Llyn-y-Fan-Fach, sydd wedi ei doddi yn Saesneg o flaen gwaith y Meddygon yn y gyfrol argraffedig dan sylw, nid yw ddim amgen na rhamant wyllt o'r un awswydd a'r Mabinogion, Bucheddau y Saint, chwedlau'r Tylwyth Teg, a'r cyffelyb. Lluniwyd y chwedl dan sylw, yn ddilys ddiammhau, er mwyn ychwanegu dylanwad Meddygon Myddfai ar eu cyd-oeswyr ofergoelus; ac nid ydyw o ddim pwys erbyn hyn, ond fel cywreinbeth yn unig. Dodaf dalfyriad cyfieithedig o honi yma.

Yn ol y chwedl hon, yr oedd rhian yn byw gyd a'i thad a'i chwaer *dan ddwr Llyn-y-Fan-Fach*; a'r rhian honno oedd mam Rhiwallon Feddyg. Ei dad, yn ol yr un awdurdod, oedd ŵr ieuangc, nas enwir, a breswyliai gyd a'i fam weddw mewn tyddyn a elwid Blaensawdde, oedd o fewn tua dwy filltir i'r

llyn crybwylledig. Fel yr oedd y mab hwnnw yn rhodio un diwrnod hyfryd wrth ochr y llyn, er ei syndod boddhaol, gwelai y Rhian (boneddiges) brydferthaf a welodd erioed yn eistedd ar wyneb dwfr esmwyth y llyn, â'i gwallt tlyswiw yn chwyfio dros ei hysgwyddau; a phenderfynodd ar unwaith ymdrechu ei chael yn wraig. Wedi rhoi dau gynnyg aflwyddiannus, llwyddodd ei ymdrech egniol y trydydd tro i gael ganddi addaw ei briodi, ond ar yr ammod yn unig y byddai iddynt fyw ynghyd nes y derbynai hi "dri ergyd diachos" ganddo ef. Fel gwaddol, cafodd gan ei thad dyfrllyd gynnifer o eifr (gecifr *dwr*, bid sicr!) a allai gyfrif ar un anadl; a'r un modd o wartheg a meirch dyfrllyd.

Yna aeth y pâr ieuangc i fyw i dyddyn a'i enw Esgair Llaethdy, o fewn tua milltir i Bentref Myddfai. Fel yr oedd-ynt unwaith ar gychwyn i fedydd, gan ei bod hi dipyn yn hwyrfrydig i ymbarotai, dywedodd efe wrthi, gan roddi palfawd cellweirus ar ei hysgwydd, "dos, dos;" ac yn y fan adgofiodd hithau iddo eu hammod priodas; sef nad oedd efe ddim i roddi "ergyd diachos" iddi; a rhybuddiodd ef i fod yn fwy gwyliaid-wrus rhag llaw.

Ar achlysur arall, yr oedd y ddau gyd â'u gilydd mewn priodas; a thra'r oedd yr ymwelwyr ar ganol eu llawenydd a'u digrifwch, torodd hi allan i wylo ac ocheneidio yn dosturus. Yna, tarawodd yntau hi yn ysgafn ar ei hysgwydd, gan ofyn paham yr oedd hi yn wylo. "Yn awr," eb hithau, "y mae pobl yn dechreu eu trallodion; ac y mae eich trallod chwithau yn debyg o ddechreu, gan i chwi fy nharo i yr *ail* waith heb achos."

Aeth blynyddau heibio; a thyfodd eu plant i fynu yn wŷr ieuangc hynod o gelfydd; ac yr oedd hi a'i gŵr yn byw yn dra chysurus ac anwyl am eu gilydd; a rhybuddiai hi ef yn fynych i beidio rhoi "ergyd" iddi hi eto yn ddifeddwl a "diachos," gan mai'r gyfryw "ergyd" oedd y *drydedd*, yr hon a'u hysgarai hwy am byth oddi wrth eu gilydd; a pharodd hyny iddo yntau fod ar ei wyliaidwriaeth.

Pa wedd bynnag, digwyddodd eu bod un diwrnod gyd â'u gilydd mewn angladd ; a thra'r oedd y gwyddfodolion yn nyfnder eu difrifwch a'u wylo, torodd hi allan i chwerthin yn anghymmedrol, yr hyn a frawychodd ei gŵr ; ac efe a'i tarawodd yn ysgafn, gan ddywedyd, " taw ! taw ! paid a chwerthin." Dywedodd hithau ei bod hi yn chwerthin, " oblegid bod pobl pan yn meirw yn myned allan o'u tralod ;" a chan gyfodi, aeth allan o'r tŷ, gan ddywedyd, " Y mae'r ergyd *olaf* wedi ei daraw, a'n cyttundeb priodasol ninnau wedi ei dori ! Byddwch wych !" Yna, ymaith â hi tuag Esgair Llaethdy, lle y galwodd ei holl anifeiliaid ynghyd, pob un wrth ei enw. Galwodd ar y gwartheg fel hyn :—

Mu wlfrech, Moelfrech,
 Mu olfrech, Gwenfrech,
 Pedair cae tonn-frech,
 A'r hen wyneb wen
 A'r las Geigen,
 Gyd â'r Tarw Gwyn
 O lys y Brenin ;
 A'r llo du bach,
 Sydd ar y bach,
 Dere dithe yn iach adre !"

Ufuddhasant oll ar unwaith i wŷs eu meistres ; " a'r llo du bach," er ei fod wedi ei ladd, ac yn hongian " ar y bach " a ddaeth yn fyw drachefn, as a gerddodd ymaith gyd â'r gweddill o'r anifeiliaid ar orchymyn y Rhian Digwyddodd hyn yng Ngwanwyn y flwyddyn ; ac yr oedd pedwar o'i hychain yn tynu arad i aredig yn un o'r meusydd, ar y rhai y llefodd hi fel yma :—

" Pedwar eidion glas
 Sydd ar y maes,
 Deuwch chwithe
 Yn iach adre !"

Ymaith yr aeth yr holl anifeiliaid ar ol y Rhian ar draws Mynydd Myddfai tua'r llyn, o'r lle y daethent, tua chwe' milltir o bellder, lle yr ymsuddasant o'r golwg dan ei ddyfroedd, heb adael brisg o'u hol, oddi eithr cwys amlwg a wnaed gan yr arad a dynai yr ychain ar eu holau i'r llyn, yr hon sydd yn aros hyd y dydd hwn yn dystiolaeth o wirionedd yr ystoria yma.

Ni wyddys beth a ddaeth o'r gŵr truan, ar ol yr ysgariad torcalonus yma ; ond fel yr oedd y llangciau ar un o'u gwib-

deithiau unwaith, mewn lle yn agos i Ddôl Howel, wrth Lidiard y Mynydd, a elwir hyd heddyw, "Llidiard y Meddygon," ymddangosodd eu mam iddynt yn ddisymmwth, a chyfarhodd ei mab hynaf, enw yr hwn oedd RHIWALLON, a dywedodd mai ei orchwyl ef ar y ddaear oedd bod yn gymwynaswr i ddynolryw, trwy eu hesmwythâu o'u poenau a'u hannedwyddwch, gan welláu pob math o'u clefydau ; er mwyn yr hyn, cyflwynodd hi iddo ysgrepan yn llawn o Gynghorion Meddygol, a chyfarwyddiadau er cadw iechyd. Dywedodd y byddai iddo ef a'i deulu, trwy sylwi yn fanwl ar y rhai hynny, ddyfod y Meddygon medrusaf yn y wlad dros lawer o genedlaethau ; yna, gan addaw ei gyfarfod pan fyddai mwyaf o angen am ei chynghor, hi a ddiflannodd. Cyfarfu hi â'i meibion ar amryw achlysuron ar ol hyn yn agos i lanau'r llyn ; ac unwaith dilynodd hwy ar eu dychweliad adref, yn oed cyn belled a'r lle a elwir fyth, "Pant y Meddygon," lle y cyfeiriodd hwy at amryw blanhigion a llysiau oedd yn tyfu yn y "pant" hwnw, a datguddiodd iddynt eu rhinweddau meddyginiaethol ; a pharodd y wybodaeth a ddatguddiwyd iddynt ganddi hi, iddynt gyrhaedd y fath enwogrwydd ag na feddiannwyd gan neb erioed o'u blaen. Ac fel na byddai i'w gwybodaeth golli, hwy yn ddoeth a'i dodasant mewn ysgrifen, er budd i ddynolryw trwy yr holl oesau.

Felly y terfyna Ystoria Meddygon Myddfai, yr hon a dros-glywyddwyd o'r naill genhedlaeth i'r llall fel hyn :—

"Yr hen ŵr llwyd o'r cornel,
Gan ei dad a glywodd chwedel,
A chan ei dad fe glywodd yntau,
Ac ar ei ôl mi gohais innau."

Yn y fl. 1874, dechreuwyd cyhoeddi y gwaith canlynol, a pharhawyd i'w gyhoeddi yn 1875—6, pan y gorphenwyd ef, dan yr enw canlynol :—

Y SEINT GREAL, being the adventures of King Arthur's Knights of the Round Table, in the quest of the Holy Greal, and on other occasions. Originally written about the year 1200. Edited with Translations and Notes, from the copy preserved among the Hengwrt MSS. in the Peniarth Library, by the Rev. Robert Williams, M.A., Rector of Rhydycoesau, Denbighshire ; Canon of St. Asaph.

London : printed for the Editor by Thomas Richards, 37, Great Queen Street. [8-plyg.]

Am y rhamant eithafol yma, cyfeithir y talfyriad canlynol o Ragymadrodd Seisnig ei Olygydd :—

Y mae'r gyfrol werthfawr yma, un o emau Llawysgrifau Hengwrt, yn awr yn Llyfrgell Peniarth ; a chaniataodd Mr. Wynne yn garedig i mi wneud adysgrifiad cyflawn o honi. Cynnwys y gyfrol ddwy ran : cyfieithiad ydyw y gyntaf, gyd âg ychydig gyfnewidiadau bychain, o'r *Roman du Quete du Saint Greal* ; a ysgrifenydd yn wreiddiol gan Walter de Mapes, yn Ffrangeg-Normanaid, yn y rhan olaf o'r 12fed ganrif. Ffuria'r gyfran yma t. 1100 o'r Llawysgrif, y trydydd llyfr ar ddeg hyd yr ail ar bymtheg ym 'Morte d' Arthur,' gan Sir Thomas Malory, a argraffwyd gan Caxton yn 1435 ; a chyhoeddwyd y testyn Ffrangeg-Normanaid gan Mr. Furnivall o'r Roxburgh Club, yn 1864, 4-plyg. Er y cyttuna hwn yn agos â'r testyn Cymraeg, nid yw yr un y cyfieithwyd y Cymraeg o hono, nac ychwaith yn un o'r tair llawysgrif ar ddeg Paris, o'r sawl y dyry Mr. Furnivall y dechreuad.

Cynnwys yr ail gyfran o'r Greal Cymraeg, t. 100—280, anturiaethau Gwalchmai, Peredur, a Lancelot, ac eraill o Farchogion y Ford Gron ; ond ni chanfyddir y rhai hyn yn y Morte d' Arthur. Y mae Llawysgrif Peniarth wedi ei hysgrifenu yn brydferth ar femrwn, ac mewn cadwraeth berffaith ; a'i hamseriad yw yr eiddo Edward VI., y rhan foreol o'r 15fed ganrif. Y mae arddygraff ac arddull yr ysgrifeniad yn cyttuno'n llythyrenol â'r eiddo y Mabinogion sydd yn Llyfr Coch Hergest, y rhai sydd o'r un amseriad. Adysgrif, wrth reswm, yw hon, o gopi boreuach ; ond nid oes dim sicrwydd pa bryd y'i cyfieithwyd gyntaf i Gymraeg, er bod Aneurin Owen yn ei Gofres o Ysgriflyfrau Hengwrt yn ei briodoli i chweched flwyddyn Harri I. Fe'i crybwyllir gan Dafydd ab Gwilym, yr hwn a fu farw yn 1368 :—

“ Rhodlais i'th geisio iaith digasog,
Mal y greal myn y grog.”

Tybir mai dau gopi yn unig sydd yn awr mewn bod ; hwn ym Mheniarth, a'r llall ymhlith Llawysgrifau Gloddaeth :—

Sang royal ae cavas, ae ae duc y nev; nyt amgen Galaath vab Lawnslot dy lac. Peredur vab Evroc, Iarall a Bwrt, vab brenin Bwrt. Y copi cyntaf a ysgrifennodd Mastir Phylip Davydd o unig llyvyr y urddedig ewythyf, Trahaearn ab Ieuan ab Meuric, ae ysgrifennodd Siencyn, vab John vab Siencyn, vab Ieuan Vychan, vab Ieuan, vab Einion, vab Rhys, vab Madoc, vab Llewelyn, vab Cadwgan, vab Elystan Glodrydd. Vellum folio.

Pan y ceir gwybod amser Siencyn ab John, ceir gwybod pa bryd y cyfeithwyd ef gyntaf. Rhaid bod copiau o hono wedi bod yn bur brinion bob amser. Ymhlith caniadau Gutto'r Glyn y mae un wedi ei chyfeirio at yr uchod Drahaearn ab Ieuan ab Meurig ab Howel Gam, o Waenllwg yn sir Fynwy, yn erfyn benthyg y Greal i Dafydd, abad Llanegwestl.

Am un llyvyr y mae'n llevain,
A gar mwy nag aur a main;
Y Greal teg i'r wlad hon,—
Llyvyr o enwog varchogion;
Llyvyr o greft yr holl Vord Gron.

Argraffwyd hyn yn yr "Iolo MSS.,"¹ a chynnwys yr un gyfrol gywydd gan Ieuan Ddu y Bilwg,² cyfeiriedig at Lewis, abad Glyn Nedd,³ am fenthyg y Greal. Yr oedd y bardd hwn yn ei flodau o 1460 i 1500.

¹ Fel y canlyn y mae'r difyniad uchod yn gyflawn yn Iolo MSS. t. 325:—

"Gwybodau Argraffau Gwydd
Gwrio'dd wyf a gar Ddafydd
Am un llyfr y mae'n llefain,
A gar mwy nag Aur a Main,
A chwynfawr am f'ch anfon
Y Greal teg i'r wlad honn,
Llyfr y Gwaed, llyfrau Gwyr,
Lle syrthyt yn Llys Arthur,
Llyfr am enwog Farchoglon
Llyfr teg radd yr holl fort gron

² Dechreu'r cywydd crybwylledig, yr hwn ni ddifynwyd gan Mr. Williams, fel hyn:—

"Y GWAER Llyfr geirwir llwyd
O Lyn Nedd a lunieiddwyd,
A draw'd mewn deuar neu dri
Gymmendod Magamwndi,
Saith gwybod da cydnodwn
Mae n y saith ynn mynnes hwnn,
Gramer a ffyrtdler y ffydd
Grym deugain Gramadegydd,
Ym mewn art y mae'n wr
Mewn sufyl y mae'n waesafwr
Mewn soffstri mae'n bewi'n bur
Mewn Miwsig mwy na mesur.
Nid oes ysgolhaig na dau
Yn y byd un wybodlau,
Mae dysg ar feddiant gantaw
Mae'n *ter drych* o mynnir draw.

³ Gwelir bod yr hen chwedl hon, megis hen "chwellau gwneuthur" eraill, yn drachnimeradwy gan swyddogion eglwysig Pabaidd ein cenedl. Eros *Atad* Llanegwestl y gwnaeth

Gwelir bod cariad at lenyddiaeth yn fawr ymhlith ein hynafiaid pan y canfyddir bod llyfr mor helaeth a'r Greal wedi ei gyfieithu i Gymraeg er yn agos i dri chan mlynedd cyn ei ymddangosiad yn Saesneg;—a hyny ond odid, am fod yr awdwr gwreiddiol yn Gymro; canys yr oedd Walter, archddiacon enwog Rhydychain, yn fab Blondel de Mapes a Fflur, merch Gweirydd ap Seisyllt, Arglwydd Llancarfan. Cyfieithodd Walter y Cronicl Brytanaidd i'r Lladin, a gwnaeth gyfieithiad Cymreig o Hanes gan Geffrey o Fynwy. Ysgrifennodd Draethawd hefyd ar Amaethyddiaeth, yn Gymraeg, yr hwn sydd ar gael mewn amryw lawysgrifau. Cymro hefyd, yn ol Leland yn y "Biographia Britannica," oedd y cyfieithydd Seisnig, Syr Thos. Malory.

Bum yn awyddus hefyd i roddi testyn Seint Greal i'r darlennydd yn llythyrenol a manwl, fel y mae, gan gadw yr attalnodau a dosparthiad y pennodau, heb gywiro dim ond gwallau amlwg yr adysgrifenydd. Cefais fantais fawr hefyd i gymharu pob prawfen fel y'i hargreffid â'r gwreiddiol, fel y gellir derbyn y gwaith fel copi perffaith.

Y Seint Greal yw'r pwysicaf o'r cyfansoddiadau rhyddieithol sydd yn aros mewn llawysgrif; ac y mae wedi ei ysgrifenu yn y fath Gymraeg bur ac ieithweddaudd, fel y mae yn meddu holl werth gwaith gwreiddiol, ac y mae'n dra theilwng o fyfyrddod ysgrifenywyr y dyddiau presenol, ychydig o'r sawl a allant ysgrifenu cymmaint a thudalen heb ddwyn i mewn ieithweddau Seisnig, wedi eu cyfieithu yn llythyrenol.¹

Dechreu y rhan gyntaf o chwedl "Seint Greal" fel hyn:—

I.—Megys ydoed yr amherawdyr arthur yn y llys aelwit camalot nos sadwrn sulgwynn. oet yr arglwyd iessu grist. pedeir blyned ardec a deugeint a phedwar cant. Ac ygyt ac ef yd oedylt o vilwyr y vort gronn dec a deugeint a chant. A gwedy mynet pawb i eistedd onadunt aruthraw ar wta. nyhaf yndyuoet y mywn hyt geyrbronn arthur unbenn ieuanc yn aruawe ef ay varch. ac yn dywedut wrth arthur. Hanpych gwell amherawdyr arthur heb ef. A thitheu unben poet da itt

Gu'to'r Glyn ei cywydd i ofyn yr hen chwedl yma; ac i'w gofyn i *Abad Glyn Nedd* y gwnaeth Ieuan Du'r Bilwg ei gywydd yntau; a gwyddys mai penaethiaid y Mynachlogydd Pabaidd oedd yr *Abadau*. Yn wir, ymddenzys na wyddai'r bobl gyffredin ddim am y cyfryw chwedlau, fel y dywed y *Parch. W. J. Rees* (*Lives of the Cambr. Brit. Saints, Pref. p. viii.*); oddi eithr yn unig y dderbynach a gyfieithid o honynt, i'r darllen yn yr *Eglwysydd!*

¹ Fel yna y terfyna fy nhalfyriad cyfieithiedig o Ragnadrod y Golygydd.

heb yr arthur. Arglwyd heb y mackwy a yttiwlawnslot yma yn un lle. Yttiwlawnslot heb yr arthur, ac dangos idaw aoruc. yna y mackwy a doeth parth ac attlawnslot. ac adolwyn idaw yr mwyn yr hynn mwyhaf a garawd eiryoet dyuot ygyt ac ef hyt y fforest aoed yn agos udunt. Paryw neges unbenn yssyd ytti amuyll heb y lawnslot. Ti ae gwely arglwyd wedy y delych yno heb y mackwy. Ynllawen heb y lawnslot a minneu a af ygyt athydi : Ac yna erchi y ysgwier idaw dwyn y arueu attaw. ac velly y gorucpwyt. A phan welas y brenhin hynny a barwnyeit y llys. ny bu hoff ganthunt. Ac yna gwenhwynar a dywawt. lawnslot heb hi. aoes gennyt ti onyt yn gadaw ni ar dyd Kyvuch a hediw. Arglwydes heb y mackwy gwybyd ynllwgwir y byd ef yma draegeuyn auory erbyn bwyt. Gan hynny heb hitheu aet ynteu ygyt athydi yn llawen. Ac ar hynny esgynny ar eu meirch aorugant ef ar marchawc arall.

Terfyna y rhan gyntaf hon o'r chwedl fel y canlyn :—

LXX.—Pan weles paredur a bwrt galaath yn varw trist a dolurus vu ganthunt. aphanbey eu daet gwyr wynt a syrthassant mywn anobeith. arbobyll or wlat a auant trist heuyt. Aphan daruu argyfrein galaath ae gladu paredur agymerth abit meudwy ymdanaw. a bwrt adrigyawd gyt ac ef. dieithyr na chymerth ef angen abit noc un y byd ual y gnotaawd or blaen. Kany y vedwl oed ar dyuot dracheuyn y lys arthur. Blwydyn ddeuvis gwedy hynny y bu baredur yn vyw. Ac wedy y varw bwrt a beris y gladu gyt ae chwaer. Pan weles bwrt y vot ehun megys yn ardal babilon. ef a gychwynnawd ymeith yn aruawg ac adoeth yr mor. Ac agafas ysgraff ac adoeth racdaw. ac ny bu haeach o amser nny doeth y loegyrr. Agwedy y dyuot yr tir ef avarchocaaawd yn y doeth y gamalot. yn y lle yd oed arthur yr hwnn a wnaeth idaw lawenyd mawr ef ae varwnyeit kany wynt adebygassynt y golli yr ystalyrn. Agwedy bwyta arthur aovynnawd idaw y gyfrangk. ac ynteu ae datkanawd idaw ual y clywsawch or blaen. Ac yna arthur aberis y ysgruennydyon ysgruennu eu hanturyeu. A gwedy daruot gwneuthur ac ysgruennu anturyeu y greal o gwbyl. wynt aanuonet y ynys auallach oe cadw. Ac uelly y teruyna y rann gyntaf or greal. nyt angen nor keis. Bellach dywedadwy yw or rann walchmei. ac o anturyeu y milwyr ual y kyfaruu ac wynt.

Dechreu "yr ail ran" o'r Greal fel hyn :—

Er ystoria honn a draetha y wrth y racwerthuawr lestyr yr hwnn a elwir y greal. yn yr hwnn yd erbynnwynt gwaet yn creawdyr ni iessu grist nny dyd y rodet ef ar brenn y groc yr prynu y bobyl o gaethiwet uffern. A Joseph ae hysgrifennawd drwy orchymun angel or nef. kany duw a yynnawd gwybot gwirioned drwy y ysgrifennyat ef am y damwein hwnnw. aheuyt drwy dystolyaeth y gwyrda. ac a yynnawd gwybot o bawp drwy yr unryw Joseph. padelw y goddefassant ymilwyr gynt poen athrauael yr drychafel cret grist. yr honn a atnewydawd crist drwy angheu a chrocedigaeth. a gwybydet bawp nat y ioseph hwnn yw ioseph o arimathia.

Terfyna yr ail ran o'r chwedl Babyddol hon fel y canlyn :—

Y trossyawdyr yssydd yma yn mynegi yr darlleodron mae drwc adoluryus yw ganthaw nawybu pale yn yr ynys honn yr oed lys brenhin peleur. namyn hynny o diwed ar yr ystoria honn a hyspyssafi y chwi drwy welet ohonof inneu yn llyfreu ereill. Nyt angen no Joseph yssyd yn tystolyaethu. mynet paredur or castell yn ryw amser. ac ny wybuwynt med ef o hynny allan un geir y wrthaw y mywn ystoria or byt. ac y mae yn dywedut trigyaw Joseph yn y castell a vu eidaw brenhin peleur, a chaeu y castell arnaw hyt na allei neb vynet attaw y mywn. heb vuched idaw onyt yr hynn avynnei duw y anuon idaw. Ac yno y bu ioseph yn hir o amser wedy mynet paredur y wrthaw. ac yno y bu varw ef. a gwedy y varw ef y dechreuawd y castell orythaw. Eissyoes y capel ny bu waeth ef o dim. namyn yn yr un mod y trigyawd ef. ac uelly etto y mae. Y lle hwnnw aoed bell y wrth dynyon. a lle arthur oed wedy y atueilyaw. Ar bobyl aoed ar y tir ac yn yr ynyssoed nessaf idaw aoed ryued ganthunt beth oed yno. Ac yna ef a doeth chwant y rei vynet y edrych beth aoed yno lle hwnnw. ac wynt aethant ac ny

doeth yr un onadunt drach eu kevyn. ac ny wybuwyt un chwedl vyth y wrthunt. Y chweilleu hynny aethant y bob gwlat. ac ny lynassawd neb wedy hynny ynet yno. namyn deu varchawc o gymry y rei a glywassant ymdidan am hynny. ac oedynt wyr ieuieinc adwyrdec. a phob un onadunt a ymgredawd ae gilyd am vynet yno. ac yno wynt adoethant. ac a drigyassant yno yn hir o amser. A gwedy eu dyuot o'lyno wynt a ymborthassant megys meudweyt. ac awisgassant peisseu rawn ymdanunt. Ac velly y gnottaassant gerdet arhyt fforestyd diffeith. ac ny bwyteynt onyt gwreid llyseuoed. ac ansawd galet arnunt. eissyoes yr oed hynny yn rengi bod udunt wy. Aphan ovynnit udunt paham y bydynt uelly. Ewch medynt wynteu wrth y rei ae govynnei yr lle y buam ninneu achwi ae gwybydwch ac uelly yd attebynt y bawp. Ac uelly y bu y marchogyon hynny yn y vuched santeid honno nny vuant veirw. ac ny chaffat ganthunt wy vyth hyspysrwyd amgen. Ac weldyma y chwi yr hynn hyspyssaf a gilefi i wrth lys brenhin peleur. Ac uelly y teruyna ystoryaeu seint greal.

Lleinw yr hen chwedl ramantus a Phabaidd yna, rhwng y cyfieithiad Seisnig o honi, ac Egluriadur¹ ar ei diwedd, gyn-nifer a 737 o dudalenau argraffedig 8-plyg, cyhoeddedig mewn Tair Rhan, 15s. yr un. Dywed y Golygydd, fel y gwelwyd, fod y chwedl hon "wedi ei hysgrifenu yn y fath Gymraeg bur ac ieithweddol, fel y mae'n meddu holl werth gwaith gwreiddiol;" a'i bod "yn dra theilwng o fyfyrdod ysgrifenwyr y dyddiau presennol, ychydig o'r sawl a allant ysgrifenu tudalen heb lygru'r iaith trwy ddwyn ieithweddau Seisnig i mewn yn helaeth, wedi eu cyfieithu yn llythyrenol." Credaf fod y Golygydd dysgedig yn gywir, bod yr hen chwedl hon, fel amryw eraill, wedi ei hysgrifenu yng "Nghymraeg bur ac ieithweddol" y *cyfnod* yr ysgrifenwyd hi ynddo, sef tua thri chant, mwy neu lai, o flynyddau yn ol; ac y mae'n wir hefyd fod amryw o ysgrifenwyr "y dyddiau presennol," cystal ag amryw o rai y dyddiau gynt, yn rhy dueddol i lusgo ieithweddau Seisnig ac estronol i'w hysgrifau Cymreig; er hyny, rhaid i mi ddatgan nas gallaf gydsynio â'r Golygydd fod *ieithwedd* yr hen chwedl hon, a hen "chwedlau gwneuthur" eraill o'r un cyfnod, mwy na'u *llythyraeth*, yn deilwng o *efelychiad* "ysgrifenwyr presenol." Fel ffrwyth dychymmyg rhyfedd yr hen ysgrifenwyr Pabaidd y gallaf fi edrych ar yr hen chwedlau Cymreig, o'r *Mabinogion* i wared, ac nid fel esamplau i ni i'w dilyn o ran eu *ieithweddau* a'u *llythyraeth*, mwy na'u syniadau. Yr wyf yn llwyr gredu, fel y Parch. D. Silvan Evans, mai gwaith ein prif Awduron, o Fibl y Dr. Morgan a gyhoeddwyd

¹ Glossary.

yn 1588, hyd Draethawd Gwallter Mechain ar Ryddid, a gyhoeddwyd yn 1791, o ran *ieithwedd* cystal a *sylwedd*, sy'n "deilwng o *fyfyrddod*" ac *efelychiad* ysgrifenwyr y "dyddiau presennol." Ond gan nad *beirniadu* cyfansoddiadau ydyw fy ngwaith arbenig i yn hyn o draethawd, namyn adrodd eu *hanes*, mi af rhagof.

Yn y fl. 1878, cyhoeddodd y Parch. R. Williams y Bedwarredd Rann¹ o'r gwaith dan sylw, yn cynnwys dwy chwedl arall o Gasgliad Hengwrt, a elwir "*Campeu Charlymaen*," a "*Botwn o Hamtwn*;" ynghyd â chyfieithiad Seisnig o ran o'r flaenaf. Lleinw y flaenaf hon, sef CAMPEU CHARLYMAEN, 118 o dudal-enau 8-plyg argraffedig; a dechreu fel hyn:—

I.—Pan yttoed charlys yggwylua y sulgwyn yn seint dyns. yn gwisaw coron y vrenhiniaeth am y benn: ac yn gwisaw cledyf y teyrnas am y ystlys ar warthaf y gwiscoed mawrweirhawc. ar berson brenhinawl ar ansawd vrenhineid. a deckeynt ac a hoffynt yr adurn odieithyr. Ac ar hynny y brenhin arderchwac a dywat wrth y wreic. yr honn y credei ef rybuchaw ohonei. a dymunaw idaw vot ymlaen neb nynr ansawd honno. vygkarrediccaf. heb ef. aweleist. neu aglyweisti neb un derch-aeudic ar lywodraeth teyrnas mor wedus cledyf ar y ystlys ar meu i. kyn vonedigeidlet y damgylchyno coron ygkylch y benn ar meu i. A hitheu gan edrych yny chylich a atebawd ymrवान gan deuawt gwreigawl. na weleis arglwyd. heb hi. Minheu agigleu bot un. pei as gwelut ti euo yn adurn brenhinawl. y gorffywyssei dy holl vocsach di herwyd hoffter y berson. Y voned ynteu a gyfadeuynt ragori rac dy teu di. Ar atebannosparthus hwnnw a gyffroes y brenhin ar lit ac irloned. ac yn bennaf oll. o vot y sawl gwyrda aoed yny gylch yn gwarantaw yr ymadrawd. Reit yw ytti. heb ef. menegi y mi y brenhin. kymeint y arderchogrwyd ae voned ar hwnn adywedeisti. A nynheu agyrchwn parth ac attaw ef. val y berynych di am gwyrda inheu. gwedy an gwelwch gyuarystlys yn adurn brenhinawl. pwy wedussaf ohonam. Ac ny hyd diboen iti o dywedeisti ev. namyn o vuanhaf agheu y gyt ath gelwyd ytheruynnir. Ofynhau aoruc y vrenhines. pan welas y brenhin yn kyffroi ar lit. a cheissaw teckau y hatteb nyvnt yn rywyr. Nyt gwedus heb hi. y beth ysgawn ysgaelus. ac anheilwy o volest. kyffroi gwr prud bonhedlic. Ac yn bennaf oll pryt na rygerdo nac o dryc ewyllys. nac o brudder hynny. namyn o gellweir caryat. ac o chware. yr hwnn a gyrbwylleis heuyt. heb hi. nas canmoleis i evo. ae vot yndewrach no thydi. namyn oe vot gyfoethogach. ac yn vwy y niuroed nor teu di a dylleis i. A gwedy yr ymadrodyon hynny y vrenhines a dygwydws ar tal y deulin rac bronn y brenhin y erchi trugared. A chynnig y llw ygan y veint a vynnei o reith. pan yw or ware. a cheilweir y dywedassei kymeint ac adlywat. ac nat yr kywilyd na gwaradwyd. Ar nyt arbetto idaw ehun. heb y brenhin. namyn trwy gelwyd llad y eneit. nyt teilgw y hwnnw caffel trugared. Reit yw yti. heb ef. menegi ymi y brenhin adywedeist. Pa ffuryf heb hi. y gellir manac ar vrenhin na aller caffel y gyfryw. Ac yna y tygwys y brenhin y goron y teyrnas. wedy y irlonhaw ohonaw dieithyr mod. onyt enwei y brenhin a rygyrbwyllassai. y lledit y phen a chledyf yn diannot. A phan gigleu y vrenhines llw y brenhin. y gwybu vot yn dir idi enwi y brenhin rygyrbwyllassai. yr hwnn aoed dewisach genti pei rydawssei ymdanaw. O vrenhin enrydedus. heb hi. dyro di ymi nawd a channyat y dywedut. Hu gadarn yr hwnn yssyd yn llywyaw. amherodraeth constinobyl a dyellais i. yr hwnn a giglefi bot yngymeint y gyuoeth ae olut. ac nat oes neb a allo nae wybot nae gyfrif. eithyr dau ehun. yr hwn awyr kyfrif y syr. a thywawt y weilgi. yr hwn a giglefi bot yn gyn amlet y wyrda. ac yn

wychet. ac nat oes gwyr brenhin eithyr rei teu di. a allo ymglyfelybu udunt. Yr hwnn a giglefi y vot yn gymryt a bot yn didan ac yn digrif gan aedrycho arnaw atal eu golwce arnaw. Os gwir rydywedeisti. heb y brenhin. ti gefsy vadeucint am dy ymadrawd. Os geu ynteu. megys y gweda y euawc. yndiannod yth lebydir. A hyt nat anotter gobyr dy gewilyd it. nyt anuodaf inheu mynet y wybot yr hu hwnnw.

Gwelir wrth y difyniad yna mai cymmeriad hunanol, balch, dialgar, a chreulawn oedd yr hen Garlymaen dychymmygol yna; ond sylwer y fath ddiwedd gogoneddus a ddyry'r hen chwedl Babaidd hon iddo yn agos i'w therfyn, fel y canlyn:—

CXX.—Ac yn yr un dyd ar un awr y gwelsei tyrpin y weledigaeth, y buassei varw Charlymaen. nyt amgen nor pedweryt dyd kyn calan chweffawr. y pedwarded vlywyd yn ardec ac wyth gant oet iessu grist yna. Ac yn eglwys gron yr arglwydes veir a wnaethoed ehun yn dwfyr y grawn¹ yn ymlu lodu² y cladwyt yn enrydedus. Ac ef a dywedir dyuod arwydon y agheu teir blyned kyn y varw. nyt amgen. duaw or heul ar lloer seith niwarnawt ar un tu. ac enw ynteu adaroed y yscriuennu ar baret yr eglwys uchot a dywetpwy. Nyt amgen. charlymaen brenhin ffreinc aberis ehun y dileu y porth mawr. a oed rwg yr eglwys ar neuad. a dywetpwy uchot. dywieu gyfachaual a dygwydard or grwndwal. Pont brenn a vuassei yno seith myned ar afon reinn. a gawssit cost a llaur yny hadeilat a doeth tan yndi ehun yny losces hyt y dayar. A diwarnawt ydoed charlymaen yn kerlet o le y gilyd. ar diwarnawt anhegar niwlawe. nachaf y gwelie filam las o dan yn kerdet yn vuan. val y bei filam o gyneu. yn kerdet or tu deheu idaw parth ar asseu gan y wyneb. a dychrynu rac y tan a oruc. a dygwydard y ar varch y tu asseu. a dygwydard y hebawc y ar y law y tu arall yr march. ae yn gythyn y achub oe wyr ef ae gyuodi y vynyd. Ac am hynny y mae diogel gennym ni y vot ef yn rannawc ar goronneu y merthyri a verthyrwy uchot. herwyd y diodefawd llaur gyt ac wy. Ac am hynny y rodri yn argreiffit yr neb a adeilo eglwyseu. paratoi vuched tragwyd a wna. Ac val hynny y rhydhawyd charlymaen o gaethiwet y dieuyl trwy ganharthwy y seint. y gwnaethoed ynteu eglwyseu udunt. y llehawyt ynteu nheyrnas nef.

Yn y fl. 1883, cyhoeddodd *Cymdeithas Anrhydeddus y Cymrodorion Ystoria de Carlo Magno (Charlymaen etto)*, o *Lyfr Coch Hergest*, dan olygiad Thomas Powell, M.A., Athraw Coleg Prifysgol Caerdydd, mewn llyfr 8plyg prydfferth, yn cynnwys 112 o dudalenau. Nid yw'r chwedl hon yn son dim am ffrwgwd y gwron efo'i wraig; ond mawl iddo ydyw, o'i dechreu i'w diwedd. Dechreu fel hyn:—

PAN wascarbŷt yr ebystyl a disgyblon yr arglŷd y bedryuannoed byt y bregethu. 6rth hynny y gogonedussaf ebostol iago. a dywedir y bregethu yngyntaf yny galis. A gbedy y lad ynteu o erasyd greulaon yny dibed y doeth o gaerusalem dros vor disgyblon ereill y bregethu yr galis. Ac bynteu y galissyieit odynna. yny gobrynei eu pechodeu. a ymadabassant. ac eu cret hyt yn oes charlymaen anheraodry rufein affreinc atheister. achenelloed ereill aymchoelasant drachefyn y eu hagret. A gbedy goreskyn o charlymaen oe neth ae allu pedryfannoed bydoed. ac amryuaelon teyrnassoed. Nyd amgen lloegyr. afreinc. ar almaen. a baicar. alotarius. aborgŷn, ar eidal a brytaen. ac aneirf teyrnassoed ereill. a dinassoed or mor py gilyd. ac o gadernit dŷywaol eu gostŷg. ac eu dŷyn o laŷ sarascinyeit. ac eu darostŷg y gristonogaol bendeuigaeth. Gbedy y vlianaŷ o orthrom laur yd aruaethwys gorpywys o hynny allan. ac nat elei ymbrŷytreu. ac ar hynny ef arganau ar y nef mal fford o syr ae dechreu o vor fringa ac ystynnu yr almaen. a gŷlat rufein. ac y

¹ Aix la Chapelle.

² Lodu.

y Carl-

y S

y eth

y hedd

Dwfr

y rha-

y Parch.

Hantwon.

y naeth na uynnei
 y cencint y gwreick
 y onno aoad yn caru
 y eissoes yn y kyf-
 y gwr priawt. A fian
 y diet ar vaeth ar varch-
 y ll yn llithraw parth ac
 y yr amherawdyr ieuanc.
 y hawl damunedic ewylllys
 y yr amherawdyr. ac erchi
 y a oed yn iarllaeth giwn.
 y a niuer mawr o varchyog-
 y y parei hitheu yr iarll vynet
 y arueu. ac yna y gallei ynteu
 y ac o hynny allan y gellynt
 y hawd yr almaen. ac a oynnawd
 y calys. Tuac yno y kerdawd y
 y lin rac bron yr amherawdyr. a
 y gennadwri idaw. A llawen fu yr
 y a chymeint ac a uynnei o eur ac
 y rachebyn at y wreic vwyaf a garei a
 y yssei hi idaw ef yn oet y dyd.

y wyll, ffug anturiaethau a ffug
 y yn gymmysg âg ofergoelion
 y hon trwyddi draw, tebyg i'r hen
 y.

y rhoeddodd y Parch. R. Williams y
 y cynnwys y mân chwedlau canlynol,
 y to:—

y Hedd Meir Wryy ; Y Seith Pechawd
 y Lodemus ; Y Grogolith ; Hanes Pontius
 y [Iscariot] ; Arwydon cyn Dyd Brawt ;

Diet. Cycl. sub. voce, Charles I. (Charlemagne.)

rôg ffreine ac angîb ac yn unyâbn y wasgîn. ac y mauarn. ac yr ysphaen hyt y galis yny lle yd oed corf y gôynudedic iago yna yn gorwed heb y adnabot. a gôedy gôelet o charlymaen y ford honno llaber o nosseu medyliaâ yn vnych aoruc beth a arfydoccaei. ac ual y byd yngbâstat uedl am hynny nossôeith trôy y hun ydymdangosses ryssor idaâ, a thegach oed noc y gallei neb y gredu nae dywedut. ac ual hynn dywedut 6thaâ. vy mab beth a vedly di. pa un byt ti arglôyd heb y charlys, mî yâ iago ebostol heb ynteu mab maeth crist mab zebeleus braât Ieuan euagelystor. yr hônn adelygôys yr arglôyd oe andywedediic rat ef y ethol y bregethu yr pobloed. yr hônn aladaâd erabdlr greulaôn ae gledyf. yr hônn y mae y gorf yn gorbed yny galis aheb y anabot oneb. ac y mae sarscinyeit yny gywrusagu yn dybryt. Odyna ydôyf inheu eithyr mod ynryuedu na rydheest di uyn dayar i ygan ysarascinyeit ar gyniuer dayar a darestygeist. ac ôrth hynny y managaf ui ytti. megys y gônaeth duâ didi ynggoethocaf o vrenhined dayarual val hynny yd etholes ynteu didi ymblaen neb y barattoi hynt ymi. ac y rydhau vyndayar i o laâ sarascinyeit. val y paratoo ynteu ytti goron tal tragywyd. Ford y syr. aweiicst di arynet aarôydocca dy vynet ti a dirnuôr lu yurthôynebu yr paganyeit anffyllaôn. ac y rydhau uy hynt inheu amtir. ac y ovôyaâ vy eglwys am bed hyt y galis or lle hônn. A gôedy titheu mynet yr holl bobloed or mor py gilyd y bererindaôt ym. ac y gymryt madeucint oc eu pechodeu. ac y datganu molyanneu duâ ae nerthoed ar gôyrtheu awnel. Ac oth dyd ditheu hyt yndiwed byt ydaant. ac yr aôr honn kerda gyntaf y gellych ami afydaf ganhorthôyôr ytt ympobpeth. ac am dy lauur mî adygaf goron ytt ny nef. ahyt y dyd diwethaf y byd dy enb ymmolyant. Ac uelly ydymdangosses y gôynuydelic ebostol teirgôeith y Charlys. Agbedy clybêt ohonaâ hynny aruer aoruc or ebostolaâ eddebit. adyuynnu attaw lloed maôr. achyrchu yr ysphaen y 6thladd y genedyl anffyllaôn.

Terfyna yr hen chwedl hon, trwy fynegi hanes marwolaeth Carlymaen, yn bur dcybyg i'r llall y difynwyd eisoes o honi; ac weithiau yn yr un geiriau. Hanes y *gwir* Garlymaen (Charles I.), brenin Ffraingc ac ymherawdwr y Gorllewin, yn fyr, sydd fel hyn :—

Mab ydoedd i Pepin y Byr. Ganwyd ef yn y fl. 742. Pan fu ei dad farw yn y fl. 768, cyd-deyrnasodd Carlys, yn ol dymuniad ei dad, a'i frawd Carloman, oedd ieuengach nag ef, nes y bu Carloman farw yn y fl. 771, pan y gadawyd Carlymaen yn unig benadur Ffraingc. Yn fuan wedi hyny ymosododd ar y tiriogaethau a'i hamgylchent, a darostyngodd holl Gâl, yr Ital, a'r diriogaeth a ymestyna o'r Rhein hyd y Fistiwla a'r Baltic, ynghyda rhan o'r Hispaen. Pan ysgarodd ei wraig, Bertha, mersh Didier, brenin y Lombardiaid, ac y cymmmerth ordderchadon yn ei lle, ymdrechodd Didier wneud cynghrair â'r Pab er dial arno am y sarhad. Wedi methu, ymosododd Didier ar y diriogaeth Babaid. Yna erfyniodd y Pab Adrian gael cynnorthwy Carlymaen, yr hwn a aeth i'r Ital yn ddiwed; a rhoddes derfyn ar deyrnas y Lombardiaid. Ymddengys mai ar yr hanes yma y seiliodd awdwr "Campeu Charlymaen" ei ramant ar ei ffrwgdw ef a'i wraig ynghylch Hu Gadarn.

Wedi darostwng teyrnas y Lombardiaid, ymwelodd Carlymaen â Rhufain, lle y derbyniwyd ef yn anrhydeddus yn y Fatican ; a'r lle, wrth esgyn y grisiau, y cusanai efe bob gris yn dduwiolfrydig ! Arferai deithio yn flynyddol o'r Pyranis (*Pyrenees*) i'r Almaen, ac oddi yno i'r Ital, lle y treuliai beth amser gyd â'r Pab, yr hwn a'i harfollai gyd â'r fath anrhydedd ag a honnai yr hen Gesariaid. Bu farw yn y lle a elwid Dwfr y Grawn, yn y fl. 814.¹—Dyna sail yr holl hen chwedlau rhamantus a ysgrifenydwyd ar Carlymaen.

Yr hen chwedl arall sydd ym Mhedwaredd Ran y Parch. R. Williams, fel y crybwyllwyd, a elwir *Bown o Hamtwn*. Dechreu honno fel y canlyn :—

I.—YN HAMTWN yd oed iarll a elwit Giwn. ac aruer a wnaeth na uynnei wreic yn y ieugntid. a gwedy hynny pan ymdreiglauw parth a hencint y gwreick-aawd. Sef wreic a uynnawd gwreic ieuanc tu draw y vor. a honno aoad yn caru gwr ieuanc arderchawc aoad amherawdyr yn yr almayn. Ac eisoes yn y kyf-amser hwnnw y kauas hi ueichogi o racywededic giwn y gwr priawt. A ffan rydyuu amser. mab a anet a elwit bown. ar mab hwnnw a rodet ar waeth ar varch-awc kyuoethawc a elwit sabaath. A gwelet or iarllles y iarll yn llithraw parth ac amdrymder hencint. y dremygu ac yskaelussaw o garyat at yr amherawdyr ieuanc. Ac ystrywyaw a wnaeth pa vod y gallei gwplau y serchawl damunedic ewylllys ymdanaw. Sef y mod y ystryyawd dyuynnu kennat at yr amherawdyr. ac erchi idaw yr y charyat hi dyuot duw calannei y fforest nnyal a oed yn iarllaeth giwn. yn gyuagos yr castell yd oedynt yn presavylyaw yndaw. a niuer mawr o varchyog-yon aruawc gyt ac ef. ac ymdirgelu yno. A dywedut y parei hitheu yr iarll vynet yn oed y dyd hwnnw a niuer yskyuala gyt ac ef heb arueu. ac yna y gallei ynteu llad penn yr iarll. ae anuon idi hitheu yn anrec. ac o hynny allan y gellynt hwynteu bot y gyt yn dideruyse. Y gennat a gerdawd yr almaen. ac a ovyntawd yr amherawdyr. Y mae yn llys idaw a elwit calys. Tuac yno y kerlawd y gennat. ac yr calys y doeth a dygwydaw ar benn y lin rac bron yr amherawdyr. a chyfarch gwell idaw. ac yn dirgeledic menegi y gennadwri idaw. A llawen fu yr amherawdyr wrth y gennat. a rodi amws idaw. a chymeint ac a uynnei o eur ac aryant yn yghwaneu. Ac erchi idaw mynet drachefyn at y wreic wryaf a garei a dywedut idi. y gwnaei ef pob peth or a archyssi-hi idaw ef yn oet y dyd.

Ymladdau, llofruddiadau, twyll, ffug anturiaethau a ffug waredigaethau cwbl anhygoel, yn gymmysg âg ofergoelion Pabaidd, ydyw yr hen chwedl hon trwyddi draw, tebyg i'r hen ramantau eraill o'r un cyfnod.

Yn y flwyddyn 1880, cyhoeddodd y Parch. R. Williams y Bummed Ran, pris 15s., yn cynnwys y mân chwedlau canlynol, o Lawysgrifau Hengwrt eto :—

Purdan Padrig ; Buchedd Meir Wry ; Y Seith Pechawd Marwawl ; Euangel Nicodemus ; Y Groglith ; Hanes Pontius Pilatus ; Historia Judas [Iscariot] ; Arwydon cyn Dyd Brawt ;

¹ Wright's Royal Dict. Cycl. sub. voce, Charles I. (Charlemagne.)

Prophwydolyaeth Sibli Doeth ; Breuddwyt Pawl Ebostol ; Pwyll y Pader ; Rinweddeu Gwrando Offeren ; Rinweddeu Gwelet Corff Crist ; Rhybudd Gabriel Angel at Veir ; Even-gyl Ieuan Ebostol ; Seith Doethion Rufein ; Dechreu Stori yr Olew Bendigeid ; Ystorya Gwlat Ieuan Vendigeit ; Historia Idrian Amherawdyr ag Ipotis Ysprytawl.

Dodir yma ddwy neu dair o esamplau byrion :—

PURDAN PADRIC.

VI.—Defawt oed ossodedic yno y gan badric. ac ae ketwis y gwr a uu yn yle wedy ef. nat elei neb yr purdan onyt trwy gannyat yr escob. a heuyt dewis ohonau oe briawt ewyllys mynet yr purdan dros y bechodeu. Y neb a ymlyciao yr escob y darpar trwy vynet yr purdan. yr escob a dily annoc idaw peittyaw ar darpar hwnnw. a dywedut idaw. mynet llawer yno. ac na doethant byth dracheuen. O thric ynteu yn y darpar kymeret llythyr yr escob a doet at y prior yr lle hwnnw ar ffrwt. ar prior gwedy llen y llythyr a dily annoc idaw yn graff dewis penyt arall. ac nat el yrpurdan a dangos idaw y perigyl a gauas llawer yno. O thric ynteu yn y darpar : dyget y prior ef yr eglwys. a bit yno pymthec niwarnawt yn dirwestu. a gwedieu a gwedy darffo hynny galwet y prior y cwuent ygyt. A gwedy offeren fore kymuner y pennydywr hwnnw. a cherdent ac ef parth a drws y purdan dan ganu processio letania a bwrw dwfyr swyn. Y prior hagen eilweith a dily datkanu idaw ef ygwyd pawb yr ymdaraw a wna y kythreuleit yn y lle hwnnw ac ef. a meint a gollet o dynion yn yr ogof honno. O byd gwastat ynteu yn y darpar. kymeret vendith pawb or offieireit. a gorchymynet y bawp wediaw drostaw. Ac ae briawt law dodet arwyd y groc yny tal. ac aet y drws yr ogof mynwn. Ac ar hynt caet y prior y drws ac ymchoelet dracheuen yr eglwys ac brocessio. Ar bore trannoeth doet yr eglwys. ac i drws yr ogof yn y processio. ac agored y prior y drws ac o chyfruyd y dyn a adoed yr purdan yn dyuod dracheuen. trwy lawenyd mawr dycker ef yr eglwys. ac yno y byd pymthec niwarnawt yggwylyuen. a gwedieu. Ac oni delei ef yn yr un awr trannoeth. diheu oed y gollu. ar prior a gaei y drws. ac yr eglwys y deuyt dracheuen.

VII.—Yn yr amseroed hynn yma yn hoes ni hagen y damweinyws o rat kyffes : dyuot marchawc y ystyphan vrenhin. nyt amgen. noc ywein varchawc. At yr escob y doeth yd oed y purdan yn y escobawt. y gyffessu. a phan oed yr escob yn angreithiaw y marchawc hwnnw am y bechodeu. ac yn dywedut codi duw o honaw yn orthrwn. Ynteu dodes ucheneit o amlweediuarweh y gallon y gwnaei benyt dros y bechodeu herwyd ewyllys yr escob. A phan oed yr escob yn gossot penyt herwyd messur y bechawt. Ywein varchawc a dywat. kanu gwneuthum. i. o goldyant y duw kymeint a hynny. Mi a gymeraf benyt a vo trymach. nor holl benytyeu eraill. Gan dy gygor ti arglwyd ath vendith ni aaf yr purdan padric. megys y haedwyf caffel madeu-eint om pechodeu.

RINWEDDEU GWRANDO OFFEREN.

PUMP rinwedd offereni sul ynt y rei hynn : cyntaf o honynt yw bod yn hwy dy hoedyl. ar vod offeren vyth a warandewych. Eil yw maddeu dy wvyt amryt or sul y gilydd. Trydydd yw maddeu dy van pechodau o'r sul y gilydd. Pedwerydd yw. a gerddych y gyrcu offeren Sul. bott yn gystal itt. a pheai as roddut drwf dy tat yn dirdawn y Dduw. Pumbet yw. ot a dyn yr Purdan. gorffwys a geiff. yn gyhyt a phob offeren a wrandawo.

¹ Defod neu wasanaeth (*mass*) Eglwys Ithufain : y gweddiu a arferir wrth ddyrchafu'r cymmun ; y ddefod o gyssegru y bara a'r gwin gan offeiriad Pabaldd, er ei wneud yn gorff a gwaed Crist, a'u hoffrymiad wedi eu sylweddoli felly, megis aberth iawnoel dros y byw a'r meirw.—*Wright*.

RINWEDDEU GWELET CORFF CRIST.

RINWEDDEU gwelet corff Crist¹ yw y rei hynn. Pan ganer offeren, maddeu it dy vwyt amryt y dydd y gwelych. dy ymadroddyon diffrwyth ny choffeir it. Annu-doneu anwybot nyth geryddir o honynt. ny ddaw angu deissyryt yt y dydd hwnnw. or byddy varw y gwelych breint kymmunawl a vydd arnat y dydd hwnnw. a hynny o achos kymryt y bara offeren. Tra werendewych offeren Sul. ny hennheu kyhyt a hynny. Pob cam a gerddych y gyrchu offeren Sul. angel ae kyfurif ytt. ag am bob cam. gobrwy a geffy. Ny thrig drwg yspryt y gyt a thi. y tra vech yn kyrchu offeren Sul. Oth o gyfuarch dy ssul. ath ovynnhaf ar dy wul. py wnaaf am offeren sul. Offeren Sul os keed trwy ffydd a chret a chrefydd, gwynn y vyd dy gyweithydd. Oth o gyfuarch o ddifuri. ath ovynnhaf trwy deithi. pwy wnaaf o byddaf hebddi. O byddi hebddi heb lavur arnat. heb anghen. hyt yr wythnos na chwarrd wen.

Yn y REVUE CELTIQUE, *Tome IV.*, p. 204, cyhoeddwyd chwedl o'r LLYFR COCH, gyda chyfieithiad Ffrengig, o'r hon y dodir rhai dyfyniadau yma. Enw y chwedl yw—

CEDYMDEITHYAS AMLYN AC AMIC.

YNY mod h6nn y treythor o gedymdeithyas amlyn ac amic.

Yn yr amser ydoed pepyn hen yn vrenhin yngwl at ffringa y ganet mab i uarcha6c ardercha6c bonhedic or almaen. yny kastell aelwit berigan. oewreic bria6t. Ac o achas nat oed na mab na merch udunt namyn h6nn6. dirua6r lawenyd a gymerassant. ac o garyat du6 y g6r a rodassei etiued udunt. ada6 a6naethant dr6y ovunet y du6 mynet ar mab tu arvuein y gymryt bedyd y gan ygwyr da sant aoed bap nyyr amser h6nn6. val y bei well tr6y rat achynnnyd all6dyant eu mab. Ac nyyr amser h6nn6 yd ymdangosses gwledigaeth dr6y yhun yr g6r da aoed iarll yn aluern ae wreic yn veicha6c. Nyt amgen weledigaeth a dangosset ida6. no gwelet pab ruvein nny neud yn aluern yn bedydyas i meibyon ac yu eu kadarnhau dr6y vedyd escob. A g6edy dihuna6 or iarll. dyvynnu aoruc atta6 doethyon ygyvoeth. a datkanu udunt y vreud6yt. ac erchi y dehongyl 6rth na wydyat ef beth aarwydockaei hynny. Ac yna yrodes du6 yspryt asynh6yr y vn or doethyon y 6rtheb ida6 nny wed honn. Arglwyd iarll heb ef byd lawen. kanyr or beichogi yssyd yngkroth dy wreic y genir mab ratla6n ll6dydyanus clotua6r. avo diaereb y berffeithr6yd ae vuched ae vil6ryaeth dros y byt. ar mab h6nn6 argl6yd heb ef aaberthi di ydu6. ac a ey ac ef parth arueuin y gymryt bedyd y gan y g6r da yssyd bab val y bo g6ell. a ratla6n allwydyannus y ansa6d ohynny allan. Ac yna y bu la6en yt iarll am dehongyl y vreudwyt yn y wed honno. ac am y kynghor arodassei y g6r da bu cheda6l ida6. ac ympenn yspeit o amser y ganet mab yr iarll. ac y mag6yt dr6y dirua6r lawenyd. A g6edy y vagu nny oed m6y no d6y vl6yd. y kychwynna6d y dat ac ef a nuier ma6r y gyd ac ef o varchogyon ac yssweinyeit tu aruein. Aphan doethant yr dinas aelwit lucam. y dywetpwyd udunt bot gwyr da g6edy kymryt lletty nny dref. Ar mab teyrmeidyaf gyt ac ef athebyckaf yth uab ditheu or awelaei neb eiryoet. Nyt amgen oed y g6r da h6nn6 nor marcha6c o gastell verigan y g6r aoed ynknynnal tir y dan vrenhin ffreinc. ae voned or almaen. A g6edy ymwelet or iarall arg6rda h6nn6. a dyvot eu meibyon rac wyaeb. nyt oed yn vy6 un dyn awypei wahan y r6ng y meibyon nac o veint nac o bryt dyeithyr ar eu dillat. a g6edy g6ybot o bop vn onadunt ystyr medwl y gilyd. dirua6r lawenydd a gymerassant oachas yr vn neges yd oedlynt yn mynet oe geissa6 nyt amgen noc adolwyn yr pab vedydyas eu meibyon. ac orlyd h6nn6 kytford vuant. a dirua6r gydymdeithyas avu ryngthunt dr6y gywir garyat. A pha beth bynnac avei o garyat y r6ng y g6yrda ti awelut gydymdeithyas ryved y r6ng y meibyon. yn gymeint ac na mynnei yrwn onadunt na b6yta nac yfet na chysgu heb y gilydd.

Yna ceir hanes led fanwl am eu taith i Rufain gyd â'u rhieni, y rhai a gynnygiasant symiau dirfawr o "eur ac

¹ Wrth "Gorff Crist" yma, y golygir y bara a'r gwîn yn y cymmun, wedi i offeiriad Pabaidd fuzio eu troi yn Gorff a Gwaed Crist:

aryant" i'r Pab am fedyddio eu meibion ; ond er iddo wrthod rhoddion y rhieni, efe a ddywedodd wrthynt fel hyn :—

AR arch a archassoeh chōitheu. honno ageffych. Sef yō hynny bedydyāb aōeh meibyon. ac ydodes yn enō ar vab iarll aluern. amlyn. ac ar vab y marchaōc o berigan amyc. ac erchi y duō rodi rat ac yspryt udunt y wassanaethu y duō yn gyōir. yny veynt yn kaffel dros eugwassanaeth y duō llaōenyd teyrnas nef. Ar marchogyon pennaf owl ruvein adalyassant y meibyon 6rth vedyd. A gōedy yr pab vedydyāb eu meibyon rodi aōnaeth y bob vn onadynt ffiol o euruchweith odidaōc o eurac aryant. amein gōerthuawr aōed ar y ffiolleu. yn vn lliw ac yn vn veint ac yn un eurychweith. ac nyt oed yn vuō yn dyn awypei wahan y ryngthunt. rac eutehysket or ae gōelei ar neilltu. A dywedyt awnaeth eu tat ysprydaōl 6rthunt yn y ffiuryf honn. Kymrōch y rod honn arglōydi veibyon y gan aōeh tat ysprydaōl yn dōstolyaeth tra vōch vyō ar aōeh bedydyāb yn eglōys pedyr yn ruvein.

Wedi i Amlyn ac Amic wncud llawer o wyrthiau ā'u ffiolau cyssegredig, a llawer o ryfeloedd creulawn ā'u cleddyfau, yn ol arfer y Pabyddion, hwy a aethant o'r diwedd gyda Charlymaen i ryfela yn erbyn Desider brenin Sarasnaidd Lombardi ; ac ar ol amryw frwydrau creulawn a barbaraidd, dywedir fel y canlyn ar derfyn y chwedl :—

A THRANNOETH y bore y doeth charlys ac lu am eu penn. ac yna onewyd y bu yr ymlad girat marwaōl. ac y lladwyt miloed o bop tu. ac y gyt aiei kyntaf y llas amlyn ac amic. y gōyr a vu well ganthynt trōy odef anghew yr karyat duō. amynet yn gydymethyon y lawenyd teyrnas nef. no diane drachevyn or vrōdyr yr byt tralodus drachevyn. a gōdef anghew periglus or diwed drōy wahanu pob vn yōrth ygilyd. ac oachaōs na mynnassant wahanu o garyat a chywir gydymdeithyas yn y byt yman. yr vn yōrth y gilyd onadunt. y gōahodes duō bynt atāō y lawenyd teyrnas nef yn yr vn amser. ac yn yr vn aōr or dōd y gyt arseint ar englyron yngkrt lewenyd. ac o achaōs y lladva avu yno y gelwir y lle aelwit gnt y koet teg yn varwolyaeth hnt hediō. agwely llad canmwyaf o deulu o bop parth. y fies desider ac yehydie oelu ygvt ac ef. tu ar dref aelwit papi. a chyarlīs ac lu yn eu hymlyt. ac val y doeth yr dref cau y pyrth awnaethpōyt a chadarnhau y gaer. ac ymdiffyn yn wraōl. ac yna y rōdes chyarlīs ovunet na chilyei o ymlad ar gaer. yny vei vn o deubeth idaō ac kael y vudugolyaeth. ac ynteu aōdefei anghew yno. A gōedy gossot peiryannau o vllieiu a magneleu yngkyleh y gaer. ymlad awnaethant yn wraōl ar kastell. ac amdiffyn awnaeth y tylwyth o veōn yn dilese pei asgellynt. Ac o veōn hynny o amser tra vu y ilu yn ymlad ar gaer yd avones y brenhin arderchaōc yn ol hilgart vrenhines y wreic briāōt. y erchi idi dyuot atāō gyntaf y gallei hi ae deu vab. A gōedy eudyuot y rōdes seint allin esgob assw y gōr-adaeroed y duō y gynnysgaedu o santolyaeth. ac amryuaelyon donyeu kynghor yr brenhin ar vrenhines y glady eu marchogyon adaroed eu llad yr karyat duō yn eu reit. ac y wneuthur urdas ac enryded am eu kyrff. ar kynghor hōnnō a vu lawen gan y brenhin. Ac yna y gōnaethpōyt dōy eglōys. un o arch chyarlīs. yr honn a gyssegrōyt yn enryded y seint euseb confessor. Ar llall o arch y vrenhines. yr honn a gyssegrōyt yn enryded y bedyr ebostol. Ac avonnet ynoōl dwy ysgrin tu amelau yny lle ydoed yr ysgrineu teccaf or byd y dodi kyrff amlyn ac amic yndynt. ac yn vn ohonynt y cladwyt amlyn yn yr eglwys adaroed y chyssegru y bedyr. ac yny llall y cladwyt corff amic. adaroed y chyssegru y seint euseb. a marchogyon erell a gladwyt herwyd eu breint ac eu hurdas yn yr eglwysau hynny drōy enryded diruawr. A phan gyfōdet y bore drannoeth neur daroed yluō drōs-gwydyāb corff amlyn or ysgrin. ac dodi yn ysgrin amic yte a chorff amic yn eglwys euseb yn yr vn ysgrin. Ac yr bot y deu gorff yn yr vn ysgrin. nyt oed gyfyngnach udunt eldeu. noc y gorff amic ehunan kyn no hynny. Ac yna yd adnabu baōp yn amlōc bod duō yndangos vot yr eneidyeu yn diymadaō yn nef oherwyd namynnei wahanu eu kyrff yny byt hōnn yman. A gwedy gwelet or brenhin y gwyrth ar

gwynnyeith adaroed y duô y wneuthur yr y merthyri hynny. Gwneuthur arôyl vrenhinaôl awnaeth ynteu. a gwassanaeth y meirô dros eu heneidyeu deng niwar-naôb arhugent. drôy rodi eur ac aryant abôyt adiot adillat y baôp or ae mynnei yr karôat duô. a chanysgaedu yr eglwsseu ynryei ydaroed cladu y merthyri hynny odeilyngdaôb abreint athir adaear. a thra vu y brenhin ar niver arderchuckaf or llu yng kylch y neges honno. y bu y ran arall or llu ar gaer ouaes idi. yd anaoes duô nefyn a marwlyaeth ar desider ae lu yn gymeint a gorvot arnadunt ymrodi y chyarllys ôrth y ewylllys. agôbedy caffel ochyarllys y vudugolyaeth a gostông y wlat. adôyn desider vrenhin yngkarchar ablodeu y deyrnas parth affreinc drwy adaô kylanhedrôyd maôr o offeiryeit ac ysgolheigyon. a thir a renti tragwydaôl udunt yngbassanaethu duô ynry eglôysseu a dywedassam ni uchof dros yr eneidyeu adaroed cladu eu kyrf yno. yd ymchoelaôd chyarllys tu aphis drôy diruaôr lawenyd. adiolôch y duô y vudugolyaeth a rodassei idaô. ar gôyrth ar gôynnyeth ydoed yny wneuthur. ac y mae hediô heuo yr amlyn ac amic. y gôyr auerthyrwyf yr karyat duô. Y dryded vlojdyd achweugeint amil¹ oed hynny or pan gymmerth iessu grist naôb o vru wryr yr arglôydes veir. y pedweryd dyd o galan ebrill. yny vlojdyd y bu uarô seint bernat aoed abat yngkleros. ar volyant ac anryded y duw ar eglwys. y gôr y bo bendigedic y enw yn dragwydaôl poed gôir amen.— ac uelly y teruyna kedymdeithyas amlyn ac amic.

“Ac felly y terfyna” yr hyn a roddir yn y tracthau hwn o hanes y prif hen “chwedlau gwneuthur” anhygoel sydd wedi eu hargraffu, oddi eithr yr un esampl ganlyno a ddodir yma, o'r hen chwedl hon, mewn llythyrenau arferedig, er mwyn i'r darllenydd cyffredin gael ciptrem ar ansawdd cyffredinol yr hen chwedlau Cymreig, y rhai a gredid gan y werin hygoelus, i'r sawl y darllennai yr offeiriad Pabaidd ranau o honynt yn “yr eglwysau,” fel gwirioneddau dwyfol!²

Ac yna yr erchis Amlyn i'r yswain fyned yn ol y claf a'i ddwyn ato ef. A phan ddoeth, gofyn a wnaeth yr iarll iddaw o ba le pan hanoedd, a phwy oedd, a pha le y cawsei y ffiol; ac yna y dywawd ynteu ei hanfod o Gastell Berigan yn yr Almaen, a rhoddi o Gystenin Bab iddaw y ffiol pan y bedyddiasai, a'm henw priawd yw Amic. Ac yna yr adnabu Amlyn y mae ef y gŵr a athoedd ym mherigl anghew drosto; ac a barasei iddaw gael merch i frenhin Ffreinc yn briawd; a myned a oruc [a wnaeth] ddwylaw ym mwnwgl iddaw ddirfawr lawenydd. Ac oel oedd lawen Amlyn wrthaw, seith lawenach, pei gallai, oedd yr Arglwyddes, trwy ollwng ei dagreu o lawenydd; a dwyn ar gof a wnaethant py enrhydedd, py uridas a wnaethoedd iddynt. Ac wedy wylaw llawer o lewenydd, o bob parth, a gwneuthur gwely brenhinawl iddaw yn un ystafell ac ef a orugant; a'i wahawdd drwy gariad a wnaethant iddaw gymryd cystal tra fei fyw o fwyd a diawd, a dillad, dwy barch, ac enrhydedd, a chariad, ef, a'r nifer a fynnei y gyd ac ef: a'r llys a'r cyfoeth wrth ei ewylllys. Ac yno y trigawdd ef a'i ddeuwas.

A megys ydoedd nosweith, ef a'r iarll, yn cysgu yn yr un gwely, a'r Arglwyddes gwedy myned i'r eglwys, yd anfonas Duw Raphael Angel i alw ar Amic, ac i dlywedyd wrthaw fal hynn. Amic, a wyt ti yn cysgu? Sef a wnaeth ynteu,

¹ Yn y chwedl a elwir *Canpeu Charlymaen*, fel y gwelwyd eisoes, bu yr ben Garlo farw yr 2fed o Ionawr, 814; sef y pedwerydd dydd cyn calan Chwefror y flwyddyn honno: a chyttuna yr amseriad yna a hanes Carlymaen, fel y gwelwyd; ond yn ol yr hen chwedl yma, dyna Carlymaen yn fyw ac yn iach, ac yn dychwelyd “tua Pharis drwy ddirfawr lawenydd,” ar ol claddu Amlyn ac Amic y 4ydd dydd o galan Ebrill, 1120! ymhen mwy na *thri chan ulymedd ar ol iddo farw*, yn ol yr hen chwedl arall, o'i hanes. Dengys hyn, cystal a phethau eraill, nad oes dim coel ar yr hen chwedlau rhamantus a choelgrefyddol hyn, mewn unrhyw ystyr.

² Lives of the Cambr. Brit. Saints, Pref. p. IX.

tebygu y mae Amlyn a oedd yn galw arnaw; a dywedyd, nac wyf, Arglwydd gyfeillt, heb ef. Iawn, heb yr angel, y gwrthebeist, o herwydd i Dduw dy wneuthur yn gyfeillt yr engylion o'r nef, ac yn eil i Job a Thobi, oddef y amyneddus bwyllig o honot drallod a gofid: angel i Dduw wyfi, yr hwnn a elwir Raphael, yn dyfod i dlangos meddeginiaeth itt o'r clefyd yssydd arnat; canys y mae Duw yn trugarhau wrthyt trwy dy weddieu cyhawn. Arch ditheu y genyf oblegyd Duw i Amlyn ladd ei ddeu fab, ac â gwaed ei feibion dy olchi di; ac felly ti a geffi iechyd. Ac yna y dywawd Amic wrth yr angel, Nid a wnel Duw ladd o'r Iarll ei feibion er iechyd i'm corff i. Ac yna y dywawd yr angel, Rheid yw, heb ef, wneuthur yr hynn y mae Duw yn ei orchymyn; ac ar hynny y diflanawdd yr Angel. Amlyn Iarll hagen [hefyd] a oedd yn clybod yr ymadroddion megys trwy ei hun; a chymryd ofn mawr a wnaeth; a gofyn i Amic pwy ar y fuasei yn ymddiddan ac ef. Arglwydd, heb ef, ni bu neb, namyn mi yn gweddiaw ac yn ymbil â Duw dros fy nhechodeu. Nac ef, y rhof a Duw! heb yr Iarll, ef a fu ryw beth yn ymddiddan â thi; ac yn gyflm cyfodi a oruc yr Iarll i edrych a daroedd i neb agori yr ystafell. A gwely caffel yr ystafell yn gaead; yna yd erechis yr Iarll iddaw, er y gydymdeithias a'r cariad a oedd y rynthynt, ddywedyd iddaw pwy a fuasei yn ymddiddan ac ef. Ac yna y disgyrnawdd ryferthin o wylaw ar Amic, a dywedyd wrth yr Iarll yn y modd hwnn: Arglwydd, heb ef, nid oes dim anhaws genyfno'i ddywedyd itt; canys os dywedaf itt, mi a wnn na chaf na chariad na chydymdeithias y gennyt fyth o hynny allan. Dygaf i Dduw fy nghyffes, heb yr iarll, beth bynnac a ddywettych, na ddigaf wrthyt mwy no chynt.—Raphael Angel, Arglwydd, heb ef, oblegyt Duw a ddoeth attaf i erchi ini beri itti ladd dy ddau fab, ac â gwaet dy feibion fy ngholchi inheu; a dywedyt y caffwn waret o'r clefyd yssydd arnaf o'r ffjord honno. A gwely clybot o'r Iarll yr ymadrawdd hwnnw, llidiaw yn fawr aoruc, a dywedyt wrth Amic; Amic, heb ef, pan ddaethost attafi, trwy ddirfawr lewennydd yth erbynies, fi a'm gwreic, a'm nifer; ac er hynny hyd heddiw, fy nhylywth a'm da a fu gan barotted itt ac i minneu, trwy enrhydedd, a pharch, a chariad: cam a wnaith ti bod yn gymeint dy greluonder a'th enwiredd di yn glaf gwahan fal ydwyt, ac ystiaw drwy dy gelwydd, ceisiau lladd fy meibion; a thalu drwg i'm dros fyn da a'm enrhydedd itt. Ac yna trwy wylaw y dywawt Amic; Arglwydd, heb ef, meddylia y mae fy nghymell a wnaethost i ddywedyt hynn itt; ac wrth hynny er Duw ac er dywonedd yd archaf itt na ddicyot wrthyf yn gymeint a'm gyru o'th lys, o herwydd ni wn pa le yd af o'm gyru; ac na cheisiaf finheu o heddiw allan fyth i'th lys ddim noc i reidus arall. Na yraf, erof fi a Duw, heb yr Iarll, tra fych fyw cymeint ac aeddleweis i yti, mi a'i cywiraf; namyn erchi a wnaif itt y frawdoriaeth ysprydawl yssydd y rom, ac er y ffydd yssydd itt wrth Ddaw, ddywedyt ymi yn ddigelwydd a fu ohir dyfod yr angel attaf yn y modd y dywedi di? Arglwydd, heb yr Amic, herwydd fal y mae gwir hynny y caffwyf waret: gan Dduw i'm heneit, ac i'm corff o'r clefyd hwnn. Ac yna y disgyrnawdd wylaw ar Amlyn, a meddyliaw aoruc, a dywedyt wrthaw ehun fal hynn:—Os y gwr racco a fu barawd i oddef angheu drosofi, paham na laddaf finheu fy meibion er ei gariad ef? Os ef a fu cyn gywreit a chadw llw ac arfoll, a'i fod yn barawd i oddef angheu drosofi, paham na byddaf finheu cyn gywreit yn i achos ynteu? Meddyliaw hefyt a ddylaf i'r Vream [Abraham] benn ffydd caffel clod tragwyddlaw o achaws ei gywirdeb a'i ufylltawt [ufudd-clod] i ladd i fab o arch yr angel. Meddyliaw hefyt a ddylaf y mae drwy ffydd a chywirdeb herwydd y dyweyt yr Yscruthur Lan y cafas y saint deyrnas nef. Meddyliaw hefyt a ddylaf bot Duw yn yr Yscruthur Lan yn dywedyt, beth bynnac a fynnych di i wneuthur o'th gnyddawc it, gwna ditheu idlaw ynteu. A gwedy meddyliaw o honaw y cywirdeb a'r urddas a wnathoedd Amic iddaw, cyrchu a wnaeth parth a'r gwely ydd ydoedd ei feibion yn cysgu yndaw, a dywedut wrthaw ehunan fal hynn: pwy a goglew nac a welas eirioet dad a laddai i feibion o'i gwbl fodd? O heddiw allan ni ellir fyng galw yn dad iwch, namyn yn farnwr creulawn, ac gynllwynwr enwiraf o'r gwyr. A chan ddagreu eu tad yn wylaw, y gwlychawdd eu dillad ac eu hwynebau. A dihunaw a wneuthant, ac edrych yn wyneb eu tad, a chwerthin a oruc yr hynaf onadunt, nid oedd fwy o oed no theirblwydd. Arglwydd feibion, awch chwerthin a drossir yn wylaw [wylaw], ac awch llewennydd yn dristid, o achaws bot awch creulawn dat yn barawt i dlangaws y mae nessaf cymydawc iwch yw angheu; ac ar y geir hwnnw lladd eu penneu a wnaeth, ac erbynneit eu gwaet y mywn cawc o ariant aoruc ac adaw eu cyrff yn y gwely, a chyweiryaw dillat arnynt, yn un an-

sawdd a pheib beint yn cysgu. A dyfod a wnaeth rhacddaw yn lle yd oedd Amic; a golchi ei holl gorff a wnaeth o wartha i benn hyt yngwadneu i draet: a dywedut fal hynn: Arglwydd Iesu Grist, y gwr yssydd yn erchi i bob dyn bot yn drugar-awc wrth i gilydd; y gwr yssydd feddeginiaeth i'r cleifion, a'u lleufer i'r deillion, a llewenydd i'r dynion trist; er dy ddirfawr drugaredd, iacha Amic fynghywir gedymdeith o'r clefyd yssydd arnaw; y gwr ni russeis i ollwng gwaet fy meibion er ei gariad ef. Ac wedi y weddi honno, yn ddiannod y bu gyn iached ef ac nat oedd yn fyw un dyn a fei iachach noc ef. Ac yna y bu lewenydd mawr yny llys drwy ddiolch i Dduw ni phalla fyth i'r neb aobeithio wrthaw drwy gywirdeb. Ac arneit gwisgaw gwisc un ryw a gwisc yr Iarll a wnaethpwy ymdanaw; a mynet parth a'r eglwys i ddiolch i Dduw wneuthur erddynt beth cymeint a hynny; ac nyt oedd yn fyw un dyn a wypei wahan rhwng yr Iarll ac Amic rac eu tebyccet. A phan ddaethant parth a'r eglwys, y dechreuasant clych yr eglwys canu ehunein. Ac wedi clybot yr chwedl yny dref, y doeth pob dyn or a allei gerdded parth a'r eglwys, i edrych ar y gwynnieth a dlaroedd i Dduw i wneuthur er i was. A phan weles yr Iarllles illdeu yn dyfod i'r eglwys, ni wyddiat hi o'r byd pwy onaddut oedd i gwr priawt hi. Ac yna y dywawt yr Iarll, myfi yw Amlyn, heb ef; a llyma Amic, fynghyfeillt, gwedy cael gwaret y gann Dduw. Arglwydd, heb hi, er y cariat yssydd y rhof athi, dywet pa fodd y cafat gwaret i Amic. Arglwyddes, heb ef, diolchwn i Dduw, y gwr a roddes gwaret iddaw, ac na cheisswn ni wybot pa ansawdd fu hynny. A gwedy gwylaw llawer o'r dydd, a bot yn bryt bwyt, i fwyta yd aethant drwy ddirfawr lewenydd; a gwahawdd pawb or a synnei fwyt, a diod, ac eur, ac ariant, a gwisgoedd; a dirfawr lewenydd aodd yny neuadd.

A pheib fwyhaf fei y lewenydd awelei yr Iarll, mwylhaf y tristaeti ynteu am anghue ei feibion. Ac yna yd erchis yr Iarllles ddihunaw ei meibion, ac eu dwyn i'r neuadd. Yna y dywawt yr Iarll, Arglwyddes, gad y meibion i gyscu digawn; ac ar y gair hwnnw a aei ef i'r ystafell, ac a wylei. A phan ddoeth parth a'r gwely, yd oedd y ddeu fab yn gware, a chwerthin a wnaethant fal y gwelsant eu tat; a chreith ar fwnwgl pob un onaddut fal edeu sidan coch, yn dystoliaeth i'r gwyrth awnaethod Duw er Amic. Ac yna y cymerth yr Iarll y ddeu fab y rwng i ddwyllaw, ac y duc wynt i'r neuadd ait eu mam, ac y dywawt fal hynn wrth yr Iarllles: bydd lawen, Arglwyddes, o achaws gwneuthur o Dduw beth cymeint erom a chyfodi an meibion o feirw, a laddasswn i heddiw y bore o arch Raphael Angel, i olchi Amic, fynghyfeillt ac eu gwaet. Ac fal y cigleu yr Iarllles yr ymadrodd hwnnw, ceryddu yr Iarll awnaeth hi yn fwy no meint drwy ollwng dagreu, am na rybuddiasse hi i ddal y cawc i erbynneit gwaet y meibion; ac fal y gallei hi ae dwylaw ehunan olchi Amic. Arglwyddes, heb yr Iarll, o herwydd i Dduw wneuthur pyngceu cymeint a hynn erom ni, nit a pharableu gwac y dylem ni i ddiolch i Dduw, namyn a gweithredoedd firwythlawn y dilywn dalu i Dduw am a wnaeth heddiw ac erioet erom. Ac yna y rhoddassant ofuned i Dduw, wasanaethu Duw o weithredoedd a diweirdeb o hynny allan; ac felly y gwnaethant tra fuant fyw. A'r dydd y cafas Amic wared o'r clefyd a oedd arnaw y bu farw Obias i wreic o anghue dissyft, drwy i chymryt or diefyl, ae dwyn i uffern yn gorfforawl.¹

Dyna ddigon, a gormod hefyd gan rai, ond odid, o'r soth-ach coelgrefyddol ac anwireddus yna; ond gwasanaetha i ddangos â pha fath lenyddiaeth ac addysg bwdr y porthid ein hynafiaid gan yr offeiriaid Pabaidd twyllodrus; a dylai ein llenwi â diolchgarwch diffuant am y cyfnewidiad dymunol a gymmerth le yn ein llenyddiaeth, cystal a'n haddysg gyffredinol, pan ddaeth y Diwygiad Protestanaidd i'n plith ni, a chenhedl-oedd eraill.

¹ Revue Celtique, Tome iv., pp. 228--234.

Hen ysgriflyfr gwir werthfawr, mewn ystyr ieithyddol a barddonol, yw yr un canlynol :—

CYFRINACH Beirdd Ynys Prydain : ys ef Llwybreiddiaeth ac Athrawiaeth ar Farddoniaeth Gymraeg a'i Pherthynasau, yn ol trefn a dosparth y Prif Feirdd gynt ar y Gelfyddyd wrth Gerdd Dafod ; yn cynnwys, 1. Yr Iaith Gymraeg. 2. Perthynasau Cerdd Dychymyg a Chrebyyll. 3. Amcan a Dyben. 4. Ansawdd Cyfiawn Fyfyrdod. 5. Trefn o barth Ymddwyn. 6. Cyfiawn Ddyfalu. 7. Amllder Deunydd a Dychymyg. 8. Parth Bann, ag Awdl, a Phennill, a Chynghanedd, ag Accen. 9. Parth Gwirionedd. 10. Rhywiau Cerdd herwydd Sylfon, a Chrebyyll, ag Achos ag Ystyr. 11. Trioedd Cerdd. 12. Rheithiadau Cerdd, yn V. Rheithiad, a Chymmwylliadau arnynt. 13. Rheithiadau y Mesurau, yn XXIV. Rheithiad, a XV. o Golofnau Adlawol. 14. Dosparth Simwnt Fychan. 15. Corfannau Cerdd Dafod,—yn ol Dosparth Morganwg. 16. Cynnwysdrem y Cynghaneddion. 17. Beiau ac Anafau Cerdd. 18. Eisteddfod Fawr Caerfyrddin. A argraffwyd dan Olygiad "Bardd wrth Ffaint a Defawd Beirdd Ynys Prydain," y Diweddar Iolo Morganwg.

The style and language of CYFRINACH Y BEIRDD are lucid and elegant ; and it displays a critical acumen highly creditable to the bards.—*Cambro Briton*, Feb., 1821.

Abertawy : cyhoeddwyd gan J. Williams, Rhif 8, Heol Fawr. 1829. [8-plyg.]

Dan olygiad Taliesin ab Iolo y cyhoeddwyd y gwaith, ar ol i Iolo Morganwg, ei dad farw, fel y dengys y "Rhagddarweiniad." Casglwyd y gwaith gan y llenorion canlynol, oedd yn eu blodau yr amseroedd a nodir, sef—

Lewys Morganwg, 1520 ; Meyryg Dafydd, 1550 ; Dafydd Benwyn, 1550 ; Dafydd Llwyd Mathew, 1550 ; Llywelyn Sion, 1510 ; ac Edward Dafydd o Fargan, 1660.

Y mae, neu yr oedd, copi ysgrifenedig o'r gwaith hwn yn y fl. 1824, yng Nghynnulliad Llawysgrifol Llansilin, rhif 32. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r gwaith hwn ychydig amser yn ol, gan Mr. H. Humphreys, Caernarfon, dan olygiad y diweddar CYNDELW.

Dywed Ab Iolo ddarfod i'w dad ef, Iolo Morganwg, "adysgrifenu'r cyfan" o'r copi a gyhoeddwyd dan ei olygiad ef, "allan o hen ysgrif-lyfrau mall a braenedig," ac y mae'n eglur mai yn llythraeth Iolo y mae'r gwaith argraffedig. Cymmerer un paragraff byr fel enghraifft :—

Teilyngdod y *Iaith Gymraeg* yn amgen Iaith o'r Byd, yw cyflawn a pherffaith nerth a gallu, herwydd ansawdd a phwyll ei geiriau a'i hymadroddion ; i arwedd y meddwl a'r ystyr yn gydrad a'r amcan ; canys ynddi y mae'r geiriau yn cydfyned a'r synwyr a'r pwyll yn gyflwyr a pheiffaith ; ag Iaith yw yn medru dyfalu pob pwyll a chrebyyll, a phob amcan er a ddichon meddwl dyn ei selweddu ai ddarfelyddu : a hynn yn llwyr berffaith, heb na llediaith na chymmysg estroniaith, gan ei hamled, a'i helaethgyrch gyflawnder cyhaeddell yn ei geiriau a'i hymadroddion.¹

¹ Cyfr. Beirdd, t. 11.

Y gwaith diweddaf yn cynnwys cyfansoddiadau hynach na chyfnod y testyn a nodaf yn bresennol, yw yr un canlynol :—

THE Four Ancient Books of Wales containing the Cymric Poems attributed to the Bards of the Sixth Century. By William F. Skene.

Edinburgh: Edmondson and Douglas. 1868. [2 vols. 8vo.]

Cynnwys hwn yr hen brydyddiaeth sydd yn *Llyfr Du Caerfyrddin*, a ysgrifenyddwyd dan deyrnasiad Harri II. (1154—1189); *Llyfr Aneurin*, a ysgrifenyddwyd yn y rhan olaf o'r 13edd ganrif; *Llyfr Taliesin*, a ysgrifenyddwyd yn nechreu'r 14edd ganrif, sef canrif gyntaf cyfnod y testyn; a'r *Llyfr Coch o Hergest*, a gasglwyd ar wahanol amserau yn ystod y 14edd ganrif a'r 15fed.¹

Cyfieithwyd y cyfansoddiadau sydd yn y "*Pedwar Llyfr*" yn ofalus i'r Saesneg, gan y Parch. Daniel S. Evans, B.A.; a'r Parch. Robert Williams, M.A.; a chyhoeddwyd y gwaith gwreiddiol a'r cyfieithiadau yn ddwy gyfrol 8-plyg.

Y mae amryw hen gyfansoddiadau a gynnyrchwyd yn ystod cyfnod y testyn wedi eu cyhoeddi, y rhai, wrth reswm, a ddeuant dan sylw, wrth fyned ym mlaen.

Yn y fl. 1841, dywedodd y Parch. John Williams, Archddiacon Ceredigion, yr hwn oedd yn ysgolhaig Cymreig gwydh, y bwriadai gyhoeddi cyfieithiad o ganiadau Aneurin, Taliesin, a beirdd cyntefig eraill, gyd âg adolygiad beirniadol ac adsefydliad y testyn; ond bu efe farw yn y fl. 1858, cyn cyflawni ei fwriad. Gellir dyfalu beth a olygai efe wrth "adsefydlu y testyn," oddi wrth yr hyn sydd yn y "*Second Part*" o'r gwaith olaf a gyhoeddwyd ganddo yn y fl. 1854, a elwir "Gomer." Y mae'n eglur mai ei gynllun ef oedd ccisio adfer llythyaeth geiriau yr hen ganiadau sydd yn y *Myryrian Archæology*, i'r dull y tybiai efe eu bod pan gyfansoddiwyd hwynt. Dodir un esampl o'i gynllun ger bron yma, gyda'i eglurhad ef arni yn ei eiriau ei hun :—

I give first the printed form, which runs thus :—

"Yn llongborth gwelais brwydrin
Gwyr yngyd a gwaet hyd ddeulin
Rhag rhuthr mawr mab Erbin.
Yn Llongborth y llas gereint
Gwr Dewr o goettir dyvnaint
A cyn rylledid hwy lladdysent.

Yn Llongborth llas i Arthur
Gwyr Dewr cymmynynt a dur
Amherawdyr Llywawdyr Llawur.”¹

There is in the first place an evident displacement in the third stanza, where the second ought to be the last line. Amherawdyr is evidently a corruption of the Latin word imperator, and Llywawdyr is equally barbarous. The present form Llyw, a rudder, gave rise to the agent Llywydd, a helmsman or ruler.

But the Cornish form of Llywydd is levuit, as may be seen in the Cornish Vocabulary published by Zeus, and which he ascribes to the fourteenth century. The restored stanzas would therefore read thus :—

1.

“ In Longbyrth guelais broidrin
Gwer incet gwaet hed deulin
Rag ruthor maur map Erbin.

2.

In Longborth relas Gereint
Gur deur o goettir Duvneint
A cin reledit hui a ledeint.

3.

In Longborth las ir Arthur
Empèrur levuit lawur
Guer deur cemined a dur.”¹

Dau o'r pennillion blaenorol sydd yn *Llyfr Du Caerfyrddin*,
a'r olaf ym mlaenaf, fel hyn :—

En llogporth y gueleise. y arthur
Guir deur Kymynint adur.
Aneraudur llywiaudeir llawur
En llogporth y llas y gereint.
Guir deur o odir diwneint.
Achin rillethid ve. llatiysseint.²

Dyma gyficeithiad o'r chwe' llinell yna gan y Parch.
D. S. Evans :—

- VIII. In Llongborth I saw Arthur,
And brave men who hewed down with steel,
Emperor and conductor of the toil.
- IX. In Llongborth Geraint was slain,
A brave man from the region of Dyvnaint,
And before they were overpowered, they committed slaughter.²

¹ Gomer, Sec. Part, p. 41.—Fel y canlyn y mae'r pennillion yn y Myv. Arch t. 83 :—

Yn Llongborth gwelais vwydrin
Gwyr ynghyd a gwaed at ddeulin
Rhad rthulir mawr mab Erbin

Yn Llongborth y llas Geraint
Gwr dewr o goettir Dyvnaint
Wyntwy yn lladd gyd a's lleddaint

Yn Llongborth llas i Arthur
Gwyr dewr cymmynynt a dur
Amherawdyr llywawdyr llawur

¹ Skene, vol. 2, p. 38.

² Ibid, vol 1, p. 207.

Sylwa Skene, yn briodol, na bu syniad mwy anffodus erioed na bwriadu gwneud adferiad mympwyol o'r testyn yn sail gwaith pwysig ; a bod cofio hyny yn lleihau'r gofid, o blegid na ddygodd yr Archddiacon ei amcan bwriadedig i ben. Y mae cyflwyno hen gyfansoddiadau, pa un bynnag ai prydyddol ai traethodol a fyddont, mewn dull gwahanol i'r hyn a ymddangosont yn yr adysgrifau hynaf, a'u gwisgo â llythraeth y tybir ei bod yn hynach, yn llwyr ddyrysu safle y llên-olygydd, cystal a safle y beirniad hanesyddol. Gwir swydd golygydd yw dethol y llawysgrifau hynaf a goreu, a gosod testyn y cyfansoddiad yn y dull a'r llythraeth y caffo hwynt yn fanwl, heb ymyryd â hwynt, na'u hadferu, namyn cynnysg-aeddu'r beirniad â defnyddiau, ar y rhai y gall efe arfer ei fedr i benderfynu eu gwerth a'u hoedran. Y mae'n ddiammheul na wnaeth neb fwy o gymmwynas, yn yr ystyr yma, i lenyddiaeth Gymreig, mewn cysylltiad â hen brydyddiaeth, nag a wnaeth W. F. Skene, trwy gyhoeddi *The Four Ancient Books of Wales*.

Yn y fl. 1849, cyhoeddodd W. Rees, Llanymddyfri, *The Literature of the Kymry*, gan Thomas Stephens, prif amcan yr hwn yw traethu ar iaith a Llenyddiaeth y cyfnod sy'n cyrhaedd o'r fl. 1080 hyd 1350; ond cymmer efe i mewn y caniadau a briodolir i feirdd y 6ed ganrif, cyn belled ag y tybia eu bod yn cael eu cam briodoli, tra mai gwaith beirdd diweddarach ydynt mewn gwirionedd. Y mae Skene yn cydnabod bod gwaith Stephens wedi ei ysgrienu yn alluog, ac mai efe, mewn gwirionedd, ydyw y cyntaf i ddwyn yr hen ganiadau i ddim tebyg i ddosparthiad beirniadol. Gan mai Stephens oedd y cyntaf i wneud y fath ddosparthiad, yr oedd yn ddigon naturiol iddo redeg yn lled bell yn y cyfeiriad hwnw. Yn mae'n eglur mai'r caniadau fel y maent yn y *Myvyrian Archaiology* a feirniadau Stephens, ac nid fel y ceir hwynt yn yr adysgrifau hynaf, fel y maent gan Skene.

Ymddengys bod Stephens yn cymmeryd yn ganiataol bod Gododin Aneurin yn waith diledryw y bardd hynafol hwnw ; ond ystyria fod yr holl ganiadau a briodolir i Myrddin yn

ffugiol. Tybia efe mai Prydydd y Moch (Llywarch ap Llywelyn) oedd awdur yr *Afallenau* a'r *Hoianau*; ac iddo gyfansoddi 'r gân flaenaf dan deyrnasiad Owain Gwynedd (1137—1169); a'r llall yn amser Llywelyn ap Iorwerth (1194—1240); ac mai Gruffydd ap yr Ynad Coch oedd awdur y *Gorddodau*. Dywed Skene fod ei gynnyg i nodi gwir awdur yr *Afallenau* a'r *Hoianau* yn fethiant, am fod y ddau gyfansoddiad hyny, cystal a chaniadau eraill, yn *Llyfr Du Caerfyrddin*, a adysgrifenwyd yn y 12fed ganrif, tra y perthynai Prydydd y Moch i'r ganrif ddilynol. Ysgrifenwyd y *Llyfr Du*, yn ol Skene, fel y gwelsom, yn amser Harri II. (1154—1189); ac yr oedd Prydydd y Moch yn ei flodau, yn ol cynnwysiad y *Myv. Arch.*, ac awdurdodau eraill, o'r fl. 1160 i 1220. Gan hyny, od ydyw yr amseriadau hyn yn gywir, bu Prydydd y Moch yn ei flodau dros 29 mlynedd o amser ysgrifeniad y *Llyfr Du*; sef o 1160 hyd 1189. Ond pa un bynnag a ydyw yr holl amseriadau a nodwyd yn gywir, a bod Prydydd y Moch wedi cyfansoddi yr *Afallenau* a'r *Hoianau* ai peidio, cred yr ysgrifenydd, fel Stephens, fod yr wythien brydferth o syniadau sy'n rhedeg trwyddynt, ynghyd â phrydferthwch ac eglurdeb eu cyfansoddiad, mewn cymmhariaeth i ganiadau diammheuol Aneurin, Taliesin, a Llywarch Hen, heb son am y cyfeiriadau sydd ynddynt at bersonau hanesyddol ar ddull prophwydoliaethau, yn profi'n bur gadarn y rhaid eu bod wedi eu cyfansoddi rywbyrd yn ystod adnewyddiad prydyddiaeth Gymreig yn y 12fed ganrif, sef o Gwalchmai ab Meilyr hyd Hywel ap Owain Gwynedd.

Y caniadau a gymmer Stephens dan sylw yn benaf, fel rhai wedi eu cam briodoli, ydyw y rhai a briodolir i Taliesin. Nifer y rhai a briodolir iddo ef yn y *Myv. Arch.* yw 77; tra nad yw Stephens wedi nodi ond 73.¹ Yr hyn sydd yn rhyfedd braidd ydyw, bod Stephens ei hun yn eu cyfrif yn 77;² ac ymddengys bod Skene wedi cymmeryd yn ganiataol fod Stephens wedi cymmeryd ei restr o'r *Myv. Arch.*, ac wedi eu rhifo yn gywir;

¹ Lit. Kymry, pp. 282—3.

² *Ibid.*, p. 281.

o blegid dywed bod Stephens wedi dosparthu 77 o ganiadau Taliesin.¹ Fel y canlyn y dosparthodd Stephens hwynt :—

“Hanesyddol, a chyn hyned a'r chweched ganrif :” 12 o ganiadau.

“Ammheus :” 8 o ganiadau.

“Rhamantau perthynol i'r ddeuddegfed ganrif a'r drydedd a'r ddeg :” 25 o ganiadau.

“Rhanau o Fabinogi Taliesin, a gyfansoddwyd gan Thomas ap Einion Offeiriad :” 9 o gyfansoddiadau.

“Caniadau rhagfynegol, o'r ddeuddegfed ganrif a'r canrifoedd dilynol :” 15 o nifer.

“Caniadau Duwinyddol o'r un cyfnod :” 4 o nifer.

Gwelir wrth y dosparthiad yna nad oes, yn ol barn Stephens, ond ychydig o'r caniadau a briodolir i Taliesin yn wir waith y bardd hwnnw ; ac, yn ol syniad Stephens, y mae amryw o ganiadau y tri dosparth olaf, o waith Thomas ap Einion i waered, yn perthyn i gyfnod y testyn ; sef yr holl rai a gyfansoddwyd yn y 14ed ganrif, ac ar ol hyny.

Pa wedd bynnag, dylid cofio nad yw *Llyfr Taliesin* yn cynnwys ond 59 o ddarnau, a rhai o honynt yn wahanol i ddim sydd yn rhestr Stephens ac yn y *Myv. Arch.* ; ac ym mhlith y rhai na feddant awdurdod yr hen lawysgrifau, cynnwysir caniadau mwyaf poblogaidd Taliesin, o barth y rhai y gwnaeth D. W. Nash,² a rhai beirniaid eraill, fwyaf o ystŵr ynghylch ei ffuantwydd. Gan nad yw 'r caniadau hyny yn hen *Llyfr Taliesin*, nac yn yr un o'r tri llyfr hynaf eraill ; sef *Llyfr Du Caerfyrddin*, *Llyfr Aneurin*, a *Llyfr Coch Hergest*, nac mewn unrhyw lawysgrif hynafol, y mae hyny ei hunan, heb son am y profion mewnol sydd yn y caniadau, yn profi nad ystyrid hwy gan yr hynafiaid yn waith Taliesin ; neu nad oeddynt wedi eu cyfansoddi pan adysgrifenwyd yr hen lyfrau. Priodolwyd hwy er yn foreu i Jonas Athraw o Fynyw, am yr hwn nid oes odid ddim hanes benderfynol, heb law y tybir ei fod yn bucheddu yn y 12fed ganrif. Priodolir *Mabinogi Taliesin*, fel y crybwyllwyd, i Tomas ap Einion Offeiriad, yr hwn oedd yn ei flodau, fel y tybir, yn nechreu cyfnod y testyn ; ond dywed y Dr. Pughe mai Hopcin Tomas Phylip a'i cyfansoddodd, yr hwn a ddodir yn ei flodau rhwng 1590 ac 1630 ; eithr y mae Skene yn lled awgrymu mai Iolo Morganwg a'r Doethawr ei

¹ Skeue, vol. I., p., 167.

² Tallesin, or the Bards and Druids of Britain, trwyddo.

hunan a saerniasant y *Mabinogi* hwnw ;¹ ond nis gallaf fi gredu hyny ; eithr y mae'n bur debyg mai yr un awdur oedd i rai o'r darnau prydyddol sydd yn y chwedl, ag sydd i'r chwedl ei hunan.

Yn y fl. 1858, cyhoeddwyd *Taliesin, or the Bards and Druids of Britain*, gan D. W. Nash. Y caniaadau a briodolir i Taliesin ydyw prif destyn llyfr Nash. Ei gynllun ef yw awgrymu yn hytrach na haeru yn bendant, nad yw yr hen ganiadau Cymreig yn ddim hynach na'r llawysgrifau hynaf y ceir hwynt ynddynt ; ac o ganlyniad, nad yw'r caniaadau hynaf a briodolir i Taliesin yn hynach na'r 12fed ganrif, sef yr amser y ceir y rhai hynaf a briodolir iddo mewn llawysgrifen. Er mwyn cadarnhau ei gynllun, y mae'n gwneud newidiadau dychymmygol o'r testyn, pan etyb hyny ei amcan, fel y sylwa Skene yn briodol ;² a chuddir gwir ystyr y caniaadau a wna efe yn destynau ei feirniadaeth, dan aralleiriad a eilw efe yn gyfeithiad, yr hwn nid yw amgen na math ar ddarlun o'u cynnwysiad. Gellir casglu oddi wrth amryw o awgrymiadau Nash, bod y rhan fwyaf o'r caniaadau a briodolir i Taliesin, mor ddiweddar ar 14eg ganrif, a'r canrifoedd dilynol ; ac felly eu bod yn perthyn i gyfnod y testyn ; ond gan na ddylid derbyn awgrymiadau yn lle profion, rhaid gadael gwaith Nash o'r neilldu, yng nghymdeithas gwaith y Celtig Ddafis, Pinkerton, Laing, a'r cyffelyb.

Gyda golwg ar ryddiaith cyfnod y testyn, ymddengys mai'r prif gyfansoddiadau cynnaraf oedd chwedlau a rhamantau, a elwid *Mabinogion* ac Ystoriau, fel yr awgrymwyd eisoes ; y rhai a ddilynwyd gan *Drioedd* a *Diarhebion* ar wahanol destynau, a chan wahanol awduron ; ac a ysgrifenydwyd o'r 14ed ganrif hyd yr 16ed, os nad diweddarach, rai o honynt. Ymddengys hefyd yr ysgrifenydwyd ar yr Iaith Gymraeg, rheolau Cerdd Dafod, a phyngciau llenyddol eraill ar wahanol amserau yn ystod y cyfnod, fel y ceir gweled yn y lleoedd priodol.

Hyderir y dyry'r talfyriad blaenorol giptrem i'r darllenydd ar y fath ddefnyddiau sydd genym i ffurfio "Hanes Llen-

¹ Skene, vol. I., p. 103.

² Skene, vol. I., 15.

yddiaeth Gymreig” yn ystod y rhan flaenaf o gyfnod y testyn, sef hyd pan ddechreuwyd argraffu llyfrau Cymraeg. Bellach deuir at lenorion gwahanol adranau cyfnod y testyn; ac ymdrechir rhoi darlun byr a chywir o’u prif lenyddiaeth; a rhoddir cofres mor gywir ag y gellir, ar ddiwedd pob pennod, o brif lenorion yr adran honno, ynghyd âg awgrym am eu cyfansoddiadau argraffedig ac ysgrifenedig.

PENNOD V.

Y CYFNEWIDIAD DEDWYDD A GYMMERTH LE YNG NGHYFANSODDIADAU'R BEIRDD TUA DECHREU CYFNOD Y TESTYN; DYGIAD CYNGHANEDD I BRYDYDDIAETH; HANES Y “TAIR EISTEDDFOD DADENI”; AMSERAU Y TAIR EISTEDDFOD HYN Y; LLYWELYN AB GWILYM; EDNYFED AB GRUFFYDD A'I GYFANSODDIADAU: MADOG AB GRUFFYDD (MADOG BENFRAS) A'I GYFANSODDIADAU; SION Y CENT A'I GYFANSODDIADAU; RHYS GOCH ERYRI A'I GYFANSODDIADAU; IOLO GOCH A'I GYFANSODDIADAU; COFRES O AMSERAU AC ENWAU LLENORION Y “TAIR EISTEDDFOD DADENI.”

Y MAE cyfnod y testyn yn dechreu gyda dechreu y saith mlynedd olaf o deyrnasiad y gorchfygwr, Edward I., yr hwn a deyrnasodd o'r fl. 1272 hyd 1307. Y mae'r cyfnewidiad trwyadl a gymmerth le yng nghyfansoddiadau'r beirdd ar ol esgyniad Edward i orsedd Brydain, yn deilwng o sylw arbenig. Cyn hyny, holl fryd y beirdd er yr hen amseroedd, fel y crybwyllwyd, oedd annog eu noddwyr i ryfel a chelanedd; a'u moliannu am eu buddugoliaethau gwaedlyd, neu alaru ar ol eu cwmp. fel y gwelir yng nghaniadau'r beirdd, o Aneurin, oedd yn ei flodau, fel y gwelwyd, o'r fl. 510 hyd 560, hyd Gruffydd ap yr Ynad Coch, a flodeuai o'r fl. 1260 hyd ddechreu cyfnod y testyn yn y fl. 1300; yr hwn a newidiodd beth ar yr awyrgylch farddonol.

Er nas gellir llai na mawrygu dewrder ein hynafiaid, y rhai a ymdrechent gadw eu cartrefi mynyddig, eu gwlad frodorol, a'u hannibyniaeth cenedlaethol rhag estroniaid gwangcus ac

yspeilgar ; ac er y llenwir ni âg edmygedd at y beirdd a'u cynnorthwyent â'u cleddyfau cystal ag â'u caniaidau ; eto, wedi i'r cyffro gwyllt lonyddu ar ol rhai oesau o heddwch tawel, y mae hanesion parhaus am ryfel a thywallt gwaed yn llenwi'r meddwl ystyriol â hiraeth am olygfeydd hyfrytach, ac wybren ddysgleiriach. Tarawyd y Cymry â'r fath syndod a dychryn gan gwypm Llywelyn yn y fl. 1282, a chreulonderau'r gor-thrymwyr, megis y crybwyllwyd, fel y parodd wanychdod dros amser i feddwl y genedl, ac i awen y beirdd, fel y mae'n hawdd canfod wrth gymmharu cynnyrchion eiddil beirdd y rhan olaf o'r 13eg ganrif, fel rheol, â cherddi tanllyd, egniol, eu rhag-flaenoriaid ; ond nid hir y bu meddwl y Cymry heb ymadfer. Pan gafodd y genedl raddau o heddwch, dechreuodd y beirdd ail ymafael yn eu hoff orchwyl ; ac er iddynt fod yn lled faith ar ol newid eu testynau, trwy ganu ar natur, cariad, a hoender, cyn cyrhaedd egni tanbeidiol eu hynafiaid ; eto, cynnyddu yr oeddynt yn barhaus, ac ymdyrchafu mewn yni, melusder, a hoender ; canys yr oedd beirdd cynnaraf cyfnod y testyn, megis y gwelir yn ebrwydd, ymhlith goreuon beirdd y genedl ar destynau cymdeithasgar.

Heb law yr hyn a nodwyd, o gyloch dechreu cyfnod y testyn, fel y crybwyllwyd, y dechreuwyd arfer *cyngghanedd* mewn pryd-yddiaeth ; ond er bod y gyngghanedd yn myned yn gaethach-gaethach ar ol iddi ddyfod yn adnabyddus ; eto, nid wyf yn gwybod iddi gael ei harosod fel ammod barddonol hyd ymhen tua 150 o flynyddau o gyfnod y testyn, fel y ceir gweled yn yr amser priodol.

Y dygwyddiad llenyddol pwysicaf yn nechreu cyfnod y testyn, yn ddilys ddigon, ydoedd cynnaliad y "Tair Eisteddfod Dadeni," am y rhai y ceir yr hanesyn canlynol :—

Yn amser y Brenin Edwart y III. y bu Eisteddfod yn Ngwern y Cleppa dan nawdd a Dawn Ifor Hael ; ag i honno y daeth Tri Brodyr Marchwiall ym Maelor yng Ngwlad Bowys. a Llewelyn ap Gwilym o'r Dilol Goch yng Ngheredigion—a Thri Brodyr Marchwiall a Dafydd ap Gwilym gyda nhwy. a fuan yn ysgolheigion Barddoniaidd Llywelyn ap Gwilym yn Ngwern y Cleppa ys ef Llys Ifor hael. Ag yn yr Eisteddfod honno y doded baint Cadair ar fesur Cywydd lle nad oedd felly o'r Blaen a phan canwyd am gadair Dafydd ab Gwilym a ennillws o nerth Awen a chanu a Chymraeg cynhwynol. Ac o hynny maes baint Cadair i fesur Cywydd deuir a gwisgo Dafydd ap Gwilym ag addurn Cadair Morganwg a rhod enw Dafydd Morganwg, ag yng Ngwynedd ei alw Bardd Ifor Hael. ac o hynny

hyd yn awr serchoccaf a goreu o'r holl fesurau y bernir Cywydd, Gwedi hynny bu Eisteddfod dan nawdd Llywelyn ap Gwilym yn y Ddol goch yn Emlyn ag i honno y daeth Sion y Cent a Rhys Goch o Eryri yn Ngwyned a thyfu ymryson rhwng Sion y Cent a Rhys Goch, goreu ar wengerdd Sion Cent, a goreu ar foliangerdd Rhys Goch, a rhodd y blaen a'r Gadair i'r wengerdd ond ni fynnai Sion y Cent ei wisgo ag addurn Cadair Ceredigion a Dyfed eithr i Dduw y rhoddai ef y blaen, am hynny y gwedai rhai mai Duw ei hunan a enillw [s] y gadair honn—wedi hynny dodes Llywelyn ap Gwilym ganu er Cadair Ceredigion y goreu am Rieingerdd a Barnu Dafydd ap Gwilym yn oreu, ai wisgo a'r Cae Fedw ys ef addurn Rieingerdd, yna Llywelyn ap Gruffydd un o dri Brodyr marchwiall a ganodd Englynion Bedw briglas ar hen ganiad gwedi hynny y Tri Brodyr a ddodasant Dan Osteg a Rhybudd undydd a blwyddyn Eisteddfod yn Maelor. ym Mhowys yn nawdd Iarll Mortimer dan Goron y Brenin Edward y trydydd ac yno y canwyd am gadeiriau. Ac Ednyfed ap Gruffydd a gafas am Gywydd Gwr ac am Englynion byraf Eiry Mynydd. A Madoc y trydydd brawd a gafas gadair a Chae Bedw am Rieingerdd. A Dafydd ap gwilym a ganodd yn garedig i Fadog am ei gerdd. Ac yn yr Eisteddfod honno ydd addurnwyd Iolo goch ag addurn cadair am ei wybodau a ddysgws Ednyfed ap Gruffydd parth Gwybodau Cerdd Dafod ai pherthynasau. Ac o'r Tair Eisteddfod hyn y cafad gwellhad ar gerdd Dafod a Chynganedd.

A'r Tair Eisteddfod Dadeni y gelwir un Ifor Hael ym Maesaleg, ag un Llywelyn ap Gwilym yn y Ddol Goch yn Emlyn, ag un Marchwiall.¹

Dywedir uchod, fel y gwelir, y cynnaliwyd y tair Eisteddfod a nodwyd yn amser Edward III. ; y gyntaf yng Ngwern y Clepa, dan nawdd a dawn Ifor Hael ; yr ail yn y Ddól Goch, dan nawdd Llywelyn ab Gwilym ; a'r drydedd ym Maelor ym Mhowys, dan nawdd yr Iarll Mortimer. Gan hyny, rhaid y cynnaliwyd y tair ryw bryd rhwng y 29ain o Ionawr, 1327, pan y coronwyd Edward III.,² a'r 29fed o Dachwedd, 1330, pan ddihenyddwyd Iarll Mortimer ;³ sef yn yr yspaid o dair blynedd.

Dyry'r ffeithiau hyn fantais i ni, nid yn unig i ddafalu pa bryd y cynnaliwyd y "Tair Eisteddfod Dadeni,"⁴ ond hefyd pa bryd yr oedd amryw o brif feirdd boreuaf cyfnod y testyn yn eu blodau, neu o leiaf yn dechreu blodeuo. Os dodwyd Eisteddfod Ifor Hael yng Ngwern y Clepa dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, pe dodasid y rhybudd, neu'r cyhoeddiad, yn ebrwydd ar ol esgyniad Edward III. i'r orsedd, nis gallasai gael ei chynnal cyn y fl. 1328. Yr holl feirdd yn yr Eisteddfod honno, fel y gwelir yn y difyniad blaenorol, oedd yr Athraw, neu'r Pencerdd, Llywelyn ab Gwilym o'r Ddól Goch, a'i bedwar dysgybl, y "Tri Brodyr Marchwiall," sef

¹ Iolo MSS, t. 96—97.

² Mackenzie's *Fam. Hist. Engl.* vol. i., p. 270. ³ Ferguson's *Hist. Engl.*, vol. i., p. 103.

⁴ Gelwid hwy yn "Eisteddfodau Dadeni," am yr ystyr id eu bod megis adenedigaeth i farddoliaeth, wedi iddi gael y fath loes ar orchfygiad y Tywysogion Cymreig.

Ednyfed ab Gruffydd, Llywelyn ab Gruffydd (Llywelyn Llogell Rhison) Madog ab Gruffydd (Madog Benfras) a Dafydd ab Gwilym (Dafydd Morganwg, neu Fardd Ifor Hael).

“Gwedi hynny bu Eisteddfod dan nawdd Llywelyn ap Gwilym yn y Ddôl goch yn Emlyn.” Dyma yr ail “Eisteddfod Dadeni,” fel y gwelwyd. Os dodwyd hon dan osteg a rhybydd undydd a blwyddyn yn ol y ddefod, rhaid mai ar ryw adeg yn ystod y fl. 1329 y cynnaliwyd hi ; ac at y pum bardd oedd yn y gyntaf o’r “tair Eisteddfod,” daeth dau arall i hon ; sef Sion y Cent a Rhys Goch Eryri ; a chanodd y ddau yn egniol ynddi, fel y ceir gweled eto.

Mynegir yn eglur ddarfod i’r “Tri Brodyr Marchwiail,” yn yr ail “Eisteddfod Dadeni,” roddi “Gosteg a Rhybudd undydd a blwyddyn,” y cynnelid y drydedd “Eisteddfod Dadeni” ym Maelor ym Mhywys ; yr hon a gynnaliwyd yn ddiau ryw bryd yn ystod y fl. 1330, cyn y 29fed Dachwedd, pan y lladdwyd Iarll Mortimer, ei llywydd. Nid oes hanes fod Sion y Cent a Rhys Goch Eryri yn yr Eisteddfod honno ; ac ni sonir chwaith fod Llywelyn ab Gwilym ynddi : gan hynny, y mae’n debyg iawn ei fod yntau wedi cael ei ladd cyn hyny, fel y ceir gweled eto ; ac ymddengys mai Dafydd ab Gwilym, nai Llywelyn ab Gwilym, o fab ei chwaer, oedd y Beirniad yn honno, yn lle ei cwythr. Yr unig fardd a ddaeth i’r Eisteddfod hon o newydd, oedd Iolo Goch, hyd y mynegir.

Yn awr, sylwir ar lenyddiaeth ac amserau y Beirdd oedd yn y Tair Eisteddfod grybwyllledig, gan eu cymmeryd o hynaf i hynaf, yn ol eu perthynas â’r Eisteddfodau hynny ; dygwyddiadau llenyddol mawrion dechreu cyfnod y testyn.

Llywelyn ab Gwilym, o’r Cryngae a’r Ddôl Goch, oedd yr hynaf a’r penaf yn y ddwy gyntaf o’r Tair Eisteddfodau hyny, fel y gwelwyd ; sef yn yr un a gynnaliwyd yng Ngwern y Clepa, yn y fl. 1328, a’r un a gynnaliwyd yn y Ddôl Goch, sef trefstadaeth Llywelyn ab Gwilym ei hun, yn y fl. 1329. Y mae’n eglur mai efe oedd y beirniad yn y ddwy Eisteddfod grybwyllledig.

Nid ydys yn gwybod i ddim o'i lenyddiaeth ef gael ei dros-glwyddo i'r oesau dyfodol ; ond y mae'n eglur ei fod ef yn ŵr cyfarwydd mewn barddoniaeth ; canys ei "ysgolheigion Barddoniaidd" ef, fel y gwelwyd, oedd y Tri brodyr Marchwiail, a Dafydd ab Gwilym, ei nai, un o brif feirdd Cymru.

Gan nad oedd Llywelyn ab Gwilym yn yr Eisteddfod a gynaliwyd ym Maelor ym Mhowys, yn y fl. 1330, dan nawdd yr Iarll Mortimer, yr hwn a ddihenyddiwyd, fel y gwelsom, ar y 29fed o Dachwedd y flwyddyn honno, cesglir bod Llywelyn wedi cael ei ladd cyn hyny gan "Williaid o Saeson Penfro ;"¹ canys tybir i hyny ddygwydd rhwng y fl. 1327 ac 1330,² pan oedd Dafydd ab Gwilym, ei nai o 29 oed i 30. Canodd Dafydd ddwy "Awdl Farwnad" wylofus ar ol ei ewythr talentog, a'i athraw ffyddlon ; yn un o'r sawl y galara efe fel hyn :—

Och ! Och ! y Ddôl Goch gwedi gwyl—barchus,
Am dy berchen anwyl ;
Och ! wedi'r ddwy Och ddigwyl,
Och ! pe nid Och, pwy nid wyl.

Tystia Dafydd ab Gwilym yn fynych yn ei ddwy Awdl alarus i'w "ewythr," ei "gâr," a'i "Athro" hwn, ei fod yn "brydydd," "Ieithydd," ac yn "gyfarwydd ar fesurau y ddwy gerdd ;" sef Cerdd Dafod a Cherdd Dant ; canys, eb efe wrtho yn un o'i Farwnadau iddo,—

Llafr o'th ol, llyfr a thelyn.

Wrth ystyried bod Llywelyn ab Gwilym yn Athraw y "Tri Brodyr Marchwiail," a Dafydd ab Gwilym, tybir na byddys ym mhell oddi wrth y gwir amser wrth ei ddodi i fucheddu rhwng 1280 ac 1329 ; ac felly, yr oedd yn bucheddu ar derfyn cyntaf cyfnod y testyn.

EDNYFED AB GRUFFYDD oedd yr hynaf o'r "Tri Brodyr Marchwiail," yr hwn oedd yn bresennol, fel ei ddau frawd, a Dafydd ab Gwilym, yn y "Tair Eisteddfod Dadeni." Enw ei dad oedd Gruffydd ap Iorwerth, mab Iorwerth ap Einion Goch, o Farchwiail ym Mhowys. Yr oedd yn fardd dysgedig, "parth gwybodau Cerdd Dafod a'i pherthynasau ;" canys efe oedd

¹ Iolo MSS., t. 93. ² Barddoniaeth D. ab Gwilym, t. 459 ; Cambr. Plutarch, p. 219 ; Cambro Briton, vol. iii. p. 146. ³ Barddoniaeth D. ab Gwilym, t. 464.

athraw Iolo Goch yn y gwybodau hyny.¹ Ennillodd ddwy Gadair yn Eisteddfod Maelor, lle yr oedd Dafydd ab Gwilym yn feirniad ; sef un am “Gywydd Gŵr,” a’r llall am Englynion Byraf Eiry Mynydd ; ond nid ydys sicr i ddim o’i waith ein cyrhaedd ni, oddi eithr nad oedd yn awdur yr “Englynion Eiry Mynydd” sydd yn y *Myv. Arch.*, heb enw wrthynt, y rhai sydd yn dechreu fel hyn :—

Eiry Mynydd caled grawn
Dail ar gychwyn Llynwyn llawn
Nag ymddiried i estrawn.
Eiry Mynydd gwancus Iâr
Gochwiban gwynt ar dalar
Yn yr ing gorau yw’r câr.²

Os efe a ganodd y pennillion yna, y mae’n sicr ddigon nad yn yr un llythraeth y maent yn y *Myv. Arch.* ag yr ysgrifenyd hwy yn ei amser ef. Dodir Ednyfed ab Gruffydd yn ei flodau o’r fl. 1310 hyd 1330 ; gan hyny, diau y ganwyd ef ryw-bryd yn y rhan olaf o’r 13ed ganrif.

LLYWELYN AB GRUFFYDD (Llywelyn Llogell Rhison), oedd yr ail o’r “Tri Brodyr ;” ac yr oedd yntau yn y “Tair Eisteddfod Dadeni,” fel ei ddau frawd. Yn yr ail o’r Eisteddfodau hyny, canodd “Englynion Marchwiall Bedw briglas, ar hen ganiad ;” ond ni wyddys i’r rhai hyny, na dim arall o’i waith, gael eu trosglwyddo i’r oesau dyfodol. Y mae pedwar Englyn dienw ar “Farchwiall Bedw Briglas,” yn Llyfr Coch Hergest,³ yn *Myf. Arch.*,⁴ ac yng Ngrammadeg I. D. Rhys ; ond ai Llywelyn ab Gruffydd oedd yr awdur ni hyspysir. Y mae’r blaenaf fel y canlyn :—

Marchŷiall bedŷ briglas,
A dynn bhy nhroet o ŷanas,
Nyac adhebh dy rin i ŷas.⁵

Wele ddull arall o Englyn o’r “hen ganiad ;” ond ni wyddys pa un o’r ddau ddull a gymmerth Llywelyn :—

Marŷ Rhirid bhlaidd gŷraidd gŷrabh (Gybhiawn un)
A gebhais ei alabh ;
Yn duŷ a’i dŷg odhiarnabh,
E dhŷg duŷ a bho penabh.⁶

¹ Iolo MSS., t. 97.

² *Myv. Arch.*, t. 361.

³ Skene, vol. II. p. 250—1. ⁴ *Myf. Arch.*, t. 102. ⁵ *Ling. Cymr. Just Accur.*, p. 807.

⁶ *Ibid.*, p. 558.

Ni wyddys ddim am ei amser ef, heb law ei fod yn ei flodau yn amser y "Tair Eisteddfod Dadeni," o'r fl. 1328 hyd 1330.

MADOG AB GRUFFYDD (Madog Benfras), oedd y trydydd o'r "Tri Brodyr Marchwiail;" ac yr oedd yntau, fel y gwelwyd, yn y "Tair Eisteddfod Dadeni;" ac yn yr olaf o'r "Tair," sef Eisteddfod Maelor, efe "a gafas Gadair a Chae Bedw am Rieingerdd. A Dafydd ab Gwilym [ei feirniad] a ganodd yn garedig i Fadog am ei gerdd." Y mae dwy o'i gerddi ef, o leiaf, yn argraffedig, fel y ceir gweled rhag llaw; a dywedir bod eraill yn ysgrifenedig. Dodir ef yn ei flodau o'r fl. 1328 i 1370.

DAFYDD AB GWILYM ydyw y nesaf a nodir genym, oedd yn y "Tair Eisteddfod Dadeni;" ac yn wir yr oedd efe yn un o brif feirdd Cenedl y Cymry; ac y mae'n deilwng o sylw lled fanwl yn "Hanes Llenyddiaeth Gymreig." Ei dad, yn ol yr Achau, oedd Gwilym Gam o Lanharan Fawr, yng Ngheredigion, ab Dafydd, ap Ieuan, ap Hywel, ap Cynwrig, ab Goronwy, ab Meredydd, ab Madog, ap Iorwerth, ap Llywarch, ab Bran, o Lys Cwmmwd Menai, ym Môn, cyff cenedl un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Ei fam ydoedd Ardudful, merch Gwilym Fychan, o'r Cryngae, yn Emlyn.¹

Dywedir bod ei dad a'i fam, Gwilym Gam ac Ardudful Fychan, yn orhoff o'u gilydd; ond gan fod rhyw gas dialeddol rhwng y ddau deulu a'u gilydd, ni fynnent ar un cyfrif i'r ddeuddyn ieuangc briodi; a'r canlyniad fu i Ardudful feichiogi o Gwilym Gam! Pan ddeallodd ei thad a'i brawd hyny, troisant hi allan o'r tŷ ganol nos gauaf chwerw, a chan na dderbyniai neb hi i dŷ, rhag digio'r teulu, aeth Ardudful, druan! yn wysg ei phen, heb waeth ganddi i ba le. Pan glybu Gwilym yr anffawd, aeth ar ol ei anwylyd yn y fan; ac wedi ei goddiweddyd arweiniodd hi tua thŷ ei gâr, Ifor Hael o Wern y Clepa; ond cyn cyrhaedd yno, ganwyd mab iddynt yn ei seithmis, ar y ffordd yn nyfnder y nos, mewn tywydd garw iawn o wynt a chesair. Aethant rhagdlynt drannoeth i Landaf, lle y priodwyd hwynt; ond bu farw Ardudful, druan! y diwrnod

¹ Iolo MSS., t. 92; Y Greal, t. 156.

hwnw ; a bedyddiwyd y mab bychan ar ei harch, gan ei alw yn DAFYDD AB GWILYM. Claddwyd y fam yn Llandaf ; ac wele ddau Englyn a gânt ei gŵr wylofus uwch ben ei bedd :—

Cof Ardudful deg caf adfer wawrfwyn
Ar fynydd olifer
Angyles yng ngoleuder
Uchel y Saint uwch law sêr.

Dygn immi 'r byd a bod hebddi meinir
A'm enaid yn edwi ;
Aele alaeth am dani,
Wylaf ael rhych lle rhoed hi.¹

Dywedir yn gyffredin, gan y Bywgraffwyr, i hyn oll ddygwydd o gylch y fl. 1340 ;² ond buasai dull y ddau Englyn uchod, pe na buasai genym ddim arall ar gael, yn ddigon i greu tyb cryf fod y dygwyddiad a gofnodant yn llawer hynach nag 1340 ; gan fod yn amlwg iddynt gael eu cyfansoddi cyn i gynghanedd gaeth ddyfod yn ammod anheggor prydyddiaeth Gymreig ; ond heb law hyny, gwelwyd eisoes fod Dafydd ab Gwilym yn Fardd Cadeiriog mor foreu ag 1328, yn Eisteddfod Gwern y Clepa ; ei fod wedi ennill Cadair, neu “Gae Bedw” drachefn yn 1329, yn Eisteddfod y Ddôl Goch ; ac ymddengys yn bur eglur ei fod yn *feirniad* yn Eisteddfod Maelor, yr hon a gynnaliwyd, fel y gwelwyd, “yn nawdd Iarll Mortimer,” yr hwn a ddihenyddiwyd, fel y crybwyllwyd o'r blaen, ar y 29fed o Dachwedd, 1330 ; yr hyn sydd brawf cadarn fod D. ab Gwilym y pryd hwnw wedi cyrhaedd addfedrwydd oedran. Ond nid ydym dan orfod i ddyfalu pa bryd y ganwyd y prydydd awenyddol hwn, fel yr ydys gyda golwg ar y rhan fwyaf o'i frodyr barddonol yn yr “oesau tywyll ;” canys dywed ei gydoeswr, a'i faleisus wrthynebydd, Rhys Meigen, pan oedd Dafydd yn “gyff cler” mewn chwarcufa brydyddol yn neuadd Ieuan ap Lleision, ym Maglan, fel y canlyn :—

Mil trichant meddant i mi y ganed
Yn geneu dan lwyni
Gŵr o'th han garw yw'th enwi
Mab Gwilym Gam cytgam ci.³

¹ Iolo MSS., t. 98. ² Barddon. D. ab Gwilym, Sketch, p. III. ; Cambro Brit., vol. III., p. 142 ; Parry's Cambrian Plut., p. 211 ; Williams's Em. Welshm., p. 114. ³ Iolo MSS., t. 92

Y mae'r Englyn yna, cyn belled ag y cyrhaedd awdurdod yr hen gofnodau Cymreig hyn, yn dynodi blwyddyn genedig- digaeath D. ab Gwilym tu hwnt i ammheuaeth.

Wedi claddu Ardudful, aeth Gwilym Gam a'i fab bychan Dafydd, at Ifor Hael, i Wern y Clepa,¹ "lle y bu yn fawr ei barch a'i rysgwydd dros lawer blwyddyn." Pan fu farw Dafydd ap Ieuan, tad Gwilym Gam, aeth Gwilym i'w dref-tadaeth yn Llanharan, i'r tŷ a elwid "Bro Gynin;" ac yno y bu byw ar ei dir ei hun, a'i fab Dafydd gydag ef. Priododd Gwilym Gam ail wraig ymhen rhyw yspaid ar ol ymsefydlu ym Mro Gynin; ond ni allai Dafydd oddef ei Lysfam; ac ym-ddengys mai lled ffwdanllyd oedd ei dad hefyd.² Fel yr oedd Dafydd yn cynnyddu mewn oedran, yr oedd y cyfryw bethau yn myned yn fwyfwy annioddefol ganddo; a phan oedd efe tua 15 oed, cefnodd ar ei rieni, ac aeth y waith hon ar ei gyfrif-oldeb ei hun, i Wern y Clepa, at ei gâr cymmwynasgar, Ifor Hael, lle y bu mewn parch a chariad mawr. Ymhen rhyw ennyd ar ol hyn, aeth Llywelyn ab Gwilym Fychan, ewythr Dafydd o frawd ei fam, fel y gwelwyd, i Wern y Clepa at ei gâr Ifor Hael; ac wedi gweled awen odidog yn ei nai Dafydd, cymmerth ef i'w ganlyn adref i'r Cryngae a'r Ddôl Goch; ac o hyny allan, aeth Dafydd yn brydydd mawr iawn ei glod.³ Yr un gŵr celfydd a haelionus, sef Llywelyn ab Gwilym, fel y gwelwyd, oedd athraw y "Tri Brodyr Marchwial" hefyd.

¹ Gan fod Ifor Hael y fath noddwr cymmwynasgar i lenorion a llenyddiaeth Cymreig, tybir y bydd ychydig o'i hanes yma yn gymmeradwy.—Mab oedd Ifor i Llywelyn ap Ifor ap Ilywelyn ap Ifor ap Llywelyn ab Bledri (yr hwn a aeth o Delyfed i Forganwg yn amser Iestyn ab Gwrgant) ap Cedifor ab Gwyn ap Collwyn, ap Elfed ab Gwefusffwch ap Archenad ap Lliffi ap Rhi ap Cynan. Mab hynaf Llywelyn ap Ifor oedd Morgan, Arglwydd Tredegar, ym mhilwyf Maesaled; a'r ail fab oedd Ifor Hael, Arglwydd Maesaled, y Wenallt, a Gwern y Clepa. Eu mam oedd Angharad, merch Syr Morgan ab Meredithd ab Gruffydd ab Meredithd Gethin ap Rhys ap Tewdwr, tywysog y Deheubarth. Bu farw Ifor Hael heb etifeddiion; ac aeth ei dref-tadaeth i'w nai, Llywelyn ab Morgan; a'i hillogaeth ef yw teulu parhaus Morganiaid Tredegar.

Y mae Ty Ifor Hael ym Maesleg, wedi difannu er ys llawer oes; ac yr oedd Gwern y Clepa yn bentwr o adfeilion yn amser Ieuan Brydydd Hir Ieuaif, yr hwn a gant i'r lle fel y canlyn:—

Y llwybrau gynt lle bu'r gan

Yw lleoedd y ddylluan.

Yr oedd y Wenallt tua 80 mlynedd yn ol, a dichon ei bod eto, yn hen adellad cang a hardd; ac ymddangosai'r pryd hwnw yn llawn cyn hyned ag oes Ifor Hael.—Barddon. D. ab Gwilym, *Sketch*, p. vi., note †.

² *Ibid.*, p. vii., note †.

³ Iolo MSS. t. 93; Barddon. D. ab Gwil., *Sketch*, p. vii.

Ymddengys i Dafydd ab Gwilym dreulio y rhan fwyaf o'i amser bellach, hyd lofruddiad ei ewythr a'i athraw, yn y Cryngae a'r Ddôl Goch, sef hyd y ddwy flaenaf o'r "Tair Eisteddfod Dadeni." Yn y gyntaf o'r Eisteddfodau hyny, a gynnalwyd yn y fl. 1328, fel y gwelwyd, "y doded braint Cadair ar fesur Cywydd, lle nad oedd felly o'r blaen; a phan ganwyd am Gadair, Dafydd ab Gwilym a ynnillws o nerth awen a chanu, a Chymraeg cynnwynol; ac o hynn i maes, braint Cadair i fesur Cywydd deuaire, a gwisgo Dafydd ab Gwilym âg addurn Cadair Morganwg, a rhoed enw Dafydd Morganwg [iddo], ac yng Ngwynedd ei alw Bardd Ifor Hael; ac o hyny hyd yn awr, serchocaf a goreu o'r holl fesurau y bernir Cywydd."

Dyma'r tro cyntaf, hyd y cofir, y rhoed *Enw Barddonol*, trwy awdurdod Eisteddfod. Y mae'n eglur hefyd mai "*mesur cywydd*," ac nid *cynglanedd*, a awdurdodwyd yn Eisteddfod Gwern y Clepa, yn y fl. 1328; canys nid ymddengys i *Gynglanedd gaeth* gael ei hawdurdodi mewn Eisteddfod hyd y fl. 1451, yn Eisteddfod Caerfyrddin, fel y ceir gweled eto. Gellir casglu hyn oddi wrth *ganiadau* D. ab Gwilym hefyd, y rhai sy'n frith o linellau anghywir, yn ol Dosparth Dafydd ap Edmunt, fel y trosglwyddwyd honno i ni gan Simwnt Fychan, ac eraill. Ceir y cyfryw "feiau," fynychaf, yn llinellau blaenaf penillion Cywyddau D. ab Gwilym. Wele yn canlyn ychydig esamplau o blith lluaus y gellid eu nodi:—

Gwnaethum dŷ i garu Gwen,
 Diynfydwaith dan fedwen;
 A'i doi â dail mân wiail mwyn,
 Mal teyls ym mol tewlwyn
 Ac yn y tŷ mwyngu maith,
 Ddau denant ddiwyd unwaith.

Dydd da yt, riain serchog!
 Croesaw brydydd gwŷdd y gog.
 Wyt iach a llawen Wenddyn?
 Wyf, a hoff genyf fi hyn.
 Teg i'th welaf fy nghariad!
 Llauer oferddyn a'i dywad!

Teg yw dy bryd, wyt weddi!
 Teg heb un diolch i ti!
 Gwyn yw dy wyneb, fun—gan!
 Gwyn ar fy nghost fy hunan.
 A meinion yw dy aeliau,
 Yn y modd y maent mi piau.¹

¹ *Barddon. D. ab Gwil., t. 358.*

Ni fynegir beth oedd testyn Cywydd buddugol D. ab Gwilym yn Eisteddfod Gwern y Clepa, yn y fl. 1328; ond am ei gerdd fuddugol yn Eisteddfod y Ddôl Goch, yn y fl. 1329, dywedir fel hyn:—"Wedi hyny dodes Llywelyn ab Gwilym ganu er Cadair Ceredigion y goreu am *Rieingerdd* a Barnu Dafydd ap Gwilym yn oreu, a'i wisgo a'r Cae Bedw ys ef addurn Rhieingerdd." Y mae'n bur debyg mai un o'i Gywyddau i Dyddgu neu Morfydd oedd y Rhieingerdd fuddugol honno.

Gellir casglu ar seiliau pur gedyrn, fel y crybwyllwyd eisoes, ddarfod i Llywelyn ab Gwilym gael ei lofruddio gan "Williaid o Saeson Penfro,"¹ cyn Eisteddfod Maelor yn y fl. 1330; ac mai Dafydd ab Gwilym a ddewiswyd yn feirniad yn ei le; canys ni fynegir i Dafydd ymgystadlu yn yr Eisteddfod honno; ond dywedir iddo "ganu yn garedig i Fadoc" [Benfras], yr ieuaif o'r "Tri Brodyr," am ei "*Rieingerdd*," yr hwn "a gafas Gadair a Chae Bedw," yn wobr am dani.

Pan lofruddiwyd Llywelyn ab Gwilym, aeth D. ab Gwilym yn ei ol i Faesaleg, at Ifor Hael, a Nest, ei wraig, ym mlodau ei ddyddiau, ac efe yn tynu at 31 oed; a gwnaeth ei noddwr Hael ef, nid yn unig yn "Fardd Teulu," ond hefyd yn "faer ei dda;" sef, goruchwyliwr ei etifeddiaeth, ac yn gydymaith wrth ei fwrrd, ac yn ei holl ddifyrwrch a'i adloniadau, fel y tystia'r bardd ei hun, yn y dull canlynol:—

Myfi yw (ffraethlyw ffrwythlawn)
Maer dy dda, mawr yw dy ddawn² . . .
Mawr anrhydedd a'm deddyw,
Mi a gaf o byddaf byw;
Hel â chŵn, nid haelach iôr,
Ac yfed gydag Ifor.
Saethu ei geirw saethynt,
A bwrw ei walch i'r wybr wynt;
A cherddau cildannau'n deg,
A Solas ym Maesaleg:
Chwarau ffrisial a thawlwrdd,
Yr un gyflwr a'r gŵr gwrdd.³

Dywed "William Owen" (y Dr. Pughe), ar awdurdod Iolo Morganwg, yr hwn a elwid yn y fl. 1789 yn Iorwerth Morganwg,⁴ bod Ifor Hael wedi gwneud "Maer ei dda," yn athraw

¹ Iolo MSS., t. 93. ² Barddon. D. ab Gwil., t. 1. ³ Yr un, t. 1. ⁴ Yr un, t. 4.

hefyd i'w ferch, a bod y ddeuddyn ieuangc, mewn canlyniad, wedi syrthio mewn cariad at eu gilydd ; yr hyn, pan wybu Ifor Hael, a barodd iddo anfon ei ferch yn ddioced i Leiandy yn Ynys Môn ; ond anwesodd ei fardd a'i oruchwyliwr yn llawn mor groesawgar ag erioed.

Fe allai i'r tybiau yna yng nghylch carwriaeth D. ab Gwilym â merch Ifor Hael, a'i hanfoniad hithau i fynachlog gan ei thad, gael ei seilio ar Gywydd y bardd i "Y Ferch o'r Fynachlog Faen,"¹ yr hon y dywedir ym mhenawd y Cywydd mai "Merch Ifor Hael" ydoedd ; ond nid awgrymir hyny o gwbl yn y Cywydd ei hun. Dywed y bardd yn y Cywydd fod "pobl a gwerin" yn haeru ei fod ef yn caru'r ferch honno, yr hon nid enwir ganddo o gwbl ; a gwad yr haerriad ar ei lw, fel hyn :—

Mi a roddaf am rwyddair,
Mawr llw grym â'm llaw ar grair,
Na'th *gefaïs* unwaith gwiwddyn,
Ac nas *geisiais*, lednais lun.
Hyn i gyd, henwn y gair,
Mi dyngaf myn y Dengair !
Myn Arglwydd yr arglwyddi !
Cul yw'r ais na'm coelir i !

Y mae gan y bardd Gywydd arall hefyd, pennawd yr hwn ydyw, "I Wallt Merch Ifor Hael ;" ond nid yngan y Cywydd air, o'i ddechreu i'w ddiwedd, merch i bwy ydoedd ; ac ni chrybwyllir ei henw hi na'i thad o gwbl yn y Cywydd. Gellir casglu 'n deg mai Cywydd i wallt rhyw ferch benfelyn ydyw, o ddychymmyg y bardd ; ac ofnir nad yw penawd, neu gynnwysiad, llawer o ganiadau D. ab Gwilym, sydd yn ei Farddoniaeth argraffedig, ond diweddar, mewn cymhariaeth. Dechreu 'r Cywydd crybwylledig fel hyn :—

Y fun a'r gwallt o fanaur,
A roe lawnt ar wiail aur :
Un radd a llwyn o ruddaur,
Lliw Non dan y llwyn aur.
Gwisg angel o wallt melyn,
Yn wrydd aur am war y ddyn.
Fel goddaith yn ymdaith nos,
Yw'r llwyn uwch pryd y llinos ;
Uwch feinir glodwir a gaid,
Hyd dwyraff o het euraid.

¹ Barddon. D. ab Cwil., Sketch, p. x., note *

Iarlls dan gnwd o eurlin,
 Banadl aur o ben hyd lin :
 Lliw 'r mellt goruwch y gelltydd,
 Coed aur gwiw cyhyd a'r gwýdd.¹

Nid oes grybwylliad chwaith o gwbl am ferch Ifor Hael, nac awgrym am ei henw, yn ei gywydd "I Fynaches na welsai ond ei hwyneb gan ei chrefyddwisg;" nac yn ei gywydd "I'r Lleian;" nac yn ei gywydd "I yru Llatai i hudo Mynaches i'r Llwyn;"² nac mewn unrhyw gân arall o'i waith. Ar fyr, ni wel yr ysgrifenydd gymmaint ag un prawf cadarn y bu na mab na merch erioed i Ifor Hael a Nest. Pe buasai ganddynt fab neu ferch, y mae braidd yn sicr y buasai'r bardd yn cyfeirio ato ef, neu hi, yn ddiawmys, wrth grybwyll ei anwyliaid yn ei gywydd diweddaf, yn yr hwn y gofyn yn hiraethlawn,—

Mae Ifor a'm cynghorawdd?
 Mae Nest oedd unwaith i'm nawdd?
 Mae dan wýdd Morfydd fy myd,
 Gorwedd ynt oll mewn gweryd!³

Ar ol darllen barddoniaeth D. ab Gwilym mor fanwl ag y gallwn, tueddir fi i gredu'n gryf mai creaduriaid crebwyll y bardd ydyw y rhan fwyaf o lawer o'i "gariadau;" rhai wedi eu dyfeisio ganddo i fod yn destynau ei Rieingerddi prydfferth. Tybia rhai mai merch Ifor Hael oedd DYDDGU; tra y dyfala eraill mai MORFYDD oedd merch boneddwr "Hael" y bardd; ond y mae ei ganiadau yn profi i'r gwrthwyneb. "Dyddgu â'r gwallt gloywddu glân," medd y bardd, oedd ferch Ieuan ab Gruffydd ap Cuhelyn,⁴ o Nant y Seri,⁵ o diroedd Mael,⁶ yr hon a hudwyd ganddo ef i

Garu cyn oedran gwra,
 Hocrell fwyn ddiell fain dda.⁷

Canodd y bardd saith⁸ o gywyddau iddi; neu 'n hytrach, fel y cred yr ysgrifenydd, *un Riangerdd Fawr yn Saith Ran*, dan rith ccisio ei denu i gydsynio â'i gais ef; ond er mai "Hocrell" dan oedran ydoedd, llwyr fethodd yn ei amcan; am hynny cymmer arno gwyno 'n wylofus wrthi, fel hyn:—

¹ Barddon. D. ab Gwil., t. 13. ² Yr un, t. 14. ³ Yr un, t. 520. ⁴ Yr un, t. 25.
⁵ Yr un, t. 31. ⁶ Yr un, t. 34. Yr un lle a Maclienydd yn Sir Faesyfed. ⁷ Yr un, t. 34.
⁸ Yr un, t. 25—38.

Dy fardd mad yn anad neb,
Digröenes deigr ei wyneb.¹

Madog Lawgam, o Fôn, ac nid Ifor Hael, medd y bardd, oedd tad Morfydd ;² yr hon a welsai efe gyntaf yn Rhosyr,³ ym Môn ; a chymmer arno ddarfod i'r olwg gyntaf ar " y dyn aelddu deg " ei syfrdanu â'r fath gariad ati, fel y dechreuodd ganu yn y fan er ceisio ei denu i ddyfod yn gywely iddo ; ond hynod o anhydyn a fu hi dros hir amser. Pa wedd bynnag, ar ol bod yn " treulio ac yn ymdreulio " canu iddi dros saith o flwyddi hirion, llwyddo a wnaeth yn y diwedd, yr hyn a draetha'r bardd dan orfoleddu, fel hyn :—

Soniais feinwar am garu,
Saith mlynedd oferedd fu ;
Huawdl o serch ar ferch fûm,
Hyd neithiwr oed a wnaethum :
Cefais dâl o'm gofalon,
Yn ol twyll gan eiliw ton ;
Cael cyrhaedd saith unwedd serch,
Gyda hon gwedi ei hanerch ;
Cael ymddiddan ychwaneg,
Cusanu dyn aelddu deg ;
A rhoi mraich, baich dibechod,
Dan ben Lloer wen, fal llw'r ôd.⁴

Er mwyn argyhoeddi'r bardd ei bod yn rhoddi ei chred iddo o ddifrif weithian, tyngodd Morfydd lw o ffyddlondeb iddo, fel y prawf y llinellau canlynol :—

Cred o Luned oleuni,
A roes da ei moes i mi.
Llw i Ddlw â'i llaw ddehau,
Llyna od gwn, llw nid gau.
Llawndwf yn llaw Indeg,
Llw da ar hyd ei llaw deg.
Llyfr cariad, myfi a'i cadwaf,
Yn ben rhaith erbyn yr haf ;
Yn yr oerddwr yr urddwyd,
Y llw a roes Morfydd Llwyd.⁵

Ond er i'r bardd lwyr ennill calon ei " Wen Lawenaf," eto ni fynnai ei theulu, ar un cyfrif, ei rhoddi iddo, am eu bod wedi penderfynu ei gorfodi i roddi ei llaw, os na roddai ei chalon, i hen gybydd cyfoethog, a'i enw *Cynfrig Cynin*, yr hwn a alwai'r

¹ Barddon. D. ab Gwil. t. 35. ² Yr un, t. 144. ³ Rhos Fair, *Niuburch*.

⁴ Barddon. D. ab Gwil. t. 199. ⁵ Yr un, t. 66-7.—Od ydoedd Morfydd wir hanfod, yr hyn sydd braidd yn ammhens, fe allai mai Madog Llwyd oedd enw priod ei thad, yr hwn a ellw'r bardd yn Madog Lawgam. Beth bynnag am hyny, gellw'r bardd hi yn " Morfydd Llwyd " fwy nag unwaith. Yr oedd y gair *llwyd* hefyd gynt yn arwyddo *bendijaid*, neu *gyssegreged*.

bardd, o ddirmyg arno, "Y Bwa Bach." Pan welodd y ddeuddyn ieuangc serchog na oddefid iddynt briodi yn rheolaidd, penderfynasant fynnu ymuno rywsut, er gwaethaf y teulu a'r Bwa Bach. Cafodd Dafydd gan ei gyfaill ieuangc, barddonol, Madog Benfras, o Farchwiail, weinyddu iddynt fel offeiriad, mewn rhyw llwyn neillduedig,¹ yr hyn a edrydd y bardd fel y canlyn :—

E'm rhoddes lw tes liw teg ;
Ni chawn gan unferch chwaneg !
Llw a chred myn y bedydd !
I mi dan gangeni gwýdd ;
A rhwymaw llaw yn y llwyn.
Myn Mair ! a bu'n offeiriad,
Madog Benfras, mwyndras mad.²

Pan glybu'r teulu am y seremoni yn y llwyn, olrheinasant y cariadau allan yn bur fuan : cymmerasant Morfydd oddi wrth y bardd trwy drais ; a gorfodasant hi briodi y Bwa Bach yn ddiymaros, heb yn wybod i'r bardd. Fel yr oedd efe yn y y llwyn un boreu Mai, yn blygeiniol iawn, yn myfyrio yn ddwys a hiraethus am ei "Forfydd Fain," dyna gôg yn disgyn yn ddisyfyd ar frigyn ger ei fron ; a dechreu llefaru wrtho mor groyw ag Asen Balaam gynt, gan ddywedyd ar fesur cywydd mor gywrain a'r bardd ei hun,—

Y prydydd, pa ryw adwyth
Sydd arnat ti 'leni 'n lwyth?
Ni thâl porthi gofalon
Bun iach, ym mhellach am hon.
Gwra wnaeth Gwen gymmen gall,
Gwiriwyd hi 'n wraig i arall :
Ni chai'n gydweidd, clyw heddyw !
Fardd cun, y fun yn dy fyw.

¹ Dywed y Dr. Pughe yn ei *sketch* o hanes bywyd y bardd sydd o flaen ei *Farddoniaeth* (p. xvi.) nad oedd y dull yma o briodi yn beth anghyffredin yn y dyddiau hynny; ond nid yr awdur yn cyfeirio at un enghraifft arall o'r fath briodas, nac yn dwyn unrhyw awdurdod dros ei fyaegiad. Od oedd priodf mewn llwyni heb wasanaeth swyddog cyfreithlawn, wedi dyfod "yn beth lled gyffredin" ym mhilith y Cymry yn amser Dafydd ab Gwilym, yr hyn nis gall yr ysgrifenydd ei gredu, rhaid eu bod wedi dirywio'n druenus er amser Hywel Dda; canys dengys ei gyfreithiau ef fod y Cymry yn dra gofalus y pryd hwnw ynghylch eu priodasau; ac, yn wir, yr oedd yr *hen Frytaniaid* felly hefyd, fel y dengys eu hen hanes yn eglur.

Credu yr wyf fi mai priodas *farddonol*, ddychymyngol, oedd priodas D. ab Gwilym a Morfydd yn y llwyn. O chredir bod yr hyn oll a ddywed y bardd yn ei rievingerddi yn wirionedd llythyrenol, rhaid credu bod pysgod y mor a'r afonydd, adar yr awyr, ac yn oed y don, y gwynt, a chysgod y bardd ei hun, yn starad ac yn negesuca yn ei amser ef. Ie, ceir bod y Ceiliog Bronfraith

Yn darllain i'r plwyf, nid rhwyf rhus,
Efengyl yn ddlyngys.

Dylid cofio wrth ddarllein caniadau dychymyngfawr Dafydd ab Gwilym, a phob gwir brydydd arall, mai

"Breuddwydion y Beirdd ydynt."

² Barddon. D. ab Gwil. t. 136-7.

Gwylltiodd Dafydd wrth y gôg, druan ! a dywedodd wrthi mewn natur ddrwg,—

Taw ! na'm gwatwor am forwyn,
Y llais ni chredaf i'm llwyn.

Yna dywedodd wrth y gôg fel y tyngodd Morfydd lw o ffyddlondeb iddo ; a'r modd y priodwyd ef a hithau yn y llwyn gan Madog Benfras, fel y mynegwyd eisoes. Yn ateb i hyn, dywed y gôg yn bwyllog wrtho,—

Ynfyd y'th glywaf Dafydd,
Yn awr yn siarad dan wŷdd :
Gwrhaodd y ferch a serchyd,
Annhirion fu hon i'w hyd.
Ni chai Forfydd werydd wen,
Y fun eglur fynyglwen :
Y Bwa Bach biaau bun.

Am hynny try Dafydd yn ei ffwdan a'i chwerw siomedigaeth, i felldithio y gôg, druan ! am ddwyn newydd mor ddrwg iddo, yn lle ei chanmol, fel y dylasai, am ei ffyddlondeb yn adrodd iddo y gwirionedd ; a dywed wrthi,—

Am a genaist i'm gwanu,
Yma'n y gwŷdd am Wen gu ;
Deled it ddyddiau gauaf,
A throi 'r haul, a threio 'r haf ;
A rhew yn dew ar y dail,
A gwywaw coed a gwiall,
A'th ladd gan oerfel i'th llwyn,
Edn ynfyd a'th dôn anfwyn.¹

Yna try'r bardd at Morfydd, a chwyna'n dost, yn chwerwder ei yspryd, o herwydd iddi dori ei llw a'i phriodas âg ef yn y llwyn ; a rhoddi ei llaw, wedi'r cyfan, i'r Bwa Bach ! Ond cofia'n ebrwydd mai ei gorfodi a gafodd ; maddeu'r cwbl iddi ; a dechreu gynllunio â'i holl egni pa fodd i'w dwyn oddi ar y Bwa Bach² Ym mlaenaf oll, ar ol hyn, gyr y cyfflog yn llatai at Morfydd, yr hwn, bid sicr, a edrydd ei neges wrthi â chymmaint o hyawdledd ag a roddwyd iddo gan natur.³ Wedi hyny, ymliw y bardd ei hun â'i gariad, er mwyn ceisio ei denu oddi wrth y Bwa Bach.⁴ Maddeu eto iddi ; ac mewn hiracth dwys am dani, gyr yr Eos yn llatai ati ; dyry wers yn ei phig ; a phar iddi ei hadrodd wrth Morfydd mor ddengar ag

¹ Barddon. D. ab Gwil. t. 136-7.

² Yr u , t. 138, 142.

³ Yr un, t. 140.

⁴ Yr un, t. 144.

y gallai; yr hon, wrth reswm, a gyflawna ei neges yn bur ddefosiynol a ffyddlawn.¹

Yn nesaf, honna'r bardd y difwyna Eiddig, sef y Bwa Bach, wedd Morfydd; a pherswadia hi yn egnïol i gefnu arno cyn iddo ei llwyr hacru.² Aiff y bardd rhagddo wedyn i'r llwyn bedw, lle y cyferfydd â'r Eos; a dywed wrthi yn ddifrif a phryderus, fel hyn:—

Yr Eos fain adainllwyd,
Llatai ddechreu Mai im' wyd;
Bydd nerth ar ael corberthi,
Gwna ddydd rhwng Morfydd a mi.³

Wedi hyny ceir y bardd yn ymbil ar Ddwynwen Santes⁴ i fod yn llatai drosto at Morfydd. Ymddengys i'r Santes, er mai "lleian wryf" ydoedd tra yn y byd hwn, dosturio wrth y bardd serchog, a'i gynnorthwyo i ddwyn Morfydd oddi ar y Bwa Bach! Yna ffodd y ddau ar ffrwst i "Goed Ifor," lle y ceir y bardd yn canu'n ddoniol yng nghymdeithas ei anwylyd, gan ddywedyd,—

Awn i'r llwyni arllonaidd,
A theced tawr y llawr llaidd !
Yno dan bren ni'n cenydd
Hen Eiddig, lo dig liw dydd.
Pell f' anwyl, pwylla f' enaid !
Yw'th ŵr, hylla gŵr a gaid !
Yn wr balch, yn oer ei big,
A'i grwydr ym mro Garedeg,
Ninnau dan rin ym min môr,
Hoyw defyll yn Nghoed Ifor.
Gwell yma yw'n noddfa ni,
Ar Daf, na goror Deifi.
Dilys ni ŵyr y dulwyd,
O Wen ! fan o fyd yr wyd.
Deuwell yw'n llys blodeuog,
Heno'n y coed, a chân còg ;
Na gwaedwrf a hen gadach,
Yn oer drigfa'r Bwa Bach !
Hawdd amor beunydd yma,
A gawn, gyda phob dawn da ;
Llwyn is twyn yn llawn 'stôr,
A lles hefyd Llys Ifor.
Ifor yw trysor traserch,
A rhyswr a sawdwr serch ;
A gelyn blin heb gyfrinach,
Yw'r gwrda i'r Bwa Bach.⁵

¹ Barddon. D. ab Gwll., t. 146.

² Yr un, t. 154.

³ Yr un lle.

⁴ Dywedir mai merch Brychan Brycheiniog oedd y Santes yma, yr hon oedd yn bucheddu yn y 5med ganrif.

⁵ Barddon. D. ab Gwll., t. 157, &c.

Yn nesaf, ceir hanes fel y dygodd y bardd Morfydd oddi ar y Bwa Bach ;¹ ac mewn pump o gywyddau olynol, adroddir y modd yr oedd y bardd a hithau yn mwynhau eu gilydd, wrth rodio o'r naill ddeildy i'r llall yng Nghoed Ifor.² Ond, fel y dywed y ddihareb, "Ni cheir y melys heb y chwercw ;" tra'r oedd y ddeuddyn yn ysgafala yng nghanol eu paradwys ddaearol, daeth ceisbyliaid oddi wrth y Bwa Bach ar draws y ddau yn annisgwyladwy, er eu dychryn anacle. Cyrchwyd Morfydd adref at ei gŵr "eiddig ;" rhoddwyd cyfraith ar y bardd am ei lladrata ; a chan nad oedd ganddo ddim i ddu'r ddirwy, bwriwyd ef i garchar ; ac ymddengys ei fod mewn perygl o gael ei "grogï" o ddiffyg modd i dalu ! Yn chwercwder ei yspryd ar ol dyfod i'r ddalfa, y mae'n dannod i Forfydd am gydsynio â'i gais, gan ddywedyd,—

Peraist annog fy nghrogï ;
Pe'm cerit ni fynnit fi !

Ond cofia'n fuan fod mwy o fai arno ef nag arni hi ; try i erfyn arni ymdrechu talu'r ddyled ; ac awgryma mai eithaf peth fyddai dihenyddu y Bwa Bach !—

Dod y feinir im ddirwy
Paid â'r cwyn dŷn mwyn mwy !
Chwareu fu am ar gam gae,
Chwercw fu diwedd y chwarae !
O buost rian fain ir,
Fodlon imi dan fedlwyn-ir ;
Na phair dŷn deg, waneg wedd,
Grogï dilyn y gwragedd !
Dros beri ddiweddi ddi,
Dihenyddu dwyen eiddig.³

Ond er iddo dduchanu'r Bwa Bach, a chwyno'n dost wrth Morfydd o blegid y ddirwy,⁴ ni ddaeth dim ymwared iddo nes i wŷr Morganwg, fel gwladgarwyr a mawrygwyr y bardd, ddyfod ym mlaen, a'i "ryddhau oddi tan bwys cyfraith y Bwa Bach." Am hyny, erfyn y bardd am i'r haul dywynu lles a ffyniant ar Forganwg, am haelioni a gwladgarwch y trigolion.⁵

Cyn gynted ag y cafodd y bardd ei draed yn rhyddion dechreuodd yr un gorchwyl peryglus drachefn o garu Morfydd ; a chywyddau hedegog ac awenyddol ar ei anturiaethau, e

¹ Barddon. D. ab Gwll., t. 158.

² Yr un, t. 160—170.

³ Yr un, t. 172.

⁴ Yr un, t. 173—7.

⁵ Yr un, t. 130.

lwyddiant, a'i anffodion yn y gorchwyl nwyfus hwnw ydyw gweddill y Rhiangerdd odidog, ddychymmygfawr, hirfaith hon, a elwir ganddo "MORFYDD."¹ Dywed y bardd yn un o'i gywyddau olaf, os nad yr olaf oll ar y testyn yma, ddarford iddo ganu

Saith gywydd i Forfydd fain,
Seth hoywgorff a Saith ugain.²

Eithr nid oes ond pum ugain ac wyth o honynt yng "Nghrynoad" Owen Jones (*Myfyr*), a William Owen (*y Dr. Pughe*): o ganlyniad, rhaid bod 39 o gywyddau o'r Rhiangerdd hon heb eu cyhoeddi. Gwelir bod amryw o gywyddau y bardd mewn gwahanol ysgriflyfrau yng nghasgliadau Gloddaith, Hengwrt, Llansilin, a Pale, heb law y rhai sydd yng nghasgliad Myfyr; ond a ydyw y 39 a nodwyd ynddynt, nid oes genyf gyfleusdra i wybod. Y mae'r cywyddau, neu yr adganau sydd ar gael, sef y rhai sydd wedi eu cyhoeddi ym "Marddoniaeth Dafydd ab Gwilym," yn cynnwys o gylch 5,155 o linellau; ac y mae'r cywyddau yn amrywio o ran nifer y llinellau, o 12 i 98. Nifer y llinellau ym mhob cywydd, ar gyfartaledd, ydyw o gylch 47 llinell. Od oedd y 39 cywydd sydd heb eu cyhoeddi o'r un hyd, ar gyfartaledd, a'r rhai cyhoeddedig, y mae nifer y llinellau anghoeddedig o gylch 1833. Os caniateir bod yr amcangyfrif yma yn gywir, yr oedd y Rhiangerdd hon, pan orphenodd y bardd hi, tua 6,988 o linellau; y Rhiangerdd hwyaf sy'n adnabyddus mewn unrhyw iaith, hen na diweddar. Ond nid ei hyd yn unig ydyw hynod-rwydd "y gerdd hir-gerdd hon;" eithr y mae amrywiaeth digyffelyb ei golygfeydd; amllder nifeiriol ei gwrthddrychau; a chyfoeth dihyssydd ei dychymmyg, yn ei dyrchafu mor uchel ym mryd yr ysgrifenydd, fel y cred nas gall y meddwl dynol gynnyrchu gwaith mwy awenyddol, ar ddull Rhiangerdd,

¹ Barddon. D. ab Gwll., t. 182-226, 407,-513.—Fe genfydd y darlennydd mai fel un Rhiangerdd fawr, yn wahanol ranau, yr edrych yr ysgrifenydd ar yr holl gywyddau i Morfydd, megis yr edrychod ar yr holl gywyddau i Dyddgu, fel Rhiangerdd arall; ac nis gall osgoi y syniad mai gwronesau dychymmygol ydyw'r naill a'r llall, sef Morfydd a Dyddgu. Dichon fod y syniad yn lled newydd; ond dyna yr argraff a gafodd darllen y cywyddau ar feddwl yr ysgrifenydd; a chredir y byddai trefniad y cywyddau hyn, o ran amser a syniadau, yn ddwy Rhiangerdd gysson, yn destyn gwych mewn Eisteddfod Genedlaethol.

² Barddon. D. ab Gwll., t. 234.

yn bendifaddeu, yn y mesurau caethion. Gellir cymhwyso ymadroddion Beirniaid Eisteddfod Dinbych yn y fl. 1860, am un o'r cyfansoddiadau oedd yno gyda phriodoldeb at y Rhiaingerdd yma ; sef,—

“ Mae y gerdd hon yn llawn o greadigaethau y crebwyll mwyaf beiddgar, gwyllt, a gorphwyllog ; a'r darfelydd mwyaf rhamantus a dieithr. Y mae darnau o'r gân yn deilwng o'u cymharu â chyfansoddiadau *Milton* a *Dante*. Yn ol eangder ei hamgyffredion, cynnwys lawer o wreiddioldeb meddwl a thlynsi barddonol.”

Y mae Rhiaingerddi Dafydd ab Gwilym wedi peri bod llawer o wahanol farnau ynghylch ei foesau. Tybia rhai ei fod yn ddynd anllad a maswedddgar.¹ Y mae'n wir fod ynddynt lawer o ymadroddion sy'n ymddangos i ni, yn yr oes hon, yn myned braidd dros derfyn gweddusder ; ond dylid cofio yr oes yr oedd efe yn byw ynddi, a natur ei destynau. Os cymharir Rhiaingerddi D. ab Gwilym â “ *Poems and Sonnets* ” Shakespeare, oedd yn byw dros ddwy ganrif a haner yn ddiweddarach nag ef, gwelir bod gwaith y blaenaf yn lledneisrwydd ei hun mewn cymhariaeth i waith yr olaf. Yn wir, y mae Rhiaingerddi D. ab Gwilym yn llawer glanach na rhai William Wynn, Lewys Morys, Rhys Jones, y Blaenau, ac amryw feirdd eraill, lled ddiweddar mewn cymhariaeth âg ef. Y gwir yw bod yn bur anhawdd barnu ansawdd gyffredin buchedd dyn wrth ei gyfansoddiadau, yn enwedig pan yn ysgrifenu ar destynau o fath rhai Dafydd ab Gwilym. Gellid casglu oddi wrth “ *Fabinogion* ” Huw Morus,² a Rhieingerddi Dewi Wyn o Eifion,³ eu

¹ Credir mai'r syniad yma a rodd fod i'r “ traddodiad ” diawdurdod, bod y bardd unwaith wedi gwahodd *pedair ar hugain* o'i gariadau i'w gyfarfod dan dderwen adnabyddus iddynt yn y goedwig ger llaw ; a'i fod yntau wedi dringo i dewrigr y goeden cyn yr amser appwyntiedig, er mwyn cael y difyrwch o'u gwleud oll ar unwaith yn siomedig, a'u gyru'n benben. Daeth pob un yno, yn ol y chwedl, erbyn yr amser pennodedig i'r munud, ond yn anhyspys o neges eu gilydd. Wedi aros yno dros ennyd ym fud a synedig, dywedodd un o'r diwedd wrth y nesaf ati, mai wedi dyfod yno i gyfarfod Dafydd ab Gwilym yr oedd hi. Felly ffinau, a minnau, a minnau, meddent oll yn olynol. Y diwedd fu, penderfynyn llabyddio Dafydd i farwolaeth y munud cyntaf yr ymddangosai ar y llanerch. Yna adroddes yntau Englyn aflednais o ben y goeden, yn erchi i'r un a fuasai yno amlaf gydag ef, ei daro gyntaf. Ar hyny dechreuodd y naill holi'r llall, ac ammheu eu gilydd, a thaeru ; ac o'r diwedd dechreuasant rwygo capiau ac wynebau eu gilydd ; a thra'r oeddynt hwy ar y gorchwyl anynad hwnw, cafodd y bardd gyffe i ddiange ymaith yn groenlach :—*Barddon. D. ab Gwyl., Sketch, pp. xiii., xiv.*

Rhaid i mi dywedyd fel y dywedodd ysgrifenydd Seisnig diragfarn, ar hyn ; sef, “ nad wyf yn aredu un mymryn o'r chwedl annynol uchod. Fel credwn hi, llosgwn farddoniaeth D. ab Gwilym yu ddiabetym, fel gwaith dihiryn calon galed, llwfr, ac ysgeler, er hoffused genyf luaws o'i ddelweddau awenyddol.”

² *Eos Ceiriog, llyfr 1., t. 113—176.*

³ *Blodau Arfon, argr. 1869, t. 163—167.*

bod yn rhai hynod o afeithus a diriaid gyda'r "rhyw deg;" ond y gwir yw i'r ddau dreulio oes hir yn ddibriod, yn enwedig y blaenaf; ac nid yw hyspys iddynt fod erioed mewn carwriaeth. Y mae genym dystiolaeth Huw Morus ar y pwngc; yr hwn, pan ofynodd un Cadwaladr Roberts iddo am "Gynghorion i ddewis merch yn wraig," a ddywedodd fel hyn:—

Na ddisgwyl athrawiaeth gynneddfaeth gan un,
Na fedro garwriaeth ddeheuwaith ei hun.
Nid athro dieithriaid am ferched wyf fi,
Datodai fy nghyffes nod hanes i ti.¹

Dywed Tudur Aled, a fucheddai ryw gan mlynedd yn ddiweddarach na D. ab Gwilym, mai'n ddibriod y bu yntau, ab Gwilym, farw:—

Ni bu fyw neb fwy ei awen,
Ond da fardd Glan Teifi Wen;
Mab Gwilym heb gywely,
Heb iddo frawd ni bydd fry.²

Cesglir, gan hyny, mai yn ei Rieingerddi yr oedd y rhan fwyaf, os nad y cwbl, o afaith a direidi D. ab Gwilym, fel ei ddau frawd barddonol o Geiriog ac Eifion. Yn wir, y mae marwnadau ei gydoeswyr i D. ab Gwilym gan Gruffydd Gryg, Madog Benfras, a Iolo Goch,³ ynghyd â'i ganiadau moesol yntau ei ei hun,⁴ yn arwyddo ei fod, nid yn unig yn ŵr dichlynaidd, llednais, a duwiol, yn enwedig tua diwedd ei oes; ond hefyd ei fod yn dra goleu yn nuwinyddiaeth ei amser, sef athrawiaethau Eglwys Rhufain. Ond cyn llwyr orphen â Rhieingerddi D. ab Gwilym, y rhai sy'n cynnwys mwy na hanner ei gyfansoddiadan cyhoeddedig, angenrhaid yw dywedyd y dylid eu hystyried yn ddau ddosparth; sef, y rhai sy'n gwbl ar serch, a'r rhai sydd mewn rhan felly yn unig. Y mae ei gywydd "I Wallt Merch;" ei gywydd i "Fynaches a'i henw Gwenonwy;" ei ddau gywydd "I'r Lleian;" ei gywydd "I yru Llatai i hudo Mynaches i'r llwyn;" ei gywydd i ymddiheuro "Y Ferch o'r Fynachlog Faen;" a'i gywyddau "I Dyddgu," yn dra gwahanol i'r rhai a gyflwynir

¹ Eos Ceiriog, ll. 1., t. 153—9.

² Barddon. D. ab Gwil. Sketch, p. xxii., note *

³ Yr un, Sketch, pp. xxiii.—xl.

⁴ Yr un, t. 476—96, 526—530.

i "Morfydd." Y mae'r bardd, yn y caniadau a enwyd, yn cymmeryd arno fod yn bur ddifrifol, megis pe bai dan ddylanwad gwir serch at y gwrthdychau y cana iddynt; ac nid yw'n dwyn odid unrhyw bwngc i mewn ond cariad; eithr y mae'r cywyddau lluosog a gyflwyna i Morfydd yn llawn digrifwch ac ysmaldod; ac y mae'r bardd yn ymdrin â gwrthdychau naturiol ynddynt yn llawer mynychach nag â serch Morfydd. Yn y cywyddau campus hyn, adar y nefoedd, pysg y môr, prenau'r coedwigoedd, tywyllwch y nos, y niwl, yr haul, y lloer, a'r ser sy'n cael y rhan fwyaf o lawer o nerth ei awen. Y mae'r ystyriaethau hyn, a'u cyffelyb, yn peru i ddyn dybied yn gryf nad yw *Morfydd* ddim amgen nag arwres y gerdd. Y mae'r cywydd cyntaf i Morfydd yn llawn o gellwair, cwbl anghysson â gwir gariad.¹ Wedi i'r bardd ei gweled yn Rhosyr, a syrthio mewn cariad â hi ar yr olwg gyntaf, prynodd "ddau alwynaid lawn o'r gwin goreu a fedrai ei gael;" ac anfonodd ei was yn llatai ati i ddwyn yr anrheg iddi, gan erchi iddo ei gyflwyno yn y modd gostyngeddiddiaf, ac adrodd maint cariad ei feistr ati; yr hyn a wnaeth y llange cystal ag y gallai, gan ddywedyd wrthi,—

Llem iawnrhyw, llyma anrheg
I ti, yr anwylddyn teg.

Gofyn hithau yn sarug a thrahaus,—

Pell ynfyd fydd pwyll anfoes,
Pe rhon, dywed pwy a'i rhoes?
Pond cyffredin y ddinas,
Paham na'th adwaenam was?

Ateb yntau mor ostyngedig a doniol, ag y medr, gan ddywedyd,—

Dafydd awenydd iawnef,
Yn rhodd a'm gyrodd âg ef,
Lwytta wawr a'i latai wyf,
Atad, ei gariad gorwyf.

Dywed hithau yn fwy ffrom nag o'r blaen,—

Nid wy' mewn bodd i'w roddion,
Na'i win da, na'i wenwyn dôn;
Ffordd o'm gŵydd! fwrdd o'm golwg
Cilia y dreng, rhag cael drwg!

¹ Barddon. D. ab Gwll. t. 40.

Yna teifi y gwin am ben y gwas mewn diystyrwch sarhaus,
yr hyn a ddarlunia Dafydd fel y canlyn :—

Cael y clærwin o'r ddinas,
A'i dywallt yng ngwallt 'y ngwas !
Ammharch oedd hyny ymy,
Ammhorth Mair i'm hoywgrair hy !
Os o braidd y'm gwarthruddiaudd,
Isod cyfadnabod caudd !
Asur ddisglaer ei chasul,
Eisiau gwin ar ei min mul !

Rhyw ddull go ryfedd oedd hwn fel arweiniad i wir gariad ; am hyny ni ddylid synu, wrth ddarllen ym mlaen, fod y bardd wedi marw a'i gladdu o gariad at “ Y fun loyw lun fal lili ;”¹ a'i bod hithau wedyn yn myned ar “ bererindod i Fynyw i geisio maddeuant am ladd y bardd ” trwy wrthod ei garu.² Yn ebrwydd ar ol yr helbul yma, collir golwg ar Morfydd ynghanol adar, anifeiliaid, a choedydd ; ac yr ydys yn bur foddllawn i'r newidiad ; “ Canys er bod D. ab Gwilym yn bur alluog mewn hoender, ac yn fawr wrth ddesgrifio cynhyrfiadau cariad a theleidion y prydfferth, efe ydyw'r mwyaf o bawb wrth ddarlunio gwrthddrychau natur ; ac ni phetrus yr ysgrifenydd ddywedyd ei fod, mewn llawer o'i gywyddau wrth ddisgrifio gwrthddrychau natur, a'u hanfon yn llateion at Morfydd, yn ymddangos yn llawer mwy bardd nag yr ymddengys *Ovid* yn yr un o'i Drawssymmudiadau. Cynnyg llawer bardd ddarlunio gwrthddrychau natur heb fod yn wir gydnabyddus â hwy ; ond nid un o'r rhai hyny oedd D. ab Gwilym. Ni bu neb erioed mwy adnabyddus o natur : gwibiwr, neu gler, oedd efe ; ac ymddengys mai'r unig do a fyddai uwch ei ben y rhan fwyaf o'r haf, oedd to'r 'deildy ;' ac yr oedd cân yr adar, a swn anifeiliaid y maes, yn llawer mwy cynnefin i'w glustiau ef na llais dynion. Treuliai fisoedd yr haf yn gyffredin, pan yn ieuangc, mewn llochesau yn y goedwig neu'r mynydd, ger llaw trigfod ei anwylyd cyn iddi briodi ; ac ar ol hyny, yn dysgwyl am ei hymweliadau dirgel, pryd bynnag y gallai ddiangc gwyliadwrus ofal ei rhieni, a llygad eiddigus ei gŵr, y Bwa Bach ; ac yn ystod ei habsenoldeb, nid oedd gan y bardd ddim

¹ Barddon. D. ab Gwil. t. 59.

² Yr un, t. 61.

gwell i'w wneuthur na sylwi ar wrthddrychau natur, a'u dysgrifio. Ar un o'r adegau dychymmygol hyn y cyfansoddodd ei gywydd i'r llwynog, un o'i ganeuon mwyaf godidog.¹

Y mae'n anhawdd iawn, mewn gwirionedd, penderfynu pa un o gywyddau D. ab Gwilym i wrthddrychau natur, ydyw y rhagoraf; ond i dyb yr ysgrifenydd, y mae "Cywydd y Daran" yn un o'r rhai penaf. Cred efe nad oes dim mwy dysgrifiadol a nerthol mewn unrhyw iaith na'r llinellau canlynol:—

Taro a wnaeth, terwyn oedd,
 Trwst taran tros y tiroedd;
 A ffrydiaw croyw-wlaw creulawn,
 A phoeri mellt yn ffrom iawn!
 Durun fflam y daran fflwch,
 Dug warwfa 'n digrifwch;
 Trwst enbyd tristyd i'r trwyn,
 Trwst mawr yn tristau morwyn.
 Twrf a glyw pob tyrfa glau,
 Twrw crug yn tori creigiau!
 Taran a ddug trinoedd ynn,
 Trwst arfau'r wybr tros derfyn;
 Tân aml a dŵr tew 'n ymladd,
 Tân o lid, dŵr tew 'n ei ladd!
 Clywais fry, ciliais o fraw,
 Cawrlais udgorn y curwlaw!
 Mil fawr yn ymlcferydd,
 O gadwynau sugnau sydd!
 Braw a ddisgynodd i'm bron,
 Bwrw deri o'r wybr dirion!
 Gwyllt yr awn a'm gwallt ar ŵyr,
 Gan ruad gwn yr awyr!
 Gwyddon goch yn gwaeddi 'n gau,
 Gwrach hagr dan guro 'i chawgiau!
 Rhegain garm rhyw gŵn gormes,
 Rhugl-groen yn rhoi gwlaw a gwres!
 Tori cerwyni crinion,
 A barai gri o'r wybr gron:
 Canu trwmp o'r wybr gwmpas,
 Curo gwlaw ar bob craig las.
 Creglef yn dryllio creiglawr,
 Crechwen o'r ffurfafen fawr:
 Trwy ei hun y t'rawai hwrdd,
 Tebyg i ganu tabwrdd.²

Y fath ddarlun digyffelyb o'r daran! Rhaid i'r ysgrifenydd gael dethol rhai sylwadau chwanegol o'r awdur Seisnig a nodwyd eisoes ar y prifardd hwn, gan y credir nad yw efe yn ddiau, ac yntau yn estron, yn ysgrifenu dan lywodraeth pleidgarwch. Fel y canlyn y traetha efe arno:—

¹ Borrow's Wild Wales, p. 269.

² Barddon. D. ab Gwll., t. 80, &c.

Ardderchog fardd natur oedd Dafydd ab Gwilym, cydoeswr Chaucer;¹ ond gwerth banner dwsin o'r geirwneuthurwr diwylliedig; mydrdyddwr celydd y chwedlau Normanaidd ac Italaidd.² Yr ydym yn ystyried Dafydd ab Gwilym bob amser, er pan ddaethom yn gydnabyddus â'i waith, y bardd mwyaf athrylithgar a ymddangosodd yn Ewrop ar ol adfywiad llenyddiaeth.³ Yn wir, efe oedd awenydd mwyaf y genedl Gymreig; ac yr oedd yn un o brif feirdd y byd.⁴ Ystyrir Dafydd ab Gwilym yn gyffredin fel bardd nas defnyddiodd ei awen ar unrhyw bwngc ond cariad; a diau bod y rhan fwyaf o lawer o'i ganiadau wedi eu cyflwyno, i raddau mwy neu lai, i'r testyn hwnw; ond anghywir yw edrych arno ef fel prydydd serch yn unig. Ysgrifennodd efe ganiadau tra nerthol ar bob testyn braidd, sydd yng nghyhaedd amgyffred dŷn. Galwyd D. ab Gwilym, yn eithaf priodol, 'yn Ofydd Cymreig;' ond nid yn unig o blegid iddo ef, fel y Rhufeiniwr, ysgrifenu yn odidog ar gariad. Nid bardd serch yn unig oedd y Rhufeiniwr chwaith. Dyweded yspryd Pythagoras ai prydydd serch yn unig oedd y bardd a roddes yr athroniaeth hynaf, ryfeddaf, ac ar yr un pryd hynawsaf oll, mewn mydryddiaith anfarwol. Galwer yspryd Homer ddall i fynu, i dystio ai prydydd serch yn unig a wnaeth y llinell ryfeddol a ganlyn:—

Sargit ad hoc clypel dominus septemplex Ajax;

yr hon sydd gyfartal i unrhyw linell, oddigerth *un* o'i waith ei hunan. Ond er mor amrywiol oedd y Rhufeiniwr, nid ymddisgleiriodd mewn un math ar brydyddiaeth, yn yr hon nis gellir dywedyd bod y Cymro yn gyfartal iddo. Gan hyn, yr oedd yn eithaf priodol galw D. ab Gwilym 'Yr Ofydd Cymreig.' Ond yr oedd efe yn rhywbeth ychwaneg; ac yn awr, na froenawdier y Cymry; y mae'r Cymry yn gyfartal o ran athrylith, meddwl, a dysg, i unrhyw bobl dan haul; a llefarant iaith hynach na'r Groeg, yr hon sydd un o rieni digyfrwng y Groeg. Yr oedd D. ab Gwilym yn rhywbeth ychwaneg nag Ofydd Cymreig; yr oedd efe yn Horas Cymreig; ac ysgrifennodd ganiadau bywiog, boddhaol, a hoenus, cyfartal i ddim a wnaeth Horas yn ei hwyliau goreu; ond yr oedd efe yn rhywbeth ychwaneg, yr oedd yn Marsial (*Martialis*) Cymreig; ac ysgrifennodd ganiadau cyfartal o ran llymdoster i waith y pennilliw'r mawr ei hunan; ac, ond odid, mwy na chyfartal; canys ni chlywsom i'r un o bennillion Marsial ladd neb erioed; ond parodd duchan chwerw Dafydd (gresyn bod y beirdd mor adwythig!) i Rhys Meigen gwympo i lawr yn farw gelain!⁵ Ond yr oedd efe yn rhywbeth ychwaneg eto; gallai fod, os

¹ Ganwyd D. ab Gwilym, fel y gwelwyd, yn y fl. 1300, a bu farw, fel y ceir gwelod eto, yn y fl. 1368. Ganwyd Chaucer, awdur mawr cyntaf y Saeson, yn y fl. 1328; a bu farw ar y 25med o Hydref, 1400 (*Chambers's Cycl. Engl. Lit.*, vol. 1., pp. 12, 13.

² Borrow's Wild Wales, Ihtrod., p. v.

³ Ibid., p. 3.

⁴ Ibid., p. 281.

⁵ Y traddodiad am yr alanas yma sydd fel y canlyn:—Mewn gwleddoedd mawrion megis yr oedd yr hen Neithlorau gynt, byddaf'r beirdd yn gosod un o'r frawdoliaeth yn "gyff cler;" ac yr oedd pawb at eu rhyddid i wneud hwnw yn destyn digrifwch, neu wawd. Pan ddaeth i ran D. ab Gwilym unwaith i lenw'r swydd mewn gwledd, neu Neithior, yn llys Llywelyn o Emlyn ("neuadd Llywelya ap Lleision ym Margam," meddir yn *Iolo MSS.*, t. 92), cafodd ei gasdyn, Rhys Meigen, gyfle i arllwys ei genügen arno; ac aeth mor bell yn ei falaisag i edliw mai "mab llwyn a pherth" ydoedd, gan adrodd, ym mysg pethau brynton eraill, yr Englyn a ddifynwyd eisoes, sy'n dechreu fel hyn:—

"Mîl trichant meddant i mi—y ganed

Yn genau dan lwyni."

Cyffrodd hyn ddiglonedd Dafydd yn aruthr, a dyweddod wrtho,—

"Gallaf, pam nas gailaf? pwyth nis gellych;

Mae darpar fy ngherdd fel na chwerddych."

Yn y wledd nesaf, a Rhys Meigen yn gynnrychiol, adroddodd Dafydd y duchan chwerw sy'n dechreu fel hyn:—

"Cerbyd lledynfyd llydanfal—y sydd

Yn unswydd a Gwalchmai;

Cwn pob parth a'i cyfarthal,

Cymmrydd na cherdd ni chal."

Effeithlodd y duchangerdd bigoglym hon mor ddwys ar feddwl Rhys Meigen, fel y cwmpodd yn farw yn y fan, wedi i Dafydd orphen ei hadrodd.—*Barddon. D. ab Gwîl. Sketch*, p. xi.

mynnai, yn Tyrtaeus : ysgrifennodd gywydd ar y cleddyf, yr unig gerdd filwrol a gyfansoddodd, hyd y gwyddys, a'r gân oreu ar y testyn hwnw ydyw mewn unrhyw iaith.¹ Yn olaf, yr oedd D. ab Gwilym yn rhywbeth ychwaneg fyth : yr oedd efe yn Gristion, yr hyn nid oedd yr un o'r beirdd mawr Rhufeinig : o leiaf, yr oedd felly yn ei ddyddiau olaf, pan y dechreuodd deimlo gwagedd pob ymgais dynol ; pan oedd ei ewynau yn dechreu ymollwng, ei wallt yn cwmpo ymaith, a'i ddannedd yn colli o'i ben. Yna cyfansoddodd ddarnau cyssegredig sy'n rhoddi hawl iddo gael ei restru—bu agos i ni ddywedyd, gyda Cedmon : pe dywedasem hyn, buasem anghywir ; canys ni thrinodd bardd anghyssegredig erioed byngciau crefyddol yn debyg i'r Ysgald Saesonaidd ; ond cyfansoddodd Dafydd rai sy'n rhoi hawl iddo gael ei alw yn fardd crefyddol mawr, heb fod yn ol i neb ond ymlynydd Hilda.²

Rhaid i mi gael difynu un deryn bychan eto o ganmoliaeth i Dafydd ab Gwilym, o waith un o'n prif lenorion ein hunain, sef Gwallter Mechain, yr hwn dderyn sy'n lled debyg i folawd Borrow iddo :—

Gelwir ef [D. ab Gwilym] gan rai, megys o barch i'w enw—'Yr Ofydd Cymreig.' Ond chwareu teg i Fardd Bro Gynin ; ei gywyddau serchocaf i Forfydd ydynt fwy diwar o lawer na chaniadau nwydlawn yr adynfardd Rhufeinig. Efe (D. G.) a ddygodd ar arfer gyffrelin y mesur mwyaf sathredig o'r pedwar ar hugain ; a'i Gywyddau ef ydynt yn mhlith y rhai melusaf yn yr iaith. Beirdd yr oes a ymstyngent i'w ragoroldeb : gweler yma dystiolaeth rhai o honynt.

'Dysgybl wyf, ef a'm dysgawdd,
Dysgawdr cywydd.

GRUFFYDD GRYG YM MARWNAD D. G.

'Taw di i gyd—ti *Gywydd*—
Nid da'r byd—nid hir y bydd :
Tra bu Dafydd gelfydd gân
Ydd oeddid barchus ddyddan ;
Ac ni bydd o herwydd hyn,
Gwedi ef gwiw dy ofyn.'

IOLO GOCH.

* * * * *

Am ddychymmyg neu grebwyll, ni bu, ac ef allai, ni bydd yn Nghymru, ail i Dafydd ab Gwilym. Efe a ddysgai, yn nod i ddylluan ac i bioden siarod yn Gymraeg glân gloew ; rhoddai leferydd yng ngenau drychiolaeth ; ac ymgomia i â'i gysgod ei hun.³

Anghofiwyd un rhagoriaeth arall, o leiaf, gan yr ysgrifenywyr a nodwyd, a dichon yr anghofiaf finnau amryw, a berthynai i Dafydd ab Gwilym ; canys "yr oedd efe yn rhywbeth ychwaneg" na'r hyn oll a nodwyd ; yr oedd efe yn *Orpheus Cymreig* ; o blegid yr oedd yn gerddor a thelyniwr, fel y prawf

¹ Barddon. D. ab Gwll., t. 200.

² *Borrow's Wild Wales*, p. 268.—Y mae'n debyg nad oedd Borrow gydnabyddus a chaniadau Williams o Bant y Celyn, Ann Griffiths, Edward Jones o Faes y Plwm, Dafydd Jones o Galo, ac eraill o'r Emynwyr Cymreig.

³ Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 167.

ei gywydd i'r "Gaingc Symlen,"¹ a'i gywydd i'r "Delyn Ledr."² Yn y blaenaf dywed fel hyn :—

Dysgais ryw baradwysgaingc,
A'r dwylaw mau ar dal maingc ;
A'r dysgiad diwygiad dŷn,
Eurai dalm ar y delyn.
Solffeais â'm salw ffuaint,
Salm rwydd ys aelaw 'y mraint ;
Ac erddygan gan y gaingc,
Garuaidd medd gwŷr ieuaingc.

Heb law yr holl lenyddiaeth a nodwyd, dywedir mewn hen ysgrifyfr a'i enw "Llyfr Brechfa," fel hyn :—"Ym Maes y Crugiau, ar Lan Teifi y mae Gramadeg o waith Dafydd ab Gwilym (medd Ben Simon o Lyfr Iago ab Dewi.)"³

Y mae holl waith Dafydd ab Gwilym yn profi ei fod yn Gymreigydd manwl a galluog ; a gwyddys, fel y gwelwyd, mai un o'r "Tri Chof" perthynol i'r beirdd, oedd "Cof o *iaith* y Brytaniaid, am bob gair a sill o'r hon" y dodent gyfrif pan y gofynid ganddynt. Gan hyny, nid peth annhebyg ydyw, ddarfod i D. ab Gwilym ysgrifenu Gramadeg. Ond, fel y dywed Edmund Prys,—

Angau yw terfyn pob dyn byw,
I hwn nid yw ond tamaid.

Felly y bu i'r bardd athrylithgar hwn. Yn y fl. 1368, bu farw Dafydd ab Gwilym, yn ol yr Englyn canlynol, a gyfansoddwyd gan Hopcin Tomas ap Einion, yn y fl. 1380, ym mhen 12 mlynedd ar ol y dygwyddiad :—

Mil meddant trichant trwy ochain irad
Wyth eraill a thrigain,
Marw y bu Prydydd mirain,
Mab gwilym gerddedlym gain.⁴

"Llyfr Efan Wiliam o'r Fferm, yn Llanfleiddian y Bont Faen," a ddyry ei farwolaeth "ym mlwyddyn deugain o goroniad y Brenin Edwart y drydydd," sef 1367 ;⁵ ond W. Owen (y Dr. Pughe), a'i ddylynwyr, a ddodant ei farwolaeth yn y fl. 1400,⁶ yn ol yr hyn y buasai yn 100 oed, ac nid 68! Gesyd Hopcin Tomas ei feddrod yn Nhal y Llychau, sir Gaerfyrddin, fel y canlyn :—

¹ Barddon. D. ab Gwll., t. 274. ² Yr un, t. 277.] ³ Iolo MSS., t. 94. ⁴ Yr un, t. 95.
⁵ Yr un, t. 94. ⁶ Barddon. D. ab Gwll., *Sketch*, pp. iv., v.

Ym medd y gorwedd a'r garreg arnaw,
Mawr ernych gloyw ofeg,
Accw yn ynys cain waneg
Lle uwch Dwr, Tal Llychau deg.¹

Yn Nhal y Llychau hefyd y gesyd dau hen gofnod eraill ei orweddfa ;² ond Gruffydd Gryg, ei gydoeswr, a'i dyry i orwedd dan Ywen yn Ystrad Fflur, yng Ngheredigion, yr hon Ywen a anerchir ganddo fel hyn :—

Yr ywen i oreuwas,
Ger mur Ystrad Fflur a'i phlas ;
Da Duw wrthyd, gwynfyd gwŷdd
Dy dyfu yn dŷ Dafydd !
Dafydd, gwelai dy dyfu,
A'th wnaeth o'i farwolaeth fu.
Na ddos gam, na ddysg ommedd,
Ywen, oddi uwch ben y bedd.
Ni'th lysg tân, anian unerch,
Ni'th dŷr saer, ni'th dyfriw serch,
Ni'th bilio crydd, mewn dydd dŷn,
Dy dudedd yn dy dyddyn.
Ni thyr hefyd, mewn bryd braw,
A bwyell rhag ei bwyaw
(Ir dy fraich i ar dy fron)
Taio, na chynnyteion.³

Rhaid ymadael weithian, er anhawdded, â llenyddiaeth gyfoethog Dafydd Ab Gwilym, *caniadau* yr hwn a ddilynwyd yn benaf yn y crynodd yma o'i hanes ef a'i lenyddiaeth, yn hytrach na'r *traddodiadau* am dano. Gresyn na chyhoeddid holl waith D. ab Gwilym yn y llythraeth a'r dull hynaf y mae ar gael.

Gwelir y dechreu cyfnod y testyn yn yr un flwyddyn ag y ganwyd Prif Fardd Cyffredinol Cenedl y Cymry ; “Y mwyaaf athrylithgar a ymddangosodd yn Ewrop ar ol adnewyddiad llenyddiaeth,” yn ol Borrow, fel y gwelwyd ; ac “un o brif feirdd y byd.” Ceir gweled hefyd, rhag llaw, y terfyna ein cyfnod yn oes bardd Cymreig arall tra galluog a ffrwythlawn ei athrylith.

Yn awr, deawn at lenyddiaeth dau fardd a ddaethent i'r *ail* o'r “Tair Eisteddfod Dadeni,” at y pump oedd yn y gyntaf ; sef, “Sion y Cent a Rhys Goch o'r Eryri.”

SION Y CENT a nodir ym mlaenaf yn yr hen ysgrif, fel y gwelwyd, yr hon a ddengys y “tyfodd ymryson” rhyngddo

¹ Iolo MSS., t. 95.

² Yr un, t. 94.

³ Barddon. D. ab Gwll., *Sketch*, pp. xxxiii.—iv.

ef a Rhys Goch yn yr Eisteddfod honno. Ymddengys mai yr achos o'r "ymryson" oedd, bod Sion y Cent yn myntumio mai "Awen o Dduw" oedd ganddo ef; ac am hyny gwrthododd y Gadair Farddol a ddyfarnwyd iddo yn yr Eisteddfod honno, yn y Ddôl Goch, fel y gwelwyd; ond honnai mai "Awen o Ddiawl" oedd gan Rhys Goch, o herwydd yr hyn y ffromodd Rhys wrtho yn aruthr, fel y gallasid dysgwyl. Dechreu cywydd Sion y Cent fel hyn:—

Camair hy', cam yw'r heol,
Cymru fu, cam roi fol....

Ac etyb Rhys ef yn ffyrnig, fel y canlyn:—

Toraist am treiaist arnaf,
Trist meddgrig gnoedig gnaf,
Fraw chwedl o freuach adlam,
Fy mod yn cadw geifr fy mam.....
Ac am hyn emyn amher,
Cabl Sion clywch at perion cler.
Pam, was ystabl y'm cablud
Fudredd drwy ddigasedd drud?.. ...
Dwy awen ryfedd meddud
Fudredd drwy ddigasedd drud:
Un a roes Duw, iawnras dôn,
Yng ngolwg ei angylion;
Ac awen fudr heb gywair,
Gelwyddawg, geuawg a gair
A gafas, berw a gyfyd,
Beirdd a phrydyddion byd;...
Copr Sion senferw creichion crach,
Cent a aethost mewn ceintach.

Gan fod Sion y Cent, neu, fel y gelwid ef yn fynych, Sion Cent, ac weithiau, y Dr. Sion Cent, wedi ysgrifenu cymmaint ar ol ei dröedigaeth oddiwrth Babyddiaeth, yn erbyn y "mynachod geuawg" a thwyllodrus, lluniasant hwythau bob math ar chwedlau anwireddus a disail arno, gan ei alw yn "Sioni Cwmtridwr;" a haeru ei fod mewn cynghrair â'r ysprydion drwg, fel dewin, "cwndidwr," a thwyllwr; a chredid y cyfryw chwedlau fel gwirioneddau, nid yn unig gan y werinos anwybodus, ond hefyd gan rai y gallasid disgwyl na buasent mor hygoelus. Heb law y chwedl ynfyd, ddarfod iddo gasglu'r brain oedd yn ŷd ei feistr, yn un heidiau afrifed braidd i Gastell Caerffili, er mwyn peidio eu gwyllo yn y maes ar ddiwrnod oer; ac iddo ffoi rhag creulondeb ei feistr hwnw

i blwyf Cent yng ngwlad Went, dywedir iddo gael lle ar y dechreu yno fel "gwas ystabl," chwedl Rhys Goch, i ofalu am feirch gŵr boneddig, yr hwn, wrth weled ei onestrwydd a'i ddoniau, a'i dyrchafodd yn y teulu; ac o'r diwedd "urddwyd ef yn offeiriad."¹ Ymddengys mai at y chwedl hon y cyfeiria Rhys Goch Eryri, pan ddywedai mor ffrom a mawreddog wrtho, yn Eisteddfod y Ddôl Goch, mai "gwas ystabl" ydoedd, am iddo ei guro ef ar brydyddu yno.

Dodir Sion y Cent, fel yr hen lenorion yn gyffredin, i fucheddu ar wahanol amserau, yr hyn a bâr fod yn bur anhawdd penderfynu, weithian, pa bryd y cynyrchwyd y llenyddiaeth a fyddo dan sylw. George Owen, Ysw., Arglwydd Cemes, o gylch y fl. 1580, yn ei *History of Penbrokeshire*, a ddywed fel y canlyn :—

John Kent, doethawr enwog mewn duwinyddiaeth, fel yr ymddengys wrth ei waith dwyfyddol, yr hwn nid anghofir hyd ddiwedd amser. Yr oedd efe yn fardd dysgedig, yn yr hyn y doniwyd ef gan natur; ac felly gadawodd lawer o gyfansoddiadau nodedig yn yr iaith Gymraeg. Yr oedd yn byw yn amser Richard III.,² fel y sylwa Mr. Holinshed. Ganwyd ef yn arglwyddiaeth Cilgeran, yn sir Benfro, fel y mae'n eglur wrth rai o'i gyfansoddiadau ef ei hun. Yr wyf yn cael bod John Kent arall yn byw yn amser Harri III.;³ ond o ba wlad yr oedd ef, nid wyf yn gwybod.⁴

Ymddengys na wyddai yr hen George Owen ddim llawer mwy am y llall chwaith, wrth yr amser a briodola iddo. "Dywed Leland" am y Sion Cent olaf a nodwyd, "iddo gael ei fagu yn Nghymru; a'i fod yn ddilynwr gwresog i'r Ysgolion Ffransisaidd enwocaf yn Rhydychain; ac iddo gynyddu mewn dyfnddysg nes synu ei holl frodyr crefyddol. Ysgrifennodd lawer o draethodau duwiol a dysgedig; a bu farw yn y fl. 1368."⁵ Dafydd Jones, Ficar Llanfair Dyffryn Clwyd, o'r fl. 1560 hyd 1590, a ddywed fel hyn am y Sion Cent cyntaf :—"John y Kent, Athro neu Doctor o divinity: ir oedd ef yn amser H. y Pedwerydd,⁶ a pheth o'i flaen hefyd."⁷ Rhaid i'r ysgrifenydd gredu ei fod gryn *lawer* "o'i flaen."

¹ Myv. Arch., t. 828. ² Teyrnasol Richard III. o'r fl. 1483 hyd 1485. ³ Harri III. a deyrnasol o'r fl. 1216 hyd 1272. ⁴ Cambr. Register, vol. II., p. 208. ⁵ Geir Byw., I. F., t. 117. ⁶ Teyrnasol Harri IV. o'r fl. 1399 hyd 1413. ⁷ Brit. Museum Additional MSS., 1841—1845; Welsh School MSS., No. 14,866, p. 15.

Dyry ein bywgraffwyr cyffredin Sion y Cent i fyw hyd y fl. 1420,¹ ryw saith mlynedd ar ol Harri IV., yr hyn sy'n ymddangos yn gwbl annhebyg, gan y rhaid y buasai'r pryd hwnw o gylch 120 oed, o leiaf, yn ol yr amser yr oedd yn Eisteddfod y Ddôl Goch.

Tueddir yr ysgrifenydd yn gryf i gasglu mai yr un Sion Cent oedd y rhai a nodwyd yn flaenorol fel dau wahanol. Yr oedd y ddau yn ysgrifenyddwyr "dysgedig a duwiol;" y ddau yn Babyddion zelog yn nechreu eu hoes; a'r olaf yn marw yn y fl. 1368, yr un flwyddyn ag y bu Dafydd ab Gwilym, yr hwn, fel y gwelwyd, oedd yn Eisteddfod y Ddôl Goch ar unwaith a Sion y Cent a Rhys Goch Eryri. Yn awr, y mae'n gwbl eglur wrth rai o'r cywyddau a briodolir i'r Sion Cent cyntaf a nodwyd, ei fod ef yn Babydd mor eiddgar a'r llall ar ryw adeg foreuol o'i oes, fel y ceir gweled yn ebrwydd. Y gwir yw mai cydoeswyr Sion y Cent, a'i gyfansoddiadau ef, cystal ag eraill o'r hen lenorion, a ddangosant egluraf o ddim o gylch pa amser yr oedd efe yn bucheddu. Y mae cyn wired a bod y "Tair Eisteddfod Dadeni" wedi eu cynnal rhwng y 29fed o Ionawr, 1327, pan y coronwyd Edward III., a'r 29fed o Dachwedd, 1330, pan ddihenyddwyd yr Iarll Mortimer; ac mor wir a bod Llywelyn ab Gwilym, y "Tri Brodyr Marchwiall," Dafydd ab Gwilym, a Rhys Goch Eryri, yn y ganol o'r "Tair Eisteddfod Dadeni," bod Sion y Cent ynddi hefyd; ac y tyfodd "ymryson" yno rhyngddo a Rhys Goch, fel y gwelwyd; ac mai i Sion y dyfarnwyd "addurn Cadair Ceredigion" yn yr Eisteddfod honno. O herwydd paham, rhaid ei fod ef y pryd hyny, sef o gylch y fl. 1329, o 25 i 30 oed. Gan hyny, ganwyd ef o gylch yr un amser a Dafydd ab Gwilym, sef tua dechreu y 14edd ganrif; ac fe allai y bu farw o gylch yr un amser a'r bardd awenyddol hwnw, yr hwn, fel y tybia rhai, oedd ei athraw barddonol.

O barth ei lenyddiaeth, dywed George Owen, fel y gwelwyd; y gadawodd ar ei ol "gyfansoddiadau dwyfyddol, y rhai nis

¹ Williams's *Em. Welshm.*, p. 268; *Gelr. Bywgr. J. T. J.*, cyf., i. t. 60; *Gelr. Bywgr. I. F.*, t. 117

anghofir hyd ddiwedd amser." Ac ysgrifenydd arall a ddywed am dano fel hyn :—

Ychydig amser yn ol gwelais ymholiad, Pwy oedd Sion Cent? Mae genyf yn fy meddiant hen lawysgrifen yn cynwys ychydig o'i waith ;.....ac odditan un garol ag sydd yn gosod allan achau *Mair y Forwyn* : ' Mi weles hen ysgrifen hen yn nghylch Dr. Sion Cent, Doctor Dyfnyddiaeth, a gweinidog plwyf Cent, yn sir Henffordd oedd efe, lle canodd amryw gywyddau da ; ac yn ei amser ef, Cymraeg oedd yn rhugl trwy yr holl sir, sef Henffordd. Sion Gwent y geillw y Dr. Gruffydd Roberts ef. (*Sion Tudur, Proctor ynghwrt Llanelwy oedd efe*).'¹

Am lenyddiaeth ryddieithol Sion y Cent, nid oes dim o honi ar gael, hyd y gwyddys, yn Gymraeg na Lladin yn yr Amgueddfa Frytanaidd, nac mewn unrhyw gasgliad arall o hen lawysgrifau. Nid yw'r Dr. Gruffydd Roberts, oedd yn ei flodau o gylch y fl. 1567, yn rhoddi dim manylion am Sion y Cent, nac yn son dim am ei gyfansoddiadau rhyddieithiol ; ond mewn difyniad o Ramadeg y Dr. G. Roberts, sydd mewn hen gopi ysgrifenedig o Ramadeg Simwnt Fychan, a gyfansoddwyd tua'r fl. 1580, sydd yn yr Amgueddfa Frytanaidd, dywedir fel y canlyn am Sion Cent :—

Gr. Gwir a ddywedwch chwi ac nid oedd ar Dr. Sion Cent ddiffyg na dysg, na duwioledeb, nac awenydd ; etto am nad oedd gantho gyfarwyddyd am y cyghaneddion, a'r pethau sy'n damwain iddyn, nid yw i gywyddau mor gymradwy ymysg y beirdd, ac y buasent, pei gwelais ynddynt gelfyddyd gynghanedd gimint ag sydd o santeiddrwydd a dysg.¹

Go debyg y dywed William Salesbury am gyfansoddiadau Sion y Cent, mewn copi o Reitheg a olygwyd gan Thomas ap William, yr hwn sydd wahanol i'r un a argraffwyd dan olygiad Henri Perri, ac yn debycach i ran o'r "Pum Llyfr Cerddwriaeth a'r Angchwanegiadau" a gyhoeddwyd dan olygiad Ab Ithel gyda "Gramadeg Edeyrn Dafod Aur."²—Soraismos. Bolysothach â cherdd Gymraec gair neu eiriau hen a newydd cymhessur ac anghymhessur fel y mae :—

' Vy mhwn melfed fy mherson
Vy nghoffr aur fy nghyff o rôn
Vy mhws gramarsi am hyn.' Dr. Io. Cent.³

Ymddengys nad oedd yr hen Salesbury yn cofio bod Sion y Cent yn canu dros ddau gan mlynedd cyn ei amser ef ; a thros gan mlynedd cyn i gynghanedd

¹ Cymmrodorion MSS., No. 15,046.

² Brit. Museum, No. 15,046, pp. 299—348.

³ Cymharer y Sydd paragraff yn Nosp. Ed. Dafod Aur, t. cxix.

“gymhessurol” gael ei gwneud yn ammod barddoniaeth, yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn y fl. 1451.

Dywedir bod pump neu chwech ar hugain o gywyddau Sion y Cent ar gael mewn gwahanol gasgliadau o lawysgrifau. Un ar bymtheg ydyw y nifer mwyaf, yn ol cofres y Dr. Pughe sydd yn yr un ysgriflyfr o gasgliad Myfyr. Heb law hyny, dylid cofio y priodolir rhai o honynt weithiau i feirdd diweddarach; megis, er enghraifft, dywedir mewn rhai hen ysgrifau mai gwaith Syr Dafydd Trevor, oedd yn ei flodau o'r fl. 1470 i 1500, yw'r cywydd i'r “Byd a'i Wagedd,” a phriodolir y cywydd sy'n dechreu â'r llinell yma :—

“Digam y gwnaeth Duw gymwyll,”

i Dafydd Ddu o Hiraddug; a'r cyffelyb am rai eraill o'r cywyddau a briodolir i Sion y Cent mewn rhai ysgrifau. Credir mai'r cywyddau sy'n cyfeirio at bersonau yn y 15fed ganrif, a diweddarach, yw y rhai ffugiol. Gellir casglu mai'r cywyddau sy'n profi ei fod yn Babydd, o ran ei farn foreuol, ydyw y rhai boreuaf o'i gyfansoddiad. Y mae'n eglur wrth y llinellau canlynol, ei fod yn credu, dros ryw dymmor o'i fywyd, mewn “Pardwn gwerth” a phurdan :—

Od ai i'r nef rhaid yn wir
Ffinio dros y corff anwir,
A thalu'r ffydd gatholig
Yn y tân o'r enaid dig :
Crist ni dderbyn o'r croesdan.
Enaid i'w law ond yn lân.¹

Cyffelyb ydyw ei syniad mewn cywydd arall, lle y dywedir fel hyn :—

Pan el enaid dŷn pleidfawr
Pair dan mwy i'r Purdan mawr,
Cas llid ni ddaw cwys llydan
O'r tir i ddiffoddi'r tan.²

Dengys y darn canlynol o'r un cywydd, fod yr awdur yn dal holl “sagrafenau” Eglwys Rhufain :—

Gwyn ei fyd nid er gwynfydu,
Y dyn cyn gloes angau du,
A chael corff Crist uchelair,
A chyffes o fynwes Fair ;

¹ Cloer Barddas, t. 246.

² Yr un, t. 249.

A chael elw nefolydd,
 A rhoi y meddiant yn rhydd ;
 A chael dodli'n corff o chaid,
 Yn deg méwn tir bendigaidd.

Nid hawdd cyfarfod â dim yng ngwaith ein beirdd sy'n fwy eithafol Babaidd na'r darnau uchod. Rhaid bod yr awdur pan yn eu cyfansoddi, yn credu holl gyfeiliornadau y Mynachod Pabaidd.¹ Dyma ddirwy neu benyd am bechod ; yna, athrawiaeth Baganaid y Purdan ; wedi hyny, rhinwedd y sacrament ; cyffesu er mwyn cael cyfryngiaeth Mair ; eneinio'r claf ; a chyhoeddi ei faddeuant.

Ond dengys y difyniadau canlynol fod Sion y Cent wedi llwyr ymwrthod â'r athrawiaethau Pabaidd ar ryw dymmor o'i oes. Mewn cywydd i'r "Deg Gair Deddf," sy'n dechreu fel canlyn ;—

Llawrodd a roes i Foesen,

Y mae'n dadgan yn groyw o blaid yr ail orchymyn, yr hwn a wrthodir gan y Pabyddion :—

Yr ail gair hylaw gariad,
 Ni wna y twyll (yn enw y Tad),
 Yna yn d'oes na wna di
 Ddelwau hyll i'w haddoli.²

Ond fe allai mai'r cywydd a elwir "Kywydd i Lyfr Arall," sy'n dangos gwrthwynebiad Sion y Cent amlycaf o'i holl waith i anfofsoledb a chyfeiliornadau y "Meneich" Pabaidd. Cymmerer yr ychydig ddiffyniadau canlynol fel esamplau o'r cywydd hwnw :—

dig yw r gwyr llen ar menaich
 dygn vyth digon o vaich
 dig yn ryw odrig rydrist
 yw r brodyr crefyddwyr krist
 di wann gannoedd dan gynnnull
 dig yw r offeiriad ny dull
 truth noeth traethu a wnaethost
 na chant hwy gwn achwyn tost
 graen dü ffol graen yw dy ffed
 gaürydd nef yn agored

Y LLYFR YN ATEB

nawdd y goruchel geli
 ni thraethais ny soniais i
 na ddelunt yn un ddolef
 au llü o nerth oll i nef

¹ Cloer Barddas, t. 246.—'Cywydd i Dduw a'r Byd, ao i gyffelybu dyn i ddiwrnod.'

² Yr un, t. 260.

dywedaf chwedl gywiraf chwyrn
om kaüdawd am y cedyrn
ony chânt néf dréf dradoeth,
o vodd düw wyr vvydd doeth
meddir o bydd kywir kant
i minnau hwy ai mynnant
airäi glew ar y glywais
orddwy drüd ar dduw o drais
hoewdda rwysg heddiw r esgob
ai sidan ny gyvan göb
gwin a vynn nid gwann i vår
awch a geidw a chig adar...
a menaich aml i mwnai
müriau teg mawr yw i tai
braisgwn ynt ar y brasgig
braisgion dinwygyddion dig...
ar brodyr pregethwyr gynt
a oeddyn heb dda yddynt
ar i traed airäi trydyn
wrth bwys heb orffwys oi ffyn
i maent hwy hoeywbwy hybairch
yn dri llü yn meddii mairch
nyd amlach kyfeddachwyr
gwleddaü na gwaräi y gwyr
kryfion ynt yn y krefydd
kryfion diffodyddion ffydd.¹

Heb law y canïadau a nodwyd o waith Sion y Cent, y mae y rhai canlynol yn argraffedig :—“ Englynion i Enwau Duw ;”² cywydd i “ Oedran a Pharhad Pethau ;”³ “ Englynion a gânt Sion Cent ar ei Wely Angau ;”⁴ a “ Chywydd ynghylch marwolaeth ;”⁵ ac y maent yn gyfansoddiadau destlys a chrefyddol.

RHYS GOCH ERYRI oedd y bardd arall, heb law Sion y Cent, a ddeuthai o newydd i’r ail “ Eisteddfod Dadeni,” yn y Ddôl Goch. Gelwid Rhys weithiau yn Rhys Goch ab Dafydd ; canys ei dad, fel y tybir, oedd Dafydd Rhys, yr hwn a breswyliai mewn palas a elwid “ Llys Dafydd Rhys.” Y mae lleindir ar Dyddyn Grosor (“ Grosor Farm”) yn Nanmor, a elwir hyd y dydd hwn, “ Llys Dafydd Rhys.”⁶

Yr oedd Rhys Goch Eryri yn “ wr boneddig tiriawg,” yn byw yn ei balas ei hun, a elwid Hafod Garegog, ger llaw Pont Aberglaslyn ; a dywedir mai efe oedd perchenog y faenor o amgylch ei drigfan, rhan o’r hon sydd yn sir Feirionydd, a’r rhan arall yn mhlwyf Beddgelert, sir Gaernarfon. Dywed efe ei hun fel y canlyn :—

¹ Iolo MSS., t. 306.

² Yr un, t. 285.

³ Yr un, 286

⁴ Yr un, t. 290.

⁵ Y Ffydd Ddifuant, argr. Dolgellau, t. 509.

⁶ Cambro-Briton, vol. 1., p. 209.

ar oer garreg Eryri
mae gad fawr lle magwyd vi.¹

Dodwyd Rhos Goch, fel eraill o'r hen lenorion gan mwyaf, i fucheddu ar wahanol amserau. Y Dr. Davies o Fallwyd, a T. Richards, y geiriadurwyr, a ddodent Rhys Goch yn ei flodau yn y fl. 1420; eraill, o 1330 i 1420;² ac eraill, o 1327 i 1415. Od oedd yn ei flodau yn y fl. 1327, pan fu farw Edward o Gaernarfon, ger bron yr hwn y dywedir iddo ganu,³ rhaid ei fod wedi ei eni o gylch y fl. 1300, neu foreuach; ac ymddengys bod hyny yn lled agos i'r nod. Y cyfarwyddyd goreu, fel y crybwyllwyd, i farnu amser hen awduron, ydyw eu cyfansoddiadau, eu cydoeswyr, a dygwyddiadau eu hamser. Y mae genym sicrwydd, fel y gwelwyd, cyn belled ag y cyrhaedd awdurdod hanesyddol y "Man-gofion" sydd yn yr IOLO MSS., bod Rhys Goch yn yr *ail* "Eisteddfod Dadeni," a gynnaliwyd, fel y gellir casglu, megis y dangoswyd, ryw bryd yn ystod y fl. 1329. Gan hyny, diau y ganwyd ef o gylch dechreu cyfnod y testyn, os nad ychydig yn gynt.

Dywed y bywgraffwyr mai tua 30 sydd o ganiadau Rhys Goch yn gadwedig mewn ysgrifen. Y mae cyfres y Dr. Pughe o ysgriflyfrau Myfyr yn nodi 38 o'i ganiadau; ond fe ddichon fod yr un rhai yn dygwydd weithiau mewn gwahanol ysgriflyfrau. Dywedir hefyd fod Rhys Goch wedi canu i Owain Glyndwr yn niwedd ei oes, o'r fl. 1400 i 1415.⁴ Pe gellid profi hyn, profid yr un pryd fod Rhys wedi byw dros gan mlynedd; yr hyn, bid sicr, nid oedd annichonadwy, er yn annhebyg.

Chwech o'i ganiadau diammheuol sydd yn argraffedig, hyd y gŵyr yr ysgrifenydd, ac un ammheuol; ac y mae cynghanedd yn y chwech diammheuol. Y mae cynghanedd hefyd yn yr hen *gywydd ysgrifenedig* a grybwyllwyd eisoes o'i waith, sydd gan yr ysgrifenydd. Pe ceid gafael ar ei holl ganiadau y dywedir eu bod mewn ysgrifen, nid hwyrach y canfyddid bod

¹ Iolo MSS. t. 807.

² Williams's *Em. Welshm.*, p. 446; *Geir. Bywr. J. T. J.*, cyf. II., t. 476; *Geir. Bywgr. I. F.*, t. 889.

³ Yr un lle.

⁴ *Geir. Bywgr. I. F.*, t. 889.

rhai o honynt yn ddigynghanedd. Yr hynaf o'r saith cyfansoddiad a nodwyd, fel y gellir casglu oddiwrth y testyn, a dull y cyfansoddiad, ydyw yr un a elwir "Cywydd Cyfrinach." Testyn y cywydd hwnw yw Llywelyn ab Gwilym, y beirniad yn Eisteddfod y Ddôl Goch, lle yr oedd Rhys a Sion Cent, fel y gwelwyd. Y mac'r bardd yn cyfarch y Llywelyn hwnw, fel gŵr cyfarwydd yn y mesurau; ac un a roddes ryw gyfarwyddyd iddo yntau mewn barddoniaeth; gan gyfeirio, fe allai, at ei feirniadaeth ar ei "Foliangerdd" yn Eisteddfod y Ddôl Goch; ond barned y darllynydd drosto ei hun oddi wrth y difyniadau canlynol:—

DEWRDDRYD lywelyn daerddraig
 dyred taer grôl tiar graig
 lle mae penn brawd Gystenin
 vendigaidd lafn drafn y drin
 yngwyl derw angel deirüdd
 ynghoed Pharaoh ynghudd
 ar oer garreg Eryri
 mae ged vawr lle magwyd vi
 pai deiyd aür vryd ir vro
 enaid prydyddion yno
 kaid gerddawr air mawr a mêdd
 a gwin ynraigau Gwynedd
 Rugl benn rag mor gymen goeth
 i roddest ateb ryddoeth
 ymliw kall aml yw kellowair
 om brys gerdd am bris gair
 ar gair yn gyviawn nid gau
 moes air yn y mesurau
 gwyddost yn walch walch o wên
 deall hynn o beth dien...
 di semli dywedysoch
 eirias y gerdd i Rys goch...
 gwrdd enill gerddau anian
 ag am hynn lywelyn lân
 dywedaist diau wawdydd
 yn eglür ffurfir y ffydd
 Myr uwchder mydr mawr echdoe
 yn iawn ddyg am awen ddoe
 enaid y bairdd onid bod
 gorau baibl GAIR HEB WYBOD
 gwrdd ir attebaist deg ach
 a hu odl yny hâuach...
 Taliesin hydr ar vydr vy
 gobaiith proffwyd ai gwyby
 llywelyn hynod glod glaer
 naddwr kerdd awenyddair
 a meff ir dyn tremyn tro
 na thraetür ar ethrotto
 kar bax o dir mab Maxen
 i ti gan wr briglwyd hên

a chrio klod ochrawg kledd
awch ymrwydr a chymrodedd

Rys goch o eryri ai kant.¹

Ymddengys yn bur eglur wrth y llinellau blaenorol mai gŵr o'r *Deheubarth* ydoedd y Llywelyn a gyferchir ynddynt, gan fod y bardd yn ei wahodd i gael "mèdd a gwin ynraigiau Gwynedd." Yr oedd y Llywelyn hwn hefyd yn "enaid prydyddion," yn deall "mwys air y mesurau," yn "naddwr cerdd awenyddair," a dysgodd "eirias y gerdd i Rys goch." Ni wyddys am un Llywelyn yn ateb i'r holl gymeriadau hyn, ond Llywelyn ab Gwilym o'r Ddôl Goch yn Emlyn.

Cywydd arall o waith Rhys Goch y dengys cynganedd amryw linellau ynddo ei fod yn bur hen, ydyw yr un a elwir "Cywydd i Fcuno Abad." Wele ychydig linellau o hono fel enghraifft :—

Teg yw synwyr blinwyr blaid
Tirion eiriau 'r Doctoriaid
Tra gogoniant filcant fawl
Tiroedd y byd daearawl
Gorwagrydd a cwydd yr hynt
Adwyth gar bron Duw ydynt
Oes dyn er yr Iesu Dad
A gyner siampl o gariad
Edrycher wledd fawredd farn
I gyd a wnaeth rygdarn.²

Er nad oes wahannodiad yn y cywydd hwn, y mae ei lythyraeth yn profi nad ysgrifenwyd y copi yma o hono cyn yr 16fed ganrif. Y mae cywydd arall o waith Rhys Goch sydd yn y Brython (cyf. iv., t. 307) wedi ei wahannodi yn fanwl ; ac y mae yn yr un lythyraeth a'r Brython. Dechreu fel hyn :—

Ebrwydd y daeth abraidd dâl,
Brithfyd a gyfyd gofal ;
Brith yw 'r heddwch trwch, nid rhwydd,
Braith yw r gyfraith, ac afrwydd ;
Braith arfaeth marwolaethau,
A braith yw 'r einioes, a brau
Buan y torrais bwâ
Y bywyd hir, a'r byd da ;
Blin yw na pheri blaenawr
O'r byd, onid ennyd awr !

¹ Tolo MSS., t. 307-310.

² Y Brython, cyf. lii., t. 451.

Gellir casglu mai yr hynaf o ganiadau Rhys Goch sydd yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*, ydyw yr un a elwir "Cywydd i'r Llwynog, i erchi iddo ladd Paun, oedd gennad Dafydd Nanmor at Wen o'r Ddol." Ymddengys i'r cywydd yma gael ei gyfansoddi pan oedd y bardd yn ieuangc, ac yn darpar at gael "Gwen o'r Ddol" yn gymhares bywyd; a bod Dafydd Nanmor, bardd enwog arall, yn ymryson âg ef am dani. Math ar dduchangerdd hocnus, ddigrifol, a chyfeillgar, ydyw y cywydd dan sylw; ac y mae'n hynod gywrain o ran mesur a chynghanedd, fel y ddwy gân arall o waith Rhys sydd yn y "Gorchestion." Ni wyddys a newidiwyd y gyng'anedd, fel y newidiwyd y llythraeth, gan Rhys Jones, cyhoeddwr y gwaith. Cael pob hen gyfansoddiad yn fanwl, fel yr ysgrifenydd ef gan yr awdwr, a fyddai ddymunol gan bob beirniad llenyddol; ond rhaid i'r rhan fwyaf o'r cyfryw, sy'n byw ym mhell oddi wrth gronfau yr hen ysgriflyfrau, gymmeryd yr hen gyfansoddiadau fel y caffont hwy. Am y cywydd crybwyll-edig, dechreu trwy gyfarch Madyn fel hyn:—

MADYN ronwyn ry enwir
 Meingi gwych mynni gig fr,
 Mynni arlwy mewn irlwyn
 Ymlaen dôl ymlyniad Wyn.
 Hwde gerdd Hwyad a gai,
 A Gwýdd ag yt y gweddai;
 Cai frás edn cyfrwys ydyd,
 A chall iawn mewn dichell wyd;
 A dewr yn allt dorwynn ŵr,
 A chalonnog chwilenwr.
 Mae'r cyngor a gynghori,
 Moes di hyn Madyn i mi.
 Caru ydd wyf cywraidd Wenn,
 O'r Ddôl ail, ddeurudd Elen;
 A charu mae'n chwerrw i mi,
 Gŵr arall gwág o Eryri:
 Dafydd awenydd uniawn,
 Nanmor un o enw mawr iawn.

Yna dyry'r bardd gyfarwyddyd manwl i Madyn ym mha le i lechu, er mwyn cael cyfle i ladd y Paun oedd latai Dafydd Nanmor, cyn iddo gael cyfleusdra i adrodd ei neges wrth Gwen o'r Ddôl; ac addaw iddo wledd fras o bob rhyw felysgig am ei drafferth, fel y canlyn:—

A'm y cwyn wrthyd amcenais,
 Rhag ei Baun rhywiog ei bais;

Y sydd, ail irwydd Orwen,
 Llatai a gyrch lletty Gwenn ;
 Ag ar y lloer eigr y llu
 A gais dwyll, drwy gastellu.
 O chaiff fann wylan eiliw,
 A'i bebyll aur, o bob lliw,
 Dwyn a gais dann ei gesul,
 Gwenn i'r Mab oganwr Mül.
 Er hyn moes hon o'r herwydd,
 Ci daear gwyllt cai dair Gwýdd :
 Dôs i'r Ddól, dewis Iâr dda,
 Ag Oenyn a gai yna ;
 A rhodia 'mysg y rhedyn,
 Gyleh y Ddól gwilia wých ddyn ;
 A gochel Sawl uchel Sôn,
 Gwn eiddig a'i Gynyddion.
 O gweli'r Paun gwiliwr pwr,
 Iddo Fadyd deifeidiwr
 Cadr cais ei hel adref,
 Hudol Gwenn o'r Ddól oedd ef
 I b'le bynnag blew lanel
 Gwergi gwyddeli y ddél,
 Gwilia ef, lle cartrefai,
 Gwobr o gig, gi byr a gai ;
 A'i ddial ar ei ddwyen,
 Ammod gwych, am hudo gwenn.
 Adolwyn yt dal a naid,
 A rhwyg wr, a'r Hug euraid :
 A lladd, llatai frawd Llowdden,
 A dwg ei bois, deg a'i benn :
 Ag am Wenno gi Meinael,
 Gád rhof a'r gwiw wawdwr hael ;
 A cherdd cýd bytho wých hwyn,
 Am Wenno yr ymwanwn.1

Cyffelyb o ran ansawdd dduchanol a digrifol i "Gywydd y Llwynog" ydyw yr Awdl ganlynol i'r "Llwynog" eto, ond bod hon yn ymosodiad arno, tra mai gwahoddiad iddo i wneud cymmwynas i'r bardd yw'r cywydd uchod. Ystyrid yr Awdl hon gynt yn gywreimbeth cynganeddol ; ac felly y mae hefyd, ac ystyried yr amser y cyfansoddwyd hi ; canys rhaid y gwnaed hi yn lled fuan ar ol yr "Eisteddfod Ddadeni" gyntaf, a gynnaliwyd yng Ngwern y Clepa yn y fl. 1328, lle yr awdurdodwyd *cywydd cynganeddol* gyntaf, hyd y gwyddys. Prif hynodrwydd yr Awdl hon, heb law ei hansawdd dduchanol a digrifol, ydyw ei geiriau cyfansawdd clogyrnog. Yr enw a roddwyd arni gan Rhys Jones sydd fel y canlyn :—

1 Gorch. Beirdd Cymru, t. 90

Arall dduchan, o waith Rhys Goch Eryri i'r Llwynog, am iddo ladd ei Baun ef. Siou Tudur a'i gathodd hi Ystoriyn Meddwlod, o herwydd fod ynddi rimeidd, na fedr un dyn meddwl ddycedyd mo ni.

MADYN Lwynogyn agos, ei ledrad
Lodredd berw marwydos ;
Mynnaist y Mhaun ymannos,
Mynnwn dy gael yn ael nôs.

Budreiddlleidr Nôs baw dreiddllwngc
Braen hygryg fol brynhigrange ;
Bustl fuaidd ysbaidd ysbonge,
Basbeth ofn beisboeth Afange.

Pwl Afange naddgrange Pawl Noddgrys, presfwng
Prudd pentlwg praidd paunilys ;
Piliwr A larwr dyrys,
Par dengl sengl siop chwerwdop chwys.

Chwys Gallestr tanllestr tinnlwm,
Chwerw Baunlladd creigradd crygrwm ;
Chwilestwr chwiliai ystlom
Chwyl didlawd chwilod yllam ;
Chwithnych salwddrych iselldrem,
Chwithchwant lleidr difiofwfant llym.

Llym laddid Dafad tefyrn, y pwding
Pylew Gwër a mebgryn ;
Lleidr a gasgl, lledr ac esgryn,
Llodr ddraig chwerw arymaig chwyrn.

Tra chwyrn méld cedlwrn y cais,
Tagu, Paun eu, ar benn cwys ;
Tyfodd o'i din ym min maes,
Traws leugroen trosol Egroes.

Egroesffagl carddagl cerddawdd, gwterrau
Y creigiau a'i crygawdd ;
Egr biser, gwylder, gwerlawdd,
Ogfaenlliw bais, rhwd clais clawdd.

Clawdd a gyreh colydd a gâr,
Coeg irsain y cig oersur ;
Ci a wnaeth herwriaeth hir,
Cam ymhob cwmamhybyr.¹

Cyffelyb o ran duchan a chlogyrnedd ydyw'r gweddill o'r awdl hon. Yr unig gerdd arall o waith Rhys Goch sydd yn y "Gorchestion," yw "Cywydd y Farf," am yr hwn y dywed Rhys Jones fel hyn :—

Cywydd y Farf o waith Rhys Goch o Eryri. Y bardd hwn oedd wr boneddig, ag a broddd Hafol Garregog, yn sir Feirion ; ag yn ei statau blwydd yr Arghoydd 1420 [?].

¹ Gorch. B. Cymru, t. 92.

Gellir casglu oddi wrth amryw linellau sydd yn y cywydd hwn, bod yr awdwr mewn gwth o oedran pan yn ei gyfansoddi; a bod ci farf yn dechreu llwydo. Dyma fel y dywed y bardd:—

RHO Duw Farf rhydedw fortresg,
Rhaid fydd nid eilliedydd llësg,
Un bob eilydd ddedwydd ddynd,
I'th eilliaw ag wyth Ellyn.
Hagr wyd, y farf finllwyd fau,
Ag anhardd ynghylch genau ;
Morwyn soff inain goff gyflwyd
Mal Còb i hen Esgob wyd ;
Gwae yr én, mynn y gwirionedd,
A'th atto ewingno wëdd !
A gwae a'th dynn dennyn dig,
A llaw drom nid llai i dremyg !...
Syml wyd, y Farf finllwyd, faith,
Symmud liw ne ddôs ymaith ;
Amgen hyder ni'th weryd,
Ymgudd mor brudd yw dy brÿd.

Y mae yn y cywydd hwn ddernyn prydferth ar y gair "*llwyd*" yn ei wahanol ystyron, yr hwn a arferid gynt i arwyddo *parchus*, *bendigaid*, *addoladwy*, cystal a'r ystyr a roddir i'r gair *llwyd* yn bresennol. Cymmer y bardd arno ddarfod i ryw fenyw y ceisiai gusan ganddi, ddannod iddo fod ci farf yn llwyd, gan ddywedyd,—

Nid hardd fe a'th waharddwyd,
Cusan ar farf lydan lwyd.

Fel ateb i'r ddannodiaeth yna, dywed y bardd fel hyn :—

Blin yw Sôn yn anfon ynn',
Am lwydo rhai aml ydyn.
Llwydion fu 'r saint geraint gu,
Disyml a llwyd yw Iesu ;
Llwyd yw Awyr y Dwyrain,
Llwyd fydd dechreu Lleud fain,
Llwyd yw Rolant llid rhylew,
Llwyd fyth yw 'r Eryr a'r Llew ;
Llwyd oedd lās, Siohasym,
Llwyd fydd, y gra newydd grym ;
Ag am hyn a gymmhennwyd,
Nid gwiw gwneuthur lliw ond llwyd.¹

Y seithfed cyfansoddiad argraffedig a briodolir i Rhys Goch, ond yn anghywir, fel y tybia yr ysgrifenydd, ydyw yr un sy'n dechreu fel y canlyn :—

CORONOG Faban medd Rhys o'r Ryri,
A ddenfyn llynges i Aberteifi
Ag yn swydd Benfro y bydd gweiddi
Pan ddel ai wyr i dir Pryderi.

¹ Gorch. B. Cymru, t. 87.

Coronog Faban medd Merddin Emrys
A gwr a elwir *Johannis Collescensis*
Yn ei Ieuentid y bydd gwr ofnus
Ac yn ei henaint y bydd gwr grymmus.

Coronog Faban a dderbyn i'r Coedgyll
Ac at y gwyr sy 'n cadw 'r Cesydl,
Ac yna codi banerau 'n eu sefyll,
Gwae Arglwydd Rhaglan pan wel y Pebyll.

Coronog Faban pan ddel ei henaint,
Drwy nerth Iesu, pen yr holl-saint
A fyn gyfiawnder i'w holl geraint,
Er ei fod heddyw yn salw ddichwaint.

Coronog Faban a dynn i'r mawredd
O waelod Lloegr y cyrch i'r Gogledd,
Ef yw un asgell a gyfyd o Wynedd,
I ynnill Prydain hynn fydd ryfedd.

Coronog Faban credwch yn ddiâu,
A ddaw a'i lynges i Aberdaugleddau,
Yno cryn Lloegr pan clywir chwedlau
Am un nis bawdd dwr deyrnas faddeu.¹

"Dywedir," medd Iolo Morganwg, "mai Gwaith Rhys Goch o'r Yri yw'r drydedd Gân [sef yr uchod]; nid annhebyg i wir hynny ;"² eithr ymddengys i minnau mai annhebyg iawn i wir ydyw; yn un peth y mae, nid yn unig y llythraeth a'r ieithwedd yn llawer diweddarach na Rhys Goch, ond hefyd y mae'n eglur fod y pennillion wedi eu cyfansoddi *ar ol* i Henry Tudur (Henry VII. wedyn) dirio yn "Aberdaugleddau," yr hyn a ddygwyddodd ar y 7fed o Awst, 1485,³ yn mhen oes hir iawn ar ol marwolaeth "Rhys Goch o'r Ryri."

O barth ansawdd prydyddiaeth Rhys Goch, y mae yn hynotach am ei chywreindeb cynghaneddol ac ieithyddol, nag am ei harucheled meddylol ac awenyddol.

IOLO GOCH ydyw yr unig fardd a nodir, a ddaeth at y "Tri Brodyr Marchwiail" a Dafydd ab Gwilym i'r drydedd "Eisteddfod Dadeni," yr hon a gynnaliwyd ym Maelor ym Mhowys, yn ystod y fl. 1330, dan nawdd yr Iarll Mortimer. Yr oedd Iolo Goch, fel Rhys Goch Eryri, yn "ŵr boneddig tiriawg," yn byw ar ei etifeddiaeth ei hun ym mhlwyf Llanefydd, ger llaw Dinbych. Efe oedd Arglwydd Llechryd; ac enw ei lys oedd Coed Pantwn. Dywedir mai o hono ef y

¹ Iolo MSS., t. 200. ² Yr un, t. 271. ³ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Blog., vol. II., p. 870.

deilliodd Pantwniaid Plas Gwyn, Pentraeth, Mon, y rhai, fel Pantwniaid, sydd wedi llwvr ddiiflanu er ys tua thair blynedd yn ol. O gylch y pryd hyny bu farw yr unig fab a ddygai yr enw; ac yr oedd yr unig ferch o'r enw wedi priodi Sais a'i enw Priestley; a dyna fydd enw y rhai a berchenogant yr ychydig o'r hen etifeddiaeth sydd yn aros, dros ryw ennyd bellach.

Mam Iolo Goch, medd Gruffydd Hiraethog, oedd Iarlles Caerlwytcoed (*Lincoln*). Os felly, ymddengys ei fod yn hanner Normaniad; ond y mae esamplau ar gael ddarfod i hiliogaeth lluaws o'r cyfryw ddyfod mor Gymreigaidd ac eiddgar dros hawliau ac arferion cenedl y Cymry, ac mor eiddigus yn erbyn eu gelynion, ag unrhyw Gymro o waed coch cyfan; megis yr Herbertiaid, y Bassitiaid, y Stradlingiaid, a llu eraill yn y Deheubarth; y Salbriaidd, y Miltwniaid, y Pulestoniaid, a'r cyfryw, yng Ngwynedd. Felly hefyd yr oedd IOLO GOCH, yr hwn a orfoleddai ar ymddangosiad Owain Glyndwr, gan ddywedyd,—

Llyma fyd rhag siffryd Sais,
Mynych iawn y dynunais,
Caerl Arglywydd llawn arwydd llain,
O honom innau 'n hunain, &c.

Ni welais grybwylliaid am dad Iolo mewn un man; ac nid oes neb o'r bywgraffwyr, hyd y gwyddys, yn rhoddi amcan pa bryd y ganwyd ef. Dywedir mai *Edward Llewel* oedd ei enw priod; y cafodd addysg uwchraddol; ei raddio yn M.A. yn un o'r Prifysgolion; a'i fod "yn Ddoethawr yn y gyfraith." Dywed Rhys Jones, fel y Dr. Davies, ei fod yn ei flodau yn y fl. 1400. Eraill a'i dodant yn ei flodau o'r fl. 1315 hyd 1402; 1313—1415; 1313—1440.¹ Cymmerir yn ganiataol gan rai, yn gymnaint ag iddo ganu marwnad i Tudur ab Gronw, yr hwn a fu farw yn y fl. 1315, fod Iolo yn ei flodau y pryd hwnw; ond gallasai ef weled hanes Tudur ym mhen amser ar ol iddo farw, a syrthio mewn cariad at ei ragoriaethau, a-chanu marwnad iddo mewn canlyniad. Beth bynnag am hyny,

¹ Williams's Em. Welshm., p. 244. Geir. Bywgr. I. F., t. 553. Geir. Bywgr. J. T. J., cf. I., t. 583. Cymru O. J., cf. I., t. 677.

tystir ei fod yn Eisteddfod Maelor yn y fl. 1330, yn yr hon yr "addurnwyd ef âg addurn cadair," nid am brydyddu, ond "am ei wybodau a ddysgws Ednyfed ab Gruffydd iddo parth gwybodau cerdd dafod a'i pherthynasau."¹ Pe na buasai Iolo ond 25 oed pan yn yr Eisteddfod honno, rhaid y ganesid ef mor foreu a'r fl. 1305 ; ond dichon iddo gael ei eni ychydig yn gynt, neu ychydig yn ddiweddarach. Ymddengys, gan hyny, iddo ddechreu llenori pan yn bur ieuange ; a cheir gweled iddo barhau i ysgrifenu hyd oedran tra hynafol.

Dywedir iddo ysgrifenu hanes "Tair Talaeth Cymru ;" a bod tua 50 o'i ganiadau mewn llawysgrifen.² Dengys cofres y Dr. Pughe o ysgriflyfrau Myfyr, fod 128 o'i ganiadau yn y gwahanol gyfrolau o'r ysgrifau hyny ; ond ni wyddys pa nifer o honynt sy'n adysgrifau o'r un caniadau. Chwecch o'i ganiadau sy'n argraffedig yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*, ac y mae ei gywydd i Dafydd ab Gwilym yn y casgliad o Farddoniaeth y bardd hwnw. Y mae ei holl ganiadau yn dangos ei fod yn meddu awen uchelryw ; a'i fod yn dra hyspys o arferion a defodau ei amser. O'i holl gyfansoddiadau sy'n hyspys i'r ysgrifenydd, ei gywyddau i Owain Glyndwr sy'n ymddangos yn fwyaf awenyddol a chyffrous. Dywed rhai mai Iolo Goch "oedd Bardd Teulu Owen Glyndwr ;"³ ond y mae hyny yn sicr o fod yn gamsynied ; canys yr oedd Iolo ei hun, fel y gwelwyd, yn ŵr boneddig cyfoethog, yn meddu tiriogaethau cang, a llys godidog yng Nhoed Pantwn. Heb law hyny, dywed Iolo ei hun mai "addaw taith" i Sycharth, llys Owain Glyndwr, a wnaeth, yr hyn sydd brawf pendant nad "Bardd Teulu Owen" ydoedd. Fel y canlyn y dywed efe :—

ADDEWAIS yt hyn ddwywaith,
 Addewid teg, addlaw taith,
 Taled bawb tál hyd y bo,
 Addewid a addawo ;
 Beth anwyl mae'n bwyth uniawn,
 Perwyl, mor anwyl, mawr iawn
 Myned mae adduned ddain,
 Llës yw, tua Llÿs Owain ;

¹Iolo MSS, t. 97. ²Williams's Em. Welshm., p. 244. ³Geir. Bywgr., I. F., t. 573.

Yno yn ddidro ydd áf,
 Nid drwg, ag yno trigaf ;
 I gym'ryd i'm bywyd barch,
 Gyd ag ef, o gýd gyfarch.

Wedi i Iolo fyned i Sycharth, yn ol ei addewid, ymddengys iddo arolygu'r llys, a'i sefyllfa, yn dra manwl ; ac y mae'r darlun a ddyry yn brydferth dros ben. Gellir casglu bod y lle yn ardderchog, ac ystyried yr oes. Cyffelyba'r bardd ef, o ran godidowgrwydd, i Abatty Westminster, Llundain. Yr oedd pob peth perthynol iddo yn odidog ragorol, oddi mewn ac allan. Ond dyma ddarlun prydfferth y bardd o hono :—

Llys Barwn, lle Syberwyd,
 Lle daw Beirdd, am lle da byd.
 Gwawr Bowys fawr, beus faig,
 Gofyniad, gwiw a fynraig ;
 Llyna modd, a llun y mae,
 Mewn eurgylch dwr mewn Argae ;
 Ond da 'r Llŷs, pond ar y llynn,
 Ag unporth, lle 'r ai ganpyn.
 Cypplau sydd, bob cwplws ýnt,
 Cwppledig bob cwpl ydynt ;
 Clochdy Padrig, ffrengig ffrwyth,
 Cloystr Wesmestr, cloau ystwyth,
 Cenglynrhwyn, bob Congl unrhyw,
 Cafell o Aur cyfa oll yw ;
 Cenglynon yn y fronni fry,
 Dordor megis daeardy ;
 A phob un, fal llun llynglwm,
 Sydd yn eu gilydd yn glwm.
 Tai Napl, ar fold deunawplaw,
 Ty prenn glân, mewn topp bryn glâs.
 Ar bedwar Piler eres,
 Ei Lys ef i Nef yn Nês.
 Ar benn pob Piler prenn praff,
 Llofft, ar dalgrofft adeilgraff ;
 Ar pedair Llofft, o hoffder,
 Ynghýd gwplws, clau cwsg cler : •
 Aeth y pedair, disglairlofft,
 Nýth lwyth, tég iawn yn wyth lofft ;
 To teils, ar bob tŷ talwg,
 Simneiai, lle magari mwg.
 Naw Neuadd, cofladd, cyflun
 A naw Wardrob, ar bób un ;
 Siopau glân glwys, gynnwys gain,
 Siop landeg, fal Siop Lundain.
 Croes Eglwys, gylchlwys, galchliw,
 Cappelau a gwydrau gwiw ;
 Pob tu 'n llawn, pob tŷ 'n y llys,
 Perllan, Gwinllan gaer wenllys.
 Gar llaw 'r Llŷs, gorlliwio 'r llall,
 Y pawr Ceirw, mewn Parc arall,
 Parc Cwning, Meistr Pôr cenedl,
 Erydr, a Meirch hydr, mawr chwedl

Dolydd glân gwyran, a gwair,
 Ydau mewn caeau cywair ;
 Melin deg, ar ddifreg ddŵr
 A'i G'lomendŷ, gloyw maendwr.
 Pysgodlyn, cuddiglyn cau,
 A fo rhaid, i fwrw Rhwydau ;
 Amlaf, lle nid yr ymliw,
 Penhwyaid a Gwynniaid gwiw ;
 A'i dri bwrdd a'i Adar byw,
 Peunod, cyhyrod hoywryw :
 A gaith, i bob gwaith fo gwiw,
 Cyfreidiau, cyfair ydyw. ...
 Pebyll y Beirdd, pawb lle bo,
 Pe beunydd, caiff pawb yno ;
 A gwraig orau o'r gwagedd,
 Gwynn y myd o'i gwin a'i medd.
 Merch eglur, llin Marchawglyw,
 Urddol, hael o reiol, ryw,
 A'i blant, a ddeuant bob ddau
 Nythed, tég o beneuthau !
 Anodd, yn lynyth yno,
 Weled, na Chlicced na Chlo ;
 Na phorthoriaeth, ni wnaeth, nêb,
 Ni bydd eisiau, buidd oseb ;
 Na gwall, na Newyn, na gwarth,
 Na Syched, fyth yn Sycharth.†

Ym mhen ennyd ar ol hyn, sef yn y fl. 1400, pan gyfododd Owain Glyndwr wrthryfel yn erbyn trais a gorthrwm y Saeson dan Harri IV., daeth Iolo Goch allan, yn ei hen ddyddiau, dan orfoleddu, fel y crybwyllwyd eisoes, i danio'r Cymry i'w gcfnogi. Fel y canlyn y canai ar y pwngc yma :—

LLYMMA fyd, rhag Siffryd Sais, •
 Mynych iawn a ddymunais,
 Cael Arglwydd, llawn arwydd llain,
 O honom innau 'n hunain ;
 Pybyr chwaen, pawb adwaen pwy,
 Glan Arf, deifrdarf Glynn Dyfrdwy...
 Glan yw 'r Arglwydd mawrlwydd mau,
 Yn dŷal cam y Deau.
 Deall a wnair gywair gân,
 O honaw ef ei hunan :
 Cŷd ddarlloer gloywder glain,
 Tra ewybr, o'r tri Owain.
 Owain, glain dwyrain Glynn Dŵr,
 Baun trasyw, yn benn treisiwr ;
 Owain, arglwyddlain, aur gledd,
 Derfysgwr Deifr Dorf Osgedd :
 Owain hefyd, acrfryd ŵr,
 Rwyg anian Oresgynwr.
 Llyw, llawen yw, Llew, a Nudd
 Llyrf, ffyrf, digrif-ffyrf Gruffydd,
 Llidiog, wrth wŷr y llediaith,
 Llym gledd, bryd ar wedd, brwydr waith.

† Gorch. B. Cymru, t. 76.

Llúdd brenin, yn lladd Brynaich,
 Llew bryd, a Nerth Llaw a Braich ;
 Llew argryd hydr, Llew aergroch,
 Llygra gy rŵb, holl wŷr Lloegr goch...
 Pŵr a ladd mewn ymladdgors,
 Pedwar can mil, o hil Hors.
 Penn nenn pŵr, múr mawr waladr,
 Por glew, Llew llym, cyflym cadr ;
 Pinael Núdd Nŵr, yw 'r Muner, mau,
 Pŵr dôr dâr, yw 'r Gwanar gwinau ;
 Pleidiwr brwydr, paladr briwdwn,
 Poed gwir, bywyd hir, i hwn ;
 Pedr i'w borth, pa dir y bo,
 Pwy mwy 'i swydd? pumoes iddo.¹

Pan oedd Owain Glyndwr ar ben pinael ei lwyddiant, "ymddangosodd Seren wib" anferth ei maint ym mis Mawrth, 1402 ; ac ymaflodd Iolo Goch yn y dygwyddiad, oedd y pryd hwnw mor frawychus ; a haera'i'n ddibetrus mai arwydd anffaeledig o lwyddiant Glyndwr oedd ymddangosiad y seren, un na welodd y byd hwn erioed ei bath ond dwywaith o'r blaen ; a bod y tair fel eu gilydd, yn arwyddo gwaredwyr mawrion a llwyddiannus ; sef,—

Cyntaf fu, er mynnu mawl
 Y Seren dŷg fesurawl,
 A weled gynt, o wlad gain
 Yn nod Aur, yn y Dwyrain ;
 Yn arwydd, cyhuddrwydd eed,
 Geni 'r Brenin gogoned.²
 Minnau, oedd yn ymenny
 Gwn rai, na choelrai y chwyl ;
 Caol Crist, fal y coelia Créd,
 O Fair wry, fawr wared,
 I gadw fry, a gwaed ei fron,
 Rai glân, rhag eu gelymion.
 Yr ail, a fu oreulamp,
 I Uthr gynt, aeth ar y gamp,
 Pan y gweles paun gwiwlu,
 Merddin Meistr ar fyddin fu,
 Dug ynn fryd, digon o fraw
 Galar Emrys, ag wylaw.....
 Arthur, er dim, ni werthyn,
 Hael a ddeallwyd o hyn ;
 Gŵr a ellid ei garu
 Darogan drwy farddgan fu ;
 Gwr rhwydd, gwnaeth a gwayw rhudd-ddellt
 Gwaed ei Elymion i'r gwellt.

¹ Goch. B. Cymru, t. 79.

² Ofrái Pennant fod bwdrwydd y bardd i ddyrchafu ei hoff wron, wedi ei gludo hyd d. i'fyn cabledl, with osod ser Glyndwr ac Arthur yn yr un dosparth a seren lac'awdwr y byd (*Tours. vol. iii., p. 311*) ; a dichen bod yr hen deithwr erfyddol yn gywir ; eithr beth a falisi yr hen fardd am hyn? Cynhyrfu'r Cymry i gefnogi yr hwn y credai efe yn ei galon oedd wedi ei godi i achub ei gene ll rhag trais estroniaid yspeilgar, oedd ei bwngc ef.

A'r drydedd cymmyredd ced,
 I Wynedd wiw a aned,
 Yn anian fawr, yn un fodd,
 Unsail, ag yn un ansodd,
 Yn gannaidd ruddel, felen,
 Yn gadr ei phaladr a'i phenn.
 Pawb achlan o'r lle'r hanwyf,
 A ofyn ym cofn wyf,
 Budd a ddaw i'r llaw lle'r êl,
 Beth yw'r Seren boeth awel.
 Myfi a w'r lwy'r loywryw
 Deall hyn, a dilyn yw.
 Dŵr yw ei phaladr, neu dân,
 A Draig i'r Mab darogan ;
 Ni bu talm, wiwsalm wedd,
 Sêr iawn, i Sir o Wynedd ;
 Ond y Seren eleni
 Sydd o newydd i ni.
 Gem yn arwain yn gymmod,
 Gann Dduw glân, gwnn iddi glod.
 Têg yw'r rhad goleuad gwrrd
 T'wysoges, y tes agwrdd ;
 Tân o fron y tyno fry,
 Tywymoedd Rhad Duw ynny ;
 Lle difoddes dygesynt
 Y dalaith, a'r gyfraith gynt.
 Uchel y mae uwch law Môn,
 Yngolwg yr Angylion ;
 Piler o Aur gorauryw
 Post o gwyr o'r Awyr yw.
 Y naill a gawn gwiwddawn gwŷr,
 A'i Pâb, a'i Brenin pybyr ;
 Brenin, hael am Win, a Môdd,
 Dewr a gawn, o dir Gwynedd ;
 Duw a ddug, fo'n diddigia,
 Gwynedd, i gael diwedd da :
 Golau glân, i gael y glod
 Ag arfau, a'r chwedl gorfod.¹

Gorchfygwyd Owain Glyndwr yn gynnar yn y fl. 1405 ; a gorfodwyd yntau i gymmeryd nawdd ym mhlith ei gyfeillion ; a llechai'n fynych mewn ogofau a lleoedd anghyfannedd ;² ac ymddengys mai o gylch y pryd hyn y canodd Iolo Goch, pan y tybir ei fod tua chant oed, ei gywydd campus a elwir "Cywydd i Owain Glynn Dwr wedi ei fyned ar ddifanwll,"³ yn yr hwn y geilw'r bardd arno ddyfod o wahanol barthau'r byd, i ail feddiannu ei Dywysogaeth, fel y dengys y difyniadau canlynol :—

Y Gŵr hir, nith gar Harri,⁴
 Adlyd aeth, a wyd fyw di ?

¹ Gorch. B. Cymru, t. 84. t. 81. ⁴ Harri IV.

² Pennant's Tours, vol. III., p. 334.

³ Gorch. B. Cymru,

Ag od wyd, a gwayw o dân
 Dyred, dangos dy Darian ?
 O wlad, garw aergad, eurgylech
 Rhufain dwg, Arfau 'n dy gylch ;
 Dwg feddiant, Pedr Sant, dan sêl,
 Drwy iawnswydd, Duw a'r insel.
 Dyred o wlad y Dwyrain,
 Darw mawr, a bwrw dyrau main ;
 Rhwydd y daw, Rheiddiau o dân,
 Rhagod, pawb a'th anrhegan.
 Eryr glwys, dos Iôr o'r Glynn,
 Iarll awchlawf o dir Llychlyn....
 Gollwng, yn gynta gelych,
 Saith Long, a Saith Ganllong gwých ;
 Dyred wrth ddymuned Mon,
 O'r Nordd hyd yn Iwerddon.
 Rhaid yw i ti, rho Duw Tâd,
 Gael Owtils a'u galw attad
 Cyfod, o gïau Galiod glân,
 Cawn glywed, cyn gwyl Ieuan :
 Dyro flam bennadur flîwch,
 Draw yn Nulyn drwy anialwch,
 Gwna Lynges, gain y Longwyr,
 O gynfyl Gwyddyl, a'i gwyr.
 Tyred wr a draeturiwyd,
 O Fanau dir, fenaid wyd....
 Galw gar bron, gwae Loegr o'r brâd,
 Lu Bryttaen, a'i lwybr attad.
 Dyred i'n gwlad, dur iawn glêdd,
 Deyrnaswr drwy Ynysedd ;
 Cynneu dân, cyn oed unawr,
 I oror Môn, Eryr mawr !
 Cûr gestyll, caerau gystudd,
 Cwncweria wal, Cŵn Caer Ludd.
 Cûr a lladd y Wâdd,¹ a'i wŷr,
 Cŷn aur Môn, cûr Normanwyr.
 Dir yw gwnai, darogan oedd,
 Fyd teilwng, o fatcloedd ;
 Gwna frwydr, a gwaith grwydr yn grôch,
 A'r Llew mwyn, Iôr lle mynnoch :
 Gwaith dy Law a ddaw yn ddig,
 Gwŷr meirw a geir ym Merwyg.
 Gwna drwy 'r Haf, gwnn droi 'r Rhod,
 Gymmynu brwydr Gwminod ;

¹ Cyfeiriad sydd yma at broffwydoliaeth Merddin, yr hwn a gyfeiria, yn ol Iolo Goch, a'r beirdd, at ddinystri Harri IV., dan yr enw "Gwadd" (*moldwarp*) ; tra y dywedid mai Glynŵr oedd "Draig" Merddin ; mai Iarll Northumberland oedd y "Llew ;" ac mai Mortimer oedd y "Blaidd." *Pennant's Tours*, vol. iii., p. 349. At yr un traddodiad y cyfeiria Shakespeare, pan y rhodda'r gelriau canlynol yn ngenau Hotspur :—

I cannot choose, sometimes he angers me
 With telling me of the moldwarp and the ant,
 Of the dreamer Merlin and his prophecies,
 And of a dragon and a finless fish,
 A clip-winged griffin and a moulted raven,
 A couching lion and a rampin cat,
 And such a deal of skimble-skamble stuff
 As puts me from my faith.—*Henry IV., Part I., Act II., Scene I.*

Gwna gâd, fal toriad Deri
 Fochnoi a hŷn, fŷch na hi.
 Gwna daith, yn rhyd Glynn Iaithon
 Gwŷr lawer a Maner Môn :
 Gwna naw Cád, yn daladwy,
 Yn un modd, ag na wna mwy.
 Deigr Cadwaladr Fendigaid,
 Dyred a dwg, dir dy daid.
 Dyga rann, dy garenydd,
 Dwg ni onn rhwym, dygn yn rhydd.

Dengys y cywydd yma, fel holl ganiadau Iolo Goch, nid yn unig ei fod yn fardd gwych, ond hefyd yn llenor dysgedig, a hancysydd manwl. Dengys cynnwysiad y *Llyfr Coch o Hergest* fod tair o ganiadau Iolo yn hwnw; ond ni fynegir beth yw eu testynau.

Cofres o Amserau ac Enwau Llenorion y "Tair Eisteddfod Dadeni"; a chrybwylliad am eu Cyfansoddiadau.

- 1280—1329 Llywelyn ab Gwilym Fychan.
 1300—1368 Dafydd ab Gwilym, argr. ac ysgr.
 1300—1420 Rhys Goch Eryri, argr. ac ysgr.
 1305—1368 Sion y Cent, argr. ac ysgr.
 1305—1405 Iolo Goch, argr. ac ysgr.
 1310—1330 Ednyfed ab Gruffydd, ysgr.
 1328—1330 Llywelyn ab Gruffydd (Llywelyn Llogell Rhison), ysgr.
 1328—1370 Madog ab Gruffydd (Madog Benfras), argr. ac ysgr.

¹ Cors Fochno sydd Fawnog eang ar ochr ddeheuol i forgalnec Aberteffi, yn cyrhaedd hyd fryniau Ceredigion. Tybia Skene vol. i. p. 64, &c. i ryw ymrysonfa bwysig ddygwydd yn y llanerch honno sydd guddledig dau y chwell, trwy'r hon y cafodd Maelgwn Gwynedd y llaw uchaf ar dri brenin arall Cymru; a dyfala efe mai'r ymrysonfa honno, ydyw "Gwaith Cors Fochno" y beirdd.

PENNOD VI.

LLENYDDIAETH CYDOESWYR BOREUAF LLENORION Y TAIR EISTEDDFOD
 DADENI; TRAHAIARN BRYDYDD MAWR; GWILYM DDU O ARFON;
 LLYWELYN BRYDYDD HODNANT; HILLYN; SEFNYN; IORWERTH AP
 Y CYRIOG; CASNODYN; GRUFFYDD AB MEREDYDD AB DAFYDD;
 MADOG DWYGRAIG; IORWERTH FYCHAN; LLYWELYN DDU;
 RHISIERDYN; IORWERTH BELI; GRUFFYDD AB D. TUDUR;
 PRYDYDD BREUAN; COFRES O AMSERAU AC ENWAU Y LLENORION
 BOREUAF A GYDOESENT A BEIRDD Y "TAIR EISTEDDFOD DADENI."

YS y bennod hon ymdrinir â llenyddiaeth y beirdd boreuaf a gydoesent dros ryw dymmor, fel y tybir, â'r beirdd oedd yn y "Tair Eisteddfod Dadeni," y rhai a flodeuent, cyn belled ag y gellir casglu oddi wrth eu gwaith a'u cydoeswyr, o gylch diwedd y 13edd ganrif hyd tua chanol y 14edd.

TRAHAIARN BRYDYDD MAWR AB GRONWY, oedd un o'r rhai boreuaf, fel y tybir, o'r cyfnod a nodwyd. Dyry cynnwysiad y "Llyfr Coch"¹ ef yn ei flodau yn y fl. 1380; a dyna yr amser a ddilynwyd gan Ed. Llwyd, y Dr. Davies, a Richards, a hyny yn ddiau, heb chwilio dim i unrhyw broffion craill. Yng nghynnwysiad y *Myryrian Archæology*, dodir ef yn ei flodau o'r fl. 1300 i 1360. Dywedodd y Dr. Pughe,² ar awdurdod Iolo Morganwg, fel yr ymddengys, fod Trahaiarn yn llywyddu mewn Gorsedd Beirdd ym Morganwg yn y fl. 1300; "ond," medd Davies (*Y Celtic*), "yr amser a rydd yr hynafieithydd dysgedig, Ed. Llwyd i'r un Trahaiarn yw O.C. 1380;³ a hyn o'r 'Llyfr Coch o Hergest,' ysgriflyfr a ysgrifenydd o gylch diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg,⁴

¹ Cambro-Briton, vol. ii., p. 108.

² Introd. to Llywarch Hen's Poems, p. 62.

³ Arch. Brit., p. 264.

⁴ "Casgliwyd y *Llyfr Coch*," medd Skene (vol. i., p. 3), "ar wahanol amserau yn y 14edd ganrif a'r 15fed." Dywed Ed. Jones (*Mus. & Poet. Rel.*, vol. i., p. 16) mai Lewis Glyn Cothi a adysgrifeno'd y rhan fwyaf o'r caniadau a'r cofnodau a geir yn y *Llyfr Coch* (yr hwn sydd fyth yng Ngholeg yr Iesu yn Rhydychain, o ysgriflyfr pur hen a elwir "Llyfr Hergest." Gwyddys bod y gan olaf o waith L. G. Cothi yn dyfod i lawr hyd mor ddiweddar ag 1486, dros gan mlynedd yn ddiweddarach yn oed na'r amser a rydd cynnwysiad y *Llyfr Coch* i oes Trahaiarn. Os L. G. Cothi a adysgrifeno'd y *Llyfr Coch*, y mae'n dra thebyg mai efe a wnaeth y cynnwysiad, yr hwn, fel yr ymddengys yn eglur, a wnaed ar amcan, heb ymgynghori a chaniadau y bardd. fel y profir genym uchod gyda golwg ar Trahaiarn.

pan y rhaid y gwyddid oes y bardd yn fanwl. Nis gallai, gan hyny, lywyddu yn y fl. 1300, na chael ei ddilyn gan y gwŷr a gofnodir fel ei olynwyr;¹ ac fel hyn y mae hanes *gadarnhaol* sefydliad y Gadair yn dangos cyfuniad o dwyll ac anwybodaeth.²

Er bod yr ysgrifenydd mor bell o gydsynio a chymmeradwyo syniadau y Dr. Pughe a Iolo Morganwg am heddychlondeb a chrefyddolrwydd "Barddas," ag ydyw o dderbyn mympwyon Davies am hanfod Derwyddiaeth Baganaidd ym mhlith beirdd y 6ed a'r 12fed ganrif; eto, profir mai'r difyniad blaenorol o eiddo Davies ei hun, ac ymadroddion eraill cyffelyb o'i waith, sy'n "dangos anwybodaeth" ar hyn o bryd; cystal a hygoel-dd (ni ddywedaf "twyll"), ei wendid arferol ef.

GWILYM DDU O ARFON a ddodir yn ei flodeu yng nghynnwysiad y *Llyfr Coch*, a chan Ed. Llwyd, y Dr. Pughe, y Dr. Davies, a'u dilynwyr, yn y fl. 1400;³ ond gwyddys hyd sicrwydd bod Gwilym Ddu yn ei flodau yn 1322, pan y canodd ddwy o gerddi lled feithion i "Syr Gruffudd Llwyd o Dref-Garnedd a Dinorweg yn Arfon," pan oedd yng ngharchar⁴ yng Nghastell Rhuddlan.⁵ Dechreu y gyntaf fel hyn:—

NEUD cynnechrau Mai mau anrhydedd
 Neud aeth ysgwaeth a maeth a medd
 Neud cynhebyg ddiig ddygn adrosedd drist
 Er pan ddelid Crist weddw athrist wedd
 Neud cur a lafur im wylofedd
 Neud cerydd Dofydd nad rhydd rhuddgledd
 Neud cof sy ynnof ys anwedd ei saint
 Neud cywala haint hynt diryfedd
 Neud caeth im dilyd llid llaweredd
 Neud caith Beirdd cyfiaith am eu cyfedd
 Neud caethiwed ced nad rhydd cydwedd Nudd
 Cadrwalch Ruffudd brudd breiddin tachwedd.

Y mae llythraeth, geirweddiad, a lled gynghanedd y gerdd hon, a'r ddwy eraill o waith Gwilym Ddu, yn arwyddo'n gryf

¹ Y gwyr hyny oedd Hywel Bwr Bach, llywydd y Gadair yn 1330; Dafydd ab Gwilym, llywydd yn 1360; a Ieuan Hen, llywydd yn 1370 (*Introd. to Ll. Hen's Poems*, pp. 62, &c.); a dangoir uchod fod yn eithaf dichenadwy iddynt ddilyn Trahaiarn fel llywyddion Cadair Morganwg yn yr amseroedd crybwylledig.

² Davies's *Myth. of the Druids* p. 33. ³ "Bardd y Brenin," yn llawer nes i'r gwir amser, ar hyn o bryd, a'i dyd yn ei flodau yn 1320. ⁴ Han. Cymru Carnh., t. 766. ⁵ Myv. Arch., t. 275-6.

iddynt gael eu cyfansoddi o gylch yr amser a briodolir genym iddynt, sef yn lled gynnar yn y 14edd ganrif; rhyw bump neu chwe blynedd cyn y gyntaf o'r "Tair Eisteddfod Dadeni." Yr unig gân, heb law y ddwy i "Gruffudd Llwyd" a nodwyd eisoes, o waith Gwilym Ddu a ddaeth hyd atom ni, yw "*Marwnad* Trahaiarn Brydydd ap Gronwy," a elwir hefyd, "Trahaiarn Brydydd Mawr;" yr hon farwnad, yn ol pob tebyg, a gyfansoddwyd gan Gwilym o gylch yr un amser a'r ddwy gân eraill a nodwyd. Gan hyny, yn lle bod Trahaiarn yn ei flodau yn y fl. 1380, yn ol y "Celtig Ddafis," a'i awdurdodau, dyma fe wedi marw, o ran dim prawf a ellir ei gael i'r gwrthwyneb, mor foreu ag o gylch y fl. 1322. Yn awr, od oedd y bardd tua 60 oed pan yn marw, yr oedd o gylch 38 oed yn y fl. 1300; oedran digon cyfaddas i ŵr fod yn Llywydd Cadair Farddol. Gan nad yw marwnad Gwilym Ddu i Drahaiarn ond ber, a'i bod, ar y cyfan, yn ddigon darllenadwy i'r cyffredin, ac yn esampl pur deg o ddull barddoniaeth foreuol cyfnod y testyn, difynir hi yma yn gyflawn:—

FFRWYTHLAWN a chyfiawn a chyfoeth y gerdd

Gwrdd Drahaiarn eirgoeth

Ffawd gwyr oed nawd gward noeth

Ffraeth dafawd detholwawd doeth

Doeth ynn gwyn o'i ddwyn o'i ddawn gynnydd

Detholydd brydydd brawd ffydd ffyddlaw

Doethfab rwy Gronwy gair uniawn syberw

Doeth dichwerw ei ferw hyd wlad Feiriawn

Dyhir na welir waladr nawn cerddau

Dihau i'w anghau dagrau digrawn

Da fu ffawd y wawd i Wrawn ddewin

Da Fyrddin a'i lin o lwyth Meirchiawn

Da Lefocd erioed da radlawn arddelw

Da arddelw cynnelw Cynddelw ceinddawn

Da Elidir gwarant iawn ganon

Gwr o ddoethion Môn mynweseigiawn

Da Lywarch cyfarch cyfenw iawn urddas

Da Ddafydd Benfras digas digawn

Da o Ddyfed ced Cadwgawn Ruffudd

Da o'r iaith ddigudd araith Wgawn

Da oedd rhwng caeroedd Ceredigiawn rym

Phylip a Gwilym aethlwm wythlawn

Da gyfnyn un Einiawn ap Gwalchmai

A ganai ffynnai fal berw ffynnawn

Da gneppyn werthryn a Werthryniawn dud

Oedd gerdd esgud lud Ladin gyfiawn

Llygad gwr oedd dŵr Edeyrniawn artal

Odid ei gystal yniail uniawn

O dudwed fawr lled hyd fôr llawn yngwy

Hyd Gawrnwy fudd rhwy ar fedd Rhuawn
 Trahaiarn o'm barn am beirniawn cerddraidd
 Oedd blaid pencerddiaid ceiniaid cammawn
 Trindawd tros folawd fal y gwnawn i'th fraint
 Trwy eirioled saint ceraint carawn
 Tro raid i'w enaid i uniawn gymwys
 Trefred Baradwys fraethlwys ffrwythlawn
 Ffrwythlawn a chyfiawn, &c.¹

Er maint molawd Gwilym Ddu i'w "brydydd brawd ffydd fyddlawn," y mae yn amhosibl i'r darlennydd ystyriol beidio cydsynio â'r "Celtig Ddafis" fod "Duchan" trahaus a dialgar Trahaiarn i Cadwgan Llan Gynawg, yn amlygu yspryd brwnt a dialgar, rhy gydnaws â chymmeriad llawer o'r beirdd mewn gwahanol oesau, canys od oes awdurdod yng nghynnwysiad y gân faleisus honno, gellir casglu'n ddigon teg mai ar gymhelliad, os nad trwy gymhorth, y bardd llidiog yn ei "Duchan Nos Nadolig," y llosgwyd tai Cadwgan "y Calan nesaf," "ac y llas ei ddaw!" Os cofir mai yr unig achos o'r holl ddialedd barddonol yma, oedd i'r cler prydyddol gael salach gwledd a chroesaw ar ei ymweliad clerwraidd â Chadwgan y Nadolig nag a ddisgwyliai efe, ymddengys ei ymddygiad yn dduach fyth. Yr oedd yn bur anhawdd boddloni cler cardodaidd pendefigol yr oesau hyn â bwyd a diod; a diau bod "llymru a llaeth" Cadwgan yn dra chroes i archwaeth Trahaiarn glerwr, yn lle cig, gwin, a medd. Weithian dodir y darn o'r "Duchan" ger bron, sydd yn dangos drwgddymuniad, os nad bygythiad y clerwr, fel y gallo'r darlennydd farnu drosto ei hun:—

TRALLWM Gadwgan gyd ogan a'i ferch
 A'i farch ddaw grabidan
 Angall a nifer mall man
 Ar Gronwledd fuchedd fechan
 A gwilio fawdro ef oedd fwdran llynn
 Llan Gynawg fab Brychan
 Mudfa oedd ddau dduw Calan
 Lle y bai llanw ei dai o dan
 Ulltach ewingrach ei wan a rhudd-gledd
 Oedd rwydd glod gyflafan
 Alltud secreulyd succan
 Ail breiniad albrwn gwlad gwlan²

Ni buasai fawr o bwys ym mygythiad y clerwr yma, oni buasai i dai Cadwgan gael eu "llanw o dân," ac i'w ddaw gael ei lofruddio mewn gwirionedd "y Calan nesaf." Y mae'n

¹ Myv. Arch., t. 277. ² Yr un, t. 332.

eglur hefyd wrth gân Trahaiarn i Hywel o Landdingad¹ (yr unig gân arall o'i waith sy'n gyhoeddedig), mai ar y cler-brydydd ei hun y bwrid y bai o'r *llosgiad a'r llofruddiad*; ac am hyny diarddelwyd ef o deulu Llanddingad, yn ol ei haeddiant, a gorfodwyd ef i fod yn grwydryn angenus am hir amser; a baich ei gân i Hywel yw gwadu'r cyhuddiad, ac erfyn am dderbyniad yn ol i'r teulu; ond ni wyddys y canlyniad.

Tybia'r Dr. Pughe mai yr un gŵr oedd y prydydd dialgar hwn a'r un a ymgyfenwa yn Casnodyn;² ond nis gall yr ysgrifenydd ganfod prawf o hyny yng nghaniadau y ddau, nac ym marwnad Gwilym Ddu i Trahaiarn; ond ymddengys eu bod yn cydoesi dros ryw yspaid, fel y ceir gweled rhag llaw.

LLYWELYN BRYDYDD HODNANT ydoedd fardd o fro Morganwg, yr hwn oedd yn ei flodau, yn ol cynnwysiad y *Myv. Arch.*, o'r fl. 1280 i 1330. Dwy ganig fechan o'i waith ef sydd gyhoeddedig, "I Ieuan ap Gr. Voel."³ Dechreu y flaenaf fel hyn:—

KYUEILLT grym yssym nys amheir
Kyueillt beirdyon yw vy llyw llaunhir
Kyueillt hynot glot a gludir vwyvwy
Kyveillt alwy rwy ny ry geblir.

HILLYN oedd fardd yn ei flodau yr un amser a'r olaf a nodwyd, yn ol yr un awdurdodau, sef o'r fl. 1280 i 1330. Dwy gân fer o'i waith yntau sydd wedi eu cyhoeddi, hyd y gwyddys; y ddwy i "Ieuan Llwyd," mab yr "Ieuan ap Gr. Voel" uchod. Wele'r pennill cyntaf o'r flaenaf:—

KLOT vuan ieuau ieuang dirion hael
Walch ehelaeth rodyon
Kludeis o vat vawrwlat von
Klot ys yrot is Aeron.⁴

Y mae cynghanedd y ddau fardd a nodwyd olaf, yn arwyddo bod yr amser a briodolir iddynt yn lled agos i gywir.

SEFNYN, yr hwn hefyd a elwid GWILYM SEFNYN, ydoedd frodor, fel y tybir, o Lanbabo, ym Mon. Dywedir yng nghynnwysiad y *Llyfr Coch*, a chan y Dr. Davies, ei fod yn ei

¹ Myv. Arch., t. 331. ² Cambr. Blog., p. 330. ³ Myv. Arch., t. 277—8. ⁴ Yr un, t. 278

flodau yn y fl. 1450 ; a dyry'r naill a'r llall IORWERTH AP Y CYRIOG yn ei flodau yn y fl. 1460.¹ Y mae yma gam amseriad amlwg, ac arwydd eglur bod awdwr cynnwysiad y *Llyfr Coch* yn amseru y beirdd heb ymgynghori â'u gwaith ; a'r Dr. Davies, ac eraill, yn ei ddilyn yr un modd. Nid yw yr ysgrifenydd am honni bod ei amseriadau yntau yn gywir bob amser ; ond ymdrecha yn wastad eu gwneud yn gyson, trwy ymgynghori â gwaith yr awduron eu hunain, hyd y gallo. Yr amser a ddodir i SEFNYN yng nghynnwysiad y *Myv. Arch.*, yw 1320—1370 ; ac i IORWERTH AP Y CYRIOG yw, 1320—1360 ; a dyma yr amseriadau a ddodir gan ein bywgraffwyr,² ac y mae'n ddiammheu eu bod yn llawer nes i'r nod na chynnwysiad y *Llyfr Coch*. Yn wir, pa bryd bynnag yr oedd *Sefnyn* yn bucheddu, y mae ei Farwnad i Iorwerth ap y Cyriog yn profi tu hwnt i ddadl ei fod wedi byw ar ol y bardd hwnw.³ Ymddengys hefyd iddo gyfansoddi ei farwnad yn fuan ar ol marwolaeth y bardd. Mewn un man o honi efe a ddywed fel hyn :—

Dygnaf Duw eurnaf diwarnawd dygnddu
Fu ddoe gan dri llu ddogn o drallawd
Dwyn eurwas difas dafawd diwecry
• I dy dirwely daear waelawd

Eto, dywed mewn man arall o'r gân :—³

Eurawdd Iorwerth geinferth gân
Erlynedd gwir gyfedd gwin
Arawd tég o orau tôn
O rodd Duw a eurawdd dyn
Dyn doethbwyll didwyll dodlais floedd gyngherth
Dwyn Iorwerth lwysferth lais
Araf i dref oer fu drais
I waelawd llawr a welais
Gwelais am fardd hardd hylithr
Gwedi darllain gwawd eurllythr.
Baradwysaidd berw disathr
Bridd a derw breuddwyd aruthr.

Heb law y gwelir yma yn gwbl ddiawmys fod *Sefnyn* wedi byw ar ol *Iorwerth ap y Cyriog*, canfyddir hefyd bod *cynganedd* lled gaeth wedi dyfod i arfer pan ganai Sefnyn y farwnad dan

¹ Cambro-Brit. vol. ii. p. 109 ; Author. Brit. Nom. S. F. Gwilym Sefnyn ; Ior. ap y Cyriog. ² Williams's Em. Welshm., p. 471 ; Geir. Bywgr. I. F., t. 933 ; Geir. Bywgr. J. T. J., cyf. ii., t. 542. ³ Myv. Arch., t. 334.

sylw, yr hyn a'i gesyd yn ddiffael yn lled agos i'r amser yr oedd cynghanedd yn dechreu dyfod i fwyfwy o arfer mewn barddoniaeth Gymreig gymmeradwy. Ond y mae genym ddwy gân arall gyhoeddedig o waith Sefnyn *heb* ond y "gynghanedd braidd gyffwrdd" ynddynt;¹ yr hyn a esyd y rhai hyny mor ddiffael tua diwedd y 13edd ganrif, neu yn gynnar yn nechreu cyfnod y testyn. Dyma enghraifft o un o'i ganiadau digynghanedd :—

Pebylliwys fy llyw yn llu hyfryd praff
 Ar prýffwn o Wynedd
 Gorthroai drai draws a hyd
 Gorthir y gelwir gerwryd
 Pebylliwys fy rhwyf yn rhwyd gwrdd gynnygn
 Gwyr gynnif ym mhlymnyd
 Yngwendud glud yd glywyd
 Yngwenwen befr bell o Glwyd.

Dyfelir gan hyny bod Sefnyn yn bucheddu rywbyrd rhwng 1280 ac 1370 ; sef hyd onid oedd y gynghanedd wedi dyfod i gryn fri ym mysg y Beirdd Cymreig, fel y prawf gwaith y beirdd oedd yn y "Tair Eisteddfod Dadeni," ac eraill o'u cydoeswyr.

Os llwyddwyd i symmud peth o'r tawch oddi ar amser *Sefnyn*, y mae amser *Iorwerth ap y Cyriog*, testyn ei farwnad gywrain, yn aros eto i raddau yn y niwl ; a hyny o blegid bod y ddwy ganig o waith Iorwerth sydd wedi eu cyhoeddi yn llawn cynghanedd ; y gyntaf "I Ferch,"² a'r llall "I Dduw." Dodir yma esampl fer o ddechreu yr olaf :—

BRENIN gorlle6in g6r a'n lly6ia
 Broydd a gorthir brig tir terra
 Breinia6l nen d6yfa6l na'n difa erom
 Oni benytiam ia6nboen et6a
 Breisgior dor d6yrain cein amcana
 Br6ysgedd ala6edd ynn na li6ia
 Brycheu eneidiau Ion oeda cy6yd
 Bryd pa6b ai g6rthyd ai g6arthaa
 Beirnad byd ein Tad cofiad cyfa
 Barnia6dr ammera6dr meir6 obeithfa
 Bernych pan rennych w6r Anna arnam
 Y cam ry6naetham na rynoetha.

¹ Myv. Arch., t. 338.² Yr un, t. 335.³ Yr un, t. 353.

Pa wedd bynnag, ymddengys bod Sefnyn, yn y llinellau blaenaf o'i farwnad i Iorwerth, yn taflu digon o oleuni ar ei amser, trwy ei alw yn "facwy," sef *gwr ieuangc*, fel hyn :—

MYGR-DDUW hardd mae hardd balchffawd cyfannedd
 Mewn bedd modd buchedd maddeu ei bechawd
 Moes ras molt pariad parawd digrifaiith
 Maith mawrddwyn gwindaiith Myrddin geudawd
 Macewy mau fordwy myfyrdawd garwffloedd
 Mad oedd mau wisgoedd mwrai wasgawd.¹

Cesglir oddi wrth hyn, a chaniadau Iorwerth ei hun, mai rhywbryd rhwng 1330 ac 1360 yr oedd efe yn bucheddu, ac iddo farw yn ieuangc, pan yn "facwy;" a'n hesgus dros ei ddwyn i sylw yn y lle hwn, yw ei gyssylltiad â Sefnyn trwy gyfrwng ei farwnad.

Y mae genym enwau, ac ychydig o gyfansoddiadau, naw o feirdd eraill, y rhai a roddir oll yn eu blodau yng nghynnwysiad y *Myv. Arch.* rhwng y fl. 1290 ac 1340; ac felly yn cydoesi dros dymmor lled faith â beirdd y "Tair Eisteddfod Dadeni;" sef oeddynt, Iorwerth Fychan, Llywelyn Ddu, Casnodyn, Rhisieryn, Gruffydd ab Meredydd ab Dafydd, Iorwerth Beli, Gruffydd ab Dafydd ab Tudur, Madog Dwygraig, a'r Prydydd Breuan.

Y mae amryw o'r beirdd hyn wedi canu ar destynau mor debyg i'w gilydd, megis anerchiadau, mawlgerddi, marwnadau, a mân gerddi crefyddol ac ofergoelus, fel y byddai manylu arnynt oll yn sicr o flino'r darllynydd â gormod unrhywiaeth; a gellir dywedyd yr un peth am luaws o'r beirdd a'u dilynasant yn y canrifoedd dyfodol. Gan hyny, yn lle manylu arnynt oll, dodir cofrestr o'u henwau, eu hamserau, a chrybwylliad am eu cyfansoddiadau, ar ddiwedd y pennodau; canys dyry hyny fwy o le i fanlyu ychydig ar y prif gyfansoddwyr a'u cynnyrchion.

CASNODYN a ystyrir yn fardd gwych yn ei amser. Y mae pump o'i ganiadau ef yn y *Myv. Arch.*;² ac y mae y gynghanedd sydd ynddynt yn profi bod yr amser a briodolir

¹ *Myv. Arch.*, t. 334. ² *Yr un*, t. 263—7.

iddo, pan yn ei flodau, yn lled gywir. Y gân gyntaf yw "Clod I Wenlliant Verch Cynan," yr hon sy'n dechreu fel hyn :—

MOLAF ia6n y da6n gne g6a6n gwawthwec
Eiliw ewynriw gwynwiw gwaneç
Eiliais hynot glot gloywdec Wenlliant
Eilia6d y molynant mil ych6anec.

Ail gân Casnodyn yw "Awdl i Ieuan Abad Aberconwy ; 3, "Awdl i Ieuan ab Gruffydd ;" 4, "Awdl Marwnad Madawc ;" 5, Cân "I'r Drindawd." Y mae hon yn gân lled faith, yn cynnwys 290 o linellau ; ac wedi ei dosparthu yn naw o adranau. Dengys y gân hon, fel caniadau eraill Casnodyn, fod y bardd yn meddu awen brydyddol uchelryw ; a'i fod yn bur gynnefn â duwinyddiaeth lygredig ac ofergoelus ei oes.

GRUFFUDD AB MEREDYDD AB DAFYDD ydoedd frodor, fel y tybir, o Fon ; ac ystyrir ef yn fardd galluog. Y mae 28 o'i ganiadau yn y *Myv. Archaeology*.¹ Anerchiadau a marwnadau ydyw 15 o honynt ; sef, "I Dudur Vab Gronwy o Benmynydd," Mon ; "I Oronwy Fab Tudur ;" "I Oronwy Fychan ;" "I Howel ap Gruffudd ;" ac "I Wenhwyfar o Fon." Dechreu marwnad yr olaf fel hyn :—

HAUL Wynedd neud bedd nid byw unbenes
Heb ynnill ei chyfryw
Henw gorhoffler a dleryw
Hoen lloer hun oer heno yw
Dygn ymyrraedd gwaedd bu gwael ymylchlawr
Tros mwyalchliw ddwyael
Dyn aur a fu 'n dwyn urael
Deune haulwedd heil-fedd hael.

Caniadau crefyddol ac anerchiadau ydyw'r gweddill o'i farddoniaeth ; a dangosant oll fod y bardd yn bur hoff o'r gynghanedd oedd ar arfer yn ei amser.

MADOG DWYGRAIG. Deg o ganiadau y bardd hwn sydd yn y *Myv. Arch.* ;² pump yn anerchiadau a marwnadau, a phump o dduchangerddi i wahanol bersonau. Y mae rhai o'r cerddi olaf hyn wedi eu hysgrifenu mewn iaith a ystyrir yn awr yn hollol anwedus ac aflednais. Dodir enghraifft fer yma o'r un sy'n ymddangos i mi y goethaf o honynt :—

¹ *Myv. Arch.*, t. 293—317. ² *Yr un*, t. 321—326.

Ystyried bobloedd ystoria Deicyn
 Ni med aer o dir da
 Helm drasur hylam drwsa
 Hil gwrach nid o ddwyach dda
 Wedi cael gafael ar gyfa Wenllys
 Lle yr oedd winllad gwyrda
 A'i seigiaw Deicyn swga
 A'i barch gan glei oedd a'i ba
 O'i gydfod isod ar fro Asa sant
 Lle yr oedd saint a chyrchfa
 Eithinog refr aeth yna
 Fal ei ddwyn yn falch o'i dda
 Luciffer y gler gloria faw ddeicwst
 Fu Ddeiccyn o'i draha
 Ceiliawg yw penfrith cwla
 Ceifn bran ydyw 'r cefn heb ra.

Cofres o amserau ac enwau y llenorion boreuaf a gydoesent
 a beirdd y "Tair Eisteddfod Dadeni":—

- 1280—1322 Trahaiarn Brydydd Mawr, argr. ac ysgr.
 1280—1330 Hillyn, argr. ac ysgr.
 1280—1333 Llywelyn Brydydd Hodnant, argr. ac ysgr.
 1280—1370 Sefnyn, argr. ac ysgr.
 1290—1330 Gwilym Ddu o Arfon, argr. ac ysgr.
 1230—1340 Casnodyn, argr. ac ysgr.
 1290—1340 Gruffudd ab Meredydd, argr. ac ysgr.
 1290—1340 Madog Dwygraig, argr. ac ysgr.
 1290—1340 Iorwerth Fychan, argr. ac ysgr.
 1290—1340 Llywelyn Ddu, argr. ac ysgr.
 1290—1340 Rhisierdyn, argr. ac ysgr.
 1290—1340 Iorwerth Beli, argr. ac ysgr.
 1290—1340 Gruffudd ab D. Tudur, argr. ac ysgr.
 1290—1340 Prydydd Breuan, argr. ac ysgr.
 1330—1360 Iorwerth ap y Cyriog, argr. ac ysgr.

PENNOD VII.

LLENYDDIAETH GRUFFYDD GRYG; THOMAS AP EINION OFFEIRIAD; DAFYDD DDU O HIRADDUG; DAFYDD NANMOR; RHYS GOCH AP RHICERT; HYWEL AP RHYS; GRUFFYDD AP ADDA AB DAFYDD; LLYWELYN GOCH AB MEURIG HEN; LLEUCU LLWYD; COFRES O ENWAU, AMSERAU, A CHYFEIRIAD AT GYFANSODDIADAU Y GWEDDILL O LENORION YR HANNER CARRIF CYNTAF O GYFNOD Y TESTYN.

YN y bennod hon ymdrinir â llenyddiaeth y llenorion oedd yn dechreu bucheddu, crystal a dechreu llenyddu, tua dechreu cyfnod y testyn; ac yn cydoesi, wrth reswm, â beirdd y "Tair Eisteddfod Dadeni." Yr oedd y beirdd y pryd hyn yn bur lluosog; ond y mae rhai o honynt heb ddim ond eu henwau ar gael, tra nad yw cyfansoddiadau rhai eraill ond ychydig a dibwys; gan hyny, ni sylwir yma ond ar lenyddiaeth y prif gyfansoddwyr; eithr dodir cofres o honynt oll, hyd y gellir, ar ddiwedd y bennod, fel y gwnaed eisoes yn y pennodau blaenorol.

GRUFFYDD GRYG ydoedd fardd awenyddol, a breswyliai, yn ol Williams,¹ yn Mhenmynydd, Mon; ond Angharad Llwyd a'i dyd yn Aberffraw;² ac y mae crybwylliad yn un o gywyddau Gruffydd, mewn gwrthateb i D. ab Gwilym, yn ymddangos yn bleidiol i A. Llwyd; sef,—

Y mae saith o Gymdeithion
Ym yn Aberffraw ym Mon.

Dr. Davies, a'i ddifynwr Richards, wrth reswm, a ddodant Gruffydd Gryg yn ei flodau yn y fl. 1400; ond dengys cywyddau ymryson Gruffydd a D. ab Gwilym yn eglur bod y ddau o gylch yr un oedran; gan hyny rhaid bod Gruffydd wedi ei eni tua'r fl. 1300; a'i fod yn ei flodau o gylch 1330 neu 1340; a gwyddys iddo fyw ar ol Dafydd ab Gwilym, dyweder hyd y fl. 1370.

¹ Williams's Em. Welshm., p. 188. ² A. Llwyd's Hist. of the Island of Mona, p. 390.

Yr hyn a hynododd Gruffydd Gryg yn benaf, yw ei gerddi ymryson â D. ab Gwilym. Ymddengys mai Gruffydd a ddechreuodd yr ymrafael, trwy edliw i Dafydd ei draserch at Forfydd, fel yr ymddengys yn ei gerddi. Dechreu fel hyn :—

Truan mor glaf yw Dafydd.

Yna dywedodd Dafydd mai benthycy cerdd yr oedd Gruffydd; ac i'r cyfryw haeriad, etyb Gruffydd, gan ddywedyd,—

Dywed gelwydd, myn Dewi !
A phrofer pan fynner fi.

Cynnyddodd y ffrwgwd i'r fath raddau o'r diwedd, nes y collodd Dafydd ei amynedd yn llwyr; ac anfonodd her focsachus i Gruffydd i ymladd â'r cleddyf cystal ag â'r pin ysgrifenu, yn yr ymadroddion bostgar canlynol :—

Deuwn i gyd, da fyd fu,
Lawlaw rhwng dau loywlw :
Ymbrofw, od ym brifeirdd,
A dau dafawd, hyrddwawd heirdd ;
A dwy geidd serth, dig y'r son,
A'n deugorff ffynnedigion !
A'n dau dafawd, breuawd braw,
A deulafn dur i'n dwylaw ;
A gwedi hwrdd ar heirdd wychdraed.
Ac o ryfel a êl, aed !¹

Derbyniodd Gruffydd yr her frolgar yn y fan; a dechreuodd ymbarotoi yn ebrwydd i ymladd â'r cleddyf cystal ag â'r ysgrifbin, fel y dengys y llinellau canlynol :—

Dafydd pam nad edifar
Dyfu'r hyn a fu o far?
Amlwg dy chwant i ymladd,
Aml am ras a mul am radd :
O'm nwyf nad arhowyf yr haf ;
A chael fy mun o chiliaf ;
Er unfardd ofer ynfyd,
Droedfedd, na modfedd, fy myd !
Mawr dy son am ddigoni,
Meddyt, dewr iawn oeddit ti !
Dewis Dafydd, a dywaid
Ym beth a fynnych, neu baid !
Ai ymsang ŵr eang ŵg !
Am radd, ai ymladd amlwg ?
Mae rental, mi a wrantwn,
Ar led dy gwewill twll twn ;

¹ Barddon. D. ab Gwil., t. 245.

A llwydd yn ngwydd llu dengwaith,
 Ymbrofi â thi a'th iaith !
 Ni wys o gorff na orphwyf,
 Neu o gerdd, anniog wyf !
 Down i gyd, gwŷr dinag ŷm !
 A deugledd odidowglyn ;
 Prifenw'n dysg, profwn ein dau,
 Pa wr yn mrwydr, pwy orau !
 Dafydd, o beiddir dyfod,
 A main gledd o myni glod ;
 Duw a ran rhwng dau angerdd ;
 Dyred i'r cyrch, d'aradr cerdd !
 Aed i ddiawl dragwyddawl dro,
 Y galon leddf a gilio !
 Llew ydwyf cryf, llo ydwyf !
 Cyw'r Eryr wyf, cyw'r Iar wyt !
 A dewr ydwyf a diriaid,
 A rhwysg boneddig yn rhaid ;
 A cherdd hen y sydd genyf,
 A Chryg ym galwant, a chryf !
 Ac ni'm dawr newyddfawr nwyf,
 Byth yn ol beth a wnelwyf !
 A th rawaf heb ethrowyn,
 A min fy nghledd dannedd dyn !
 Bychan iawn a rybued,
 A geir genyf fi o ged.
 Anhawdd i brydydd unig,
 Ymhwrdd â dyn agwrdd dig ;
 Medra bwyll a mydr o ben,
 Ymogel ! nid wyf Rhys Meigen !¹

Pan welwyd yn y Deheubarth na chiliai'r Cryg o Fon "na throedfedd na modfedd" rhag y bardd bygylog o Forganwg, dyfeisiwyd chwedl anwireddus gan fynachod Priordy Gwynlliw, i gymmodi'r Bardd Cryg ! Anfonwyd un Bola Bauol ar daith i Wynedd i daenu'r chwedl ddisail, "Bod Dafydd ab Gwilym, Bardd Dyfed, wedi marw." Pan glybu Gruffydd Gryg y newydd galarus, maddeuodd, fel gwŷr boneddig, holl heriadau brolgar ei wrthwynebydd yn y fan, a chyfansoddodd farwnad hiraethlawn ar ei ol.² Taenwyd chwedl gyffelyb yn y Deheubarth am farwolaeth Gruffydd Gryg ; a gwnaeth Dafydd farwnad brydferth ar ei ol yntau.³ Bu Dafydd ab Gwilym farw, fel y gwelwyd, yn y fl. 1368, a chyfansoddodd Gruffydd Gryg farwnad hiraethlawn arall am dano ; yr hyn a brawf y bu Gruffydd fyw dros ryw dymmor ar ei ol ef ; sef, fel y tybir, hyd y fl. 1370.

¹ Barddon. D. ab Gwll. Sketch, pp. xix., xxv.

Barddon. D. ab Gwll. t. 257.

³ Iolo MSS. t. 96.

Heb law y cywyddau o waith Gruffydd Gryg sydd ym marddoniaeth D. ab Gwilym, y mae'r Dr. Pughe yn nodi 15 o rai yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr¹ o'i gyfansoddiad ; ond nis gellir gwybod wrth ei gofres ef, fel y crybwyllwyd o'r blaen, a ydynt oll yn wahanol ganiadau. Y mae un gân o'i waith yn y *Myv. Arch.*, yr hon sy'n dechreu fel y canlyn :—

Yor nef ae chreir
 A eury'n meir
 Y gwr an med
 A throet a llaw
 Ac aryf aelaw
 A gorvoled
 Gwrandaw heit
 Bechaduryeit
 Baich o dacred
 A maddeu ynn
 Ynn llusc dremyn
 An llesc drymed.²

Y mae rhai yn tybied mai yr un bardd oedd *Gruffydd Gryg* a'r *Mab Gryg*. Os felly, y mae tair o ganiadau byrion eraill yn y *Myv. Arch.* (t. 363) o'i waith. Caniadau anghyfawdl³ ydyw y rhai hyny, gan mwyaf ; ond y mae ychydig o gynghanedd ym mhob un o honynt. Wele esampl fer o'r olaf o honynt :—

Duw am rho deall call rhag cellweir
 Dyn wyf yn gwarthwyf oddigarthref
 I brydu canu ceinwawd gyfiawni
 I walch balch bylchwyn fyddin faddau
 Coethrydd hael Ddafydd cynnydd kannyn
 Caith a ddiodeff rhag lleddf a llosg
 Carcu cil eiddil eiddun hedd ddichlais,
 Carenydd a Sais rhag trais traethawd.

THOMAS AP EINION OFFEIRIAD oedd yn ei flodau rhwng y fl. 1310 ac 1350 ; ac felly yr oedd yn gydoeswr a beirdd y "Tair Eisteddfod Dadeni," ac eraill o lenorion dechreu ein cyfnod. Ychydig a wyddys am y bardd offeiriadol hwn, heb law y dywedir ei fod o wehelyth Gruffydd Gwyr ; ac iddo gyfansoddi "Rhamawnt am Daliesin ap Cariadwen, ac Elphin ap Goddnou, a Gwaith Pair Ceridwen."⁴ Cyhoeddwyd dernyn o'r Rhamawnt yn y *Myv. Arch.*, t. 22 ; ond cyhoeddodd

¹ *Transact. Cymmrod.* vol. i. p. 179, &c.

² *Myv. Arch.* t. 346.

³ Blank verse.

⁴ *Iolo MSS.*, t. 79.

y Dr. Pughe yr holl chwedl, gyda chyfieithiad Seisnig, yn y fl. 1833, yn y *Cambrian Quarterly Magazine*, vol. v., p. 198; a dywed iddo ei chael gan Iolo Morganwg. Dywed y Doethawr yn ei nodiadau arweiniol i'r ysgrif grybwylledig, mai Hopcin Tomas Phylip a ysgrifennodd y deryn yma o gylch y fl. 1370; ond yn y *Cambrian Biography*, a gyhoeddwyd yn y fl. 1803, dywed y Doctor fel hyn:—"Hopcin Thomas Phylip, bardd oedd yn ei flodau rhwng B.D. 1590 ac 1630." Y gwir yw, fel yr awgryma Skene yn bur eglur, nad oes un prawf bod y chwedl hon yn hynach nag amser Iolo Morganwg ei hun;¹ oblegid nid oes weithian yr un llawysgrif o honi ar gael. Heb law hyny, y mae ei llythraeth a'i chystrawen yn profi nad yw ond diweddar, mewn cymhariaeth; ond y mae'n eglur bod ei hawdwr yn meddu crebwyll cryf, a darfelydd hedegog. Nid yw ei chynnwys, fel y tybir, ddim amgen na rhyfeddodau dewiniaeth neu swyngyfaredd, pethau a gredid yn ddiysgog gan foneddig a gwreng hyd yn lled ddiweddar. Y mae "Rhamawnt" Gwion Bach, sef y Bardd Taliesin a'i ymrithiadau olynol yn ysgyfarnog, pysgodyn, aderyn, a gronyn gwenith, yn cyfateb yn fanwl i'r "Ail Galendar" yn yr *Arabian Nights*. Yn y chwedl Gymreig, ymlidid Gwion Ddewin gan Geridwen Ddewines; ac yn y chwedl Ddwyreiniol ymrithiai'r dewin yn llew, ysgorpion, cath, pysgodyn, pryf, a hedyn, er mwyn diange rhag dialedd dewines. Y mae'r cyfatebiad mor hynod, fel y mae yn annichonadwy peidio casglu bod yr awdwr Cymreig yn hyspys o'r gwaith estronol; ac y mae'r gwaith mor eglur fel nas gall fod nemawr hynach na Iolo Morganwg. Yr oedd y "Celtig Ddafis" yn canfod Arch Noa, ac amryw ryfeddodau eraill, yn y cyfansoddiadau hyn a'u cyffelyb; ond rhaid i'r ysgrifenydd gyfaddef nas gwel ddim ynddynt ond "rhamawnt," sef ffrwyth dychymmyg bywiog, chwaraeus, a thoreithiog; ond barned y darlennydd drosto ei hun oddi wrth y byr ddifyniadau canlynol o "Hanes Taliesin," lle y dywed Ceridwen fel y canlyn:—

Gwion Bach a'm hyspeiliodd a chyrchu ar ei ol dan redeg, a'i chanfod hithau a wnaeth yntau, ac ymrithio yn rhith ysgyfarnog a rhedeg. Sef y rhithiodd hithau yn Filiast ai ystumio ai ymchoelyd tuag Afon. Ac ymrithio yn bysgodyn, a hithau yn rhith dyfrast, ac ymgeisio ag ef dan y dyfr, oni fu ddir iddo ymrithio yn aderyn i'r wybr a hithau yn Llymysten i'w ymlid ac ni adodd iddo lonydd yn yr wybr; a phan oedd yn ei oddiwes ac ynteu ac ofn angeu arno, efe a arganfu dwr o wenith nithiedig ar lawr ysgubor ac efe a ddisgynodd i'r gwenith, ac a ymrithiodd yn rhith un o'r grawn; ac yno yr ymrithiodd hithau yn iar ddû goppog ac i'r gwenith yr aeth, ac ai thraed ei grafu ai adnabod ef a'i lyngcu, ac fel y dywed yr ystori, Hi a fu nawmis yn feichiog arno ac wedi esgor o honi ni allei hi ar ei chalon ei ladd rhag mor deg oedd. Namyn ei wisgaw mewn *boly* o *groen* ai *fwrw* ef yn ewyllys dyn yn y mor y 29 o Ebrill.¹

Hwn, "fel y dywed yr ystori," a ddaeth wedi hyny yn "Daliesin Ben Beirdd;" a chan fod y "rhamawnt" am Daliesin yn un o'r chwedlau Cymreig mwyaf dyddorol yn yr iaith, dodir enghraifft fer o honi ger bron, ar ol egluro ei sail mewn aralleiriad byr o'r hen "ramawnt" rhyddieithiol. Dechreuir yn y man y gadawyd y "boly croen."

Yr amser hwnw, sef pan fwries Cariadwen y boly croen i'r môr, yn cynnwys y baban a ffurfiasid yn ei chroth o'r gronyn gwenith a lyngcasai, yr oedd gan Wyddno Garanhir, tywysog talaeth eang ar arfordir Meirionydd a Cheredigion, fab gwas-traffus a dilwydd, a'i enw Elphin. Mewn rhan o'i berchenogaeth, yn y traeth rhwng Dyfi ac Aberystwyth, yr oedd gan Wyddno gored, yn yr hon y ceid gwerth can' punt o bysgod bob nos Galan Mai. Gan fod trysorfa Elphin yn hollol wag ar hyny o bryd, goddefodd ei dad iddo, ar annogaeth ei gynghoriaid, gael tyniad y gored y nos Galan Mai honno. Pan aeth Elphin i edrych y gored dranoeth, canfu nad oedd dim ynddi; ac wrth weled hyny, dywedodd un o'r goredwyr wrtho, "Elphin! ni buost erioed mor anhapus a heno; canys toraist gynneddfau y gored, yn yr hon y ceid gwerth can' punt bob nos Galan Mai!" "Beth yn awr!" ebai Elphin, gan gyfeirio at fola croen oedd ar bawl y gored, "fe allai fod yna werth can' punt o dda." Dattodwyd y bola; ac wrth weled baban newydd eni ynddo, llefodd yr agorwr, "Llyma Dal Iesin!" "Taliesin bid ei enw ynte," ebai Elphin; a chan gymmeryd y baban yn ei freichiau, dug ef i dŷ ei dad.² Wrth

¹ Myv. Arch. t. 23.² Yr un.

weled y gŵr ieuangc mor brudd am na chawsai ddim pysgod
yn y gored, cyfarchodd y baban ef fel hyn :—

ELPHIN deg taw a'th wyl
Na chabled neb yr eiddo
Ni wna les drwg obeithio
Ni wyl dyn dim ai portho
Ni bydd coeg gweddi Cynllo
Ni thyr Duw a'r addawo
Ni chaed yn ngored Wyddno
Erioed cystal a heno
Elphin deg sych dy ddeurudd
Ni weryd vod yn rhybrudd
Cyd dybiaist na chevaist vudd
Ni wna les gormod cystudd
Nag ammau wyrthiau Dofydd
Cyd bwyv bychan wyv gelvydd
O voroedd ac o vynydd
Y daw Duw a da i ddedwydd,

Elphin gynneddvau diddan
Anwraidd yw dy amcan
Gwell Duw na drwg ddarogan
Cyd bwyv eiddil a bychan
Ar gorverw mor dylan
Mi a wnav yn nydd cyvran
It well na thrichan maran

Elphin gynneddvau hynod
Na sor er dy gafaelod
Cyd bwyv wan ar lawr fy nghod
Mae rhinwedd ar vy nhavod
Tra bwyv vi i'th gyvragod
Nid rhaid it ddirvawr ovnod
Trwy gofa henwau'r Drindod.
Ni ddichon neb dy orvod.¹

Ym mhen amser ar ol hyn, cymmerwyd Elphin yn garcharor
gan ei ewythr, Maelgwn Gwynedd ; a phan glywodd Taliesin
anffawd ei noddwr, prysurodd i'w gynnorthwyo. Cyn gynted
ag y cyrhaeddodd y fan, er mwyn dangos ei fawr ragoriaeth,
dechreuodd hir ddadl dduchanllyd yn erbyn beirdd Maelgwn,
fel y canlyn :—

KYNTAF im lluniwyd ar lun dyn glwys
Yn llys Caridwen am penydiwys
Cyd bawn bach o'm gwllod gwy fy nghynnwys
Oeddwn fawr uwch llawr llann am tywys
Prid fum parwyden per awen Parwys
Ac yn nghyfraith heb iaith am rhydd rylliwys
Ffoes yn gadarn
Ffoes yn llyffan
Ffoes yn rhith bran } Braidd orphwys

¹ Myv Arch. t. 69.

Ffoes yn derwyn	}	Mewn llwyn llychwys
Ffoes yn gadwyn		
Ffoes yn lychwyn	}	Cyfaith Coelwys
Ffoes yn fleiddyn		
Ffoes bleiddlawr		
Yn niffaeth	}	Fal na thyecciwys
Ffoes yn fronfraith		
Ffoes yn gadno		
Cyd naid ystumau		
Ffoes yn Felau		
Ffoes yn wiwair ni chynnydd celwys		
Ffoes yn gern Hudd rhydd im rhwyfwys		
Ffoes yn hacarn mewn tan towys		
Ffoes yn ben gwayw gwae ni phuchwys		
Ffoes yn Darw taer ymladdwys		
Ffoes yn faedd Gwrych mewn rhych rhithiwys		
Ffoes yn ronyn gwyn Gwenith lwys		
Ar ael llen carthen im carfaglwyns		
Cymmaint oedd ei gweled a chyfeb rhewys		
A fai yn llenwi fal llong ar ddyfrwys		
Mewn boly tywyll im tywalldwys		
Mewn mor dylan im dychwelwys		
Bu goelfain im pan im cain fygwys		
Duw Arglwydd yn rhydd am rhyddhawys. ¹		

Wedi i'r bardd fynegu fel hyn y newidiau yr aethai trwy-dynt, traetha'n lled helaeth, yn nesaf, ar ei honiadau godidocaf:—

Prifardd cyffredin	Mi a fum gyda'm ner
Wyf fi i Elffin	Yn y goruwcheder
Am gwlad gynhefin	Pan gwypiodd Luciffer
Iw bro Gerubin	I uffern dyfnder
Ioannes Ddewin	Mi a fum yn dwyn banner
Am gelwis i Merdin	O flaen Alecsander
Bellach pob Brenin	Mi a wn enwau'r ser
Am geilw Taliesin	Or Gogledd hyd Awster
Mi a fum nawmis hayach	Mi a fum ynghaer Bedion
Yn mol Gridwen wrach	Tetragrammaton
Mi a fum gynt Wion bach	Mi a dygum heon
Taliesin ydwy bellach.	I lawr glyn Ebron. ²

Yna mynega'r bardd amcan ei daith ryfedd; a dywed iddo o'r diwedd lwyddo i ryddhau ei noddwr; sef,—

Elphin ap Gwyddno	Pen beirdd y Gorllewin
Sy'n Naear Arthro	Ac a adwaen bob Gorsin.
Mi yw Taliesin	Yngogeir Gorllewin
Dan dri ar ddeg clo	Ac a ollwng Elphin
Am ganmol ei Athro	Oi hual eurin. ³

¹ Myv. Arch., t. 23. ² Yr un, t. 24. ³ Yr un, t. 44.

Cynhyrwyd y bardd gan ei lwyddiant i ganu cyfarchiad prydfferth i'r Duwdod, fel cydnabyddiaeth ddiolchgar, dan yr enw "Canu y Medd," fel hyn :—

GOLYCHAF wledig pendefig pob wa
 Gwr a gynneil y Nef Arglwydd pob tra
 Gwr a wnaeth y dwfr i bawb yn dda
 Gwr a wnaeth bob llad ac ai llwydda
 Meddwer Maelgwn Môn ag an meddwa
 Ai feddgorn ewyn gwerlyn gwymha
 As gynnull gwenyn ac nis mwynha
 Med hidleid moleid molud i bob tra
 Lleaws creadur a fag terra
 A wnaeth Duw i ddyn er ei ddonha
 Rhai drud rhai mud ef ai mwynha
 Rhai gwyllt rhai dof Dofydd ai gwna
 Yn dillig iddynt yn dillad yd a
 Yn fwyd yn ddiawd hyd frawd yd barha
 Golychaf fi wledig pendefig gwlad hedd
 I ddillwng Elphin o alltudeid
 Y gwr am rhoddes y gwin ar cwrwf ar medd
 Ar meirch mawr modur mirein eu gwedd
 Am rothwy etwa mal diwedd
 Trwy fodd Duw y rhydd trwy enrhydedd
 Pump pumhwt calan ynghaman hedd
 Elphinawg farchawg medd hwyr dy Ogledd.¹

Y mae amryw ganiadau rhamantus eraill ar yr un testyn, megis "Dyhuddiant Elphin,"² "Mab Gyfreu Talisin,"³ "Canu Cyntaf Taliesin,"⁴ y rhai y gellir casglu mai cynnyrch yr un crebwyll ydynt; ond y mac'n gwbl sicr nad cyfansoddiadau Tomas ap Einion Offeiriad ydynt. Y mae T. Stephens yn priodoli naw o ganiadau i Tomas ap Einion Offeiriad, sef y rhai canlynol :—"Cadair Keridwen; Marwnad Uthr Bendragon; Preiddeu Annwn; Marwnad Ercwlf; Marwnad Mad. Ddrud, ac Erov Greulawn; Marwnad Aeddon o Von; Anrhyveddodau Alecsander; Y Gofeisws Byd; Lluryg Alecsander."⁵

Y mae'r holl ganiadau hyn yn y *Myvyrian Archaiology* ac yn *Llyfr Taliesin*, yr hwn a ysgrifenyddwyd, yn ol Skene, tua dechreu cyfnod y testyn, yn nechreu y 14ed ganrif. Od ydyw yr amseriad yma, a'r amser y dodir Tomas ap Einion yn ei flodau (1310—1350) yn gywir, nid annichonadwy oedd

¹ Myv. Arch., t. 26. ² Yr un, t. 25. ³ Yr un, t. 27. ⁴ Yr un, t. 64.

⁵ Lit. Kymry, p. 233.

iddo ef fod yn awdur iddynt. Y mae'r enwau a ddyry Stephens i'r holl hen ganiadau hyn yn y *Myv. Arch.*, ond bod y llythraeth ychydig yn wahanol i'r ciddo ef; ac y mae enwau pedair o'r caniadau yn *Llyfr Taliesin* hefyd; ond nid oes enwau i'r pump eraill yn yr hen lyfr hwnw, namyn rhitau yn unig. Yn awr, dodir yr enwau i lawr yma fel y maent yn y *Myv. Arch.*, ac yn yr ail gyfrol o lyfr Skene. Yr enw sydd yn y llinell flaenaf o'r *Myvyrian* :—

- { Kadeir Keridwen c c c. t. 57.
- { Kadeir Kerritwen, t. 158.
- { Marwnad Uthyr Pendragon, t. 61.
- { Marŵat Vthyr Pen. t. 203.
- { Preiddeu Annwn, t. 43.
- { xxx. t. 181.
- { Marwnad Ercwlf, t. 59.
- { Marŵnat Erof, t. 196.
- { Y Gofeisws Byd, t. 59.
- { Y Gofeissvys Byt, t. 177.
- { Marwnad Mad Ddrud ag Erof, t. 59.
- { xli. t. 197.
- { Marwnad Aeddon o Fon, t. 60.
- { xlv. t. 199.
- { Anrhyfeddodau Alexander, t. 43.
- { xxviii. t. 179.
- { Lluryg Alexander, t. 42.
- { xxvii. t. 178.

Weithian dodir un enghraifft fer o'r hen ganiadau hyny yn llythraeth y ddau hen lyfr; y dull blaenaf o *Llyfr Taliesin*, a'r cyferbyniol o'r *Myv. Archaiology* :—

MARŴNAT EROF.

Y MOCHELES eluyd
Val nos yn dyd.
O dyfot clotryd
Ercŵlf pen bedyt.
Ercŵlf a dywedei.
Angheu nas rinei.
Yscŵydaŵr y mordei
Arnaŵ a torrei.

MARWNAD ERCWLF.

YMOCHELES Elfydd
Fal nos yn ddydd
O ddyfod clodrydd
Ercwlf pen bedydd
Ercwlf a ddywedai
Angheu nas rinei
Ysgwydawr y Mordei
Arnaw y torrei

Erc6lf sywessyd
 Ermin lloergegyd
 Pedeir colofyn kyhyt
 Rudeur ar eu hyt.
 Colofneu erc6lf
 Nis arneid byg6l.
 Byg6l nys beidei.
 Gres haul nys gadei.
 Nyf aeth neb is nef
 Hyt yd aeth ef.
 Erc6lf mur ffossa6t.
 As amdut tywa6t.
 As rod6y trinda6t
 Trugared dyd bra6t
 Yn vnda6t heb eisseu.

Ercwlf sywessyd
 Ewnin lloer egyd
 Pedeir colofn cyhyd
 Rhuddeur ar ei hyd
 Colofn Ercwlf
 Nis arfeidd bygwl
 Bygwl nis beiddie
 Gres haul nis gadei
 Nith aeth neb i nef
 Hyd ydd aeth ef
 Ercwlf mur ffosawd
 As arnut tywawd
 As rhoddwy Trindawd
 Trugaredd ddydd brawd
 Yn undawd heb eisau.

Y mae un ysgrifenydd, o leiaf, yn priodoli amryw ganiadau rhamantus eraill i Tomas ap Einion Offeiriad, ac yn eu plith y gân chwedlonol ryfedd a elwir yn *Llyfr Taliesin*, "Angar Kyfynda6t,"¹ ac yn y *Myv. Arch.*, "Angar Cyvyndawd."² Y mae'r trawsfudiadau sydd yn *Hanes Taliesin*, a ddifynwyd eisoes, yn bur debyg o ran ansawdd, i'r rhai sydd yn y gân yma. Dychymmygai y "Celtig Ddafis" mai cynnifer o drawsfudiadau yr enaid yng "Nghylch yr Abred" yw y rhai hyn, yn ol athrawiaeth yr hen Dderwyddon.³ Yr oedd y syniadau Derwyddol wedi dallu Dafis, druan, i'r fath raddau, fel nas gallai ganfod dim arall yn arddull nac ansawdd yr hen ganiadau hyn a'u cyffelyb, pan na wel yr hynafieithydd diragfarn ddim mwy ynddynt na meddwl dychymmygfawr yn ymhoywi mewn pethau rhyfedd a goruwchnaturiol, er mwyn porthi ofergoeledd yr oes, yr hon a ymhyfrydai gymmaint yn y cyfryw chwedlau a rhamantau.

DAFYDD DDU O HIRADDUG ydyw y nesaf a ddaw dan ein sylw. Bucheddai efe, fel y tybir, o gylch yr un amser a Tomas ap Einion Offeiriad; a dodir ef yn ei flodau gan rai o gylch y fl. 1340;⁴ tra y dyry Stephens ef yn ei flodau rhwng 1350 ac 1400.⁵ Mewn hen ysgrif sydd ar gael yn awr, dywedir fel hyn:—"Llyma y llyfr cynta o Gadwedigaeth y Gerdd Dafod o waith Dafydd ap Robert Morus, Yswain, yr hwn a

¹ Skene, vol. II., p. 129.² Myv. Arch., t. 36.³ Davies's Celt. Res, p. 553;

Davies's Myth. of the Druids, p. 456, &c.

⁴ Williams's Em. Welshm. p. 117; Dosp. Ed.

D. Aur. Pref., p. xiii.

⁵ Stephens's Lit Kymry, p. 490.

gyfenwyd Dafydd Ddu o Hiraddug, neu yr Athraw Du. Hugh Roberts a'i sgrifennodd o Lyfr Mr. Vychan iddo ei hun, Blwyddyn 1772." Ar ddarlun o gofadail sydd yng ngwaith Edward Jones (Bardd y Brenin) y mae yr hyn a ganlyn uwch ben y darlun :—"Cofadail Bardd yn Eglwys Dymeirchion, Sir Fflint." O dan y darlun, ac yn gerfedig ynddo, y mae'r geiriau hyn :—"Hic Jacet David Filius Howeli Filli Madoci." Ac o dan hyny, dywedir fel y canlyn :—"Beddrod Dafydd Ddu, o Hiraddug, Archddiacon Diserth, a Ficar Tremeirchion, Sir Fflint, yr hwn oedd Fardd dysgedig, ac yn ei flodau rhwng B.A. 1310 ac 1380. Ysgrifennodd Rammadeg Brytanaidd, Cywydd dysgedig, a dyfeisiodd dri o fesurau Prydyddiaeth Gymreig. Hefyd, yr oedd yn Awdur Awdl Sanctaidd ; a gwnaeth gyfieithiad prydyddol prydfferth o'r *Te Deum*, ac amryw o'r Psalmau, y rhai sydd yn y *Myvyrian Archaiology*, t. 353 a 367. Yr oedd yn dra gwybodus mewn philosophyddiaeth naturiol, fferylliaeth, a gwyddoniaeth, yr hyn a barodd i'r anwybodus ei alw yn Gonsuriwr ; a dywedir llawer o chwedlau rhyfedd am dano yng Nghymru hyd y dydd hwn."¹ Drwg genym nad yw yr ysgrifenydd yn cyfeirio at un awdurdod er cadarnhau y mynegiadau pwysig uchod.

Y Parch. R. Williams a ddywed am dano fel y canlyn :—"Ei enw priod oedd Dafydd ap Roderic ab Madog, brodor o Sir Fflint ; ac yr oedd yn swyddog Llanelwy, a Ficar Dymeirchion, lle y claddwyd ef. Y mae ei ddelw mewn gwisgoedd offeiriad, o wneuthuriad pur dda, dan fwa Gothig hardd, i'w weled yn yr Eglwys honno, ynghyd â'r cerfiad yma :—HIC JACET DAVID AP RODERIC AP MADOC. Yr oedd yn ei flodau o gylch B.A. 1340. Yr oedd yn brydydd enwog a dysgedig ; ac yr oedd ganddo ran helaeth yn rheoleiddiad mydryddiaeth Gymraeg. Ystyrid hefyd ei fod yn broffwyd ; a phriodolir daroganau Robin Ddu, yr hwn a fucheddai ganrif yn ddiweddarach, yn fwy cywir i Dafydd."² Nid yw Williams ychwaith yn cyfeirio at unrhyw awdurdod i gadarnhau yr hyn a draetha.

¹ Jones's Mus. and Poet. Rel., vol. 1, p. 16.

² Williams's Em. Welshm., p. 117.

Wele, dyma genym dri o awdurdodau, a phob un yn wahanol i'w gilydd. Yn ol "Llyfr Mr. Vychan," "Dafydd ap *Robert Morus, Yswain*," oedd "Dafydd Ddu o Hiraddug, neu yr Athraw Du;" yn ol Ed. Jones, "Dafydd ap Hywel ab Madog" ydoedd; ac yr oedd yn "Archddiacon Diserth, a Ficar Dymeirchion;" ond yn ol Williams, "Dafydd ap Roderic ap Madog" ydoedd; "ac yr oedd yn urddasog Llanelwy, a Ficar Dymeirchion."

Y Parch. W. Hicks Owen, ebrwyad presennol Tremeirchion, a ddywed mewn llythyr at yr ysgrifenydd, am y llythyrenau sydd yn y cerfiad ar y cerflun yn yr eglwys honno fel hyn:— "Y mae'r tair llythyren HIC yn hollol amlwg; eithr nid oes ond rhyw orlliw o'r llythyren J sydd o dan y tair llythyren hyny, a honno wedi troi ei phen uchaf yn isaf fel hyn f. Y mae pedair o'r llythyrenau sydd ar ei hol yn hollol amlwg, sef ACET, y rhan olaf yn sicr o'r gair JACET. Y mae tair llythyren o'r gair nesaf yn gwbl amlwg hefyd, sef ROV; yr olaf, fel y gwelir, yw'r *delta* Roeg, wedi ei throi a'i phen uchaf yn isaf. Cytunir mai E ydyw y bedwaredd lythyren sydd ar ol y tair a nodwyd, er nad ydyw yn gwbl amlwg. Y mae'r darn uchaf o'r bummed lythyren yn y gair hwn wedi gwisgo ymaith; ond credir yn sicr mai R ydoedd. Nid oes dim ond amlw y ddwy lythyren olaf; ac y mae'n dra sicr mai IC oedd y rhai hyny, sef terfyn yr enw RODERIC. Yr holl ddarlleniad, cyn belled ag y gellir dyfalu oddi wrth y cerfiad ydyw, *Hic Jacet Roderic* = Yma y gorwedd Roderic." Nid oes dim yn y cerfiad i roddi un math ar awgrym at "David ap.....ap Madoc," na "David filius.....filii Madoci;" ac y mae'n anhawdd gwybod beth a wnaeth i neb feddwl am "Dafydd Ddu o Hiraddug" oddi wrth yr hen gerfiad dan sylw. Tueddir yr ysgrifenydd i gredu mai hen Ysgrifl. Hugh Roberts sydd gywir; sef mai "Dafydd ap Robert Morus, Yswain," oedd "Dafydd Ddu o Riaddug, neu yr Athraw Du."

Y mae'n ddilys, braidd, mai yr un lle yw *Rhiaddug*, oedd yn "Llyfr Mr. Vychan," a *Hiraddug* ysgrifenydd diweddar;

ac mai yr un lle yw *Dymeirchion* a *Thremeirchion*. Y mae'n ddigon tebyg hefyd fod y Dafydd y dywedir bod ei enw ar y ddelw sydd, neu oedd, yn Eglwys Dymeirchion, yn rhyw swyddog eglwysig ; ond tueddir yr ysgrifenydd i gasglu nad y Dafydd hwnw, pa un bynag ai Dafydd ap Hywel ap Madog, ai Dafydd ap Roderic ap Madog ydoedd, oedd y "Dafydd ap Robert Morus, Yswain," a gyfenwid "Dafydd Ddu o Riaddug, neu yr Athraw Du," awdur y "Llyfr cynta o Gadwedigaeth y Gerdd Dafod," yn ol "Llyfr Mr. Vychan ;" o blegid, er y gelwid gŵr eglwysig gynt yn *Syr*, nis gelwid ef byth, hyd y gwyddys, yn *Yswain*.

Wrth un ganig fechan, yn unig y mae enw Dafydd Ddu o Hiraddug yn y *Myv. Arch.*, a honno yn un bur gyffredin a dibwys, o'r hon y dodir yma enghraifft fer o'i dechreu :—

AWDL SANTAIDD AM DDIWEDD DYN A'I GORPH.

O. L. P. P.¹

Rhyfedd na phwyllwn
Rhyfyg na ddaliwn
Peidiwn na rwyfwn
Er ei fawr rinwedd

Gwae ddyn nad ystyr
Ydd a yn ehegyr
Cynn rhythyr tymyr
Tomod Vaenvedd

Yr un dyn deccaf
O holl blant Addaf
Ato vory y gónaf
Nefol rinöedd

A phob dyn felly
Rhóng yr aбыr fry
A'r ddaear obry
Wely waeledd.

Pa wnaer yn unig
Na thrais na thremyg
Na wnaed neb ddig
Nag eiddigedd

Miloedd anghyoed
Fal ir oedd erioel
Pawb a gyrch yr oed
Ir saith droedfedd

Milwr twr taerfor
Val i bu Ector
Nid eiddo ragor
Yn ei orwedd

Rhywnaeth caeth cynnaddl
Rhyfyg annhrwyadl
Rhag rheidus disdadyl
Dostyr fuchedd.²

I Dafydd Ddu o Hiraddug y priodolir cyfansoddiad sy'n dechreu fel y canlyn, a elwir "Cywydd o ddechreu'r Byd hyd Grist :"—

Di gam y gwnaeth Duw gymwyll
Ddechreu byd di ochr o bwyll ;
Pob peth trwy ddifeth ofeg
A greawdd Duw mewn gradd deg ;
Angylion oll yng nglyn Naf
Gynt a wnaeth Duw gyntaf ;

¹ Llyfr Paul Panton.

² Myv. Arch., t. 863.

Ar Dduwsul arwydd oesoedd
 I gwnaeth hwynt ag un iaith oedd ;
 Duw Llun i gwnaeth Duw'n llywydd
 'R haul deg er rheoli'r dydd ;
 A'r awyr gan ar gyoedd
 A'r ser oll oreu sacwr oedd ;
 Duw Mawrth goreu yw'r dammeg
 I gwnaeth y Tad gwnaeth teg ;
 Moroedd a gwynt mawredd gall,
 A'r tiroedd or tu arall ;
 Duw Mercher myfer fu'n mab
 Di arbed gwnaeth eurbab
 Pysgod i ddyfod i ddyn,
 Pawb i dir pob aderyn ;
 Duw Iau i gwnaeth Duw ofydd
 Yr holl anifeiliaid yn rhydd ;
 I droi'n dda i druan ddyn,
 Drud i arfau drwy derfyn ;
 Duw Gwener yn deg uniawn
 Addaf a wnaeth addfwyn iawn,
 Duw a dynawdd a'i nawdd Naf
 Iesin oedd asen Addaf ;
 Gwnaeth yn iawn a'i loywdawd law,
 Goreu gwyddiad gwraig iddaw ;
 Duw Sadwrn cyn ymddwyn cawdd,
 Buan deg i bendigawdd ;
 Pob rhyw ddim fal peraidd oedd,
 Iawn weithiau er a wnaethoedd ;
 A gosod pob negesydd,
 A'i giwdawd ef i gadw dydd ;
 Mewn ei gaer ni mynai gawdd,
 Paradwys lle'u priodawdd.¹

Y mae'r fath wahaniaeth yn ucheledd syniadau y cywydd prydfferth hwn a'r ganig syml flaenorol, fel y mae yn anhawdd credu, braidd, mai yr un awdur a gyfansoddodd y naill a'r llall.

Y mae'r Dr. Pughe yn cofnodi 8 o ganiadau Dafydd Ddu o Hiraddug yn ei gofres o Ysgriflyfrau Myfyr ; ond ni wyddys a ydyw yr un rhai yn dygwydd mewn gwahanol adysgrifau ai peidio. Tair cân ydyw y nifer mwyaf sydd yn yr un Ysgriflyfr.²

Nid yw gwbl hyspys pwy ydoedd awdur y cyfieithiad o "Wasanaeth y Fendigaid Fair" sydd yn y *Myv. Arch.*; ond Dafydd Ddu o Hiraddug, hyd y tybir yn gyffredin, ydoedd. Pwy bynnag oedd yr awdur, yr oedd yn fardd ac icithydd pur wych. Y mae'n eglur hefyd wrth y llythraeth a'r gystrawen, nad yw yr adysgrif sydd yn y *Myvyrian* yn ddim hynach na'r 16fed ganrif ; eithr fe ddichon i honno gael ei chymmeryd o

¹ Y Brython, cyf. iv., t. 429.

² Trans. Cymmr., vol. i., pp. 170, &c.

adysgrif hynach. Cynnwys y cyfieithiad 26 o'r Psalmu, yn gyfan, neu mewn rhan, ar gân ac mewn rhyddiaith; ac amryw ddarnau eraill o'r Bibl ac o'r Llyfr Gweddî Pabaidd, mewn mydr neu ryddiaith. Er mwyn i'r darllynydd "weled y dull oedd yn yr oes honno ar gyfeithu," dodir ychydig esamplau ger bron yma :—

OFFICIUM B. MARIE.

Gwasanaeth Mair wedi ei dynnu o'r Lladin Ynghymraeg y gan Ddafydd Ddu o Hiraddug hyd mae fawb yn tybied ac a gopiwyd yma er mwyn cael gweled y dull oedd gan yr oes honno ar gyfeithu. O. L. E. D.

HYN a ddywedir o flaen pob awr—Henffych gwell Fair cyflawn o rad Duw gyda thi bendigaid wyt ym mhliith y gwragedd a bendigedig yw ffrwyth dy groth di Iesu. Amen.—Arglwydd agor fy ngwefusau. A'm genau a fanaig dy foliant. Duw ystyria yn gynhorthwy ym. Arglwydd brysia i'm cymmorth. Gogoniant i'r tad a'r mab a'r yspryd glan. Megis yr oedd yn y dechrau ac y mae yr awr hon ac yn wastad ac yn oes oesoedd. Amen.

SALM 95.

DEUWCH ymddyrchafwn wrth yr Arglwydd canwn i Dduw ein Iachawdur ni. Khagachubwn ei wyneb ef ynghyffes a chanwn Salm iddaw. Canys Arglwydd mawr yw Duw a brenin mawr ar yr holl dduwiau can ni wrthladd yr arglwydd ei bwy f canys yn ei law ef y mae holl derfynau y ddaear ac ef a edrych uchelder y mynyddoedd. Canys ef a biau y mor ac a'i gwnaeth a'i ddwyllaw a seiliau ddwy dywarchen. Deuwch, addolwn a syrthiwn rhac bron Duw wylwn yngwydd yr Arglwydd a'n gwnaeth. Canys ef yw ein Harglwydd ni a ninnau yw ei bobl ef a defaid ei borfa ef. O chlywch heddyw ei lef ef na chybydded eich calonnau megis ynghellwair herwydd dydd prawf yn y diffaith yn y lle ydd ym brofasant eich tadau chwi—hwynt am profasant ac a welsant fy ngweithredoedd. Deugain miynedd y bum gyfnasaf i'r genhedlaeth hon a mi a ddywedais y mae eu calonnau yn wastad ynghyfeiliorn ac nid adnabuant hwy fy ffyrdd i. Wrth y rhai y tyngais yn fy llid na ddeuent i mewn i'm gorphwysfa. Gogoniant i'r tad, &c.

EMYN. QUEM TERRA PONTUS, &c.

Mair addwyn forwyn fawredd a ymddug
Y gwr a'i gorog o'i drugaredd,
Mawr foliant mab sant saint orsedd nefawl,
Mair ddeddfawl ddwywawl ddiwael bensedd
Mor llafar daear duedd ac awyr
Hael a lloer yn llwyr llwrw teyrnedd
Mair greawdr llywiawdr llyw hedd twr doniau
Tair fwrff defnyddiau gwiw raadau gwedd
Mirain wryr ysgain osgedd gwynfydig
Wyt Fair lawrhydîg fawr anrhydedd
Morwyn yn ymddwyn em ddawn fonedd byd
O ysbryd gleindyd glan etifedd
Moliant gogoniant gwnedd i'r Drindawd
Tair person undawd undeml fonedd.

Amen.

SALM 8.

ARGLWYDD ein harglwydd wyt a gwyllt a gwar
Mor rhyfedd dy henw yn yr holl ddaear
Canys dyrchafedig yw dy fawredd
A'r uchaf nefoedd Dduw ben teyrnedd

O enau meibion yn dyfnu gwnaethost foliant
 I ladd dy elyn a dialwr chwant
 Can gwelaf nefoedd gweithredoedd dy fysedd
 Lloer a ser y rhai a seiliaist i'th anrhydedd
 Beth yw dyn canys colfei ef
 Neu fab dyn a dramwy o nef
 Lleiheist ef noc engylion gwisgaist o goron anrhydedd
 A gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwyllaw o'th drugaredd
 Pob peth a ddarestyngaist dan ei draed ef yn rhydd
 Defaid ac ychen ac anifeiliaid y maesydd
 Ehediaid y nef a physgod y weilgi
 Y rhai a hwylliaist lwybrau môr heli
 Arglwydd ein harglwydd wyt a gwyllt a gwar
 Mor rhyfedd dy enw yn yr holl ddaear
 Gogoniant i'r tad, &c.1

Dyna ddigon i ddangos ansawdd y cyfieithiad prydferth a briodolir i Dafydd Ddu o Hiraddug; a gwel y llenor fod y llythraeth a'r gystrawen yn gwbl gyffelyb i'r eiddo y Dr. Davies o Fallwyd; ac mai'r prif wahaniaeth ydyw, bod y cyfieithiad hwn yn ddiffygiol o ran gwahannodiad a phriflythyrenau. Ar y cyfan, nis gall yr ysgrifenydd lai nag ammheu y cywirdeb o briodoli'r gwaith hwn i Dafydd Ddu o Hiraddug; ond beth bynnag am hyny, y mae'r difyniadau blaenorol, cystal a'r gweddill o'r cyfieithiad yma, yn enghreifftiau prydferth o ddull beirdd cyfnod yr ysgrifenwyd hwynt, o ddefnyddio y cyhydeddau, y corfanau, a'r odlau mydryddol yn y mesurau rhyddion Cymreig. Gwelir nad oes yma odid ddwy llinell olynol yn yr un gyhydedd a'r un corfan; ac na ddefnyddir gair unsill i derfynu y llinellau ond megis ar ddamwain. Cyffelyb ydyw caniadau rhyddion holl *hen* feirdd y Cymry; a gresyn na ddylynai beirdd yr oes hon eu hesampl, yn hytrach na defnyddio yr un gyhydedd a'r un corfan yn barhaus, olynol, a therfynu eu llinellau byth a hefyd â gair unsill, yn enwedig yn y mydr diodl, yn ol esampl estroniaid, yr hyn sydd hollol groes i deithi mydryddiaeth Gymreig.

DAFYDD NANMOR ydyw'r bardd nesaf y dygir ei lenyddiaeth i sylw genym. Preswyliai Dafydd, yn ol traddodiad am dano, mewn tyddyn a roddwyd iddo gan Rhys Goch Eryri, a alwyd gan y bardd ar ei enw ei hun yn Gaeddafydd, mewn

1 M: v. Arch., t. 367, &c.

ardal a elwir Nanmor, ym mhlwyf Beddgelert, ond yn Sir Feirionydd. Methwyd cael dim o hanes ei rieni na'i gyfenw. Y mae'n debyg iddo gymmeryd *Nannor*, fel rhan o'i enw barddonol, oddi wrth ardal ei enedigaeath.

Yr oedd Dafydd Nanmor, fel y gwelwyd, yn ei flodau o gylch yr un amser a Rhys Goch Eryri, gan y dengys Cywydd Rhys i'r "Llwynog" bod y ddau yn cydymgais am Gwen o'r Ddôl ar unwaith. Ond gan nad oedd Dafydd yn un o'r "Tair Eisteddfod Dadeni" (o'r fl. 1328 i 1330), gellir casglu ei fod gryn lawer yn ieuengach na Rhys. Pe buasai ddeng mlynedd yn iaü nag ef, tybir y buasai yn ei flodau o gylch 1340, neu ychydig yn gynt. Dichon iddo fyw o'r fl. 1310 hyd 1380, neu ychydig yn ddiweddarach.

Dywedir mewn ysgrif a briodolir i Antoni Powel, bod Dafydd Nanmor mewn Eisteddfod a gynnaliwyd "dan nawdd llythyr cynnwys y brenin, ys ef Harri Sant o Winsor [Henry VI.], a'r unfed flwyddyn ar hugain o'i goroniad ef,"¹ sef 1443. Yn yr un ysgrif dywedir i ail Eisteddfod Caerfyrddin gael ei chynnal yn y ddegfed flwyddyn ar ol y llall, sef yn 1453, "lle yr ennillodd Dafydd ap Edmwent y Gadair Arian am Orchestion a fernid yn oferbyll celfyddyd gan Feirdd Morganwg....Ag yn yr Eisteddfod honno [1453] Beirdd Morganwg a ddodasant eu gwrthneu yn erbyn Dosparth Pedwar Pennill ar hugain Dafydd ap Edmwent, a freiniwyd dan Warrant Cadair yno." Ni sonir i Eisteddfodau gael eu cynnal yng Nghaerfyrddin ar yr amseroedd a nodir uchod mewn unrhyw awdurdodau eraill, ond yn hollol i'r gwrthwnech. Dywed Edward Dafydd o Fargam, oedd yn ei flodau yn 1660, mai yn y fl. 1451 y cynnaliwyd "Eisteddfod fawr gyntaf Caerfyrddin, amser y Brenin Harri Sant o Winsor, ...dan nawdd llythyr Cynnwys y Brenin, ag yn nawdd dawn Gruffydd ap Nicolas."² Llywelyn Sion hefyd a ddywed, yn 1601, mai yng "Ngorsedd wrth Gerdd ar Fynydd Garth Maelog," yr hon y dywedir iddi gael ei chynnal yn y fl. 1460,³

¹ Cyfr. y Beirdd, t. 239.

² Yr un, t. 213.

³ Jones's Hist. Wales, p. 231; Cyfr. y Beirdd, t. 9.

dan nawdd Rhisiart Nefel y rhoddes "Beirdd Morganwg a Gwent ag Euas, warafun, a gommedd, a gwrthfarn, yn Mraint Beirdd Ynys Prydain ar Ddosparth Cerdd Caerfyddin," ym mhen naw mlynedd ar ol i'r Ddosparth honno gael ei chymmeradwyo yn Eisteddfod Caerfyrdin. Y gwir yw nad oes genym hanes awdurdodol i ddim ond un Eisteddfod gael ei chynnal yng Nghaerfyrdin dan nawdd Gruffydd ap Nicolas; a dywed y beirniaid goreu mai yn 1451 y cynnaliwyd honno.¹ Y mae genym hanes i bump o Orseddau neu Gadeiriau gael eu cynnal yn y Deheubarth yn ystod y 15fed ganrif; ac y mae enw y Pencerdd a'r beirdd oedd ym mhob un ar gael, ynghyd â'r amseroedd y cynnaliwyd hwynt;² ond nid yw enw Dafydd Nanmor mewn cysylltiad â'r un o honynt. Am hyny rhaid i'r ysgrifenydd gredu mai chwedl o ddyfais Antoni Powel, yw Eisteddfod Caerfyrdin yn yr "unfed flwyddyn ar hugain o goroniad Harri Sant o Winsor," cystal a phresenoldeb Dafydd Nanmor ynddi.

Heb law hyny, dywedir y bu dau Ddafydd Nanmor; ac mai wŷr i gydoeswr Rhys Goch o Eryri oedd yr ieuaaf. Ar ol un o'r caniadau sydd yn Ysgriflyfrau Iolo, dywedir fel hyn:—"Dafydd Nanmor ai cant (Quære?) Ai nid rhy ddiweddar ydyw i fod yn waith Dafydd Nanmor, yr oedd y Bardd hwnw yn byw yn amser Rhys Goch Eryri" (Rhys Nanmor medd Llyfr arall.) "Y mae fal hynn mewn un llyfr a welais yn Hafod Uchtryd. Dafydd Nanmor ap Rhys Nanmor o Faenor Fynyw ap Dafydd Nanmor o Wynedd y Bardd.—*I. M.*"³

Tybir bod yn ddigon eglur bellach y rhaid bod y Dafydd Nanmor oedd yn cydoesi a Rhys Goch Eryri yn ei flodau o gylch yr un amser a'r bardd hwnw, dyweder o 1330 i 1340; neu, fe allai, ei fod yn bucheddu o 1310 i 1380.

Priodolir 31 o ganiadau i Dafydd Nanmor ar amlen *Y Greal*. Nodir 64 o'i ganiadau yng Nghofres y Dr. Pughe o Ysgriflyfrau Myfyr y cyfeiriwyd ati yn flacnorol; ond dichon bod yr un

¹ Davies's (Gwallter Mechain) *English Works*, p. 145.

² Jones's *Hist. Wales*, p. 224—5.

³ Iolo MSS., t. 315.

rhai yn dygwydd mewn gwahanol gyfrolau, fel y crybwyllwyd. Y mae chwech, o leiaf, o'i ganiadau yn argraffedig ; pump yn ganiadau moliant, ac un yn farwnad ;¹ a dangosant fod yr awdur yn gyfartal i brif feirdd yr oes o ran crebwyll a darfelydd ; a'i fod yn dra hyddysg yn y mesurau caethion. Dodir yma enghraifft fer o un o'i ganiadau moliant, yn yr hon y darlunia'r bardd rwyg a rhodres y ffurf Babyddol o addoliad, gwasanaeth yr offeren, ymbiliau y saint, y delwau, &c. Cyflwynwyd y cywydd hwn i Rhys o Ystrad Tywy ; a chafwyd yr adysgrif yn Ninbych, rhanau o'r hon sydd fel y canlyn :—

Y kôr ef a'i kyweirawdd,
 A dorau tec o wydr tawdd.
 Aeth hanner gwerth i ynys
 I wydro hon wedy, Rhys.
 Ystradillur ar waith kuras,
 A gynau plwm i gan plas ..
 Tec yw swm byrdwnn lle bo,
 Trebl 'Amen' trwy blwm yno.
 Be baen' vil bawb yn ei vedd
 Yn feirw'n hon o frenhinedd,
 Y mae rhwng i muriau hi
 Erw i gladdu arglwyddi...
 Gwisgwyd oll, gwysc hyd allawr,
 Gwëau plwm am gyplau mawr
 Ergyd saeth o dderwgoed serth
 Yw ei chrib uwch yr *aberth*.
 Un dydd ni rifwn oi dôr
 Y derw oll hyd yr allor.
 Y mae'r derw rh'om a'r dwyrain
 O rif myrdd ar fwâu main ..
 Klochdy mawr kalchaid murwyn,
 Kwarterau gwaith Kaer Twr Gwynn.
 Pwy a edrych, pob hydref,
 Golwc uwch no'i geilioc ef?
 Be bac'r dw'r ugain gwrhyd,
 Heb un bont uwch ben y byd,
 Gallai hwnn, o argae llyw
 Gadw'r *delwau* rhac dw'r Diluw.....
 Ni bu air, mwy no barwn,
 Am leihau saic ymhlas hwnn.
 Mae'n kostiaw iddaw ar wydd,
 Ben tŷ Benet, bunt beunydd ;
 A chan punt gyrch i win per,
 Eblaw ammod i blymmer.²

Er yr holl gost yr aeth yr Abad Rhys iddo efo'r "Kôr," yr "allor" yr "aberth," y "delwau," &c. ; eto, yr oedd yn cael digon o arian oddi wrth yr *achos*, i wario "punt beunydd"

¹ Gorch. B. Cymru, 147—161 ; Williams's Rec. of Denbigh, Introd., p. vii. ² Yr un, p. vii.

(ac yr oedd *punt* y pryd hwnw yn llawn gyfartal i *ddig punt* yn awr) ar "saic" i'w gyfeillion; a "chan punt" am "win per;" heb law tâl i "blymmer" am gadw "y delwau," &c., mewn cywair âddas i'w haddoli!

RHYS GOCH AP RHICERT ydyw'r bardd nesaf y tybir bod ei lenyddiaeth yn deilwng o sylw arbenig. Gelwid y bardd hwn weithiau yn Rhys Goch o Dir Iarll, ap Rhicert, ap Einion, ap Collwyn. Preswyliai yn Nhir Iarll, ym Morganwg.¹ Dywed Taliesin Williams (Ab Iolo), ar awdurdod John Bradford, yr hwn oedd yn ei flodau o'r fl. 1730 i 1780, yr ymddengys bod ei dad Rhicert, yn fab i Einion ap Collwyn, gŵr o gryn bwys yn hanes goresgyniad Morganwg o gylch y fl. 1090;² a dichon mai hyn a barodd i gerddi Rhys Goch gael eu hamseru "cylch 1440."³ Ond gan y gellir profi bod yr amser a briodolir yn gyffredin i fuchedd y bardd hwn yn rhy foreu o ddau gan mlynedd, o leiaf, rhaid bod ei achau yn amheus. Dichon bod Rhys Goch wedi disgyn o Einion ap Collwyn; ond y mac'n ddilys ddiammheu nad ydoedd fab iddo. Ein sail i ddyfod i'r penderfyniad yma yw yr hyn a ganlyn:—

Yr oedd Rhys Brydydd, mab Rhys Goch ap Rhicert, yn enwog fel bardd yn y fl. 1390. Mewn cywydd a ysgrifenydd yn ystod teyrnasiad Richard II., yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn y fl. 1377, a diswyddwyd ef yn 1399, canfyddir Rhys Brydydd yn cael ei gymmeradwyo fel gŵr cyfaddas i fod yn rheithiwr:—

Rhifer *Rhys* hyspys ei hawl
Brydydd y gerdd briodawl.⁴

Hyspysir mai mab i'r Rhys yma oedd Ieuan ap Rhys⁵. Yr oedd Rhys Brydydd yn cael ei alw hefyd yn Rhys Llwyd; ac od oedd Ieuan Llwyd Brydydd yn fab iddo ef,⁶ yr oedd yn bucheddu o gylch y fl. 1480. Yr oedd i Ieuan ap Rhys ddau fab, a'u henwau Thomas a Gruffydd. Ychydig a wyddys am yr olaf: dywed y Dr. Pughe iddo flodeuo rhwng 1560 ac 1590;⁷

¹ Stephens's Lit. Kymry, p. 474, &c.

² Hanes Cymru Carnh. t. 483.

³ Iolo MSS. t. 229.

⁴ Yr un, t. 289.

⁵ Yr uu, t. 201.

⁶ Llwyd's Arch. Brit. p. 257.

⁷ Cambr. Biog. 146.

a Roger Williams, yr hwn a ysgrifennai rhwng 1600 ac 1622, a fynega ei fod yn fyw'r pryd hwnw.¹ Y mab arall oedd yr hwn a adnabyddid yn dda fel Twm Ifan Prys, bardd a gyfrifid yn broffwyd, neu gyfriniwr. Y dysgedig Edward Lhwyd, yr hwn a ysgrifennai yn 1707, a'i galwai *Poeta recens*;² a'r Dr. Pughe a ddywed iddo farw yn y fl. 1510, yn 200 oed!³ Nis gellir cyssoni'r mynegiad olaf â'r un o'r lleill, nac âg amryw o haeriadau eraill yn yr un awdur; ond o ddamwain dda, nid anhawdd dangos mai gwall y wasg ydoedd, neu mai camsyniad yw ei fynegiad ef; canys od oedd Thomas ap Ieuan yn 200 yn 1510, rhaid bod ei frawd oedd yn byw o gylch 1620, yn 310! Cyfarfyddir â llinellau yng ngwaith Thomas a Ieuan sy'n dynodi ei oedran ef yn bur fanwl, fel hyn:—

Un mil chwech cant yn gywrain,
A phedair blwydd yn gyfain,
Dechreu Ionor, cyfrif teg,
Wyf gant a deg ar hugain.⁴

Gan hyny, od oedd ef yn 130 oed yn y fl. 1604, rhaid ei fod wedi ei eni yn y fl. 1474; a chan y dywed Malkin "y gellir profi ei fod fod yn fyw yn y fl. 1615,"⁵ rhaid ei fod yn 141 oed y pryd hyny! Yn gysson â'r mynegiadau hyn, canfyddir bod Ieuan ap Rhys wedi ei yru o Cynffig gan Syr Mathew Caradog o Abertawy, a bod Thomas ap Ieuan wedi ei garcharu yng Nghastell Cynffig am ei syniadau Lolardaidd.⁶ Ganwyd Syr Mathew o gylch y fl. 1460; gwnaed ef yn oruchwyliwr Gŵyr yn y fl. 1491; a bu farw rhwng y 6ed o Fehfin a'r 9fed o Awst 1531.⁷ Cyttuna'r amseriadau hyn â'r mynegiadau blaenorol: gallasai Ieuan ap Rhys oedd yn ei flodau o gylch y fl. 1480, gael ei yru o'i gartref o blegid ei syniadau Lolardaidd gan Syr Matthew o gylch y fl. 1491; a gallasai Thomas ei fab, yr hwn, yn y fl. 1531, oedd yn 57 oed, ddioddef oddi wrth ei elyniaeth. Y mae genym ddigon o ffeithiau tebygol yma i'n hargyhoeddi ein bod ar dir lled ddiogel. Gallwn weithian gyfeirio ein camrau yn ol. Ganwyd Thomas ap Ieuan ap Rhys

¹ Iolo MSS., t. 200. ² Lhwyd's Arch. Brit., p. 264. ³ Camb. Biog., p. 327. ⁴ Iolo MSS., t. 201. ⁵ Malkin's South Wales, vol. II., p. 542. ⁶ Iolo MSS., t. 201. ⁷ I. M. Treherne's Life of Sir Mat. Caradock, p. 6.

(Twm Ifan Prys) yn y fl 1474 : ei dad oedd fab Rhys Brydydd, yr hwn a fucheddai o gylch y fl. 1390 ; a chan y dangosodd Ed. Lhwyd mai yr un oedd Rhys Brydydd a Rhys Llwyd, a Rhys Llwyd yn fab i Rhys Goch ap Rhicert, dylid doddi yr olaf yn ei flodau o gylch y fl. 1350.

Yr ydys yn awr wedi cynnyg sefydlu amseriadau pedwar o feirdd a gyfrifid yn enwog yn eu dydd ; sef, Thomas ap Ieuan ap Rhys (Twm Ifan Prys), Ieuan ap Rhys Brydydd, Rhys Brydydd ap Rhys (Rhys Llwyd), a RHYS GOCH AP RHICERT. Y mae prawf mewnol yng nghaniadau yr olaf, fel y ceir gweled yn ebrwydd, yn dangos nad yw ein cyfrifiad ym mhell o fod yn gywir. Yr ydys yn gyffredin yn cyfrif dŷn yn ei flodau o 30 i 40 oed. Os bwrir bod Rhys Goch ap Rhicert o gylch 40 oed tua'r fl. 1350, fel yr awgrymwyd, ganwyd ef o gylch y fl. 1310, tua'r un amser a Dafydd Nanmor, fel y gwelwyd ; ac felly, yn agos i ddechreu cyfnod y testyn.

Wedi ymdrechu sefydlu *amser* Rhys Goch ap Rhicert, deuir yn awr at ei *gyfansoddiadau* dyddorol. Y mae 20 o'i ganiadau yn yr *Iolo MSS.*,¹ y rhai a gymmerwyd, medd Iolo Morganwg, "o Lyfr John Bradford." Y mae'n dra sicr mai yn llythyr-aeth Bradford y mae'r caniadau hyn, yr hwn oedd yn ei flodau o gylch y fl. 1760 ;² ond y mae ffurf iaith y caniadau, y cyfeiriadau a gynnwysant, a'r gynghanedd gywrain sydd yn eu tryfritho, yn profi nas gallasant fod nemawr gynt, na diwedd-arach, na'r hanner canrif gyntaf (o 1300 i 1350) o gyfnod y testyn.

Camsyniad oedd dywedyd bod "cynghanedd yn absennol o ganiadau Rhys Goch";³ canys y gwir yw eu bod wedi'eu britho â phob math ar gynghanedd, o'r "groes rywiog" i'r gynghanedd lysg." Ei hoff gynghanedd ef, y mae'n eglur, oedd y "gynghanedd sain." Y mae ganddo ugeiniau, os nad canoedd, o linellau o'r fath dlysaf yn y gynghanedd honno ; er nad oes ond *un* o'i ganiadau argraffedig ar un o'r "pedwar mesur ar

¹ Iolo MSS., t. 228—251. ² Dr. Pughe's *Introd. to Llywarch Hen's Poems*, p. 62. *Dr. Jones's Hist. Wales*, p. 228. ³ Stephens's *Lit. Kymry*, p. 476.

hugain," sef "mesur cywydd deuair hirion," yr hwn oedd y cyntaf o'r "pedwar mesur ar hugain" a gafodd awdurdod Eisteddfod, hyd y gwyddys, sef y gyntaf o'r "Tair Eisteddfod Dadeni," a gynnaliwyd yng Ngwern y Clepa, Llys Ifor Hael, o gylch y fl. 1328."¹

Yr enw a roddes y bardd i'r cywydd hwnw yw "Can y Deilrhyw," yn yr hon "gân" y mae pob llinell, fel rheol, yn saith sill, ac un yn terfynu yn unsill a'r llall yn lluwawssill, fel y gofyn rheol "Cywydd Deuair Hirion ; ac y mae *cynghanedd* yn dra mynych ynddynt, fel y gwelir yn yr esampl a ddodir isod. Y mae'n wir nad oedd efe yn gofalu am fod cynghanedd ym mhob llinell, yn oed yn ei *gywydd* ; ac y mae enghreifftiau cyffelyb mewn rhai o gywyddau boreuaf Dafydd ab Gwilym, yr hyn sydd arwydd eglur bod y ddau yn canu o gylch yr un amser dros ryw dymmor. Math ar gywydd duchan i'r "Grymialwr" ydyw "Can y Deilrhyw," yr hon a ddechreu fel hyn :—

TRIPHETH ni cheir ei heilryw
 Grymialog, serchog a syw,
 Grymialog a fynn rymial,
 Achwyn heb achos a dâl
 Grymial a grymus dafawd
 Gremian heb daw pei dydd brawd.
 Beunydd y dydd fal y daw
 Afonydd pawb i'w flinaw.
 Bai ar bawb bei wybai'r byd,
 A ddaw drostaw yn dristyd,
 ag ni fydd wrth ei fodd neb
 Na dyn heb ddwyn dau wyneb,
 Gwell fydd imi ddydd a ddaw
 Nai ladd rhyadael iddaw.
 A grymialea d fynno
 Yma'n y byd man y bo.
 Serchog ni serch ar dafawd
 Flas y gerdd na fo lais gwawd,
 I fursen ar fawrserch fydd
 Orn o boen arni beunydd.
 dim arall gan wallofain
 Nid annerch ond rhyw ferch fain.
 Llauer i'w fryd llwyr i'w fronn
 Lloer ai henwi lliw'r hinon.
 Ni fynn son na saint amgen
 Dyma ei waith ond am wenn,
 Dim yw ei gais ond am gael,
 Ne manod gain ei meinael.

¹ Iolo MSS., t. 97.

Honn y cwbl cablu arall
 Cylch cerdded a gweled gwall ;
 Goreu yw oll a gar ef
 Gwira gwynn dan gaer gwiwnef,
 Lle bo pei yno llu byd,
 Un a wel yn anwylyd.
 ni fyynn y dynyn dawnsyth
 ymoralw am arall fyth.
 A chlust dyn dinag annerch
 Nid yf swn ond ef ai serch.
 Syw a ddilyn swydd alathr
 Ail serch ar fun bob llun llathr,
 Ni chais aur nag arian fyth,
 Naws fwy na phlwm trwm trasyth,
 Mynn gywraint ar faint a fo
 ym myd anwar am dano,
 Mynn lân ar bob mân fal merch,
 A ymdrwsia am draserch,
 Ni thal sôn nid digon da
 Diamommedd dim yma,
 Rhaid ar oll amgylch bylch byd
 Ei wella a llaw ddiwyd,
 Ag ar bawb cyd bei orau
 Ymlaen o hyd ymlanhau.¹

Dyna ddigon i brofi bod Rhys Goch ap Rhicert yn deall pob rhyw gynghanedd ; a defnyddiai hi yn wastad yn ei ganiadau eraill cystal ag yn ei gywydd uchod, pan nad ymyrai â synwyr ac â cheinion eraill barddoniaeth, pwysicach na chynghanedd ; a goreu po cyntaf y gwnelo beirdd yr oes hon, a'r oesau dyfodol, yn gyffelyb iddo ; yna, dichon y ceid caniadau Cymreig ym mhen amser, o'r un dosparth a'r eiddo Homer, Virgil, Dante, a Milton, gwerth i genhedloedd eraill ddysgu'r Gymraeg er eu mwyn.

Cariad ydyw testyn y rhan fwyaf o ganiadau Rhys Goch ; ac y maent yn anadlu heddwch dwfn, fel y rhan fwyaf o ganiadau diwedd y 13edd ganrif, a'r 14edd. Ar ol ymostyngiad y Dywysogaeth i Edward I., llwyr newidiodd prydyddiaeth y beirdd Cymreig, fel yr awgrymwyd o'r blaen. Nid oeddynt mwyach, mewn canlyniad i'r gwaharddiad, yn beiddio herio y penderfyniad Seisnig ; yn wir, anfynych y cyfeirient at deimladau cenedlaethol ; ac ni chrybwyllent byth braidd am byngciau gwladol. Er hyny, ni lethwyd yspryd y genedl ; canys trodd y beirdd eu talentau weithian, y rhai a aberthid o'r blaen bron yn llwyr ar allor Mawrth, i'w haberthu mor llwyr

¹ Iolo MSS., t. 248.

bellach ar allor Gwener ; ac y mae Rhys Goch ap Rhicert, fel ei gydoeswyr, Rhys Goch Eryri, Dafydd ab Gwilym, a rhai eraill, wrth wasanaethu eu hoff dduwies, yn amlygu'r fath doraeth o ddarfelydd, coethder chwaeth, a ffrwythlondeb crebwyll, fel nas gall darllenwyr eu rhagflaenoriaid lai na synu atynt, cystal a'u mawrygu. Dodwn rai difyniadau eto o waith y Rhys Goch hoenus hwn ger bron ; a sylwed y darllenydd mor hoff ydoedd o gynghanedd, yn enwedig y "gynghanedd sain," wrth adrodd ei syniadau barddonol. Yr enghraifft a ddifynwn yma fydd

CAN I WALLT MERCH.

Mae twf ar ben gwenn gain eiliw
 Modd laes hirllaes Iarles edliw,
 Llwyn llin lliw gwin gwaiil dyfiad
 Hyd ei sawdl dyw ei osodiad,
 Gwaiil aur arian glan glwys waneg
 Uwch dwy ael feinion gloywon glandeg,
 Talcen gwastadloyw hoyw hardd hyfryd
 Lliw ffrwd geirw garw garregryd,
 Tan y tal grisial gryswyn lewych
 Tirion olygon llonn llawenwylch,
 Dwy seren serch seirian ei gweled
 Ymhen gwenn feingan lan ail Luned¹
 Gorlliw ei grudd gwin rudd Rhasbi,²
 Lledawd aur addawd wedi 'i roddi,
 Cyfliw rhos gwylltion gellytydd deiliog
 Cwrel iachisder sywber serchog,
 A rhwng deurudd
 Gwawr ysplenydd,
 Trwyn main moddus
 Bychan gweddu,
 a min fal mel
 I'm dyns dawel
 Gwefus mirain liw cain cwrel,
 A man ddannedd a gwedd hoywgoeth
 Amlwg ymhenn gwenn gymhenddoeth,
 Gen bychan crwn a hwn mor hynod
 Ag yn nydd mynydd mewn gwn munod.

¹ Luned sydd rian bur adnabyddus i ddarllenwyr y *Mabinogion*. Darlunir hi fel hyn yn "Iarles y Ffynnawn ;"—"Ac awelel [Owain] morwyn bengrech uelen aractal eur am ei phend. agwisc obali melyn ymdanel. adwy wintas ogordwal brith am y thraet. ac yn dyuot yr porth."—*Mabin.*, Part I., p. 14.

² Gwin coch mafon (*rasperies*).

³ Yr oedd yr hynafiad yn arfer y gair *dyn* am fenyw cystal a gwryw ; megis,—

Gwis; angel o wallt melyn
 Yn wrydd aur an war y *ddyn*.

D. ab Gwilym.

*Dyn lancaith berffaith burffawd,
 Dyn dloa, ond ei bol yn diawd.*

W. Lllyn.

Mwnwgl clauerwyn
 Deuliw'r ewyn,
 Hardd ei dwfion
 O fewn meingrys
 Dan berl ysbys
 Hardd ail Enid
 Pei mesurid
 Gan gymwysder glwysder gleindid,
 Bun deg dawelddawn ysgawn wisgi,
 Ni phlyg manfeillion ar donn dani,
 Alarch wylan glan ei glwysbryd
 Meindwf iawndwf hoywdwf hyfryd.
 Dwyllaw gwynion
 Bysedd meinion,
 Ymmod huan
 ar we sidan
 ag ewinedd
 Gwridog ei gwedd
 Medrus hwylus heiliau gwinwledd,
 Hir ei hystlys weddus wiwddyn
 A chanol main gain gymhwysddyn,
 Bergron esgair
 Wengroen iawngrair
 A throed da i lun i'm bun ddiwair,
 Pe cawn i'm byd ennyd annerch
 Dda'r byd o'i benn fe'i ca'r wenferch,
 Er cael un awr lliw gwawr lywy,
 Ym mhreichiau honn tonn Gwenhonwy.¹

Y mae gan Rhys Goch amryw ganiadau cyffelyb i wrth-ddrych ei serch, yn y rhai y defnyddia ddelweddau tebyg; a'r rhai sy'n llawn o'r tarawiadau prydfert haf, megis yn y difyniadau canlynol o'r gân a elwir

¹ ENID ydoedd un o dair rhian ardderchog llys Arthur. Priododd Geraint ap Erbin; a chrybwyllir yn barchus am dani gan Dafydd ab Gwilym a beirdd eraill. Y mae'r gyfieithwraig bendeisgaidd, Lady Charlotte Guest, yn talu teyrnged brydfert h o glod lidd fel y canlyn:—"Throughout the broad and varied region of Romance, it would be difficult to find a character of greater simplicity and truth than that of Enid, the daughter of Earl Ynywl. Conspicuous for her beauty and noble bearing, we are at a loss whether most to admire, the untiring patience with which she bore all the hardships she was destined to undergo, or the unshaken constancy and devoted affection which finally achieved the triumph she so richly deserved.

"The character of Enid is admirably sustained throughout the whole Tale; and as it is more natural, because less overstrained, so perhaps, it is even more touching than that of Griselda, over which, however, Chaucer has thrown a charm that leads us to forget the improbability of the story.

"There is a Triad, in which Enid's name is preserved as one of the fairest and most illustrious ladies of the court of Arthur. It runs thus:—

"Tair Gwenrian Llys Arthur: Dyflr wallt euraidd; Enid ferch Yniawl Iarll; a Thegan Eurfron; sef oeddynt Tair Rhlain ardderchwag Llys Arthur."—*Mabin.*, Part. III., p. 164.

² Iolo MSS., t. 229.—Ychydig a wyddys am "Gwenhonwy." "Rhien brydfert h oedd Gwenonwy," medd y Dr. Pughe, "hanes yr hon sydd ar goll; ond crybwyllir am dani yn fynych gan y beirdd." (*Cambr. Biog.*, p. 159). Defnyddia D. ab Gwilym yr enw wrth ddarlunio Morfydd (*Barddon.*, t. 14); ond nid ydyw eglur pa un ai enw priod ai cymhwysiadol ydyw ganddo ef, er y dywed y Dr. Pughe yn bendant, wrth egluro yr enwau sydd yn Ngwaith D. ab Gwilym, mai enw merch Ifor Hael oedd Gwenonwy, yr hyn, fel y dangoswyd eisoes, sydd gam-syniad dybryd: *Barddon. D. ab Gwil.* t. 538.

CAN MAWL MERCH.

Cerddai dynwar wyneb daiar
yn hardd baunes drwy'r melyndes
ag ni phlygai man y cerddai
dan wyndroed hon un o'r meillion.

Terfyna'r gân sy'n cynnwys y llinellau tlyision yna fel y canlyn :—

Ei mwynder gwenn ai gair cymmen,
ai llafar doeth Lloer awengoeth
ai goslef gwar lle can meinwar,
ai goslef maws nawcan eaws,
am dettry'n llwyr om holl synwyr,
a ddod wallcof cadarn ynof
am rhy mewn bedd llyna'ri diwedd,
onis caf honn claf fy nghalon,
onis caf hi yn chwaer immi,
Cyn diwedd haf marw fyddaf,
meddylied honn iachau nghalon
ag onis gwna ys gwn yn dda
Ei serch a fydd fy nihenydd.²

Cyffelyb o ran awen a dillynder ydyw holl ganiadau serch Rhys ; ond ni wiw helaethu ar y dosparth yma o'i ganiadau. Weithian dodir ciptrem ar ei allu i ddarlunio natur. Braidd nad yw annichonadwy rhoi portreiad mwy naturiol a deniadol o hoff dymmor, a hoff lanerchi anwyliaid serchiadol, nag a geir yn y pennillion canlynol, o'r gân a elwir,—

CAN SERCH O'R HEN GANIAD.

GORTHRWM a thrwm a thrist fyddaf
Ni charaf un tro tra fo gauaf,
Oni ddel mai glasai glosydd
A gwyrddion penn pob glwys irwydd
Mae immi glas urddas gwyrddail,
Calon hoywfron hyfryd adail.

Mewn llwyn ffyrdd duwyrdd dyfiad,
Harddgrwn yw hwnn hynaws gaead,
Ni ddaw ai annedd y cas ddynion,
Na neb ond medrus moddus mwynfron,
Hyfryd ei bryd clyd pan ddeilio,
Ty glas parlas purlan arno.

Cyntedd tirion mwynion manwydd,
Ar lawr meillion gleision glosydd
a rhag serchog ddoniog ddenus
Yn canu'n lwys lais cariadus,
A chiw bronfraith buriaith beraidd
Yn canu'n hardd loyw hoywfardd hyfaidd.

Eos o'i llwyn yn fwyn gyfannedd
Arail mewn gwyrddail gerddi maswedd.

¹ Dyna : arferai yr hynafaid llyna a llyyna yn fynych am dyna a dyna.

² Iolo MSS., t. 244.

A chyda'r dydd ehedydd hoywdon
 a gan yn drylwyn fwyn bennillion
 a phob llawenydd hirddydd hyfryd
 O th gaf wenna yno ennyd.¹

Yr ydys yn llwyr gydsynio â Stephens,² nad oes farddoniaeth fugeiliol burach a mwy diledryw yn hanfod na chaniadau Rhys Goch ap Rhicert a Dafydd ab Gwilym, ei gydoeswr; eu bod yn cynnwys gwir syniadau gwladwyr meddylgar, ac yn hollol lân oddi wrth destynau cyffredin, rhodresgar, llawer o fugeilgerddi estronol; a pha fardd Cymreig bynnag a fynno ragori fel bugeilgerddwr, y dylai fod yn berffaith gydnabyddus â chaniadau Rhys Goch a Dafydd ab Gwilym. Gwelir yn y pedwar pennill blaenorol bod Rhys, fel pob bugail o'r iawn ryw, yn dra hoff o gantoron y goedwig. Canfyddir yr un hoffder yn y gerdd ganlynol, a elwir—

CAN I DDANFON YR ADAR YN LLATTEION AT FERCHII.

Serch a roddais, ar ddy'n feinais,
 Hoen geirw mor gwyllt Bun ael Essyllt,³
 Ei thegwch hi Bu'n saeth imi,
 E'm saethes honn o'i golygon.

Wedi i'r bardd fethu cael ymddiddan â hi, erfyniai ar yr adar ei hyspysu o'i gariad tuag ati, gan ddywedyd,—

Dos di'r fwyalch at ddy'n feinfalch,
 Dangos iddi mhoen am dani
 Bronfraith a gan ar wydd eirian,
 dwg oll o'm cwyn at loyw forwyn
 Tithau 'r hedydd Bardd Boreuddydd
 Dangos i honn fy nhorr calon.
 Dod dithau'r gog a'th don serchog
 ynghlust y ferch fy nghwyn traserch
 Cyfaill cyfnos, Wyf i'r Eos.
 Aed honn ar fïest Am cerdd arwest.
 At liw calch gwynn Yn ael Dyfryn.
 Yna d'wedyl Wrth fanwylyd
 Os hi ni ddaw i'm cysuraw
 I goedlwyn i'r Fanwyl Feinir,
 O'i serch lliw'r haf, marw fyddaf.⁴

Ymddengys y barnai'r Dr. Pughe mai i Dafydd ab Gwilym y perthynai'r clod am ddwyn y dull prydfferth yma i arfer

¹ Iolo MSS., t. 228.

² Lit. Kymry, p. 483.

³ Yr oedd tair rhian a elwid Essyllt. Dywedir am yr hon y cyfeirir ati yma (*Ysult le Blande*) bed "el gwedd yn decach na'r eira puraf, na phlu yr alarch, neu sagwrn y morâl."—*Williams's Em. Welshm.*, p. 146.

⁴ Iolo MSS., t. 232.

mewn barddoniaeth ; ac i'r rhan fwyaf o feirdd dilynol Cymru ei gymmeryd ef fel cynllun.¹ Gwallter Mechain hefyd a ddywed y dysgai D. ab Gwilym "yn oed i ddylluan ac i biden siarad yn Gymraeg glân gloew,"² heb son dim am Rhys Goch ap Rhicert. Yr oedd y ddau lenor hyny yn ysgrifenu cyn i ganiadau Rhys gael eu cyhoeddi yn yr *Iolo MSS.*, ped amgen, gwelsent fod y

"Prydydd a'i gywydd fel gwin
A aned yn mro Gynin."

yn Sir Aberteifi, yn cydoesi a Rhys Goch, oedd a'i

Ganiadau yn gain odiaeth,

yn Nhir Iarll, ym Morganwg ; ac y mae'n bur debyg na wyddai y naill ddim am y llall. Y mae amryw esamplau o Natur yn tywallt ei doniau ar wahanol bersonau yn yr un oes, mewn gwahanol ororau ; megis Gwallter Mechain, Dewi Wyn, Ieuan Glan Geirionydd, John Elias, Christmas Evans, Williams o'r Wern, ac eraill.

Y mae cynllun caniadau Rhys Goch yn bur syml : pennoda'r bardd y gwrthddrych y bwriada ymddiried ei genadwri iddo ; disgrifia ei gynneddfau ; ac oddi wrth hyny, yr ansoddau a'i cymhwysai i fod yn genad iddo ; ac yna ymddiriedai y gorchwyl pwysig i'w ofal. Perthyn i'r dosparth yma y mae'r ganig dlos ganlynol :—

CAN I YRU'R WYLAN YN LLATTAL.

Yr wylan deg ar fol gwaneg,
ymhliith dystrych yr heli crych,
Brenhines wenn geirw mor Hafren
a'th Deyrnas di nawton gweilgi.
ymborth ydd wyd ar bysgodfwyd,
Gwisgi meinwen wyd ar aden,
ac er mwyn hynn wyf yn d'ofyn.
Dwg erof gan o'm oer gwynfan
At fein dwf ferch yn deg annerch,
Claf wyf am wenn hoen ôd gaenen
Fe ddodes honn saeth im dwyfron,
A'u dwyn ydd wyf gloesion irnwyf,
Dywed wylan wrth liw'r od man,
Fy mod wen gu yn ei charu,

¹ Cyhoeddwyd Barddoniaeth D. ab Gwll. yn y fl. 1789.

² Ysgrifnodd Gwallter Mechain ei "Draethawd ar Brydyddiaeth Gymreig" eibyn Eisteddfod Caerfyrddin yn y fl. 1834 (Gwaith. G. Mech., cyf. II., t. 164) ; ond ni chyhoeddwyd yr *Iolo MSS.* hyd y fl. 1843.

Cyrch hyd ei chaer Bun oleuglaer,
 a chan om pen ei mawl meinwen,
 Pei gwnawn arwest o'r pum gorchest
 ni thraethwn fawl a fai moddawl,
 na chanfed ran clod bun eirian,
 oni chaf honn tyrr fy nghalon,
 af i boeni dan wyddeli,
 yno'n draphell yng nghudd coedgell
 Meinwar a fydd fy nihenydd.¹

Y gerdd nesaf a ddifynir, yr hon sydd wir swynol, yw

CAN Y FRONFRAITH.

Bum yn ael Maes Dan bren briglaes
 Yn clywed ton adar gwylltion
 yn gwrandaw iaith, Cefliog bronfraith,
 o goed y glynn Prydai englyn,
 o goed y rhiw canai 'n gywiw,
 Brith oedd ei fronn mewn dail gleision
 mal ar gangau mil o flodau,
 yn ymyl nant pawb a'i clywant,
 gan wawr y can mal cloch arian,
 cynnal aberth hyd awr anterth
 ar allawr las Heiliaw Barddas.
 o gangau cyll gwyrddion defyll
 y can gywydd i Dduw Ddofydd,
 a charol serch o las lanerch,
 I bawb ar bant glyn ai carant,
 Eli calon I'r serchogion,
 Cefais ei benn cyflais awen,
 Cerdd o fitres am boddrones.
 Llawen a'm gwnaeth Ei ganiadaeth.
 Yna drwy barch Dodais gyfarch
 o glais y glynn I'r aderyn,
 Erchais yn ffraeth Ei Latteiaeth
 at y wenferch lle mae'm traserch.
 Aeth bardd y dail o'r man wiail,
 at ail Luned Haul y merched.
 I glais y Fro Mair ai llwyddo.
 Er dwyn immi Dan fr lwyni
 Hoen ôd unnos yn ddiaros.²

Er mor anhawdd ymadael â'r bardd nwyfus a naturiol hwn,
 sydd yn canu mor beraidd a swynol i natur ag y cân i'w
 anwylyd ; eto rhaid cefnu arno gyda rhai difyniadau o'r gerdd
 naturiol sydd ganddo, a elwir—

CAN YR HAF.

Canaf yd haf wyd hoywfeirdd Bennaeth
 Canhewydd llwyn drain gain ganiadaeth,
 Caniadau adar gwar gwydd irion
 Cynnadl cerddoriaeth cain dderw Coedfron,
 Coedfron blagurlawn dawn dadeni
 Caeadfrig addien gwyrdd llwyni

¹ Iolo MSS., t. 239.

² Yr un, t. 237.

Llwyni llawn gwiall gwelir beunydd
Llennyrch lle i dygir Degau elfydd.

Taro tant alaw nant ael y naw twyni,
Til dy rwm tal dy rwm canu twm teini.

Elfydden geimiad ceidwad coedydd,
Elfyw dail meillion llonn llawenydd.
Llawen Bardd awen ewybr enau,
Llywy maes arlwy ar lawr bryniau,
Bryn a phant tyfant tewfawr waneg,
Brenin hin hoenus hynaws adeg,
Adeg serchogion dynion dawngar,
Ydwyd haf irlas ar lwyn adar.

Taro tant alaw nant ael y naw twyni,
Til dy rwm tal dy rwm canu Twm Teini.

Adar Bydafau heidiau hedant,
a daw cain gogau dolau deilbant.
Dail bawrlwyth garddlwyth amgylch gwyrddlwybr.
Deiliaid gwlad gaead gywen loyw-wybr,
Gloywybr mandes cynnes ceiniad anterth,
Glas barlas berwlith bliith blawd glynberth,
Glyn, bryn, brwyn llwyn llewych gwenhaul,
Glân bryd yn diffyd dyffryn araul.

Taro tant alaw nant ael y naw twyni,
Til dy rwm tal dy rwm canu Twm Teini.

Araul dy fore dy fardd ydwyf
Eirian dy hinon hynaws irnwyf.
Irnwyf am doddwy dydd ymadfynn,
Eurner wyd immi dymor gloywyn,
gloyw a hoyw hygar daiar duedd,
glyw wyd haf hyfaeth hoyweirdd drasedd,
Trasawl cariadawl croywdwf irddail,
Trasyw tres adar llu gwar gwilail.

Taro tant alaw nant ael y naw twyni,
Til dy rwm tal dy rwm canu Twm Teini.¹

HYWEL AP RHYS, yr hwn hefyd 'a elwid *Hywel Bwr Bach*, oedd fardd y tybir ei fod yn ei flodau rhwng y fl. 1330 ac 1360. Dywedir ei fod yn llywyddu Gorsedd Farddol ym Morganwg yn y fl. 1330.² Os felly, rhaid yr ystyrir ef yn fardd lled bwysig yn ei ddydd. Pa wedd bynnag, ni ddangosir pwy oedd yn bresennol yn yr Orsedd honno heb law efe ei hun; ac nid ydys yn gwybod bod dim o'i waith llenyddol ar gael.

GRUFFYDD AP ADDA AB DAFYDD ydoedd fardd a ffugebydd doniol. Ddir ef yn ei flodau rhwng y fl. 1360 ac 1390,³ ac o'r fl. 1330 i 1370;⁴ ond gan i Dafydd ab Gwilym, yr hwn a fu farw yn y fl. 1368, gyfansoddi marwnad ar ei ol,⁵ rhaid ei fod

¹ Iolo MSS., t. 240.

² Jones's Hist. Wales, p. 224; Williams's Em. Welshm., p. 231.

³ *Ibid.*, p. 183.

⁴ Stephens's Lit. Kymry, p. 421.

⁵ Barddon. D. ab Gwilym, t. 472.

wedi marw cyn hyny. Gellir casglu oddi wrth y farwnad hono, y lladdwyd Gruffydd yn Nolgellau, ac mai yno y claddwyd ef. O herwydd hyn, gellir casglu mai nes i'r nod ydyw, ei fod yn ei flodau o 1330 i 1360.

Dywedir bod amryw o'i ganiadau mewn llawysgrif. Nid ydys yn gwybod i ddim o'i waith gael ei argraffu, namyn un chwedl ddoniol, ar ol yr hon y mae ychydig linellau barddonol; ac ymddengys i'r rhai hyny gael eu cyfansoddi cyn i gyng-hanedd gaeth ddyfod yn anhebgor i farddoniaeth Gymreig. Wele ychydig enghreifftiau o'r chwedl, ynghyd â'r holl brydyddiaeth sydd yng nglŷn â hi:—

BREUDDWYD GRUFFYDD AB ADDA AB DAFYDD.

Breud-lywd y mab o gyvoeth Arwystli a vu yndyoddev poen ddiweddar o serch, o noswyl Andras hyd noswyl Dwynwen. Ac val yr oedd ef a'i gydymeithion yn ol gwasanaeth diandlawd yn Mangor vawr yn Ngwynedd, ar ol gwinn o wydyr ac arian, medd o vual, a bragawd o vasarn, yr aeth i'w ystavell; ac yno yr oedd gwely euraid ariangylch; ac ar y gwely yr oedd vatrys o ddwylath o dewder o van geseilbly penloynod culion; ac ar uchav y matrys yr oedd saith llenllian wmpwl, a saith nyblyg o lawnt ynddynt; ar uwchav y rhai hyn yr oedd llen â weuasai rhianedd y gogledd â'u bysedd o vlaengoeth sidanvlew sythglustiau pryv ermin, yr hwn a dalai naw ugain blewyn gwaethav dan ei don; a llen uwch ben y gwely wrth linyrau euraid, o'r un rhywogaeth, ond bod arni amrywioi liwiau, mal y bai wrthun gan ddyn edrych ar baen yn castellu!.....a welsant Degau newydd ddyvod o'r.....I'r gwely yr aeth y macwy mawrfrydig hwn, a'i uncrys o sidan; gorwedd a wnaeth â chlustog o bali dan ei ben, a dwy glustog o sidan dan ei ddwy benelin; ac yno y daeth organ yn canu yn ei glustiau, ac ar ben y cynthun cyntav a gysgodd, ev a'i gwelai ei hun yn cerdded prifordd gan ystlys privavon, drwy goedwig anial; ac ar vrig y coed hwnw paradwysaidd adar yn canu pob amraveillion baradwysaidd leisiau.....niwl oddiar.....o chrwybyr oddiar.....na gwllith oddiar.....ymhen eithaf y goedwig hon ev a ddarganvu ddyffryn gwastadwyrd, a choed gogyvuuch, a daiar gogyvla, gwellt gwyrdd gorweillig, ac aber o groeddwr graianwyn rhedegog, yn rhanu y dyffryn yn ddau hanner; ac o'r naill du i'r avon yr oedd ceirw cochion, ac ewigod, ac elanedd brithion yn chwareu; goris hyny yr oedd iyrchod ac iyrchellau llawdymion yn carlamu; gerllaw hyny yr oedd bychod daniawg a geivyr yn bonlmy ac yn neidiaw; gerllaw hyny yr oedd ysgyvarnogod rhuddion, a chwningod llwydion, gwynion, a duon, yn chwareu vant drwy vant, ac yn myned i'r ddaiar. Ac o'r tu hwnt i'r avon nid oedd yn tyfu amgen lyseuodd no meillion cochion a meillion gwynion, gogyvuuch â llygaid y dydd a'r camemeil; ac o'r tu arall i'r avon yr oedd eleirch gwynion a'u cywion llwydion, ac eleirch llwydion a pheunod gwylltion a pheunod dovion yn castellu, ac ieir mynydd a cheiliogod duon yn cadvau; ac o'r tu hwnw i'r avon yr oedd fenigl cochion; ac o bob tu i'r dyffryn yr oedd gwinwydd dovion yn tyvu yn isel, a gwinwydd yn y bronnydd; ac yn neheudir y dyffryn hwnw ev a welai newyddgaer ardderchawg ag amrywionion dyrau; ac ar y twr uchav ev a welai yr unbenes vawryvig, drwy ffenestyr wydyr yn cistedd mewn aurhydeddewisg o bali melyngoch a phorphor odidawgwedd diandlawd gwyn, a llen o bali coch rhag dygydd gwynt na llwch dros ei phen, a rhagdal o aur Aravia: a phedwar maen ar ugain oedd ar y rhagdal o vain gwyrtvawr. Cystal y llewyrchai y distadlav o honyt â'r haul wyl Ieuan hanner hav.....A'r macwy mawryvyg a vwiodd

1 Diffyg yn yr adygrif.

hyldrem olwg serchawgwyllt ar yr unbeneſ. Hithau a ddywedlai yn barablgroew ddwysedigaid, iawnach oedd it' vab edrych ar y niver sydd o'r tu hwnt iſi nog edrych arnav vi yn dyngwaith, Troi ei olwg a wnaeth ac edrych yn ei ol, ac ev a welai....ymladdwyr collwaed, a thranc marwolaeth, a'r glew yn glynu, a'r drud yn gwadu, a'r llwvr yn llechu, a'r dewr yn cyrchu, a chlod i wrolaeth, a chlais ar baeled, a chleddyvau yn vylchawg, ac ereill mewn dig, o chwynvan a thuchan, a griddvan a greddvau angau, a brathu gwenwynawl, ac angeuol ddyrn-odiau....Edrych a wnaeth y macwy mawryvig am yr unbeneſ oedd yn y twr; yr oedd hithau yn edrych ar ei chysgod yn y main gwyrthvavr oedd yn y modrwyau aur oedd am ei bysedd; ac yna y dywed y macwy wrth yr unbeneſ val hyn :—

Goreu bun gwen o'r gaer eglurliw
 Glaer ei llun a'i lliw,
 Paham yr ymwan heddiw ?
 Nid er bocſach yn y gradd,
 Cyt bo mynor yn y maenor a main nadd
 O'm achaws i mae yr ymladd.
 Gwen lathraidd loewrudd radd,
 Py a'm dwg seithyg ſon,
 Pa henyw'r marchogion ?
 Ev a henyw'r marchog draw
 A laddoedd Brynaich a'i law ;
 Poen y llovrudd alavrudd o Lydaw.
 Pwy yw'r gwr a'i dorv yn gorwedd,
 Ar arvau a brain ar ei vedd ?
 Llawred lavngocho o'r Gogledd,
 O'm achaws i vu ei ddiwedd.
 Gwnaeth heddyw dy liw dylithiaw brain yn ngwyar,
 Oes obaith i'r mab a'th gar ?
 Clod clyw vy ngair, nid celwydd ;
 Ni bu, nid oes, ac ni bydd
 Byth gydag..... yr a hwnw a wyr y.....
 A chan hyny y defroawdd y macwy¹

LLYWELYN GOCH AB MEURIG HEN ydyw y bardd nesaf a gyflwynir i sylw y darllenydd. Y mae saith, o leiaf, o'i ganiadau ef yn argraffedig ;² a dengys cofres y I'r. Pughe bod tair yn ysgrifenedig yn Ysgriflyfrau Myfyr. O'i holl ganiadau argraffedig, yr hynotaf yw ei "Gywydd Marwnad Lleucu Llwyd," am yr hwn gywydd, y bardd, a'i destun y dywedir fel y canlyn :—

LLEUCU LLWYD ydoedd rian rinweddol, nodedig am ei glendid a'i phrydferthwch, yn byw yn Mhennal, ar lan yr afon Dyfi, oddeutu pedair milltir o Aberdyfi, ar ffordd Machynlleth, yn y 14eg ganrif. Cerid hi a' chariad pur gan LLYWELYN GOCH AB MEURIG HEN o'r Nannau, ger llaw Dolgellau. Ond nid oedd ei thad mewn un modd yn foddolawn i'r garwriaeth, ac achubai bob cyffe i yru anghariad rhwng Lleucu a Llywelyn. Un tro dygweddodd i Llywelyn Goch fyned ar daith i'r Deheubarth, a daeth ei thad at Lleucu, a dywedodd wrthi, er mwyn diddyfnu ei serch oddiar y bardd, fod Llywelyn wedi ymbriodi yno a merch arall. Pan glywodd Lleucu yr ymadrodd hyn, hi a syrthiodd mewn llewyg, ac a drengodd yn y fan ! Dychwelodd Llywelyn adref; ac ofer ceisio darlunio ei deimladau pan ddeallodd fod hyfrydwch ei lygaid wedi huno yn yr angau ; a

¹ Y Gwaſ, t. 341.

² Myv. Arch., t. 340—41, 344—5, 352; Evans's Specimens, 2nd Ed., p. 176.

than ei deimladau cyffrös ar yr achlysur, efe a gyfansoddodd yr Alarnad ganlynol, am yr hon, er holl gloffrymau'r gynghanedd gaeth, y gellir dywedyd, megis y dywedodd Daniel Ddu am Alargwyn Burns ar farwolaeth ei *Highland Mary*, mai cerdd ydyw a fydd byw nes bo i holl dyrau dawn syrthio i lyngclyn anghof tragwyddol.

Yr oedd yr anffodus Lywelyn Goch yn fardd penigamp yn ei ddydd; a chyfrifir ei fod yn ei flodau o'r fl. 1330 i 1370.¹ Argraffwyd chwech o'i gyfansoddiadau yn y *Myv. Arch. of Wales*; ac y mae amryw eraill yn aros hyd yn hyn mewn llawysgrifen heb weled goleuni dydd. Nid ydys yn gwybod fod yr Alarnad a ganlyn wedi ei hargraffu erioed o'r blaen. Y mae yn ein meddiant gyfieithiad Saesonig o honi mewn rhyddiaeth Ieuan Brydydd Hir; ac efelychiad o fesur cerdd, yn yr un iaith, o waith y diweddar Risiart Llwyd, Bardd Eryri. Ysgrifenydd Marwnad Llywelyn Goch ei hun gan Iolo Goch.

Y mae, neu o leiaf yr oedd, caead arch un Lleucu Llwyd, yr hon a fu farw yn y fl. 1402, i'w weled yn eglwys Llanceurgain yn Sir Fflint; ond nid ymddengys mai Lleucu Llwyd o Bennial yw y rhian a goffeir yno. Yr oedd Lleucu Llwyd Llanceurgain yn ferch i Rys ab Robert, o'r Cinmael, ac yn wraig i Hywel ab Tudur, o'r Lllys, ymhlwyf Llanceurgain, ac yn nith i'r bardd Dafydd Ddu o Hiraddug. Hywel ab Tudur ydoedd un o henafiaid y teuluoedd presenol sy'n dwyn yr enw Mostyn.

Y mae *Llywelyn* a *Lleucu* yn gystal testyn cerdd a *Romeo and Juliet*; ond pa le y mae'r Shacspear Cymraeg i ysgrifenu trychwawd arno?—*Y Brython*.²

Weithian, dodwn rai difyniadau o'r farwnad nodedig dan sylw :—

Llyma haf llwm i hoew-fardd,
 A llyma fyd llwm i fardd !
 Nid oes yn Ngwynedd heddiw,
 Na loer, na llewyrch, na lliw,
 Er pan rodded—trwydded trwch—
 Dan lawr dygn dyn loer degwch.
 Y ferch wen o'r dderw brenol,
 Arfaeth ddig yw'r fan o'th ol !
 Cain ei llun, canwyll Wynedd,
 Cyd bych o fewn caead bedd !
 F'enaid ! cyfod i fyny,
 Agor y ddaiar-ddor ddu !
 Gwrthod wely tyfod hir,
 A gwrtheb f'wyneb, feinir !
 Mae yma hoewdra hydraul,
 Uwch dy fedd, hoew annedd haul,
 Wr llwm ei wyneb hebod,
 Llywelyn Goch, gloch dy glod.
 Yn cynnal hyd tra canwyf,
 Cariad amddifad ydd wyf ;—
 Udfardd yn rhodio adfyd.
 O Dduw gwyn ! hyd hyn o hyd.
 Myfi, fun fwyfwy fonedd,
 Echdoe a fûm uwch dy fedd,
 Yn gollwng deigr lled eigr-braff
 Ar hyd fy wyneb yn rhaff :
 Tithau, harddlun y fun fud,
 O'r tew-bwll ni'm hatebud !

¹ Myv. Arch. Contents, p. xii. ; Williams's Em. Welshm., p. 302.

² Fe gofir ein bod yn adysgrifenu ein difyniadau oll, mor fanwl ag y gallwn, yn llythraeth a geiriadaeth yr awduron y difynir o honynt, er mwyn i'r darlleneydd weled amrywiaeth ein llenoriaeth.

Tawedawg ddwysawg ddiserch,
 Ti addawsud, y fud ferch,
 Fwyn dy sud fando sidan,
 Fy aros, ddyn-hoew-dlos lân,
 Oni ddelwn, gwn y gwir,
 Er dy hud, o'r Deheudir,
 Ni chigle, syth-le saethlud,
 Air na bai wir, feinir fud,
 Iawn-dwf rhianedd Indeg
 Onid hyn o'th enau teg.
 Trais mawr ! ac ni'm tawr i ti !
 Toraist ammod trist imi.
 Tydi sydd yn y gwŷdd gwan
 Ar y gwir, ddyn deg eirian !
 Minnau sydd uthrydd athrist
 Ar y celwydd tramgwydd trist....
 Mi af o Wynedd heddyw,
 Ni'm dawr ba faenawr i fyw....
 Cyfod i orphen cyfedd,
 I edrych a fynych fedd ;
 At dy fardd ni chwarrdd ychwaith,
 Erot, dal euraid dalaith !
 Dyred, ffion ei deurudd
 I fyny o'r prudd-dy prudd !
 Anial yw f'ol canmoleg,
 Nid twym yw fy neudroed teg,
 Yn bwhwman gan annwyd,
 Cylch drws dy dŷ, Lleucu Llwyd !...
 Gwae fi drymder y gweryd
 A'r pridd ar feistres y pryd !
 Gwae fi fod arch yn gwarchae,
 A thŷ rhof a thi mae !
 Gwae fi, ferch wen o Bennal,
 Brudded yw briddo dy dal !
 Clo du derw—galar chwerw gael—
 A daiar, deg ei dwyael !
 A throm-goed ddor, a thrym-gae,
 A llawer maes rhof a'i lliw mae ;
 A chlyd fur, a chlo dur du,
 A chlicied—Yn iach, LLEUCU !

Y mae yn eglur i'r cywydd blaenorol gael ei ysgrifenu yn llythraeth y neb a'i hanfonodd i'r *Brython*, o'r hwn y difynwyd ef gan gyhoeddwr yr ail argraffiad o *Evans' Specimens of the Poetry of the Ancient Welsh Bards* (p. 176) ; ac y mae ei gynghanedd hefyd yn bur wahanol i'r un a ddefnyddia yr awdwr yn y caniadau sydd yn y *Myv. Arch.*, er bod ganddo fath ar gynghanedd, a honno yn lled gaeth weithiau, yn y caniadau hyny hefyd. Cymmerer ychydig enghreifftiau :—

I HOPCYN AP THOMAS.

Gogyfarchaf naf ini a rodded
 Yn llaw egored weisged wisci
 Gwawr ystrad diwad Tywi o'i dechreu
 Gwrdd foesau llachau yn ein llochi

Gorhoff gadr baladr Beli am osgryn
 Gwellyniawg Hopeyn waywryn wiwri
 Llin Domas ddifas lawen ddofi cler
 Llin Einiawn ener llaw un ynni
 Nid rhaid i eirchiaid erchi im canllaw
 Ei law o'r eiddaw a wyr rod-di
 Gwyrddlas o'r dinas daioni gofeu
 Gwin a phiolau gwynn a phali.

I LYWELYN FYCHAN AC I RYDDERCH EI FRAWD.

Henynt o le ni hunir
 Heol y glyn hail y gler
 Hedd hawdd ddiommedd ammer
 Hirdda fawl heirdd ddau filwr
 Milwraidd gorph mal Urien
 Mygr Rydderch gaethserch gaethson
 Meinlaw ail mwyn Lywelyn
 Meddgell ddifachell fychan
 Bychan yw fy rhan o'r rhad a'r echwyn
 A'r uchel ysgarlad
 Hyd pan ddyeco cyffro cad
 Duw o Loegr ein dau lygad
 Llygad ei hael wlad yw hwn
 Llaryaidd Rydderch lunniaidd lonn
 Ail llygad y winwlad wenn
 Yw fy llawlyw Llywelyn.

AWDL I DDUW.

Duw Sul un hyder gwn y ganed
 Mab Duw—ag i doeth i'n gwared
 Braint y saint ar y seithfed
 Bedydd a chrefydd a chred
 Duw Llun naf gwiwlun aber goleu lles
 Llys uffern a orfu
 O'r dydd y codes Iessu
 O farw yn fyw da farn fu
 Duw Mawrth coeth ydoedd wr diwael yngallt
 Yngwydd pobl Israel
 Yn un Duw Tad i'w adael
 Yn dri cun drugarog hael
 Duw Mercher archerarch adreg o'r nef
 Pan ddeuth naf aur anreg
 Gwnaeth Duw bob dwyfol oddeg
 I gwnaethpwyd brad y tad teg
 Duw Iau mab da rad diwradydd da lw
 I dylawd yn ebrwydd
 Gwir wared Ior reged rwydd
 Gwawr eurglod yn gwir Arglywydd
 Duw Gwener pryder pryd egwan Sawd
 Gwnaeth Suddas a chusan
 Diau gwneud gloyw enaid glan
 Dihenydd Duw ei hunan
 Du v Sadwrn wiw dwrn o ddihenydd hael
 I helaeth drugaredd
 A dywed yn y diwedd
 At y tad iw wlad ai wledd.

I wledd anherfynawl Ior
 Y sydd uwch law haul a ser

A ddarparawdd rhag cawdd cur
 Duw i holl ddynion daear
 A byt teg a bywyd hir
 A gawn o charwn y gwr.

Y gwr a rannodd ei riniau
 Ar dafawd gwarawd a phob geiriau
 A'n creodd o bridd a phrif Sugnau
 A'n prynodd ar waed ei draed ai fronnau
 A'n troes ni i gyffes heb air gau
 A'n trosso ni i bob trossedd gorau
 I foli'r Drindod trwy gardodau
 I garu Mab Duw er ei fyw ddoniau
 I foli braint y Saint a'r Santessau
 I erfyn gweddi Mair er ei mawr radau
 I gymmeryd penyd rhag y poenau Uffern
 Ag affaith pechodau.

Dyna ddigon, fel y tybir, nid yn unig i ddangos teithi prydyddiaeth Llywelyn Goch ab Meuryg Hen, ond hefyd i ddangos ansawdd y grefydd a broffesai.

Cofres o enwau llenorion eraill y rhan gyntaf o'r 14edd ganrif, eu hamserau a'u cyfansoddiadau :—

- 1300—1330 Llywelyn Fychan ap Llywelyn Foelrhon, ysgr.
 1300—1350 Rhys Meigen, 3 englyn.
 1300—1350 Y Proth, 1 gân argr.
 1300—1350 Dafydd y Coed, 7 o ganiadau argr.
 1310—1350 Thomas ap Einion Offeiriad, priodolir iddo 9
 o ganiadau argr., ac amryw eraill ysgr.
 1300—1370 Gruffydd Gryg, 10 o ganiadau argr., ac
 amryw ysgr.
 1310—1350 Dafydd Ddu o Hiraddug, amryw ganiadau
 argr. ac ysgr.
 1310—1360 Goronwy Gyriog, 2 gân argr.
 1310—1360 Llywarch y Nam, 1 gân argr.
 1310—1360 Iorwerth Llwyd, 1 gân argr.
 1310—1360 Meurig ap Iorwerth, 1 gân argr. a rhai ysgr.
 1310—1380 Dafydd Nanmor, 6 o ganiadau argr. a lluaws
 o rai ysgr.
 1310—1400 Rhys Goch ap Rhicert, 20 argr.
 1320—1360 Hywel ap Rhys = Hywel y Pwr Bach. Llyw-
 ydd yn 1330.

- 1320—1370 Goronwy Ddu, neu Goronwy Ddu ap Tudur ap Heilyn o Fon, 2 gân argr.
- 1330—1370 Gruffydd ap Adda ab Dafydd, 1 gân argr. ac amryw gyfansoddiadau ysgr.
- 1330—1370 Llywelyn Goch ap Meurig Hen, 7 o ganiadau argr., a rhai ysgr.
- 1330—1370 Mab y Clochuddyn, 1 gân argr.
- 1330—1370 Hywel Ystoryn, 1 gân argr.
- 1330—1370 Tudur Ddall, 1 pennill argr.
- 1340—1376 Robin Ddu Hynaf o Fon, 1 gân argr. a rhai ysgr.

PENNOD VIII.

IEUAN HEN; IEUAN FAWR AP Y DIWLITH; GRUFFYDD LLWYD AB DAFYDD AP EINION LYGLIW; RHYS BRYDYDD; IEUAN TEW HEN; HYWEL SWRDWAL; CYFRES O ENWAU LLENORION, EU HAMSERAU, A'U CYFANSODDIADAU.

Y MAE genym enwau cryn lu o feirdd a llenorion a fucheddent yn ystod y rhan olaf hon o'r 14edd ganrif; eithr nid oes ond ychydig iawn o waith a hanes nemawr o honynt ar gof a chadw. Yn wir, ymddengys i lenyddiaeth Gymreig ddirywio llawer ar ol yr oes egnïol flaenorol, a chyn y diwygiad a gymmerth le yn ystod y ganrif nesaf, fel y ceir gweled rhag llaw. Mewn gwirionedd, dydd a nos, haf a gauaf, tyfiant a gwywdra ydyw y rheol gyffredin yn y byd hwn. Y prydydd blaenaf ar ben y rhestr yn y cyfnod yma hyd y canfyddaf, ydyw

IEUAN HEN, yr hwn y dywedir ei fod yn ei flodau rhwng y fl. 1350 ac 1380; ac a lywyddai mewn Gorsedd Farddol ym Morganwg yn y fl. 1370;¹ ond nid oes dim arall, hyd y

¹ Williams's Em. Welsh., p. 241.

gyddys, o'i waith ar gael. Dywedir mai ei ddysgyblion yn yr Orsedd honno oedd Gwilym ap Ieuan Hen, a Hywel Swrwal.¹

IEUAN FAWR AP Y DIWLITH, oedd fardd a ystyrir yn enwog yn ei ddydd. Ceir y sylw canlynol arno ef yn yr *Iolo MSS.*:—

Beirdd Tir Iarll yn cyrchu Twmpath Diwlith ar Fynydd Margam un bore dydd Gwyl Ieuan yr haf er cynnal Cadair wrth Gerdd Dafod, a gawsant faban newydd eni yn fadfyw ar y Twmpath, Rhys ap Rhiccart ap Einion ap Collwyn ai cymmerodd, ag adref ag ef, a'i roi dan ofal mammaeth; bu fyw'r plentyn, rhoddwyd ysgol a chreffit iddo. Efe a gymmerodd ei ddysg mor awyddfawr ag y cymmerai blentyn Laeth bron ei Fam; ag yn ebrwydd yn ei oedran gwelwyd ef yn blaenu ar holl athrawon Cymry. Llyfr a wnaeth ef un oedd Llyfr Cadwedigaeth y Gymraeg a Cherdd Dafod ag a berthynai iddynt parth baint a defod gwlad a Chenedl a Barn Doethion efe a wnaeth y grealau a'r Mabinogi a llyfr y naw gloes ar pedwar addurn ar hugain, a Llyfr Dammegion, a llawer Llyfr arall; gwnaeth hefyd gof a chadw ar wybodau Doethineb ac ar gyfreithiau Cenedl y Cymry. rhoddod enw Ieuan ap y Diwlith arno am ei gael fal a wedwyd or blaen ar Dwm-path Diwlith Bore Gwyl Ieuan yr haf ac am mai gwr Mawr ydoedd, Gelwid ef Ieuan fawr ap y diwlith. Byw a marw yn Llangynwyd lle ai claddwyd ef ym mhliith Teulu Llwydarth. Aeth y gair mai mab yn mhob tebygoliaeth oedd ef i Rys ap Rhiccart ap Einion o Bendefiges uchel ei gwaed. A phan honnid hyny lle byddai ni wadaf ef amgen na thewi a gadael i hyny fod. (Llyfr Cofion Ieuan Bradford o Llyfr Antoni Powel o Lwydarth yn y Goetre Hên.)²

Dyna'r cwbl a wyddys am y llenor pwysig hwn a'i waith; a dengys y llythraeth a'r eiriadaeth nad yw yr adysgrif uchod ddim hynach na John Bradford ei hun, yr hwn oedd yn ei flodau rhwng y fl. 1730 ac 1780; ond yr oedd "Llyfr Antoni Powell" yn rhywfaint hynach; a dichon iddo ef gael yr hanes o lyfr hynach fyth, neu oddi ar lafar gwlad.

Dywed Iolo Morganwg mewn nodyn ar odreu'r ddalen fel hyn:—"Yr oedd Ieuan ap y Diwlith yn byw ynghylch y flwyddyn 1160, neu o hyny i 1180." Yr oedd angenrhaid ar Iolo am yr amseriad yma mewn canlyniad i Ieuan fod yn fab i Rhys Goch ap Rhicert, yr hwn a ddodasid gan Iolo yn flaenorol o gylch 1140; ond dangoswyd eisoes bod Rhys yn byw rhyw ddau gan mlynedd yn ddiweddarach; gan hyny, yr oedd yn rhaid i'r Mab Ieuan fod yn ddau gan mlynedd diweddarach hefyd. Tybir ei fod ef yn ei flodau o 1370 i 1400.

GRUFFYDD LLWYD AP DAFYDD AP EINION LYGLIW, oedd un o'r beirdd rhagoraf, os nad y rhagoraf oll, o feirdd yr hanner

¹ Jones's Hist. Wales, p. 224.

² Iolo MSS., t. 88.

canrif yma. Efe oedd "Bardd Teulu" a "Phencerdd" Owain Glyndwr; ac y mae ei gywydd i ddyrchafu ei dywysog am ei haelioni, ei ddewrder, ei fedrusrwydd, a'i gymhwysderau eraill i fod yn arweinydd i'w genedl, ac i'w hachub rhag trais ac yspail y Normaniaid, yn un o'r darnau tlysaf a mwyaf darlun- iadol sydd yn yr iaith Gymraeg; a chan ei fod yn anhyspys i ddarllenwyr cyffredin, difynaf y rhan fwyaf o hono isod:—

Eryr digrif afrifed,
Owain, helm gain, hael am ged;
Eurfab, a gwr i orfod,
Gruffydd Fychan, glân ei glod.
Aer y Glyn, meist'r rhoddlyn rhydd
Dyfrdwy fawr, dwfr diferydd.
Ner mawla'r naw rym milwr,¹
Nag ar synad arnad ŵr,
Yn awr yr aethost ar wyth
I Brydain darpar adwyth.
Clywais o ben rhyw genad
Cei ras Duw, cywir ystâd!
Cael yn yr aer,² calon rwydd,
O honod fawrglod farglwydd!
Daroganawdd drymlawdd dro,
Duw a dŷn a doid yno;
F'enaid, uwch Dyfrdwy Faenawr,
Fy ner, fwrw llawer is llawr!
Cefaist ramant yn d' antur,
Uthr Bendragon ddwyfron ddu!
Pan ddialawdd gwawdd goddef,
Ei frawd, a'i rwysg, a'i frwydr ef.

Llywiaist, siwrneisiaist helynt,
Owain ap Urien gain gynt,
Pan oedd fuan ymwanwr,
Y marchog difog o'r dwr:
Durol oedd wrth ymdaraw,
A phen draig ar ei ffon draw;
Gwŷr fuant er llywiant llu,
Gwrdd ddewrnerth gwewyr ddyrnu.
Tithau OWAIN, taith ewybr,
Taer y gwnaed drafn lasnwaed lwybr:
A'th harddwayw rudd, cythrudd cant,
A theg enw a'th ogoniant
Brawd un weithred y'th edir,
Barn hoff i Fab Uriens hir.
Gwelai bawb draw o'th law lân
Gwiw fawldaith gwayw gafaeldan,
Pan oedd drymaf dy lafur,
Draw yn ymwriaw a'r mur,
Troes dy onen⁴ genyd,
Tirion grair taer yn y gryd:⁵

¹ Yr oedd Owain yn gyfartal mewn brwydr, yn ol hyn, i naw o wroniaid. ² Brwydr, oed, ymladdfa. ³ Owain ap Urien oedd un o wroniaid dewraf yr hen Frytanïaid; yr hwn a ddyrchefid yn ddrlfawr gan yr hen Feirdd.—Skene, vol. II., p. 162. ⁴ Enw am waewffon.

⁵ Bloedd rhytel; a war-whoop.

Dewr fion, dur oedd ei phen,
 Dros gar yn dair ysgyren !
 Hyd ddydd brawd, medd dy wawdydd,¹
 Hanwyd o feilch hynod fydd
 Dy lafn glwys, dau finio, glain ;
 Hel brwydr, da hwyli Brydain :
 Wrth droi brisg â'th wisg wen,
 A'th ruthr i'r maes â'th rethren.²
 Peraist, fy naf, o'th lafur,
 Byst mellt rhwng y dellt a'r dur.
 Clywsom ddinam ddaioni,
 Hort teg gan Herod³ i ti ;
 Gyraist yno, gwrs doniog,
 Y llu, gyriad ychain flog,
 Bob dau, bob tri, rhif rhyfawr.
 A'r dorf oll o'r dyrfa fawr :
 Drylliaist, duliaist ar dalwrn⁴
 Dy dclart⁵ hyd ym mron dy ddwrn,
 O nerth ac arial⁶ calon,
 A braich, ac ysgwydd, a bron ;
 Gwych wyd, ddiarswyd, ddursiamp,⁷
 A chlod i Gymro ar gamp ;
 A gwawr drist o'r garw dro,
 Brydnawn ar Brydain yno ;⁸
 A'r gair i Gymry try hwyl,
 Wrth archoll brwydr o'th orchwyl,
 A'r gwir rwysg, a'r goresgyn,
 A'r glod i'r MARCHOG O'R GLYN.⁹

Llwyddodd caniadau angerddol y bardd godidog yma, a rhai Iolo Goch, a fuant dan sylw o'r blaen ; yng nghyd â'r cyfreithiau treisiol a luniodd Harri IV. yn erbyn y Cymry yn Ionawr 1401,¹⁰ i'w dwyn wrth y miloedd i ymrestru dan faner Owen Glyndwr. Dylifai'r myfyrwyr Cymreig ato o Rydychain, Caergrawnt, ac ysgolion eraill ; a daeth llu o weithwyr Cymreig o Loegr, gan ymarfogi ar eu traul eu hunain, er cynorthwyo eu tywysog gwladgarol yn ei antur glodfawr yn erbyn gorthrymwyr eu cenedl ac yspeilwyr eu gwlad.¹¹

Un cywydd arall sydd genym o waith y bardd awenyddol hwn, " a wnaeth i Forgan Dafydd Llywelyn ab Philip Trahaern o Rododyn yng Nghaer pan ydoedd yn myned ar Gwest am

¹ Clodforydd.² Gwaewffon, picell ; a spear.³ Herodr, cenad ; a herald.⁴ Gwaestattir. ⁵ Picell.—Arwydda'r llinell yma, a'r un flaenorol, bod Owain yn gafael mor dyn yn ei waewffon wrth " ddulio " ei elynion, nes y suddodd i fron ei ddwrn !⁶ Egni, ynni ; vigour.⁷ Dyrnod ; a steel mark.⁸ Cyfeiria hyn yn ddiau, at rai o fuddugoliaethau godidog Owain, a enillwyd ganddo eisoes.⁹ Jones's Mus. and Poet.

Rel., pp. 39—42.—Dichon nad oes gywydd mwy egniol a barddonol na hwn yn yr iaith. Y mae aralleiriad Seisnig prydferth o hono oll yn y tudalenau a nodwyd, o waith y Parch. Richard Williams o'r Fron, yn Sir Fflint, yr hwn aralleiriad sydd hefyd yn Pennant's Tours, vol. iii., pp. 320—324.

¹⁰ Parry's Royal Visits, p. 219.¹¹ Rot. Parl., 2 Henry IV., Monday,

21st February, 1401 ; Ellis's Orig. Let. Jer., vol. i., p. 8.

i "Morfydd." Y cymmyrd arno fo lanwad gwir serch yw'n dwyn odid u mae'r cywyddau digrifwch ac ysmad drychau naturiol Morfydd. Yn y c y môr, prenau'r co y lloer, a'r ser sy'r Y mae'r ystyriaeth yn gryf nad yw A mae'r cywydd cy anghysson â gwir Rhosyr, a syrthio "ddau alwynaid anfonodd ei was y iddo ei gyflwyno y cariad ei feistr at gallai, gan ddywed

L
I

Gofyn hithau yn s

P
P
P
P

Ateb yntau n ddywedyd,—

D
Y
L
A

Dywed hithau y

N
N
F
C

canrif yma. Efe oedd "Bardd Teulu" a "Phenc Gwynawr; ac y mae ei gywydd i ddyrchafu ei ddy hachwari, ei ddewrder, ei fedrusrwydd, a'i gymhwys i fod yn arweinydd i'w genedl, ac i'w hachub a yspail y Normaniaid, yn un o'r darnau tylsaf a m iadol sydd yn yr iaith Gymraeg; a chan ei fod yn ddarlkenwyr cyffredin, difynaf y rhan fwyaf o hon

Eryr digrif a'rifed,
Owain, helm gain, hael am gei;
Eurfah, a gwr i ortod,
Graffydd Fychan, glân ei glod.
Aer y Glyn, meist rhoddlyn rhydd
Dyfridwy fawr, dŵr diferydd.
Ner mawlaist naw rym millwr,¹
Nag ar fynad arnad ōr,
Yn awr yr aesthor ar wyth
I Brydain darpar adwyth.
Clywais o ben rhyw genad
Cei tas Duw, cywir ystad!
Cael yn yr aer; calon rwydd,
O honod fawrglod fanglywydd!
Daregawdd drymlawdd tiro,
Duw a dŷn a doid yno;
Fenaist, uwch Dyfridwy Faenawr,
Fy ner, fwrw llawer is llawr!
Cefaisf ramant yn d'antur,
Uthr Bendagon ddwyfion ddur!
Pan ddialawdd gwawdd goddef,
Ei frawd, a'i rwyg, a'i frydyr ef.
Llywiais, siwrneisiaist helynt,

Owain ap Urien gain gyt,
Pan oedd fuan ymwanwr,
Y marchog difiog o'r dŵr:
Durod oedd wrth ymdaraw,
A phen draig ar ei fon draw;
Gwyt fuan er llywiant llu,
Gwrdd ddewmerth gwewyr ddyran.
Tithau OWAIN, taith ewybr,
Taer y gwnaed drafn lafnwaed lwybr;
A'h harddwayw rodd, cythraudd cant,
A theg enw a'ib ogoniant

Brawd un weithred y'ih edir,
Barn hoff i Fab Uriens hir.
Gwelai bawb draw o'ih law lân
Gwir fawldaith gwayw gafaeldan,
Pan oedd drymaf dy lafar,
Daw yn ymwriaw a'r mur,
Troes dy onen genyd,
Tirion grair taer yn y gryd:

¹ Yr oedd Owain yn gŵrtael mewn bwydyr, yn ol hyn, i new
ed. ym 1040. ² Owain ap Urien oedd un o wroniaid deiraf yr I
dysgwylid yn ddiabwyr gan yr ben Fetrold.—Skene, vol. II., p. 162.
³ Elenid dŷtal; a waw-ology.



[Faint, illegible text in the upper left section of the page]

[Faint, illegible text in the lower left section of the page]

hanedd,
dig bod
terfyna
gywydd

yr hwn a
nag y cyd-

an a'r llall a
yr hwn a

ladd Ustus Caer [fyrddin] o hanaw ar Fainc Caerfyrddin. Yr hwn Forgan Dafydd Llywelyn ap Phylip Trahaern oedd frawd i Ifor Hael o Wern y Cleppa yn sir Fynwe.—[O lyfr Mr. Lewis o Ben Llin.]¹ Cywydd tra hynod yw hwn at Syr Dafydd (“Nanmer Naf”), y prif ynad ar faingc Caerfyrddin, pan roddwyd Morgan Dafydd Llywelyn ar ei brawf. Ym mlaenaf oll y bardd a gyfarch yr ynad fel hyn :—

Syr Dafydd ddiheurydd hawl
 Saer y gyfraith fesurawl
 Helm curdo o hil Mardaf
 Henw mawr yn wyd Hanmer Naf,
 Airian² berffaith gyfrithiwr³
 Ail Dafydd i'n dydd wyd wr
 Pell glod o'th dafor a'th dyf
 Pell y seiliaist pwyll Selyf.
 Dyred i Gaer drwy dy gof
 Fawrdlawr wr Fyrddin erof.
 I gynnal dros ganol y drin
 Rhisiart farwnart frenin⁴

Yna erfyn y bardd, yn hyawdl a chynghaneddol, ar i Syr Dafydd fynnu rheithwyr anrhydeddus, fel y gweddai i ŵr diniwaid, cyfoethog, a haclionus o fath Morgan eu cael; ac ymwarchod rhag cymmeryd gwerin “moel helm,”⁵

Na thaelwyr⁶ procurwyr⁷ cas,
 Na chryddiaid haid ddi-hyder,
 Na phorthmyn o gyndyn ger,
 Na gwyr dyrifs a rifir
 Ar y gwaith ni wyr y gwir.

Yn nesaf, enwa Gruffydd ddeuddeg o wŷr cymhwys, yn ol ei farn ef, gan roddi ei hun yn un o honynt, y rhai oedd oll, fel y gellir casglu, yn wŷr helmog, ac yn feirdd awenyddol, y sawl a enwa ac a arganmola efe yn ddoniol a Chynghaneddol, fel y canlyn :—

1 *Gruffydd ap Rhys*, gwr hoff hael
 Gwionydd hoyw brydydd hael

¹ Iolo MSS., t. 238. ² Eirian. ³ Cyfreithiwr. ⁴ Richard II., yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn y fl. 1377. ⁵ Heb benwisg ddir; *helmlless*. ⁶ Tellwriald, dilladwyr. ⁷ Dirprwywyr dillad; *procurers*. ⁸ Bledwyr, dyrifwyr.—Arwydda hyn fod y giwed glerwrol yma yn rhai hynod o ddiymldiriel; ac erbyn tua chanol y gaurif nesaaf, yr oeddynt wedi myned y fath “faich gorthrwu” ar y boneddigion a'r amaethwyr, fel y penlerfynodd y “beirdd trwyddedig” pondigrybyll! roi attalfa effeithiol arnynt trwy gyfrwng y gynghanedd ac “urddau barddonol,” fel y ceir gwelod eto. Y mae'r prydydd galluog hwn yn rhestru'r “gwyr dyrif” yn mhllith tellwriald, cryddion, a phorthmyn, y rhai, fel y gellir casglu oddi wrth y Cywydd yma, a ystyrir yn “ysgubion y byd, a sorod pob din;” er, mewn gwirionedd, bod y cyfryw grefftwyr yn llawer mwy defnyddiol i gymdeithas y pryd hwnw, crystal ag yn awr, na'r prydyddion mwya' “trwyddedog.”

- Gwr er aur, nid garw ei rôn,
 Awdur ni thwng anudon,
 2 Llywelyn rathlym rythloyw
 Berchen gwych awen goch hoyw
 Nid anhawdd cael, hael hoywlys
 3 Barn gywir o Rhifir *Rhys*
 Un o'r gwyr gorau ieuainc
 dyry farn ef aed i'r fainc.
 4 *Moc y Pantri*, nid milain
 Eurwr cerdd yw'r eryr cain
 Gair honnoid y gwr hwnw
 Gydla'i wlad a geidw ei iw,
 5 Rhifer *Rhys* hysbys ei hawl
 Brydydd y gerdd briodawl
 6 A *Dafydd* awenydd wawd
 Gerth fab *Iorwerth* bybyrawd,
 7 Deddf yw dioddef *Oswain*
 Fab DAFYDD SAER CYWYDD cain
 Gwr a gan organ irgoed
 Gwiliadus cerdd gwlad is Coed,
 8 A rhwydd fydd cywydd y *Cyw*
 Ag afrwydd cael ei gyfryw
 9 Gwr yw'r *Pasned* a gredir
 Awdur serch adar y Sir
 Nid amheuw'n gwn gannair
 10 Llwr Crach ai law ar y crair,
 Rhoer yn y gyfraith ar hynn
 11 Rhifer ar Swpper *Syppyn*
Rhemnant ydyw'r moliant mau
 12 Rhifer pan fyinner finnau
 Neu'm gwnaeth Duw Nef dangnef dôn
 Un ni ad dyngu nidon.

Wedi enwi'r gwŷr a nodwyd oll, yn ddoniol ar gynghanedd, fel yna, gan nodi eu hamryw gymhwysderau, yn enwedig bod pob un o honynt yn "Brydydd y gerdd barodawl," terfyna Gruffydd Llwyd ab Dafydd ap Einion Lygliw ei gywydd doniol ac egniol fel hyn:—

Onid awn gwynlan ganlyn
 Un ai twng am enaid dyn,
 Os dydd y cydeisteddir.
 Yn nhal ty gwenllian hir
 Diddan yw ynt y deuddeg
 Om barn yn y clafarn deg.
 Er deulong o aur dilyth
 Ni adwaenan Forgan fyth
 Boed mellidith Mair fengrair fro
 A Duw ar ei gadawo.¹

Hyny yw, mewn iaith gyffredin, 'Onid erlyniwn yr hwn a dwng yn erbyn einioes dyn? Pa ddiwrnod bynnag y cyd-

¹ Er bod cryn wahanfaeth rhwng llythraeth a gwahannodiad y cywydd hwn a'r llall a ddfynwyd; eto, y mae'n ddilys ddiaw nad yw hwn chwaith yn llythraeth yr awdur, yr hwn a ygrifenal tua diwedd y 14edd ganrif.

eisteddir yn nhŷ Gwenllian Hir, dilys ydyw, os bydd yr un ar ddeg yr un farn a mi, "yn y dafarn deg," na chydabyddir byth, er deulwyth llong o aur dilin, bod Morgan yn euog ; a bod melldith Mair, noddwraig y fro, a Duw, ar yr hwn a gefno arno.

Gwerth mwyaf y cywydd yma weithian ydyw, ei fod yn dangos yn ddi ffael pa adeg yr oedd y deuddeg bardd a nodir ynddo yn eu blodau, yn gymhwys, o ran oedran, i gydeistedd mewn barn fel rheithwyr ar fywyd dŷn. Hefyd, dengys yn eglur mai swyddog oedd Syr Dafydd Hanmer i Richard II., yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn y fl. 1377, ac a ddiorseddwyd yn y fl. 1399. Ar ddiwedd yr hen gywydd dan sylw, yn yr *Iolo MSS.* (t. 290), dywedir fel hyn :—"Gruffydd Llwyd Dafydd ap Einion Lygliw ai cant ynghylch 1390." Mewn hen ysgrif oedd ym meddiant Ab Iolo, golygydd cyntaf yr *Iolo MSS.*, yr oedd yr hyn a ganlyn :—

Griffith llwyd davyd ap Inon Ligliw ai kant y vorgan davyd llên ap phillpp traharne orydodyn yng hayo, pan ydoedd yn myned ar gwest, am ladd iestys Caer a Canau, ar vauk Caeruyrddin, rwn rvorgan dd llên ap phe traharn oedd vrawd un vam y Ifor hael o wern y Kleppa in sire vonwe.¹

And this was don in ye tyme o Richard the second then king of England, and the above named Sir davyd hanmer was chief Jestys in the countye of karmarthin-shire when this Morgan was rayned for the killinge of the sayd two Judges viz Caer an Canw."—AB IOLO.

Y mae'n syn, braidd, nad oes neb o'n bywgraffwyr llenyddol, hyd y gwn i, yn traethu dim am y bardd enwog yma, Gruffydd Llwyd ab Dafydd ap Einion Lygliw ; nac odid ddim o werth am yr un ar ddeg a ganmolir mor hyawdl ganddo yn y cywydd gorchestol a fu dan sylw, ac am eu llenyddiaeth. Dyry'r Dr. Davies Gruffydd Llwyd yn ei flodau yn y fl. 1400 ; ond diau iddo ef, a'r beirdd a noda fyw, a chanu ar ol hyny, cystal ag ym mhell cyn hyny ; canys ymddengys iddo ganu ei gywydd gorchestol i Owain Glyndwr pan oedd y gwron hwnw ym mhoethder ei ryfeloedd a'i lwyddiant, o gylch 1401 neu 1402. Y mae'n dra sicr iddo farw o flaen Owain Glyndwr, yr hyn a ddyg-

¹ Gwesyn na chwaisd yr hen ganiadau oll yn y dull hynaf y maent ar gael.

wyddodd, meddir, yn y fl. 1415;¹ pe amgen, y mae'n ddilys ddiammheu y cawsid caniadau ganddo ar ei ymdrechion dyfodol, ac ar ei farwolaeth. Tybir na byddid ym mhell oddi wrth y nod, pe dodid Gruffydd Llwyd ab Dafydd ap Einion Lygliw yn ei flodau o'r fl. 1370 i 1410; a diau mai o gylch yr un amser yr oedd y beirdd eraill a noda yn ei gywydd ym mlodau eu hoes.

RHYS BRYDYDD AP RHYS AP RHICERT, yr hwn hefyd a elwid Rhys Llwyd ap Rhys ap Rhicert,² a Rhys Brydydd o Lanharan, o'r ty ym mlaen Cynllan, afonig fechan o'r enw, lle y preswyliai Iefan Guto ap Ievan Ysgolhaig. Fel hyn y dywed yr hen ysgrif.—“Rys Brydyth o lanharan o'r ty ym maelen kynllan a little Ryver of that name where Ievan gitto ap Ieva yscolaigc dyd dwell.”³ Dyna'r cwbl a wyddys am Rys Brydydd, hyd y gŵyr yr ysgrifenydd, heb law ei fod yn ei flodau yr un amser a Gruffydd Llwyd ab Dafydd ap Einion Lygliw, sef o'r fl. 1370 i 1410, fel y gwelir uchod; a bod rhai cyfansoddiadau o'i waith mewn llawysgrif.⁴ Nid oes dim o hanes y deg eraill ar gael, hyd y gŵyr yr ysgrifenydd; sef Gruffydd ap Rhys o Wynionydd, Llywelyn Goch, Rhys Ieuangc, Llywelyn Moel y Pantri, Dafydd ap Iorwerth, Owain ab Dafydd, Y Cyw, Y Crach, Sypyn Rhemnant, a'r Pased.

IEUAN TEW, yr hwn hefyd a elwid Ieuan Tew Hen, a Ieuan Tew Hynaf, ydoedd fardd enwog o Arwystli yn sir Drefaldwyn. Dyry'r Parch. R. Williams, ac eraill ef yn ei flodau rhwng y fl. 1400 ac 1440;⁵ ond rhaid ei fod mewn oedran gweddol addfed (dyweder 20 oed) mor foreu ag 1370, pryd yr oedd yn un o'r “awenyddion,” ys dywedai y Dr. Pughe, yn Nghadair Morganwg, a gynnaliwyd y flwyddyn honno, fel y gwelsom, dan lywyddiaeth Ieuan Hen. Hefyd, dywedir ei fod yntau, Ieuan Tew Hen, yn llywydd yng Nghadair Morganwg yn y fl. 1420, yn yr hon yr oedd Hywel Swrddwal, Ieuan ap Hywel Iwrddwal, Ieuan Gethin ap Ieuan ap

¹ Williams's Em. Welshm., p. 172.

² Liwyd's Arch. Brit., p. 231, Col. 3.

³ Iolo MSS., t. 200.

⁴ Williams's Em. Welshm., p. 445.

⁵ Ibid., p. 241.

Lleision, a Hywel ab Dafydd ap Ieuan ap Rhys, yn awenyddion, neu ddysgyblion.¹ Ymddengys, gan hyny, mai o'r fl. 1370 hyd 1420, yr oedd Ieuan Tew Hen yn ei flodau; a chan nad oes son am dano ar ol y flwyddyn a nodwyd olaf, y mae'n debyg iddo farw'n fuan ar ol hyny. Dywedir bod rhai o'i ganiadau yn aros mewn llawysgrifen;² ond methodd yr ysgrifenydd a tharo wrth gymmaint a llinell o'i waith. Tybiodd rhai mai yr Ieuan Tew yma oedd awdur yr englyn canlynol sydd yng "Nghyfrinach y Beirdd:"—

Gwiliel gan fynnu gweled yr heol
 I'r Awen ei cherdded;
 Rhol gynniwair erair Beirdd Cred,
 Rheolau TUDUR ALED.—*Ieuan Tew ai cant.*³

Ond rhaid mai rhyw Ieuan Tew arall oedd hwnw; canys ni wnaed "Rheolau Tudur Aled" hyd y fl. 1523;⁴ a buasai Ieuan Tew Hen, erbyn hyny, yn ol yr amseriadau a nodwyd, yn 173; oedran rhy fawr, braidd, yn oed i FARD!

HYWEL SWRDWAL ydoedd awenydd yng Nghadair Morganwg yn y blynyddau 1370 ac 1420;⁵ ac felly yr oedd yn gydoeswr dros ryw dymmor a Ieuan Tew Hen. Dywedir y preswyliai yng Nghydewin, Sir Drefaldwyn; a'i fod yn Athraw yn y Celfyddydau, ac yn Bencerdd; ac wedi ysgrifenu hanes Tywysogaeth Cymru o Adda hyd y brenin cyntaf, ac o Adda hyd Edward I. yn Lladin. Dywedir hefyd yr ysgrifennodd *Frut*, neu *Groniel* Cymreig, yr hwn a fu unwaith ym meddiant Owain Gwynedd, bardd o Sir Feirionydd.⁶ Ni wel yr ysgrifenydd ddim prawf am dano fel hanesydd; ond fel bardd, ym mysg yr "awenyddion," neu'r dysgyblion, yr oedd mewn dwy o Gadeiriau Morganwg, fel y gwelwyd eisoes, ac nid fel "Llywydd," neu "Bencerdd." Methodd yr ysgrifenydd daro wrth ddim o'i waith yn argraffedig; ond y mae'r Dr. Pughe yn nodi 13 o'i ganiadau mewn gwahanol gyfrolau o Ysgriflyfrau Myfyr;⁷ eithr pa nifer o honynt sydd *wahanol* ganiadau nid ydys yn gwybod.

¹ Jones's Hist. Wales, p. 224. ² Williams's Em. Welshm., p. 241.

³ Cyfr. Beirdd, t. 228. ⁴ Y Greal, t. 276; Pennant's Tours, vol. II., p. 93, note q.

⁵ Jones's Hist. Wales, p. 224. ⁶ Jones's Welsh Bards, p. 87; Williams's Em. Welshm., p. 476.

⁷ Transact. ymmer. d., vol. I., pp. 181—192.

CERDDORIAETH A RHYDDIAETH.

Ni wŷr yr ysgrifenydd am ddim o Gerddoriaeth y ganrif yma ar wahan i'r canrifoedd o'i blaen ac ar eu hol; eithr y mae llenyddiaeth ryddieithol y ganrif hon a'r nesaf yn bur lluosog ac amrywiol; ond y mae'n dra anhawdd, os nad amhosibl, penderfynu gyda golwg ar y rhan fwyaf o'r cyfansoddiadau, ym mha un o'r ddwy ganrif y cyfansoddiwyd ac yr ysgrifenydd hwynt; gan hyny, tybir mai gwell ymdrin â hwy yng nghyd ar ddiwedd y ganrif nesaf.

CYFRES O ENWAU LLENORION Y RHAN OLAF O'R BEDWAR-
 EDD GANRIF AR DDEG, EU HAMSERAU A'U
 CYFANSODDIADAU :—

- 1350—1380 Ieuan Hen, ysgr.
 1350—1380 Heilyn Fardd.
 1350—1400 Ieuan Fawr ap y Diwlith, ysgr.
 1360—1490 Mathew ap Llywelyn Goch, ysgr.
 1362 Y Bergam o Faclor, i gân argr.
 1370—1400 Ieuan Trwch y Daran, i gân argr.
 1370—1400 Ieuan Llwyd ap y Gargam.
 1370—1400 Einion y March.
 1370—1400 Ieuan Mon, ysgr.
 1370—1400 Llywelyn Cell Ifor.
 1370—1400 Gwgan ap Clydno.
 1370—1410 Gruffydd Llwyd ab Dafydd ap Einion Lygliw,
 2 gân argr. ac amryw ysgr.
 1370—1410 Gruffydd ap Rhys o Wynionydd.
 1370—1410 Llywelyn Goch.
 1370—1410 Rhys Ieuangc.
 1370—1410 Llywelyn Moel y Pantri.
 1370—1410 Rhys Brydydd, ysgr.
 1370—1410 Dafydd ap Iorwerth.
 1370—1410 Owain ap Dafydd.
 1370—1410 Y Cyw.

- 1370—1410 Y Crach.
 1370—1410 Syppyn Rhemnant.
 1370—1410 Y Pasned neu Y Posned.
 1370—1420 Ieuan Tew Hen, ysgr.
 1370—1420 Hywel Swrdwal, ysgr.
 1370—1440 Gwilym ap Ieuan Hen, ysgr.
 1380 Cadwgan Henfoel.
 1380 Yr Iystus Llwyd, 2 gân argr.
 1380 Mab Claf ap Llywarch, 2 gân argr.
 1380 Einion o'r Fan.
 1380 Cadwgan Ruffydd.
 1380 Rhys ap Tudur o Fon, Bardd a Thelynior.
 1380—1400 Prydydd Breuan, ysgr.
 1380—1420 Gruffydd Llwyd ab Goronwy Gethin, ysgr.
 1380—1420 Heilyn Goch Brydydd.
 1380—1420 Ithel Ddu o Fynydd Ithel, Mon.
 1380—1420 Gwilym ap Hywel.
 1390—1420 Y Melyn.
 1390—1420 Llywelyn ab Meredydd ap Ednyfed, ysgr.
 1390—1420 Llywelyn Ddu, 1 gân argr.
 1390—1420 Morus ap Hywel ap Cadwaladr.
 1390—1430 Rhys ap Ifan ap Llywelyn ap Hywel.
 1390—1430 Llywarch ab Meredydd ap Ednyfed, ysgr.
 1390—1430 Madog ab Goronwy Gethin, ysgr.

PENNOD IX.

CYFRAITH ORTHRYMUS HARRI IV. ; YR EISTEDDFODAU YN ANGHYFREITHIAWL ; DAFYDD AB MEREDYDD AP TUDUR ; RHYS NANMOR ; IEUAN GETHIN AP IEUAN AP LLEISION ; IEUAN RHYDDERCH AP IEUAN LLWYD ; IEUAN LLWYD AP GWILYM ; MEREDYDD AP RHYS ; GUTO'R GLYN ; GWILYM TEW ; IEUAN BRYDYDD HIR HYNAF ; TUDUR PENLLYN ; IEUAN LLAWDDEN ; DAFYDD AP EDMWNT ; LEWIS GLYN CO THI.

YR oedd y beirdd a'r llenorion Cymreig yn ystod y ganrif yma yn dra lluosog, fel y dengys y rhestr a ddodir ar derfyn y bennod hon ; ac awgrymir hyny hefyd gan y gyfraith dreisiol a wnaed gan y gormesdeyrn eiddigus, Harri IV., yn erbyn y beirdd Cymreig yn y drydedd flwyddyn (1403) o'r ganrif bresennol ; yn yr hon gyfraith yr ordeiniwyd, na oddefid o hyn allan i gerddorion, beirdd, mydryddion, gwestwyr, a chrwydr-iaid Cymreig eraill, arfer eu celfyddydau yng Ngwynedd, er bod yn faich ar y wlad trwy godi cymhorthau, neu gasgliadau eraill ; na chai un Cymro ddwyn arfau ; ac na oddefid i nac ymborth, nac arfau, na chadarpar o fath yn y byd, gael eu cludo i Gymru dan boen blwyddyn o garchar, a'r cyffelyb.¹ Pa wedd bynag, y mae'n eglur na lwyddodd cyfraith y gormesdeyrn ysgeler hwnw i leihau odid ddim ar nifer y beirdd a'r llenorion Cymreig, nac hyd yn oed i rwystro iddynt glera chwaith, er mwyn yr hyn, yn benaf, fel yr ymddengys, y cafodd ei llunio. Gellir casglu, mewn gwirionedd, nad ydoedd cyfraith yr Harri yma, mwy na chyfraith Edward I., yn erbyn clerwriaeth y beirdd, nemor amgen na "llythyren farw ;" a hyny, y mae'n debyg, am fod y pendefigion Cymreig yn dirgel gefnogi eu harferion. Pa wedd bynnag, y mae ymddyddan Gruffydd ab Nicolas â'i gâr Llawdden, ym mhen yn agos i hanner can mlynedd ar ol hyn, fel y ceir gweled rhag llaw, yn arwyddo bod "cyfraith y brenin" yn gwahardd i'r Cymry gynnal Eisteddfodau cyhoeddus dan nawdd eu pendefigion,

¹ Statutes, 2-4, 9 Henry IV. ; Tranact Cymmrod., vol. I., p. 77 ; Jones's Hist. Wales, pp. 156, 230.

fel cynt; ac am hyny nad oedd gan y Cymry weithian awdurdod i ddwyn y beirdd i drefn a dosparth, ac i wahan-iaethu rhwng y gwych a'r gwael. O herwydd hyny, fe gododd nifer pur fawr o ffug feirdd¹ o gylch y pryd hyn, y rhai a fynnent fod yn feirdd er mwyn y croesaw a'r gefnogaeth a roddid i'r beirdd gan foneddigion ac amaethwyr cefnog y genedl. Y gwirionedd ydyw, nad llawer o feirdd a llenorion enwog ac awenyddol iawn a godasant yn ystod y rhan gyntaf o'r ganrif hon: er hyny cyfododd *rhai* o'r cyfryw, gwaith y sawl a nodir yma mor fyr ac mor fanwl ac y gellir.

DAFYDD AB MEREDYDD AP TUDUR. Ychydig iawn sydd ar gael o hanes y bardd hwn; ond y mae ei "Gywydd i'n Hiachawdwr, megis Creawdwr y bydoedd," yn profi ei fod yn fardd gwir enwog a duwiolfrydig. Dywedir ei fod yn ei flodau o gylch y fl. 1400² Heb law y cywydd a nodwyd, y mae rhai o'i gyfansoddiadau mewn ysgrifenedig heb eu cyhoeddi.³ Gan nad yw y cywydd dan sylw ond byr, ni a'i dodwn i lawr yma:—

CREDU i'r Iesu rasol
Yr wyf, rhag fy mod ar ol!
Creawdr, Ymerawdr im wyt,
Credudi mai cywir ydwyf!
Dy garu yw ffynnu ffydd,
Dy ofni mae pob defnydd:
Da seiliaist dewis aelwyd,
Daear a Nef Deyrn wyl!
Y Byd sydd fel y bêl;
Wedi ei osod yn isel.
Bu Paradwys, glwys ei glôg,
Ar y ddaear werdd ddiog;
Mal ffurfafan uwch ben Byd,
Man uchel⁴, ile mae'm Hiechyd.
O Iesu tyfu mae'r tau!
O ryddid yr holl raddau!
Iesu gwyr⁵, Tywysog ydwyd,
A drych y Cyfiawn der wyd:
Uchel wyl uwch law adar,
Uchelion gwylltion a gwâr!
Pob man yr wyt, ym mhob nerth,
Eithr uffern fawr ei thrafferth:

¹ *Would-be-bards.* ² Owen's (Pughe) Camb. Biog., p. 78; Williams's Em. Welsh., p. 116.

³ Transact. Cymmrod., vol. 1., p. 186.

⁴ Y Dr. Macknight wrth sylwi ar 2 Cor. xii. 2, a ddywed,— "Yn iaith yr Iuddewon, y nef *gynfaf* yw ardal yr awyr, lle yr ehed yr adar; yr all nef yw'r gwagle lle y mae'r ser: a'r "drydedd nef" yw gorseddfa Duw a'r Angylion Sanctaidd, i'r hon yr esgynodd Crist ar ol ei adgyfodiad, ond yr hon nid yw wrthrych synwyrtau dynion fel y mae'r nefoedd eraill."

⁵ Yr eiddot.

⁶ Gwyrdd, ffrwythlawn, rhinweddol.

Nad dy bridwerth ni pherthyn,
 Oen i Dduw, nâd yno Ddyn !
 Tyn fi i'r wysi ar fêr,
 O lindag y cyfiawnder.
 Derbyn, Duw gwyn, fi o gaeth,
 Yn nwlaw fy nynoliaeth !
 Gwae a fo, wrth gau ei fedd,
 Yn aros mewn anwiredd
 Dan ei faich y dyn a fo
 Annedwydd yn penydio !
 Nid baich ond baich o bechod
 Yn y Farn gwae Ddyn o'i fod !
 Cyffesol berchen bedydd,
 Cyffesol difarwol fydd.
 Wylaw ydd ŵyf, olew oedd dda,
 Wylofus oedd chwe'll Efa,
 Da fuost Ti, difost Ion,
 Duw Iesu wrth dy weision,
 Abram, Isag, a Siagob,
 Gwyr grym, Sionasym a Siob.
 Na ad roi, pan fo druan,
 Enaid dy was yn y tân ;
 Moes im' *siart* ar fy nghartref,
 Moes dynghedfen o nen i nef.¹

Y mae'n eglur mai yn llythyracth yr argraffiad a gyhoeddwyd yn y fl. 1822, o'r "Ffydd Ddiffuant," y mae'r cywydd uchod ; ac nid yn llythyracth y bardd a fuched dai yn nechreu y 15fed ganrif.

RHYS NANMOR ydoedd fardd enwog o Faenor Mynwy, yn sir Benfro, yr hwn oedd yn ei flodau o'r fl. 1400 i 1440. Dywedir ei fod yn fab i Dafydd Nanmor o Feddgelert, sir Feirionydd,² yr hwn a fuched dai, fel y gwelsom, o'r fl. 1310 i 1360. Y mae'r Dr. Pughe yn cofnodi 15 o ganiadau Rhys yng ngwahanol gyfrolau ysgrifenedig Myfyr ; ond dichon fod yr un rhai yn dygwydd, fel y crybwyllwyd o'r blaen, mewn gwahanol ysgriflyfrau. Y mae awdl led faith yn yr IOLO MSS., a briodolir i *dri* Nanmor, fel y ceir gwleled rhag llaw. Y mae'n eglur i'r awdl gael ei chyfansoddi i Harri VII., o'r hon y dodaf y difyniadau canlynol :—

MOROG mawrwrthiog a roes i'n Harri
 Caiff hiroell ac emioes
 A fared Crist ffrydiau croes
 I fab Iemwnt fyw bumoes.

Oes oesoedd rhaid oedd anrhydeddwr Lloegr
 Llugorn Ceneill Dewdwr
 Na bai raid ofni Bradwr,
 Na llanw gwyllt, na llew na gwr.

¹ Y Ffydd Ddiffuant, t. 400.

² Williams's Em. Welsh., p. 354.

Nis lladd gwr na thwr na tharan na draig
 Na dragwn na melldan,
 Nag arswyded grys sidan
 Neidr na thwyll na dwr na than.

Wedi canu amryw englynion cyffelyb, terfyna ei awdl trwy
 erfyn ar Dduw, yr angylion, a llu o'r saint Cymreig ac estronol
 fod yn nawdd i'w frenin Cymreig, fel y canlyn :—

Henaint a ran saint i'r Ynys honn
 Harri a adon yn hir oeddiog
 Mair Gabriel Sariel Tomas Uriel
 Mihangel, Rhiniel, a fo rhannog.
 Nawdd Bened, Berned, yn lle i barno
 A nawdd Duw arno a nawdd Dyrnog
 Brothen a Sulien a Sain Silin,
 Buan, Cylynin, Beuno Clynog
 Cynin a'i weision, Cynan Assaf,
 Cawrdaf Car Eudaf fab Cariadog,
 Collen, llaw Elien a Llywelyn
 Cynwyd Cynfelyn. Cedwyn Cadog,
 Cadfan a Dyfnan ys da Dyfniog,
 Caron a Churig Padrig, Pedrog,
 Peris, Cristiolis, Denis Dwynwen,
 Pedr, Ieuan, Gwnnen, Padarn, Gwnnog,
 Sain Ffagan, Afan esgob Ifor,
 Sain Grugor, Sain Sicr, Môr, a Mwrog.
 Sain Clar nawdd Ilar, a Chynddilig,
 Sain Donnig, Peblig, Meilig, Maelog,
 Dochwyn a Theccwyn, ef a Thyccwy,
 Dochdwy, Gwenfrewi, a Thyfriog.
 Derfel a Dwyfel, a Gredifel,
 Dogfel, nai Daniel, a nawdd Dwynog,
 Deiniol, a Scirioel, a nawdd Saeren,
 Dirdan, Ystyffan, Cynan, Cynnog,
 Deiniolen, Llawdden, Cathen, Ceithyw,
 Dewi o Fynyw, nawdd Dyfaenog,
 Tybie, Nonn, Einion yna,
 Tegla, Agatha, Anna enwog,
 Tanwg a Thrinio, Iago Egwad,
 Tyssyllo, Lleuddad, Tyssul, Llawddog,
 Laures ai croeses, marc a Rhissart,
 Luwc, Lambart, Edwart, a Thyfrydog,
 A doddi iechyd o Dydecho,
 A Theilo iddo, a Thylyddog.
 Yn Arglwydd Rhismwnt Ior hwnt y rhed
 Yn Arglwydd Swmrsed a gred i'r grog,
 Yn farchog urddol y detholwn
 Yn eurliw i ŵn, yn Iarll enwog.
 Yn ddug i weled, newydd goler,
 Inni ddewisir yn Dywysog,
 Ag yn Frenin Gorllewin Llywiawdr
 Ag yn Ymerawdr y gwna Mwrog.

Os nad oes llawer o grebwyll a darfelydd yn yr odlig
 ddigrifol yna, na rhyw gynghanedd ofalus iawn ym mhobman

o honi chwaith, er hyny, gwelir ynddi gryn dipyn o lafur a chywreindeb geiriol. Ar ei diwedd dywedir fel hyn :—

Dafydd Nanmor ai cant. (Quære?) Ai nid rhy ddiweddar ydyw i fod yn waith Dafydd Nanmor, yr oedd y Bardd hwnw yn byw yn amser Rhys Goch Eryri.

(Rhys Nanmor medd Llyfr arall).

Y mae fel hynn mewn un llyfr a welais yn Hafod Uchtryd. Dafydd Nanmor ap Rhys Nanmor o Faenor Fynyw, ap Dafydd Nanmor o Wynedd y Bardd.—
I. M.¹ [Iolo Morganwg].

Ymddengys bod pob un o'r dyfaliadau yna ym mhell iawn o fod yn gywir. Bu farw Dafydd Nanmor o Feddgelert, cyd-oeswr Rhys Goch Eryri, fel y gwelsom, o gylch y fl. 1360; a Rhys Nanmor, y dywedir ei fod yn fab iddo, a fu farw o gylch 1440, tua 45 o flynyddau cyn i Harri VII. esgyn i orsedd Brydain yn y fl. 1485. Gan hyny, os Nanmor oedd awdur y gân flaenorol, rhaid ei fod yn ddigon diweddar i fod yn ŵyr, yn oed i Rhys Nanmor ab D. Nanmor o Feddgelert.

Y mae cywydd arall yn argraffedig, yr hwn a ganwyd, meddir, "I Harri Tudur (wedi hyny Harri'r VII.), pan oedd yn faban yn ei gryd, yng Nghastell Penfro." Dechreu hwnw fel y canlyn :—

Os wyneb Iarll sy'n y bedd,
Iarll aned er y llynedd;
Duw oruchel edrychŵr;
Eginyn yw a'i gwna'n ŵr:
Darogenais drwy ganu
I'w roi'n fab o'r enw a fu;
Gwrthrychiad o'i dad ydyw,
Ail mewn oed i Almaen yw;
Yn Arglwydd canmlwydd y cân,
Symesred a'r *Simur* sidan;
O wialen yr henwydd,
Derwen fawr o deyrn a fydd;
Cwyd Harri fel caderwen,
Dros Emwnd Iarll Rismwnd hen;
Y pren hwn fab brenhinaidd,
O fôr Groeg ei frig a'i wraidd;
Trwy'r môr er ennill tir maen,
Drwy'r eilmor dir yr Almaen;
O chad y wlad *flower de lis*,
Ymerawdr draw yn Mharis;
O'r tir hwnt o ryw y tri,
Ymerodr, y mae Harri;
O lin Mab Iew Owain Mon;
Y daw'r carw o dair coron;

¹ Iolo MBS., t. 213—25.

Cynta yw o'r can'-teyrn,
 A bair gwaith cyn bwrw ei gym;
 Ffynnon o Fon sy ar faeth,
 Yn afon o'i henafiaeth;
 'Does afon rhyd Fon a red,
 Ond un afon EIdnyfed;
 Yr haf yr aeth pob afon
 Yn dir sych ond aros hon,
 Hyny y mae hwn a'i medd,
 Yn ganwyll Owain Gwynedd.¹

Ar derfyn y cywydd yma dywedir, "Rhys Nanmor ai cânt. MSS. arall a ddywed mai Dafydd Nanmor a'i cânt." Gwelir, gan hyny, nad oes dim ond dyfaliad yn unig yng nghylch awduron y canïadau a nodwyd i Harri VII.

IEUAN GETHIN AP IEUAN AP LLEISION, a ddodir yn ei flodau o'r fl. 1400 i 1450; a gellir casglu oddiwrth yr englynion canlynol o'i waith, yn enwedig yr olaf o honynt, fod yr amseriad yna yn ddigon cywir.

ENGLYNION COFIADUR.

MIL deucant oesant Nef Iesu wyth deg
 Eilwaith dau 'n chwanegu.
 Pan llas Llywelyn Pen llu,
 Glyw digamrhwysg Gwlad Gymru.

Mil trichant gwarant gwirion a deunaw
 Fe dynwyd yn gyfan
 Gan drais mawr i lawr yn lân
 Hynafiaeth Brenin Afan.

Dau seithgant honant hynny a deuddeg
 Diweddwyd y Coetty,
 Rhod llwyr dawl ar bob hawl hy
 Rhag camraith ar y Cymry.

Dau seithgant gwarant gywrain cof ydyw
 Y cyfodes Owain²
 I dorri lawr a dur lain
 Einioes Brad Ynys Brydain.

Ieuan Gethin ab Ieuan ab Lleision a'i Cant 1420.³

Yn yr *Iolo MSS.* dywedir am Ieuan fel hyn :—

IEUAN Gethin ab Ieuan ab Lleision ab Rhys ab Morgan Fychan ab Morgan Arglwydd, ap Caradoc, ap Iestin, ap Gwrgan Tywysog Morganwg a Gwent a Gwyr.

Ieuan ap Ieuan Lleision a fu gydag Owain Glyn Dyfrdwy yn torri Cestyll y Twyllbendefigion ym Morganwg, a phan aeth y dydd yn erbyn Owain a gorfod arno fyned dan gel a chudd, gorfu hefyd ar Ieuan ap Lleision fyned yn wr cel a

¹ Y Brython, cyf. iv., t. 221—2.

² Owain Glyn Dwrdu oedd hwn.

³ Iolo MSS., t. 29.

chudd hyd Fon at hen gyfaill cād iddaw, yr holl amser y bu ef yno yr oedd y Brenin Harri'r Bummed yn lladd ac yn gormesu pob un a fernid yn gymhlaid ag Owain, ond ym mhen tro cyttunwyd rhwng y Cymry ar Brenin ymiawnhau er arian a'u gwerth yn wartheg a defaid a daoedd eraill. Yna ydd ymiawnhawyd dros Ieuan ap Lleision sef Cant o bennau Gwartheg a deucant o ddefaid, wedi hyny ef a ddaeth adref, ag ymhen amser wedi hyny fe fynnodd y Brenin ladd llawer o'r Cymry am nas gallent dalu'r iawn nag yn arian nag yn werth. achaws eu tyloedi, a hynn yn dyfod i glyw Ieuan ap Lleision ef a ddywed—y ddihareb goel hon, sef,

Tri pheth nid ebrwydd au gwelir, yn sych; Mawn Mon, Gwaelod Llyn Tegid, a dwylaw Gwaedlyd Hên Harri Cân, sef Harri Cân y Galwai'r Cymry Harri Frenin y pummed. a myned a wnaeth y goel honn ar gof a llafar Gwlad ag y mae hyd heddyw.—

(Llyfr Mr. Bassett, o Lan y Lai).¹

Yr oedd Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision yn Llywydd Cadair Morganwg yn y fl. 1430; a'i unig ddsygybl yno, hyd y gwyddys, oedd Gwilym Tew.² Dengys Cofres y Dr. Pughe fod 17 o ganiadau Ieuan Gethin yng ngwahanol Ysgrif-lyfrau Myfyr.

IEUAN AP RHYDDERCH AP IEUAN LLWYD, ydoedd fardd awenyddol, ac yn ei flodau o'r fl. 1410 hyd 1440. Dywedir ei fod yn byw yng Nglyn Aeron, ac yn Athraw yn y Celfyddydau (M.A.). Y mae dwy gân o'i waith yn yr *Iolo MSS.*; sef "Cywydd Deuair Hirion" i "Dewi Sant," a "Phroest Cyfnewidiog" a elwir "Cywydd i Fair." Dechreu y cywydd i Dewi fel hyn:—

wrth glybod chwedl tafod tyfyr
a darllain pob diwair llyfyr
o lyfyr aür lythyr loewfaint
a son am fucheddau saint
nyd gwell sant ffyniant i ffawd
na dewi iawn i dywawd
deng mlynedd kyfannedd kôr
arigain teg vy ragor
kyn geni dewi i doeth
kann teg kaniad hoewgoeth
i yrru padrig orior
er mawl i ddewi ir mor
a gadyr tir a güddiwyd
o dduw lan i ddewi lwyd.³

Cyfeiriad sydd yma at y chwedl a elwir "Buchedd Dewi Sant,"⁴ yn yr hon y dywedir i angel ymrithio i Padrig Sant, yng Nglyn Rhosyn, i erchi iddo ymadael oddiyno yn ebrwydd, gan fyned i'r Iwerddon, er gwneud lle i fab oedd heb ei eni ar

¹ *Iolo MSS.*, t. 109.

² Jones's Hist. Wales, p. 224.

³ *Iolo MSS.*, t. 298.

⁴ Lives of the Cambr. Brit. Saints, p. 102.

y pryd, sef Dewi Sant, yr hwn oedd i gael Glyn Rhosyn, a'r gororau, fel y ceir gweled ym mhellach, pan ddelir i ymdrin â'r "Bucheddau."

Y "Proest Cyfnewidiog" i Fair, y cyfeiriwyd ato, a ddechreu fel y canlyn :—

MAIR yw n hyder rag perigl
morwyn wyr y miir yn arogl
muriâu nevawl vain vwnwgl
mawr yw yn gael oi miiragl
gorff duw lwys nyr eglwys rugl
ag airw i waed o garegl

da vair loewair olau wemp
dangos rex nyd symplex swmp
da beth i kevaist dy bump
llawenydd chwaer ddedwydd chwimp
da anrheg deg yw dy dymp
dwyn duw goeth da iawn dy gamp

diasgembwynt—dysg iawn bibl
disgin krist di drist dew drebl
dwysgbarch yth vry vair dysg bobl
dysgaf ganu val disgybl
dwysglaergerdd diiw disglairgwbl
dysg deg odl pefr dasg digabl

Mawr glaerlas Mair eglür lathr
dysg heb gyd aml kaethovyd kethr
vab diiw gloew hoew loew i lythr
er gwresgin kroes garw ysgwthr
dygn wawd lwybr dygyn waed lithr
dygyn hoelion orion arüthr.¹

Gwelir bod y gân gywrain-eiriol yma o ansawdd grefyddol fel y mae'r cywydd hefyd, yn wir, yn ol ansawdd y grefydd arddeledig ar y pryd, yr hyn sy'n peri bod caniadau'r Cymry, ac yn oed eu rhamantau a'u chwedlau, fel y ceir gweled eto, yn tra rhagori o ran moesoldeb a lledneisrwydd, ar eiddo cenhedloedd eraill yn yr un amser. Y mae tair esampl fer o waith y bardd yma yng "Nghyfrinach y Beirdd;" y gyntaf i'r "gelyn" gan Harri IV., yr ail i "Fair," a'r drydedd i "Brydyddion;" fel hyn :—

"I'R GELYN."

Cân fawl Telyn,
Nad i'r gelyn,
Cythraul melyn,
Caethrol moelau ;

¹ Iolo MSS., t. 310.

Ein dybwyllaw,
Na'n godwyllaw,
Er cyrbwyllaw,
I'r corr byllau.¹

I "FAIR."

Mair urddedig,
Fendigedig,
Etholedig,
I'th aelodau ;
Mam Grist wledig,
Difethedig,
Iôr genedig,
O'r gwiw nodau.²

I'R "PRYDYDDION,"

Dwg Brydyddion
Yn wyr rhyddion
Awenyddion
I wiw noddau ;
Cair yn llawen
Gair gorawen
O gain awen
Wiw Ganiâu.³

Heb law y caniadau a nodwyd, dengys y Dr. Pughe bod rhai o'i ganiadau yn ysgrifenedig heb eu cyhoeddi.

IEUAN LLWYD AB GWILYM oedd fardd a fucheddai rhwng y fl. 1420 ac 1450.⁴ Ni wyddys odid ddim am dano ond wrth gywydd lled faith o'i gyfansoddiad i "Teilo Sant," yr hwn sy'n dechreu fel y canlyn :—

radau dalm Rô düw deiliaw
ryeddogloew aurog law
gwyh vu r term yth gonffermwyd
glan val diddig ensig wyd—
llin hychdwn pen warwn pür
dawn i wiwglod yn eglur
A llin yrddedig sant llwyd
kedig karedig ydwyd
mawr oedd vonedd cynedda
wiw loewdeg ddawn wledig dda
dovraeth benadur dirveg
dy orügaw deiliaw deg
esgob santawl vrainiawl vryd
a vuost o iawn vywyd
Aur lathr diorwäg ragor
yn llann dáf karaí y kôr
Wr gwleddrym o Arglwyddryw
ef ath gonffermwyd hyd lyw
yn benn raith drwy saith iaith sant
morganwg mawr ogoniant.⁵

¹ Cyfr. Beirdd, t. 53.

² Yr un, 120.

³ Yr un, 120.

⁴ Williams's Em. Welshm., p. 241.

⁵ Iolo MSS., t. 295.

MEREDYDD AP RHYS ydoedd fardd gwych, ac yn ei flodau rhwng 1430 ac 1460. Dywedir mai gŵr eglwysig oedd efe, ac yn byw yn Rhiwabon, sir Ddinbych; a dywedir mai efe oedd athraw barddonol Dafydd ap Edmwn.¹ Y mae cofres y Dr. Pughe yn nodi 28 o ganiadau Meredydd ap Rhys yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr; ond ni wyddys a ydynt oll yn wahanol ganiadau ai peidio, fel y crybwyllwyd yn fynych gyda golwg ar y gofres amwys honno.

Ymddengys bod Meredydd yn dra hoff o bysgota gyda rhwydi, fel yr arwydda dau gywydd cywrain o'i waith sydd yn yr *Iolo MSS.*, un "i ofyn rhwyd pysgotta a'i ddyfalu," a'r llall "i ddiolch am y rhwyd." Wele rai difyniadau o'r cyntaf i ofyn rhwyd gan ryw "*Ifan*."—

Ifan ddoeth o fewn ei ddydd,
Goreu 'i ofeg ai grefydd,
Pendefig pwy un dyfiad,
Penadur o Dudur dad,
Llin union llew un anwyd
Llaw Nudd a llin Ruffudd Llwyd.
Hil ac ettiffedd haelwch,
Hael un fraint a Heilyn frych,
Ni bu Eryr na Barwn,
Mor hael ac fu'r Cymro hwn,
Da wr i fodd dewr ar farch,
Wyd y Llew o waed Llywarch,
Da yw'r llin y darllewr
Da dy nerth od adwaen ŵr
Dy ras sy un dro a Siob
Dy ddysg fal Dafydd Esgob.

Wedi dyrchafu llawer yn ychwaneg ar "*Ifan*," daw o'r diwedd at ei destyn, fel hyn:—

Pawb a wyr bod tafod doeth
I chwi Ifan a chyfoeth,
Poed hir, gair gwir, y gwr gwych,
A fo'ch nerth fachwyn wrthy, ch,
hel 'rwyf heolau'r Afon
Ar hyd dwr a dryll rhwyd don
Gweled pysgod brig Alun
Gwilio 'r wyf heb gael yr un,
Praff awdur in proffwydwyd
Prudd yw Meredydd am rwyd
Efo i praw, gwell gan fab Rhys,
Eitha'r dwr na thir dyrys
Esgud i'r af i'r Afon
A chael haf i chwilio hon

¹ Williams's Em. Welshm., p. 327.

A chael unwaith ei cheulennydd,
 A chael rwyd uchelwr rhydd
 Mae rhwyd lân mawr unodl Ior,
 I chwi Ifan awch Ifor,
 O cha rodd chwenychu'r wyf
 iwch rhwyd ai herchi ydwyf,
 Rhawd frythylliaid o rhodir
 Rhwng deuddyn a dyn i dir.

Yna, wedi darlunio yn ddoniol pa fath rwyd a chwennychai,
 terfyna ei gywydd dyddorol fel y canlyn :—

Drwy y dwfr dy rwyd Ifan
 A ddaw o led i'r ddwy lân,
 Gras mawr y grawys ym oedd
 Gael rhwyd a gwilio rhydoedd
 Ai chael yn rhodd gennych chwi,
 A cherdd hwdiwch chwi erddi.¹

Wedi llwyddo i gael ei ddymuniad gan "Ifan," cân y bardd
 gywydd hyawdl a dyddorol am y rhwyd, yr hwn a ddechreu
 fel hyn :—

Pa wr ydwyf tra fwyf iach?
 Pysgodwr pwy esgudach?
 A mil o bysgod Maclawr,
 Ar fy mwrdd llyna rif mawr
 Pawb yno sydd pob nos Iau
 Yn aros y *Gwenerau*,
 Deliais ar Nos Nadolig
 Pam waeth *dydd caeth no dydd cig?*
 Hawdd Amor i'r Cateoriau,
 Hawdd fyd bwrw'r Ynyd brau.....
 Mân a bras y mae'n brysur
 A ddeil y rhwyd a ddyly'r *hur*.
 Pwy a'i rhoes o hap a rhan?
 Pendefig pwy *ond* Ifan,
 Ap Tudur, Awdur ydyw,
 Llew doeth ap Gruffydd Llwyd yw.
 Llin Heilin (llan i hiloedd)
Frych, ai law ail Frochwel oedd
 Llyna'r mab o'r llun a'r modd
 Yn wr addwyn a wreiddiodd
 Bonheddigaidd yw'r gwraiddyn
 O bwriwyd twf ar brÿd dyn,

Terfyna'r bardd ei gywydd dyddorol fel y canlyn :—

Heliwr yw'r gwr a garwn,
 Hoedl hir fo i'r huawdl hwn,
 Hillied Ifan *hael dyfiad*
 Ar ei dir teg wir dre Tâd,
 Mewn awr dda minnau ar ddŵr
 O fodd hael a fydd heliwr,
 Mahog² wych mwyslig wedd
 Iawn genau Owain Gwynedd,

¹ Iolo MSS., t. 321.

² Camllefbiad o'r enw *Madog* yw "*Mahog*."

Ni fynnai dir, f'enaïd oedd,
 Na da mawr ond y moroedd,
Madog wyf im oed ai gais
 Ar foroedd hyn arferais,
 Rhodiaf hyd For ag Afon
 Ar hyd eu gro a'm rhwyd gron
 Gwell bod yn wraig pysgodwr
 Nog i'r rhai nid elai i'r dwr
 Pedr gwr mawr ei hap ydoedd
 Pysgodwr oreugwr oedd,
 I'r un helwriaeth i'r af
Mwy no P'hedr mi ni pheidiaf.¹

Rhoddyd pwys mawr ar y dernyn yna ym mhen amser ar ol iddo ddyfod yn hyspys, yn enwedig y chwe llinell ganlynol :—

Madog wych, mwyedig wedd,
 Iawn genau Owain Gwynedd,
 Ni fynnai dir f'enaïd oedd
 Na da mawr ond y moroedd,
Madog wyf im oed ai gais
 Ar foroedd hyn arferais.

Ystyriwyd y llinellau yna gan hygredwyr, a gyfansoddwyd yng nghylch y fl. 1440, fel prawf bod Madog ap Owain Gwynedd wedi morio i'r America rhwng y fl. 1171 ac 1174, pan oedd ei frodyr, Dafydd, Hywel, a Rhodri yn ymladd am y llywodraeth yng Nghymru, ac yn lladd eu gilydd; ac aeth yr hen Theophilus Evans hygred mor bell a dywedyd mor bendant a phe buasai wedi bod yn America ei hunan, tel hyn :—“ Ac heblaw hyn oll fe gafwyd beddrod Madoc ap Owen yn y wlad hono [America], a'r ysgrifen a ganlyn ar garreg ei fedd ef :—

“ **Madoc** wyf mwyedig ei wedd,
 Iawn genau Owain Gwynedd;
 Ni fynwn dir, fy awydd oedd,
 Na da mawr, ond y moroedd.”²

Pe buasai hyna wir, buasai'r pedair llinell yna yn hynach na Meredydd ap Rhys o gryn 250 o flynyddau! Credodd amryw, cystal a'r hen hanesydd chwedlonol ei hun, mai gwir ydoedd, bod Madog wedi myned i'r America yr amser a nodwyd, gyda chynnifer a 300 o'i gydwladyr; a bod hiliogaeth y rhai hyny wedi myned yn genedl luosog tua glanau yr Afon Missouri;³

¹ Iolo MSS., t. 322.

² Drych y Prifoesoedd, argr. 1822, t. 81.

³ Y Greal, t. 40, 94, 228.

a chlywais bod rhai Cymry, tua chan mlynedd yn ol, ac yn eu plith yr hen Iolo Morganwg, yn ymdrechu byw ar laswellt a meillion, er mwyn ymbarotöi i fyned i chwilio am danynt!

Y gwirionedd ydyw y lladdwyd Madog ap Owain Gwynedd, trwy frad, ar ororau Cymru, rywbyrd yn ystod ymrysonfa waedlyd ei frodyr am lywodraeth Gwynedd, rhwng y blynyddoedd 1171 ac 1194; a chyhuddwyd Llywarch ap Llywelyn (Prydydd y Moch) o'i lofruddio. Gwadau yntau y cyhuddiad yn egnol; a gorfodwyd ef i brofi ei ddiniweidrwydd trwy fyned dan brawf barbaraidd yr "Haearn Twymyn." Cyfansoddodd Llywelyn gân fêr ar y pwngc; ac wrth ei therfynu, gweddïa yn daer yn yr ymadroddion canlynol:—

Da haearn diheura pan llas
Lleith Madawc nad om llaw y cauas
Noc ae ceif cain ae glas
Rann o nef ae naw teyrnas
A minheu mynnaf gyweithas
Bod Duw ym a dianc oe gas.¹

Nis gellir gwybod wrth y gân hon beth a fu canlyniad prawf yr "Haearn Twymyn;" ond gan y dengys rhai o ganiadau Llywarch iddo fyw hyd ddiwedd y 12fed ganrif, y mae'n amlwg na bu farwol iddo. Pwy bynnag a lofruddiodd Madog, awgryma yr un bardd mewn cân arall, na chafwyd gafael byth ar y llofrudd na'r llofruddiedig:—

Hyd treid tra dilyn pell ofyn pwy
Py geidw yr gorddwfyr rac pob gorddwy
Llywelyn ae keidw llew yn adwy
Llyw gwynet ae met hyd y mawddwy
Llaw orthrech wrth rwyfau mordwy
Lloegyrr wrthyn tra llynn llwymnwy,
Wyr madawc, ermidet uwyuwy.²

¹ Myv. Arch., t. 205. Hyny yw
Da haearn ! rhyddha fi
Oddi wrth y cyhuddiad o ladd Madog ;
A dangos na chaff llofrudd y gwiw dywysog
Ran o'r nef a'i naw teyrnas ;
Ond y caf fi gymdelithas Duw,
Ac y dangaf byth rhag ei lid ef.

² Myv. Arch., t. 213. Hyny yw,—
Nid rhaid dilyn pell ofyn pwy
A geidw'r gorddwfyr rhag pob gorddwy :
Llywelyn a'i celdw ; llew yn adwy,
Llyw Gwynedd a'i medd hyd yn Mawddwy :
Llaw orthrech wrth rwyfau mordwy
Lloegr, draw ger Llyn Llymynwy :
Wyr Madog, am ddifancoll yr hwn yr wylwn fwyfwy

Tybir bod yr un bardd eto yn awgrymu, mewn cân arall, mai “ym mhell ar fynwes y terfysglyd fôr” yr aeth Madog “ar ddifancoll,” er nad ydyw yn ei enwi ond megis un o ddau frodyr Rhodri ap Owain Gwynedd. Dyma’r llinellau :—

Deu deyrn derrwyn didorres yn llid
 Llu daear ae hoffes
 Vu ar dir ar dorvoet ry dres
 Yn aruon yn arwar trachwres
 Ac arall mynawc y mynwes mawrvor
 Ymawr var ackymhes
 Yn esguraw hawl hawt adnes
 Yn esgar y bawb am beues
 Yn yscwthyr trydar yn ysgwn darpar
 Yn llachar nyn lloches.¹

Nis dangosir yn eglur yn y ddau ddernyn blaenorol fod Madog wedi morio, ond iddo fyned o Wynedd ar hyd y môr i chwilio am gartref. Am hyny, ymddengys iddynt gael eu cyfansoddi gan Brydydd y Moch ar ol “Awdyl yr Haearn Twymyn,” yr hon a sieryd am dano, fel y gwelsom, megis un wedi ei ladd. Dichon y canai efe fel hyn, er mwyn ceisio symmud ymaith yr ammheuaeth a deflid arno ef fel ei lofrudd. Y mae Cynddelw Brydydd Mawr yn son am Madog, ym “Marwnad Teulu Ywein Gwynet” (Teulu Owain Gwynedd), fel un wedi boddi yn y môr. Dyma fel y dywed efe :—

Eny llas madawc mur dygynorth uar
 Meu auar car kynnorth
 Oet anwas cas cad eborth
 Oet anwar par yn y porth.²

Y mae’n ddiau y gwyddai Meredydd ap Rhys am ganiadau Prydydd y Moch a Chynddelw yng nghylch Madog ; ac ymddengys mai’r cwbl yn ei olwg ef oedd cyffelybu ei hun mewn

¹ Myv. Arch., t. 202. Hyny yw,—

Dau deyrn mewn llid a barodd alanas,
 Er y mawr hoffid hwy gan lu daear :
 Un yn Arfon ac a ddifoddes ffam uchelgais,
 Gan arwain ar dir ei luddedig wronlaid :
 A’r llall, o dymmer fwyn, mewn blinder dwys,
 Ym mhell ar fynwes y terfysglyd for,
 A geisiodd feddiant allai gadw yn ei hawl
 Rhag holl elynion ac estroniaid cas ei wlad.

² Myv. Arch., t. 164. Hyny yw,—

Oni laddwyd Madog gan far dygyfor y don ?
 Och ofid am gymhorthol gar !
 Nid lliidiog ef yn oed yn yr erchyll gad,
 Er nad oedd ofer yn ei law y waew-ffon.

digrifwch barddonol, i Madog fel anturiaethwr morwrol. Gesyd llinellau Meredydd Madog allan fel morwr, wedi gwneud ei gartref ar y dyfroedd dyfnion : felly yr oedd yntau am fod yn bysgotwr, gan ymofyn am fywioliacth, yr un fath a Madog, yn yr eigion. Dyna'r cwbl a ellir gasglu yn deg oddi wrth linellau Meredydd ap Rhys, a dim ychwaneg.

GUTO'R GLYN ydoedd fardd awenyddol o Langollen, sir Ddinbych ; ac yr oedd yn ei flodau rhwng y fl. 1430 ac 1468. Dywedir mai efe oedd bardd Abatty Glyn Egwestl, ger llaw Llangollen, ac mai am hyny y gelwid ef yn Guto'r Glyn. Yr oedd yn gydoeswr â Dafydd ap Edmunt, Gutyn Owain, a beirdd enwog eraill. Heb law ei fod yn fardd yr Abatty crybwyllledig, ymddengys ei fod yn fardd hefyd i Ieuan Fychan ap Ieuan Gethin, o Foeliwrch, yn Llansilin ; a gellir casglu ei fod yn hoffusach o Ieuan nag o'r abad, ac mai gydag Ieuan, ym Moeliwrch yr hoffai dreulio Gwyliu y Nadolig, yn hytrach nag yn yr Abatty. Gellir casglu hyn oddiwrth y llinellau canlynol a gyflwynai i Ieuan Fychan :—

Nid micar a'n hysgar ni,
Na brawd a wnai briodi ;
Nid esgob enw dewisgair,
Nid Pab chwaith, onid Mab Mair.

Dywed Ab Ithel fod dau gywydd mewn llawysgrif o waith Guto'r Glyn i un "Abad Dafydd." "Ymddengys mai eu hamcan," medd yr awdur, "oedd diolch i'r abad hwnw am gleddyf a tharian, o waith cywrain, a wnaed mewn masnachdy yng Ngwreccsam, y rhai a ystyriai'r bardd yn gyfartal i bedair arhreg gan unrhyw abad arall. Pa wedd bynnag, nid yw'r bardd yn dodi dim awgrym pwy oedd y Dafydd yma, heb law ei fod yn deilliaw o 'waed Iorwerth¹.'" Y mae'n eglur mai Sion oedd enw abad Glyn Egwestl, yr hwn a gyferchir gan y bardd, fel un tra haelionus yn ei lys, fel y canlyn :—


Tri bwrdd a bair troi i'w borth,
Tair siambr yn trwsio ymborth.
A'i law yntau fel Antwn,
A laif rhudd ei lyfr yw hwn,

¹ Arch. Cambrensis, vol. 1., p. 25.

I ladd y saith, lewaidd Sion,
 Marwol bechodau meirwon.
 Cynnal y mae'r Cardinal cu
 Cost y llys, castell Iesu :
 Gwledd echdoe a doe 'n ei dy,
 Gwledd can annedd cyn hyny.

Taenwyd y gair unwaith fod Guto'r Glyn wedi cael ei foddi yn nhraeth Malltraeth, Mon; ond canfuwyd yn fuan mai chwedl rhyw gellweiriwr oedd hyny; a chanodd Llywelyn ab Gutyn gywydd duchanllyd ar yr achlysur, a elwir "Cywydd Marwnad i Guto'r Glyn pan ddywedpwyd ei foddi ym Malltraeth Mon." Dechreu'r cywydd fel hyn:—

Tristwch yw'r Cymry trostyn,
 Tre a gwlad am Guto'r Glyn :
 Boddi wnaeth ar draeth heb drai,
 Mae yn y nef am na nofiai.
 Ofer oedd wneuthur erof,
 O'm caid a'i farwnad o'm cof ;
 Ni bydd cymain main mynor,
 Un llaw mwy yn llywiaw môr.
 Awenyddiaeth y draethell,
 O foddi ei gorph a fydd gwell.
 Och finnau ! ywch yw fanhap,
 Am simwr y gwr di gap ;
 A'i weled yn troi 'r olwyn,
 Ar fall-draeth ar fwyall drwyn.
 Gwae fi o'i drochi drichwrs,
 Na bawn ynglŷn yn ei bwrs.¹



"Ef allai," ebai ysgrifenydd doniol a ymgyfenwa "Cian," "fod arno [Llywelyn ab Gutyn] ysfa am ymgom gywyddol â Guto; neu ei fod braidd yn genfigenllyd, herwydd myned o Guto i wlad Mon i glera—pwy wyr. [?] Dywed Richards taw '*impudent beggar*' oedd Llywelyn; a dywedwn ninnau mai gwalch dichellgar ddigon ydoedd, pan fynnai well '*Awenyddiaeth y draethell*' drwy foddi corph y Bardd. Nid dymunol oedd gan Guto weled pob llercyn yn estyn bys ato; efelly, mewn cywydd ateb, ef a gyhoeddodd drwy holl Gymru benbaladr nad '*ledrith hen Malldraeth*' mo hono, ond mai gwr byw ydoedd." Yn ei "gywydd ateb," haera Guto mai wedi meddwi yr oedd Llywelyn ar win boneddigion Mon, pan y canai fel y gwnaeth. Wele ychydig ddifyniadau o'r "Cywydd Ateb i Lewelyn ab Gutyn, gan Guto'r Glyn":—

¹ Y Brython, cyf. III., t. 412.

Mae llef oer, mae llifeiriant,
 Ym *Malldraeth* saith waeth no'r sant ;
 Myfyrio mai oferwr
 Mar'nad im, a mwrw 'n y dwr.
 Telynor, tal awenydd,
 Trwytho beirdd mewn traethau bydd.
Llywelyn fab *Gutyn* gall,
 A'i llai 'i ferw no'r llif arall ?
 Gwir gywyddol, gwrageddwr,
 Gwas gwych, pwy megis y gwr ?
Menydd hun, *nodwn*, *nid iach*,
 A'i grafanc oedd ddigrifach ;
 Och im ! ond doeth a chymen,
 Oni bae win yn ei ben.
 Diod a wnai 'r tafod doeth
 Droï ben ar y dwr bennoeth.
 Ef a welai fy eulun
 Mewn dwr ym *Mon* drwy hun.
 Yn *Llwydraeth* y naill ydoedd,
 Y moddi i, neu meddw oedd.
 Gwin *Cynfrig* wyrenig rodd,
 A gwin Huw a'i gwanhaodd.
 Rhyfel meibion *Llywelyn*,
 Y rhai a'i llanwai o'r llyn ;
 Mae taeru man y tiriwyf,
 Mai lledrith hen *Malldraeth* wyf—
 Bod ynof bywyd anwir,
 Bysgod yn dyfod i dir—
 Boed moelrhon i'm dwyfron deg,
 Neu ellyll yn y falleg.
 Ef a'm gwnaeth ym *Malldraeth Mon*,
 Yn gored penwaig irion.....
 Fy mryd pan fo marw o wall,
 It wr, wneyd mar'nad arall.¹

Y mae "cywydd ateb" arall o waith Guto'r Glyn yn y *Brython*, sef ei ateb i gywydd Syr Rhys o'r Drewen, yr hwn a'i ceryddai am nad aethai "i Ial yn y Gwyliau."² Y mae dau o'i gywyddau hefyd yn yr *Iolo MSS.*; un "i Ddafydd Llwyd o Gedewain am yr Eisteddfod a wnaeth efe i'r Beirdd yn ei Dy: ar uchelwyl y Sul Gwynn,"³ a'r llall "i ofyn benthg y Greal, i Dryhaearn ab Ieuan Amheyrgig ab Hywel Gam, o Waun llwg, Dros Abad Llanegwestl."⁴ Hefyd y mae tri o'i gywyddau yn *Records of Denbigh*; un i gyfarch gwell i un "Sion Edwart" a "Gwenhwyfar" ei wraig, am "wledd vawr" a wnaeth yn ystod "y gwyliau" i feirdd a llenorion,⁵ y llall i'r "Arglwydd Herbert," a gyfansoddwyd yn y fl. 1468, yn amser "Rhyfel y Rhosynau," pan losgwyd Dinbych, ac y diffeith-

¹ Y *Brython*, cyf. iv., t. 12. ² Yr un, t. 145. ³ *Iolo MSS.*, t. 315. ⁴ Yr un, t. 324.

⁵ *Williams's Records of Denbigh*, p. 92.

iwyd y wlad;¹ a'r trydydd " yn dangos val y bu y maes Mam-bri."² Ymddengys bod y tri chywydd sydd yn y *Records* wedi eu hargraffu fel yr ysgrifenwyd hwy. Dodir yma esampl fer o'r cywydd i'r " Arglwydd Herbert " :—

Dyrnod anuvudd-dod vu : darnio Gwynedd ai dyrnu.
 O bu'r tir, Herbert wrawl : heb gredu val y bu Bawl.³
 E vu ar Bawl veiau'r byd : e ddiveiodd i vywyd.
 Chwithau na vyddwch weithian : greulon wrth ddyinion â thân.
 Na ladd welech a wnai wledd ynn : Gwynedd, val Pedr y gwenyn.
 Na yvrrw dreth ar Vôn draw : ni aller ei chynnulliaw :
 Na vriw Wynedd yn vranar : na'd i Vôn fyned ar vâr.
 Na'd y gweiniaid i gwynaw : na brad na lledrad vrag llaw.
 Na'd trwy Wynedd blant Rhonwen :⁴ na phlant Hors⁵ yn y Fflint hên.
 Na'd v'arglwydd swydd i un Sais : na'i bardwn i bwrdais.
 Barna 'n iawn, brenin o'n iaith : bwrw 'n tân i braint uniaith
 Kymmer o wŷr Kymru 'rowron : bob kwnstabl o Venstabl i Vôn.
 Dwc Vorganwc a Gwynedd : gwna 'n un o Gonwy i Nedd.⁶
 O digia Lloegr a'i dugiaid : Kymry a dry yn dy raid.

GUTTOR 'R GLYNN A.D. 1468.

Dywedir bod 90 o'i ganiadau ar gael mewn llawysgrifen;⁷ ond y mae'r Dr. Pughe yn nodi 119 yn ei gofres o ysgriflyfrau Myfyr,⁸ eithr a ydyw yr un rhai yn dygwydd mewn gwahanol gyfrolau o'r casgliad hwnw, nid yw hysbys i'r ysgrifenydd.

GWILYM TEW, yr hwn hefyd a elwid Gwilym Hendon; bardd enwog oedd yn ei flodau rhwng y fl. 1430 ac 1460. Efe oedd llywydd Cadair Morganwg yn y fl. 1460, a'r beirdd canlynol yn awenyddion neu ddisgyblion yno:—Hywel Cae Llwyd; Hywel ab Dafydd ap Ieuan ap Rhys; Harri o'r Gareg Lwyd; a Iorwerth Fynglwyd.⁹

Y mae awdl faith o gyfansoddiad y bardd hwn yng Ngramadeg Sion Dafydd Rhys, yr hon hefyd sydd yng Ngramadeg Sion Rhydderch, ac yng *Nghyfrinach y Beirdd*, yn cynwys 29 o bennillion ar wahanol fesurau cynghaneddol.

Yng Ngramadeg S. D. Rhys dywedir uwch ben yr awdl fel hyn :—

O6dl Bhair a gânt G6ilim Tc6, i dhyssu lha6er o'r hen Bhesurau gorchesta6l, ac nyd ydynt y6 cael ond ynti hi am Bhardhoniaeth; ond am Dhe6iniaeth, gochel6ch y Surdoes, medh G6ilium Midelton=(h.y.) Awdl Fair a gânt Gwilym Tew, i ddyssu llawer o'r hen Fesurau gorchestol, ag nad ydynt i'w cael ond ynddi hi am Farddoniaeth; ond am Dduwinyddiaeth, gochelwch y Surdoes, medd William Midelton.

¹ Williams's Records of Denbigh, p. 202

² Ibid., p. 205.

³ Yr Apostol Paul.

⁴ Rhonwen, Rowena, chwaer Hengist.

⁵ Horsa, yr arweinydd Sacsonaidd.

⁶ Castell Nedd, ym Morganwg. ⁷ Williams's Em. Welshm., p. 188; Geir. Bywgr., I. F., t. 434.

⁸ Transact. Cymmrod., vol. I., pp. 179-295.

⁹ Jones's Hist. Wales, p. 225; Y Brython, cyf. iv. t. 347.

Nid yw cyflead y pennillion yng nghorff yr awdl yn yr undrefn yn *Nghyfrinach y Beirdd* ag ydynt gan Sion Dafydd Rhys. Ddir tri phennill yma, fel esamplau o'r naill a'r llall.

PRŴST CYFHNEBIDIOL.

Morbryn Gyrybh Mair Gineurudh,
Mae myŵn eirŵ mam y nobradh ;
Mair 6ar mam y drugaredh,
Myŵn lha6 Bhair mae'n llebherydh.

PROEST CYFNEWIDIOG.

MORWYN Wryf Mair wineurydd,
Mae mewn Eurwy mam nawradd,
Mair war mam y drugaredd
Mewn llaw Fair mae'n lleferydd.

TA6DHYRCH CAD6YNOG.

Onnen Gyry dann 6n arael,
Yn drychâbhael yn drachybhion ;
Ar lûn Adha 6a6r lunieudhael,
Y bu'r 6asaul y'r bry6ysion.
Mair pann aned,
Mair y6'n planed, } Meir6 gelynion :
Mair ei glaned,
Mair amcâned, } Myrdh o dhynion.
Mair yn maned,
Mair dhidhâned.

TAWDDGYRCH CADWYNOG.

Onnen wry dann wn Urael
A'n derchafael yn dra chyfion,
Ar lun Adda wawr lunieiddael
I bur wassael Ebrywysion,
Mair pan aned
Mair fu'n Planed,
Mair o'i glaned, meirw gelynion
Mair amcâned,
Mair yn maned,
Mair ddiddaned myrdd o ddyinion.

G6A6D6DYN BYRR.

Argl6ydh Ieseu Grist ceid6 bob Cristion,
A biau bh'enaid heb obhynion :
I basion g6ili6n rhag yn galon [Grair]
Mer6yndod Mair dh6air a dh6n.¹

GWAWDODYN BYR.

Arglwydd Iesu Grist ceidw bob Cristion,
A biau f'enaid heb olynion,
Ei bassiwn gwiliwn rhag ein galon Grair,
Morwyndod Mair, nawddair ein addon.²

¹ Rhoso Ling. Cymr. Inst. Ace., p. 235.

² Cyfr. y Beirdd, t. 213

Y mae yn *Nghyfrinach y Beirdd* amryw ddifyniadau o waith Gwilym Tew, heb law yr awdl uchod ; megis,—

Darniodd ar ffysg yn mysg mil,
Dyna bor yn dwyn y bel,
Dwyn cyrch y gwynt drwyddynt draw,
Dewr rwyfaw 'nghad a rhyfel.¹

Af i benn Rhys
Yn fy uncrys, rhag ofn encryd,
Ac ar fy nghlin
Oed pererin dapr o wrhyd.²

O mynni ystorio mynwes dwyrain,
A'r arfer a wyr Eryr ar Frain ;
Tro wayw at yr ais
O'th ddwrn a'th harnais,
Trech yw na malais Trychann Milain.³

Y mae pump hefyd o'i ganiadau yn ysgrifenedig yn ol y Dr. Pughe yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyf.

IEUAN BRYDYDD HIR HYNAF, yr hwn hefyd a elwid yn Ifan Brydydd Hir.⁴ Yr ydys yn galw y bardd yma yn Ieuan Brydydd Hir *Hynaf*, ar awgrym bywgraffwr a golygydd⁵ gwaith bardd enwog arall, yr hwn y myn arfer gwlad ei alw yn Ieuan Brydydd Hir ; sef y Parch. Evan Evans, yr hwn a ymgyfenwai fel bardd yn “Ieuan Fardd,” neu “Ieuan Fardd ac Offeiriad ;” ond byth yn *Ieuan Brydydd Hir* ; eithr gan fod arfer gwlad yn mynnu ei alw yn *Ieuan Brydydd Hir*, cynyg golygydd ei waith yn briodol ei alw Ieuan Brydydd Hir Ieuf.⁶ O ddiffyg sylwi yn briodol ar hyn neu o herwydd rhyw achos arall, priodolodd un William Hywel, Almanaciwr, un o gywyddau Ieuan Brydydd Hir *Hynaf* i Ieuan Brydydd Hir *Ieuf*, yn ei Almanac am y fl. 1773, gan ei alw yn “Gywydd y Methiant,” yn lle “Cywydd yn dangos byred oes dyn,” fel yr ymddengys y galwai yr awdur ef pan y'i cyfansoddodd yn y fl. 1450. Heb law newid enw y cywydd, newidiwyd rhai o'i linellau, yng nghyd a'u trefn yn y cywydd ; a dywed Thomas Stephens i hyny gael ei wneud cyn amser yr Almanaciwr. Dywed y gelwir ef “mewn cyfrol o farddoniaeth, ym mhlith yr

¹ Cyfr. y Beirdd, t. 104. ² Yr un, t. 119. ³ Yr un, t. 131.

⁴ Y Brython, cyf. iv., t. 35. ⁵ Y Parch. D. Silvan Evans.

⁶ Gwaith y Parch. E. E. (*Ieuan Brydydd Hir*), argr. 1876, t. 8.

ysgrifau Cymreig yn y *British Museum*, Rhif 14866, t, 435. Cywydd i'r byd ac i henaint¹." Yn awr dodir difyniad byr o derfyn y cywydd ger bron, yng nghyd â'r newidiad ar ei ol :—

Gwr oerach nag Eryri :
 A Berwyn aeth i'm bron i,
 Ni thyn na chlydwr na than
 Na dillad f' anwyd allan.
 Crynedig i'm croen ydwyf,
 Crynfa daelen aethnen wyf.
 O Mair enwog dywysoges,
 Y môr a'r tir mawr a'r tês,
 Meddyges wyt fam Iesu,
 I'th fardd mwy gobaith fu :
 Os iechyd genyd a gaf,
 I'm henaid y dymunaf,
 Iesu fal ei dewiswyf ;
 Er i'ch roi i'm—erchi'r wyf,
 Cymmmod cyn bod yn y bedd,
 Cymmwys im am bob camwedd ;
 Er dy loes wrth dy groesi,
 A'r gwaed o draed un Duw dri :
 Anwyl er a fo ennyd,
 I'm o boen yma yn y byd.
 Dwg Ior o le di gerydd,
 F'enaid wrth rhaid yn rhydd,
 I'th lan Nef a'th oleuni,
 I'th weled Duw i'th wlad di.

IFAN BRYDYDD HIR AI CANT 1450.²

Dyma y newidiad ; a gwelir ei fod yn dalfyriad hefyd :—

Crynedig i'm croen ydwyf,
 Crynfa deilen aethnen wyf ;
 Gwr oerach nag Eryri,
 A'r Berwyn wyf, i'm barn i ;
 Ni thyn na chlydwr na than,
 Na dillad fy anwyd allan.
 Troi a sefyll, tra safwyf,
 Tan grafangau'r angau'r wyf ;
 Rhod Duw i'm bwyll, rhaid i'm bellach,
 Ryngu bodd yr angau bach.
 Meddyg wyt f'Arglwydd Iesu,
 I'th fardd mwya gobaith fu ;
 Iesu, fal y dewiswyf,
 Arch i'm rym can's erchi'r wyf ;
 Os iechyd genyd a gaf,
 I'm henaid y dymunaf,
 Cymmmod cyn bod mewn bedd,
 I'm cymmwys am bob camwedd.
 Dwg Ior i le di gerydd,
 F'enaid wrth fy rhaid yn rhydd,
 I'th lan Nef a'th oleuni,
 A'th wlad Duw i'th weled di.

IFAN IFANS AI CANT.

¹ Y Brython, cyf. iv., t. 72.

² Yr un, cyf. iv., t. 35.

Er mwyn i'r newidiad beidio ymddangos mor *Babyddol* a'r gwreiddiol, gadawyd y ddwy linell ganlynol allan :—

O ! Mair enwog dywysoges
Y mor a'r tir mawr a'r tes ;

ac yn lle,—

Meddyges wyt fam Iesu ;

dywedodd y newidiwr,—

Meddyg wyt f'Arglwydd Iesu ;

ac felly andwyodd gynghanedd y llinell yna ; a gwnaeth yn gyffelyb i amryw linellau eraill. Ond os gadawyd *Mair* allan fel "enwog dywysoges," ac "fel Meddyges," ymddengys y methodd y newidiwr ganfod y cyfeiriad at y *Purdan* sydd yn y llinellau canlynol :—

Dwg Ior i le di gerydd,
F'enaid wrth fy rhaid yn rhydd.

Ymddengys fod rhyw newidiad wedi ei wneud yn yr hen gywydd dan sylw yn bur foreu ; canys yn y dull newidiol y difyna Llywelyn Sion ef, yn y fl. 1601, neu Edward Dafydd, rhwng y fl. 1580 ac 1600, yn *Nglyfrinach y Beirdd* (t. 51), y chwe llinell sy'n dechreu fel hyn :—

Cyunedig im croen ydwyf,
Cryniad dalen aethnen wyf.

A'r un modd y difynir hwy gan Thomas Ll. Jones (Gwenffrwd) yng *Ngheinion Awen y Cymry* (t. 49) ; ond priodola'r naill a'r llall hwynt i Ieuan Brydydd Hir Hynaf, ac nid i'r *Ieuaif*, fel W. Hywel yr Almanaciwr.

Yr oedd Ieuan Brydydd Hir Hynaf yn ei flodau rhwng y fl. 1440 ac 1477 ; ac yn preswyllo, fel y tybir, yn Ardudwy, sir Feirionydd, a gellir casglu oddiwrth y llinellau canlynol iddo, gan Tudur o Benllyn, mai gof ydoedd wrth ei gelfyddyd, a gweithiwr cleddyfau :—

Dyro dy gledda Ieuan,
Dur tawch rhwng y dŵr a'r tân.

Ni wŷr yr ysgrifenydd ond am un cywydd arall o'i waith sydd yn argraffedig, sef "Cywydd i Dudur o Benllyn am hel Defaid," yr hwn sydd fath ar dduchan ac a ddechreu fel y canlyn :—

Glân Dudur, gloewyd adeg,
 Gormes y tir grymus teg :
 Benllyn florwyn falieraidd,
 Pab llwyd mewn pebyll a haidd :
 Pwl yw y modd, palfâ march,
 Pandy mydr pendew madarch ;
 Tost yw yn lle testynwyd,
 Trwyn ellyn was torwyn llwyd.
 O bae yn ei wlad banel us,
 Mowlsiwr mawr mal Syr Morys ;
 Gwr a gân i rianedd,
 Geiriau mawl, ac a ry 'r medd
 A minau yn ymanerch,
 A mynu molianu merch ;
 A Thudur a wrthodai
 Gywydd merch a gwýdd Mai ;
 Bardd yw fo beraidd ei fin.
 A phrydydd i gyffredin.
 Drud yr aeth i Ardudwy,
 At bob rhai o'r tai ynt hwy ;
 Er wŷn a gwlan arwain glod,
 A chywydd i wrachiod,
 A'i fwrw fal clod y forwyn,
 Drwy'r sir fal bwrw dwfr swyn ;
 Gwir fu, mae'n gwerthu gwêr,
 Gwae defaid am glod ofer :
 Mae o rhain a'i mawr hil,
 Meddai ef yma ddwyfil.¹

Dengys cofres y Dr. Pughe fod 19 o ganiadau y bardd hwn yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr.

TUDUR PENLLYN, fel y gwelsom, oedd gydoeswr Ieuan Brydydd Hir Hynaf ; a thybir ei fod yn ei flodau o'r fl. 1440 i 1480. Ymddengys mai brodor o Eifionydd ydoedd ; canys dywed ei hun, "Wyt o Ynys Eifionydd," sef y llannerch lle y saif Eglwys Ynys Cynhaiarn ; yr un lle a elwir yn "Achau 'r Saint" yn "Ynys Eiddionydd," fel hyn :—

Cynhaiarn Sant yn Ynys Eiddionydd.

Y mae dau, o leiaf, o'i gywyddau yn argraffedig : un yn ateb i'r cywydd a nodwyd eisoes, o dduchan iddo, gan Ieuan Brydydd Hir Hynaf. Dechreu Tudur ei ateb i Ieuan, mor dduchanllyd ag yntau, fel hyn :—

Ieuan gefnwad gyfanawd,
 Ysgub o wrysg ar brysg brawd ;
 Athro Canon Meirionydd,
 A thylath fwy wythlath a fydd ;
 Ysbryd giseilyd gwiwlwth,
 Ysbur lle llosges y bwth ;

¹ Y Brython, cyf. iv. t. 104.

Mae abid cul meudwy cwl,
 Mwyedig fal pren mwdwl ;
 Mynych y tyr Breur bris,
 Milldir droedhir i Dretis.
 Syr Morus frochus frychwyn,
 A'i bres oll a beris hyn ;
 Officriadwas a phrydydd,
 Athrod heb wybod y bydd ;
 O bai rôf ar borau hir,
 Gilwg a fo a'i gwelir ;
 Ef a wnae rhyngom yn waeth,
 Wr gwlanog y gelyniaeth ;
 Goreu dyn ond y gred wân,
 Ar y ddaear oedd Ieuan ;
 Da o'i dda, nid oedd well,
 Drud gredig droed gradell ;
 Ond ni fynai am nawr,
 Weled i mi olud mawr ;
 Ffymig os gwir hegl i'r hogl,
 Ffwrch anial fforch chwinogl ;
 Anwadal yw lliw dal llys,
 Ag anian gynsigenus ;
 Gwae ei galon gogeilwas
 A'i grefft weled neb mewn gras ;
 Dodaf glod i Ardudwy,
 Di chwith, ac ni fu fendith fwy ;
 Defaid a gawn freiglawn fro,
 Defeited yntau eto.¹

Y mae cywydd argraffedig arall o waith y bardd hwn, sydd hysbys i'r ysgrifenydd, a gyhoeddwyd y tro cyntaf yn y *Cylchgrawn*, dan olygiad Alun (cyf. iii., t. 41) ; ac wedi hyn argraffwyd ef yn y *Brython*. Cyfansoddwyd y cywydd i un "Dafydd ap Siencyn pan oedd ar ffo" mewn ogof a elwid "Ogof Craig y Glyn," ym Mhenllyn, ger llaw y Bala, yn amser andwyol "Rhyfel y Rhosyna;" yr hon a ddechreuodd yn ystod teyrnasiad Rhisiart II. (1377—1399) ; ac ni lwyr derfynodd hyd deyrnasiad y brenin Cymreig, Harri VII. (1485—1503).² Dechreu y cywydd fel hyn :—

Can nos daed, cynhes d' adail,
 Cai Hir y coed i'r dail ;
 Canol yr haf, wyd, Ddafydd,
 Coedwr dewr cyhyd a'r dydd.
 Cryfder a chrafanc Siencyn,
 Caregog lys Craig y Glyn ;
 Dy gastell ydyw'r gelli,
 Derw dôl yw dy dyrau di ;

¹ Y *Brython*, cyf. iv., t. 115.

² Gwaith L. G. Cothi, *Hist. Sketch*, pp. iii—v.

Cynnydd ar geirw Nant Conwy,¹
 Cerdd a saif, cei urddas hwy.
 Glanaf y medrit Dafydd
 Garwriaeth helwriaeth hydd.
 Glain nod ar wŷr glân ydwyd,
 Gloen Duw ar bob galawnd wyd :
 Dy 'stad a'th glod yw dy stôr,
 Dafydd wŷr Dafydd Ifor.
 Anturiwr ar filwriaeth,
 Y'th farnwyd ac nid wyd waeth.
 Ni wnaeth Rolant² fwy antur,
 Na thydi, na wnaeth, â dur
 Pan fu'r son am ddigoniant,
 Dy roi yn uwch pob dewr a wnânt ;
 O'r campau ym mhob neuadd,
 Y'th roi in' eilwaith ei radd ;
 Pand un o filwyr Llyr Llwyd
 Paun o frwydr Penfro³ ydwyd :
 Nai wyd, Ddafydd loewrudd lain,
 I'r ewythr a'r Meistr Owain ;⁴
 Bonedd yw d' anrhydedd di,
 Brodorion hirion Harri.⁵
 Rhoed it air rhediad hiroes,
 Hwnt Arglwydd Rhismwnt⁶ a'i rhoes.⁶

Dengys cyfres y Dr. Pughe fod 29 o ganiadau y bardd hwn yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr. Dengys y cywydd uchod yn bur eglur fod ei awdur wedi byw hyd esgyniad Harri Tudur (Harri VII.) i orsedd Brydain yn y fl. 1485, os nad ychydig yn hwy.

LLAWDDEN, a elwid hefyd Ieuan Llawdden, a Llawdden Fardd, oedd fardd a hynafiaethydd enwog, ac yn ei flodau, fel yr ymddengys, o'r fl. 1440 i 1480. Ni welodd yr ysgrifenydd, pa amser y ganwyd ef, na pha bryd y bu farw; ond y mae'n eglur ei fod yn addfedrwydd ei oedran pan lwyddodd gyda'i gâr, Gruffydd ab Nicolas, i gael Eisteddfod Genedlaethol i Gaerfyrddin, yn y fl. 1451. Od oedd yn 41 oed ar y pryd, ganwyd ef yn y fl. 1410. Brodor ydoedd Llawdden o Ddyffryn Llychwr, sir Gaerfyrddin; ond treuliodd ran helaeth o'i oes fel

¹ Yr oedd llawer o ymgecræth a rhyfel yn y rhandir yma, rhwng teuluoedd cryfion a gymmerent ochrau gwahanol yn yr ymrfael cyffredin. Gwedi coronni Harri VII., efe a aeth i Gastell Aberconwy i dderbyn ufudd-dod y Cynry. Yno hefyd yr aeth Dafydd ap Siacyn, yr hwn a dderbyniwyd gyda pharch a charedigrwydd mawr gan y brenin o hil *Penmynydd Mon*; a chafodd Raglawiaeth Castell *Aberconwy*.—*Iolo Morganwg*.

² *Rolant* y *Beirdd Cymreig* yw *Rolando*, neu *Orlando* y rhamantau. Nai fab chwæer ydoedd i Sariymaen, brenin Ffrainco, yn nechreu'r 9fed ganrif.—G. B. (Gol. y *Brython*).
³ *Penfro*=Jasper, Iarll Penfro.—ALUN. ⁴ *Meistr Owain*. Onid Owain Glyndwr? neu ynte Owain Tudur?—ALUN. ⁵ Harri; *Arglwydd Rhismwnt*. Harri Iarll Rhismwnt; gwedi hyny, Harri VII.—ALUN. ⁶ Y *Brython*, cyf. iii., t. 99.

offeiriad, neu ryw swyddog eglwysig Pabaidd, ym Machynlleth, sir Drefaldwyn; ond dychwelodd, pan ddechreuodd heneiddio, i'w fro enedigol; ac y mae'n debyg mai yno yr ydoedd pan ymwelodd â'i gâr, Gruffydd ab Nicolas, pryd y dechreuodd gynllunio Eisteddfod Caerfyrddin.

Llawdden oedd athraw barddonol Iorwerth Fynglwyd, yr hwn a ganodd farwnad odidog iddo,¹ yn yr hon y dywed,—

Athraw ym oedd aeth a'r mawl
Am wybodau mebydawl.....
A minnau fal y mynwr
Yn wylaw a'm f' athraw 'n for.

Dywedir yn y cywydd hwn, bod Llawdden yn awdur llauws o ganiadau godidog, heb law mai efe oedd cynlluniwr medrus "Holl *rolau* gwybodau beirdd," rhai o'r sawl a ddeuant dan sylw yn fuan. Dengys cofres y Dr. Pughe fod 41 o'i ganiadau yn ysgriflyfrau Myfyr. Y mae 17 o'i ganiadau yn yr un ysgriflyfr;² a'r lleill yn wasgaredig mewn amryw o'r ysgriflyfrau hyny. Un o'i ganiadau sy'n argraffedig, hyd y gŵyr yr ysgrifenydd; sef "Cywydd Moliant i dri Mab Owain Cyfeiliog," sydd yn dechreu fel hyn :—

Eurwn gerdd gyda'r un gange,
I driwyr fal derw ieuangc,
Tri dyn wrth weled rhai da,
Goreu tri ond gwyr Troya.
Mawr yw grym llysiâu a main,
Tri mwy byw tri mab Owain;
Howel groyw uchel grechwen,
Hael yw am aïr dan Helm wen.
Milwr hoyw 'n moli rhain,
Melus yw fal mêl ei sain,
Mae yn ei fraich ddeufraich ddûr,
Mae nerth megis mewn Arthur
Dafydd o'r anwydd i'r aeth
O'r Imp hwnw yn rym pennaeth,
Impyn a thelyn ni thau,
Ag Impyn y prif gampau,
Uchel grair Bryn—Mair a'i medd,
A main gwyn ym min Gwynedd,
Uchel yw term Llywelyn,
Angel lle i del yn lle Dÿn.
Câf ar hwn ddwyn cof y rhawg,
Câf fal Owain Cyfeiliawg,
Cywydd serch i ferch a synn,
A thalm ar grwth a thelyn.

¹ Iolo MSS., t. 317.

² Transact. Cymmrod., vol. i., p. 183.

Llyna gyrph llawen a gaid,
A llawenydd eu llonaid,
Angylion a meibion medd,
Ag organau gwyr Gwynedd.¹

Dengys cywydd Iorwerth Fynglwyd y bu Llawdden farw yn ei fro enedigol. Dyma fel y dywed y bardd ar hyn :—

Mae 'n y bedd gwae ni heddyw,
Ai fath ni welir yn fyw,
Aeth Llawdden ai dalcen doeth
Yr unwedd a gwr annoeth.
Aeth i Gôr bencynghor cant
Ar ei ol a fawr wylant,
Lle ochaf yn Nglynn Llychwr
Yn medd y gorwedd y gŵr,
Yng Ngwyddifa oer drigfa draw,
Ei dylwyth yn Llandeilaw,
A'i enaid aeth yn uniawn
I'r nef mewn hedd i wledd lawn :
Ac yno 'n fardd a'i gan fyth
Yn addoli Duw 'n ddilyth.

Ar ddiwedd y cywydd prydferth hwn, ceir yr hyn a ganlyn, fel olysgrif iddo :—

Iorwerth Fynglwyd yn ymweled a Bedd Llawdden Fardd ym Mynwent Llandeilo Tal y Bont, a gant yr Englyn hwnn.

Llawdden a'i Awen Eos a ballodd,
Pwy bellach i'n dangos?
Dan y ddaear mae 'n aros ;
Dall yw'n Iaith mac'n dywyll nôs.²

Iorwerth Fynglwyd ai cant.

DAFYDD AP EDMWNT ydoedd wr "o Hanmer yn Nhegeingl, yng Ngwynedd ; ac enw 'r tŷ lle 'r ydoedd yn byw, Pwll Gweppra. Gwr bonheddig tiriawg oedd efe, a'r goreu o brydyddion gwlad Wynedd ; ac nid oedd neb ar fesur awdl a ganai yn ogystal ag efe yng Nghymru."³ Nid yw hyspys pa bryd y ganwyd ef ; ond yr oedd yn gydoeswr i Llawdden, ac yn ei flodau pan gynnaliwyd Eisteddfod fawr Caerfyrddin dan nawdd Gruffydd ab Nicolas, a "Llythyr Cynnwys Harri Sant o Winsor," yr hon a ddodir gan yr haneswyr goreu yn y fl. 1451. Tybir ei fod ychydig ieuengach na Llawdden Fardd. Od oedd yn 35 oed yn amser yr Eisteddfod honno, ganed ef yn y fl. 1416 ; ac y mae'n debyg iddo farw pan oedd Tudur Aled yn dechreu blodeuo, o gylch y fl. 1480, yr hwn a ganodd ei farwnad, a ddechreu fel hyn :—

¹ Y Brython, cyf. iv., t. 340.

² Iolo MSS., t. 320.

³ Y Greal, t. 97.

Llaw Dduw, a fu'n lladd Awen,
 Lladd Enaid holl ddwned hen ;
 Saer nid oes, eisiau 'r un dyn
 Ar goed Awdl, na'r Gwawdodyn ;
 Un nis Cân, yn Is Conwy,
 Wedi myn'd mab Edmwnd mwy.¹

Dywedir, fel y gwelsom, mai Meredydd ap Rhys oedd athraw barddonol Dafydd ap Edmwent ; ac y mae gwaith Meredydd yn profi ei fod yn fardd gwych, yn bur hyddysg yn y gynghanedd : ac ar y cyfan, yn ddigon cymhwys i fod yn athraw D. ap Edmwent. Ystyrir Dafydd, yn oed gan feirdd y Deheubarth, y "goreu o brydyddion gwlad Wynedd ;" ond ystyrir beirdd Gwynedd ef y "gorau ar ddychymmyg, a pharotaf ei awen" o holl feirdd Cymru benbaladr, hen a diweddar, oddi eithr Dafydd ab Gwilym yn unig, fel y tystia Tudur Aled yn y farwnad y cyfeiriwyd ati, gan ddywedyd,—

Adda fras oedd ef ar wawd,
 Awn i'w godi 'n un giwdawd :
 Ni bu fyw, neb fwy 'i Awen,
 Ond da Fardd Glan Teifi wenn,
 Mab Gwilym, heb gywely,
 Heb iddo frawd, ni bydd fry.
 Yn ei Fedd, Awen a fu,
 Awen tafod, yn tyfu ;
 Dafydd ar Gywydd, fu 'r gwaith,
 Ag a ddêl o'r gwýdd eilwaith ;
 Dŷn a dŷf dann ei dafawd,
 Egin gwýdd am ganu gwawd ;
 Impio 'spys gwmpas y Bedd,
 Ar ganghenau 'r Gynghanedd.

Dysgyblion barddonol D. ap Edmwent oedd Tudur Aled, ei nai : a Gutyn Owain. Y blaenaf a dystia yn yr un farwnad fel y canlyn :—

Gwae fi unig f' awenydd,
 O aros awr er y sŷdd !
 F'ewyrth o waed, f' athro oedd,
 Fynwes Gwawd, fy nŷsg ydoedd ;
 Mae Somm, o'i eisiau yma
 Methu'r Dysg, am Athro da.

Am Gutyn Owain, dywedir yn hanes Eisteddfod Caerfyrddin, "Gwybuwyd wedi hyny mai Gutyn Owain, yn ddisgybl i Ddafydd ab Edmwent oedd y gwas hwnw."²

¹ Gorch. Beirdd Cymru, t. 249. ² Y Greal, t. 97.

Y mae cryn lawer o ganiadau Dafydd ap Edmwnt yn argraffedig : cynnwys *Gorchestion Beirdd Cymru* 8 o'i ganiadau ; ac y mae amryw ddifyniadau o'i ganeuon yn *Y Greal*, *Rhetoreg* Henri Perri, a'r *Gramadegau* Cymreig, o un Sion Dafydd Rhys i wared. Dywedir yn hanes Eisteddfod Caerfyrddin¹ (1451), ddarfod i D. ap Edmwnt ganu ar y "Pedwar mesur ar hugain" a sefydlwyd yno ; ond er bod genym *dair Awdl* o'i waith yng *Nghorchestion y Beirdd*, ni chynnwys *dwy* o honynt ddim ond *pedwar* bob un o'r mesurau hyny ;² a'r *drydedd*, sef "Awdl y Methiant," ddim ond *pump* o'r gwahanol fesurau hyny.³ Y mae hyn yn awgrymu, er bod y "pedwar mesur ar hugain" cynghaneddol wedi eu hawdurdodi yn Eisteddfod Gruffydd ab Nicolas, nad ystyrid hyny yn rhwymo'r beirdd i'w defnyddio *oll* yn yr un awdl ; namyn dewis y rhai a farnent hwy yn fwyaf cyfaddas i'w testynau, yn ol esampl cynlluniwr cyntefig y cyfryw fesurau. Ymddengys, gan hyny, mai mympwy beirdd diweddarach oedd canu awdlau ar y "pedwar mesur ar hugain" ; yr hyn a ddedfrydwyd fel peth niweidiol i farddoniaeth yn yr Eisteddfod a gynnaliwyd yng Nghaerfyrddin yn y fl. 1819, yn yr ymadroddion canlynol :—

Ac yn yr Eisteddfod hon [1819], ym mhlith pethau craill a ddarweiniwyd dan ystyriaeth, y barnwyd yn unfryd unllais, heb nag na gwrtheb na llaw na thafawd, bod y Rheithiadau Cerdd a freiniwyd yn Eisteddfod Caer Fyrddin, yn y fl. 1451, dan enw y pedwar mesur ar hugain, yn cyfyngu awen y Bardd o fewn llyfetheiriau rhy gaethion, a bod, yn rhy fynych o yr achaws, synwyr a rhwyddineb iaith yn cael eu hoffrwm ar allawr gwag-orchest egwanbyll a diansawdd. Herwydd hyn, barn yr Eisteddfod hon ydyw, bod o hyn allan ryddid i Feirdd Ynys Prydain gyfansoddi Caniadau ar y mesurau mwyaf teilwng a chyfaddas i eu testynau ; ac na byddo rhag llaw wahaniaeth o barth teilyngdawd i ei roddi i fesurau yr un Ddosbarth, na'r hen na'r newydd,⁴ ragor neu uwch na eu gilydd ; ond bod urddas Cerdd neu Awdl uwch ereill, i gael ei farnu wrth gymhwylliadau synwyr, a phwyll, a chynghanedd rywiawg a diledryw, yn hytrach nag wrth amrywiaeth mesurau.⁵

Weithian, daw hanes prif orchestion llenyddol LLAWDDEN FARD a DAFYDD AP EDMWNT dan sylw mewn cyssylltiad â'u gilydd. Dafydd, yn ddilys ddigon, a wnaeth yr helynt farddonol fwyaf ym mhlith y Cymry o neb a fu o'i flaen nac ar

¹ *Y Greal*, t. 49, 97, 151. ² *Gorch. Beirdd Cymru*, t. 102, 107. ³ *Yr un*, t. 119.

⁴ Wrth yr "hen Ddosbarth" y golygir yma, yr hon a elwir "Ddosbarth Morganwg," a geir yng *Nghyfrinach y Beirdd* ; ac wrth y "Ddosbarth Newydd" y golygir "Ddosbarth Dafydd ap Edmwnt," yr hon hefyd a elwir "Ddosbarth Gwynedd," sydd i'w chael yng *Ngramadeg Sion Dafydd Rhys*, a *gramadegau diweddarach*.

⁵ *Tavies's* [Gwallter Mechain] *English Works*, p. 171.

ei ol ; ac y mac'r cyffro a achosodd efe yn para i gynhyrfu'r beirdd, ar amserau, o'r pryd hwnw hyd y dydd heddyw. Ymddengys mai yn ddamweiniol y dygwyd mawr allu barddonol D. ap Edmwnt i sylw yr holl Dywysogaeth. Ar ol i'r beirdd gael eu hymddifadu o'r ddysgblaeth fanwl oedd arnynt pan oedd y tywysogion Cymreig mewn awdurdod, mawr gynnyddodd eu rhifedi, eithr cyfartal leihaodd eu teilyngdod ; neu o leiaf, nid oedd foddion cyfaddas ar arfer yn y wlad weithian i wahaniaethu rhwng yr us a'r gwenith. Er hyny, yr oedd yr hen dywysogion, sef pendefigion Cymru, yn para i gefnogi barddoniaeth trwy gyfranau yn haelionus, er yn ddirgel, i'w harddelwyr, o barch i arfer eu hynafiaid ; o herwydd paham, yr oedd lluwys o rigymwyr di awen yn myned i dai'r pendefigion ar hyd y wlad, dan enw beirdd, i glera a chardota, er gwaethaf cyfraith "Harri Bedwerydd." A phan oedd Llawdden Fardd unwaith yn llys ei gâr, Gruffydd ab Nicolas, yn Abermarlais, medd yr hen gofnodau, o'r sawl y talfyrir yr hyn a ganlyn, daeth clerwr a ymgysfennai yn fardd i'r neuadd, a chân moliant, o'r fath ag ydoedd i Ruffydd, yn ei foli am ddrygau na ddaethai erioed i'w feddwl i'w gwneuthur, gan eu galw yn gampau gwrolion ; a Gruffydd a roddes y ddyri yn llaw Llawdden, yr hwn a welai mai math ar Saesneg ydoedd ; ac ar ol ei ddarllen, efe a gânt yr englyn canlynol :—

Pob gair cras, diras, pob dyri—goegwaith,
 Pob gogan a bryntni ;
 Pob drewdod, pob direidi,
 Ei gludo wnaed i'n gwlad ni.

"Gwir yw hyny," ebai Gruffydd ; "a pha fodd y gellir amgen?" "Yn ddigon hawdd," ebai Llawdden : "galwer am Eisteddfodau a Chadeiriau dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, fel y bu gynt, er adnewyddu hen wybodau llythyr a cherdd dafod Cenedl y Cymry, a chadarnhau braint wrth gerdd dafod ; ac yna ceir gweled mai bach y diffyg awen a chydwybod." Atebai Gruffydd, "Ni chaniateir hyny gan gyfraith y brenin y dydd heddyw." "Gwneir," ebai Llawdden, "pe'i ceisid yn gyfiawnbwyll ganddo." "Fe allai hyny," ebai

Gruffydd; "eithr pa le'r gobaith." "Lle genych chwi, fy arglwydd," ebai Llawdden, "os chwi a'i cais; ac os ei geisio a wnewch, mi a ddaroganaf i chwi lwyddiant a bodd eich calon." "Mi a'i ceisaf," ebai Gruffydd. Efe a'i ceisiodd "ac ai casaf; a gwarant a braint diogelwch dyfod a dychwel, dan nawdd llythyr Cynnwys y brenin, Harri Sant o Winsor,"¹ Harri VI.

Y mae yr hen gofion wedi gwneud amser cynnaliad Eisteddfod Caerfyrddin dan nawdd Harri VI., a than lywyddiaeth Gruffydd ab Nicolas, mor ddyrys, fel y dywedodd y craffus Wallter Mechain, y rhaid iddo ef adael hyny heb ei benderfynu;² ond cymmer yn ganiataol, fel y rhan fwyaf o haneswyr i hyny ddygwydd yn y fl. 1451.³ Yn yr ysgrif y difynwyd uchod o honi, dywedir i Eisteddfod fawr gyntaf Caerfyrddin gael ei chynnal yn "yr unfed flwyddyn ar hugain o goroniad Harri Sant o Winsor," sef yn y fl. 1443; ac yna y "dodwyd yr Eisteddfod ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, o flwyddyn i flwyddyn hyd ben tair; ac o dair blynedd i dair blynedd hyd ym mhen y naw mlynedd; ac yn hyny cyrchu cyfallwy;⁴ a'r ddegfed flwyddyn (1453), cynnal *ail* Eisteddfod fawr Caerfyrddin; lle ynillodd Dafydd ap Edmwent y gadair arian am ei orchestion, a fernid yn oferbwyll celfyddyd gan feirdd Morganwg."⁵ Mewn un hen gofnod dywedir, "Llyma bedwar mesur ar hugain cerdd dafod, modd a'u doded ar ddosparth gan Dafydd ap Edmwent yn yr *ail* Eisteddfod fawr yng Nghaerfyrddin," oed Crist 1461.⁶ Gan y cyttunir yn gyffredin mai dan nawdd "Harri Sant o Winsor," a than lywyddiaeth Gruffydd ap Nicolas, y cynnaliwyd yr Eisteddfod y bu Dafydd ap Edmwent fuddugol ynddi, rhaid bod yr amseriad olaf a nodwyd yn llawer rhy ddiweddar; canys yr oedd Gruffydd ap Nicolas wedi ymuno â theulu Caerefrog yn erbyn "Harri Sant" a'i blaid er ys hir amser cyn hyny; a lladdwyd Gruffydd ap Nicolas yn mrwydr Croes Mortimer yn y fl. 1461; gan

¹ Cyfr. y Beirdd, t. 239. ² Davies's Engl. Works, p. 148, note 1.

³ 1450 yw amseriad Iolo Morganwg.—Cyfr. y Beirdd, Rhagddar., t. viii.

⁴ Effsithiol.—Gorsedd gyfallwy (*an efficient session*) sydd enw a ddyfeiswyd gan Llywelyn Ston tua diwedd y 16fed ganrif.

⁵ Cyfr. y Beirdd, t. 240. ⁶ Yr un, t. 223.

hyny, nis gallai Gruffydd lywyddu Eisteddfod y flwyddyn honno dan nawdd "Harri Sant."¹ Y gwir yw nad oes hanes gredadwy i ddim ond *un* Eisteddfod gael ei chynnal yng Nghaerfyrddin yn ystod y ganrif yma;² a honno "dan nawdd llythyr Cynnwys Harri Sant o Winsor," a than lywyddiaeth Gruffydd ab Nicolas, ryw bryd o gylch y fl. 1451. Dywedir mewn un man yn hanes Eisteddfod Caerfyrddin mai "o ddawn haelionus Edward IV." y cafodd Gruffydd ab Nicolas awdurdod i'w chynnal,³ yr hyn sydd mor anghywir a'r haerriad mai yn y fl. 1461 y cynnaliwyd hi; canys yr oedd Gruffydd ab Nicolas,⁴ fel y mynegwyd, wedi ei ladd *cyn* i Edward esgyn yr orsedd, tra nad oedd efe eto ond Duc Caerefrog.

Wedi ymdrechu gwneud trefn oreu y gellid ar dryblith amseriadol yr Eisteddfod bwysig hon; effaith yr hon sydd mor barhaus ar lenyddiaeth ein cenedl, dodir crynodeb mor fyr ag y gellir o'i gweithrediadau ger bron. Pan gafodd Gruffydd ab Nicolas awdurdod gan Harri VI. i gynnal yr Eisteddfod, efe "a beris gyhoeddi hyspysiad yn mhob llan a llys, ac ym mhob ffair a marchnad, ac ym mhob llu a thyrfa

¹ Hall's Chron., p. 100; Hollnshed's Chron., p. 1304; Stow's Survey, p. 413; Gwaith L. G. Cothi, Tegid's Sketch, p. xv. ² At un Eisteddfod Caerfyrddin y cyfeiria Edward Dafydd o Forganwg, a Llywelyn Sion o Langewydd befyd.—Cyfr. y Beirdd, t. 3, s. ³ Yr un, t. 49.

⁴ Gan fod cyssylltiad mor bwysig rhwng Gruffydd ab Nicolas a llenyddiaeth farddonol y ganrif hon, effaith yr hyn a wnaeth, mewn gwirionedd, sy'n para ym mhllith ein cenedl hyd y dydd hwn, credir y bydd hanes fer am dano yn ddyddorol i'r darlennydd cyffrelin.

Yr oedd Gruffydd, yn ol ysgrifenydd yn amser Iago I. [Cambrian Register, vol. 1, p. 55, note *], yn disgyn yn syth trwy ei dad, Nicolas Phylip, o Urien Rheged (Gwaith L. G. Cothi, p. 130; a thrwy ei fam Jonet ferch Llywelyn Foethus (Yr un, p. 131), o Elystan Glodrydd, tywysog rhwng Gwy a Hafren, a chyff cenedl un o'r pum breninllwyth (Cambr. Reg., vol. 1, pp. 56—7; York's Royal Tribes, p. 132). Ymgysylltodd trwy briodasau a'r teuluoedd penaf yn yr holl wlad. Ei wraig gyntaf oedd Mably, merch Meredydd ap Harri Don (Donne), o Gydwell; ei ail wraig oedd ferch Syr Ioan Perrot, o sir Benfro; ei drydydd wraig oedd Sian, merch ac etifeddes Sencyn ap Rhys ab Dafydd o Gilfach Wen, sir Aberteifi (Cambr. Reg., vol. 1, p. 55, note *; Gwaith L. G. Cothi, p. 131, note 1).

Gwnaeth y cyssylltiadau hyn, yng nghyd a'i gyfoeth ei hun, ef yn un o'r pendefigion cyfoethocaf a mwyaf ei ddyllanwad yn y Deheubarth. Gwilym ap Ieuan Hen, bardd cydoesol, wrth ei gyfarch a ddywed,—

Saith gastell sydd i'th gostiaw,
A saith lys y sydd i'th law.

Y mae yr hyn a ddywedwyd am dau eisoes, yng nglyn ag Eisteddfod Caerfyrddin, yn ddigon i brofi ei fod yn wladgarwr a llenгарwr o'r fath fwyaf eiddgar a haelionus. Yn lled fuan ar ol Eisteddfod Caerfyrddin, ymosododd amryw o bleidwyr tylwyth Caerwerydd Lancaster ar wahanol ranau o etifeddiathau Gruffydd ab Nicolas, yr hyn a barodd iudo yntau droi i bleidlo tylwyth Caerefrog (York); ac yn y fl. 1461, lladdwyd ef, fel y crybwyllwyd, ym mwydr Cross Mortimer, er dirfawr golled i lenyddion a llenyddiaeth y Cymry.

gyfreithiawl, y byddai Eisteddfod ar brydyddion, a phob gwŷr wrth gerdd dafod a thant, yng Nghaerfyrddin.¹ Ac er dwyn yn well i ben hyn o ddarpar, efe a gymmerodd gynghor ac addysg beirdd dysgedigion parth y gelfyddyd wrth gerdd dafod, a pharth y defodau a'r breiniau a fuasent yn amseroedd y tywysogion, ac yn amseroedd arglwyddi cynhenid Cymru yn mhob llys a llan yn Ynys Brydain."

Ymddengys wrth hyn i Gruffydd ab Nicolas alw'r cynghor yma o'r "beirdd dysgedigion" yng nghyd yn ebrwydd ar ol cael "Llythyr Cynnwys Harri Sant o Winsor"; mor gynnar, ond odid, "a'r unfed fwyddyn ar hugain o'i goroniad ef," fel y dywed Antoni Powel. Ac yn y cynghor hwnw, "y goreu am wybodau y cafas ef Llawdden, gŵr o gâr iddo, a phrydydd gorchestol, yn medru yr hen wybodau a fuant gynt ar ddeall gan feirdd a doethion gwlad Cymru. Ac ar Lawdden y dodes Gruffydd yru trefn ar ddefodau a berthynent i brydyddion ac i wŷr wrth gerdd dant; a hyny a wnaeth efe, gan eu tynu o'r hen lyfrau ac o'r hen gofion, yn fanwl ei gais ac yn astud ei ddeall; a gwneuthur llyfr a rhôl o honynt."

Yn y "llyfr a'r rhôl" hyny, a alwyd "Ystadyd Llawdden," trefnwyd y beirdd cerdd dafod a'r beirdd cerdd dant, yn ol copi Iago ab Dewi o'r hen "Ystadyd,"² yn bum gradd,³ wrth y rhai y cysylltir y cymhwysderau gofynol; a chan y byddai'r graddau hyny yn llawer mwy defnyddiol yn awr na'r ffug raddau diwerth a elwir Bardd, Ofydd, a Derwydd, a ddygwyd i arfer yn ddiweddar, ac a roddir i rai heb gael dim prawf o'u cymhwysderau, dodir sylwedd hen "Ystadyd Llawdden" ger bron yma.

¹ Ni wyddys pa ffurf oedd i'r "hysbysiad" hwnw, ol oedd iddo ryw ffurf heb law mynegl yn syml "y byddai Eisteddfod ar brydyddion," &c., yng Nghaerfyrddin yr amser a'r amser; a bod "gwys a gwahawdd i holl brydyddion cenedl y Cymry, o ba wlad bynnag yr henynt, i ddyfod dan nawdd a chroesaw i'r Eisteddfod" honno. Nid oes son am "orstedd," neu gylch o fan geryg, na "maen llog" yn y canol, na chleddyf, na "chorn gwlad," yng nglŷn a chyhoeddiad Eisteddfod fawr Caerfyrddin; gan hyny, rhaid casglu mai defodau a ddyfeisiwyd yn ddiweddar yw y rhai hyn; pethau nas gellir eu hoirhain ym mhellach yn ol na "man gofion Llywelyn Sion," yn yr *Iolo MSS.*

² Y Greal, t. 50. ³ Pedair gradd a ddodir i'r beirdd cerdd dafod yng nghopi S. D. Rhys o'r hen "Ystadyd," gan na ddyry ef y gyntaf i mewn.—*Ling. Cymr. Inst. Accur.*, p. 297.

GRADDAU a CHYMHWYSDERAU GWYR WRTH GERDD DAFOD.

1. "Dysgybl Yspás"¹ Heb Radd; Nid oes arno wybod ar gerdd dafod hyd ym mhen ei yspás pan gaffo ei radd; ac nid oes iddo rodd namyn syberwyd² herwydd a ddyweto ei athraw am y gellir yn ŵr wrth gerdd dafod o hono.

2. "Dysgybl Yspás Graddol, a ddylai wybod y sillafau a phum' mesur englyn; nid amgen Unodl Union, Unodl Cyrch, Unodl Crwca, Proest Cyfnewidiog, a Phroest Cadwynog, herwydd eu rhywiau; a Mesur Cywydd Deuair Hirion; a'u canu yn awenyddgar ym marn pencerdd a ddyweto ar ei gydwybod y gellir gwr wrth gerdd dafod o hono.

3. "Dysgybl Dysgyblaidd,"³ a ddylai wybod deuddeg o'r mesurau; nid amgen, pum mesur Englyn, a phedwar mesur Cywydd; sef, Cywydd Deuair Hirion, Cywydd Deuair Fyriion, Cywydd Llysgyrniog, ac Awdl Gywydd; a Thri Mesur Odllau; sef Toddaid, Gwawdodyn Byr, a Gwawdodyn Hir; a gochel y pymtheg Bai Cyffredin a dangos cerdd ar y deuddeg mesurau enwedig o'i waith ei hun, yn awenyddgar a difai—ddysgyblaidd ym marn Pencerdd.

4. "Dysgybl Pencerddlaidd"⁴ a ddylai wybod yr holl sillafau, a rheol yr ymadroddion herwydd y Gramadeg, a dosparth y mesurau, a'r cynganeddion, a'r gymmeriadau, a gochel yr holl feiau; a chanu yn gydsain, neu'n gyfochr ei gerdd ar un ar hugain o'r mesurau.

5. "Pencerdd,"⁵ a ddylai wybod y cwbl; a chanu'n gyfochr, ac yn gydsain, ac yn groesgynganeddol ar gymmeriadau, yn destyngar ar ddigrifwch, yn firaethlawn ei synwyr, yn ddefnyddfawr gerddwriaeth, yn wybodfawr ei geulawd, yn awenyddol ei ddychymmyg, yn warantedig ei awdurdod, herwydd dosparth cerdd dafod: fel y bo hawsaf dysgu a dadgan ei gerdd a'i chofio; a difyrfa ei gwranddo a'i darllen; a hwyaf gallu dal cof ar bob gweithredoedd anrhydeddus a moliannus.⁶

Heb law'r graddau a nodwyd, perthynai i'r prydyddion dair o raddau damweiniol; sef, Prifardd, yr un, ond odid, a Pencerdd, Dysgawdwr neu Ddoctor Prydyddiaeth; Posfardd, un yn dysgu yr hyn a gyfansoddai y Prifardd; ac Arwyddfardd, sef achyddwr a chroniclwr, neu gofnodydd.⁷

GRADDAU A CHYMHWYSDERAU GWYR WRTH GERDD DANT.

[Perthynai y graddau hyn i Delynorion a Chrythorion yn gystal.]⁸

1. "Dysgybl Yspás Heb Radd, nid oes nac ar ei gelfyddyd, nac ar ei radd, nac ar ei rodd, ond barn Pencerdd a ellir gwr wrth gerdd o hono.

2. "Dysgybl Yspás Graddol a ddylai wybod pun' Cwlwm⁹ a Chadair,¹⁰ deg cwlwm a cholofn,¹¹ ac wyth o ganiadau.¹²

3. "Dysgybl Dysgyblaidd a ddylai wybod deg cwlwm a dwy gadair, ugain cwlwm a dwy golofn, ac un ar bymtheg o ganiadau, a'r pedwar mesur ar hugain,¹³ a'u canu wrth reol.

4. "Dysgybl Pencerddlaidd a ddylai wybod pymtheg o glymau a thair cadair, deg ar hugain o glymau a thair colofn, a phedair ar hugain o ganiadau a thair gosteg;¹⁴ a medru y pedwar mesur ar hugain a'u dosparthiau, ac adnabod gwahan rhwng pob rhyw a'u gilydd.

5. "Pencerdd a ddylai wybod deugain cwlwm a phedair colofn, ugain cwlwm cydgerdd¹⁵ a phedair cadair, a deuddeg ar hugain o ganiadau a phedair gosteg; a gwybod yr holl fesurau a'u rheolaeth; a gwybod pedair ar hugain o ddeifrau;¹⁶ a dosparth mesurau,¹⁷ megis y mac'r llyfr dosparth¹⁸ yn dangos; a medru gwneuthur

¹ Dysgybl ar brawf—*Probationary pupil.* ² Cymmwynas. ³ *Disciplined pupil.*

⁴ *Master pupil.* ⁵ Prifardd—*Chief bard.*

⁶ Y Greal, t. 50; Rheso Ling. Cymr. Inst. Accur., p. 303. ⁷ Yr un.

⁸ Pennant's Tours, vol. ii., p. 94, &c. ⁹ *Concord.* ¹⁰ *Precedence.* ¹¹ *Fundamental.*

¹² *Tunes.* ¹³ *Twenty-four canons of Music.* ¹⁴ *Prelude.* ¹⁵ *Concord of accompaniment.*

¹⁶ *Meters.* ¹⁷ *System of canons.* ¹⁸ *Book of Science.*

cerdd ei hunan yn ddifai ; a medru yr holl ddosparthau, a phob gwán a rhagwan a phob cymhwysiad a gorphwysiad,² a phob symmudiad ar dyniadau a chyweirdannau,³ cuddiedig ac anghuddiedig ; a'u dangos yn warantedig o'i waith ei hun, yn bencerdddaidd ac athrawaidd, fel y bo gwybodus i bencerddiaid a doethion ei famu a'i ddewis yn awdwr ac yn athraw ar y gelyfddydd.⁴

Yr oedd y gwŷr a arddelent y graddau uchod, yn ol yr "Ystadyd," i gael eu dyrchafu ne'u darostwng yn ol ansawdd eu cynnydd bob tair blynedd, fel hyn : oni ddysgai dysgybl yspâs graddol fod yn ddysgybl dysgyblaidd ym mhen tair blynedd, syrthiai i radd dysgybl yspâs heb radd ; oni ddysgai dysgybl dysgyblaidd fod yn ddysgybl pencerdddaidd ym mhen tair blynedd, syrthiai i radd dysgybl yspâs ; a'r cyffelyb am y lleill.⁵

Dadgeiniad⁶ oedd fath ar wŷr wrth gerdd rhwng prydydd a cherddor, yr hwn oedd i "wybod y sillafau, a'r mesurau, a phob dosparth cerdd a defod ; a gwybod rhoi y pennillion yn eu lle herwydd eu cymmeriadau ; a dadgan cywydd a phob cerdd arall yn iawn ; a medru'r Gymraeg yn gyfiawn, a'i hysgrifenu yn drefnus a chywir. Hefyd, efe a ddylai wybod canu telyn, a chyweirio⁷ ar bedair ar ddeg o brif geingciau,⁸ a'u canu yn gyfiawn.⁹

Heb law y dogn clera a roddid i lenorion o'r graddau a nodwyd, ar y tair gwyl arbenig, ac yn y neithiorau,¹⁰ y rhai ni pherthynant i'r oes bresenol, yr oedd pedwar ariandlws yn perthyn iddynt, y rhai a weddent i'r oes hon cystal a'r oesau gynt ; sef, cadair aur neu arian i'r pencerdd cerdd dafod ; telyn aur neu arian i'r pencerdd telyn ; crwth aur neu arian i'r pencerdd crwth ; a thafod aur neu arian i'r goreu o ddadgeiniaid.¹¹

Yr oedd dysgyblaeth a chospau llymion, y sawl a draethir yn yr "Ystradyd" mewn naw o erthyclau, i gael eu gweinyddu ar wŷr wrth gerdd o blegid gwahanol droseddau. Ditynir un

¹ Divisions and sub-divisions. ² Quantity and rest.

³ Modulations and chords—strings.—*Myv. Arch.*, pp. 1205—1247.

⁴ *Y Greal*, t. 56 ; *Ling. Cymr. Inst. Accur.*, p. 298.

⁵ *Y Greal*, t. 53 ; *Ling. Cymr. Inst. Accur.*, p. 302. ⁶ *Vocalist*. ⁷ *Tuning*.

⁸ *Primary tunes*. ⁹ *Y Greal*, t. 54 ; *Ling. Cymr. Inst. Accur.*, p. 304.

¹⁰ *Y Greal*, t. 54 ; *Ling. Cymr. Inst. Accur.*, pp. 296, 302. ¹¹ *Y Greal*, t. 54.

yma, fel enghraifft :—“ Hefyd gorchymyn i bawb [o'r gwŷr wrth gerdd] nag ymwnelont âg arferoedd rhodiaid neu grwydr-iaid ; ac nad elont i dafarnau a chornelau cuddiedig a diarffordd i ymddiota nac i chwareu cardiau, neu ddisiau, neu unrhyw chwareu anghyfreithiol arall, am arian ; nac am dda yn y byd ; ac o gwnant, pawb yn swyddog arnynt, a dwyn a fo yn eu pyrsau, a'i roi yng ngoleuad yr eglwys.” Yr oeddynt hefyd i oddef “ ffin a charchar a cholli pob da wrth gerdd,” o blegid rhai troseddau a nodir yn yr “ Ystradyd.”¹

Llawdden Fardd hefyd a drefnodd “ y cynghaneddion,” a'u rhywiau, a'u dosparth, a phob gwan a rhagwan arnynt ; ac yn unwedd ar y cymmeriadau ; ac a wnaeth drefn ar y ceingciau hyny ; a phenaf o beth a wnaeth efe er gwellâd, oedd gwahardd y gynghanedd bengoll (namyn ar baladr toddaid Cwta neu Englyn Unodl Union) o gydsain groes, ac o lysg, ac o sain ; canys hyd yn hyny o amser arferid cynghaneddion pengoll o bob rhyw ar gerdd dafod. Efe hefyd a waharddes broestio ar y cynghaneddion, a phob rhwy a gormod, a phob twyll a gwall.²

Ymddengys yn ddigon eglur wrth yr hen gofion, bod Llawdden wedi trefnu ei “ Ystadyd ” ar wŷr wrth gerdd, ac ar y cynghaneddion, *cyn* Eisteddfod fawr Caerfyrddin ; canys dywedir, “ *Gwedi* cael ar gof, a threfnu yr *Ystadyd* a ddangoswyd eisoes, y peris Gruffydd ab Nicolas ei doddi ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn ym mhob llan a llys gyfreithiawl yng ngwlad Gymru a'r Mars, ac ym mhob ffair a marchnad, ac yn mhob tyrfa ddosparthus...Ond nis gellesid rhoddi yr ariandlws iddo ef, herwydd nad o bwngc Eisteddfod y doded hyny, eithr ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn *ym mlaen* ; a gwahardd dangos yn yr Eisteddfod yn amgen nag yn ol y gwellâd a wnaeth efe *cyn hyny* ; ac nis gellid amgen na braint Eisteddfod ar y gwellâd hyny, achos a ddywetpwyd eisoes.”³

¹ Y Greal, t. 53, 58 : Ling. Cymr. Inst. Accur. pp. 296, 302.

² Y Greal, t. 59, 60.

³ Y Greal, t. 53, 161.

DAFYDD AP EDMWNT YN TREFNU Y MESURAU CAETHION.

Pan wybu Dafydd ap Edmwnt, trwy gyfrwng "y gwys a'r gwahawdd" a wnelsid yn hyspys "ym mhob llan a llys gyfreithiawl yng ngwlad Gymru," pa bryd y cynnelid Eisteddfod fawr Caerfyrddin, aeth ef a'i ddysgybl, Gutyn Owain, yno. Pan ddeallodd Gruffydd ab Nicolas fod y ddeuddyn o Wynedd yn "wŷr o fonedd, a doethineb, a gwybodau," efe a roddes iddynt hwy, cystal a'r holl feirdd a ddaethent i'r Eisteddfod, "roddion a gwisgoedd sidan i bob un, a march, a nobl aur i bob un, a'i wleddau 'n rhydd a'i le tŷ yn rhad."¹

Ac un diwrnod, "wedi ciniawa, Gruffydd ab Nicolas a ddodes y pwngc yma a flaen y prydyddion, a gofyn ateb: 'Pa beth yw achos, a defnydd, a dyben Eisteddfod?' Ac ni chlywai neb ar ei galon ateb. Yna y dywed Gruffydd ab Nicolas, 'Y gŵr bach a'r gŵn llwyd, dod ateb.' Ac ateb a wnaeth Dafydd fal hyn: 'Cof am a fu, ystyr am y sydd, a barn am a fydd.' 'Da iawn,' ebai Gruffydd ab Nicolas: 'dod dy farn a'th orchymyn fal y gwybom.' 'Am a fu,' ebai Dafydd, 'nis gellir ei wellâu; am y sydd, nis gellir amgen nag y mae; am a fydd, gellir amcanu gwellâd. Am a fu, y mae ger bron ar gof; am y sydd, y mae yng ngolwg; am a fydd, nid oes ond barn. Nis gellir gwellâu a fu, cyd gellir ei well; rhy hwyr ceisio gwellâu y sydd, eithr gellir ei well; eithr am a fydd, gellir amcanu ei well. A chan mai felly y mae o dwng, rhodder ar yr arian-dlws, ac ar a'i cais, wellâu ar fesurau cerdd dafod; a gadael ar ol a fo gwacthaf, gan osod gwell o newydd yn ei le, a chadw a fernir yn oreu, onis delo amser a gwŷr a'i gwella.'²

Yna Gruffydd ab Nicolas, wedi rhoi rhybudd egnïol i feirdd y Deheubarth ar ymdrechu o honynt gadw'r gadair arian yn eu plith, gan ddadgan o ddifrif y rhoddaï efe hi i'r neb a'i teilyngai, "a roddes yn bwngc ymryson, y goreu ei ddychymyg er gwellâu mesurau cerdd dafod, ar gyhydeddau, a chynganeddau, a chymmeriadau. Gwedi naw diwrnod yn canu ar hyny, y doded a wnaethpwyd o flaen barn; a gorchestolaf o'r

1 Cyfr. y Beirdd, t. 239. 2 Y Greal, t. 100.

cyfan y cafwyd a gânt Dafydd ap Edmwnt ; sef y mesurau a wnaeth efe o'i ddychymmygfawr athrylith oeddynt, Gorchest y Beirdd, a hwnw'n gwbl newydd ; ac yn ail, gwellâu yr hen fesur Hypynt o'i ganu yn gyfochrawdl ; a Chadwyn Fyr yn y modd y mae yn awr wedi gwellâu arno yn orchestawl, a dodi rhagor arno nag a fu cyn hyny."¹ "A gwedi iddo ef drefnu a dosparthu yn y modd hyny ar y pedwar mesur ar hugain cerdd dafod, a chanu arnynt yn fwy gorchestol na neb o'r prydyddion, y barnwyd iddo y gadair arian, a'i dodi ar ei ysgwydd. A hyny o ddosparth a wnaeth efe a freiniwyd yn yr Eisteddfod honno yn ogyfuwch ag nas gellid myned yn eu herbyn ; a chael o hyny radd a da wrth gerdd dafod ; a'r ddsbarth honno a gedwir fyth gan holl brydyddion a gwŷr wrth gerdd dafod Cymru."²

Un mesur newydd, yn ol y mynegiad blaenorol, a ddyfeisiwyd gan Dafydd ap Edmwnt, sef Gorchest y Beirdd, tra na wellaodd ond dau hen fesur, sef Hypynt a Chadwyn Fyr ; eithr Gwallter Mechain a ddywed, "Y mae Cynghawg yn deulu lluosog, ei rywiau braidd yn aneirif ; a buont yn gyn-northwy mawr i Ddafydd ap Edmwnt i gyflawni rhifedi ei 24 mesur yn Nghaer Fyrddin : canys allan o'r un mesur Cynghawg, ni ddefnyddiodd efe lai na *chwech* o'i fesurau dan enwau newyddion—megys Gwawdodyn hir, Gwawdodyn byr, Hir a Thoddaid, Cyrch a Chwta, &c. Yr un math ar ryddid a gymmerodd mewn perthynas i'r mesur *Hypynt*. Un mesur, ac un teulu, sydd dan yr enw Hypynt yn yr hen Ddosparth,³ dan yr un nod angen, yr un man geni teuluawl ; ond D. ap Edmwnt a'i planodd yn nghoedwig ei Ddosparth mewn *tri* man, gan roddi enw gwahanol ar bob un, sef Hypynt hir, Hypynt byr, ac megis 'tin y nyth,' Gorchest y Beirdd. Yr oedd Hypynt yn hen fesur ar arfer gan y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd. Hwn yw mesur Cân Dafydd Ddu o Hiraddug—'Ti Dduw a Folwn' (*Te Deum Laudamus*), a mesur bugeilgerddi Edward Richard,

¹ Y Greal, t. 101. ² Yr un, t. 60. ³ "Yr hen Ddosparth" y galwal Gwallter Mechain yr un a elwir yn gyffredin "Ddosparth Morganwg."

o Ystrad Meurig, a llaweroedd o Gerddi a Charolau Huw Morus, a'r cynghaneddwyr goreu yn yr oesoedd diweddar."¹

Yn ol Gwallter Mechain, gan hyny, fe luniodd D. ap Edmwnt wyth o fesurau o'r ddau hen fesur a eilw efe Cyng-hawg a Hypynt, heb law Gorchest y Beirdd, yr hwn yr addef pawb ei fod yn hollol *newydd*, beth bynnag am ei *deilyngdod*. Dywed rhai fod y 24 mesur ar gael eisoes, cyn amser Dafydd ap Edmwnt, yn Nosparth Edeyrn Dafod Aur; yn Awdl Gwilym Tew i 'Fair,' cyn 1414, ac yn Awdl Lewys Morganwg i "Leision Abad Glyn Nedd," ac na wnaeth Dafydd ddim ond "tynhau ychydig ar gadwynau dau bennill."

Y mae hyn yn gamsyniad pwysig. Os yn y fl. 1270 y casglodd Edeyrn ei Ramadeg,² y mae prawf pendant ar gael, nad *gwir* Ramadeg Edeyrn, fel y'i gwnaed ganddo ef, ydyw'r copi a gyhoeddwyd dan olygiad Ab Ithel, yn y fl. 1856; canys y mae hwn yn cynnwys Englyn o waith "Llywelyn fab Gruffydd" o Farchwial,³ yr hwn oedd yn ei flodau, fel y gwelwyd eisoes, o'r fl. 1328 i 1330. Ni wyddys pa faint diweddarach y casglwyd y copi a gyhoeddwyd dan olygiad Ab Ithel; eithr nid yw ei lythraeth na'i eirwediad hynach na'r 16fed ganrif; ond y mae amryw o'i esamplau prydyddol yn llawer hynach. Dau ar hugain o fesurau Dosparth D. ap Edmwnt sydd yn y copi dan sylw; ac y mae y rhan fwyaf o'r esamplau yn dra anghywir, yn ol Dosparth D. ap Edmwnt.

Am Awdl Gwilym Tew, yr hon a fu dan sylw eisoes, y mae'n dra sicr na chyfansoddwyd hi cyn Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn y fl. 1451, pan fu D. ap Edmwnt fuddugol; yn wir, tybir y gellir profi yn gadarnhaol nad oedd mewn bod yn oed yn y fl. 1460, chwaethach "cyn 1414." Dodir Gwilym Tew yn ei flodau gan y Dr. Davies o Fallwyd, yn y fl. 1460; ac y mae Llywelyn Sion yn cadarnhau yr amseriad yma, er yn anuniongyrchol, ac yn profi hefyd yr un modd fel y tybir, nad oedd Awdl Gwilym Tew yn hyspys yn y flwyddyn a nodwyd olaf. Tystia Llywelyn Sion fod Gwilym Tew, ym mhlith

¹ Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 160.

² Dosparth E. D. Aur, pref., p. xii.

³ Yr un, t. xxvi.

eraill, yn yr "Orsedd wrth Gerdd ar Fynydd Garth Maelwg," yr hon a gynnaliwyd "o ddawn gwlad a'r Arglwydd Rhisiart Nefel," yn y fl. 1460 yn yr hon yr oedd Gwilym Tew yn Llywydd.¹ "Eithr nid oedd yr *amser* hyny agos y sydd ein awr ar arfer o Fusurau Cerdd ; am nad oeddynt *hyd yn hynn* ar gaffaeliad ag adfer, ond ef a gafwyd *wedi hynny* lawer o henynt fel y gweler yn Llyfrau *Gwilym Tew*, a William Egwad."² Pe buasai Awdl Gwilym Tew ar gael yn y fl. 1460, buasai'r geiriau a Italciddiwyd genym, yn gamhyspysiad ; a phe buasai mewn bod yn y fl. 1451, y mae braidd mor ddi-amheuol y dygasid hi i'r gystadleuaeth yn erbyn D. ap Edmwnt, ac y cawsid hyspysiad o hyny yn hanes yr Eisteddfod bwysig honno.

Wrth sylwi ar yr ymadroddion a ddifynwyd o Llywelyn Sion, a'r hyn a ddywed Antoni Powel am yr Awdl dan sylw ; sef, "ef a'i gwellaes wedi hynny ;"³ ac wrth gymharu yr amryw gopïau o honi,⁴ y rhai sydd dra gwahanol ; tueddir yr ysgrifenydd i gredu mai clytwaith ydyw, a gyfansoddwyd o amser i amser, ac ond odid gan wahanol bersonau, *ar ol* "Gorsedd Mynydd Garth Maelwg," yn y fl. 1460.

O berthynas i "Awdl a gânt Lewys Morganwg i Leision Abad Glyn Nedd,.....yn y bumed flwyddyn o Goroniad y Brenin Harri'r Seithfed"⁵ (y fl. 1490), nis gallasai D. ap Edmwnt gael dim cymhorth yn honno, fel yr awgryma rhai iddo gael, at drefnu ei fesurau yn y fl. 1451, namyn un mlynedd deugain cyn i Lewys gyfansoddi ei awdl ; ond gallasai Lewys gael cymhorth oddi wrth Ddosparth D. ap Edmwnt.

Nid oedd trefnu'r mesurau ond rhan o'r gwaith llenyddol a wnaed gan D. ap Edmwnt yn ystod y naw niwrnod a roddwyd iddo ef, ac eraill, i ymgystadlu yn Eisteddfod Caerfyrddin ; canys fe ganodd Dafydd ar yr holl fesurau wedi eu trefnu, fel y gwnacth eraill ; a phan y "doded a wnaethpwyd o flaen barn, y gorchestolaf o'r cyfan y cafwyd a gânt Dafydd ap Ed-

¹ Dr. Jones's Hist. Wales, p. 225. ² Cyfr. y Beirdd, t. 9. ³ Yr un, t. 213, 218.

⁴ Ling. Cymr. Inst. Accur., p. 239 ; Gram. J. Rhydderch, t. 144 ; Cyfr. y Beirdd, t. 213.

⁵ Ling. Cymr. Inst. Accur., p. 239 ; Gram. J. Rhydderch, t. 148 ; Cyfr. y Beirdd, t. 218.

mwnt." Nid yw hyspys fod yr enghreifftiau a wnaed y pryd hyny gan D. ap Edmwnt ar gof a chadw yn bresennol ; os nad ei waith ef yw yr enghreifftiau dienw sydd yn Nosparth ei nai, Tudur Aled, yr hon Ddosbarth a ddaw dan sylw rhag llaw.

Gan fod pendefigion a gwŷr boneddig tiriawg Cymru o gylch yr amser yma, yn ymdeimlo eu bod dan fath ar rwymau anrhydedd, o barch i arfer eu hynafiaid, i roddi gwleddoedd, rhoddion o arian, a phob da arall i'r beirdd, yr oedd y wlad yn heidio o gler cardotaidd, rhigymol, a diawen, dan enw beirdd a cherddorion, er gwaethaf cyfreithiau'r Saeson yn eu herbyn ; ac nid oedd gan y Cymry, o herwydd y cyfreithiau hyny, ddim awdurdod i'w dwyn i drefn a dosparth hyd Eisteddfod Caerfyrddin. Y mae yn eglur, fel y gwelwyd, mai er mwyn rhoi terfyn ar haerllugrwydd y cardotiaid rhigymol, y cymhellodd Llawdden ei gâr, Gruffydd ap Nicolas, i geisio awdurdod gan "Harri Sant o Winsor" i gynnal Eisteddfod Caerfyrddin. Dyma yr amcan oedd gan Llawdden hefyd wrth drefnu ei "Ystadyd," a chaethiwo'r gynghanedd ; wrth benodi maint rhoddion y gwahanol raddau ; ac yn attal i neb gael y rhoddion hyny ond a allai brofi ei fod naill ai Pencerd, neu Ddysgybl i Bencerdd penodol.¹ Yr un amcan hefyd oedd gan Dafydd ap Edmwnt, yr hwn oedd "ŵr boneddig tiriawg" ei hunan, yn tynhau cadwynau y mesurau, ac yn penodi eu nifer.

Ond camgymerodd yr hen deulu y safon ; canys er bod dysgu gramadeg, cynghanedd, a'r mesurau caethion, yn orchwylion nas gall pob delphyn eu cyflawni ; eto, ceir dengmil i ddyngu'r pethau hyn, am bob un a fedr gynnyrchu cân o safle "Iliad" Homer, "Æneid" Virgil, Treisganau Shakspeare, neu Goll Gwynfa Miltwn ; am hyny, daeth cymmaint o angen, fel y ceir gweled eto, am gyfraith i attal haerllugrwydd "crwydriaid" a segurwyr, a ymgyfenwant yn gerddorion, mydrwyr, a beirdd,² erbyn amser Harri'r VIII., ac yn fuan

¹ Y Greal, t. 51, 53, 57, 58. ² Vagrannt and idle poems, naming themselves mynstrells, rithmors, and barthes.—Pennant's Tours, vol. ii., p. 90.

wedi hyny, yn amser ei ferch Elizabeth, ag ydoedd yn amser "Harri Sant o Winsor," a Gruffydd ap Nicolas. "Pe gosodid meddyliau awenyddol yn faen prawf er gwahaniaethu rhwng bardd a chlerfardd," medd Gwallter Mechain, "yr wyf yn sicr na chaem, yn bur fuan, ond un am bob deg o glerfeirdd a rhodreswyr:" gallasai yn hawdd ddywedyd, un o bob mil, os nad un o bob dengmil.

Eithr nid methiant cynghanedd a mesurau Llawdden a D. ap Edmunt i attal rhwysg "clerfeirdd a rhodreswyr," ydyw eu prif ddiffyg; ond y mae ein prif feirdd a'n llenorion, megis Goronwy Owain, Gwallter Mechain, Iwan,¹ ac eraill, wedi profi tu hwnt i ddadl eu bod wedi andwyo ein barddoniaeth. Prawf yr awdurdodau a nodwyd, bod y cynghaneddion a'r mesurau Caethion yn rhy gaeth i'r bardd adrodd ei feddyliau uchelryw ac awenyddol gyda phriodoldeb ac addasrwydd; eu bod yn caethiwo ac yn tywyllu'r meddwl, ac yn gorfodi'r bardd i arfer geiriau heb fod yn dda i ddim ond i lenwi'r cynghanedd, neu, yn ol Goronwy Owain, "i siarad gwagedd;" eu bod yn gorfodi'r bardd i chwilio mwy am eiriau i ateb i'r cynghanedd, nag i adrodd ei feddwl yn gyfaddas; a'u bod yn achos i'r bardd bentyru lluaws o ansoddeiriau am ben un sylweddair, fel y maent yn ei wneyd heb ystyr yn y byd, ac yn gwneuthur cymmeriad y gwrthrych a ganmolir neu a dduchanir yn hollol ddamweiniol ac ansicr. O herwydd y pethau hyn, a'u cyffelyb, nid oes genym "unrhyw beth gorchestol, synwrylawn, o ddim meithder," yn y mesurau caethion, gwerth ei gyfieithu yn lled lythyrenol i'r Saesneg, nac unrhyw iaith arall, fel y cyfieithir gwaith Homer, Virgil, Horas, Dante, neu Milton, na byddai'n fwy o warth i'r Gymraeg nag o anrhydedd. Gellir nodi nifer afrifed o esamplau i brofi'r gosodiadau yna; ond gan na pherthyn hyny gymmaint i *hanes* llenyddiaeth Gymreig, ag i *ansawdd* ein llenyddiaeth, rhaid i'r ysgrifenydd brysuro ym mlaen.

¹ Gwaith Goronwy Owain, t. 185, 234, 250; Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 356—365
Seren Gomer, cyf. v., t. 320, 361.

LEWIS GLYN COTHI, yr hwn hefyd a elwid LEWIS Y GLYN, a LLYWELYN GLYN COTHI, oedd yn fardd enwog a llafurus ; a dywedir ei fod yn ei flodau cyn teyrnasiad Harri VI. hyd deyrnasiad Harri VII. Teyrnasodd Harri VI. o'r fl. 1422 hyd 1461, a dilynwyd ef gan Edward IV., Edward V., a Richard III. ; a theyrnasodd Harri VII. o'r fl. 1485 hyd 1503. Felly gellir casglu y bu Lewis y Glyn yn ei flodau o'r fl. 1440 hyd 1490, sef tua hanner can mlynedd ; ac y mae nifer lluosog ei ganiadau cynghaneddol cywrain yn profi y bu yn alluog i gyfansoddi dros amser lled faith. Ychydig o hanes y bardd hwn, fel llawer eraill o hen feirdd a llenorion Cymru, sydd ar gof a chadw ; a da i'r ysgrifenydd nad âg ef y mae a fynno efe yn benaf, ond â *hanes ei lenyddiaeth*. Tybia rhai ei fod yn hanu o deulu Dolau Cothi, neu deulu Rhododin, yn sir Gaerfyrddin ; ac mai ei breswylfod oedd Pwlltynhyd, yng Nghwm Cothi ; a diau mai oddiwrth y glyn hwnw, a'r afon o'r un enw sy'n rhedeg trwyddo, y cymmerth y bardd ei enw barddonol. Tybia rhai ei fod yn "ŵr boneddig tiriawg," fel llawer o'r beirdd yn yr oesau gynt ; a diau ei fod o sefyllfa uchel, pe amgen, ni chawsai ei wneud yn swyddog milwraidd dan Jasper, Iarll Penfro, fel y dengys ei ganiadau yn eglur i'r pendefig hwnw ei wneuthur. Y mae'n eglur mai yng ngwasan-aeth teulu Caerwerydd yr oedd Lewis yn ystod "Rhyfeloedd y Rhosynau ;" ac ymddengys ei fod yn ŵr o barch a dylanwad mawr yn y wlad. Pan aeth Iarll Penfro drosodd i Ffraingc er mwyn osgoi dialedd Edward IV. ; barnodd Lewis mai doeth fyddai iddo yntau ymgilio i ddinodedd, ym mhell o'i fro enedigol, mewn rhyw fan nad adnabyddid ef ; a'r lle a ddewisodd i'r perwyl oedd Caerlleon Gawr. Wedi byw dros ryw ennyn yn y ddinas mewn gwisg gyffredin, priododd wraig weddw un o'r dinaswyr, heb ganiatad ynadon y ddinas, yr hyn a ofynid gan ryw gyfraith leol ansyberw oedd ganddynt, yr hon a waharddai i weddw neb o'r dinaswyr briodi Cymro. Ymdrechodd y giwed anystywallt ddal Lewis i ddial arno ; ond llwyddodd ef i ddiange i'r Tŵr, dan nawdd Rheinallt ap Gruffydd, yr hwn

a'i hamddiffynodd yn effeithiol yn erbyn yr erlidwyr, fel y traetha'r bardd yn helaeth yn ei "Awdl dduchan gwŷr Caerlleon ar Ddyfrdwy," yr hon a ddechreu fel hyn :—

I *Reinallt* mae cledd ar groenyn yn graf
Ab *Gruŷydd* ab *Bleddyn*;
Rhag hwnw yn curo cannyn,
Y Gaer grach a'i gwŷr a gryn.

Crynodd Caerlleon, rhag *Reinallt*, a'i gwŷr
Hyd ar gŵr y *Velallt* :
Crynen wrth foi i'r *Wenallt*,
Crynu i gyd eu crwyn a'u gwallt.

Eu crwyn a'u hesgryn crinion a'u garau
A dyr gorŷr *Einion* ;
Yn mhob mangre'n *Nghaerlleon*,
Evo a ladd vil a'i òn.

Ai òn, ŵyr *Einion*, ar ais i daiog
Y dial dwyn vy mhais ;
Dwyn o hwn, drygwn ei drais,
Dan ei vawd dwyn a vudais.

Pa wedd bynag, os methodd yr ymosodwyr ddial ar berson y bardd, llwyddasant i'w yspelio ef a'i wraig o'u holl eiddo, fel yr awgryma yn y pennill olaf yna, ac yr ymhelaetha fel hyn :—

Duwillun y mudais o'm delli i Gaer,
Gwell oedd im vy nghrogi ;
I ddeu-ddiawl dduwiau iddi,
Adu mwy o'r da i mi.

Ynddi wedi i mi yn mhob modd
Roi vy na 'n nghwr vy neuadd,
Genyv nid oedd ar gynnydd
Dranoeth ond yr ewinedd.

Yna y mae'r bardd, fel y dywed *Pennant*, yn erfyn cyn-northwy angylion ac ysprydion drwg i ddial ei gam ar wŷr Caerlleon. Erfyn ar i'r dwfr eu boddi, i'r tân eu llosgi, ac i'r awyr heintio yr holl fangre, nes i'r glaswellt dyfu drwyddi oll, ond yr "eglwysau." Dyma fel y dechreu ei felldith :—

Ol ewin *Reinallt*, ôl ei weywyr tân,
Yn mhênau tai y bradwyr ;
Ol ei ddwrn a laddai wŷr,
Ar ei chwyr hi a'i chaerwyr.

Archav i drev Gaer, a'i Maer, a'i mâch,
Oerchwedl i'r dinas mewn dŵr bäs bâch ;
I wēydd, i grydd, i grach, eu herddyrrn
A'u hesgryn cedyrn yn mhob cadach.

I ieuainge, i hen, nid amgenach ;
 I Gaerlleon Gawr, i vawr, i vach ;
 I wraig, i vorwyn, i wrach, i siopwr,
 I ŵr, i glerwr, ac i gleirach.

O mynasant y na mewn naw-sach,
 Naw ugain myntai o gŵn mantach ;
 Mynnwn pe'u gwelwn hwy'n gulach o dda,
 Yn mwll y Wyddva yn ymleddvach.

Y dŵr a'u boddo tra vo trev iach,
 Y tân a'u llosgo peten' llesgach ;
 Yr awel a'u gwnel gan niwlach gwinau,
 Qnd yr eglwysau, yn dir glasach.

Ilar a'u lladdo a Chyvelach,
 Y cwn a'u hyso acw yn hawsach ;
 Y Brenin Nefawl a Brynach, a Non,
 A'u gwna hwy'n ddeillion ac yn ddallach.¹

Ac yn gyffelyb y melldithia hwy hyd ddiwedd yr awdl. Mewn "Cywydd i ofyn cleddyf i Dafydd ab Gutyn o Groesos-wallt i ladd gwŷr Caerlleon Gawr,"² y mae'n llawn mor chwerw ei yspryd. Un gerdd dduchan arall a genfydd yr ysgrifenydd yng ngwaith y bardd, "I Saeson Fflint" am eu cam ymddygiad tu ag ato. Nid yw caniadau duchanol a dialgar Lewis Glyn Cothi, gan hyny, ond eithriadau. Y mae ei "Waith" a gyhoeddwyd gan *Gymdeithas y Cymmrodorion* yn 1837, dan olygiad Ioan Tegid a Gwallter Mechain, yn cynnwys tua 150 o Awdlau a Chywyddau ; ac ymddengys nad yw hyn ond rhan (rhan helaeth, bid sicr) o waith y bardd galluog a llafurus hwn ; canys dengys cofres y Dr. Pughe o Ysgriflyfrau Myfyr, bod yr ail gyfrol o'r casgliad gwerthfawr hwnw yn cynnwys 179 o ganiadau Lewis Glyn Cothi ; heb law y dengys bod 16 o'i ganiadau mewn gwahanol gyfrolau eraill o'r un casgliad.³ Caniadau moliant ydyw y rhan fwyaf o lawer o'i ganiadau ef, i wahanol bersonau am wrhydri, gwladgarwch, haelioni a rhinweddau eraill. Y mae ganddo tua 115 o'r cyfryw ganiadau, heb law 25 o farwnadau o gyffelyb ansawdd ; a'r gweddill sydd ganiadau erfyniol am gymmwynasau ac elusenau iddo ei hun ac eraill.

Ymddengys mai i Fflint y ffodd y Bardd rhag dialedd "gwŷr Caerlleon Gawr ;" ond croesaw pur wael a gafodd yno,

¹ Gwaith L. G. Cothi, t. 385.

² Yr un, t. 876.

³ Transact. Cymmrod., vol. 1., p. 179.

fel y dengys ei gywydd Duchan " I Saeson Fflint," yr hwn sy'n dechreu fel hyn :—

Daethum dduwsul diwethav
 (Dyn wyv a luniodd Duw Nav)
 I dre ddwbl, gaer gwubl-gwyrgam,
 Y Flint a welwyf yn flam ;
 Lle'r oedd neithiawr (heb vawr vedd)
 Sais aneglur, Seisnigwledd.
 Ar oddeu cael yr oeddwn
 Herwydd creft hoewrodd crwn ;
 Dechreuais, frystiais yn fraeth,
 Ganu awdl i'r genhedlaeth :—
 Gwatwaru, llysu vy llais,
 Govid yno a gevais.

Ciliodd o fysg Saeson anystywallt Fflint cyn gynted ag y gallodd ; a dywedodd wrth ymadael o'r fangre,—

Diau ym oes od av mwy,
 Iddi eilwaith na ddelwy.¹

Ymddengys mai i Lwydiarth, ger llaw Llanerchymedd, ym Mon, yr aeth y Bardd o blith estroniaid anwar a digymmwynas Fflint ; a gwelir mewn cywydd o'i waith " I ofyn hilyn gwely i Elen ferch Llywelyn, o Lwydiarth, ym Mon," ei fod mor dlawd ar y pryd o herwydd yspeilwyr "Caer Leon Gawr," a chrintachrwydd eu hiliogaeth yn Fflint, fel nad oedd ganddo " ddillad i'w rhoi ar ei wely "; canys fel hyn y dywed yn y cywydd hwn :—

Aed vy nghŵyn at haul Wynedd ;
 Cwyn a wnav rhag cŵn un wedd,
 Rhag falsed, rhag oered oedd
 Gaer Leon Gawr, a'i lluoedd ;
 A hon a 'speiliodd vy nhŷ,
 O'm hug *alawnt* a'm gwely ;
 Ac yn noethach ym gwnaethant
 Na'r gleisiad yn noviad nant.²

Gellir casglu ddarfod i'r Bardd gael ei holl ddymuniad yn "Llwydiarth ym Mon ;" canys efe a ddywed ym Marwnad Dafydd ab Gwilym o Lwydiarth, fel y canlyn :—

Llawenydd ryw ddydd ydd oedd yn Llwydiarth
 A gwin llydan voroedd ;
 Llwydiarth gorau lle ydoedd,
 Lle ieirll o waed ; lle'r llu oedd.

¹ Gwaith L. G. Cothi, t. 3:9.

² Yr un, t. 437.

I'w neuaddau newyddion
 Av eto adrev atyn' ;
 Yno gynt ar gân a gwin
 Mal eaws y bum lawen.¹

Y mae'r caniadau a nodwyd, a "Mawl Huw Lewis, o Brys-
 addfed, ym Modedeyrn, Mon, a Marwnad Sioned Bwlclai ei
 wraig,"² yn dangos yn eglur na chafodd y Bardd y fath
 groesaw caredig yn unlle ag a gafodd ym Mon, ar ol gorfod
 ffoi o'i wlad enedigol.

Pan laddwyd y gormesdeyrn, sef "Rhisiart Gefngrwm"
 (Rhisiart III.), ym Maes Bosworth, yn y fl. 1485, ac y dyrchaf-
 wyd Harri Tudur, dan yr enw Harri VII., i orsedd Brydain, y
 mae'n eglur y dychwelodd y Bardd i'w fro enedigol ; a chanodd
 Awdl orfoleddus i Harri ar ei ddyrchafiad, yr hon a ddechreu
 fel hyn :—

Duw dodes *fortun*, do ; doded hirhoedl
 I'r *King* Harri seithfed ;
 Da y gŵyr wedi gwared
 Dŷnu'r groes a'i dwyn i'r Gred.

Trwy Gred tair saled vu'n seilio *siasau*
 Sywlius Sesar Penvro ;
 Tarw Mon a i'r tir y mŷno,
 Troia vavr anturia vo.³

Un o brif ragorion "Gwaith Lewis Glyn Cothi," ydyw ei
 fanyldeb mewn achyddiaeth ; a hyn, ac nid crebwyll a dar-
 felydd, sy'n rhoi gwerth mawr ar ei gyfansoddiadau, yn enwedig
 i'r hanesydd. Y mae ei holl ganiadau moliant, a'i farwnadau,
 braidd yn ddiethriad, yn cynnwys rhestr bur fanwl o hynafiaid
 y gwrthddrychau a folienir ganddo, neu y galara am danynt.
 Wele enghraifft o'i ddull yn trafod achau un o wrthrychau ei
 foliant, a elwir "Dafydd Goch :"—

BREINIAWL wyt o'r barwnwaed,
 Barwn Ystepltnw nos daed ;
 Davydd Goch Duw vydd o gylch,
 A dau Iago yn d'ogylch ;
 Mab wyt i roi ym y budd,
 Wyr Adam o Varedydd ;
 Ab Madog a'i ymogawr ;
 Ab Adam walch y byd mawr,
 Ab Rhys oedd *Bumiparis* hael ;
 Ab Ivor byw ei avel ;

¹ Gwaith L. G. Cothi, t. 440.

² Yr un, t. 444.

³ Yr un, t. 497.

Ab Gruffydd a'r meirch rhuddell,
 Ab Ieuan wyt heb un well ;
 Ab Ivor puror gwin per,
 Ab Phylip a'r pump Folwer ;
 Ab Einion galon glân Gwy,
 O ach cenedl uwch Conwy ;
 Ab Llywarch barch hyd y bedd,
 Ab Brân, *emprwr* o Wynedd ;
 Ab Dinawal o'r dalaith,
 Ab Einydd iarll ban oedd iaith ;
 Ab Aelaw yn Aberfraw bu,
 Ab Alasar heb lysu ;
 Ab Tudwal mal gwyr Maclawr,
 O dir Mon ab Rhodri Mawr ;
 O'r bonedd uchav Ddavydd !
 Impyn wyt un gamp a Nudd ;
 Goreu un ei *betigryw*
 Wyd o Von i wlad Vynyw.1

Dilys ddiammheu fod cael rhestr ddoniol fel hyn o'u hachau, yng nglŷn â llawer o foliant, yn annhraethol werthfawrocach yng ngolwg hen foneddigion "Cymru gynt," na phe cawsent ganiadau mor awenyddol ag Iliad Homer, neu Goll Gwynfa Milton ; a hyny a wyddai yr hen Fardd yn dda ddigon : a diau y telid iddo yn haelionus am ei gerddi achyddol cywrain a diddarfelydd.

Dichon bod yn ddigon hyspys i bob llenor Cymreig mai yn llythraeth y Parch. John Jones (Ioan Tegid) y mae gwaith argraffedig Lewis Glyn Cothi ; a gresyn mai felly y mae ; canys yn y dull hynaf a fo ar gael y dylid cyhoeddi pob hen lenyddiaeth Gymreig. Dengys yr *Advertisement* sydd o flaen y gwaith mai am gywirdeb yr achau y gofalai y Parch. Walter Davies (Gwallter Mechain), pan mai y Parch. John Jones a barotoai y caniadau i'r wasg.

COFRES O ENWAU LLENORION Y RHAN GYNTAF O'R BYMTHG-
 FED GANRIF, EU HAMSERAU A'U CYFANSODDIADAU,

- 1400 Dafydd ab Meredydd ap Tudur, 1 gân argr. a rhai
 ysgr.
 1400 Gruffydd ab Gweflyn, ysgr.
 1400 Gruffydd ap Rhys Gwinionydd.
 1400 Y Prol (neu y Proll).

1 Gwaith L. G. Cothi, t. 141.

- 1400 Gruffydd ab Dafydd ap Tudur.
 1400 Llywelyn Ddu ap y Pastard.
 1400 Dryw'r Gerdd.
 1400—1430 Syr Harri Cydweli.
 1400—1430 Rhys Goch Glandwrdu, neu Rhys ap Cynfrig
 Goch, ysgr.
 1400—1430 Gruffydd Fychan ab Gruffydd ap Ednyfed, ysgr.
 1400—1440 Rhys Nanmor, 2 gân argr. a rhai ysgr.
 1400—1440 Syppyn Cyfeiliog, Dafydd Bach ab Madog Wladaidd,
 Bach Buddugre, neu Gnepyn Gwerthrynion,
 ysgr.
 1400—1490 Tomas Derllys, ysgr.
 1410—1450 Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision, argr. ac ysgr.
 1410—1440 Ieuan Rhydderch ap Ieuan Llwyd, 2 gân argr. a
 rhai ysgr.
 1410—1440 Ieuan Clydno, ysgr.
 1410—1440 Ieuan Clywedog.
 1420 Cynfrig, neu Cynwrig ab Dafydd Goch, ysgr.
 1420—1450 Ieuan Llwyd ab Gwilym, 1 gân argr.
 1430—1460 Meredydd ap Rhys, 2 gân argr. a rhai ysgr.
 1430—1460 Sion Gutyn.
 1430—1460 Owain ap Llywelyn Moel, ysgr.
 1430—1460 Gwilym Tew neu Gwilym Hendon, 1 gân argr. a
 rhai ysgr.
 1430—1468 Guto'r Glyn, 9 cân argr. a rhai ysgr.
 1430—1468 Rhys o Garno, Syr Rhys o'r Drewen, neu Syr Rhys
 ap Hywel Dyrnor, argr. ac ysgr.
 1430—1470 Cadwgan Delyniol, 8 o geingciau.
 1430—1470 Cyhelyn Delyniol, 8 o geingciau.
 1430—1470 Sion Trevor, ysgr.
 1430—1470 Gwilym ap Sefnyn, ysgr.
 1430—1480 Syr Huw Pennant, ysgr.
 1430—1480 Wiliam Egwad.
 1440 Edward ap Rhys Maelor.
 1440—1470 Syr Phylip Emlyn, ysgr.
 1440—1470 Heilyn Ddu, ysgr.
 1440—1477 Ieuan Brydydd Hir Hynaf, 2 gân argr. a rhai ysgr.

- 1440—1480 Ieuan Ddu ab Dafydd ap Owain, Ieuan Dafydd Ddu, neu Ieuan Dafydd ap Owain, argr. ac ysgr.
- 1440—1480 Llywelyn Goch y Dant, ysgr.
- 1440—1480 Rhys ap Ieuan ap Meredydd Ddu, ysgr.
- 1440—1480 Gruffydd ab Dafydd Fychan, ysgr.
- 1440—1480 Llywelyn ab Gutyn, argr. ac ysgr.
- 1440—1480 Gwilym ap Ieuan Hen, argr. ac ysgr.
- 1440—1480 Llawdden, Ieuan Llawdden, neu Llawdden Fardd, argr. ac ysgr.
- 1440—1480 Tudur Penllyn, 2 gân argr. a rhai ysgr.
- 1440—1480 Dafydd ap Edmwnt, 8 gân argr. a rhai ysgr.
- 1440—1485 Dafydd Llwyd ap Llywelyn ab Gruffydd Fychan, ysgr.
- 1440—1490 Lewis Glyn Cothi, 154 argr. a lluwys ysgr.
- 1440—1500 Ieuan Brechfa.
- 1448—1520 Iocyn Brydydd.

PENNOD X.

LLUOSOGRWYDD BEIRDD A LLENORION YR HANNER CANRIF HON; NIFER CADEIRIAU BARDOL YR HANNER CANRIF YMA; LLENYDDIAETH PRIF FEIRDD A LLENORION YR UN AMSER; CYFRES O ENWAW BEIRDD A LLENORION O'R FL. 1450 I 1499, EU HAMSERAU, A CHRYBWYLLIAD AM EU CYFANSODDIADAU.

YR oedd Beirdd a Llenorion yr hanner canrif yma yn bur lluosog. Cyfrifais gynnifer a 91 o honynt; a dichon yn hawdd na tharewais wrthynt oll. Pa wedd bynnag, ymddengys nad rhyw lawer o rai enwog iawn oedd yn eu plith; yn wir, gellir casglu oddi wrth hanes y ddwy Eisteddfod a gynnaliwyd yn ystod y ganrif nesaf, fod amryw o'r rhai a broffesent lenyddiaeth wedi myned yn bur ddirywiedig. Pa ddelw bynnag, cynnyrchodd yn oed yr hanner canrif hon rai beirdd a llenorion

gwir enwog, y sawl y bydd eu llenyddiaeth yn addurn i'r Iaith Gymraeg hyd ddiwedd amser.

Dywedir i dair "Cadair Farddol" gael eu cynnal ym Morganwg yn ystod yr hanner canrif yma ; y gyntaf yn y fl. 1460, a fu dan sylw eisoes ; yr ail yn 1470 ; a'r drydedd yn 1480 ; a chynnaliwyd un arall yn nechreu yr hanner canrif nesaf, dan lywyddiaeth Iorwerth Fynglwyd. Dywedir mai llywydd yr ail a nodwyd oedd Meredydd ap Rhosser. Ei ddysgyblion ef yn y "Gadair" honno oedd Iorwerth Fynglwyd, Ieuan Deulwyn, a Syr Einion ap Owain.¹ Gellir casglu mai rhyw fath ar gyfarfodydd llenyddol lleol oedd "Cadeiriau Morganwg," heb awdurdod wladol iddynt, fel yr Eisteddfodau boreuol ; canys rhyw "*fardd*," a chanddo ddysgyblion dan ei ofal, a fyddai yn llywyddu y "Cadeiriau" hyny yn wastad ; eithr rhyw bendefig, neu bendefigion, a fyddai yn llywyddu ym mhob Eisteddfod Genedlaethol y mae genym hanesion diamheuol am dani. Gwelwyd mai Gruffydd ap Nicolas oedd yn llywyddu yn Eisteddfod Freiniol Caerfyrddin yn y fl. 1451 ; a cheir gweled yn fuan mai cyffelyb ydoedd yn y ganrif nesaf ; ac felly y mae'n parhau hyd yn bresennol.

MEREDYDD RHOSSEr oedd fardd na wyddys odid ddim am dano, heb law ei fod yn llywydd "Cadair Morganwg" yn y flwyddyn a nodwyd. Dywedir bod rhai o'i ganiadau mewn ysgrifen ;² eithr ym mha le ni fynegir. Ni ddengys cofres y Dr. Pughe fod dim o'i waith yn Ysgriflyfrau Myfyr.

GUTYN OWAIN oedd un o feirdd enwocaf y ganrif hon ; ac fel y beirdd yn gyffredin, yr oedd yn arwyddfardd, neu achyddwr campus ; a dywedir ei fod yn hanesydd clodfawr hefyd. Brodor o Faelor, yn sir Fflint ydoedd ; ond bu'n preswyllo dros ryw dymmor yn Iffton, yn agos i Groesoswallt, lle yr oedd ganddo ryw gymmaint o dir yn ei feddiant ; ac mewn gweithred berthynol i'r tir hwnw, ysgrifenyd ei enw yn "Gruffydd ap Huw ap Owain, neu Gutyn Owain ;"³ a dyw-

¹ Dr. Jones's Hist. Wales, p. 226 ; Y Brython, cyf. iv., t. 347.

² Williams's Em. Welshm., p. 367.

³ Ibid., p. 368.

edir ei fod yn ei flodau o'r fl. 1451 i 1480. Ymddengys mai yng Nghroesoswallt y preswyliai pan aeth gyda Dafydd ap Edmwnt, fel "gwas" a "dysgybl" i Eisteddfod Caerfyrddin yn y fl. 1451; ac, medd yr hen hanes am Gutyn Owain a'i athraw, "Gwell oedd y gwás yn ei wisg, nid amgen no gwn sidan, nog y gwelid Davydd yn ei bais lwyd..... Gwybuwyd wedi hyny mai Gutyn Owain yn ddisgybl i Ddavydd ab Edmwnt oedd y gwás hwnw." Ac, medd D. ab Edmwnt ei hun, "Ev a'm henyw o Wynedd, a'm enw Davydd, ab Edmwnt, o Bwll Gwepira yn Nhegeingl; a chyda mi a vynai vod imi yn was, sev ei enw Gutyn Owain, gwr boneddig a phrydydd o Groesoswallt."¹

Gutyn Owain oedd hanesydd ac arwyddfardd Mynachlogydd Dinas Basing, yn sir Fflint, ac Ystrad Fflur, yng Ngheredigion. Pan ddechreuwyd enllibio Owain Tudur, taid Harri VII., o blegyd ei haniad, appwyntiwyd dirprwyaeth gan Harri i olrhain ei achau, yn cynnwys Abad Llanegwestl; y Dr. Owen Pool, canon Henffordd; a'r Dr. John King, achyddwr Seisnig, i olrhain allan ei achau. Gan fod angenrhaid chwilio hen ysgrifau Cymreig, cymmerth y tri wŷr hyny atynt Syr John Leiaf, offeiriad; Gutyn Owain, y bardd; Madog ap Llywelyn ap Hywel; Robert ap Hywel ap Tomas, ac amryw eraill; y rhai a lafuriasant yn fanwl ac yn faith, os nad yn ddiwyd hefyd, yn yr achos, fel y gellid dysgwyl, ar draul y brenin. Wedi bod wrthi yn olrhain ac yn dyfeisio am gryn ddeng mlynedd, dygwyd y llinachau hirfeithion, a gasglasid ac a luniasid gan Gutyn Owain a'i gyfeillion, i'r Brenin Harri VII. Y maent yn olrhain achau Syr Owain Tudur, o Benmynydd, Mon, taid Harri, yn orfanwl, i hen freninoedd chwedlonol Ynys Brydain, gan esgyn trwy Ednyfed Fychan, Coel Godhebog, a Beli Mawr, i Frutus o Gaer Dro, brenin chwedlonol cyntaf Ynys Brydain. Dangosir hefyd fod Syr Owain yn disgyn o Llywelyn ap Iorwerth, neu Llywelyn Fawr, ap Iorwerth Drwyndwn, ap Owain Gwynedd, ap Gruffydd ap Cynan; o'r Arglwydd

¹ Y Greal, t. 97-100.

Rhys, Tywysog y Deheubarth ; o Llywelyn ap Gruffydd ; o Hywel Ddu ; ar fyr, o'r holl freninoedd enwog a fuant ym Mrydain er dyfodiad cyntaf yr hen Frytaniaid i'r wlad.¹

Y mae yr achau hyn yn bur wahanol i achau Gruffydd ap Cynan,² ac achau Ednyfed Fychan,³ yn enwedig ar ol iddynt fyned trwy'r cyfnod Rhufeinaidd. Dilys ddigon fod achlinellau Gutyn Owain a'i gyfeillion mor gywir ag y gallasid gwneud y fath bethau ar y pryd ; ac y mae'n debyg fod ganddynt ryw gofnodau at eu galwad nad ydynt ar gof a chadw erbyn hyn. Fe allai hefyd eu bod yn lled gywir o Owain Tudur yn ol, cyn belled a Chunedda Wledig, tua dechreu 5med ganrif ; ond "pa bryd bynnag y cynnyg yr achau Cymreig dreiddio'r cyfnod Rhufeinig-Brutanaidd," medd y Proffeswr Rees, "y maent yn anghywir. Nid ydynt ddim amgen yn ystod y cyfnod yma, oddi eithr llinach Eudaf ap Caradog ab Bran, na llinyn moel o enwau, heb ynddynt gymmaint ag un briodas, na phlant, na chyfeiriad at ddygywyddiadau hanesyddol, wrth y sawl y gellid penderfynu eu cywirdeb."⁴ Barn efe i'r holl achau, o tua dechreu'r 5med ganrif ac uchod, gael eu dyfeisio i amddiffyn honiadau'r mân dywysogion uchelgeisiol oedd yn ymddyrchafu i awdurdod ar ddirywiad y llywodraeth Rufeinig yn y wlad. Y mae'r gwirionedd eu bod yn groes i'r hanesion mynachaid am un o riaint Cystenyn Fawr, yn brawf, yn ol ei farn ef, fod yr achau yn cael eu ffuglunio er yn foreu.⁵

Heb law bod Gutyn Owain yn arwyddfardd medrus, yr oedd efe hefyd yn hanesydd llafurus. Dywedir mai efe ysgrifennodd y copi cywiraf o Frut Caradog, yr hwn a barhaodd efe hyd ei amser ei hun. Dywed y Parch. R. Williams fod y gwaith gwerthfawr hwn, a elwir "Llyfr Du Bassing," fyth ar gael, ac ym meddiant Thomas Taylor Griffith, o Wrecsam, yr hwn sy'n deilliaw yn syth o John Griffith, Ysw., o'r Cae Cyriog,

¹ Y mae'r achau meithlon hyn yn gyflawn yn Wynne's Hist. Wales, Ed., 1697, pp. 331—342 ; Ed. 1774, pp. 331—342 ; ac y mae llawer o honynt yn Hanes Cymru Carnhuanawo, t. 782.

² Myv. Arch., t. 721. ³ Y Greal, t. 20.

⁴ Rees's Welsh Saints, p. 91. ⁵ Ibid., p. 92.

ym mhlwyf Rhiwabon, yr hwn oedd hynafieithydd enwog. Y cofnod diweddaf yn *Llyfr Du Bassing* a roddwyd i mewn yn y fl. 1461.¹

Ond gwaith Gutyn Owain fel Bardd a enwogodd fwyaf arno ef. Yr oedd yn fardd parod ei awen pan yn ddysgybl ieuangc i Dafydd ap Edmwnt. Pan drodd efe a'i athraw i blâs gŵr boneddig yng Ngheredigion, ar eu taith i Eisteddfod Caerfyrddin, lle yr oedd Ieuan ap Hywel Swrdwal yn dygwydd bod, gofynodd Ieuan i Gutyn "ar bennill cywydd" val hyn:—

" Ai gwâs wyd, i'th hug sidan,
I'r glew o glêr y glôg wla'n ?

" Ac yna yr atebodd y gwâs iddo ar ddau bennill cywydd:—

" Ni enwir gwych yn annoeth,
O bydd gwâs i'r divas doeth !
Ac iach ei varn gwych a vydd
Wastadol yn wâs dedwydd.

" P'un y meist, na ph'un y gwâs nis gwn i," ebai Ieuan wrth y gŵr boneddig ; " ond nid â'r gadair vyth o Gaerfyrddin eithyr ar ysgwydd un o'r ddau." Trodd y broffwydoliaeth yna allan yn berffaith wir ; canys ar ysgwydd Dafydd ap Edmwnt, " y meist," yr aeth y gadair arian o Gaerfyrddin ; ac ni ddychwelodd yno fyth yn ol. Clywais mai ym Mostyn y gwelwyd hi ddiweddaf ; lle yr arosodd, ond odid, ar ol Simwnt Fychan.

Y mae 15 o ganiadau Gutyn Owain yn argraffedig yng *Nghorchestion Beirdd Cymru* ; ac amlwg yw ei fod yn gyng-haneddwr gorchestol, beth bynnag arall a ellir ei ddywedyd am ei farddoniaeth. Dodir un enghraifft fer yma o'i ddull yn cynganeddu yn ei " Awdl Orchestol i Ferch."

Efa brŷd, fu i Brydydd,
Annisyml wyf, nes ymlâdd ;
Cwyno ei boen, cyn y bedd,
Dduw 'dd wyf pan ddiodefodd.

A Duw ddwyfol, od oddefais
Arno llefais, orn, a llifiad ;
A mi'n nwyfol y manefais,
Aml a gefais, fel Mêl gafad.

¹ Williams's Em. Welshm. pp. 868—9. Y Greal, t. 97—8.

Iawn ym' ganu, Am gusanu, A'th ddiddanu	} o'th adduniad ;
Er fy ngwanu, A'm goganu, Ag amcanu,	} drwy y'm cennad. ¹

Dengys Cofres y Dr. Pughe fod 73 o ganiadau Gutyn yn ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr. Y mae 45 o'i ganiadau yn yr un ysgriflyfr, sef Rhif VII.

IEUAN DEULWYN ydoedd frodor, fel y tybir, o Bendeulwyn ym mhlwyf Cydweli. Tybir mai oddi wrtho ef y mae'r enw *Dillwyn* wedi disgyn. Dodir ef yn ei flodau o'r fl. 1460 i 1490. Ystyrid ef yn ŵr boneddig o ddysg a gwybodaeth eang ; ac ymddengys bod gan ei gydwladwyr ymddiried mawr ynddo fel y cyfryw ; canys dywed Fenton y galwyd am dano ef, Hywel Swrdwal, a Ieuan Brechfa, "tri Bardd," ac un gŵr arall nas enwir, "pedwar o'r gwŷr mwyaf eu gwybodaeth yn Nhalaeth y Deheubarth," i Gastell Penfro yn y fl. 1460, i benderfynu achau a hawliau yr Herbertiaid. Ac wedi iddynt hir chwilio coflyfrau Mynachlog Ystrad Fflur, Mynachlog Margam, a manau eraill, dodasant y cyfan ger bron y brenin, "mewn pedair o ieithoedd, sef Lladin, Brytanaeg, Ffrangcaeg, a Saesneg ; ac yr oedd pob adysgrif yn cyttuno air yng ngair."

Bardd o "Gadair Morganwg" oedd Ieuan Deulwyn. Yn y fl. 1470, yr oedd yn ddysgybl, fel y gwelwyd, i Meredydd ap Rhosser yn y "Gadair" honno ; ac yn y fl. 1480, efe oedd llywydd y "Gadair ;" a Iorwerth Fynglwyd, Lewys Morganwg, a Harri Hir yn ddysgyblion iddo.² Y mae 7 o ganiadau Ieuan yng *Nghorchestion Beirdd Cymru* ; ac 16, yn ol cofres y Dr. Pughe, yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr. "Marwnad Syr Rhisiart Herbert, a las yn y Maes ym Mambri," yn y fl. 1469, ydyw un o'r caniadau hyny, yr hon a ddechreu fel y canlyn :—

Y warr gron, oreu o grêd,
Herbert hir, byrr y torred ;
Mae'r oes oll, yn marw os art,
Mis yw'r oes, am Syr Risiart.

¹ Gorch. Beirdd Cymru, t. 189. ² Dr. Jones's Hist. Wales, p.

O brau Duw a wnaeth, ein brâd ni
 Mwa unbrad, fu' Mambri :
 Mal o Grist, ymmil y Grôg,
 Y mae f' oerchwell, am Farchog.
 Maddau un, ym oedd anodd,
 Na bai yn fyw, neb un fodd ;
 Ni byddent, Ddwywent, yn ddig,
 Bettai obaith, bod tebyg.¹

Y mae Tudur Aled yn rhestru Ieuan Deulwyn yn yr un dosparth a Nanmor² a Dafydd ap Edmwn't, fel hyn :—

Bwrw Dafydd, gelfydd dann gôr,
 Bwrw ddoc'n un meistr, Bardd Nanmor ;
 Bwrw Deulwyn y brawd olaf,
 Blodeu Cerdd, ba wlad y caf ?
 Tair Awen, oedd i'r Triwyr,
 A fai les i fil o wŷr.³

IORWERTH FYNGLWYD oedd fardd o “Gadair Morganwg,” fel yr olaf a nodwyd ; ac yr oedd yn ei flodau o'r fl. 1460 i 1500. Yn y fl. olaf a nodwyd, efe oedd Llywydd y “Gadair” honno ; a'i ddsygyblion ynndi oedd Lewys Morganwg, a Ieuan Du'r Bilwg.⁴ Y mae dwy, o leiaf, o'i ganiadau yn argraffedig ; sef “Cywydd Marwnad Llawdden Fardd,” o'r hwn y difynwyd ychydig eisoes ; a “Chywydd St Ffraid” yn *Williams's History of Aberconwy* ; ac y mac'r difyniad canlynol o un o'i gywyddau yn argraffedig :—

Er rhoi niwl ar yr hen iaith,
 O'r un niwl ir awn cilwaith.
 Swyddau gwlad sy heddyw gloff,
 A swydd eglwys sydd ogloff.
 Gair yr euawg ar gywir,
 Ag arian ef a'i gyrr yn wir.
 Aeth anwir ar fath ennyd,
 Aeth y gwir ar feth i gyd.⁵

Dengys cofres y Dr. Pughe fod 10 o'i ganiadau yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr ; a thybir mai difyniad ydyw'r llinellau blaenorol o'i “Gywydd o berthynas i waith Syr Mathew Cradoc yn carcharu Rhys Sion yn Abertawy, o blegid ei syniadau crefyddol, ac yn deisyfu ei ryddhad.” Dywedir iddo gyfansoddi cywydd o ganmoliaeth i Syr Rice Mansel, cyff teulu Margam, yr hwn oedd gefnogwr i Harri VIII., a'i

¹ Gorch. Beirdd Cymru, t. 135. ² Pa un o'r Nannoriaid, ni ddywedir.

³ Gorch. Beirdd Cymru, t. 249. ⁴ Dr. Jones's Hist. Wa'es, p. 225.

⁵ Y Ffydd Ddiffuant, t. 503.

fesurau yn erbyn Eglwys Rhufain ; am hyny tybir bod Iorwerth yn wrth-Babydd egnïol, fel yr oedd llawer o feirdd Morganwg yn yr oes foreu honno ar y Diwygiad Protestanaidd.¹

DEIO AP IEUAN DU. Y bardd awenyddol hwn oedd yn ei flodau o'r fl. 1460 i 1500 ; a gellir casglu oddi wrth y llinell ganlynol o'i waith, mai brodor ydoedd o'r Creuddyn, ger llaw Aberystwyth :—

Câr iddynt wyf o'r Creuddyn.

Dywedir mai yn Llangynfelyn, yn agos i Gors Fochno, y preswyliai, ac mai yno y claddwyd ef. Dengys amryw ranau o'i waith ei fod ef, fel y rhan fwyaf o feirdd ei oes, yn dra hoff o glera ; ac y byddai boneddigion yn gyffredin yn rhoddi iddo groesaw tra haelionus. Fel y canlyn y dywed yn ei "Gywydd y clera yng Ngheredigion :"—

Ni chawn, ym Duw a Chynin,
Dŷ bach o'r Dehau heb win ;
Llawen fyddai gwên pob gwr,
Wrth Deio gymhorthâwr.

Y mae ei holl ganiadau moliant yn frithion o syniadau cyffelyb, wedi eu cordeddu yn dra chywrair. Cymmerer un enghraifft o'i "Awdl Foliant i Ddafydd ap Cadwaladr o Fachelldref," yr hon sy'n dangos ei fod yn hoff iawn o wleddau'r pendefigion ar y Nadolig, ac amserau eraill :—

Na wnaed Syn ddengyn yn nydd, drycinog
Dros amcanu dedwydd,
Myned er ffoled fai 'r fydd,
Na dyfod heb lys Dafydd.

Ni welais i lys
A dwy a degllys
Ni welais i lys } mor lwys Ednig.

A llys a hoffaf
Er lles i'w phennaf
Nid llaes i molaf } mal Celliwig.

Yn llwyr degwch Nef,
Yn llawr Bachelldref,
Yn lle bydd dolef } bob Nadolig ;

A darllain llyfrau
Llin Brenhinllwythau,
A chanmawl Achau } ucheledig.

¹ Geir. Bywgr. I. F. 554.

A gwybod teiriaith, A chlawr y gyfraith, A grwndwal pob iaith, ¹	}	yn weithredig ;
Ac amlder bwydau, Melys gwŷr debau, A thrymion seigiau,	}	wiw Sugredig. ²

Yr oedd llawer o gyrchu, yn oes y bardd, i Ynys Enlli, i glera, ac i ymweled â'r saint yno. Yr oedd un Madog yn Abad yno o gylch y fl. 1480 ; a dichon i rywun ddywedyd wrth Deio, er mwyn ei dwyllo, ond odid, bod Abad Enlli yn ŵr haelionus a chroesawgar. Pa wedd bynnag, cyfansoddodd Deio "Awdl Foliant" odidog i'r Abad, gan ddysgwyl pob croesaw a danteithfwyd, os nad rhoddion haelionus hefyd am dani ; ond yn lle cael cig eidion bras, a gwin, neu fedd melus, yr hyn a gafodd y bardd oedd "enwyn surllyd," a "chaws pryfedog," yn arlwy ! Tafodd Deio ei "Awdl Foliant" i'r tân, a chânt "Awdl y Caws," fel duchan goganllyd i'r Abad "a'i forwyn llygattraws," ynghyd â phawb a phoppeth a berthynent iddo. Dywed bob drygair am yr "enwyn" a'r "caws ;" a galwyd yr Abad o hyny allan yn "Madog y Caws."³

Dengys ei "Gywydd Moliant i Sion Edwart o'r Waun,"⁴ fod y bardd, fel clerwr, yn gydnabyddus â Phowys a Gwynedd, yn gystal ag â Gwent a Morganwg, a pharthau eraill o'r Deheubarth. Y mae 7 o ganiadau Deio ap Ieuan Du yng *Ngorchestion Beirdd Cymru* ; i yn *Y Brython* ; a dengys cofres y Dr. Pughe fod 28 o'i ganiadau yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr.

LEWYS MORGANWG ydoedd fardd a hanesydd enwog, ac yn ei flodau o'r fl. 1460 i 1520. Yr oedd yn ddysgybl i Gwilym Tew yng "Nghadair Morganwg" yn y fl. 1460 ; i Meredydd ap Rhosser, yn 1470 ; i Ieuan Deulwyn, yn 1480 ; ac yn llywydd ei hun yn y "Gadair" honno, yn 1500.⁵ Y mae Awdl o'i waith yng *Ngramadeg Lladin I. D. Rhys*, t. 239, a elwir "O6dl a gânt Le6ys Morgann6g 6rth Leision Abad Glynn Nedh : a'r ped6ar messur arr hugain yndhi, arr dhulh yr oes honno" ; ac y mae

¹ Awgryma hyn fod y bardd yn wr dysgedig, yn "gwybod teiriaith," ac yn deall "y gyfraith," &c.

² *Gorch. Beirdd Cymru*, t. 168-9. ³ *Y Brython*, cyf. II., t. 61.

⁴ *Gorch. Beirdd Cymru*, t. 177.

⁵ Dr. Jones's *Hist. Wales*, p. 225.

yr un awdl, gydag ychydig newidiadau ac ychwanegiadau, yng *Nhyfrinach y Beirdd*, t. 218; ac yng *Ngramadeg Sion Rhydderch*, t. 148. Dechreu yr awdl yn llythraeth *Cyfrinach y Beirdd* a Sion Rhydderch, fel hyn :—

I. ENGLYN UNODL UNION.

Oes oesoedd Llysoedd Lleision Abad Nedd
Ynysedd enwason ;
Gwisger ag eurer goron
Am ei benn wisg un mab NONN.

II. PROEST CYFNEWIDIOG.

Abad pob Abad a'u Penn,
Afal Duw a'i flodeuyn,
O flas Eurant fal Sieron,
O felusder fal Awstin.

III. PROEST CADWYNOG.

Eglwyswr teg o Leision,
Abostol o fab Iestyn,
Ail Daniel o waed Einion,
Allwedd dysg a Lleuddad Wynn.

Y mae cywydd lled faith hefyd o'i waith yn yr *Iolo MSS.*, t. 292, a elwir "Cywydd Vlltud Sant [O ysgrif yn llaw Thomas ap Ievan o Dre'r bryn, plwyf Llangrallo ym Morganwg, cylch 1670.]" Dechreu'r cywydd fel hyn :—

¶ santŵr da saint wās dir
vlltud o waed llydaw dir
marchog o lin olin oedd
ymrytain wr mawr ytoedd
Bikany's vab kenais vawl
barrwn hen waed brenhinawl
brenhinerch bur vu henfam
brytaen vavr brytwn i vam
dysgai nāf dysg iawn ovwy
ny ddsygawdd vab ddsyg oedd vwy
arfer yn wr fry a wnaeth
o lorig a milwriaeth
milwr düw yn malu düw
marchog mawr waithog Arthur.

Y mae lluaws o ddifyniadau argraffedig o'i waith yng *Nghyfrinach y Beirdd*; *Coelbren y Beirdd*, gan Ab Iolo; a *Thafol y Beirdd*, gan Cynddelw; a dengys cofres y Dr. Pughe fod io o'i ganiadau yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr. Dywedir hefyd ei fod wedi ysgrifenu "Hanes Tair Talaeth Cymru";¹ ond ym mha le y mae'r gyfryw hanes, ni fynegir.

¹ Jones's Welsh Bards, p. 87; Williams's Em. Welshmen, p. 340.

TUDUR ALED oedd un o feirdd enwocaf diwedd y ganrif hon (y 15fed) a dechreu y nesaf. Enw ei breswylfod oedd Garth Geri Chwibryn, ym mhlwyf Llansannan, yn ymyl yr Afon Aled, yn sir Ddinbych. Dull Seisnig ei enw priod oedd *Theodore*; ond y mae ei gyfenw yn anhysbys. Cymmerth ei gyfenw barddonol oddi wrth yr Afon Aled, yr hon sy'n llifo trwy randir ei breswylfod. Dodir Tudur yn ei flodau, yn ol yr arfer, mewn gwahanol amserau. Yn ol cyfres y Dr. Davies o Fallwyd, yr oedd yn ei flodau yn y fl. 1490; ac eraill a'i dodant i flodeuo o'r fl. 1480 i 1520¹ ac o'r fl. 1480 i 1425.² Y mae'r pethau canlynol yn gwbl eglur; sef, ei fod yn nai ac yn ddysgybl i Dafydd ap Edmwnnt, fel y dywed ei hun, fel y gwelwyd, "F'ewythr o waed, fathraw oedd;" nad oedd efe yn Eisteddfod Caerfyrddin yn y fl. 1451, yn yr hon yr oedd ei ewythr Dafydd yn Bencerdd; a'i fod yntau ei hun yn Bencerdd yn Eisteddfod gyntaf Caerwys, fel y ceir gweled yn ebrwydd, yr hon a gynnaliwyd "yn y bymthegfed flwyddyn o goronedigaeth HARRI VIII., ac oed Crist, 1524"³ Yn awr, od oedd Tudur Aled yn 18 oed yn y fl. 1480, o gylch yr hon y tybir i'w athraw D. ap Edmwnnt farw, ganwyd Tudur yn y fl. 1462; ac os felly, yr oedd yn 62 oed pan urddwyd ef yn Bencerdd yn Eisteddfod Caerwys yn y fl. 1524. Felly credir na byddid ym mhell oddi wrth y nod pe dodid ef yn ei flodau o'r fl. 1480 i 1530.

Heb law bod Tudur Aled yn fardd enwog, yr oedd efe hefyd yn Fynach, yn ol urdd Mynachod Ffransis Sant; a phan wisgwyd ef yn yr urdd honno, cyfansoddodd yr englyn canlynol:—

Brawd i Sant Ffransis na bo brych—f'wyneb
Pan fyner ei edrych;
Yn ei grefydd yn gryfwych,
Yn ei wisg wyf yn was gwych.

Y mae urdd Babaid Tudur Aled, a'i gydnabyddiaeth â'r Mynachod yn Ninas Basing, Maenan, Llanegwestl, a manau

¹ Williams's Em. Welshm., p. 13; Geir. Bywgr. J. T. J., cyf. i., t. 9. ² Geir. Bywgr. I. F., t. 15.
³ Dodir yr Eisteddfod honno gan wahanol ysgrifenyddyr yn y blyn. 1523, 1524, ac 1525. Cyfr. y Beirdd, t. 22, no 1*, t. 223; Pennant's Tours, vol. ii., p. 93, note q; Geir. Bywgr. I. F., t. 14.

eraill, fel y'prawf ei ganiadau, yn sicrhau bod holl ddysg ei oes yn ei feddiant. Y mae'n eglur hefyd ei fod yn gydnabyddus â'r awduron Paganaid uchelddysg; canys dywed am rywun:—

Os yn y Côr, SENECA yw.

Cyfansoddodd amryw ganiadau moliant i'r Mynachod: y mae tair o honynt, o leiaf, yn argraffedig; sef, "Awdl Moliant Sion Abad Caerlleon;"¹ "Cywydd i ofyn march i Abad Aber Conwy;"² a "Chowydd moliant Ffowk Salisbury, Deon Llan Elwy." Gan nad yw hwn ond byr, ac yr ymddengys ei fod wedi ei argraffu fel yr ysgrifenydd ef gan Tudur Aled ei hun, dodir ef ger bron yma:—

D'nyll oedd, a dwyn y llall: Dyn fr fu'r Deon arall.
 I'th duedd, o'th edewir, Ni byddwn wyl heb ddy'n ir.
 Ni wnai Ddeon yn Wynedd iach, Ar gwyr lun o'r gwyr lanach.
 Lawnter wyt, fal enaid rhydd, I roi gloywder i'n gwledydd.
 Mae'n olau yma'r wlad, Er marw'r llew mawr â'r lleuad.
 Am yr adec (mawr ydwyt), Blin a ddaeth blaen newydd yt.
 Os un lloer sy'n lle arall, Diwedd lloer ydoedd y llall.
 Y newid aeth yn y dur, Ni newitia'n y natur.
 Ni ddoe galon ddigeliat, Yn nwy ais dyn, nes yw dat.
 Tân coed wyt i un cadarn, Triacl o bydd treiglo barn.
 Gwin dy iaith gan y doethion, Gwerthfawr yw pob gair o'th fron.
 Gwr llên llwyd ger llaw Lladin, Gwenith fydd a gawn o'th fin.
 Synwyr a gras, hyn yw'r gwraidd, Saffyr faen Asa ffurfiadd.
 Aelod a phen, y wlad Ffwc, At Ili wyt a'i olwe.
 At arwyddion, het ruddaur, Nid un lle'th roed yn llythr aur.
 Ff: a godir Ffwc ydwyt; S: i le brais Salbri wyt.
 Goleuaist di, wrth gael ystad, Genau'r llew gwyn a'r lleuad.
 Tywynwch Gwrt y Wennol, Ne farned ef yrru'n d'ol.
 Cap a rydd i'r cop ruddaur; Carw a'i gyrn mewn crug aur.
 Coron Iork i wr o'n iaith, Coroni Cae hir unwaith
 Cyn teirawr cennad Harri, Caniataed het Caint i ti.

TUDUR ALED A'I CANT, ABOUT A.D. 1511.³

Fel gwladwr, yr oedd Tudur Aled yn bleidiwr brwdfrydig i Syr Rhys ap Tomas, o Ddinefwr, yn yr ymdrech egniol i osod Harri Tudur, o deulu Penmynydd, Mon, ar orsedd Brydain, dan yr enw Harri VII., yn lle "Rhisiart Gefngrwm." Canodd lawer o glod i Syr Rhys ap Tomas am ei wrhydri milwraidd yn erbyn y gormesdeyrn, er annog y Cymry i gynnorthwyo Syr Rhys; ac yr oedd gair Bardd y pryd hyny yn uwch na gair neb arall: "Gair ar air pawb oedd ei air ef." Wele un o'i bennillion gorchestol i Syr Rhys:—

¹ Williams's Records of Denbigh, p. 53. ² Gorch. Beirdd Cymru, t. 240.

³ Williams's Rec. Denbigh, p. 201.

Aeth d'arwydd arnynt o waith d'arddyrnau,
 A'th law mewn irwaed, a'th lu manerau,
 A throi gwayw'n waedwyllt, a'th rwyg waniadau,
 A thrwy fael fflemig Arthur fel ffllamau :
 Anfon drwy Dduw Ion un o'r ddau,—o'th waith,
 A nhwy'n feirw unwaith, a ni'n hen freiniau.

Y dygwyddiad llenyddol mwyaf pwysig, yn ddilys ddiam-mheu, i Tudur Aled, oedd ei urddiad yn Bencerdd, neu "Athraw Cadeiriog," yn Eisteddfod Freiniol Caerwys, yn y fl. 1524. Y mae amryw fynegiadau am yr Eisteddfod honno; a dichon bod yr un canlynol, sydd yn "Llyfr y Plas Gwyn [Pentraeth], ym Mon, Rhif 65," yn un o'r rhai hynaf, yr hwn sydd fel y canlyn :

Bydded hysbys i bawb o foneddigion a chyffrediniaid, vod Eisteddvod ar wyr wrth gerdd davawd a thant, o vewn i drev Gaerwys, yn swydd Flint, yr ail dydd o vis Gorphenav, yn y bymthegved vwyddyn o goronedigaeth HARRI yr wythved, ger bron Richard ab Hywel ab Ieuan Vychan, yswain, ac o gydundeb Syr William Gruffydd, a Syr Robert Salbri, a thrwy bressenawl Gynghor Gruffydd ab Ieuan ab Llywelyn Vychan, a Thudyr Aled, bardd cadeiriawg, a llawer o voneddigion a doethion ereill, er gwneuthur trevn a llywodraeth ar wyr wrth gerdd davod a thant, ac ar eu celvyddydd : nid amgen i gadarnáu a chrymviaw y pencerddiaid, a'r sawl a gavas radd yn y blaen, i raddu y sawl a'i haeddai, ac i rodli i ereill *ysbas* i ddysgu ac i vvyriaw yn nesav ag y galler wrth gydwybod, ac wrth hen ystatyd Gruffydd ab Cynan.

Llyma y rhai a raddwyd yn Nghaerwys, nid amgen

Tudyr Aled à ganiadwyd ac a gyvrwymied yn athraw cadeiriawg, i arwain riandlws, val yr oedd er pan ei cymmerasai dan ei berygl i'w ddwyn o'r lle yr oedd.

Dai Nantelyn à wnaethpwyd yn athraw, a rhoddi ariandlws telynn iddo.

Edward Sirc, Thomas ab Madawg, Edward Grythawr, a Morys Llanvair, pencerddiaid, à raddiesid o'r blaen mewn neithiorau yn bencerddiaid; ac yna eu cadarnhawyd, drwy eu caniadu a'u cyvrymiau.

Hwlcyn Llwyd, Ieuan Delyniwr, Ieuan Grythawr, Dai Maesmor, disgyblon pencerddiaid.

Huw Menai, Rhys Grythawr, Bili ab Owain, a Sion ab Sander, disgyblon disgyblaidd.

Ond hyny gwrthodi eu graddau à wnaethant¹

Heb law y cadarnhawyd ac y "cyvrymied" Tudur Aled "yn athraw cadeiriawg, i arwain ariandlws" yn yr Eisteddfod dan sylw, cafodd awdurdod yr un Eisteddfod bwysig ar ei gynllun o'r pedwar mesur ar hugain a'r cynghaneddion, fel y tystia'r difyniad isod :—

Llyma bellach *Pedair Cadair ar hugain* Cerdd Dafod herwydd Dosparth *Caerfyrddin* a phedwar mesur ar hugain e'u gelwir herwydd enwau celfyddyd a ddoded arnynt gan *Dudur Aled* yn ei Eisteddfod ef yng Nghaerwys.²

¹ Y Greal, t. 276.—Dlau mai llythraeth Golygwyr Y Greal yw yr uchod, ac nid un hen Yagriffr y Plas Gwyn. ² Cyfr. y Beirdd, t. 224.

Dilynir y difyniad yna gan esamplau o'r pedwar mesur ar hugain, y cynghaneddion, yng nghyd â "beiau ac anafau cerdd dafod;" ac y mae'n bur debyg mai ailadroddiad, gyda rhai chwanegiadau a newidiadau, ond odid, o Ddosparth Llawdden a Dafydd ap Edmwnt, yn Nghaerfyrddin ydyw'r cyfan.¹

Y mae caniadau cywrain ac awenyddol, argraffedig ac ysgrifenedig Tudur Aled, yn dra lluosog. Y mae 17 o'i ganiadau argraffedig yn hyspys i'r ysgrifenydd: 9 yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*; 6 yn *Records of Denbigh*; 1 yn *Y Gwladgarwr*; ac 1 yn *Y Brython*; heb law llu mawr o ddifyniadau argraffedig sydd yn *Rhetoreg Henri Perri*, *Y Ffydd Ddiffuant*, *Cyfrinach y Beirdd*, *Y Greal*, *Ceinion Awen y Cymry*, a'r rhan fwyaf o'r *Gramadegau* Cymreig; ac, ond odid, mewn amryw lyfrau eraill, nad yw yr ysgrifenydd yn gallu eu dwyn i gof yn bresenol. Hefyd, y mae cofres y Dr. Pughe yn dangos fod 172 o ganiadau Tudur Aled yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr: 37 ydyw y nifer mwyaf sydd yn yr un ysgriflyfr; sef Rhif XVI.

CYFRES O ENWAU BEIRDD A LLENORION O'R FL. 1450 I 1499,
EU HAMSERAU, A CHRYBWYLLIAD PA UN AI ARGRAFFEDIG AI
YSGRIFENEDIG YW EU CYFANSODDIADAU.

- 1450 Bedo Brwynllys, ysgr.
- 1450 Dafydd Emlyn, ysgr.
- 1450 Tomas Celli, ysgr.
- 1450 Rheinallt Delynior.²
- 1450 Y Moel.
- 1450 Llywarch Offeiriad, ysgr.
- 1450 Sion Eos.
- 1450 Cynfrig ab Gronwy.
- 1450—1470 Harri y Gareg Lwyd.
- 1450—1480 Gruffydd ab Dafydd ab Gronwy.
- 1450—1480 Harri Hir o Euas, ysgr.
- 1450—1480 Huw Cae Llwyd, ysgr.

¹ Cyfr. y *Beirdd*, t. 224—228. ² Pau na byddo "argr." nac "ysgr." ar ei yr enw, ni wyddys bod dim o waith yr awdur ar gof a chadw.

- 1450—1480 Ieuan ap Hywel Swrdwal, ysgr.
 1450—1480 Gruffydd Llwyd ap Dafydd Caplan, ysgr.
 1450—1480 Llywarch Bentwrch, ysgr.
 1450—1480 Meredydd ap Rhosser, ysgr.
 1450—1480 Gutyn Owain, 15 argr. ac Un ysgr.
 1450—1490 Rhys Brydydd, neu Rhys Llwyd Brydydd, ysgr.
 1450—1490 Harri'r Gareg Wen.
 1450—1490 Rhobert Leiaf, ysgr.
 1450—1490 Syr Sion Leiaf, ysgr.
 1450—1490 Dafydd Fychan o Forganwg.
 1460 Dafydd Epynt.
 1460 Owain Dwn, Bardd a Thelyniôr.
 1460 Gwilym ap Ieuan Hen.
 1460 Gronwy ab Belyn.
 1460—1490 Ieuan Deulwyn, 7 argr. a rhai ysgr.
 1460—1490 Syr Einion Offeiriad.
 1460—1490 Ieuan Llwyd Brydydd.
 1460—1490 Rhys Bencerdd, ysgr.
 1460—1490 Hywel Rheinallt, ysgr.
 1460—1490 Rhys ab Dafydd ap Einion, ysgr.
 1460—1490 Rhys Benardd, ysgr.
 1460—1490 Sion ap Hywel ap Llywelyn Fychan, ysgr.
 1460—1490 Rhys Teganwy, ysgr.
 1460—1490 Ieuan ap Llywelyn Fychan, ysgr.
 1460—1500 Iorwerth Fynglwyd, 3 argr. a rhai ysgr.
 1460—1500 Deio ap Ieuan Du, 8 argr. a rhai ysgr.
 1460—1500 Iorwerth Hen, ysgr.
 1460—1500 Llywarch Fyr, ysgr.
 1460—1500 Llywarch ap Cynwrig Ddu o Fon, ysgr.
 1460—1500 Llywelyn ab Gutyn, 1 argr. a rhai ysgr.
 1460—1500 Ieuan Du'r Bilwg, 2 argr. a rhai ysgr.
 1460—1500 Syr Lewis Gethin.
 1460—1500 Edward ap Rhys Maelor.
 1460—1500 Ieuan Brechfa, argr. ac ysgr.
 1468 Morus ap Ifan ap Einion o Leyn, 1 argr.
 1470 Sion Einion ap Owain.
 1470 Lewis ap Hywel Gwyn.

- 1470—1500 Heilyn Hywel, ysgr.
- 1470—1500 Ieuan ap Huw Cae Llwyd, ysgr.
- 1470—1500 Ieuan Dyfi, ysgr.
- 1470—1500 Ieuan ap Rhys Brydydd.
- 1470—1500 Gruffydd Llwyd ap Ifan ap Einion.
- 1470—1500 Llywelyn ab Madog ab Dafydd ap Einion.
- 1470—1500 Llywelyn ap Rhys, ysgr.
- 1470—1500 Meredydd ap Llywelyn ap Ednyfed.
- 1470—1500 Syr Dafydd Trefor, Lanallgo, Mon, ysgr.
- 1470—1500 Morus Gethin, ysgr.
- 1470—1500 Rhisiart ap Rhys Brydydd, ysgr.
- 1470—1500 Rhisiart Iorwerth.
- 1470—1510 Robin Ddu o Ddeheubarth, neu Robin Ddu ap Siancyn Brydydd, ysgr.
- 1470—1520 Gruffydd ap Ieuan ap Llywelyn Fychan.
- 1474—1517 Tomas ap Ieuan ap Rys, neu Twm Ifan Prys, 1 argr.
- 1480 Dafydd Fychan, ysgr.
- 1480 Bedo Phylip Bach.
- 1480 Dai Llwyd Grythor, o'r Cwm Bychan ym Meirion, 1 gaingc.
- 1480 Gruffydd ap Llywelyn Fychan, ysgr.
- 1480 Ieuan ap Rhys ap Llywelyn.
- 1480 Iaco Brydydd.
- 1480 Tomas Celli, 1 argr. a rhai ysgr.
- 1480 Ieuan Delyniol.
- 1480 Dafydd Fynglwyd, neu Dafydd ap Siancyn Fynglwyd, ysgr.
- 1480 Wiliam Dyfi.
- 1480—1510 Bedo Aerddren, ysgr.
- 1480—1520 Gruffydd ab Dafydd ap Hywel, ysgr.
- 1480—1520 Dafydd ap Hywel ap Ifan Fychan, ysgr.
- 1480—1520 Dafydd Goch Brydydd.
- 1480—1520 Iocyn Brydydd.
- 1480—1520 Lewys Morganwg, 2 gyfansoddiad ac amryw ddarnau argr. a rhai ysgr.
- 1480—1520 Llywelyn ap Owain ap Cynwrig Moel, ysgr.
- 1480—1520 Lewys Mon, ysgr.

- 1480—1520 Rhisiart ap Rhys o Lancarfan, 1 argr. a rhai ysgr.
 1480—1520 Llywelyn ap Ednyfed, ysgr.
 1480—1520 Rhys ap Llywelyn ab Gruffydd ap Rhys, ysgr.
 1480—1520 Huw ab Dafydd o Euas, ysgr.
 1480—1530 Tudur Aled, 17 argr. a rhai ysgr.
 1485 Dafydd Llwyd ap Llywelyn ab Gruffydd Fychan.
 1490—1520 Morus ap Hywel ap Cadwaladr.
 1490—1530 Rhys ap Ieuan ap Llywelyn ap Hywel.

PENNOD XI.

O BARTH CERDDORIAETH CYFNOD Y TESTYN.

NID ydys yn gwybod am ddim o hanes cerddoriaeth y ddwy ganrif hyn (y 14edd a'r 15fed), ar wahan i'r canrifoedd o'u blaen ac ar eu hol. Gwelwyd eisoes fod Dafydd ap Gwilym, oedd yn bucheddu yn nechreu y 14edd ganrif, yn gerddor; y medrai "euro dalm ar y delyn"; a "solffaeo â'i salw ffuaint"; a chanu "erddygan gan y gaingc"; ond a oedd efe yn *gyfansoddwr ceingciau*, neu *donau*, fel y'u gelwir yn awr, nid yw hyspys. Y mae'n gwbl eglur wrth gyfreithiau Hywcl Dda, fod "Barddoniaeth y cyfnod hwi.w yn cynnwys *cerddoriaeth* cystal a *phrydyddiaeth*; h.y., mai yr un personau oedd y cerddorion a'r prydyddion. Dywedir bod "Bardd Teulu" i gael *telyn* gan y brenin pan roddid ef gyntaf yn ei swydd; ac yr oedd y Pen-teulu i ddodi y *delyn* yn ei law ar y teirgwyl. Pe na buasai y bardd hwnw yn gerddor, ni buasai *telyn* les yn y byd iddo. Y mae'n eglur hefyd ei fod yn "*ddatgeiniad*," canys pan fynnid canu yn y neuadd, yr oedd efe i *ganu* tair cerdd ar wahanol destynau; ac yr oedd i "*ganu* cerdd yn ddifesur" i'r frenhines pan y mynnai; ac i "*ganu* i daiog nes yr elai i gysgu."¹

¹ Myv. Arch., t. 968.

Eglur hefyd ydyw bod y "Pencerdd," neu'r "Bardd Cadeir-iawg," yn delynior, crythor, neu bibydd, ac yn ddadgeiniad gyda hyny. Yr oedd y brenin i ddarpar ei offer cerdd i'r *pencerdd* pan osodid ef yn ei bencerddiaeth. Efe oedd i ddechreu *canu* yn y neuadd, un gerdd i Dduw, a'r llall i'r brenin.¹

Ymddengys bod y Bardd Celtaidd yn gerddor a phrydydd yn yr hen amseroedd; canys dywed Diodorus Siculus fod y beirdd yn *canu* ar offer tebyg i delynau, gan foli rhai a goganu eraill;² a Strabo a ddywed mai cantorion a phrydyddion oedd y beirdd.³ Ammianus Marcellinus hefyd a ddywed y *canai'r* beirdd ganiadau gwychion ar eu *telynau*, am weithredoedd nerthol eu gwroniaid.⁴ Y mae'n eglur iddynt bara yn lled debyg hyd amser Dafydd ab Gwilym, yn nechreu cyfnod y testyn, os nad diweddarach. Ymddengys bod telynrawn ar arfer gan brentisiaid barddonol yn amser Dafydd; ac y mae yntau yn ei chanmol fel hyn:—

Un delyn, ddiddan angerdd,
Onid o rawn, gyfiawn gerdd i
Doeth yw'r ymadrawd nawdd hoyw,
Y delyn o rawn du-loyw:
Y delyn rawn, dawn difas,
O rad y Drindod a'i ras,
A ddygodd oll i Ddafydd
A fu, a rhag llaw a fydd;
O ddechreu'r byd, bryd breichfawr,
Hyd ddyddbrawd, myfyrdawd mawr l...
Ceisied pob prentis cysson,
Hyd o Farsdir Lloegr i Fon,
Delyn eirian i'w chanu,
I ranu dysg, o rawn du:
Mal yr oedd mau gyhoeddi,
Yn oes ein hen deidiau ni:
Na cheisied, ddiged ddeugwyn,
Y dydd brentisiaid i'w dwyn.⁵

Yr oedd y beirdd, yn amser Giraldus Cambrensis hefyd, yn gerddorion, cystal ag achyddion, prydyddion, a dadgeiniaid. "Y mae gan y beirdd a'r cantorion, neu'r dadgeiniaid Cymreig," eb efe, "achau'r tywysogion crybwyllledig, wedi eu hysgrifenu yn yr Iaith Gymraeg yn eu hen lyfrau awdurdodol; ac y

¹ Myv. Arch., t. 968, 973.

² Diod. Sic. lib., v.

³ Strabo, lib. iv.

⁴ Amm. Marcell. lib. xv., c. 9.

⁵ Gwaith D. ab Gwilym, t. 277, 279.

maent yn eu cadw yn eu cof o Rhodri Mawr hyd B. M.¹ ac o hwnw hyd Sullius, Ascanius, ac Encas; ac y mae ganddynt restrau achyddol o hynafiaid yr olaf yn oed hyd Adda. Ond gan y dichon i'r fath linell hir a phellenig o achau ymddangos i rai yn wageddus, yn hytrach na hanesyddol, yr ydym ni wedi eu gadael allan yn fwriadol o'n crynhoad;”² a gwnaeth yn bur ddoeth hefyd.

O barth ein hen gerddoriaeth, dywed Ieuan Brydydd Hir Ieuaif, “I mae ein hen *Fusic* wedi ei llwyr anghofio: nid yw'r cyweiriau cwynfanus sydd genym yr awron ond dychymmygion diweddar, pan oedd y Cymry yn griddfan tan iau galed y Saeson.”³ Y mae'r Cyfreithiau wedi cadw enw un hen Dôn Gymraeg, a elwir ynddynt “Unbeniaeth Prydyn”—Unbeniaeth Brydain; ond ni wyddys i ddim o'r gerddoriaeth ddyfod i lawr hyd gyfnod y testyn.

Cafodd yr hanesydd diwyd, Glanmor, afael ar hen ysgrif yn cynnwys *enwau* deunaw o “geingciau” a gyfansoddwyd ryw-bryd rhwng y fl. 1430 ac 1470; wyth o honynt, gan gerddor a'i enw CADWGAN, ac wyth eraill gan un CYHELYN; ac y mae'n cofnodi enw dwy “gaingc” heb enw awdur wrthynt.⁴ Y mae enwau 13 o'r “ceingciau” hyn, o ysgriteniad Sion Gruffydd, 1694, hynafiad y Mr. Griffiths presennol, o Ben y Nant,” yn Rhagymadrodd Ab Ithel i “Ddosparth Edeym Dafod Aur;”⁵ ond y mae cryn wahaniaeth rhwng amryw o'r enwau yn y ddau gopi, nid yn unig o ran orgraff, ond hefyd o ran geiriad. Y mae orgraff copi Glanmor yn hynach o ddau gan mlynedd, o leiaf, nag orgraff copi Sion Gruffydd. Y mae gan yr olaf un enw hollol wahanol i'r holl enwau sydd gan y blaenaf; sef, “Y Wyddeles o waith Cyh.,” yr hon, ond odid, oedd gaingc wahanol; ac os felly, y mae genym enwau *naw* o geingciau Cyhelyn. Methais daro wrth enwau yr un o'r ddau “fardd cerdd dant” hyn, CADWGAN a CHYHELYN, yn y

¹ Bell Mawr, fel y tybir. ² Descript. Cambr. lib., I., c. 3, *passim*.

³ Evans's Ancient Welsh Bards, Pryse's Ed., p. 91.

⁴ Williams's (Glanmor) Records of Denbigh, vol. I., p. 98.

⁵ Dosp. Ed. Dafod Aur, Pref., p. xiv.

cofnodau cyffredin, o waith y Dr. Davies i waered. Y mae gan y cofnodwyr amryw *Gadwganau Barddonol*; ond ni ddangosant fod yr un o honynt yn "fardd a cherddor," a gadawyd enw CYHELYN allan.

Yn awr, dodwn enwau y ceingciau ger bron yn orgraff hen ysgrif Glanmor, a'i eglurhad ef arnynt rhwng cromfachau:—

CEINGCIAU CADWGAN.

- Ourai gowydd¹ (which we may perhaps interpret as, *The Warbler's Ode*).
 Kas gan Grythor (*The Fiddler's Dislike*, probably a piece more suitable for the harp than the violin).
 Krechwen veinir (*The Maiden's Laughter*).
 Llonen hafar (which we may, perhaps, interpret, *Light, Easy, and Free*; or, *The Merry Slattern*).
 Awen wrli² (*The Reeling Muse*, evidently implying o waltz or quadrille).
 Awen oleddydd³ (*The Daylight Muse*, perhaps so called because played at the "wind-up" of the ball at dawn).
 Oerloes goedena (probably *Irlas goeden: The Young Green Tree; The Sapling*).
 Koc wenllian⁴ (*Wenchal's Cuckoo*).

CEINGCIAU CYHELYN.

- Kas gan dinker (*The Tinker's Dislike*, probably so called because it was difficult for a "tinker," or inferior musician to play).
 Dillin efaas (*Eve Fashion*).
 Organ levkv⁵ (*Lucy's Organ*).
 Y goweithas⁷ (*The Party, or Picnic*).
 Eos wrli⁸ (*The Nightingale Reel*, a dancing or ball tune, no doubt).
 Kanik nest berwyn (*Nesta of Berwyn's Air*).
 Y gainkhir i Kyhelyn (*The Long Air, by Kyhelyn*).
 Y gaink fer i Kyhelyn (*The Short Air, by Kyhelyn*).

Wele isod enwau y ceingciau sydd heb enw awdur wrthynt yng nghopi Glanmor:—

- Afel y fawd⁹ (*Gafael y Fawd—The Thumb Note*, probably the same as "Synwyr y Fawd"—*The Random*).
 Kaik y krythor dv—Caingc y Crythor Du (*The Black Fiddler's Air*).

Dyma enw dwy gaingc sydd yng nghopi S. Gruffydd nad ydynt yng nghopi Glanmor:—

1 "Eurai Gwynedd" (The Golden Air of Gwynedd; sydd gan S. G.; a phriodola efe hi i Cybelys. A oedd y dŵy yn geinclair gwahanol, barned y darlennydd.
 2 Awen Chwerli.—S. G.
 3 "Awen oleuddydd." S. G. (a) "Eurlals Goeden" (*The Golden Voice Tree*.) S. G.
 4 Cog Gwenllian. Enw priod yw Gwenllian; ac nis cofir gweled neb o'r blaen yn arfer y gair yn gyfystyr a *wenchal* neu *wenchal*—llangcs, herlodes, hocrcl. Arfard y gair *koc* (cog) gynt am gogydd, neu arlywyr; ac fe allai mai *Gwenllian's cook*, neu ond odid, *Gwenllian's cuckoo* a feddyllir.
 5 "Dillyn Efa." S. G. 6 "Organ Leici" (Leucu?) S. G.
 7 "Y Gyweithas." 8 "Eos Gwerll" (Gwerll's Nightingale).
 9 "Annel y Fawd" (*The Tension of the Thumb*) ydyw enw hon gan S. Gruffydd; a phriodola efe hi i Cybelys.

Y Wyddes (The Irish Air?) o waith Cyh.
Cas gan Eurach o waith Cad. (Yr un, ond odid, a "Chas gan Dingcer.")

Y mae "Bardd y Brenin" yn crybwyll enw hen gaingc Gymreig o'r cyfnod yma, a'i henw,

Ffarwel Dai Llwyd (*David Lloyd's Farewell*).

Telyniwr a milwr o Feirion, eb efe, oedd Dai Llwyd, o gylch y fl. 1480; yr un ag a gofnodwyd yn ein Rhestr flaenorol dan yr enw Dai Llwyd o'r Cwm Bychan, ym Meirion. Cyfansoddodd yr hen gaingc odidog honno ar ei ymadawiad o Gymru, pan aeth gyda Jasper Tudur ac Owain Lawgoch i frwydr Bosworth.²

"Ymddengys mai CADWGAN a CHYHELYN oedd prif gerddorion Cymru bedwar can mlynedd yn ol; a phwngc dyddorol i'r hynafiaethydd cerddorol fyddai cael allan pa nifer o'u ceingciau a ddaethant i waered hyd yr oes bresennol."³

Y mae genym nifer dirfawr o *enwau clymau (concordes)*, *cad-eiriau (precidences)*, *colofnau (fundamentals)*, *caniadau neu geingciau (tunes)*, *gostegau (preludes)*, *cydgerddau (accompaniments)*, *deifrau (meters)*, *gorphwysladau (rests)*, *cyweiriadau (modulations)*, &c., yn y *Myfyrian Archaiology, Gramadeg Sion Dafydd Rhys, Dosparth Edeyrn Dafod Aur, Y Greal, Musical and Poetical Relics*, "Eglurhad" Gwallter Mechain o flaen *Eos Ceiriog, Y Brython*, ac mewn llyfrau eraill, ond odid; ond nid yw yr ysgrifenydd yn gwybod bod genym yr un o'r tonau hynafol hyn "gwedi eu priciaw," ys dywedai yrhen Robert ap Huw, ond y rhai sydd ganddo ef yn yr *hen nodiant*,⁴ y rhai a ddododd PENCERDD GWALIA yn y *nodiant diweddar*,⁵ ond nid yn y *nodiant newydd* a ddyfeisiwyd gan CURWEN, a elwir *Tonic Sol Fa*.

¹ Ed. Jones's Mus. and Poet. Rel. vol. i. p. 49.

² Ymladdwyd brwydr Maes Bosworth yn y fl. 1485.

³ Williams's Records of Denbigh, vol. i. p. 98.

⁴ Myv. Arch. t. 1072-1204. ⁵ Yr un, t. 1207-1247.

PENNOD XII,

TREM HANESYDDOL AR RYDDIAITH Y DDWY GANRIF FLAENAF O GYFNOD Y
TESTYN.

Y MAE yn eglur nad yw llenyddiaeth farddol, o'i chymmeryd ar wahân, ond rhan (rhan helaeth, bid sicr) o Lenyddiaeth Gymreig, yn oed yn ystod y ddwy ganrif hyn o gyfnod y testyn, yr un modd a'r canrifoedd cyn y cyfnod yma, ac ar ei ol. Urdd unbenol a neillduol oedd y beirdd rheolaidd, fel y'u gelwid, dros gryn yspaid yn nechreu cyfnod y testyn, fel yn y cyfnodau blaenorol; ac fel y mae rhai o honynt yn ceisio bod eto, mewn gwirionedd. Yr oedd gan y beirdd safon gelfyddydol, fel y gwelsom, oddi wrth yr hon ni feiddiai neb o honynt ymadael, yn oed y pryd hyn; a gwnaed hi yn gaethach fyth yn ystod y ganrif nesaf, fel y ceir gweled rhag llaw; ac y mae'r "beirdd urddedig," pondigrybwyll! yn sefyll wrthi mor fanwl ag y gallant hyd y dydd hwn. O herwydd hyny, llenyddiaeth y lleirif boneddigaidd a dysgedig, oedd barddoniaeth gynghaneddol, warantedig; ac nid oedd fawr o hoffder ati ym mhlith y genedl yn gyffredinol; ac felly y mae'n para hyd yn bresennol. Er enghraifft, yr oedd, ac y mae, rhydd ganiadaeth Edmund Prys o'r Salmu, yn annhraethol fwy poblogaidd na chaeth gynghaneddiad o'r Salmu, gan Gwilym Ganoldref; ac yr oedd y *Blodeugerdd* yn ddirfawr fwy cymmeradwy gan y werin, na *Gorchestion Beirdd Cymru*; a phwy nis gŵyr am boblogrwydd dirfawr caniadau rhyddion y Ficar Prichard, Llanymddyfri; Williams, Pantycelyn; Dafydd Jones, o Gaio; Edward Richard, Ann Griffith, ac eraill.

Yn gyffelyb y gellir dywedyd am ryddiaith y gwahanol gyfnodau. Dywedir bod cynnifer a deg o feirdd galluog, urddedig, yn ystod y ddwy ganrif hyn, wedi ysgrifenu ar dair talaeth Cymru: Gwynedd, Powys, a'r Deheubarth; sef, Iolo Goch, Hywel Swardwal, Guto'r Glyn, Dafydd ap Hywel ap Ieuan Fychan, Ieuan Brechfa, Ieuan ap Hywel Swardwal,

Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys, Dafydd ap Edmwnt, Gutyn Owain, a Lewys Morganwg.¹ Os gellir barnu eu teilyngdod wrth yr unig un a gyrhaeddodd ein hoes ni, hyd y gwyddys ; sef y "Brut" a briodolir i Ieuan Brechfa,² nid oeddynt ond pethau hynod o sychlyd, a digon annyddorol ; a chan eu bod oll ar yr un testynau, gellir casglu nad oeddynt ond pur unrhywiog ; yr hyn, ond odid, oedd un achos i gynifer o honynt syrthio i ddifancoll.

Dywed Giraldus Cambrensis fod y Cymry yn bobl fywiog, ryddfrydig, llawen, a ffraeth, ac yn orhoff o gerddoriaeth.³ Naturiol yw casglu, gan hyny, y mynnai'r fath bobl ryw adloniant i'r meddwl cyssonach â'u cymmeriad na sych gron-iclau ac "achau anorphen." Yr oedd traddodiadau, chwedlau, dammegion, a rhamantau wedi bod yn ehedfan yn eu plith er ys ocsau a chenedlaethau ; a phan ddygwyddodd y deffroad llenyddol cyffredin yn y 12fed ganrif, ar ol y trwmgwsg llenyddol a barhaodd o amser Cadwaladr hyd Gruffydd ap Cynan, yr oedd yn naturiol i'r traddodiadau a'r rhamantau gael eu casglu, eu trefnu, a'u hysgrifenu. Hyn a roddes ddechreu i'r "Mabinogion," "Bucheddau y Saint," ac "Ystoriau" eraill sydd mewn gwahanol lyfrau ysgrifenedig ac argraffedig, fel y dangoswyd eisoes ; megis "Llyfr Coch Hergest," a ysgrifenyd ar wahanol amserau yn y ganrif gyntaf o gyfnod y testun ;⁴ "Lady C. Guest's Mabinogion ;" "Liber Landavensis ;" "Lives of the Cambro British Saints ;" "Y Greal ;" yr "Iolo MSS.;" a chwedlau eraill. Yn y chwedlau a'r rhamantau dyddorol hyny, addurnwyd croniclau byrion a sychion y beirdd swyddogol a gofnodent weithrediadau eu tywysogion a'u cydwladyr, â ffugiadau godidog ; a daeth rhyfelwyr dewrion yn wroniaid mawrwyhion. Daeth yr amwys Arthur, y crybwyllwyd am dano gyntaf gan Marc y Meudwy, neu rywun arall o olygwyr y gwaith a briodolir i Nennius, fel penadur bychan yn y Gogledd,⁵ yn ymherawdwr yr holl fyd gwareiddiol, yn nwyllaw G. ab Arthur ac Alanus de Insulis.⁶ Bernir i'r gwaith

¹ Jones's Mus. and Poet. Rel., vol. i., p. 87. ² Myv. Arch., t. 716.

³ Descript. Cambr. lib. i., c. xii.—xiv. ⁴ Skene, vol. i., p. 3.

⁵ Nen. Hist. Brit., § 63. ⁶ Stephens's Lit. Kymry, p. 412.

gwreiddiol a briodolir i Nennius gael ei ysgrifenu ar y cyntaf yn Gymraeg¹ Ymddengys gan hyny i chwedloniaeth Gymreig ddechreu ryw bryd rhwng amser y gwaith a briodolir i Gildas a'r gwaith a briodolir i Nennius; canys yn y gwaith olaf y ceir llawer o elfenau rhamant fawr Gruffydd ab Arthur. Y mae Nennius, neu rywun yn ei enw, yn crybwyll Arthur fel rhyfelwr dewrwyd, ac yn cyfeirio at fynediad yr "ymherawdwr" i Jerusalem.² Y mae cribo gwallt un arall, ym

¹ Mon. Hist. Brit., vol. 1, Pref. p. 64, note 1; pp. 65—68.

² Nodiad yw yr hyn a ganlyn, a ysgrifenydd genyf ar ol gweled y feirniadaeth, yn yr hon y dywedir fel hyn:—"Tudal 445 [ysgrifenedig]—Mabwysiaada Llywelyn Vychan olygiadau Thomas Stephens o barthed i Arthur, sef ei fod wedi ei ddwyn i lenyddiaeth Gymreig oduallan; camgymeriad hollol yw hyn, fel y profwyd fwy nag unwaith."

Fel y canlyn y dywed Stephens ar y matter mewn un lle:—"Ymroddai y beirdd i'gofnodi gweithrediau eu cydwladwyr, y rhai oedd yn dyfod yn fwyfwy adnabyddus ac yn fwyfwy gogoneddus. Addurnwyd ffeithiau syml yn ffugiadau gogoneddus; a daeth rhyfelwyr dewrion yn wroniaid mawrion; a chynnyddodd Arthur, penadur dinod yn y chweched ganrif, i ryfelwr dewrwyd yn yr wythfed, ac yn y ddeuddegfed, daeth yn ymherawdwr yr holl fyd gwareddiedig. Y mae'r cynnydd yna yn gwbl eglur yng nghyfansoddiadau Nennius, Geoffrey, ac Alanus Le Insulis."—*Lit. Kymry*, p. 412.

Gwelir nad yw Stephens yn dywedyd yn y sylwadau yna pa un ai hanfod "oddi allan" ai un *oddi meum* oedd Arthur, namyn bod yr Arthur nad oedd ond "penadur dinod yn y chweched ganrif," wedi cynnyddu yn chwedlau y ffug-ysgrifenydd erbyn y ddeuddegfed ganrif i fod "yn ymherawdwr yr holl fyd gwareddiedig." Ond sylwer ar nodiadau eglur Stephens ar y Trioedd canlynol:—

"XI. (2) Tri lleithig llwyth ynys Prydain. Arthur ym Penteyrnedd Ynghaerlleon ar Wysg, a Dewi [Sant ab Cunedda Wledig] yn pen'esgub, a Maelgwn Gwynedd yn pen Heneif.

"Arthur yn Penteyrnedd Ynghelliwig Ynghernyw, a Betwini yn pen esgub, a Charadawc Vreichvras yn pen heneif.

"Arthur yn penteyrnedd yn Penryn Rhionydd yn y Gogledd, a Chyndeirn Garthwys yn pen esgub, a Gwrthmwl Wledig yn pen heneif."

"Mae dylanwad lenyddiaeth chwedlonol yn weledig yma," medd Stephens. "Dywed Sieffre o Fynwy, yn ei hanes gelwyddog, fod Arthur yn ymherawdwr Caerlleon; ond y gwir yw mai brenin Cernyw oedd efe, ac nad oedd ganddo un awdurdod yn Nghaerlleon ar Wysg, nac yn yr Alban. Mae yn lled debygol fod Arthur, yr hwn a laddwyd o.c. 537, yn farw cyn fod Dewi yn esgob; a chan ei Cyndeirn ab Garthwys ab Owain ab Urien Rheged, esgob cyntaf Glasgaw, ymadael â'r fuchedd hon o.c. 612, mae yr un anhawsder yn ei gylch ef. Felly hefyd Caradog Freichfras. Brenin Maeshyfaidd a Brycheiniog oedd efe; a chan ei fod yn alluog i gymeryd rhan yn mrwydr Cattraeth, o.c. 603, mae yn anhawdd credu ei fod yn ben hynaif cyn o.c. 537. Yr oedd Maelgwn yn gydoeswr âg Arthur, er yn ieuengach nag efe. Bu farw oddeutu o.c. 566. Mae cyfeiriad arall at Gwrthmwl yn Rhif CXXI. [o'r Trioedd], ac yn ngweithiau Llywarch Hen; ond nid oes un hanes ar gael am dano ef na Bedwini. Y Lleithig oedd gorseddafaine, neu brif eisteddle y brenin yn ei balas. Yr Hyneif oedd sceneddwr yr hen Gymry. Yr oedd hynaf yn mhob cantref."—*Y Beirniad, Llyfr V., t. 63.*

Gwelir y dywed Stephens yn eglur yn y difyniad yna, mai "brenin Cernyw" oedd Arthur; ac felly hefyd y dywed y Proff. Rice Rees, yn y *Welsh Saints*, p. 105. Gan hyny, nis gwn ar ba sail y dywedir fod Stephens "wedi ei ddwyn i lenyddiaeth Gymreig *oddi allan*," os na olygir fod Cernyw "oddi allan." Tybiaf fod yn eglur mai am *Arthur y chwedlau* yr wyf fi yn traethu yn y tudalenau hyn, ac nid am y *gwir* Arthur o Gernyw.

“Mabinogi Cilhwch ac Olwen,” yn arwyddo perthynas; ac yr oedd Arthur yn cribo gwallt Cilhwch â “chrib aur a gwellaifâi ddolenau o arian;” a heliwyd y Twrch Trwyth er mwyn y crib, y gwellaif, a’r ellyn oedd rhwng ei ddwyglust. Canfyddir yr un chwedl yn Nennius, pan y cyhuddwyd Garmon Sant gan ferch Gwrtheyrn Gwrthenau o fod yn dad i’w phlentyn a genedlwyd gan ei thad ei hun, Gwrtheyrn. Cymmerth Garmon y plentyn, gan ddywedyd, “Mi a fyddaf yn dad iti, fy mab; ac ni’t hollyngaf ymaith nes y rhoddir i mi ellyn, gwellaif, a chrib, y rhai a roddi dithau i’t h dad cnawdol.”¹ Y mae’n dra thebyg, gan hyny, i G. ab Arthur gael llawer o’i ddefnyddiau a’i ddygwyddiadau mewn traddodiadau Cymreig; canys dywed ei hun fod gorchestion Arthur, ac eraill nas crybwyllir am danynt gan Gildas a Beda, “yn cael eu hadrodd gan lawer o bobl mewn modd difyrus ar dafod leferydd.”² Ond y mae “Breuddwyd Rhonabwy,” a “Mabinogi Cilhwch ac Olwen,” yn dangos bod y Cymry yn arfer ysgrifenu eu chwedlau hefyd er yn lled foreu; a dengys yr olaf, yn enwedig, eu bod yn medru eu cynllunio yn bur gywrain a dyddorol.

Nid hawdd gwybod pa bryd y dechreuwyd casglu ac ysgrifenu y chwedlau hyn gyntaf; ond ymddengys i hyny ddygwydd yn lled foreu; canys dywedir ar ddiwedd “Breuddwyd Rhonabwy,” “Ac herwydd hyn ni w’yr neb y breuddwyd, na bardd na gweledydd, heb lyfr, o blegid lluosog liwiau’r meirch, ac aml liwiau rhyfedd yr arfau, a’r holl arfogaeth, a’r mentyll costus, a’r meini gwerthfawr.” Yr oedd yn naturiol i’r chwedlonwyr, y rhai a elwir gan Lewis Glyn Cothi yn “ystoriwyr,”³ am eu bod yn myned o amgylch, fel y gellir casglu, i adrodd ystoriau difyr; yr oedd yn naturiol i’r rhai hyn wrth fynych adrodd y chwedlau, esgyn yn raddol oddi wrth yr “ystoria”⁴ fer a diaddurn, a’i helaethu yn barhaus, nes o’r diwedd iddi dyfu yn rhamant odidog a chelfyddydol. Fel yr oedd y chwedlau yn dyfod yn fwyfwy arferedig a chym-

¹ *Nen. Hist. Brit.*, C. xxxix. ² *Six English Chron.*, p. 89.

³ *Gwaith L. G. Cothi*, t. 77. ⁴ *Yr un*, t. 315.

meradwy, fe dröed o'r diwedd i ddwyn rhai elfenau estronol i mewn iddynt, gan eu cymmysgu â'r elfenau cenedlaethol. Yn y chwedlau hynaf, o darddiad Cymreig, y mae'r dychymmygwaith bob amser yn oruwchnaturiol. Ceir prawf o hyn ym Mabinogion "Pwyll," "Branwen," "Math," a "Manawyddan." Nid gwrhydri personol ydyw y rhyfeddodau yn y rhai hyn, namyn swyngyfaredd; a'r un elfen sy'n rhedeg trwy'r chwedlau prydyddol a'r rhyddieithol. Nis gallai dim fod ym mhellach o feddwl y Cymry na gwibfarchogiaeth,¹ gan nad oes le i yspryd anturiaethus yn ein cymmeriad cenedlaethol; a lle bynnag y cyfarfyddir â hyny, nis gellir bod ym mhell oddi wrth y nod trwy ei briodoli i darddiad estronol; a barn Stephens iddo ddyfod i'r chwedlau diweddaraf, megis ystoria "Owain," "Geraint," a "Pheredur," oddi wrth y Normaniaid.

Y mae'n hyspys mai un o brif elfenau y chwedlau Arthur-aidd yw gwibfarchogiaeth, gan eu bod yn llawn o "farchogion Arthur," a'u gorchestion; er hyny, digon priodol oedd i Stephens ofyn, "Ond o ba le y daeth Arthur?"² Ymdrechir ateb yr holiad yna yn fyr. Gwyddys nad yw Gildas na Beda yn crybwyll enw Arthur o gwbl, er bod y'blaenaf yn gydoeswr iddo, a'r olaf yn ysgrifenu ym mhen tua chant a hanner o flynyddau ar ol yr amser yr haerir ei fod yn cyflawni ei wrolgampau. Y mae'n hyspys mai un o olygwyr y gwaith a briodolir i Nennius a grybwyll ei enw gyntaf,³ ac a'i gwna yn arwr deuddeg o frwydrau, un o ba rai yn unig a grybwyllir gan Gildas a Beda.⁴ G. ap Arthur, yn y 12fed ganrif, a greodd ei dad, Uthr Bendragon, a'i fam, Eigr ferch Amlawdd Wledig; a'r un chwedlonydd doniol a genedlodd Arthur yn anghyfreithlawn, trwy swyngyfaredd Myrddin Ddewin, hanfod llawn mor ammheus ag Arthur y chwedlau ei hunan. Dyna'r lle y daeth Arthur o hono, yn ol y *chwedlau* hynaf yn ei gylch; ond y mae pob *hanes* yn gwbl ddistaw am dano, gan na wyddent ddim am y fath hanfod.

¹ Knight errantry. ² Stephens's Lit. Kymry, p. 415. ³ Ibid., p. 416.

⁴ Gildus § 26; Beda, Hist. Eccl. lib. 1., c. 16.

Ond er i olygydd chwedlonol Nennius ddwyn Arthur i'r maes, ar unwaith mewn gwisg arwr, ni chafodd groesaw gan lenorion ac ystoriwyr y genedl dros rai oesoedd ar ol ei greu; canys nid oes air o son am "Arthur ardderchog" golygydd Nennius ym marddoniaeth foreuol y Cymry; a chanfyddir yr un distawrwydd am yr arwr mawr chwedlonol yng ngwaith beirdd diweddarach. Dengys y beirdd, yn oed mor ddiweddar a'r 12fed ganrif, lawer mwy o bleidgarwch i Cadwaladr nag i Arthur. Yn wir, gellir casglu ar seiliau cedyrn fod y beirdd yn erbyn y chwedlau Arthuraidd, am eu bod yn gwybod nad oedd dim sail iddynt yn hanes y genedl. Crybwyllir brwydr Badon ddwywaith gan Cynddelw Brydydd Mawr, ond anfynych y dyry, hyd yn oed efe, ddim hynodrwydd i enw Arthur yn ei ganiadau; a pharhaodd y beirdd i osod eu hwynebau yn ei erbyn, nes y gorfodwyd hwy gan ragfarn y bobl i'w dderbyn. Gwyddai'r beirdd yn dda na chrewyd Arthur y chwedlau erioed yng Nghymru; a phan y bu raid iddynt ei dderbyn, yr oeddynt hwy yn para i'w gyfyngu i Gernyw, lle yr haera'r chwedlonydd mawr, G. ap Arthur, iddo gael ei genedlu trwy swyngyfaredd Myrddin Ddewin, a hyny ym mhell ar ol i'w gredinwyr edrych am dano o Gaerlleon. Y mae Cynddelw, ym mhen naw mlynedd ar hugain, o leiaf, ar ol i chwedl G. ap Arthur ddyfod yn hyspys, yn awgrymu at ogoniant blaenorol y Gelliwig. Prydydd y Moch, *pan oddi cartref*, a gymharai Rhys ab Gruffydd i Arthur; ond pan *gantref*, ni chymharai gwir arwr, Llywelyn ap Iorwerth, i'r gwron chwedlonol. Er bod y beirdd yn gwbl adnabyddus o'r chwedl, nid oeddynt yn rhydd i ddefnyddio enw Arthur hyd ym mhen cant a hanner o flynyddau yn ddiweddarach; a hyd yn oed y pryd hwnw, nid oedd ddim amgen na rhyfelwr godidog.¹ Gan hyny, y casgliad anocheladwy ydyw, nad ystyriai llenorion Cymru y rhamantau Arthuraidd yn ddim amgen na ffugchwedlau plentynaidd, pan oedd Lloegr a'r Cyfandir yn ddigon hygoel i'w derbyn fel gwir hanesion! Er bod yn ddilys ddigon mai fel ffugchwedlau o'r

¹ Stephens's Lit. Kymry, p. 461.

fath fwyaf diwerth ac estronol yr edrychai'r beirdd ar y rhantau Arthuraidd ; eto, yr oedd yn y wlad chwedlau eraill mwy cymmeradwy, am eu bod wedi eu llunio o draddodiadau cenedlaethol. Cymhwyswyd yr enw "Mabinogion" atynt oll yn ddiwahaniaeth, er yn lled foreu ; ond nid oedd hyny yn gwbl briodol. Trefnwyd hwy yn wreiddiol, yn ol Edward Lhwyd,¹ fel y canlyn :—

MABINOION.

Mabinogi Pwyll, Pendefig Dyfed.
Mabinogi Branwen, Ferch Llyr.
Mabinogi Math ab Mathonwy.
Mabinogi Manawyddan ap Llyr.
Mabinogi Taliesin.

BREUDDWYDION.

Breuddwyd Maccen Wledig.
Breuddwyd Rhonabwy.
Cyfrangc Lludd a Llefelys.

YSTORIAU.

Ystori Bown o Hamtun.²
Ystori Dared.
Ystori Saint Greal.
Ystori Gwlad Ieuan Fendigaid.
Ystori Idrain Amherawdyr.
Ystori Cilhwch ac Olwen.³
Ystori Owain ap Urien, neu Chwedyl Iarlles y Ffynnon.
Ystori Peredyr Fab Efrog.
Ystori i draethu mal yr aeth Mair i'r Nef.
Ystori Geraint Fab Erbin.

Cyhoeddodd yr Arglwyddes Charlotte Guest ddeuddeg o chwedlau, yn y fl. 1838, dan yr enw canlynol :—

"The Mabinogion, from the Llyfr Coch o Hergest, and other ancient Welsh Manuscripts, with an English Translation and Notes."—Y Mabinogion, o'r Llyfr Coch o Hergest, a hen Ysgriflyfrau Cymreig eraill, gyda Chyfeithiad Saesneg a Nodiadau.

Sylwa yr awdures alluog yn briodol, yn ei Rhagymadrodd i'w chasgliad, bod "i rai o'r Mabinogion ansawdd Gwib-farchogol,⁴ tra y dwg eraill wedd lawer hynach, o ran y moesau a ddarluniant, cystal ag arddull yr iaith yn yr hon y cyfansoddwyd hwynt. Gwahaniaetha y 'Mabinogion' hyn gym-

¹ Arch. Brit., pp. 255—265.

² "Ystori Bown o Hampton."—Llyfr Coch, t. 845.

³ Yr un, ond edid, ag "Ystori Cilhwch ap Cilydd," neu "Ystori y Twrch Trwyth." "Cilhwch, Cefader Arthur, ac un o'i Farchogion," &c.—Llyfr Coch, t. 810.

⁴ Chivalric.

maint o ran eu hansawdd, fel y gellir eu hystyried yn ddau ddosparth gwahanol, un yn anrhydeddu gwroniaid y Cylch Arthuraidd, tra y cyfeiriai'r llall at bersonau a dygwyddiadau cyfnod boreuach."¹ Dospartha Skene y chwedlau fel y canlyn :—

Y DOSPARTH HYNAF.

Mabinogi Pwyll Pendefig Dyfed.
Mabinogi Branwen Ferch Llŷr.
Mabinogi Manawyddan ap Llŷr.
Mabinogi Math ab Mathonwy.
Cyfrangc Lludd a Llefelys.
Ystori Cilhwch ac Olwen.
Breuddwyd Rhonabwy.

YR AIL DDOSBARTH.

Chwedyl Iarllles y Ffynnon.
Ystori Peredyr ap Efrog.
Ystoria Geraint Fab Erbin.
Breuddwyd Macsen Wledig.²

Dywed Skene, fel Stephens, er i'r chwedlau hyn gael eu chhoeddi wrth yr enw "Mabinogion," mai at y pedair blaenaf y cymhwysir yr enw yn y "Llyfr Coch," y rhai, mewn gwirionedd, sy'n gwneud un rhamant. Dyma gyfieithiad o'r hyn sydd yng Nghynnwysiad y "Llyfr Coch" am y pedair chwedl dan sylw :—

XX. MABINOGI.

Llyfr a elwir Mabinogi a ddosperthir yn bedair rhan :—Rhan I. Ystori Pwyll, Pendefig Dyfed, neu sir Benfro.—Ei wrolgampau, ei anturiaethau, &c., wrth ennill ei gymmones. T. 710.

Rhan II. Ystori Bran Fendigaid, Brenin Ynys Brydain.—Yn croesawu Matholwch, Brenin yr Iwerddon, yr hwn a brioda ei chwaer.—Ei ryfelgyrch i'r Iwerddon i ddial y camwri a wnaed i'w chwaer.—Yn marw yno trwy wenwyn.—Ei ben, ar ei ddymuniaid, yn cael ei gladdu yn Nhŵr Llundain. T. 726.

Rhan III. Ystori Manawyddan, Cefnderw Caswallon, Brenin Brydain, yn cynwys ei wrolgampau, ei anturiaethau, &c. T. 739.

Rhan IV. Ystori Mathonwy, Pendefig Gwynedd, hefyd am Gilfaethwy, Gwydion, ac eraill.—Gwrolgampau Gwydion trwy gyfrwng swyngyfaredd, &c., &c. T. 751.³

Arwydda y cynnwysiad yna yn eglur mai fel *un chwedl*, neu *ramant*, yn *bedair rhan*, yr ystyrid y "Mabinogi" uchod. Dywed Skene na ddygwydd enw Arthur ond yn y ddwy chwedl olaf o'r dosparth hynafol, sef yn "Ystori Cilhwch ac

¹ Guest's Mabinogion, vol. i., Pref., p. v. ² Skene, vol. i., pp. 27, 28.

³ Cambro-Briton, vol. II., p. 106.

Olwen," ac ym "Mreuddwyd Rhonabwy;"¹ o blegid hyny, dododd Stephens y ddwy, yn briodol, yn yr ail ddosparth. Dosparthiad Stephens sydd fel hyn :—

Y DOSPARTH HYNAF.

Mabinogi Pwyll, Pendefig Dyfed.
Mabinogi Branwen Ferch Llyr.
Mabinogi Manawyddan ap Llyr.
Mabinogi Math ab Mathonwy.
Breuddwyd Macsen Wledig.
Cyfrangc Llydd a Llefelys.
Mabinogi Taliesin.²

YR AIL DDOSPARTH.

Ystori Cilhwch ac Olwen.
Breuddwyd Rhonabwy.
Owain a'r Llew [Chwedyl Iarllles y Ffynnon].
Ystoria Geraint Fab Erbin.
Ystori Peredur ap Efrog.
Ystori Saint Greal.³

Heb law bod trefniad Stephens yn wahanol, gwelir bod ganddo ef ddwy chwedl nad ydynt gan Skene. Y gyntaf yw "Mabinogi Taliesin," yr olaf yn ei ddosparth hynaf, fel y gwelir, yr hon yw yr olaf yn y drydedd gyfrol o gasgliad yr Arglwyddes Guest. Yr ail sydd gan Stephens yn ychwanegol yw "Ystori Saint Greal," yr hon a ddyry yn olaf yn ei ail ddosparth. Ceir hon yn nghasgliad yr Hengwrt, fel y gwelwyd eisocs; ond nid ydyw yng nghasgliad yr Arglwyddes Guest. Rhamantau Arthuraid ydyw'r chwech sydd yn ail ddosparth Stephens, yr hwn a ddywed bod gwahaniaeth yn ansawdd chwedlau hyd yn oed y dosparth yma. Gesyd "Saint Greal" lys yr arwr Arthur yn Camelot, Cernyw; ond "Breuddwyd

¹ Skene, vol. 1., p. 28.

² Mewn cyssylltiad â hyn, dywedir yn y feirniadaeth fel y canlyn :—

"Tudal. 456 [ysgrifenedig] :—Ysgrifena Llywelyn Vychan gan ddilyn Stephens, am *Fabinogi Taliesin*; ond byddai yn dda genym wybod beth a feddylia, gan nad yw chwedl Taliesin, a gyhoeddwyd gan Arglwyddes Charlotte Guest gyda'r amcan o wneyd nifer ei chwedlau yn rhif gwastad, i'w gosod yn yr un dosbarth a'r lleill."

Y cwbl a *feddylirun* pan yn ysgrifenu yr hyn sydd yn y tudalen hwn (456), fel y gwelir, oedd, bod *Stephens* wedi doddi "Mabinogi Taliesin" yn olaf yn ei Ddosparth Hynaf; a'r Arglwyddes Guest wedi doddi yr un chwedl yn olaf yn y drydedd gyfrol o'i chasgliad. Am ansawdd y chwedl hon, yr hyn a *feddyliaf* ydyw, ei bod yn un ddiweddar mewn cymhariaeth i'r hen chwedlau. Nid yw llythraeth na geirwediad y rhan o honi sydd yn y *Myv. Arch.* t. 22, odid yn ddim hynach na Iolo Morganwg a'r Dr. Pughe, golygwyr yr argraffiad cyntaf o'r gwaith hwnw.

³ Stephens's Lit. Kymry, p. 418—417.

Rhonabwy," ac "Ystori Cilhwch ac Olwen," a gytunant i'w ddodi yn y Gelliwig yng Nghernyw ; a "Chwedyl Iarles y Ffynnon," ac "Ystori Peredyr," a enwant Gaerlleon. Gwahaniaetha "Iarles y Ffynnon" a "Geraint" oddi wrth y tair eraill mewn amryw bethau craill hefyd. Amgylchynir Arthur yn y ddwy a nodwyd gan lu mawr o farchogion, tra nad yw ei weinyddwyr mor lluosog ag yn y tair eraill, lle y priodolir y gorchestion i wroniaid unigol, ac nid i undeb o honynt ; ac y mae dyryswch a chymmysgedd y blaenaf yn cael eu dwyn i drefn a dosparth yn yr olaf. Yn "Cilhwch" a "Rhonabwy," hela Arthur y "Twrch Trwyth" mewn undeb â'i farchogion, ac ymddarpar i ymladd lawlaw yn erbyn Ossa Gyllellfawr ; ond yn "Iarles y Ffynnon" a'r lleill, ymherawdwr ydyw efe, yn gorphwys ar ei lwyfan. Yn y blaenaf, gweithreda'r marchogion mewn undeb â'u gilydd ; ond yn yr olaf y mae gwibfarchogiaeth y rhamant addfetach yn ei lawn nerth. Gellir penderfynu oddi wrth hyn mai "Cilhwch" a "Rhonabwy" yw'r chwedlau boreuaf o'r dosparth Arthuraidd, y rhai a gyfansoddwyd yn benaf, fel yr ymddengys, o draddodiadau Cymreig, yn fuan ar ol i Arthur gael ei ddyfeisio, yr hwn a ddygwyd i mewn i'r defnyddiau brodorol cyn iddo lawn dyfu i'w faint dyfodol ; ond ymddengys i'r lleill gael eu cyfansoddi yn ddiweddarach, wedi i'r chwedl Arthuraidd ddyfod i'w llawn rwysg yn rhamant fawr G. ab Arthur, yn y 12fed ganrif.

Dwg Stephens amryw resymau i brofi mai yn Llydaw, gan y Cymry a ymfudasant yno o dro i dro, rhag gorthrwm yr Anglo-Sacsoniaid a'u hollynwyr, y dyfeisiwyd y rhamantau Arthuraidd ar y dechreu, y rhai oedd wedi tyfu i gryn addfedrwydd erbyn amser Rhys ap Tewdwr, yr hwn a ddaeth oddi yno yn y fl. 1077, i hawlio ei dreftadaeth yn y Deheubarth ; a dywedir mai efe "a ddug gydag ef drefn y Ford Gron i Gymru, lle yr oedd wedi myned ar goll ac anghof, a chyfarwyddyd arni parth prydyddion a gwŷr wrth Gerdd Dafod, fal y bu yng Nghaerllion ar Wysg gan yr Amherawdwr Arthur."¹ Ym-

¹ Iolo MSS., t. 215.

ddengys bod Iorwerth Fynglwyd yn credu'r chwedl yma, neu o leiaf, y mae'n cyfeirio ati mor foreu a rhwng y fl. 1460 a 1500, gan ddywedyd,—

Defodau difai ydynt,
Rhys fab Tewdwr, da'r gŵr gynt,
A rhól Arthur o bur barch,
Da hefyd a dihafarch.¹

Y mae yn eglur wrth hyn y tybid yn foreu mai o Lydaw y cludwyd y defodau Arthuraidd : ond y syndod ydyw nad oes dim gweddillion rhamantaidd ym meddiant y Llydawiaid. Cyfieithiad o gyfieithiad Scisnig yr Arglwyddes Guest o'r "Mabinogion," ydyw'r chwedlau Ffrengig a gyhoeddwyd gan y Comte de Villemarque.² Ymddengys hefyd fod amryw o'r hen ramantau Cymreig wedi colli. Crybwyll y beirdd yn fynych am *Creirwy* a *Garwy*; ond nid oes genym ni hanes o honynt. Cymharir rhianod Cymreig yn fynych i Elveri; ond ni wyddys ddim am dani, heb law y dywed traddodiad mai merch ydoedd i Urien Rheged.³ Y mae y rhai hyn, ac eraill cyffelyb, ond odid, ar goll.

Ychydig iawn a wyddys am awduron y rhamantau Cymreig : yn wir, y mae'n amheus fod unrhyw awduron addefedig a hyspys i'r rhai boreuaf o honynt. Tebycach ydyw i'r chwedlau gael eu trosglwyddo, dros fwy o amser nag a wŷyr neb, o enau i enau, cyn cael eu hysgrifenu yn drefnus yn y "Llyfr Coch," a llyfrau eraill o gylch yr un oedran, a rhai diweddarach, ond odid. Gan fod pob chwedl yn cynnyddu wrth dreiglo ym mlaen trwy ail adroddiad, y mae'n annichonadwy weithian taro wrth y rhieni cyntaf.

O herwydd yr un peth, y mae'n llawn mor anhawdd penderfynu eu hamseriadau cyntefig. Ymddengys wrth Farwnad Cynddelw i Owain Gwynedd, fod "Ystori Cilhwch [Culhwch?] ac Olwen," yn ddigon hyspys i'r awdur mor foreu a chanol y 12fed ganrif;⁴ ac y mae cyfeiriad at hela'r "Trych [Twrch] Trwyth" yn "Ngorchan Cynfelyn" sydd yn "Llyfr Aneurin,"⁵ a ysgrifenyd tua diwedd y 13edd ganrif;⁶ a dywed Stephens

¹ Iolo MSS. t. 319.

² Stephens's Lit. Kymry, p. 423.

³ Iolo MSS., t. 71.

⁴ Myv. Arch., t. 151.

⁵ Skene, vol. ii., p. 94.

⁶ Ibid., vol. i., p. 3.

fod un o brif ddygwyddiadau "Cilhwch ac Olwen" wedi ei gerfio ar un o fathodau Cunobelinus¹ (Cynfelyn), yr hwn y dywedir ei fod yn ei flodau o gylch amser genedigaeth ein Harglwydd. Y mac'n dra thebyg mai damwain oedd hyny, os amgen, tebycach ydyw i ddygwyddiad y chwedl gael ei lunio oddi wrth y cerfiad, nag i'r cerfiad gael ei gymmeryd oddi wrth ddygwyddiad y chwedl, gan nad ydyw honno yn un o chwedlau hynaf y Cymry, fel y prawf ei chyfeiriadau at Arthur. Y mac "Breuddwyd Rhonabwy" yn ddiweddarach, o angenrhaid nag amser Madog ap Meredydd, tywysog Powys, enw yr hwn sydd ar ddechreu'r chwedl, yr hwn a fu farw yn y fl. 1160.² Fe allai i'r chwedl hon gael ei hysgrifenu ym Mhowys, tra y tybir i "Iarlles y Ffynnon," "Geraint," a "Pheredur," gael eu hysgrifenu ym Morganwg, a'r lleill yn Nyfed. Y mac chwedl hefyd ar gael a elwir "Breuddwyd Gruffydd ap Adda ap Dafydd," yr hwn oedd fardd o Bowys, medd Dafydd ap Gwilym yn ei farwnad iddo, ac yn ei flodau fel y gwelwyd, o'r fl. 1330 i 1360. Un arall, fel y crybwyllwyd o'r blaen, y priodolir amryw chwedlau iddo, oedd Ieuan Fawr ap y Diwlith; megis, "y Grealau, a'r Mabinogi, a Llyfr y Naw Gloes, a'r Pedwar Addurn ar Hugain, a Llyfr y Dammegion,"³ a llawer llyfr arall." Priodolir "Mabinogi Taliesin" i ddau awdur. Un traddodiad a'i dyry i Tomas ap Einion Offeiriad o wechelyth Gruffydd Gwyr; a dywedir hefyd, fel y crybwyllwyd o'r blaen, mai efe a wnaeth "Rwmawnt am Elphin ab Goddnou, a Rhun ap Maelgwn, a Gwaith Pair Ceridwen." Y llall y priodolir "Mabinogi Taliesin" iddo yw Hopcin Twm Phylip, o'r Gelli Fid, yr hwn oedd yn ei flodau yn y fl. 1572;⁴ ond barn Stephens mai copïwr o waith Tomas ap Einion oedd Hopcin.⁵

Wrth ystyried a chymharu pob peth sydd ar gael am y "Mabinogion" a'r "Chwedlau" Cymreig, ymddengys yn

¹ Stephens's Lit. Kym., p. 424. • ² Giles's Hist. Brit., vol. i. p. 70.

³ Y mac amryw "Dammegion" a "Chwedlau" yn *Iolo MSS.* t. 154—194; ond y mac orgraff a geiriadaeth y rhai hyny yn profi nad ysgrifenydd hwy cyn y 16fed ganrif; eithr yr oedd Ieuan Fawr ap y Diwlith yn buchedlu tua dau gan mlynedd cyn hyn.

⁴ Myv. Arch., t. 904. ⁵ Stephens's Lit. Kym. p. 426.

ddigon eglur i'r ysgrifenydd mai dernynach digyssylltiad, ar lafar gwlad, oeddynt braidd oll ar eu dechreu ; ac mai pan yr ysgrifenydd hwy yn y "Llyfr Coch," a llyfrau eraill, tua dechreu y 14edd ganrif, ac ar ol hyny, y gwnaed yn rhamantau a chwedlau cysson a rheolaidd gan y mynachod Pabaidd ; a hyn ydyw ei brif reswm dros eu cyfleu ym mysg llenyddiaeth ryddicithol hynaf cyfnod y testyn.

Cynnwys y "Llyfr Coch," heb son am lyfrau eraill diweddarach, rai chwedlau nas nodir gan E. Lhwyd, Stephens, na Skene, yn eu rhestrau a fuant dan sylw eisocs, megis y rhai canlynol :—

Prophwydoliaeth Sibli Ddoeth Ferch Priam a Hecuba, o Gaerdroiau.¹

Prophwydoliaeth yr Eryr yng Nghaersepton ; neu, yn ol eraill, un a'i enw *Aquila*, yng Nghaersepton, neu Shaftesbury, tra yr adeilidid mur y ddinas.

Pan aeth Llu i Lychlyn, a manau eraill.

Fel yr oedd y Cymry yn dyfod yn fwyfwy hoff o chwedlau, yn enwedig ar ol dechreu ymgymmysgu â'r Normaniaid, dengys y "Llyfr Coch" i amryw o rai estronol gael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Ceir y rhai canlynol ynddo :—

Ystoria Dared, neu Ystoria y Rhyfel Droianaidd, o'r cyfieithiad Lladin, a briodolir yn gyffredin i Cornelius Nepos.²

Ystoria Charlymaen :³ ei orchestion yn yr Hispaen *contra Paganos et Inimicus Jesu Christi* [yn erbyn y Paganiaid a Gelynyon Iesu Grist]. A gyfieithiwyd o'r Lladin i'r Gymraeg gan Madog Selyf, ar gais arbenig Gruffydd fab Meredydd ap Owain ab Gruffydd fab Rhys.

Ystoria Charlys : ei daith i Jerusalem, ac oddi yno i Constantinople. A ysgrifenydd ar gais yr Archesgob Turpin. Annogir ef [Charlys] gan Batriarch Jerusalem i wneud rhyfel *contra Paganos et inimicos Jesu Christi* [gwel uchod].

Ystoria rhai o orchestion yr Iarll Roland, nai Siarlymaen, yn yr Hispaen, &c. *Imago Mundi*, neu Delw y Byd. Darluniad Daiaregol o Dair Khan y Ddaiar.⁴ Ystoria Boun o Hampton. Cyfieithiad ydyw hon, mewn hen brydyddiaeth, o "Ystori Syr Bevis o Southampton ;" yr hwn a fucheddai yn amser y Brenin Edgar, rhwng y fl. 959 a 975.⁵

¹ Wms's. Lect., part v., p. 276.

² Priodolwyd y cyfieithiad yma, fel arfer am y chwedlau, i wahanol bersonau. Crybwyll Ed. Lhwyd of fel gwaith G. ab Arthur (Arch. Brit., p. 265). Enwir Owain Glyndwr hefyd fel ei awdur, Iolo Goch, a Syr Hywel y Pedolau, brawdmaeth Edward II.

Dares, neu Dared ydoedd Offeriad Hephaestes (Vulcan), yn Nhroia, y crybwyllia'r "Illiad" am dano mewn hynafiaeth, cyfansoddiad y credir ei fod yn llawer hynach na'r caniadau Homer-aidd. Y mae'r gwaith hwn, pa un, yn ddilys ddiagramheu, ydoedd gyfansoddiad ffugresymwr (*Sophist*) wedi colll ; ond y mae gwaith Lladin ar ddinysr Troia, yn 44 pennod, a elwir '*Daretis Phrygi de Exidio Troiae Historia*,' yn honni bod yn gyfieithiad o waith Dares, gan Cornelius Nepos, cydoeswr Cicero. Ond y mae'n amlwg fod y gwaith Lladin o darddiad llawer diweddarach ; a thystia rhai iddo gael ei ysgrifenu mor ddiweddar a'r 12fed ganrif.—*Smith's Class. Dict. s.v. "Dares."*

³ Siarlymaen—Charlemagne.

⁴ Dywedir mewn lle arall mai cyfieithiad ydyw hwn o "Imago Mundi" Henry o Huntingdon. Ymddengys bod tri chyfieithiad gwahanol o hwn yn y "Llyfr Coch." T. 502, 967, 1020.

⁵ Yr un "Ystoria" yw hon ag "Ystori Boun o Hamton" yn rhestr Ed. Lhwyd.

Cymdeithas Amlyn ac Amuc. Amlyn oedd Fab yr Iarll Alvern, yn Germania ; ac Amuc oedd Fab yr Ardalydd Bergian, Marchog Ffrengig ; eu Gorchestion, &c. Cwmpodd y ddau mewn rhyfel dan Siarlymaen yn erbyn Desides, Brenin Lombardy.

Barn Stephens ydyw mai'r Normaniaid a wnaethant y chwedlau Cymreig syml yn rhamantau aruthrol ; ac y mae'n dra sicr ei fod yn gywir ; canys y mae rhai pobl, fel y sylwa yn briodol, a allant ddychymmyg, ond nas gallant welläu a threfnu ; tra y mae eraill a allant welläu a threfnu, ond nas gallant ddyfeisio. Perthyn y gynneddf gyntaf i'r Cymry, tra y perthyn yr ail i'r Normaniaid. Cynneddf y naill oedd creu, a chynneddf y lleill oedd eistedd ar y tryblith afluniaidd, a'i ddwyn i drefn a dosparth. "Dynwardwr oedd y Normaniad uwch law pawb," medd un ysgrifenydd galluog, "ac am hyn efe oedd y gwelläwr ; a chan mai efe oedd y mwyaf ystwyth, goddefol, a chyfaddasol o holl drigolion y ddaiar, efe a ddaeth yn wareiddiwr a rheolwr i ba le bynnag y'i bwriwyd. Yn Ffrainc, daeth yn Ffrangcwr ; ym Mrydain, yn Frytaniad ; yn yr Ital, yn Italiad ; yn Novogorod, yn Rwssiad. Yn Norway yn unig, lle y parhaodd y Norwegiaid, y methodd gyflawni ei genadwri ddyrchafedig. Pa le bynnag y dyfeisiai ei gymmydogion rywbeth gwerth ei fawrygu, gwthiai y Normaniad craff ei drwyn i mewn iddo yn ebrwydd. Os dyfeisiodd Sisily well dull o helm, tarawodd y Normaniad hi ar unwaith am ei ben. Os anadlodd y Moor neu'r Llydawiad grebwyll a darfelydd i'w gân, mabwysodd y Normaniad y gerddoriaeth yn ddiymaros."¹ Ar fyr, dengys yr ysgrifenydd craffus yma mai yspeiliwr ymarferol oedd y Normaniad bob amser. Yr oedd wrth natur yn fasnachwr ; yn caru antur, ac yn hoffi elw ; yn greadur cymdeithasgar, a hoff o fyntioedd. Byddai yn wastad yn ymgymmysgu â'r bobl y deuai i'w plith ; trwy briodasau, trwy fenthycu eu hiaith, mabwysiadu eu harferion ac ymgymmodi â'u cyfreithiau. Ceir profion hynod o hyn yn ymddygiadau y Normaniaid a ddaethant i Gymru. Ar un llaw, canfyddir Nest, ferch Rhys ap Tewdwr, yn priodi Gerald

¹ The Examiner (London), April 1, 1848.

de Windsor; Nest, ferch Trahaern ap Caradog, yn priodi Bernard de Newmarch; Nest, ferch Iestyn ab Gwrgant, yn priodi Robert Fitz-Hamon; Marred (Margared), ferch Llywelyn ap Iorwerth, yn priodi John de Breos; ac un arall o ferched y tywysog hwnw yn priodi Reynold de Bruce. Eto, ar y llaw arall, priododd Dafydd ap Owain Gwynedd ferch Henry II.; Llywelyn ap Iorwerth, Joan, chwaer y Brenin John; a Llywelyn ap Gruffydd Eleanor de Montfort. Cymmerth Gruffydd, mab hynaf yr Arglwydd Rhys, Mallt, neu Matilda, merch William de Bruce, yn wraig briod; a phriododd ei frawd, Rhys Gryg, ferch yr Iarll Clare.

Wrth ystyried yr holl bethau hyn, canfyddir ar unwaith y rhaid bod y Normaniaid wedi dylanwadu yn helaeth ar ein llenyddiaeth, cystal ag yr oedd honno yn dylanwadu arnynt hwythau, fel y dywed yr *Examiner*. Yn ol y darlun cywir uchod o gymmeriad y Normaniaid, nid hwynt-hwy oedd dyfeiswyr ein llenyddiaeth ramantaidd; ond diwygiasant a helaethasant lawer ar yr hyn a gawsant wedi ei ddychymmyg yn barod yn Llydaw a Chymru. Ar y cyntaf, boddlonai y mydryddwyr¹ Normanaidd ar addurno'r traddodiadau Celtaidd; ond buan y llusgasant freninoedd Ffrainge i mewn, a Siarlymaen yn arweinydd iddynt; ac yn y diwedd rhestrasant yr hen wroniaid Groegaidd i'w gwasanaeth, fel y prawf "Ystori Dared," a'r cyffelyb.

Elfen gref arall a gafodd effaith ddofn a dymunol, ar y cyfan, ar ein rhamantau tua dechreu cyfnod y testyn, pan y dechreuwyd eu hysgrifenu, oedd yr elfen grefyddol ac uch-awdurol a ddygwyd i mewn iddynt, gan yr offeiriaid a'r mynachod Pabaidd, megis y rhamantan Arthuraidd, a'r rhai a elwir "Bucheddau y Saint." Cred yr ysgrifenydd yn gadarn bod llythyr-aeth a geiriadaeth y rhamantau a nodwyd olaf, yn profi yn eglur mai tua dechreu y cyfnod hwn yr ysgrifenydd hwynt; megis "Buchedd Beuno Sant;"² "Buchedd Dewi Sant;"³ "Buchedd Catrin Santes;"⁴ a "Buchedd Margaret Santes."⁵

¹ *Treuveres, Trouveadores.*

² *Lives of the Cambro British Saints*, p. 13.

³ *Ib.* p. 102., gwel esamp! o hwn yn t. 101, o'r gwaith hwn. ⁴ *Ib.* p. 211. ⁵ *Ib.* p. 210.

Os cymmer y darllenrydd y drafferth i gymharu llythraeth yr hen chwedlau yna, megis yr hyn ddyfynwyd eisoes o Fuchedd Dewi, â llythraeth y 14edd ganrif a'r 15fed, y rhoddwyd esamplau byrion o honi yn y Ben. I., t. 14, o'r gwaith hwn, credir y cenydd ar unwaith nad ysgrifenyddwyd y "Bucheddau" dan sylw yn ddim boreuach na'r canrifoedd hyn, os cyn foreued. Y mae'n dra sicr mai yr elfen grefyddol a ddygwyd i'n chwedlau a'n rhamantau ni, fel y crybwyllwyd, ydyw yr achos eu bod yn rhagori cymmaint ar rai cenedloedd eraill, o ran lledneisrwydd a gweddeidd-dra. Tra y mae rhamantau brodorol cenedloedd y Cyfandir yn llawn creulondeb, twyll, aflendid, a phob dyhirwch, dengys ein "Mabinogion" a "Bucheddau" ein "Saint" ni, fod gan y Cymry y parch mwyaf i ddiweirdeb a chrefydd; bod enw da, a sefyllfa ddyrchafedig eu rhianod yn gyssegredig yn eu golwg; a bod eu pendefigion yn hoff o lenyddiaeth, ac yn cyflwyno eu hamser, eu talentau, a'u cyfoeth i ddiwyllio, cyfarwyddo, a gwareiddio eu deiliaid.

Pa wedd bynnag, dengys ein hen ganiadau fod y beirdd a'r mynachod Pabaidd yn dra chroes a gelydol i'w gilydd; a hyny, fel yr ymddengys, o herwydd eu bod yn gydymgeiswyr am gymmeradwyaeth y genedl, yn hytrach na chymmeryd "Cymmun gan ysgymryn fyneich," fel y gwelwyd, yr oedd yn well gan awdur "Cyfoesi Myrddin a'i Chwaer," fod heb gymmun o gwbl; ac y mae'n eglur fod yr un casineb yn para yn amser Cynddelw Brydydd Mawr,¹ ac yn llawer diweddarach. Ond erbyn dechreu cyfnod y testyn, yr oedd yr Eglwys Babaidd wedi dyfod i uwchder ei gogoniant a'i hawdurdod yng Nghymru, fel ym mhob parth arall o Ewrop, nes yr oedd y beirdd yn gorfod rhoi ffordd; ac yn wir, yr oeddynt hwy, erbyn hyny, fel y prawf eu gwaith, yn llawn mor Babaidd a'r mynachod eu hunain. Yr oedd yr Eglwys weithian, er mwyn cyrhaedd ei hamcanion ei hun, yn ymroi i wellau cymdeithas.² Ymgymmysgai â phob peth, heb lysu dim; ac yng

¹ Myv. Arch., t. 190.

² Robertson's Hist. Scotland, Book II.

Nghymru, fel holl wledydd cred ar y pryd, yr oedd syniadau, teimladau, ac ymadroddion duwinyddol yn ymrithio ym mhob peth, ac ym mhob man ; ac ym mhlith pethau eraill, y mae'r "Mabinogion," yn enwedig y rhamantau Arthuraidd, fel "Bucheddau y Saint," yn orlawn o honynt ; yr hyn sydd brawf amgylchiadol pur gryf, heb son am brofion penodol sydd ar gael, mai Eglwyswyr oedd awduron y rhan fwyaf o'r rhamantau hyny.

Yr oedd "gair cysswyn" y beirdd, "Y gwir yn erbyn y byd," yn hanfodol wrthwynebus i lenyddiaeth ffugiol ; ac am hyny ni cheir nemawr o grebwyll a darfelydd yng nghaniadau yr hen feirdd ; a gellir casglu bod y beirdd rheolaidd yn edrych gyda dirmyg, dros oesau lawer, ar yr "ystorïwr," neu'r chwedlonydd. Dichon mai'r teimlad yma a barodd i'r chwedlonwyr gael eu galw yn "ystorïwyr," a'u cynnyrchion yn "Fabinogion," sef chwedlau *mabanaidd* neu *blentynnaidd*, gan arwyddo bod barddoniaeth yn orchwyl i feddyliau uchawdurol. Ond fel yr oedd archwaeth lenyddol y genedl yn coethi, yr oedd creadigaethau y dychymmyg yn dyfod yn fwyfwy cymmeradwy a gwerthfawr yn ei golwg. Canfu'r mynachod craffus hyn ; a chan na fynnai'r beirdd defodol ddim dychymmyg neu ffug yn eu caniadau, ymrôdd amryw o'r Eglwyswyr, a hyny yn bur llwyddiannus, i borthi awydd cynnyddol eu cydwladwyr, trwy gynnyrchu ffugebau a rhamantau gorchestol mewn rhyddiaith, y rhai a alwai'r beirdd, fel y crybwyllwyd, yn "Fabinogion" ac "Ystorïau." "Am hyny," medd Iolo Morganwg, "y mae'r holl ysgrifeniadau Cymreig ffugiol, megis hanes Geoffrey [G. ab Arthur], rhamantau, gweithredoedd yr ofergoel Pabaidd, &c., mewn *rhyddiaith* ; ac nid ymddangosodd dim o'r fath mewn *prydyddiaith*, hyd o gylch diwedd y 14edd ganrif, neu ddechreu y 15fed, pan y cyfarfyddir â chrybwyllion a chyfeiriadau damweiniol at y chwedl Droianaidd, a champau y dwyll offeiriadaeth Babaid."¹ Ymddengys i'r archwaeth at greadigaethau y dychymmyg dyfu mor gryf yn y wlad

¹ Willams's (Iolo) Poems, vol. II., p. 223.

erbyn amser Lewis Glyn Cothi, fel yr oedd y *Beirdd* yn gorfod cyfaddef bod yr "Ystoriawr" yn ail i'r "bardd" ei hunan, ac o flaen y "teuluwr." Hyn sydd i'w gasglu, fel y tybia yr ysgrifenydd, oddi wrth y pennill canlynol :¹—

Tri ffrwythlawn gerddor a ragorant ;
Un yw *bardd* ei hun ac a henwant ;
Ail yw *ystoriawr* ac a alwant ;
Trydydd *teuluwr* cywydd os cânt ;
A'r tri hyn â'u ffyn ar ffyniant dewin,
Aur a gwin gan lin Godwin a gânt.²

"Pe gorfodid fi i benderfynu rhwng y *Beirdd* a'r *Ystoriawr*," medd Stephens, "byddai'r dewisiad yn y modd mwyaf dibetrus o blaid y 'Mabinogion.' Y mae'r canïadau barddol yn werthfawrocach fel cofnodau cydamserol, gan eu bod yn fanylach ; ac, mewn gair, yn fwy 'defnyddiol ;' ond y chwedlau a ddangosant fwyaf o feddwl a theimlad yr amseroedd ; ac y maent y dydd heddyw yn fwy darllenadwy a dyddorol. Nis gall cynlluniau celfyddydol, a ddodant farnau personau unigol a chymdeithasau ar y meddwl, y rhai a benodant reolau i'r archwaeth a'r feirniadaeth, ac a honnant iddynt eu hunain bob perffeithrwydd ; nis gall y cyfryw gynlluniau fod yn ddarlun o yspryd yr amseroedd : rhaid eu bod yn wahanol i osodiadau natur ; a thueddant i'w suddo yn is, yn hytrach na'u dyrchafu yn uwch, na mesur cyffredin dynoliaeth. Y fath ydoedd *Barddas* ; yr hon, gan fod ar ddidol oddi wrth gymhellion natur, ac yn groes iddynt, a ymddirywiodd i ddarluniad oer, gan mwyaf, o syniadau cyffredin yr amseroedd, gan fesur galluoedd meddyliol â rheol a chwmpawd, a bod yn amddifad o fywyd, nwyfiant, a chywirdeb."³

Wrth ganfod hyn, neidiodd y mynachod a'r offeriaid Pabaidd i'r adwy, i ddarpar y blasusfwyd a garai meddwl deffröedig y genedl ; a chwareu teg iddynt, cymmysgasant y cwbl, yn oed y dychymmygion gwylltaf a mwyaf rhamantus, â syniadau llednais a chrefyddol. Yr oedd yn oed Arthur

¹ Y mae Stephens yn tynu casgliad gwahanol oddi wrth ymadroddion Lewis, ac yn tybied mai diystyru yr "ystoriawr" yr ydoedd (Lit. Kymry, p. 434) ; ond barned y darlennydd drosto ei hun.

² Gwaith L. G. Cothi, t. 77. ³ Stephens's Lit. Kymry, p. 434.

leol Marc y Meudwy yn cludo "delw Mair ar ei darian," yr hyn a arwyddai barch i ddefodau crefyddol yr oes; ac yn nwyllaw ein chwedlonwyr diweddarach, daeth yr un Arthur, nid yn unig yn ymherawdwr ardderchog, ac anorchfygadwy, ond hefyd yn Gristion duwiol, yn waddolwr haelionus crefydd, ac yn adeiladydd llu o eglwysydd mawrion ac ysplenydd. Prawf hyn, a lluaws o'r cyffelyb, mai eglwyswyr Pabaidd oedd addurnwyr penaf ein prif ramantau. Y mae hyd yn oed eu henwau yn gyssylltiedig âg amryw o'n chwedlau mwyaf dyddorol, tra y mae ol eu bysedd i'w weled yn amlwg mewn llawer eraill. Prin nad afraid crybwyll mai Mynach oedd G. ab Arthur, awdur ein chwedl hanesyddol fawr, "Brut y Breninoedd." Gwelwyd hefyd mai Llywelyn *Offeiriad* oedd awdur "Chwedyl y Seithnyn Doeth;" ac y mae'n eglur mai cynnyrch eglwysig, o'r cyfnod rhamantaidd yma, yw yr "Awdyl Fraith."¹ Gellir casglu hyn oddi wrth dôn y cyfansoddiad, ei gyfeiriad at yr "afrllad" cyssegredig, y "penyd," ei ddull Lladinaidd, a'r chwedl am yr haniad Troianaidd. Hefyd, gan mai ar archiad Archesgob, sef Turpin, fel y gwelwom, yr ysgrifenydd "Ystoria Charlys," y mae sail i gasglu mai offeiriad neu fynach oedd awdur y chwedl honno hefyd; heb son mai "yn erbyn y Paganiaid a gelynon Iesu Grist" yr oedd Siarllys, a'i nai Roland, yn ymladd y rhan fwyaf o'u rhyfeloedd. Y mae yr un argraff fynachaidd i'w gwled yn amlwg, yn oed yn enw "Ystori Gwlad Ieuan Fendigaid;" a'r "Ystori i draethu mal yr aeth Mair i'r Nef."

Ond o'r holl chwedlau mynachaidd, yr hynotaf, ond odid, ydyw "Y Seint Greal," hanes led helaeth am yr hon a roddwyd eisoes, yng nglŷn â hanes ei chyhoeddiad argraffedig, o Ragymadrodd ei chyhoeddwr a'i chyfieithydd i'r Saesneg, y Parch. R. Williams; o'r hon hefyd y rhoddwyd amryw ddi-fyniadau.² Nodir yma ychydig eto o syniadau ysgrifenywyr eraill am dani.

Tybiai Ioan Tegid mai *Llyfr Cyfrinion y Derwyddon* ydoedd, heb gofio, ond odid, nad oedd gyfreithlawn i neb ysgrifenu y

¹ Myv. Arch., t. 74.² Gwel t. 62—72 o'r gwaith hwn.

cyfrinion hyny; a bod gwneuthur hyny yn dwyn ysgymmun-dod a dihenyddiad ar y troseddwr. Dywed i'r *Greal* gael ei gasglu ar y dechreu yn Gymraeg yn y fl. 717; ac iddo gael ei gyfieithu i'r Lladin, fel y tybia rhai, gan Walter de Mapes, Archddiacon Rhydychain; ac o'i gyfieithiad yntau i'r Ffrangeg-Normanaidd yn y fl. 1220.¹ Ond dywed y Parch. R. Williams, fel y gwelwyd, mai Walter de Mapes oedd *awdur* y gwaith, yr hwn a'i hysgrifonodd yn wreiddiol yn Ffrangeg-Normanaidd, dan yr enw *Roman du Quete du Seint Greal*. Y gwir yw, fel y dywed Stephens, fod holl syniadau Ioan Tegid am y *Greal*, oddi eithr yr enw² yn unig, ond odid, "yn gwbl gyfeiliornus."³

Barna Schulz mai o'r Hispaen y daeth chwedlau y *Greal* i Ffraingc (*Provence*); ac mai yr Arabiaid a'i cludasant i'r Hispaen.⁴ Dywedir i ramantau y *Greal* gael eu hysgrifenu mewn mydr, gan Christen de Troyes yn y 12fed ganrif; ac mai cymmysg ydynt o wibfarchogiaeth Llydaw a hanes gys-segredig. Yr oedd y cwpan y dywedir i'r Messiah yfed o hono ar y groes, neu yr hwn yr haerid iddo gynnwys ei waed, yn adnabyddus i'r chwedlonwyr rhamantaidd wrth yr enw *Seint Greal*;⁵ ac arwydda hyn duedd Gristionogol yr ysgrifenydd, yr hyn hefyd a brawf mor anghywir oedd syniadau Derwyddol Ioan Tegid ar y pwngc. Gellir canfod *Greal Christen de Troyes*, yn ol cyfieithiad Sismondi, yn Llyfrgell Frenhinol

¹ Gwaith L. Glyn Cothi, t. 259, Note 19.

² Ystyr y gair *Greal*, medd Tegid, yw cynnulliad o egwyddorion, yr un ystyr a *Chylich-graun* mewn iaith ddiweddar.

³ Stephens's Lit. Kymry, p. 436.

⁴ Schulz's Welsh Trad. p. 48.

⁵ Y diweddar Broff. Peter (Ioan Pedr) o'r Bala, a ddywedai ar hyn fel y canlyn:—"Y mae hen Frutiau a Chroniciâu Cymreig yn tystio mai Joseph o Arimathea a ddygodd yr Efenigl gyntaf i Brydain; a'i fod wedi ei gladdu yn Ynys Afallon, yng Ngwlad yr Haf. Nid oes a fyfannom a gwirionedd y traddodiad yma, a chwedlau sylfaenedig arno. Yr unig beth a ddaliwn ydyw, ei fod yn rhan o drefnadaeth y Cymry, ac yn sail i gyfran helaeth o'n llenyddiaeth hynafol. Dywedir yn mhellach yn y Brutiau ddiartod i Joseph ddwyn gydag ef i'r wlad hon ddysgl wyrthiol a rhyfedd, a elwid *Y Greal*, yr hon a gawsai yn yr oruwch ystafell yn Jerusalem, ac yn yr hon y gwelnyddai yr Arglwydd y Swper Sanctaidd. Defnyddiodd Joseph y ddysgl fendigaid, oedd wedi ei gwneud o un maen jaspis drudfawr, i dderbyn diferynau gwaed y corff sanctaidd, pan yn ei gladdu yn ei fedd newydd ei hun; ac wedi hyny, i gyflawni gwyrthiaeth lluosog a rhyfeddol. Ar ol marwolaeth Joseph yn yr ynys hon, aeth y ddysgl ar goll; ac yn y 6ed ganrif, sefydlodd y Brenin Arthur yn Nghaerlleon ar Wysg, urdd enwog y Ford Gron; a phrif neges y marchogion a berthynent i'r urdd, oedd chwille am *Y Greal* a gollasid."—*Y Waog*, Pittsburgh, Pa., America, Tech. 22, 1878, t. 1.

Paris, rhif 7523, yr hwn a ddywed,—“Cyfrol ysgrifenedig bedwarplyg pur fawr ydyw, wedi ei hysgrifenu ar golofnau dyblyg, ac yn cynnwys bron holl hanes y Ford Gron.”¹ Ioan Pedr a ddywed, ar ol iddo ddarllen gwaith galluog Schulz,—“Ac ystyried yn ddwys ei ymresymiad, yr ydym yn ystyried bod ei benderfyniad [am darddiad Hispaenaidd *Y Greal*] bron yn hollol ddisail; ac mai Cymru ydyw'r tir a gynnyrchodd y cylch ardderchog hwn o draddodiadau. Enwau Cymreig sydd ar y marchogion; ac y mae cyfeiriadau atynt yn y *Gododin*, ac mewn hen ysgrifeniadau Cymreig eraill; megis Peredur ap Efrog, Owain ap Urien, y Cai Hir; ac at leoedd Cymreig a Brutanaidd y cyfeirir fel chwareufwrdd yr holl gampau.”² Cyffelyb ydyw syniad Stephens ar darddiad chwedlau'r *Greal*.³

Y mae'r hyn a ddywed Ioan Pedr a Stephens am yr enwau “Cymreig a Brytanaidd” hyny, yn brawf penderfynol o darddiad Cymreig *Y Greal*; a gellir profi mai yr enwau hyny oedd yn y copi gwreiddiol, ac nid wedi eu doddi i mewn gan y cyfieithwyr. Dywed Ioan Tegid yn y nodyn y cyfeiriwyd ato sydd yng Ngwaith Lewis Glyn Cothi, bod y copi Cymraeg gwreiddiol wedi colli er ys canrifoedd; ond dangoswyd eisoes bod dau gopi Cymraeg hynafol o hono ar gael fyth, un yn Mheniarth a'r llall yn Gloddaeth. Os ydyw yr amseriad a roddir i gopi Gloddaeth yn gywir, sef y fl. 1106, rhaid ei fod y cyntaf o'r cylch Arthuraidd; a dylid rhoi “Siencyn vab John,” o hiliogaeth Elystan Glodrydd, ar ben rhestr y rhamantau Cymreig. Heb law hyny, y mae'n eglur bod copi o hono ar gael yn amser Guto'r Glyn, o'r fl. 1430 i 1470; ac yn amser Ieuan Du'r Bilwg, o'r fl. 1460 i 1500, fel y dangoswyd o'r blaen wrth draethu ar argraffiad y gwaith.

Wrth sylwi ar y rhamantau rhyfeddol hyn, Stephens a ddywed,—“Dengys bod pobl grefyddol, ond bywiog, dewrion, a didwyll, coeth a haelfrydig, wedi rhydd, a braidd orphwylllog,

¹ Sismond's *Hist. of South of Europe Lit.* Bohn's Ed., vol. 1., p. 197; Stephens's *Lit. Kymry*, p. 436.

² *Cambrian Journal*, vol. 1., pp. 169—172. ³ Stephens's *Lit. Kymry*, p. 441.

dywallt eu heneidiau i'w llenyddiaeth ramantaidd ; a bod eu dull neillduol o feddwl, eu nwydau a'u syniadau wedi eu ffyddlawn bortreidiadu gan *hystoriwyr*. Tynir darluniau o fywyd allanol, o guddiedig weithrediadau y nwydau, ac o olygfeydd, gyda thanbeidrwydd, bywiogrwydd, a ffyddlondeb cyfartal i egnion penaf Crabb, 'paentiwr goreu, ond gerwinaf natur.' Y mae'r un nerth ymadrodd, a'r un moesoldeb dirodres, ond coeth ; yr un haelfrydedd at gyfeillion, a her sarhaus i elynion Sacsonaidd, yn weladwy yn eu barddoniaeth a'u hanes ; ond yn y rhamantau y dangosir gorucheledd syniad egluraf a godidocaf. Oddi wrth wroniaeth foreuol, yr hon yw'r enghraifft gyntaf o sefydladau o'r fath, ac a ddeffrôdd deimlad cyffelyb mewn cenedloedd eraill ; oddi wrth ymgais dibaid am fawredd meddyliol, a dywalltwyd wedi hyny i wroniaeth Ewrop ; oddi wrth y rhai hyn, a'r Cymry yn sylfaenwyr iddynt, y cafodd rhamant ei dechreuad. Nid ymddengys i genedloedd diweddar fod yn alluog o'r blaen i orfod gwirionedd oer a difywyd ; nid ymddengys i'r meddwl fod mor barod mewn un man arall i ymwrthod â llyffetheiriau, ac esgyn ar adenydd hyfion i'r fath eithafion o uchelderau. Nid ymddengys i'r meddwl mewn un wlad arall, nac ym mhlith un genedl arall, ymroddi mor foreu i edrych ar bethau y dychymmyg megis yn bod mewn gwirionedd ; pethau nad oes eu cyffelyb yn hanfod ; pethau nad ydynt yn dygwydd mewn bywyd cyffredin, ac nad oes iddynt sylwedd, oddi eithr fel yr ymgorffolant yng ngobeithion anwylaf, ac yn nymuniadau uwchaf dyn. Yma ymgyfyd dyn ym mhell uwch law iddo ei hun ; ymwisga â phob math ar awdurdod a ddy-muna ei feddiannu ; cyflawna orchestion a ofyn nerth goruwch-naturiol ; a lladd gynnifer o elynion Sacsonaidd ag a ddy-muna calon Cymry gorthrymedig ei wneuthur. Addurnir bywyd yn y lliwiau ardderchocaf ; cyflawnir y gweithredoedd mwyaf ar-uthrol ; adroddir y syniadau symlaf, ond mwyaf urddasol ; a dengys athrylith rhamant y teimladau mwyaf dyrchafedig. Y mae Arthuriad, Tristamiaid, a Phereduriaid rhamant yn ym-loddesta yn y golygfeydd mwyaf ysplenydd ; bucheddant

mewn awyrgylch o'u creadigaeth eu hunain; ac er bod y delweddau prydfferth hyn yn cael eu cymmylu weithiau gan grybwyllion cyfriniol, y mae'r syched am ddedwyddwch, yr awydd am berffeithrwydd meddyliol, a'r reddf ddiwala am baentio'r dyfodol, yn buddugol hedfan uwch law y cyfan. Cafodd hyn ei ddechreuad, yn ddilys ddiammheu, yn nhymer frwdfrydig y Cymry; ac oddi wrth gynlluniau Cymreig y cafodd cenedloedd eraill eu defnyddiau, eu gweithredwyr, a'u gweithredoedd rhamantus. Rhamant ydyw y Ford Gron, er ei bod cyn hyned ag oes Cadwgan ap Bleddyn ap Cynfyn, yr hwn oedd yn ei flodau o 1073 i 1110; ond yr oedd Cymru bob amser yn meddu urdd wronol, y rhai a glodforid gan feirdd cydoesol; ac yr oeddynt eu hunain, rai o honynt, yn fydryddwyr. Cludodd marchogion Llydaw rhamantau'r Cymry i Ffrainge a Germania; ac oddi yno ymdaenasant i blith cenedloedd gwareiddiedig Ewrop. Y mae'r cyffredinolrwydd o'r ymdaeniad yma yn perthyn, mewn graddau godidog, i egwyddorion ym mha le bynnag yr ymdwynont. Cânt ateb ym mhob mynwes; cyffyrddant â thannau tyneraf yr enaid; a chant dderbyniad parod i mewn wrth ddrws pwy bynnag y curont. Lledaeniad rhyfeddol Cristionogaeth dros y parthau Gorllewinol o'r byd, oedd unig gymmhar ymwasgariad Mahometaniaeth dros y Dwyrain. Yr ail yn unig i gynnydd y rhai hyn oedd y rhamantau Cymreig. Gwnacthant eu presenoldeb yn adnabyddus, fel ffrwd drydanol, trwy gyfres o fflachiadau dysgleirwch; honnasant gyfathrach â phob hinsawdd; a chafodd y frawdoliaeth ei chydnabod gan bob cenedl. Oddi yma y cafodd ein cymmydogion Seisnig y gemau dysgleiriaf yn eu llenyddiaeth foreuol. Pe nas gwnaethai y rhamantau Cymreig eu hunain yn adnabyddus, a fuasai Spenser yn rhoi genedigaeth i'w *Fairy Queen*? Cynnyrchwyd y deryn prydfferth hwnw mewn amser pan yr oedd gwroniaeth, fel urdd, wedi diflannu; pan yr oedd y teimladau a roddasant ddechreuad iddynt wedi tawelu; pan nad oeddynt yn cynneu mor danbaid, trwy iddynt gael eu lliniaru gan

archwaeth ddiwylliedig ; pan, mewn gwirionedd, nas gallasid ei gynnyrchu heb ddarpariaeth flaenorol o'r farn gyffredin, trwy'r dysgrifiad bywiog ac egnfol o orchestion gwronaidd, y rhai a gadwynasid gan draddodiad Cymreig wrth Arthur a'i farchogion. 'Ni cheir y fath wrolgampau ysplenydd, y fath deimladau angerddol, mewn un hanes Seisnig ; a gorfodwyd un o brydyddion pereiddiaf Lloegr i fenthyca gan bobl y cymmer ei gydwladwyr arnynt eu diystyru, holl gynllun ei gymmeriadau, a'r dysgrifiad o'r golygfeydd ym mhlith y rhai yr hanfodent, yng nghyd â'r dylanwad a dybid fod gan y fath wron ag Arthur ar y bobl o'i amgylch, trwy godi hiliogaeth o wroniaid heb fod yn ail i neb o ran ardderchogrwydd, ond efe ei hunan.¹ Y mae gan y Cymry reswm cryf, gan hyny, dros fod yn falch o'u 'Mabinogion' a'u rhamantau eraill."²

"Yr oedd chwedlau y Greal," medd Ioan Pedr, "wedi treiddio yn foreu i bob cylch o gymdeithas, a dylanwadau eu hyspryd yn trwytho pob mynwes ; ac oni buasai hyn, y mae'n ammheus a fuasai apostolaeth Pedr y Mynach yn llwyddiannus i gychwyn y croesgad cyntaf, oni buasai yr yspryd anturiaethus a fagasid trwy ddylanwad y *Mabinogion* Cymreig. Ar y traddodiadau awenyddfawr hyn y seiliwyd y corff mawr o lenyddiaeth hynafol Ffraingc, Germania, yr Ital, yr Hispaen, Sugas, Scandinafia, ac Ynysoedd yr Ia ; ac nis gellir cyfrif y daioni a weithredodd y chwedlau hyn yn yr oesoedd tywyll hyny, ar feddyliau hanner barbariaid trigolion y gwledydd crybwylledig. Gellir cael rhyw syniad am y dylanwad daionus trwy gymharu y cynnyrchion, o ran eu ffurf a'u cynnwys, â'r cynnyrchion a ledaenwyd tua'r un oes yn y gwledydd a nodwyd, y rhai a sylfaenwyd ar draddodiadau brodorol, cymmerer, fel enghraifft, o'r cynnyrchion Teutonaidd, y gân fawr genedlaethol, a elwir *Nibelungen Lied*, yr hon y mae'r Germaniaid

¹ Oni wyddys i brif fardd y Saeson, un o brif feirdd y byd, yn wir, Shakespeare, wneud yr un fath a Spenser? Onid Cymry ydyw'r cymmeriadau dewraf, angerddolaf, doethaf, a ffyddlonaf sydd yn ei anfarwol ganiadau? A pha le y buasai y caneuon destlusaf a difyraf a gynnyrchwyd yn Saesneg yn yr oes hon, *The Idylls of the King*, gan y Bardd Breninol, Tennyson, oni buasai Arthur a'i farchogion? Atebed y sawl a fedrant.

² Stephen's Lit. Kymry, p. 440, &c.

hyd heddyw yn ei hanner addoli. Nid ydym am wadu nad ydyw yn arddangos gallu ac athrylith anghyffredin; ond y mae ei mater a'i dylanwad yn dra barbaraidd ac aflan. Sylfaenir hi ar ymdrech i feddiannu'r trysor aur cuddiedig a dywalltasid i'r Afon Rheine; a dygir y gweithredoedd ym mlaen trwy'r gân yng nghanol creulondeb, bradwriaeth, aflendid, a llofruddiaethau di baid; tra y mae anrhydedd, lledneisrwydd, a chrefydd yn arwedd chwedlau athrylithgar y *Mabinogion*. Mewn gair, nid oes gan un genedl ar wyneb y ddaiar y fath drysor o lenyddiaeth ag sydd gan y Cymry; a'r unig ddiffyg ydyw, eisiau ei ddwyn o fewn cyrhaedd y cyffredin o'n cydgenedl."¹

Er bod amryw o'n hen ramantau chwedlonol wedi eu cyhoeddi yn lled ddiweddar, fel y dangoswyd, eto y mae rhai yn y *Llyfr Coch*, a llawysgrifau eraill, ond odid, heb eu cyhoeddi, megis y rhai canlynol:—

Y Rhesymau a ddyry Gildas am ddirywiad y Brytaniaid, yr hyn a barodd iddynt gollu parth o Frydain a elwir Lloegr.

Brut [Cronicl] Byr o Adda hyd y fl. 1318.²

Cynghor y doeth i'w Fab a elwir Cato Cymraeg, ar Amaethyddiaeth, Cynnilddeb, &c. Go hen (*subantiquum*), medd Edward Lhwyr.

Ymadrodd Awstin Sant am Tewdwr; yn llythyrenol Trwch y Ddaiar. Hefyd, ymson am yr enaid.

Enwau y Tri Dynion a Gawsant Gampau Adda.

Am y Gwragedd a gawsant Brydfferthwch Efa.

Marwolaeth a Chladdedigacth y Brenin Arthur.

Brut y Saeson. Hanes amseryddol am y Saeson, o'u dyfodiad cyntaf yma hyd y fl. 1376.³

Hanes Amseryddol o'r prif frwydrau a ymladdwyd rhwng y Brytaniaid a'r Saeson, o Gwrtheyrn Gwrthenau hyd Ieuan Frenin.⁴

Enwau Ynys Brydain a'i Rhagynsoedd; eu dinasoedd, eu hynodion, &c.

Priodolir un o'r Brutiau sydd yn y *Myvyrian Archaiology* i Ieuan Brechfa, fel hyn:—

Brut Ieuan Brechfa, sef cof am dywysogion, a rhyfelau, a rhyfeddion, a phethau, a dialeddau, ac eraill o bethau cofadwy, a dynnwyd o lyfrau Caradawc Llancarfan ac eraill o hen Lyfrau Cyfarwyddyd a ysgrifennodd Ieuan Brechfa.—*O Lyfr Rhys Thomas, Argraphydd.*

¹ Y Wasg Americanaidd, Tach. 22, 1873.

² Ni wyddys pwy a ysgrifennodd hwn. Dywedir bod Hywel Swrddwal wedi ysgrifenu Brut yn Lladin o Adda hyd Edward I., yr hwn a deyrnasai o'r fl. 1272 hyd 1307.⁶

³ Hyd y fl. 1196 y cyrhaedd Brut y Saeson sydd yn y *Myv. Arch.* t. 652—84. Y mae amseriad y Brut a nodir uchod yn brawf pendant nad ysgrifenyd ef hyd yn agos i ddiwedd canrif gyntaf cyfnod y testyn; ac yn brawf hefyd y parhawyd i ysgrifenu y *Llyfr Coch* hyd y pryd hyn, os nad diweddarach.

⁴ Yr Ieuan Frenin yma oedd y Brenin John, yr hwn a deyrnasodd o'r fl. 1199 hyd 1216.

Brodor oedd Ieuan Brechfa o Frechfa yn sir Gaerfyrddin ; a dywedir ei fod yn un o wŷr enwocaf ei oes fel bardd, hanesydd, arwyddfardd, ac achwr ; ond nid oes sicrwydd, hyd y cenydd yr ysgrifenydd, fod dim o'i brydyddiaeth ar gael ; ac y mae'n bur ammheus fod dim o'i wir ryddiaith hefyd ar gof a chadw. Dywedir iddo farw o gylch y fl. 1500 ;¹ ac felly, gellir casglu ei fod yn ysgrifenu rywbrud tua diwedd y 15fed ganrif. Pa wedd bynnag, y mae llythraeth a geiriadaeth y Brut a briodolir iddo, yn profi nad ysgrifenydd hwnw hyd yr 16fed ganrif. Cymmerer yr hyn a ganlyn fel esampl o hono :—

CHWECHANT a phedwar ugain a chwech oedd oed Crist pan aeth Cadwaladr Fendigaid i Rufain lle y bu farw, ac yna collasant y Cymry Uchbennaeth ynys Prydain. Yna daeth Ifor ab Alan Brenin Llydaw i Gymru ac ai gwnaethpwyd yn Dywysawg, ac o hynny ym Maes, Tywysogion a lywynnt genedl y Cymry.²

Gwelir bod y dernyn yna mor ddarllenadwy i'r cyffredin ag unrhyw argraffiad o'r Bibl ; gan hyny, os nad casgliad " Rhys Thomas Argraffydd " ei hun ydyw y Brut hwn, y mae'n sicr mai ei lythraeth a'i lafarwedd ef sydd ynddo, neu rywun dros gan mlynedd diweddarach na Ieuan Brechfa. Ond beth bynnag am y Brut hwn, y mae'n bur debyg yr ysgrifennodd Ieuan ryw draethawd am Gymru ; canys dywed Lewys Dwn, oedd yn ei flodau o gylch y fl. 1585, " Ieuan Brechfa o Ddeheubarth a ysgrifennodd am y Tair Talaeth."

Y mae dwy gyfres fer o Drioedd yn y *Llyfr Coch*, a elwir " Triodd Ynys Brydain " a " Thriodd y Meirch." Y mae tair cyfres o Drioedd yn y *Myvyrian Archaiology*, a elwir " Trioedd Ynys Prydain." Cyfres II. y *Myvyrian* ydyw cyfres y *Llyfr Coch* ; a honno, yn ddilys ddiammheu, ydyw yr hynaf o'r tair. Dywed Stephens yr ysgrifenydd cyfres y *Llyfr Coch* (cyfres II. y *Myvyrian*) o gylch y 14edd ganrif ; cyfres I. y *Myvyrian*, yn y 15fed ganrif ; a chyfres III. y *Myvyrian* o gylch yr 16fed ganrif ;³ ac y mae eu horgraff a'u geirweddian yn profi ei fod yn bur agos i'r nod. Fel enghraifft, dodir yr *un Triad* o'r tair cyfres ger bron yma ; a barned y darlennydd drosto ei hun :—

¹ Williams's Em. Welshm., p. 46.

² Myv. Arch. t. 716.

³ Y Belriad, cyf. iv. t. 391.

CYFRES Y LLYFR COCH.—CYFRES II. Y MYV.

Tri anuat gyghor ynys Prydain, 6edi y Ulkessar a gwyr Ruvein lle y karneu blaen y eu meirch ar Ytir yni Pwyth Meinlas, ar eil gadel Hors a Heingyst a Ronuen yr ynys honn. ar trydydd rannu o Arthur y wyr deirgweith a Medrawt yng Kamlan.¹

CYFRES I. Y MYV.

Tri anfad gyngor Y.P. rhoddi i Vlcessar a gwyr Rhufein le i garneu blaen eu meirch ar y tir ym Pwyth meinlas. yr eil gadel Hors a Hengys a Rhonwen yr ynys honn. ar trydydd rhannu o Arthur y wyr teirgweith a Medrawt yng Camlan.²

CYFRES III. Y MYV.

Tri Anfad Gynghor ynys Prydain; canhiadau lle i Ul Caesar a Gwyr Rhufein i flaen carneu eu meirch yn Mhwyth Min y Glas yn ynys Daned; sef o hyny y cafas y Caisariaid le i oresgyn ynys Prydain, ac i ymgystlynu a Brad Afarwy ab Lludd; sef fy rhodded hyny o ganniadhad i'r Caisariaid am fod yn ofer gan Genedl y Cymry amddiffyn eu gwlad namyn drwy nerth arfau a gwroldeb a chalondid gwlad, lle nas gwyddid yn y byd am fradgyfarfod Afarwy ab Lludd a Gwyr Rhufain; ail anfad gynghor oedd gadael Hors a Hengist a Rhonwen i ynys Prydain, gwedi eu gyru drwy for i'r Wlad lle ydd hanoeddynt; a'r Trydydd, gadu i Arthur rannu ei wŷr a Medrawd deirgwaith yn y Gad Gamlan, ac o hynny y colles Arthur y maes a'i fywyd; lle ydd oedd Medrawd yn un a'r Saeson.³

Ymddengys mai helaethiad a newidiad ydyw y "Gyfres I." o "Drioedd Ynys Prydain," sydd yn y *Myvyrian*, ar gyfres o hen Drioedd sydd yn Rhif 536 o Ysgriflyfrau yr Hengwrt, a elwir yno "Trioed Arthur ae Wyr," yr hon gyfres y prawf ei llythyaeth iddi gael ei hysgrifenu yn ystod y ganrif gyntaf o gyfnod y testyn. Y Triad iaf yn hen ysgrif yr Hengwrt, ydyw y 7fed yng "Nghyfres I." y *Myvyrian*; a Thriad olaf yr hen gyfres, ydyw y 40fed yng "Nghyfres I." y *Myvyrian*. Er mwyn i'r darlennydd weled y gwahaniaeth, dodir y Triad iaf o gyfres yr Hengwrt, a'r 7fed o'r "Gyfres I." ger bron yma:—

TEIR LLEITHICLŶTH YNYS PRYDEIN.

Arthur yn pen teyrned ym Myny6 a Dewi yn pen esgyb a Maelg6n G6yned yn pen hyneif. Arthur yn pen teyrned yg Kelliwic yg Kerne6 a Betwini esgob yn pen esgyb a Charadawc ureichuras yn pen hyneif. Arthur yn pen teyrned ym Pen Rionyd yny goglea a Chyndeyrn Garthwys yn pen esgyb a G6rthm6l Wledig yn pen hyneif.⁴

TRI LLEITHIC LLWYTH YNYS PRYDAIN.

Arthur ym Penteyrnedd Ynghaerlleon ar Wysg, a Dewi yn pen esgyb; a Maelgwn Gwynedd yn pen Hyneif.

Arthur yn Penteyrnedd Ynghelliwig Yngherynw, a Betwini yn pen esgyb, a Charadawc Vreichvras yn pen hyneif.

Arthur yn pen teyrnedd yn Penryn Rhionydd yn y gogledd, a Chyndeyrn Garthwys yn pen esgyb, a Gwerthmwl wledig yn pen heneif.⁵

¹ Myv. Arch. t. 397, rhif 22.² Yr un, t. 391, rhif 48.³ Yr un, t. 406, rhif 51.⁴ Skene, vol. II., p. 466.⁵ Myv. Arch., t. 388.

Cyffelyb ydyw y newidiad trwy gorff y gyfres hon ; ond y mae'r helaethiad yn llawer mwy yn fynych. Rhif y Trioedd yng nghyfres yr Hengwrt yw 34 ; ond y mae eu rhif yng "Ngyfres I." y *Myvyrian* yn 92.

Y gyfres yna, a'r ddwy eraill a nodwyd, sydd yn y "Llyfr Coch," ydyw yr holl *Drioedd*, hyd y gwyddys, a ysgrifenydd yn ystod y ganrif gyntaf o gyfnod y testyn ; a Chyfres I. y *Myvyrian*, a'r gyfres sydd yn "Nosparth Edeyrn Dafod Aur," yw'r cyfan, hyd y canfyddwyd, a ysgrifenydd yn ail ganrif y testyn ; ond ceir gweled rhag llaw bod Trioedd y drydedd ganrif o'r cyfnod, sef yr 16fed, yn rhai miloedd o rifedi.

Tybiai y Parch. Peter Roberts fod Trioedd yn un o neillduolion y Cymry ; ac mai o herwydd eu bod yn chwannog i gyfansoddi Trioedd, ac yn teimlo bod y cyfryw drefniad yn gyflêus, y daethpwyd i ystyried bod y rhif Tri yn gyssegredig ; eithr barnai T. Stephens,² yn briodol, fod Roberts wedi dechreu yn y pen chwith ; a bod cyssegriad y rhif Tri wedi hen ragflaenu cyfansoddiad y Trioedd Cymreig. Barnai Stephens fod mwy o reswm yn ail ymadrodd Roberts ; sef, bod y rhif Tri yn fath ar fesur o'r gallu meddyliol ; ac mai pur debyg ydyw, bod yr arfer o gyssylltu ffeithiau ac ymadroddion mewn rhyw ddull Triadol, yn cyfateb i ryw duedd neu reddf feddyliol. Pa wedd bynnag, dylid cofio nad yw'r cyssegriad dan sylw yn gyfyngedig i'r Tri yn unig ; ond bod y rhifau anghyfartal, *pump*, *saith*, a *naw*, yn meddu neillduolrwydd cyffelyb ; ac ym mhlith gwahanol genedloedd. Sonir am "y *pum* tywarchen sy'n cyfansoddi'r byd ;" a cheir y rhif *saith* yn fynych yn hanes y diluw ; sonir am "y *saith* gysgadur ;" ac am "*saith* goron Cristionogaeth ;" am "*nawfed* ton y môr ;" ac am "*naw* affaith galanas," yng Nghyfreithiau Hywel Dda.

Yr oedd sect y Pythagoriaid yn ystyried bod rhifau yn gopiau o wrthdychau ; ac mai y rhif Tri oedd y rhif perffaith cyntaf, am ei fod yn cynnwys *dechreu*, *canol*, a *diwedd* ; a

¹ Dosp. Ed. Daf. Aur, t. xxxviii.

² Y Beirniad, llyfr iv., t. 378, &c.

rhoddent hyny fel rheswm tros eu hymolchiadau triphlyg, yn gystal ag am y drybedd (*tripod*) yn nheml Delphi, oddi ar yr hon y cyhoeddid oraclau Apolo. Gelwid Shiva, "Tri-lochuem," sef y Tri-llygadog; a Jupiter, yn "Tri-ophthalmas," a "Tri-oculus"—y Tri-mawrlygaid a'r Tri-threiddlygaid. Yr oedd yr un teimlad ym mhlith y Rhufeiniaid Pan lofruddiwyd Cesar, ffurfiwyd llywodraeth o *dri* o ddynion sef Octavius, Antony, a Lepidus; a phan adeiladwyd y Capitol (Teml Iau yn Rhufain), gan Vespasian, taenellwyd y sylfaen gan forwynion teml Vesta, â dwfr wedi ei dynu o *dair* afon ac o *dair* ffynnon loyw; ac aberthwyd *tri* anifail, sef hwch, dafad, a tharw; a galwyd ar *dri* o'r duwiau, sef Jupiter, Juno, a Minerva, i gynnorthwyo'r bobl yn y gorchwyl cyssegregedig. Honnid gan yr Ellmynwyr eu bod wedi deilliaw o *Dri* meib Mannas ap y duw Tuisto; ac ymddengys yr un *rhif* cyssegregedig yn hen ganiadau y Scandinafaid, y Laplandiaid, a'r Sacsoniaid; ac y mae y rhif Tri yn britho llenyddiaeth y Rwssiaid. Hefyd, cyfansoddodd Ansonius, y bardd Galaidd, gân a elwir "Gryphus," ar y "Rhif dirgel Tri;" a dywedir i Cormac, un o freninoedd Iwerddon, gyfansoddi cerdd ar "rinweddau y rhif *Tri*." Gwelir, gan hyny, nad ym mhlith y Cymry yn unig y mae cyfansoddiadau Triadol. Gan fod holl genedloedd Ewrop wedi deilliaw o'r Dwyrain, dylid edrych am ddechreuad y parch a roddir i'r rhif *Tri*, i cithafion amser, ac i ieithoedd hynaf y byd. Darllenir yn yr Ysgrhythrau am *Dri* meib Noah; Sem, Cam, a Japheth; "a *thair* gwragedd ei feibion;" ac am y *tri* gwrthryfelwr, "Cora, Dathan, ac Abiram;" ac yn y Testament Newydd, ceir "y *tri* hyn, ffydd, gobaith, cariad." Hefyd, ym mhlith yr Indiaid, crybwyllir am *dri* ymgnawdoliad Brahma; sef, Brahma, Vishnu, a Shiva; ac am *dri* llygad Shiva, a'r cyffelyb. Y mae parch tebyg at y rhif *Tri*, yn parhau, ym mhlith gwahanol genedloedd, hyd y dydd hwn. Gwyddys nad oes un feirniadaeth yn Eisteddfodau y Cymry yn awr, mor gymmeradwy a beirniadaeth *Tri* o feirniaid; a dyna Senedd Brydain am osod *Tri* o farnwyr i wneud trefn a dosparth ar y Gwyddelod anystywallt.

Y mae rhai yn tybied bod cyfansoddi Trioedd, yn y dull y maent i'w cael yn y *Llyfr Coch*, y *Myvyrian Archaiology*, *Dosparth Edeyrn Dafod Aur*, *Cyfrinach y Beirdd*, *Lyric Poems Iolo Morganwg*, &c., yn ddull hynafol iawn o gyfansoddi ym mysg y Cymry. Tybia rhai mai yn y dull Triadol yma y trosglwyddai yr hen Dderwyddon eu syniadau a'u haddysgiadau i'w dysgyblion ; ond, os gellir barnu oddi wrth yr unig ddau bennill a briodolir i'r Derwyddon, a ddaethant i lawr i'r oesocdd hyn, un yn Groeg, gan *Diog. Laertius* ; a'r llall yn Lladin, gan *Pompon. Mela*, nid trwy gyfrwng *Trioedd*, fel y deallir y cyfansoddiad yn awr, y trosglwyddai'r Derwyddon eu syniadau, namyn trwy gyfrwng Tribanau prydyddol. Wele yr enghreifftiau

I.

Σεβειν Θεους
Και μηδεν κακον δραν
Και αυδρειαν ασκειν.

Addoli y Duwiau ;
Peidio gwneuthur drwg ;
Ac arfer gwroldeb.

II.

Ut forent ad bella meliores
Æternas esse animas
Vitamque alteram ad manes.

Rhagori mewn rhyfel ;
Bod encidiau yn anfarwol ;
A bod buchedd arall iddynt.

Yr oedd y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd, ac eraill ar eu hol hwy, hyd Llywelyn ap Gruffydd (Llywelyn Llogell Rhison),¹ os nad diweddarach, yn bur hoff o dribanau, ac o'r gair *Tri* ; ond ni pherthyn i mi fanylu llawer. Cymmerer dwy enghraifft yn unig, o "Llyfr Du Caerfyrddin," i brofi hyn :—

I.

Goreu trywir in ev gwlad
Y amddiffin ev—treuad.
Eithir. ac erthir. ac argad.

Goreu *tricyr* yn eu gwlad
I amddiffyn eu trefad ;
Eithir, ac Erthir, ac Argad.

¹ Iolo MSS., t. 97.

II.

Tri meib llywarch. tri aghimen.
Kad. tri cheimad awlawen.
Llew. ac arav. ac vrien.¹

Tri meib Llywarch, *tri* anghymmen
Cad, *tri* cheiniad aflawen ;
Llew, ac Araw, ac Urien.

Gellid nodi lluaws o enghreifftiau tribanol cyffelyb, fel y crybwyllwyd, o waith yr hen feirdd, yn rhoi hynodrwydd i'r rhif *Tri*; ond dim un *Triad* fel *Trioedd* y beirdd lled ddiweddar.

Cyn terfynu y bennod led faith hon ar lenyddiaeth ryddieithol dwy ganrif flaenaf cyfnod y testyn, dylid crybwyll bod un cyfansoddiad rhyddieithiol byr arall yn y rhif a nodwyd (536) o Ysgriflyfrau yr Hengwrt, a elwir "Bonhed Gwyr y Gogledd" = Bonedd Gwyr y Gogledd, yr hwn y gellir casglu oddi wrth yr orgraff, a ysgrifenyddwyd yn ystod y 14edd ganrif, fel y Trioedd a fuant dan sylw, sydd yn yr un Ysgriflyfr. Deuddeg brawddeg fer a gynnwys yr hen ysgrif yma. Dechreu fel hyn :—

I. Vrien uab Kynuarch mab Meirchaón mab Gorust Ledlóm mab Keneu mab Coel.

I. Urien fab Cynfarch mab Meirchawn mab Gorwst Ledlwm mab Ceneu mab Coel.

II. Llywarch Hen mab Elidyr Lydanwyn mab Meirchaón mab Gorust Ledlóm mab Keneu mab Coel.

II. Llywarch Hen mab Elidyr Lydanwyn mab Meirchawn mab Gorwst Ledlwm mab Ceneu mab Coel.

III. Clydno Eiddin a Chynan Genhir a Chynuelyn Drogyl a Chatraót Calchvynyd meibion Kynnóyt Kynnódyon mab Kynuelyn mab Arthwys mab Mar mab Keneu mab Coel.²

III. Clydno Eiddyn a Chynan Genhir a Chynfelyn Drwsgl a Chadrawd Calchfynyd meibion Cynnwyd Cynnwydion mab Cynfelyn mab Arthwys mab Mar mab Ceneu mab Coel.

¹ Skene, vol. II., pp. 60—1

² Yr un, p. 454.

PENNOD XIII.

HANES LLENYDDIAETH PRIF FEIRDD, TRAETHODWYR, A CHERDDORION
YR UNFED GANRIF AR BYMTHYG.

PRYDYDDION A CHERDDORION, gan mwyaf, fel y gwelsom, oedd Beirdd y ddwy ganrif flaenorol o gyfnod y testyn; ond cymmerth newidiad pwysig le yn ystod y ganrif hon, yn enwedig yn ei rhan olaf, a hyny er gwell, ar y cyfan, pan y daeth y Beirdd galluocaf yn Brydyddion a Thraethodwyr.

Yr oedd amryw Gerddorion yn bod hefyd yn ystod y ganrif yma, fel y ceir gweled rhag llaw; ond nid ydys yn gwybod i ddim o'u gwaith hwy gael ei ddodi ar gof a chadw, oddi eithr nad oeddynt yn awduron rhai o'r hen donau sydd yn y *Mynyrian Archaeology* a fuant dan sylw eisoes.

Yr oedd nifer beirdd y ganrif hon yn fawr iawn, fel y ceir gweled yn y gyfres ar ddiwedd y ganrif; ond ymddengys bod cryn nifer o honynt yn lled anystywallt a diwerth, wrth hanes y ddwy Eisteddfod a gynnaliwyd yn ystod y ganrif; sef Eisteddfod gyntaf Caerwys, a fu dan sylw eisoes; a'r ail a gynnaliwyd yno, fel y ceir gweled yn fuan. Gellir casglu bod rhyw arfer o raddio beirdd y pryd hyn heb law mewn nac Eisteddfod na Chadair Farddol; canys nid oedd nifer y rhai a raddiwyd yn Eisteddfod gyntaf Caerwys, fel y gwelwyd, ond 14; a nifer y rhai a raddiwyd yn yr ail Eisteddfod yno rhwng Pencerddiaid a dysgyblion barddol, fel y ceir gweled eto, oedd 17; a nifer y cerddorion oedd 38.¹ Dywedir y cynnaliwyd pump o Gadciriau Barddol ym Morganwg yn ystod y ganrif hon; sef yn 1500 ac 1520 (y rhai a fuant dan sylw eisoes, am fod y beirdd oedd ynddynt yn perthyn i'r ganrif flaenorol), 1550, 1560, ac 1580; ond nid oedd yr holl nifer ynddynt yng nghyd, namyn 15 o bersonau:² y cwbl, rhwng y pum Cadair a'r ddwy Eisteddfod yn ddim ond 80 o bersonau. Er hyny,

¹ Pennant's Tours, vol. ii., pp. 93—5. ² Owen's (Dr. Pughe) Introd. to Llywarch Hen, pp. 62, &c.; Dr. Jones's Hist. Wales, p. 225; Y Brython, cyf. iv., t. 347.

dywed William Cynwal wrth Edmwn't Prys (dau fardd enwog oedd yn eu blodau tua chanol y ganrif hono), fel hyn :—

Pybyr wedd, *paub* a raddwyd !
Ba air waeth ! eu beio 'r wyd.
Achwyn boen, a chnoi beunydd,
Barddas wael y Beirdd y sydd.

I'r hyn yr ettyb yr Archddiacon fel y canlyn :—

Byr ddeunydd mewn Barddoniaeth ;
Barddas wir heb urddas aeth !

Gellir casglu oddi wrth yr hyn a ddywedir mewn cyssylltiad â hanes Eisteddfod gyntaf Caerwys, mai yr arfer oedd graddio y rhai a fynnent mewn cyfarfodydd lleol a elwid "neithiorau." Dyma fel y dywedir :—

Edward Sirc, Thomas ab Madawg, Edward Grythawr, a Morys Llanvair, pencerddiaid, â raddiesid o'r blaen mewn neithiorau yn bencerddiaid ; ac yna eu cadarnâwyd drwy eu caniadu a'u cyfrymiaw.¹

O herwydd yr hyn a nodwyd, er bod nifer y rhai a elwid yn feirdd yn ystod y ganrif yma yn bur fawr, eto ceir gweled nad oedd nifer y *gwir* feirdd galluog ac awenyddol ond ychydig, mewn cymhariaeth ; a thybir y gellir crynhoi hanes llenyddiaeth y rhai hyny i un bennod heb fod yn fawr iawn.

Ymddengys mai awduron rhyw lyfrau ar farddoniaeth oedd MEURYG DAFYDD, oedd yn ei flodau o'r fl. 1520 i 1580 ; DAFYDD LLWYD MATHEW, oedd yn ei flodau yn y fl. 1560 ; DAFYDD BENWYN, oedd yn ei flodau o'r fl. 1520 i 1560 ; a LLYWELYN SION, oedd yn ei flodau o'r fl. 1520 i 1601 ; o waith y rhai y dywed EDWARD DAFYDD o Fargam y casglodd efe *Gyfrinach y Beirdd*.² Ymddengys hefyd mai Llywelyn Sion oedd casglydd y rhan fwyaf o'r ysgrifau sydd yn *Iolo Manuscripts*. Y mae llythyr pur frwnt ar gael o waith Meuryg Dafydd, yn ateb i un llawn cyn frynted oddi wrth SION MAWDDWY, yn ei oganu yn chwerw am feio ar ei gerdd ef. Wele ymadrodd Sion ei hun ar y pwngc :—

Atoch Meurig Dafydd, hyn o lythyr i'ch gwybyddu vy mod yn rhyveddu yn vawr iawn eich bod yn beio ar vy ngherdd gybelled ag y clywav eich bod. Mi a gav voneddigion, a chyfredin Cymru â ddyweto yn amgenach, heblaw disgyblion a phenoerddiaid ; etto nid mor rhyvedd hyny, a'ch bod yn dywedyd bod eich cerdd chwi yn gystal a'm heiddo i. Os velly, Meurig, chwi â wyddoch iawn varnu, ac

¹ Y Greal, t. 277. ² Cyfr. y Beirdd, t. 1—6.

iawn ddysgu, trwy gyvlawn gydgordiau ymadroddion gramadeg, mydyr, a sillavau, a chyfoethogrwydd y gerddoriaeth, &c.....Ond my'i à welais wr, val chwi, a gavas venthyg pum llyvyr barddoniaeth dros ddwy vlynedd; ac à vum vy hunan yn ceisio ei ddysgu, pe yd fusai dysg yn myned i'w ben; ond yr oedd ev mor ddwl at ddysg a gwyddd wyllt, mor valch-fol a Satan, mor genvigenus a Lucifer, can galled ag Ieuan Grod Hen, cyhawsed i ddyn ymddiried iddaw ag Iddawc Carn Brydain, &c....

1580.

SION MAWDDWY.1

Yn ateb i'r duchan yna dywedodd Meuryg Dafydd fel hyn:—

Derbyniwch hyn yn ateb i'ch llythyr, Sion Mawddwy. Rhyvedd iawn hevyd genyv innau achwyn o honoch, imi veio ar eich cerdd; ni veiais i vwy no hyn arni; sev beio ar eich celyddydd a wnaethum; sev achaws ei bod ar Ddosparth Gwynedd: gwell á vyddai ei galw Dosparth Davydd ab Edmwnd. Beirdd Gwynedd a Deheubarth a'u derbyniant; ond ev a lwyr ymwrthodwyd á hi yn Morganwg. Beirdd Gwlad Vorgan á gynneiliant vyth yr hen ddsparth, val y mae yn llyvrau yr hen ddysgodron godidawg; ac nid caru gwag a fol ymorchestu, val chware plant bach ar eiriau, heb air bychan yn debyg i synwyr.²...

Nid ydys yn gwybod am ddim o ganiadau Meuryg Dafy d, ond yr ychydig ddifyniadau argraffedig sydd yng *Nghyfrinach y Beirdd*,³ eithr dywed y Parch. R. Williams fod rhai o'i ganiadau yn ysgrifenedig; ond ym mha le ni fynegir.⁴ Ni wyddys fod dim o ganiadau Sion Mawddwy yn argraffedig; ond dengys cofres y Dr. Pughe fod pump o honynt yn ysgrifenedig yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr.

Y cwbl a wyddys o hanes MEURYG DAFYDD ydyw, mai bardd o Forganwg ydoedd; a'i fod yn un o ddysgyblion Lewis Morganwg yn y Gadair Farddol y dywedir iddi gael ei chynnal yno yn y fl. 1520; a'i fod yn Bencerdd, neu Lywydd, yn y Gadair honno yn y fl. 1550; ac mai ei unig ddysgybl ynddi oedd un Watkin Powel.⁵

Am SION MAWDDWY, gellir casglu oddi wrth lythyr Meuryg Dafydd, mai brodor o Fargam ym Morganwg oedd efe yn ddechreuol; ac mai tingcer ydoedd wrth ei alwedigaeth, nes iddo briodi etifeddes Mawddwy yn sir Drefaldwyn; ac iddo gymmeryd ei enw barddonol oddi wrth blwyf, neu breswylfod ei briod, yr hyn oedd yn ddigon naturiol. Dyma fel y dywed y Meuryg ar y drafoadaeth yn bur dduchanllyd:—

Y chwi, Mr. Mawddwy, yn anad neb o veirdd Morganwg, a hofasoch wagsain yn fwy na synwyr; gwnaed eich cywreinrwydd ichwi wynvyd calon, a llawenydd ichwi o'ch clôd: nid oes vawr á wn i á genvigena wrthych; ni allaf fy hun lai na

1 Y Greal, t. 207. 2 Yr un, t. 208.

3 Cyfr. y Beirdd, t. 53, 85, 122, 124.

4 Williams's Em. Welshm., p. 323.

5 Dr. Jones's Hist. Wales, p. 225.

thosturio wrthych....Gwir yw imi gael benthg eich pum llyvyr ; ac y mae eu dysgeidiaeth yn fy mhen, pe bae hyny lês yn y byd imi....Mi adwaenwn Sion y Tincer o Fargam cyn iddo briodi etifeddes Mawddwy, a chymmyrd benthg enw yn Ngwynedd. Bu hawdd ymddyddan unwaith ag ev ; nid velly y mae yn awr.¹...

Gwelir bod y ddau fardd yn ysgrifenywyr gwych, ond eu bod yn bur chwervon a duchanllyd wrth eu gilydd, fel yr oedd amryw o'r hen feirdd, fel y gwelsom, ac y ceir gweled eto.

Y ddau fardd nesaf a ddygir i sylw, oedd GRUFFYDD HIR-AETHOG a SION BRWYNOG ; a'r rheswm dros eu dwyn i sylw yng nghyd ydyw, mai y "Cywyddau Ymryson" rhyngddynt hwythau a'u hynododd fwyaf, hyd y gwyddys. Yr oedd y ddau yn eu blodau rhwng y fl. 1520 ac 1550.

Brodor o oror Mynydd Hiraethog, yng Nghantref "Tegengl" (Tegeingl?), sir Ddinbych, oedd Gruffydd ; ac oddi wrth enw mynydd ei fro enedigol y cymmerodd yr enw *Hiraethog*. Yr oedd yn fardd enwog ; a dengys cofres y Dr. Pughe fod cynifer a 78 o'i ganiadau yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr ; ond dichon bod rhai o honynt yn ailadroddiadau : 13 ydyw y nifer mwyaf sydd yn yr un llyfr, sef Rhif XXI.² Dywedir mai yr enwog Tudur Aled oedd Athraw Barddonol Gruffydd Hiraethog ; ac iddo yntau fod yn athraw i William Lley, Simwnt Fychan, William Cynwal, a Sion Tudur, pedwar o feirdd godidog yn eu dydd. Dywedir hefyd iddo ysgrifenu hanes Brydain oll, a hanes gwledydd eraill ; ond pa le y mae yr ysgrifeniadau hyny, ni fynegir.³ Canodd W. Lley "Gwydd Marwnad" ardderchog ar ei ol, yn yr hwn y geilw ef "fy athro," gan ddywedyd,—

F'athro Gruffydd, o'th guddiwyd,
Mewn arch oer, di 'mannerch wyd ;
Gorwedd i'r wyd mewn gweryd,
Grŷf wraidd benn, digrifwydd Byd.⁴

SION BRWYNOG, yr hwn hefyd a elwid Sion ap Hywel ap Llywelyn ap Ithel ; ac weithiau, y *Cardiwr Du*. Efe oedd

¹ Y Greal, t. 208.

² Gwesyn nad argreffid y cyfansoddiadau gwahanol sydd yn y casglad gwerthfawr hwnw ; a llawer casglad arall sydd yn yr Amgueddfa Frytanaidd. Beth a debygal y Cymmrodorion gwladgarol o gymmyrd hyn i'w hystyriaeth? Diau y caffent gynnorthwy egniol pob gwladgarwr, yn foneddig a gwreng.

³ Williams's Em. Welshm. p. 219. ⁴ Gorch. Beirdd Cymru, t. 296.

perchenog Brwynog, ffarm fawr, a hen balasdy sydd yn dwyn yr enw fyth ym mhlwyf Llanddeusant, Cwmmwd Talebolion, neu Talymoelion, sir Fon. Y mae 32 o'i ganiadau ef yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr : y mae 18 yn yr un Ysgriflyfr, sef Rhif XXI. Dywedir hefyd iddo ysgrifenu ar Dair Talaeth Cymru ;¹ ond ni wyddys ddim ychwaneg am yr ysgrifwaith hwnw.

Unig gyfansoddiadau argraffedig y ddau fardd awenyddol hyn, yw eu "pedwar cywydd ymryson," dau bob un.² "Asgwrn y gynnen" oedd un Ifan Goch, yr hwn oedd gâr i Sion Brwynog, ac yn un o hiliogaeth Cilmin Droed-ddu ; ac wedi ei gladdu yn Llanaelhaiarn. Gruffydd a ddechreuodd y ffrwgwd, trwy ganmol "Tegengl," fel y wlad oreu dan haul ; ac yna, aiff ym mlaen i ymosod ar Ifan Goch, yr hwn oedd yn ei fedd er ys talm. Dechreu fel hyn :—

Mae mydrwr un yn edrych,
Mewn difai lyfr *Manfil* wych ;
Fy mawr dasg, fy mwriad oedd,
Fy mryd cyn fy marw ydoedd,
Wybod mewn y byd mau,
O'r bel dir ba wlad orau ;
Gwlad Tegengl golwg digoll,
Orau bid ar y byd oll ;
Ysta ryw ystôr dæg,
Ysta y tir gwasdadeg ;
Gwlad irlawn gwlad arlwy,
Gwlad oedd help eu gwledydd hwy ;
Ceir llawer uwch Caerlleon,
Heb erw i hau yn byw ar hon ;
I bawb yd hên i bob tŷ,
A Thegengl heb waethygu ;
Goludog rai o'i gwledydd,
Gan senn y gynfigen sydd.

Ymddengys bod Ifan Goch hefyd yn fardd yn ei ddydd, ac iddo ddywedyd rhywbeth am "Degengl" nad oedd wrth fodd Gruffydd ; ac am hyny dywed y bardd fel hyn :—

Llidiawg wyf lle daw gofyn,
Llwyr ruad waith llawer dyn ;
Gan hwn a'i gogano hi,
A hwn nid ae o honi ;
Ei henw a dddwg yn ei ddydd,
Yr ygalen ar gelwydd ;

¹ Williams's Em. Welshm. p. 49.

² Y Brython, Cyf. iv. t. 257-9.

Ac uwch y bedd coch a'i bwyts,
 Iawn roi *hoë* nádd anrhegwys ;
 Pe gwypyn mewn grwn o gred,
 Pla clwyddawg ple ei cladded ;
 Di gam oedd wedi y dig mau,
 Datgladdwn dad celwyddau ;
 Yn ei *scrin* ysgyrionwn,
 Esgyrion holl esgyrn hwn ;
 Mae cerdd wir mae cerddorion,
 Mil a'i tyst yn y wlad hon ;
 Pon' gwael pwy iawn a goelio,
 Yntau fab Emwnt ai fo ;
 Dafydd gadeirfardd difeth,
 A droes bob barn dros bob peth ;
 Ar ganon i wyr goganu,
 Ac ar y faingc gorau fu ;
 Y sy anwir o synioch,
 O waith fin gwaith Ifan Goch ;
 Gwaith da oedd gaethiwed *wr*,
 Gau genau y goganwr.....1550.

Y mae Sion yn ateb Gruffydd trwy ei oganu am gymmeryd ei gam arwain gan *Sion Manfil* ; a dyrchaif Fon yn uwch na Thegengl. Dyma fel y dechreu :—

Mae gwr yn magu araith,
 Mewn bri deg mae'n bryd ei waith ;
 Myn fedru am ynydrwydd,
 Mynd fal Sion Manfil a'i swydd ;
 Mae yma yn Nhegengl
 Me'us, angall, a mawr sengl ;
 Dyn a gymerth dan gymell,
 Di drahaus oedd da dros well ;
 Derbyn y gwell drwy boen gau,
 Draws gweryl dros y gorau ;
 Gwlad Tegengl glod digon,
 Ac o ble caed had i hon ;
 Sir Fon lle mesura mawl,
 Sir baradwys ysbrydawl ;
 Gorau gwlad dan y goron,
 A gorau had yw gwyr hon ;
 Mon gadarn lle myn godiad,
 Mae imp am gylch mam pob gwlad ;
 Ac yn hon rhoddion yr rhawg,
 Y dewiswyd yn Dwysawg,
 Cynan ar faingc henair,
 Deulwyth dan dalaeth aur ;
 Ffyniant oedd i'r corph union,
 Ffriw mae 'n Aberffraw Mon.

Yna daw i amddiffyn Ifan Goch, a dywed fel hyn :—

Lldiawg wyf wrth wr lledwan,
 Lle 'r él fe fydd lleia ei ran ;
 Swrw a golles y rol,
 Siared yn anghymesuro ;
 Gruffydd Hiraethawg oer-ffawd,
 Gwarth a wnaeth gwrthun ei wawd ;

Wrth roddion a gwarthruddai,
 Y gwr o'i fedd uwch Gor-fai ;
 Ifan Goch a fu 'n y gwin,
 Hael hybarch o hil Robin ;
 Gilmin waed glain a nodir,
 Coffhau wyth oes cyff a thir,
 Ei wyrion sydd o'r un sel,
 Ei gyd achau o waed uchel ;
 Llawer o wir oll ar wawd,
 A wnaeth Ifan a thafawd ;
 Prydydd a fu, prydoedd fawl,
 Prydyddfawr gwr pur ddeddfawl ;
 Parod awen pur diwael,
 Pla bu hwn i bobl hael ;
 Ifan syth ni fynai son,
 Euro clod i rai cledion ;
 Ac ni wnae chwaith lanwaith len,
 I Degengl erioedd ogen ;
 Ei eiriau mwys ar y mawl,
 A wnae gariad angwriawl ;
 Gruffydd fawr o fflydd wan,
 Arwydd achos ar dduchan ;
 Y celwydd a fo caled,
 Anturiaist yntau a'i cred ;
 Dewr yw'r gwr a dieiriach,
 Dewr o bell mal y Driw bach ;
 Datgladd a wnae wr dadglyd,
 Drwy gawdd boen drwg oedd y byd ;
 Llanaelhaearn oll unweidd,
 Llyma fan lle mae ei fedd ;
 A feudda hwn ei fedd hir,
 Os beudda fe'i diysbyddir ;
 Wyrion Ifan o'r nefoedd,
 Yn ei gylch enwog oedd ;
 Gruffydd wedd brudd hyd ddydd brawd,
 Gwaith deufis gwaeth ei dafawd ;
 Gwr a baits y gwir i ben,
 Gwelwch yn dwyn y galen.

Dododd Gruffydd ateb cystal ag y gallai i'r cywydd yna ; a "chywydd ateb" arall, gan Sion Brwynog, a derfynodd y ddadl.

Weithian, daw llenyddiaeth dysgyblion Gruffydd Hiraethog, a'u cydoeswyr, a'u holynwyr, dan sylw, ym mlaenaf, yn eu cysylltiad âg

AIL EISTEDDFOD FRENINOL, CAERWYS.

Erbyn tua chanol y ganrif hon, pan oedd dysgyblion Gruffydd Hiraethog, ac eraill, yn eu blodau, "yr oedd crwydriaid a segurwyr, a alwent eu hunain yn gerddorion, mydrwyr, a beirdd, wedi cynnyddu i'r fath lu annioddefol o fewn Tywysogaeth Gwynedd, fel yr oedd, nid yn unig boneddigion ac eraill yn cael eu hafloenyddu yn fynych yn eu preswylfeydd,

ond hefyd yr oedd y beirdd a'r cerddorion medrus, mewn tref a gwlad, yn cael eu digaloni trwy hyny yn fawr, i deithio yn yr arferiad o'u gwybodaeth; a hefyd, yn cael eu dyrysu yn eu bywiolaethau a'u dyrchafiadau." Yn wyneb hyn, llwyddodd "y beirdd medrus," a'r boneddigion a flinid gan y rhai "*a alwent eu hunain yn gerddorion, mydrwyr, a beirdd,*" i gael Llythyr Cynnwys¹ gan y Frenines Elizabeth, trwy gyfrwng "yr Arglwydd Lywydd a'i Chynghor yng nghyffiniau Cymru," i gynnal yr Eisteddfod grybwylledig, er mwyn rhoi terfyn ar arferion crwydraidd "y segurwyr, a alwent eu hunain yn gerddorion, mydrwyr, a beirdd." Caniatawyd y Llythyr Cynnwys hwn, yn ol ei eiriad ei hun, "dan ein hinsel yn ein dinas Caerlleon, y 23ydd o Hydref, y nawfed flwyddyn o'n teyrnasiad;"² sef, 1566. Gan i'r frenines gael ar ddeall "yr arferid rhoddi blwyddyn o leiaf o rybudd cyn y fath gynnulliad...am hyny y mae ein dywededig gynghor," eb y frenines, "wedi appwyntio i'n llythyr cynnwys hwn gael ei roddi mewn grym yn y ddywededig dref Caerwys y Llun nesaf ar ol Sul y Drindod [y 26ed o Fai], yr hwn a fydd ym mlwyddyn ein Harglwydd Dduw, 1568."³

Cyflwynodd y Frenines Elizabeth y llythyr cynnwys dan sylw "i'w hymddiriedus anwyliaid, Syr Rhisiart Bwcle, Farchog; Syr Rhys Gruffydd, Farchog; Elis Prys, Yswain, doctor yn y gyfraith wladol, ac un o gynghoriaid Cyffiniau Cymru; Wiliam Mostyn, Ieuan Llwyd o Ial, Sion Salbri o Rug, Rhys Tomas, Morus Wynn, Wiliam Lewis, Pys Mostyn, Owain Sion ap Hywel Fychan, Sion Wiliam ap Sion, Sion Lewis Owain, Morus Gruffydd, Simwnt Thelwal, Elis ap Wiliam Llwyd, Rhobert Pulstwn, Harri ap Harri, Wiliam Glyn, a Rhys Huws, Ysweiniaid."⁴

¹ Y mae'r llythyr cynnwys (*commission*) maith hwn yn gyflawn yn Pennant's Tours, vol. ii., pp. 89-93, ac yn Parry's Royal Visits, p. 319.

² Pennant's Tours, vol. ii., p. 93. ³ Yr un, vol. ii., p. 91.

⁴ Pennant's Tours, vol. ii., pp. 89, 90.—Gadewir wyth o'r ugain uchod allan gan yr hen ysgrifenywyr yn *Y Greal*, t. 277-8, yr hyn, yng nghyd a'u gwaith yn dywedyd mai yn 1567 y cynnallwyd yr Eisteddfod, a bar i mi gasglu mai ysgrifenu ar eu hamcan yr oeddynt heb y llythyr cynnwys wrth eu llaw; a dilynwyd hwy gan awdur *Cyfrinach y Beirdd* (t. 171), gyda golwg ar y flwyddyn, a chan Parry yn y *Royal Visits*, p. 320.

Gorchymmyn y llythyr cynnwys i'r gwŷr uchod "gyhoeddi ym mhob ffair, marchnad, tref, a manau dygynnull eraill yn y siroedd hyn, Mon, Arfon, Meirionydd, Dinbych, a Fflint, ar i bawb a honnent hawl i gael bywioliacth wrth yr enw o gerdd-orion, mydrwyr, neu feirdd, ymddangos ger bron y gwŷr uchod ar y dydd ac yn y lle crybwyllledig;" a bod o ddau i ugain o'r gwŷr uchod "fyned i'r lle crybwyllledig, ar y dydd a nodwyd; a galw atynt gynnifer o wyr medrus mewn cerdd dafod a cherdd dant ag a farnent hwy yn gyfleus, er mwyn rhoddi'r llythyr cynnwys mewn grym; a rhoddi graddau cymmesur i gynnifer ag a gyfrifent yn deilwng; a chaniatau iddynt arfer a dilyn eu celfyddydau a'u proffes mewn trefn a dosparth, pob un yn ol ei radd ac yn ol y dysteb a gaffai"¹ gan rai o'r gwyr a nodwyd uchod. Tystia'r llythyr cynnwys "bod y dywededig Wiliam Mostyn wedi addaw darpar pob celfi² a phethau angenrheidiol at y dygynnull hwnw yn y lle a nodwyd,"³ sef Caerwys. Mewn canlyniad i hyn, cynnaliwyd yr Eisteddfod ar y 26ed o Fai, 1568, a gweinyddwyd graddau fel y canlyn:—

GWYR WRTH GERDD DAFOD.

Lewis Edward [neu Lewis Mon]; Wiliam Lleyn; Owain Ifan, neu Owain Gwynedd; a Simwnt Fychan,⁴ a raddiwyd yn Bencerddiaid Cerdd Dafod.

Wiliam Cynwal, Lewis Menai, Sion Tudur, Huw Lleyn, Bedo Hafesp, Sion Philip, a Huw Conwy, a raddiwyd yn Ddysgyblion Pencerddiaid Cerdd Dafod. Ieuan Tew, Huw Pennant, a Hywel Ceiriog, a raddiwyd yn Ddysgyblion Dysgyblaidd Cerdd Dafod.

Dafydd Alaw, Edward Brwynllys, a Rhys Gelli, a raddiwyd yn Ddysgyblion Yspâs Cerdd Dafod.

GWYR WRTH GERDD DANT.

Sion ap Rhys Bencerdd, Wiliam Penllyn, a Hwlcyn Llwyd, a raddiwyd yn Bencerddiaid ac Athrawon Cerdd Dant Telyn.

Tomas Anwyl, Dafydd Llwyd ap Sion ap Rhys, Edward ap Ifan, Rhobert ap Owain Llanfor, ac Wmffre Goch, a raddiwyd yn Bencerddiaid (nid Athrawon) Cerdd Dant Telyn.

Rhisiart Glynn, Rhobert Llwyd, Ifan Penllyn, a Lewis Llanfor, a raddiwyd yn Ddysgyblion Pencerddiaid Cerdd Dant Telyn.

¹ Pennant's Tours, vol. ii., p. 92.

² Wrth "gelfi (*furniture*) a phethau angenrheidiol," yn ddiau y meddylir, y babell, y llwyfan, a'r cyffelyb.

³ Pennant's Tours, vol. ii. p. 93.

⁴ Dywedir yn gyffredin mai Simwnt Fychan oedd y "Bardd Cadeiriog" yn yr Eisteddfod hon; ond nid oes awgrym yn y llythyr cynnwys, nac mewn un ysgrif awdurdodol arall, fod yno gadair o fath yn y byd, na "Bardd Cadeiriog" ychwaith; na bod Simwnt Fychan yn ddim uwch na'r tri a enwir o'i flaen. Os gellir eu barnu wrth eu cyflead ar y rhestr, yr oedd Lewis Edward, Wiliam Lleyn, ac Owain Ifan, yn uwch na Simwnt Fychan; ac od oedd yno gadair arian, y mae'n debyg mai Lewis Edward a'i casaf.

Huw Dai, Huw ap Morus, Siamas Morlas, Sion Niwbwrch, ac Elis Gruffydd, a raddiwyd yn Ddysgyblion Dysgyblaidd Cerdd Dant Telyn.

Lewis Berain, Ieuan ab Meredith, a Gwalchmai ab Dafydd, a raddiwyd yn Ddysgyblion Yspás Cerdd Dant Telyn.

Siamas Eutyng, ac Ifan Penmon, a raddiwyd yn Bencerddiaid ac Athrawon Cerdd Dant Crwth.

Rhobert ap Rhys Gutyn, Tomas Mon, Sion Ednyfed, a Thomas Grythor, a raddiwyd yn Bencerddiaid (nid yn Athrawon) Cerdd Dant Crwth.

Sion Ddu Grythor a raddiwyd yn Ddysgybl Pencerddiaid Cerdd Dant Crwth.

Rhobert ap Ieuan Llwyd, Edward Grythor, Tomas Cegidfa, Rhys Grythor Hiraethog, Tomas Grythor Bach, Dafydd ap Hywel Grythor, a Wiliam Ednyfed, a raddiwyd yn Ddysgyblion Dysgyblaidd Cerdd Dant Crwth.

Rhisiart Conwy, Sion Alaw, Rhobert Conwy, a'r Crythor Llwyd Marchedd, a raddiwyd yn Ddysgyblion Yspás Cerdd Dant Crwth.¹

Er bod yn y wlad gryn ddau gant a haner, neu chwaneg, o feirdd a cherddorion yn oes Elizabeth, nid oedd gan neb hawl gyfreithiol i fyw wrth y gelfyddyd farddol neu gerddorol, ac i glera yn y pum sir crybwylledig, ond y 55 a nodwyd yn unig, gan y rhai yr oedd tystlythyr yn nodi eu gradd. Ystyrid pawb eraill a feiddient fyned i glera fel Beirdd Cerdd Dafod neu Gerdd Dant, "megis crwydriaid ystyfnig a segur; cymmerid hwy i fynu fel y cyfryw; ac ymddygid atynt yn ol y cyfreithiau a ddarparwyd ar eu cyfer."²

Ymddengys i Simwnt Fychan wneud "Dosparth ar Fesurau Cerdd Dafod i'r Meistr Pirs Mostyn, o Dalacre; a'r Ddosparth honno a gafodd farn a bodd Eisteddfod Fawr Gaerwys ym mlwyddyn oed Crist" 1568.³ Hefyd, gwnaeth Simwnt "Awdl i'r Meistr Pirs Mostyn, o Dalacre, i arddangos y pedwar mesur ar hugain; a honn a ddangoswyd ger bronn yr Eisteddfod yng Nghaerwys."⁴ Tybiodd rhai, o herwydd hyn, mai Simwnt Fychan oedd "Bardd Cadeiriog" ail Eisteddfod Caerwys; ond nid oes dim awdurdod i brofi ei fod ef yn fwy "cadeiriog" na'r

¹ Pennant's Tours, vol. ii., pp. 93-95.—Nid oes dim son am "orsedd," na "chleddyf," nac "ysnodenau," na math neillidol ar "wisgoedd," fel anheborion graddau yng nglun a'r Eisteddfod hon, mwy na'r llall a fu yng Nghaerwys, nac ag Eisteddfod Freninol Caerfyrddin (yn 1451), chwaith. Ymddengys wrth lythyr cynnwys Elizabeth (*Pennant's Tours*, vol. ii., p. 92) mai tystysgrif ("certificati"), dan law un, neu chwaneg, o Lywyddion yr Eisteddfod, yn nodi gradd y bardd, oedd holl seremoni y graddio yn yr Eisteddfodau awdurdodol hyn; heb law rhoddi'r gadair arian (od oedd yno un) i'r Pencerdd Cerdd Dafod: telya arian, i'r Pencerdd Telyn; a chrwth arian (od oedd yno un) i'r Pencerdd Crwth. Yn ysgrifau Llywelyn Sion sydd yn *Iolo MSS.* a *Chyfrinach y Beirdd*, y mae hanes yr "Orsedd Farddol" gyntaf, crystal a'r holl wag seremoniau yng nglun a hi. Dyfeisiwyd yr "Orsedd" hon, yn ol barn y Dr. Jones (*Hist. Wales*, p. 224) oddi wrth orseddau dychymmygol yr hen Dderwyddon.

² Pennant's Tours, vol. ii., p. 92.

³ *Cyfrinach y Beirdd*, t. 171.—1567 a ddiolwyd yma yn anghywir. ⁴ *Cyfr. y Beirdd*, t. 132.

tri a enwir o'i flaen ; sef Lewis Edward (Lewis Mon), Wiliam Lleyrn, ac Owain Ifan (Owain Gwynedd), y rhai oedd yn meddu yr un radd ag yntau. Yn wir, ni sonir yn y llythyr cynnwys fod *cadair* arian i gael ei chyflwyno i neb yn yr Eisteddfod hon, er yr awgrymir bod yno *delyn* arian ; ac ni ddywedir yn nglŷn â'r Eisteddfod hon o gwbl, fod Simwnt Fychan yn "fardd cad-ciriog," fel y dywedir yn hen "lyvyr y Plas Gwyn, yn Mon, Rhif 65,"¹ am Tudur Aled. Ymddengys mai at wasanaeth "y Meistr Pirs Mostyn" y gwnaeth Simwnt Fychan ei "Ddosparth ar fesurau Cerdd Dafod," a'i "Awdl i arddangos y pedwar mesur ar hugain," a hyny *cyn* yr Eisteddfod ; ac i'r naill gael "barn a bodd yr Eisteddfod," tra y "dangoswyd y llall ger bronn yr Eisteddfod"; ond ni ddywedir i'r naill na'r llall gael ei "chonffirmio yn Gadair Cerdd Dafod i holl Wynedd a Phowys," fel y dywedir am y ddosparth a gyflwynwyd gan Tudur Aled i Eisteddfod gyntaf Caerwys, fel y gwelwyd. Gan fod Tudur Aled yn nai ac yn ddysgybl i Dafydd ap Edmwnt, y mae'n hollol debyg fod gwir Ddosparth Dafydd ym meddiant Tudur Aled, fel y'i gwnaethpwyd gan Llawdden ac yntau yng Nghaerfyrddin ; ac mai y Ddosparth honno, mewn gwirionedd, "a gonffirmiwyd yn Gadair Cerdd Dafod i holl Wynedd a Phowys"; ac ni welir dim sail i'r "Ddosparth a wnaeth Simwnt Fychan, Bencerdd, i'r Meistr Pirs Mostyn," gael ei "chonffirmio" yn ei lle. Ymddengys hefyd mai fel hyn y deallai Gwallter Mechain y pwngc ; canys y mae yn eglur na fwriadai efe, yn Eisteddfod Caerfyddin yn y fl. 1819, ddiddymu "y Rheithiadau Cerdd a freiniwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn y fl. 1451, dan enw pedwar mesur ar hugain," namyn dyrchafu Ddosparth Morganwg, a eilw efe "yr hen Ddosparth," i'r un awdurdod a Ddosparth Dafydd ap Edmwnt, a eilw efe "y Ddosparth newydd"; "ac na byddo rhag llaw wahaniaeth o barth teilyngdod i ei roddi i fesurau yr un Ddosparth, na'r hen na'r newydd, ragor neu uwch na eu gilydd."² Y penderfyniad anocheladwy, gan hyny, fel y tybir ydyw, er bod Ddosparth Simwnt

¹ Y Greal, t. 276.² Davies's English Works, p. 171.

Fychan yr un, o ran sylwedd, a Dosparth Dafydd ap Edmwnnt, a gyflwynodd Tudur Aled i Eisteddfod gyntaf Caerwys ; eto, na "chonffirmiwyd" y flaenaf erioed "yn Gadair Cerdd Dafod i holl Wynedd a Phowys," fel y "conffirmiwyd" yr olaf ; am hyny, bod yr olaf fyth mewn awdurdod, yn gyfartal i Ddosparth Morganwg ; a bod yn llawn bryd bellach dyrchafu Mesurau Rhyddion y Beirdd Cymreig, hen a diweddar, trwy awdurdod Eisteddfod Genedlaethol, i'r un urddas a Mesurau Caethion Dosparth Dafydd ap Edmwnnt a Dosparth Morganwg ; "ac na byddo rhag llaw wahaniaeth o barth teilyngdod i ei roddi i fessurau yr un Ddosbarth, na'r hen na'r newydd," na Dosparth y Mesurau Rhyddion, "ragor neu uwch na eu gilydd ; ond bod urddas Cerdd, neu Awdl," neu Gân Rydd, "uwch eraill, i gael ei farnu wrth gymhwylliaid synwyr a phwyll,... yn hytrach nag wrth amrywiaeth mesurau." Yna byddai genym ryw obaith cael caniaidau Cymreig gwerth eu cyfieithu i ieithoedd estronol, megis caniaidau cenedloedd eraill.

Yr oedd llu mawr o Feirdd a Llenorion yn yr oes hon, heb law graddedigion Eisteddfod Caerwys, "yn canu [ac yn ysgrifenu] ar eu bwyd eu hun ;" ac yr oedd amryw o honynt yn tra rhagori ar y clerwyr graddedig, fel y gwelwyd eisoes, mewn rhan, ac y ceir gweled eto. Enwir 44 o'r Beirdd a'r Llenorion annibynol hyny yn *Y Greal* (Llundain) o'r "Capt. William Myddelton" (Gwilym Ganoldref) hyd y "Dr. Davies, o Vallwyd."¹ Ond rhaid i ni yn awr ddyfod at lenyddiaeth graddedigion Eisteddfod Caerwys, a'u cydoeswyr.

LEWIS EDWARD (Lewis Mon), y blaenaf ar Restr Pennant o Bencerddiaid ail Eisteddfod Caerwys. Methwyd taro ar ddim o hanes y "Pencerdd Cerdd Dafod" yma yng ngwaith ein Bywgraffwyr. Y mae'r Parch. R. Williams, a'i olynwyr, wrth reswm, yn nodi un "Lewis ab Edward," yr hwn a ddyry efe yn ei flodau rhwng y fl. 1600 ac 1630 ; a dywed bod rhai o'i gyfansoddiadau yn aros mewn llaw ysgrif ;² ond yr oedd hwnw yn ei flodau yn rhy ddiweddar i fod yn Lewis Mon ; canys rhaid bod hwn yn ei flodau yn y fl. 1568.

¹ *Y Greal*, t. 105.

² *Williams's Em, Welshm.*, p. 271.

Dengys y Dr. Pughe fod 67 o ganiadau Lewis Mon yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr; a dyna'r cwbl a wyddys am dano.

WILIAM LLEYN, neu *Llyn*, fel yr ysgrifenedig ef gan yr hen awduron. Efe ydyw yr ail ar Restr Pennant o Bencerddiaid Cerdd Dafod; ac y mae'n ddilys ddiammheu ei fod yn un o'r beirdd graddedig cynganeddol mwyaf ei awen a'i athrylith a gyfododd ar ol Dafydd ab Gwilym. Ei enw priod oedd William Owen; a ganwyd ef o gylch y fl. 1530,¹ yn Llangfan, cantref Llein, sir Gaernarfon; a'i dad cyfrifol, yn ol y traddodiad, oedd ŵr a'i enw Gruffydd, o Gefnamwlch, yr hwn a dalodd am addysg uwchraddol iddo, nes y cyrhaeddodd y radd o A.C., er ei gymhwyso i fod yn offeiriad.

Dywed ei hun, fel y gwelsom, mai Gruffydd Hiraethog oedd ei Athraw Barddonol, yr hwn a goleddai y syniad uwchaf am ei awen a'i alluoedd prydyddol. Dywed Myrddin Fardd fod W. Llein wedi ennill y Gadair yn Eisteddfod Caerwys, yn yr hon y "graddiwyd ef yn Bencerdd Cerdd Dafawd, am yr awdl oreu i'r Eos;"² ond nid oes dim awgrym yn hanes yr Eisteddfod honno, fel y crybwyllwyd, bod Cadair yn perthyn iddi, nac "Awdl i'r Eos" chwaith; ac nid yw Myrddin yn dwyn un awdurdod dros ei fynegiad. Dywedir mai W. Llein oedd Athraw Barddonol Edmunt Prys, Archddiacon Meirionydd;³ tra y dywedir hefyd, fel y ceir gweled eto, mai Sion Tudur oedd Athraw Barddonol yr Archddiacon. Dichon y cafodd ryw addysg farddonol gan y naill a'r llall.

Dywedir y bu ymryson barddonol rhwng W. Llein ac Owen Gwynedd, yr hwn a raddiwyd yn Bencerdd Cerdd Dafod ar unwaith ag ef, fel y gwelwyd, yn Eisteddfod Caerwys; ond nad oes dim o'r ddadl wedi ei gyhoeddi.⁴ Dichon ei bod mewn rhai o Ysgriflyfrau Myfyr. Y mae 9 o ganiadau W.

¹ Dywed y bywgraffwyr, y naill ar ol y llall, mai o gylch y fl. 1540 y ganwyd W. Llein. Pe felly, ni buasai ond 10 oed pan fu farw ei Athraw Barddonol, Gruffydd Hiraethog, yn y fl. 1550.

² Y Brython, cyf. iv., t. 63.

³ Williams's En. Welshm. p. 279; Geir. Rywgr. I. F., t. 690.

⁴ Gwel yr un awdurdodau.

Lleyn yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*, ar y testynau canlynol :—

Awdl orchestol i Ferch, ar y Pedwar Mesur a'r hugain Cerdd Dafod.

Awdl Fol. i Rys Fychan.

C. [Cywydd] Moliant i'r un Gŵr.

Awdl Fol. Gruffydd Nannau.

Awdl Fol. Huw ap Rhisiart o Fodwrda.

C. i Rys ap Huw o Facs-y-pandy.

Awdl Farwnad Huw ap Sion ap Howel o Lannfendigaid.

C. Mar. Gruffydd Hiraethog.

C. Mar. Syr Owain ab Gwilym.¹

Y mae'r darnau canlynol hefyd o'i waith yn argraffedig yn *Y Brython* :—

Englyn i awrlais cywrain Sion Trefor, o Swydd Ddinbych.²

Cywydd i ofyn Cymmod gwr boneddig, o Gaernarfon; sef Wiliam Gruffydd, Plas Mawr, Caernarfon, a briododd Margaret, merch John Wynn, Ysw., o Wydir.³

Tri Englyn i Feddfan Rhys Goch Eryri.⁴

Dyna gymmaint o waith "y Pencerdd dwyfol W. Lleyn," ys dywedai Glasynys, sydd yn argraffedig, hyd y gŵyr yr ysgrifenydd. Y mae 99 o ganiadau'r bardd awenyddol hwn yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr: 25 yw'r nifer mwyaf sydd yn yr un ysgriflyfr, sef Rhif XVI. Y mae tlysni, lledneisrwydd, doethineb, nerth, a chelfyddyd yn addurno holl ganiadau y Pencerdd awenyddol hwn; a gresyn na chai'r Cymry ei holl waith yn argraffedig mewn un gyfrol ddestlys.

Yn y fl. 1583, dyrchafwyd y Bardd godidog i Ficeriaeth Croesoswallt; ac yno, yn y fl. 1587, y bu farw; a chyfansoddwyd Marwnad iddo gan ei gymmydog, Rhys Cain, yr hon, fel y dywedir, sydd fyth mewn llawysgrif.⁵

OWAIN IFAN, neu Owain Gwynedd, yw'r trydydd Pencerdd Cerdd Dafod, ar Restr Pennant, a raddiwyd yn ail Eisteddfod Caerwys, yn y fl. 1568. Ychydig iawn sydd ar gof a chadw am y Pencerdd hwn. Yr oedd yn ei flodau o'r fl. 1550 i 1590; a dywedir mai efe oedd bardd Lewis Owen, Ysw., Rhagystafellydd, a Barwn Trysorlys Gwynedd, yr hwn a lofruddiwyd yn y fl. 1555; ac y cyfansoddodd y bardd ei Farwnad.⁶ Nid ydys yn gwybod, fel y crybwyllwyd, bod dim o'i waith yn argraffedig, oddi eithr un "Cywydd gorchestol i Sion Lewis

¹ Gorch. Beirdd Cymru, t. 258—30.

² Y Brython, cyf. iil., t. 117.

³ Yr un, t. 263.

⁴ Yr un, t. 394.

⁵ Williams's Em. Welshm. p. 279.

⁶ Ibid, p. 370.

Owain ;”¹ ond dengys cyfres y Dr. Pughe bod 20 o'i ganiadau yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr : 10 ydyw y nifer mwyaf sydd yn yr un ysgriflyfr, sef Rhif XIX.

SIMWNT FYCHAN oedd y pedwerydd bardd, fel y gwelwyd, a raddiwyd yn Bencerdd Cerdd Dafod yn Eisteddfod Caerwys yn y fl. 1568. Traethwyd ychydig ar y bardd craffus yma eisoes yng nglŷn âg Eisteddfod Caerwys, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd gynlluniwr gofalus, yn hytrach na phrydydd aruchel ac awenyddol. Gruffydd Hiraethog oedd ei Athraw Barddonol, fel W. Lleyrn ; am hyny, rhaid y ganwyd yntau o gylch y fl. 1530. Dywedir ei fod ef yn “ŵr boneddig tiriawg ;” a phreswyliai, medd Huw Roberts, yr hwn a adysgrifennodd ei Ramadeg yn y fl. 1772, copi ysgrifenedig yr hwn sydd ym meddiant yr ysgrifenydd, yn y “Tŷ Brith, yn Llanfair Dyffryn Clwyd yn flwydd oed ein Harglwydd 1565.” Y mae'r can-iadau canlynol o'i waith yn argraffedig yn *Records of Denbigh*, yn hen lythraeth ei amser :—

Kowydd Moliant Sion Llwyd, ysgweier, o Ial. Cyfansoddwyd yn y fl. 1560 : t. 93.²

Marwnad Sion Llwyd Ysgweier o Ial : t. 94.

Kowydd i Wiliam Eyton, o Riwabon : t. 95.

Marwnad Richard Clwch : t. 175.

Dechreu y Farwnad olaf fel y canlyn :—

Braw a droes, oer bryder sydd : briw dwfn fal i bu'r defnydd.

Braw anial, briw Vnys : Brydain a Llundain a'i llys.

Aeth yr Iessu â'i thrysor : a gwresdarn o Loegr a'i stôr.

Marw ddoe hydd, mae'r waedd heddyw : Mastr Clwch, holl Westmi'ster a'i clyw.

Ond ymddengys mai prif gyfansoddiad prydyddol Simwnt Fychan yw yr Awdl y cyfeiriwyd ati eisoes, a wnaeth efe i “Arddangos y pedwar mesur ar hugain i'r Meistr Pirs Mostyn o Dalacre ; a honn a ddangoswyd ger bronn yr Eisteddfod yng Nghaerwys,” yn y fl. 1568. Cynnwys yr Awdl orchestol hon un pennill, a dim ond un, ar bob un o'r 24 mesur ; a dechreu fel y canlyn yng *Nghyfrinach y Beirdd* :—

¹ Gorch. Beirdd Cymru, t. 256.

² Cyfeiria y rhifau hyn at y tudalenau yn *Records of Denbigh*, lle y mae'r cywyddau.

I. UNODL UNION.

Pen breisgedd bonedd bennod—parch vowredd
 Por glasgledd pur glwysglod ;
 Pwyll distaw pell yw d' ystod,
 Pirs air Nudd parhaus wr nod.

2. UNODL CYRCH.

Nodol wyd a fynyadwy,
 Ni bu 'n v' oes neb enw yn vwy,
 Nerth draig, Caswallon wrth drin,
 Neu Edwin a wnai adwy.

3. UNODL CRWCCA.

Adwy ni wnn, dyna wir,
 Yn dy lin o dilynir ;
 Ond glan a chyfan ach hir oleudeg
 Iaith vreudeg i'th vrodir.¹

Dechreu llinellau pob pennill â'r un gydsain, fel y pennill cyntaf a'r ail, neu â llafariaid, fel y trydydd, yr hyn a elwir "Cymmeriad llythyrenol ;" a therfyna prifodlau yr holl benillion o'r 7fed i'r 24ydd, â'r un sill, sef *edd*. Ar fyr, y mae yr Awdl yn gampuswaith cynganeddol ; ac y mae'r syniadau yn lled wych, ac ystyried tyndra'r llyffetheiriau. Cyhoeddwyd yr Awdl hon hefyd yn gyflawn yng *Ngramadeg Lladin Sion Dafydd Rhys*,² ac yng *Ngramadeg Cymraeg Sion Rhydderch*.³

Heb law y caniadau argraffedig a nodwyd, y mae 35 o ganiadau Simwnt Fychan yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr. Y nifer mwyaf yn yr un llyfr yw 15, sef yn Rhif VI.

Heb law yr holl ganiadau a nodwyd, ac eraill hefyd, ond odid, ysgrifennodd, neu casglodd, Simwnt Fychan y llyfr y cyfeiriwyd ato, yr hwn a elwir yn yr hen ysgriflyfr sydd wrth law genyf, fel hyn :—

Gramadeg Simwnt Fychan Or Ty Brith yn Llanfair Dyffryn Clwyd yn flwydd oed ein Harglwydd 1565.

Hugh Roberts ai Sgrifennodd allan o Lyfr Mr Vychan iddo ei hun Blwyddyn 1772.

Maint yr hen Ysgriflyfr hwn yw 4plyg bychan, yn cynnwys 155 o dudalenau. Yr un cyfansoddiad ydyw y gwaith a gyhoeddwyd yn *Nosparth Edeyrn Dafod Aur*, dan olygiad Ab Ithel, a elwir yno "Pum Llyfr Cerddwriaeth ;"⁴ ond bod rhywun, neu rywrai, wedi chwanegu ychydig ato, yng nghopi Ab Ithel ;

¹ Cj fr, y Beirdd, t. 182.

² Ling. Cymr. Inst. Accur. p. 248.

³ Gram., t. 151.

⁴ Doesp. Ed. Dafod Aur, t. xlii.—cxxxviii.

wedi newid ychydig ar y llythraeth a rhai ymadroddion ; wedi llwyr ddiwygio y gwahannodiad ; ac wedi mawr niweidio y cynnwys mewn rhai manau, yn ol barn yr ysgrifenydd. Dodir un esampl yma o'r niwaid dan sylw. Cymmerir y difyniad blaenaf o'r hen Ysgriflyfr, a'r ail, o'r "Pum Llyfr Cerddwriaeth :"—

Beth yw llythyren. y llefarydd lleiaf. A gair a silldaf ag ymadrodd. pedwar peth a Berthyn ar lythyren. nid amgen Henw flugr ordor A phower. Saith lythyren ar higian ysydd angenrheidiol wrthynt i ysgrifenu yr iaith gamberaig, yn ol tafodiaith y Cymru. A thrwyddynt hwy yr ysgrifenisir holl iaith Cambar heb gymorth un llythyren o iaith arall nid amgen

A. B. c. ch. d. dd. e. f. ff. g. ng. h. i. l. ll. m. n. o.
p. ph. r. s. t. th. u. w. y.

Hi hefyd ysydd Arwydd uchenaid. Ac ni ellir bod hebddi yn y geiriau uchneidiol nid amgen hoel hael hoen Ar cyffelib. Rhai o'r llythyrenau ysydd yn fogailiaid nid amgan na rhai hynn

a e i o u w y

Ar lleill ysydd gydsoniaid ¹ [&c.]

Fel y canlyn y dywedir ar y pethau uchod yn y "Pum Llyfr Cerddwriaeth :"—

Beth yw Llythyren? Y lleferydd lleiaf, a gair ; a silldaf ac ymadrodd : Pedwar peth a berthyn ar lythyren, nid amgen Henw, Flugr, Ordor, a Phower. Pedeir llythyren ar hugain ysydd yn-nghambaraec, nid amgen ; a, b, c, d, e, f, g, h, i, k, l, ll, m, n, o, p, q, r, s, t, v, w, x, y. Or llythrennau rhai ysydd vogoliaid, nid amgen a, e, i, o, v, w, y. A'r lleill oll ysydd gydseiniaid¹ [&c.]

Gwelir yn y difyniad blaenaf, fod yr hen Ysgriflyfr yn cynnwys yr holl lythyrenau arferedig, i gynnrychioli holl seiniau syml y Gymraeg, a dim ond y llythyrenau hyny ; tra y mae'r "Pum Llyfr Cerddwriaeth" yn gadael allan ch, dd, ff, ng, ph, th ; ac yn cymmysgu ei egwyddor â'r llythyrenau estronol hyn :—k, q, v, x ; ac er hyny y mae ei orgraff yn cynnwys holl lythyrenau dyblyg egwyddor yr hen Ysgriflyfr ! Hefyd, y mae yn defnyddio c a k, i ddynodi yr un sain ; a gwna yr un modd gydag f a v. Gellid nodi amryw waethygiadau cyffelyb sydd yn y "Pum Llyfr Cerddwriaeth," ond prysurir ym mlaen.

Cyhoeddwyd rhan o'r hen Ysgriflyfr, gydag ychwanegiadau, talfyriadau, gwelliadau, a gwaethygiadau yng *Nghyfrinach y*

¹ Yr Hen Ysgriflyfr, t. 2.

² Dosp. Ed. D. Aur, t. xlii.

Beirdd, fel y gwelwyd, dan yr enw "Dosparth ar Fesurau Cerdd Dafod a wnaeth Simwnt Fychan Bencerdd i'r Meistr Pirs Mostyn o Dalacre," &c.¹

Bu yr enwog Simwnt Fychan farw ar y 5med neu'r 12fed o Ebrill, 1606.²

WILIAM CYNWAL, ydoedd fardd peraidd ac awenyddol, yr hwn, fel Wiliam Lleyrn a Simwnt Fychan, oedd ddysgybl i Gruffydd Hiraethog, fel y gwelwyd ; am hyny, rhaid y ganwyd yntau o gylch y fl. 1530, neu ychydig yn ddiweddarach, ond odid. Dysgybl Pencerddaidd Cerdd Dafod y graddiwyd ef yn Eisteddfod Caerwys yn y fl. 1568. Preswyliai yn Mhenmachno, sir Gaernarfon. Ymddengys bod ei ganiadau yn bur lluosog ; ond yr unig rai a argraffwyd, hyd y gwyddys, yw y rhai canlynol :—

Kowydd 'i yrru y long i nol Mr ric Clwch a meistres Katrin adref o Denmark.³

Kowydd i groessawu y meistres Katrin adref pann fu tuhwnt i'r mor val y kair gwybod wrth y kowydd.⁴

Kowydd Marwnad am y Mastr Rhissiart Klwch marchog o Vedd Krist.⁵

Dangosir yn y cywydd olaf yna yng nghylch pa amser y cyfansoddwyd ef, fel y canlyn :—

E vynnodd i'w vvw ennyd, Wellau ar bawb oll o'r byd,
Yn gedyrn hwnn a gododd, I bobl ; rhoe gan' nobl yn rhodd.
I'w frodyr doe, bu frwydr dydd, a chwerw gwyn i'w chwiorydd.
Yr oedd deg, hardd diwygiad ! Yn aeron teg o'r un tad.
Oed Iesu fu, dewis fodd, Di gam pan y degymmodd,
Pymtheg cant, tyfiant ofeg, Pum saith ddwywaith, mae'n daith deg.

Y mae cywydd arall o'i waith yn argraffedig, a elwir fel hyn :—

Cywydd i ofyn Rhys Grythor, neu i geisio ei fenthyg gan Sion Tudur.⁶

Dyna'r cwbl, hyd y gŵyr yr ysgrifenydd, sydd o'i waith yn argraffedig, oddi eithr rhyw dri neu bedwar o'i gywyddau ymryson âg Edmwnt Prys, a gyhoeddwyd yn *Llais y Wlad*, Bangor, o gylch dwy flynedd yn ol. Cyn traethu ychwaneg ar yr ymryson pwysig hwnw, rhaid dwyn ei enwog wrthwynebydd i mewn, yr hyn a wneir yn ebrwydd.

¹ Cyfr. y Beirdd, 171. ² Williams's Em. Welshm, p. 515 ; Geir. Bywgr. I. F., t. 358.
Records of Denbigh, p. 173. ⁴ Ibid., p. 179. ⁵ Ibid., p. 180. ⁶ Y Brython, cyf. lli., t. 426.

Dengys cyfres y Dr. Pughe fod cynnifer a 101 o ganiadau Wiliam Cynwal yng ngwahanol ysgriflyfrau Myfyr. Y nifer mwyaf sydd yn yr un gyfrol yw 40, sef yn Rhif XXVII.

EDMWNT PRYS. Duwinydd dysgedig, a bardd enwog, "yd-oedd fab i Sion Prys, ap Gruffydd, ap Rhys, ap Einion Fychan, ap Ifan, ap Rhys Wyn, ap Dafydd Llwyd, ap Madoc, ap Gronwy, ap Cynfrig, ap Iddon, ap Idnerth, ap Edryd, ap Enethan, ap Iapheth, ap Carwed, ap Marchydd (un o gyffion 15 llwyth Gwynedd), ap Cynan Elfyw, ap Mor, ap Maenan, ap Iobwys, ap Mwyntyrrch, ap Calfynydd, ap Cynwyd Cynwydion, ap Cynfelyn, ap Arddwys [Arthwys?], ap Morydd, ap Coel Gohebawg, Brenin Prydain," yn y fl. 330, ac felly ym mlaen trwy'r achau ffugiol,¹ hyd y brenin ffugiol, "Prydain ap Aedd Mawr, Brenin cyntaf Ynys Prydain."²

Beth bynnag am yr achau o "Tegfan ap Deheufraint," hyd "Prydain ap yr Aedd Mawr," y mae'n ddilys ddigon fod Edmwnt Prys wedi disgyn o deulu Cymreig pendefigaidd; a bu hyny yn fanteisiol iddo fel llenor.

Ganwyd ef, fel y gellir casglu oddi wrth ei bennillion Lladin sydd o flaen *Antiquæ Linguae Britannicæ* y Dr. Davies o Fallwyd, yn y fl. 1541. Am ei anneddle, dywedir mewn hen ysgrif Seisnig yn Llyfrgell Tan y Bwlch, i'r ystyr canlynol:—

Mab Tyddyn Du, Maentwrog, oedd yr Archddiacon; a ganwyd ef yn 1541. Aeth i fyw yn y Gerddi Bluog, ym mhlwyf Llanfair, pan briododd ei ail fab, Morgan Prys, â Margaret Williams, etifeddes y Gerddi Bluog. Claddwyd ef ym Maentwrog, heb unrhyw gofadail, yn y fl. 1624.

Gorphenodd ei addysg yng Ngholeg Ioan Sant, Caergrawnt, lle y graddiwyd ef yn A.C. Yn y fl. 1572, penodwyd ef i berigloraeth Ffestiniog, sir Feirionydd. Yn y fl. 1576, dyrchafwyd ef yn Archddiacon Meirionydd; yn y fl. 1580, cafodd berigloraeth Llanddwywe at un Ffestiniog; ac yn y fl. 1602, gwnaed ef yn Ganon Llanelwy.

Tybia rhai mai Wiliam Lleyon oedd Athraw Barddonol yr Archddiacon Prys;³ tra y dywed eraill mai Sion Tudur oedd

¹ Ffugiol yr ystyrfa y Proff. Rees yn briodol, yr holl achau Cymreig pan y cynnygiont dreiddio i'r Cyfnod Rhufeinaidd Cymreig. — Rees's Welsh Saints, p. 91.

² Y Gwyddoniadur, cyf. viii. t. 498.

³ Gwaith y Parch. E. Evans (Iouan Brydydd Hir), t. 36, note

ei athraw ;¹ a braidd nad awgrymir hyny yn un o gywyddau boreuaf yr Archddiacon, a elwir, "Cywydd o waith Edmund Prys i ofyn dau lyfr y Dwned a Prognostication digri o waith Sion Tudur." Fel hyn y dywed am Sion Tudur fel athraw, ac am dano ei hun fel dysgybl :—

Sion air pur, synwyr parod,
 Selef ein cler, sylfaen clod !
 Sion rywiog sein aur awen,
 Senior pawb o synwyr pen !...
 Athraw ydwyd, a thradoeth,
 A cholofn y gerdd ddofn ddoeth...
 Disgybl wyf, o dysg gwbl [waith]
 Yspas hir, yspys araith...
 Mesura rymus wryd,
 Moes di 'r gwir, fy meistr, i gyd.²

O barth gallu a manteision barddonol Edmwnt Prys, dywed Rhys Jones, o'r Blaenau, fel hyn :

Edmwnt Prys Archdiacon Meirion, yr hwn oedd wr dysgedig a chelfyddgar mewn amryw leithoedd, ag nid oedd undyn byw yn gwybod Rheolau a Chywreindedd Barddoniaeth ei wlad ei hun yn well, a ddywedodd fel hyn.

Profais ni fethais yn faith,
 O brif leithoedd, brâf Wythiaith ;
 Ni phrofais dan ffurfafen,
 Gwe mor gaeth a'r Gymraeg wen.³

Gwelir, gan hyny, fod gan Edmwnt Prys bob manteision allanol at farddoni yn gywrain, heb law awen naturiol. Y mae'n eglur fod beirdd yr oesau gynt, a rhai mewn oesoedd diweddarach hefyd, yn dra chwanog i ymdderu ac ymryson mewn barddoniaeth ; megis Rhys Goch Eryri a Sion Cent ; Rhys Goch a Llywelyn Moel ; Dafydd ap Gwilym a Rhys Meigen ; a D. ap Gwilym a Gruffydd Gryg ; Guto'r Glyn a Llywelyn ab Gutyn ; a Guto'r Glyn a Dafydd ap Edmwnt ; Guto'r Glyn a Syr Rhys o'r Drewen ; Tudur Penllyn ac Ieuan Brydydd Hir Hynaf ; Ifan ap Hywel Swrdwal a Llawdden ; Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffydd a Llywelyn ap Gutyn ; Gruffydd Hiraethog a Sion Brwynog ; ac yn nesaf, hyd y cofir, dyma yr ymryson mawr, pwysig ei ganlyniadau

¹ Y Brython, cyf. v., t. 17.

² Enwogion y Ffydd, cyf, i. t. 67.

³ Gorch. Beirdd Cymru, y Rhagymadrodd.

rhwng Edmwnnt Prys a Wiliam Cynwal.¹ Yr oedd yr Archddiacon Prys yn hynod am y gorchwyl ymgecrus dan sylw, yn yr hwn yr oedd efe mor feistolgar. Bu rhyw chwim brydyddol rhyngddo a Thomas Price, o Blas Iolyn, yr hwn a ganodd "Gywydd Duchan i Edmwnd Prys," yr hwn sydd mewn llawysgrif yn yr Amgueddfa Frutanaidd;² ond nid yw ateb yr Archddiacon ar gael, er bod yn dra sicr na bu ef ddiffygiol o dalu yn ol. Ymddengys mai pleidio ei gymmydog, W. Cynwal, yr oedd yr hen foneddwr o Blas Iolyn. Bu cryn gecraeth brydyddol hefyd rhwng yr Archddiacon a'i gymmydog awenyddol, Sion Phylip o Fochras. Y mae'r cywyddau hyn ar gael mewn ysgrifen; eithr ni wyddys i ddim ond un o honynt gael ei argraffu; sef "Cywydd Moliant Gwatwarus i Sion Phylip;" a gwir "watwarus" ydyw.³

Ond o holl frwydrau barddonol E. Prys, yr hon, yn wir, ni wyddys am ei bath yn holl hanes llenyddiaeth Gymreig, ei "Ymryson â W. Cynwal" ydyw yr hynotaf, os nad y bwysicaf hefyd; y bwysicaf i W. Cynwal, druan! beth bynnag, o ddim a'i cyfarfu. Eithr gan fod hanes yr ysgarmes brydyddol hon wedi ei chyhoeddi amryw weithiau o'r blaen,⁴ bydd talfyriad o'i hanes yn ddigon yma.

Yr achlysur o'r ymrafael oedd, i William Cynwal addaw bwa dur i Rys Wyn, yng ngŵydd Edmwnnt Prys. Yna dywedodd Rhys, gan gyfeirio at yr Archddiacon, "Mi a baraf i'r gwr yma wneuthur i chwi gywydd i'w ofyn, o rhowch genad." Yna y rhoes ef genad, ond gadael iddo fo yru'r testyn i'w ofyn; o blegid rhodd iddo yntau oedd y bwa gan Mr. William Clwch, a ddaethai gydag ef o Antwerp. Ond ni welai Rys Wyn mo Cynwal yn gyru'r testyn mewn amser; yna dymunodd ar yr Archddiacon ganu cywydd ar ei amcan;

¹ Parhaodd ymrysonau'r beirdd yn llawer diweddarach; megis, rhwng Ieuan Tew Ieunaf a Bedo Hafesp; Sion Phylip a Rhisiart Phylip; Dafydd Ionawr a Dafydd Ddu Eryri; Twm o'r Nant a John Thomas, o Benffordd Wen; Gutyn Peris a Dewi Wyn; ac eraill, ond oddid, nad ydys yn eu cofio. Ond erbyn hyn, y mae'r beirdd wedi lliniaru llawer; dim ond ambell lythyr lled chwerau, o herwydd derbyn cam tybiedig neu wirioneddol, mewn Elsteddfod.

² Additional MSS., No. 14,872, p. 612.

³ Enwog. y Ffydd, cyf. i. t. 68, nod f.

⁴ Y Greal, t. 9; Ser. Gomer, llyfr xix., t. 165; Y Brython, cyf. iv., t. 166; ac eraill ond oddid.

ac ef a ganodd. Ac ateb Cynwal trwy lythyr oedd, bod y bwa ym menthyg gyda Mr. Thomas Prys, ac y caid ef pan ddelai adref; neu fe brynai y bwa goreu a gaffai yng Nghaerlleon.

“Wedi aros dwy flynedd, a mwy, wrth addewid Cynwal, fo ddaeth lle yr oedd yr Archddiacon, yr hwn a roes sen i'r pryd-ydd am na roai fo er cerdd fal y mynnai gael er cerdd. Yna y gyrodd Cynwal gywydd, a llythyr i ddangos ei achau, a bod arfer dwyn achau os gofynid dim; ac am i'r Archddiacon, meddai fo, raelio arno fo, pan gyfarfu âg ef, fo yrodd fwa cerdd i foddioni Rhys Wyn; ac esgus na cheid adref mor bwa i'w roi, gan y Dr. Ellis.”

Yna y gyrodd E. Prys ateb i'r cywydd a'r llythyr, a Chynwal a'i hatebodd yntau; a bu 12 cywydd o ateb a gwrthateb rhyngddynt. Yna canodd E. Prys dri chywydd am un i W. Cynwal; ond Cynwal a ganodd iddo yntau dri chywydd am danynt. Yna yr Archddiacon a ganodd i Wiliam 9 am ei dri; ond yntau a ganodd 9 am danynt. Yna gyrodd yr Archddiacon lythyr at Wiliam a ddechreu fel hyn:—

Fy nghorchymyn atoch. Bid hysbys i chwi dderbyn o honof eich 9 cywydd chwi, lle y gwelaf eich naws a'ch cerdd yn myned waethwaeth; er hyny ni ddigial fi ddim; eithr nid oes yn fy mryd i fod cyhyd yn gyru i chwi dri 9 ag y buoch chwi yn potysu eich 9; o blegid y mae fy nefnyddiau i wedi sychu er cyn fy ngeni; ac nid rhaid i mi ond egori llyfrau er cael digon o ddefnydd, hanes, a naws pob peth. Chwi a allasech feddwl am gerdd Dafydd ab Gwilym wrth Gruffydd Gryg, mai haws cael saer na defnydd. Ni byddai fost yn y byd i mi pei canwn ddeg am eich un chwi; ac am na ddowch lle bwyf, rhaid i mi yru atoch i ddangos i chwi eich beiau; ac od oes un o'ch gradd a'u hamddiffyn, dangosed ei reswm. Dau ragor cyflwr yr ŷch chwi yn eu holi, bod yn brydydd ac yn arwyddfardd. Yn y ddau radd hyn, rhaid i mi eich gostwng chwi.

Yna cyhudda yr Archddiacon Cynwal, mewn sylwadau manwl a helaeth, gan ddwyn lluaws o esamplau, bod ei gerdd yn cynnwys y 15 bai cerdd dafod; ei fod yn rhoi yr iaith allan o'i thadogaeth; ei fod yn euog o ddrwgystyr; ei fod yn methu dwyn achau'r beirdd, na'u lle, na'u hamser; bod ei gywyddau yn cynnwys “llawer o gamddysgeidiaeth beryglus i'r enaid ac i'r corff;” ei fod yn camddeall ystyr geiriau, ac nas gwyddai beth oedd Saesneg, beth oedd Gymraeg; am hyny, bod ei gerdd yn frith o “glytiau anrhesymol.” Terfyna yr

Archddiacon ei lythyr maith, llym, a dysgedig, gan ddywedyd, "O achos hyn yr wyf yn deall mai am na fedrwch adnabod bai, na rhoi drosoch, yr fŷch heb ddyfod yn fy wyneb: da gwna gwas beidio â dyfod i'r maes, hwn ni fedro na tharo na derbyn. Ewch yn iach! Eich cydfrawd mewn cerdd dafod, EDMWNT PRYS."

Wedi hyny dechreuodd yr Archddiacon wneuthur tri 9 cywydd i Wiliam Cynwal am ei 9, fel y dywedodd yn ei lythyr; ond ar ddiweddu 16 o honynt, aeth un Rhydderch â gair iddo farw o Wiliam Cynwal. Yna canodd yr Archddiacon gywydd marwnad galarus iddo, ar ddull ymddiddan rhyngddo â'r cenad, yn cwyno colli y fath fardd godidog, &c.

Rhif y cywyddau ymryson: 19 gan E. Prys, 19 gan W. Cynwal yn ateb iddynt;¹ 16 gan E. Prys, o'r 27 a addawsai, ac un cywydd marwnad i W. Cynwal; oll yn 55 o gywyddau.² Yr oedd yr holl gywyddau hyn ar gael yn nechreu oes Goronwy Owain; ond ymddengys wrth ei lythyr at William Morys, o Walton, yr 16fed o Hydref, 1754, bod y gŵr hwnw yn methu cael gafael arnynt; canys, medd Goronwy, "Er mwyn dyn! a gaed fyth afael ar yr hen farcutiaid y soniasoch am danynt gynt? Gwaith Edmwnt Prys, &c. Mi a welais er ys talm o flynyddocdd, pan oeddwn yn Lleyn, holl ymrysonion Edmwnt Prys, a William Cynwal, gan yr hen berson Price o Edeyrn (Price Pentraeth gynt, a pherson Llanfair, ym Mhwl Gwymbill, neu Pwll-gwyn-gyll) yr hwn oedd or-ŵyr i'r Archddiacon."³

Dywedir mai toster yr Archddiacon a fu'n achos o angau Wiliam Cynwal, megis y bu Awdl dduchan Dafydd ab Gwilym⁴ yn achos o angau Rhys Meigen;⁵ ond y mae'r cywyddau hyn yn berlau, o ran lledneisrwydd, mewn cymhariaeth i rai y ddadl honno; ac y maent yn tra rhagori, yn yr un ystyr, ar gywyddau Dafydd ab Gwilym a Rhys Gryg.⁶ Tybir y bu Wiliam Cynwal farw o gylch y fl. 1600.

¹ Y mae 29 o'r rhal cyntaf, mewn hen Ysgrifyfr ym meddiant yr Ygrifeaydd.

² Y Greal, t. 9-13.

³ Gwaith Goronwy Owain, t. 276.

⁴ Barddon. D. Gwilym, t. 462.

⁵ Yr un, Sketch, p. xi.

⁶ Barddon. D. ab Gwilym, t. 237-257.

Gyda golwg ar allu barddonol, neu athrylith y ddau fardd, yr Archddiacon Prys a Wiliam Cynwal, dywed Goronwy Owain, "Nid hen ddŷn dwl oedd yr Archddiacon, ac ystyried yr amser yr oedd yn byw ynddo; etto yr wyf yn cyfrif Wiliam Cynwal yn well bardd, o ran natur, anian, ac athrylith, ond bod Edmwnt yn rhagori mewn dysg. Nid oedd Cynwal, druan (ysgolhaig bol clawdd), ond megis yn ymladd â'r dyrnau moelion yn erbyn tarian a llurig;

A gwana' ddyn â gwain o ddur,
A dyr nerth â dwrn Arthur."¹

Ond nid cecraeth ac ymryson yw holl waith Edmwnt Prys, yn oed yn y gynghanedd; eithr ymddengys iddo gyfansoddi llawer, yn enwedig o gywyddau, ar wahanol byngciau, ac mewn gwahanol ansawdd ac yspryd. Cynnwys gwahanol Ysgriflyfrau Myfyr gynnifer a 58 o'i ganiadau: y mae 36 yn yr un gyfrol, sef Rhif XXXIV.

Ond gwaith mawr yr Archddiacon Prys, a'r hwn sydd wedi ei enwogi a'i anwylo yng ngolwg holl oreugwyr ei wlad, ydyw ei gyfieithiad mydryddol o'r Salmau cyssegredig. Yr oedd amryw wladgarwyr crefyddol yn gweled angen am hyn cyn amser Edmwnt Prys; a rhodd rhai gynnyg ar y gorchwyl o'i flaen ef. Dafydd Ddu o Hiraddug, yr hwn a fucheddai tua chanol y ganrif gyntaf o gyfnod y testyn, fel y gwelwyd, a rodd y cynnyg cyntaf o bwys, fel y tybir, ar y gorchwyl, yr hwn a drodd gynnifer a 26 o'r Salmau, heb law amryw ranau eraill o'r Ysgrythyr, ar gân, yng "Ngwasanaeth Mair."² Wedi hyny, trodd Gwilym Ganoldref (William Myddelton) hwy oll, ar fesurau cynghaneddol, gan mwyaf, yr hyn a orphenodd efe yn Ynys Scutum, yn yr India Ddwyreiniol, ar y 24ydd o Ionawr, 1595; gwaith a gyhoeddwyd ar ol i'r bardd farw, y mae'n debyg, gan Thomas Salesbury, yn y fl. 1603; yr hwn waith, o herwydd y mesurau a'r gynghanedd, sydd yn gwbl anymarferol ac annerbyniol gan y genedl yn gyffredin.

¹ Gwaith Gor. Owain, t. 276.

² Myv. Arch., t. 367-377.

Ymddengys hefyd wrth Ragymadrodd Morus Cyffin i'w gyfieithiad o "Ddiffyniad Ffydd Eglwys Lloegr," y bwriadai yntau roi cynnyg ar y gwaith buddiol; ond lluddiwyd ef gan drafferthion neu angau; eithr ymaflodd Edward Cyffin, yr hwn y tybir ei fod yn frawd i Morus, yn y gorchwyl; ond seithug aeth ei ymgais yntau, ar ol cyhoeddi dim ond tair ar ddeg o'r Salmau ar gân.

O'r diwedd daeth tywysog y mydrwyr Cymreig i'r maes i droi'r Salmau ar gân, sef yr Archddiacon Prys. Nid yw hyspys pa bryd, yn fanwl, y dechreuodd efe ar y gorchwyl pwysig; canys nid oes nac arwydd na chofnodiad ei fod yn ymaffyd yn y gorchwyl, nes y cyhoeddwyd y gwaith dan yr enw canlynol:—

Llyfr y Psalmau. Wedi ei cyfieithu ai cyfansoddi ar Fesur Cerdd yn Gymraec. Drwy waith Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd. Ai Printio yn Llundain, 1621.

Gellir casglu mai'r gorchwyl mawr a phwysig hwn oedd llafur llenyddol diweddaf yr Archddiacon Prys; canys bu ef farw, fel y gwelwyd, ym mhen tair blynedd ar ol cyhoeddi "Llyfr y Psalmau." Y mae 12 o donau cerddorol yn yr hen lyfr gwerthfawr hwn, yn rhagflaenu cynnifer o'r Salmau; o flaen, neu'n hytrach, ar ddechreu, y rhai canlynol: 1, 2, 5, 6, 8, 9, 10, 11, 12 (M. 8, 7: 8, 7); 51 (M. 6, 7: 8, 7); 100 (M. H.); 113 (M. 8,8.8: 8,8.8).

Tybia rhai mai diffyg gwybodaeth yr Archddiacon o gorffaniaeth gywir, a barai iddo gymmysgu y corfanau, gan ddefnyddio'r corfan rhywiog (—), a'r corfan crych ddisgynedig (—) yn yr un pennill. Credu yr wyf finnau fod gan y bardd enwog ddau beth, o leiaf, mewn golwg wrth gymmysgu'r corfanau; sef, amrywiaeth, a synwyr. Tebycach o lawer, fel y tybir, mai diffyg gwybodaeth y darllenwyr o'r corfanau ydyw'r clogyrnwch a glywir weithiau yn narlleniad rhai o'r "Salmau Cân." Clywais ddarllen y ddwy linell flaenaf o'r pennill cyntaf o'r Salm hon, er esampl, fel y canlyn:—

Chwi weision Duw molwch yr Ion,
Molwch ei enw á llafar dôn!

Ymddengys bod yr hen donau yn gymhwysach at gymmysgedd o'r corfanau, na'r tonau diweddar. Y mae cymmysgedd cyffelyb o'r corfanau ag a geir yn y Salmau, gan yr awdur dysgedig, yn y gân brydferth o'i waith, a elwir "Cyd-sain Cerddorion ynglyn Haelicon" [*Helicon*], yr hon a ysgrif-enwyd, yn ol "Y Blodeugerdd," yn y fl. 1600. Dyma un pennill yn esampl :—

Aml yw Cadair, amlwg goedŷdd,
 Aml yw Colofn ddofn o ddefnydd ;
 Aml gwlm a mawl golau ;
 Llawn am osteg llwyn y melusdant,
 Aml ddiogan a mawl ddygant,
 Adeilad yn y Dôlau :
 Pob aderyn yn ei lais
 Pob pren ai bais, yn lās-werdd,
 Pob Llysieuyn yn ei rin
 Pob Edn a'i fin yn Bencerdd :
 Nid Clwyfus, ond Nwyfus
 Rhyw Byngciadau Nefol :
 Nid tryblus, ond trablus
 Fenus a piau'r Faenol.¹

Ar ddiwedd Llythyr Lladin y Dr. Morgan "I'r Ardderchocaf Frenines Elizabeth," sydd o flaen ei gyfieithiad o'r Bibl, dyry enwau y tri wŷr isod, fel ei gynnorthwywyr, yn y dull yma :—

David Powelus, Sacra Theologic Doctor.
 Edmundus Priceus, Archidiaconus Meirion.
 Richardus Vachanus, Hospity diui Johannis
 quod est Literurthæ præfectus.

Pa ran a gymmerth y Bardd dysgedig yng Nghyfieithiad y Dr. Morgan, nid yw hyspys, hyd y gŵyr yr ysgrifenydd. Pe tybid mai efe a gyfieithiodd y Salmau, ni byddai hyn ond dyfaliad. Fel hyn y dywedodd y Dr. Morgan ei hun ar y pwngc yma :—

Ac wedi ei ddechreu [sef cyfieithiad y Bibl] diffygiaswn, o ran anhawsdra y gwaith, a maintioli y gost, ac ni ddygaswn onid *Pum Llyfr Moses* yn unig yn barod i'r Wasg—oni buasai i'r Parchedical Archesgob Caergaint, achleswr dysgeidiaeth, amddiffynwr y gwirionedd, a *thirion wrth ein cenedl ni*, fy nghynnorthwyo & i haelioni—& i awdurdod—ac â'i gynghor i fyned ym mlaen. Ar ol ei siampl ef aeth gwŷr da ereill [sef y *tri* a enwa ar ddiwedd ei Lythyr, fel y dangosir] yn gynnorthwyol i mi, hyd oni chyfieithais yr Hen Destament i gyd, ac y diwygiais argraffiad y Newydd.²

Wedi ymdroi cyhyd efo'r Bardd dysgedig hwn, rhag mor anhawdd ymadael âg ef, yr hwn a ddygwyd i mewn yr amser

¹ Y Blodeugerdd, t. 341. ² Gwaith G. Mechall, cyf. II., t. 219.

y gwnaed, o herwydd ei gyssylltiad hynod â Wiliam Cynwal, rhaid troi yn ol weithian dros fyr amser, at eraill o gydoeswyr Cynwal ac yntau.

SION TUDUR, o Wicwair, ger llaw Llanelwy, sir Ddinbych, oedd fardd enwog ac awenyddol. Dywedir mai Sion Llwyd oedd ei enw bedydd.¹ Gwelwyd eisoes ei fod yn un o ddysgyblion barddonol Gruffydd Hiraethog, yr hwn a fu farw o gylch y fl. 1550; gan hyny, rhaid y ganwyd Sion, fel ei gyd-ddysgyblion Wiliam Lleyrn, Simwnt Fychan, a Wiliam Cynwal, ryw bryd o gylch y fl. 1530. Y mae cryn lawer o wahanol fynegiadau yng nghylch perthynas Sion Tudur âg Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Dywed un ysgrifenydd ei fod "yn un o Ficeriaid y Côr yn yr Eglwys Gadeiriol, ac yn swyddog yn y llys yno."² Ysgrifenydd arall a ddywed,— "Tebycach yw mai perthyn i Swyddfa Cofrestrydd Esgobaeth Llanelwy yr oedd Sion Tudur, ac nid gwŷr llên. Profa llawer peth hyn. Yr oedd yn byw yn y Wigfawr, mangre gyfagos i Lanelwy. Nid ydyw ei enw yn Rhestr Willis o'r Ficeriaid. Nid oedd ond pedwar Ficer yn Llanelwy. Dyweda Sion ei hun hefyd,—

'Curais dri o'r Ficeriaid,
Pedwerydd pe do'i aros,
I'w guro awn dan gwr y nos.'

"Sylwir ym mhellach fod ei gywydd ymddyddan â'i 'wineufarch fwng nwyfus,' yn profi ei fod yn fwy tebyg i farchfilwr nag i beriglor; canys cwyna ei farch:—

'Toraist ar gledr fy mhledrain
Wyth glawdd byw, â'th gledd heb wain.'

"Barned y darllenydd a ydynt y llinellau a ganlyn o'i Gywydd Marwnad, gan Edward ap Ralph, yn cadarnhau y cyfryw syniad:—

'Mel ar wawd, milwr ydoedd,
Morda' gwŷr Meiriadog oedd.'

"Gelwir y Cywydd yn 'Farwnad Sion Tudur, yr hwn a fu farw 1602.'"³

¹ Geir. Bywgr. I. F., t. 961. ² Y Brython, cyf. iv. t. 345.

³ Y Brython, cyf. iv., t. 398; Williams's Em. Welshm., p. 500; Geir. Bywgr., I. F., t. 961.

Ond hanes ei lenyddiaeth ef ydyw'r prif bwngc i fod yma. Graddiwyd ef yn Ddysgybl Pencerddaid yn Eisteddfod Caerwys, yn y fl. 1568.¹ Y mae llawer o ddarnau o'i waith yn argraffedig ; a rhai caniadau cyfain. Ceir y darnau blaenaf a nodir yn cyf. iii. o'r *Brython* :—

Cywydd y Fedwen : t. 65.

Cywydd Harri VIII. : t. 274.

Englynion i'r Ddaear : yr un.

Englynion i Rys Grythor : t. 384.

Cywydd yn caniatâu Rhys Grythor i Wiliam Cynwal, t. 426.

Englyn i'r Dedwydd ; cyf. iv., t. 259.

Tri Chywydd o gerydd i Sion Phylip am fyned i Lys yr Esgob yn ei absen ef :

t. 345—7.

Cywydd i Fibl y Dr. Morgan : t. 433.

Gan nad yw'r deryn prydferth olaf a nodwyd ond byr, yr hwn a gyfansoddwyd pan oedd yr awdwr mewn gwth o oedran, yn y fl. 1588 ; ac y dengys ansawdd ei awen loyw ar y pryd, rhaid ei ddifynu yma :—

Byr i enaid braw annoeth,
 Purdwn pab rhag urddan poeth ;
 Pan farnai Dduw poen fwrn ddu,
 Pwy yw'r dyn all bardynu ?
 Gorau pardwn gwn a gaid,
 Gwaed yr Oen i gadw'r enaid.
 Llawenydd yn nydd a nos,
 Llawenychnw llawn achos ;
 Dwyn gras i bob dyn a gred,
 Dwyn geiriau Duw'n agored.....
 Hen fardd a fu hardd fy hynt
 Wyl, a hynaf a honynt.
 Fy mryd yn fy mro ydyw
 Derfynu foes dra fu'n fyw :
 Tario *'Ngansell* Llanelwy,
 Heb allu myn'd i bell mwy ;
 A chanlyn gair (iawn air oedd)
 Iesu ; madws i'm ydoedd :
 Darllen yn ffl hyd elawr—
 I bobl yn mwth y Bibl mawr.¹
 Gofyn 'rwy i ddyn oedd dda,
 Gofyn y Bibl yn gyfa
 Dod y gyfraith air maith i mi,
 Praff adail, a'r Prophwydi ;
 Yr holl gyfraith freisgwaith frau,
 A'r Efyngyl, arf angau :
 Rhodd a gáf hardd ei gofyn,
 Ni chås fardd wawd hardd hyd hyn ;

¹ Pennant's Tours, vol. ii., p. 98.

² Arwydda hyn yn bur eglur, os nad oedd Sion Tudur mewn urddan eglwysig, y goddeiddiddo ddarllen y Bibl mawr i bobl, a hyny yng *Nghangell yr Eglwys Gadeiriol*, yn Llanelwy.

A'i eisiau wnaeth (Iesu Ner)
 Dyfu pob ganiad ofer.
 Nis canaf yn is Conwy,
 Neu fwrw mawl yn ofer mwy.

SION TUDUR *a'i cant.*

Dyma ddarnau o'i waith sydd yng Nghyf. V. o'r *Brython* :—

Cywydd i'r Byd : t. 255.
 Araith Sion Tudur : t. 463.

Cynwys yr "Araith" hon 404 o linellau digynghanedd, yn odli bob yn ddwy, yn gyffredin, fel hyn :—

Gwrandewch arnai yn dywedyd
 Fy nhrefl o'm hieuenctyd ;
 Mi dd'weda' i chwi ar draethiad
 Fy hanes a'm dechreuad.

Cân ydyw hon, lle y traetha'r bardd hanes ei fywyd mewn cellwair : mewn gwirionedd, math ar ramant ddigrifol ydyw, yn hytrach na gwir hanes y Bardd. Wele ddarnau byrion o waith yr awdur, sydd yn *Y Greal* :—

Englyn yr Haf Sych : t. 165.
 Englyn i'r Dauwynebog : t. 318.
 Pedwar Englyn i "Genadon Cariad" : t. 359.
 Pedwar Englyn "I ŵr a phlas tég a naw o gyrn arno heb ond un yn mygu" : t. 360.
 Pedwar Englyn "I Ioan ab Morgan Pwl" : eto.
 Englyn Duchan "I Gwrw Dinbych" : t. 361.
 Englyn ar "Weddi ac Ympryd" : t. 404.
 Englyn ar "Ddial Duw" : t. 404.

Cyfansoddodd Farwnad hefyd ar farwolaeth Syr Rhisiart Clwch (Richard Clough, yr hynaf o'r enw), yr hon a gyfieithwyd gan y Parch. Morris Williams (Nicander) ; ac a gyhoeddwyd yn *Records of Denbigh*, p. 177. Dywedir ar ddiwedd y cyfieithiad fel hyn :—"John Tudor, one of the Choral of St. Asaph." Hefyd, y mae 221 o'i gyfansoddiadau yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr : y nifer mwyaf yn yr un gyfrol yw 30, sef Rhif I.

SION PHYLIP ydoedd fardd cydoesol a Sion Tudur. Mab oedd Sion Phylip, yn ol tystiolaeth ei frawd Wiliam, yr hwn, yntau, oedd yn fardd gwydych, i Phylip Sion. Dyma fel y dywed Wiliam yn ei farwnad wylofus ar ol ei dad :—

Gwn am fy nhad ddeiad ddull,
 Ias oerfel y byd serfyll :

Phylip Sion wr union oedd,
Iawn afall aeth i Nefoedd,
Ab Tomas, mae'r ias i mron,
Ab Robert iawnbert union.¹

Y mae peth amrywiaeth ym mysgr y Bywgraffwyr yng nghylch amser ei enedigaeth; ond cyttunant iddo farw yn y fl. 1620.² Pa wedd bynnag, penderfynir y naill beth a'r llall gan ei farwnadwyr enwog; sef Edmwnt Prys, Rhisiart Cynwal, Gruffydd Phylip (ei fab), Ieuan Llwyd, a Gruffydd Hafren. Gellir casgla oddi wrth y llinellau canlynol o waith Edmwnt Prys, mai boddi a wnaeth ar Wyl Fair yn Lleyn (pan ar daith glerwrol yno, fel y tybir), ac efe yn "agos i bedwar ugain:"—

Cafodd oes hir cyfedd sain,
Agos i bedwar ugain;
Ac yno'i dug dig iawn don,
Angau fud y' nghyfoedion:
Marw a wnaeth merion ieithoedd,
Yn Lleyn megis canwyll oedd;
Ar Wyl Fair, arw leferydd,
A gwirod oer garwa dydd;
Dau wythgant bwriad ieithgoeth
A dau ddeg, oed Mab Duw ddoeth.³

O barth ei oedran pan yn marw, dywed Eben Fardd fel hyn:—"Yng nghynffon y marwnadau i *Sion Phylip* yn y llawysgrif, ceir y nodiad canlynol:—"Yr oedd Sion Phylip yn 22 oed yn yr Eisteddfod fawr yng Nghaerwys yn y fl. 1565, a bu farw yn y fl. 1620." Ei oedran, gan hyny, yn ol y cyfrif yma oedd 77;"⁴ ac o herwydd yr un peth, ganwyd ef yn y fl. 1543. Y mae'r amser a nodir uchod i Eisteddfod Caerwys yn anghywir fel y gwelwyd eisoes; ond nid yw hyny yn effeithio dim ar amser Sion Phylip. Dywed un o'i fywgraffwyr y "graddiwyd ef yn ben-cerddiad yn Eisteddfod Caerwys yn 1565;" ond camsyniad yw hyny; canys dangosir yn hanes yr Eisteddfod honno, fel y gwelwyd, mai yn "*Ddysgybl Pencerdadaidd*" y graddiwyd ef yno.

Dengys ei farwnadau ei fod yn ddyn dysgedig, yn medru tair o ieithoedd, Cymraeg, Saesneg, a Lladin; ei fod yn Llysieuydd gwyh; yn meddu cof nerthol a gafaelgar; ac mai efe oedd Bardd Teulu Corsygedol.⁵ Y mae'n eglur hefyd oddi

¹ Y Brython, cyf. iv., t. 298.

² Williams's Em. Welshm. p. 405; Geir. Bywgr. I. F., t. 836.

³ Y Brython, cyf. iv., t. 142.

⁴ Yr un, t. 144.

⁵ Yr un, t. 142.

wrth gywydd o'i waith ef ei hun, mai efe oedd Bardd Teulu Nannau, cystal a Chorsygedol ; canys wrth geryddu ei frawd Rhisiart yn llym, o herwydd iddo fyned at Huw, Arglwydd Nannau, dywed am Huw, a'i berthynas yntau ei hun â Nannau, fel hyn :—

Cyfoed wr call, cofiadur coeth,
Wyl ág ef, fwyfwy 'i gyfoeth ;
Cyd-ysgol, ben rheolwr,
Oeddwn ág ef ddoniog wr ;
Cydfod mewn defod wiwfoes,
Cyd chwaraeu, cyd fwynhau'n hoës.
Ei brydydd gerdd barodawl,
A'i fardd fum difyraidd fawl.¹

Yr unig ddarnau prydyddol o'i waith sydd yn argraffedig, hyd y gwyddys, yw y rhai canlynol, sydd yn y IVedd gyfrol o'r *Brython* :—

Cywydd i'r Wylan : t. 230.

Englyn i'r Eos, yn Eisteddfod Caerwys, yn y fl. 1568 : t. 298.

Cywydd i'r Biogen, yn ateb i Sion Tudur, am fyned i Lys yr Esgob Dafis ; t. 345.

Cywydd ymryson am Nannau â'i frawd Rhisiart : t. 390.

Y mae 35 o'i ganiadau yng ngwahanol Ysgriflyfrau Myfyr. Y nifer mwyaf yn yr un gyfrol yw 15, sef yn Rhif VI.

Wedi ymdroi cyhyd gyda llenyddiaeth y Beirdd Graddedig, gyda'r eithriad o'r enwog Edmwent Prys, o herwydd y rheswm a rodded eisoes, rhaid prysuro weithian at lenyddiaeth prif feirdd anraddedig eraill y ganrif.

IOAN DAFYDD RHYS.² Buwyd yn petruso peth pa un ai gyda'r Beirdd ai gyda'r Traethodwyr y byddai yn fwyaf priodol cyfleu y llenor enwog hwn ; ond gan mai ar Brydyddiaeth yr ysgrifennodd fwyaf yn Gymraeg, a'i fod wedi prydyddu ychydig ei hun hefyd, penderfynwyd ei gyfleu gyda'r Prydyddion ; heb law nad yw o nemawr bwys bellach ym mha ddosparth y dodir hwy ; gan fod y rhan fwyaf o'r beirdd yn draethodwyr, ac yn y gwrthwyneb.

Mab ydoedd I. D. Rhys i Dafydd Rhys, yr hwn oedd yng ngwasanaeth Syr Wiliam Gruffydd, y Gareg Lwyd, Llanfaethlu,

¹ Y *Brython*, cyf. iv.. t. 297.

² Ymddengys wrth y llythyrenau I. D. R. sydd ar ddiwedd ei Ragymadrodd Cymraeg i'w Ramadeg, mai *Ioan Dafydd Rhys* yr ysgrifennai efe ei enw yn iaith ei wlad ; er mai *Sion Dafydd Rhys* y galwai yr hen Gymry ef yn gyffredin ; megis y galwai Sion Rhydderch, ac eraill, ef.

Mon ; a dywedir mai gweinyddes oedd ei fam i Jane Stradling, yr hon a briodes Syr W. Gruffydd. Ganwyd Ioan yn y fl. 1534 ; a phan oedd yn 18 oed, derbyniwyd ef i Goleg Eglwys Crist, yn Rhydychain, lle yr aeth yn efrydydd ; ond wedi aros yno dros dair blynedd, gadawodd yr athrofa heb gymmeryd graddau, ac aeth i'r Cyfandir yn Rhagfyr, 1555, gan ymsefydlu dros amser yn Sienna, yn Tuscany, lle yr oedd athrofa enwog ; ac yno y graddiwyd ef yn M.D.¹ Penodwyd ef wedyn yn gyfreolydd cyhoeddus Ysgol Pistoia, dinas arall yn Tuscany. O gylch y pryd hyn, ysgrifonodd *Reolau er Deall yr Iaith Lladin*,² yn Italaeg, y rhai a argraffwyd yn Venice ; ac ysgrifonodd waith arall yn Lladin, a'i enw *Cynaniad yr Iaith Italaeg*,³ yr hwn a argraffwyd yn Padua. Coleddai yr Italiaid syniadau uchel am y ddau waith hyn ; ac ystyrir yr olaf yn llyfr tra gwerthfawr i ymdeithwyr estronol yn yr Ital.

Ond gwaith mawr I. D. Rhys yw ei Ramadeg Cymraeg yn Lladin, yr hwn a elwir yn fyr, ar frig y dail, *Linguae Cymraecae Institutiones Accuratæ* = Gosodiadau Cywir yr Iaith Gymraeg ; eithr yr enwad-ddalen yn gyflawn sydd fel hyn :—

Cambrobrytannicæ Cymraecæve Lingvæ Institvtiones et Rvdimenta accuratè, a (quantum fieri potuit) succinctè & compendiosè conscripta à Joanne Dauide Rhæso Monensi Lanuaethlæo Cambrobrytanno, Medico Senensi : Ad jllust virum Edouardum Stradlingum Equestris ordinis Cambrobrytannum : Ad intelligend. Biblia Sacra nuper in Cambrobrytannicum sermonem & castè & eleganter versa, non minùs necessaria quàm vtilia : cum exacta carmina Cymraeca condendi Ratione, & Cambrobrytannoricum Poematum generibus, alijsquè rebus normullis eòdem spectantibus, ijsdèmq̃ puriter non minùs necessarijs quam vtilibus.

Londini Excudebat Thomas Orwinus. 1592.

Dyna *enw* digon hir, beth bynnag. Ei gynnwys, yn fyr, fel y dywedodd Gwilym Lleyn, yw hyn :—“Gosodiadau ac Egwyddorion y Gymreigiaeth Brydeinaidd, wedi eu gosod allan yn ofalus, ac, hyd y gellid, yn ddichlynaidd a chryno, yng nghyd â rheolau cywir fydryddiaeth Gymreig, &c.”

Dechreu'r copi sydd ym meddiant yr ysgrifenydd gyda rhan o Lythyr Lladin *Humphrey Prichard*, ac Anerch Cymraeg yr Awdur, wedi tori rhan o frigau deheuol y dail. Dechreu yr Anerch fel hyn :—

Medicinas Doctor—Doethawr Meddyginaeth.

² *Rules for the Obtaining of the Latine*

Tongue.

³ *De Italicæ Lingvæ Pronuntiatione.*

At *Bendebbigion*, a' *Boneddigion*, a *Phrydydhion*, a' Chymreigydhion, ac at eraill om' Annwylieid o Genedl Gymry, ac eraill amgen no'r hain, Annerch a' Lhóyddiant.

*Nyd oes nemor o iaith (hyd y gŕonn i) ynn Ebrŕpa a'i hynnysoedh, na's cabhas ei hymgele:thu a'i choledh gann ei Ieithydhion a'i Gbladbyr 'ihun o amser i gilydh; onyd cyn hiaith ni y Cymry, &c.*¹

Y mae'r holl "Annerch," a phob peth Cymreig arall sydd yn y llyfr, yn yr un lythyaeth hynod a'r difyniadau uchod. Cynnwys y gwaith oll, fel y sylwa Golygydd craffus *Llyfryddyddiaeth y Cymry* yn briodol, 328 o dudalenau 4plyg; sef, dalen yr enw, y Cyflwyniad i Syr Edward Stradling, Llinellau Lladin o glod i'r Awdur o waith *Camdenus a Ioan Stradlingus*; Rhagymadrodd *Humphrey Prichard*; "Annerch" yr Awdur a nodwyd eisoes; Cyweiriad Gwallau; oll yn 24 o dudalenau; a chorff y gwaith, yn 304 o dudalenau.

O barth y gwaith hwn, yn ei grynswth, dywedodd y dysgedig Ioan Tegid, yn gwbl briodol, lawer o amser yn ol wrth yr ysgrifenydd, "Nid oedd y Dr. Rhys ond gramadegydd pur ganolig; ond am ei reolau o'r mesurau caethion, nid oes genym eu cyffelyb o ran cywreinder." Y gwir yw mai yr unig ran o'r gwaith hynafol yma, a ddichon fod o ddefnydd i'r darlennydd Cymreig nad yw yn deall Lladin, ydyw y rhan olaf o'r gwaith, yr hon sy'n dechreu yn y tudalen 129, a hyd ddiwedd y llyfr, lle y traethir yn fynych yn Lladin a Chymraeg, ond gan mwyaf yn yr olaf, yn enwedig tua diwedd y llyfr. Eithr cyn y gall y darlennydd ddefnyddio Cymraeg yr awdur, rhaid iddo ddeall sain y llythyrenau a ddefnyddia, y rhai a ddodir yn yr esampol isod yn uchaf, a'r llythyrenau cyffredin oddi tanynt:—

{	a,	b,	bh,	c,	ch,	d,	dh,	e,	g,	gh,	ghh,	h,	i,	lh,	l,	m,	mh,
{	a,	b,	f,	c,	ch,	d,	dd,	e,	g,	ng,	ngh,	h,	i,	ll,	l,	m,	mh,
{	n,	nh,	o,	p,	ph,	rh,	r,	s,	t,	th,	u,	ŕ,	y,	z.			
{	n,	nh,	o,	p,	ph,	rh,	r,	s,	t,	th,	u,	w,	y,	y.			

Arferir yr *y* flaenaf, lle y defnyddir *u* yn awr, fel yn dŕll, ac weithiau fel *y* yn hynaf; ond y sain olaf a roddir yn wastad i'r *z*. Defnyddir *v* hefyd weithiau yn lle *u*, er nad ydyw yn yr Egwyddor uchod. Dyma engraifft:—

¹ Gwel t. 18 o'r gwaith hwn.

{ Ac zn z 6&th honn, y bzsei z pethau hynn, h6ynteu, nyd zn vnic zn
 { Ac yn y wedd hon, y bysei y pethau hyn, hwynteu, nid yn unig yn
 { dhigz6ilydh eu g6eled gan ba6b; onyd hebhyd hzfryhwcw a' lha6enydh
 { ddi6ywilydd eu gweled gan bawb; ond hefyd hyfrydwch a llawenydd
 { ma6r a bhysei g6ybod bh6d z bh6th dhysc.
 { mawr a fysei gwybod fod y fath dysg.

Yr oedd rhyw fath o "Ddosparth ar fesurau cerdd dafod, yn dangos beth yw mesur a phessawl rhywogaeth sydd o honynt," o waith Gruffydd Roberts, wedi eu hargraffu er ys tua phum mlynedd ar hugain cyn i I. D. Rhys gyhoeddi ei Ramadeg; ond pa gymhorth a gafodd ef oddi wrth y Ddosparth honno, nid ydys yn gwybod, am nad oes gopi o Ddosparth Roberts wrth law; eithr cesglir oddi wrth ddywediad Tegid fod Ddosparth Rhys yn tra rhagori. Heb law hyny, dichon bod gan Rhys gopi ysgrifenedig o Ddosparth Tudur Aled a Simwnt Fychan, os nad o Ddosparth Morganwg hefyd.

Er mor fedrus y rhaid bod I. D. Rhys yn y mesurau cymghaneddol; eto, ni ddygwyddodd i mi daro ond wrth y pennill isod yn unig â'i enw ef wrtho:—

Y pwyll da didwyll dedwydd—a gerais
 Yn gywrain arweinydd;
 Gwych y cawn ei ddawn a'i ddeunydd—odiaeth
 Yn faeth yn bennaeth i mi beunydd;
 Yn ddysg rhydd er cynnydd can,
 O gywir anian gwir awenydd;
 A dewr yw'r nerth a drydd,
 Yn sail ffawd yn sel ffydd.

Dr. Sion Dafydd Rhys a'i cant.¹

Dywed Golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry*, yn briodol, "Nad amcanai y Dr. Rhys, mwy na'r Dr. Davies ar ei ol, i'r cyffredin

¹ Cyfr. y Beirdd, t. 156.—"A'r pennill hynn a dynnwyd o'r Llyfr a wnaeth ef wedi printio'r Gramadeg, er dysgu a dangos y modd y gwneir Mesurau Newyddion, ac y cymharer amrafaelion fesurau yng nghyd; ac efe ei hun a gant y Cynnyrchiad oll; eithr nid oedd ganddo gyflawn ddeall ar ansawdd a rhyw o angen a hanfod ar fesur Cerdd. Ed. Dafydd."

Edward Dafydd, o Fargam, casglydd cyntefg *Cyfrinach y Beirdd*, oedd y gwr hwn. Dichon mai at Fesurau *Cadair Morganwg*, a gasglwyd ganddo ef mor ddiweddar a'r fl. 1681 (*Cyfr. y Beirdd*, t. 1), y mae E. Dafydd yn cyfeirio wrth ddywedyd nad oedd gan y Dr. Rhys "gyflawn ddeall ar ansawdd a rhyw o angen a hanfod ar fesur Cerdd." Beth bynnag am hyny, y mae'n ddigon eglur wrth waith y Dr. Rhys, fod ganddo *berffaith* "ddeall ar ansawdd a rhyw o angen a hanfod" mesurau Dafydd ap Edmwnd; a'r sawl ni chymmolodd Beirdd y Deheu-barth hyd ar ol marwolaeth Iolo Morganwg; a thyrir nad oedd hyny fawr o golled meddyliol iddynt ychwaith, fel y tytiat Goronwy Owain, Gwallter Mechain, a beirdd enwog eraill, o Dde a Gogledd.

Gresyn oedd coll y "Llyfr" a wnaeth y Dr. Rhys, "er dangos y modd y gwneir Mesurau Newyddion, ac y cymharer amrafaelion fesurau yng nghyd," at yr hwn y "cant efe y cynnyrchiad oll."

W

bobl fyfyrion ei Ieithadur cywrair ef; canys nis gallai llyfr Lladin fod yn ddealladwy iddynt; ond yr oedd yn ddealladwy i'r gwŷr eglwysig; ac o'i ddeall, dysgwylid iddynt gyrhaedd mwy o fedrusrwydd yn yr iaith, a thrwy hyny allu o honynt ddysgu y bobl yn amgenach. Dysgu yr athrawon oedd bwriad y Dr. Rhys; a gadewid iddynt hwythau daenu gwybodaeth ym mhlith y werin, a hyny trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg."¹

Dywedir y casglodd ac y cyfieithiodd y Dr. Rhys grynodedd o Uchanianaeth Aristoteles i'r Gymraeg; ac y bu ysgrif o hono unwaith yn Llyfrgell Coleg Iesu, yn Rhydychain; ond nad argraphwyd hwnw erioed; a bod y copi weithian wedi myned ar ddfancoll. Dywedai yr awdur yn y gwaith hwnw fod y Gymraeg mor gyfoethog o eiriau cyfaddas i osod allan bob gwybodaeth ag ydyw y Roeg, neu unrhyw iaith arall. Dywedir yr ysgrifennodd rai llyfrau eraill, sydd yn awr wedi colli. Bu'r Dr. Rhys farw yn y fl. 1609, yn y 75fed flwyddyn o'i oedran.²

GWILYM GANOLDREF (*William Myddelton*), yr hwn y crybwyllwyd ei enw, ac y cyfeiriwyd yn fyr at rai o'i gyfansoddiadau o'r blaen, oedd yn fardd rhagorol, ac yn gydoeswr â'r Dr. I. D. Rhys. Trydydd mab oedd efe i Richard Miltwn, fel y geilw Gwallter Mechain ef, ceidwad Castell Dinbych, yr hwn a ddisgynai'n syth o Rhiryd Flaidd, cyff un o "Bymtheg Llwyth Gwynedd," a nai fab hanner chwaer i Feredydd ap Bleddyn ap Cynfyn, tywysog Powys.³ Nid yw hyspys pa bryd, yn fanwl, y ganwyd Gwilym Ganoldref, na pha bryd y bu farw; ond y mae'n dra sicr iddo farw cyn 1603, pan y cyhoeddwyd ei fydriad cynghaneddol o'r Salmau, gan Thomas Salisbury. Pe tybid ei fod yn bucheddu o'r fl. 1536 i 1600, credir na byddid ym mhell oddi wrth y nod; ond y mae sicrwydd ei fod yn ei flodau o'r fl. 1590 i 1595, pan y tystia ei hun iddo orphen ei fydriad o'r Salmau, ar y 24ydd o Ionawr, 1595, yn Ynys Scutum, yn yr India Orllewinol.⁴ Cafodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain, er mwyn ei gymhwyso, ond odid, at ryw

¹ Llyfr y Cymry, t. 66, nod *. ² Williams's Em. Welshm., p. 447.

³ Gwallth G. Mechain, cyf. ll., t' 481, &c. ⁴ Y Tracthodydd, 1852, t. 176, &c.

swydd gartrefol yn yr Eglwys neu'r Gyfraith; ond ymunodd efe yn lled ieuangc, fel y tybir, â'r Fyddin, wedi hyny â'r Llynges; ac yr oedd yn gadben yn y rhyfel rhwng Lloegr a'r Hispaen; "ac ymddengys ei fod yn wrol cystal ag yn ddoeth."

Y mae'n ddilys ddigon iddo fyfyrio rheolau caethion y 24 mesur er yn foreu ar ei oes; canys dywed y Dr. I. D. Rhys yn ei *Ramadeg* Cerdd Dafod a gyhoeddwyd yn y fl. 1592, "Y chwanegiad hwn a dderbyniais oddi wrth fy hen gyfaill caredig, y milwr calonocaf ar fôr ac ar dir, a'r mwyaf cyfarwydd mewn barddoniaeth Gymreig, Gwilym Ganoldref. A phe buasai efe gyfranog yn fy myfyrwaith hwn, fe ymddangosasai gyda mwy o awdurdod a pherffeithrwydd." Yr ychwanegiad a gynnwys Awdl Gwilym Tew i "Mair," ar lawer o'r hen fesurau caethion o gylch y fl. 1460; Awdl Lewys Morganwg i "Leision Abad Glyn Nedd, ar y 24 mesur, o gylch 1520; Awdl Simwnt Fychan i Pys Mostyn, ar y 24 mesur, 1568; Awdl Gwilym Ganoldref ei hun i "Grist," ar "y pedwar mesur ar hugain, y pedair Cynganedd, a'r Cymmeriadau oll, mewn caniad o un Pennill ar ddeg," 1590; ac ychydig esamplau cynganeddol cywrain eraill.¹

Dechreu Awdl Gwilym Ganoldref fel y canlyn:—

Crist o nêf cerais dy nôd,
Cân a gâf y Cûn o gôd;
Cyweir lëf cû eiriol yd,
Cyfarchaf Iôr cyfeirchiad;
Ei rym pûr oedd i'r mab rhâd,
A'm prynawdd heb gawdd a gâd o'i mau,
Iôr gorau wir gariad.

Iawn i'r dynion a'r a'i 'dwaeniad,
I folianu ddwyfawl Ynad;
Iesu sawrhau can's ef yw'r hâd,
A grâs a dawn gorau o stâd;
Canaf a dwêdaf Duw dâd i'm cymorth
O'm camwedd rhag oer frâd.²

Ymddengys bod yr hen fardd, G. Ganoldref, yn orzelog dros y mesurau caethion, fel holl feirdd ei oes oddigerth tri neu bedwar, megis y mae amryw eto, ysywaeth! ac wrth weled nad

¹ Ling. Cymr. Inst. Accur. pp. 235—248; Gwaith G. Mechain, cyf. II. t. 438.

² Ling. Cymr. Inst. Accur. p. 246.—Dodwyd yr esamplau uchod yn y llythyrenau cyffre hln, gan y gwelwyd digon o'r blaen o lythyrenau anymarferol yr hen I. D. Rhys.

oedd Gramadeg I. D. Rhys, o nemawr addysg i'r Cymry cyffredin, cyhoeddodd yntau yn y flwyddyn ganlynol, sef 1593, lyfryn bychan yn Gymraeg lân loyw, dan yr enw canlynol :—

Bardhoniaeth neu Brydydhiaeth, y Llyfr Kyntaf. Gan Capten William Middleton. Thomas O'Gwin a'i Printiawdh yn Llundain. 1593.

Llyfryn 8plyg bychan ydyw hwn, yn egluro “pedwar perthynasau cerdd ; sef, cymhariad, odl, cynghanedd, a mesur.” Cyhoeddwyd y gwaith hwn drachefn, yn y fl. 1710, mewn cyssylltiad â llyfr a elwir “Flores Poetarum Britannicorum Sef Blodeuog waith y Prydyddion Bryttanaidd.”¹ Nid ydys yn gwybod am ddim arall o waith G. Ganoldref, ond y cynghaneddiad o'r Salmau, a fu dan sylw eisoes mewn cysylltiad â'r sylwadau ar “Salmau Cân” Edmunt Prys.

TOMAS PRYS (*Captain Price*) ydocdd fardd enwog, a rhyfelwr anturiaethus. Yr oedd efe yn “ŵr boneddig tiriawg ;” ac yn preswyllo ym Mhlas Iolyn, sir Ddinbych. Dodir ef yn ei flodau o'r fl. 1550 i 1610 ;² ond gan ei fod yn gydoeswr â Gwilym Ganoldref, ac yn gydfilwr âg ef, rhaid ei fod o gylch yr un oedran, dyweder o'r fl. 1538 i 1610. Dangosir mewn hen ysgrif sydd yn *Y Greal*, ei fod yn un o'r 18 boneddigion oedd yn sir Ddinbych yn yr oes honno, “yn canu ar eu bwyd eu hun.”³ Dywedir bod cyfrol o'i ysgrifeniad ef ei hun, yn cynnwys tua mil o dudalennau, yn yr Amgueddfa Frytanaidd. Dengys y Dr. Pughe fod un o Ysgrifyfrau Myfyr, sef Rhif V., yn cynnwys 112 o ganiadau y Cadben Prys ; a bod ei holl ganiadau sydd yn yr Ysgrifyfrau hynny yn 154 o nifer. Ni wyddys am ddim o'i waith yn argraffedig ond rhai Englynion sydd yn *Y Greal*.⁴ Y nifer mwyaf sydd ynghyd yno yw 11, y rhai a elwir “Englynion ar amryw achosion o waith T. Prys, o Blas Iolyn.” Dodir y ddau flaenaf ger bron, er esampl :—

Pawb sy ddrwg, cilwg calon vrycheulyd,
Pan chwilier holl delynyon ;
Ni bu wenith, dichôith dôn,
Bai helaeth heb wehilion.

¹ Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 438 ; Llyfr. y Cymry, t. 68, 280 ; Williams's *Em. Welshm.*, p. 353.

² *Celr. Bywgr. I. F.*, t. 857.

³ *Y Greal*, t. 105.

⁴ *Yr un*, t. 166, 313, 362, 404.

Hawdd á vydd beunydd, heb wall, a digon,
 Mewn diogel ddeall,
 Rhoi carai vawr, ger llaw'r llall,
 Gerwin air, o groen arall.

RHYS PRICHARD, FICAR LLANYMDDYFRI, neu, fel y gelwid ef ar lafar gwlad, "Hen Ficar Llanddyfri," yr hwn sydd wedi bod yn "air teuluaid" ym mhlith y Cymry, yn enwedig yn y Deheubarth, dros lawer oes bellach; ac y mae ei ganiadau duwiol wedi bod yn dra chyssegredig yng ngolwg ein cenedl ni dros hir amser; a gresyn na bai 'r "oes oleu hon" yn llawer mwy cynnefin â "Llyfr y Ficar" nag ydyw. Ond er bod gwaith y Ficar Prichard wedi bod yn bur hyspys, yn enwedig yn ystod y ddwy ganrif olaf o gyfnod y testyn; eto nid yw ei hanes bersonol ond pur fer ac anghyflawn; eithr gan mai â hanes ei lenyddiaeth y mae a fynno'r traethawd hwn yn benaf, rhaid boddloni âg olrheiniad byr i'w hanes bersonol.

Dywed y gwaith hynaf sydd ar gael am dano,¹ "yr anfonwyd ef i Goleg Iesu, yn Rhydychain, yn y fl. 1587, pan oedd o gylch 18 oed." Felly, ganwyd ef tua'r fl. 1569. Yn ol yr un awdurdod, "ordeiniwyd ef yn offeiriad yn Witham neu Wytham, yn Essex, gan John, Esgob Cynnorthwyol Caercoilon,² ar y 25med o Ebrill, 1602. Cymmerth y radd o B.A. yn y Mehefin canlynol; ac ar y 6ed o Awst yr un flwyddyn, cafodd Ficeriaeth Llanymddyfri, yr hon a gyflwynwyd iddo gan Anthony, Arglwydd Esgob Tŷ Ddewi. Ar y 19ydd o Dachwedd y fl. 1613, sefydlwyd ef yn beriglor Llanedi, yn Esgobaeth Tŷ Ddewi, a gyflwynwyd iddo gan Iago I., yr hon a ddaliai efe yng nghyd â'r fywiolaeth arall trwy ganiatâd oddi wrth yr Archesgob, yr 28fed o Hydref, 1613, yr hyn a gadarnhawyd gan y Sêl Fawr ar y 29fed o'r un mis, ac a gymhwyswyd trwy fod yn gaplan i Robert, Iarll Essex. Ar y 17fed o Fai, 1614, gwnaed ef yn Gôrberiglor Eglwys Golegol Aberhonddu gan y dywededig Anthony; a thrwy hawl o M.A. gradd y darbwyllwyd ef ei chymmyd, gan y Dr. Laud, ei esgob, gwnaed ef yn Ganghellydd Tŷ Ddewi, wrth yr hon

¹ Wood's Athen. Oxon. Ed. 1691, vol. ii. p. 29.

² Suffragan Bishop of Colchester.

swydd y mae Côrberiglorigaeth Llanhaden [Llanhuaden ?] yn gyssylltedig, ar y 14ydd o Fedi, 1626, ar ei rhoddiad i fynu gan Richard Bailie, B.D., o Goleg Ioan Sant. Y mae yng Nghymru lyfr o'i gyfansoddiad, sydd yn gyffredin ym mhlith y bobl yno, a'i enw,

"Gwaith Mr. Rhys Prichard, gynt Ficer Llanymddifri, yn sir Gaerfyrddin, a argraphwyd o'r blaen yn bedwar llyfr, ond a argraphwyd yn awr yn un llyfr, &c. Ynghyd âg ychwanegiad o amryw bethau o ysgrifeniadau nas gwelwyd o'r blaen gan y cyhoeddwr; heb law y bedwaredd ran a gyhoeddir yn awr y tro cyntaf yn Llundain, O.C. 1672, yn 8plyg tew.¹

"Y mae'n cynnwys pedair rhan, a'r cwbl yn cynnwys amryw ganiadau a charolau duwiol yn Gymraeg, y rhai a draddodir i'r cof, ac yr arferir eu canu yn fynych gan gydwladwyr yr awdur. Cyfieithodd hefyd amryw lyfrau i'r Gymraeg, ac ysgrifennodd rywbeth ar y Namyn un deugain Erthyglau, y rhai nis gwn a argraphwyd hwy ai peidio; ond gwelais rai o honynt mewn llawysgrif.²

"Bu farw yn Llanymddyfri o gylch mis Tachwedd, 1644, a chladdwyd ef, fel y tybiaf, yn yr eglwys yno. Yn ystod ei fywyd gadawodd diroedd gwerth 20p. y flwyddyn at sefydlu Ysgol Rad yn Llanymddyfri, ynghyd â thŷ i'w chadw ynddo. Meddiannwyd y tŷ wedi hyny gan bedwar Ysgolfeistr olynol, a thalwyd yr arian iddynt. Darfu i Thomas Manwaring, o'r diwedd, mab Roger, a fu rywbyrd yn Esgob Tŷ Ddewi, yr hwn

¹ Enw yr argraffiad yma yn *Llyfryddiaeth y Cymry* yw "Canwyll y Cymru - yn bedair rhan. Llundain. 1672."—"Dywedir nad Stephen Hughes a'i cyhoeddodd."—*Llyfr. y Cymry*, t. 200.

² Cadarnheir y dystiolaeth yma, dda: fod i'r Ficar adael amryw ysgrifau ar ei ol heb law ei ganiadau, yn y nodiad canlynol o waith cyhoeddwr yr argraffiad yn 1770 o'r caniadau —

"Fy Nghydwladwy [r], Trefnodd Duw, Awdur pob Daioni i 'scrifeniadau yr Awdur duwiol hwn gael eu rhoddi i mi i wneuthyr y gorau o honynt, ac wrth eu chwilio, deallais mai ei Bregethau oedd y rhan fwyaf o honynt, pa rai a gadwyd yn ei Lyfr-gell ef yn Llanymddyfri, er dydd ei Farwolaeth hyd nes iddynt ddyfod i'm Llaw. Ac os rhydd Duw i mi amser, anturiaf gynnig rhai o honynt i'm Cyd-Wladwyr yn Argraphedig: gan hyderu nas cant lai derbynied gynch, nag a roddasoch i'w Ganiadau. Y Llyfr cyntaf fydd gwerth 1s. Pwy bynnag a'i chwenycho anfonant eu Henwau ymma yn ddi-draul, fel y gwybyddwyf y Rhifedi a allwyf Argraphu; yr hyn a fydd yr un Llythyren a phapur a hwnn. R. Tomas."

Dywed awdur y *Llyfryddiaeth* yr "ymddengys na chafwyd cefnogaeth ddigonol, ac felly y maent yn wir wedi eu hollol ddinystrio."—*Llyfr. y Cymry*, t. 619.

a briododd Elizabeth, unig ferch Samuel, mab y dywededig Rhys Pritchard, gymmeryd meddiant o'r tir dywededig, fel yr hyspysir fi gan lythyrau oddi yno, dan yr esgus o dalu yr arian i'r Ysgolfeistr, yr hyn a wnaed dros flwyddyn neu ddwy; ond yn fuan ar ol hyny torodd yr Afon Towy i'r tŷ, gan ei ysgubo ymaith, a pherchennogir y tir a berthynai iddo yn awr, 1682, gan Roger Manwaring, mab ac etifedd y dywededig Thomas. Felly y mae yr Ysgol, mewn ystyr, wedi ei llwyr anghofio."

Os ydyw amseriadau yr ysgrif yna, yr hynaf sydd ar gael yng nghylch Rhys Prichard, yn gywir, yr oedd efe yn 75 oed pan fu farw, yn y fl. 1644. Dywedir bod Rhys Prichard yn deilliaw o deulu cyfrifol a chyfoethog yn ardal Llanymddyfri; ac mai enw ei dad oedd Dafydd ap Rhisiart ap Dafydd ap Rhys ap Dafydd; a chan mai Rhys oedd y mab hynaf, efe a gafodd dreftadaeth ei hynafiaid. Y mae'n dra sicr fod sefyllfa anrhydeddus teulu Rhys Prichard yn un achos mawr iddo gael cynnifer o fywiolaethau a dyrchafiadau. Y mae'n dra sicr hefyd fod ei dalentau dysglaer, ei ddysgeidiaeth goeth, a'i ddoniau hyawdl, cymhwysderau nad oedd ond ychydig iawn o offeiriaid yng Nghymru yn eu meddu yn y dyddiau hyny, yn tueddu i dynu sylw ei uchafiaid eglwysig, heb law bod ei gyfeillach â boneddigion uchelfri o fath yr Iarll Essex, yn dra manteisiol er ei ddyrchafu.

Y mae yn anhawdd gwybod pa bryd y dechreuodd Rhys Prichard brydyddu; ond ymddengys iddo ddechreu yn lled fuan ar ol cael ei urddo yn offeiriad. Nid oedd Bibl Cymraeg i'w ganfod mewn un man yn y Dywysogaeth yn ystod yr 28 mlynedd cyntaf o'i weinidogaeth ef, o'r fl. 1602 hyd 1630, oddi eithr yn unig ar ddarllenfâu yr Eglwysydd Plwyfol. Am hyny yr oedd y bobl, o angenrhaid, yn anwybodus o bethau ysprydol; ac wedi i'r Ficar gael ei ddeffro ei hun i weled gwerth a phwys y cyfryw bethau, yr oedd ei yspryd ar dân am ddwyn eraill i'w gwerthfawrogi. Gan hyny, wrth weled bod y bobl yn gyffredin yn dra hoff o brydyddiaeth a cherddoriaeth,

efe a ymroddes i droi sylwedd ei bregethau ysgrythyrol a phoblogaidd ar gân. Dosperthid copfau ysgrifenedig o'r rhai hyn ym mhlith y bobl ; a bu hyn yn nodedig o ddefnyddiol er trosglwyddo syniadau cywir am athrawiaethau a dyledswyddau crefyddol i boblogaeth druenus o esgeulusedig ac anwybodus. Dywed y Dr. T. Rees mai un o'i ganiadau yn unig a argraffwyd yn ystod bywyd y Ficar ; ond nid yw efe yn mynegi beth yw enw na thestyn y gân honno ; nac ym mha le, na pha bryd, yr argraffwyd hi ; ac nid yw Gwilym Lleyrn yn ei chofnodi mewn un man yn "Llyfryddiaeth y Cymry," o'r fl. 1602 hyd 1644, ystod yr amser y bu Rhys Prichard yn offeiriadu. Gresyn na cheid tipyn o hanes yr hen gân bwysig honno, yr hon, os cywir yr hyspysiad, y gellir ei hystyried megis y fflachel a daniwyd i oleu "Canwyll y Cymry." Daw y gwahanol argraffiadau o'r "Ganwyll" dan sylw yn eu hamserau priodol.

Dywed y Dr. Rees na chyfodwyd unrhyw gofadail ar fedd Rhys Prichard ; ac, yn wir, bod y llanerch lle y gorphwys efe yn anhyspys ; ond nad oes dim perygl yr anghofir ei enw ef tra y parhao "Canwyll y Cymry" i roddi goleuni, ac y dalio crefydd ysprydol ei gafael yng nghalonau meibion Cymru.

O barth mesurau prydyddol y Ficar, y mesur a arferai efe yn gyffredin ydyw pedair llinell wythsill, yn y corfan rhywiog trwy'r llinell oll, fel hyn :—

Er croes-hoelio'r Iesu drosom,
A rhoi taliad llawn am danom ;
Eto ni bydd neb cadwedig,
Ond a gretto yndo 'n unig.

Dywed mai yr achos iddo ddewis y mesur syml yma, "Hawdd i'w ddyscu, hawdd i'w 'styried," ydoedd—

Am wel'd Dwfn-waith enwog Salisbury,
Gan y diddysc heb ei hoffi.

Ond nid yw efe yn ymgadw yn fanwl at y mesur yma, bob amser, trwy'r holl gân, ond y mae yn newid ychydig arno yn lled fynych, a hynny hyd yn oed yn yr un pennill, megis yn yr enghreifftiau canlynol :—

Er dy fod ti 'n elyn Duw
Wrth naturiaeth a'th ddrwg ryw,
Cred yn Ghrist, fe'th wna o elyn,
I'th nefol dad yn anwyl blentyn.

Er i'r danllyd sarph dy frathu,
A'th wenwyno nes dy nafu ;
Cred yn Ghrist, fe ddofa 'r poen,
Fe iacha 'r clwyf a gwaed yr oen.

Y mae ganddo ychydig ganiadau mewn mesurau gwahanol
i'r mesur crybwylledig, yr hwn yw ei " Fesur Cyffredin " ef,
megis y rhai canlynol :—

Mae'r ffeirad, mae'r ffermwr, mae'r hwsmon a'r crefftwr,
Mae'r Bayli a'r Barnwr, a'r bonedd o'r bron,
Bob un am y cynta, yn digio'r gorucha
Heb wybod p'un waetha eu harferion.

Clywch adrodd mawr gariad mab Duw at y byd,
Pan ddaeth ef o'r orsedd i'n prynu mor ddrud
Er peri i chwi gofio am gariad mab Duw,
A'i foli 'n wastadol tra fyddoch chwi byw.

Pan gwelas Duw grasol ein stad mor dosturiol,
O'i gariad rhagorol yn benna,
F'addewis ein helpu, trwy ddanfon i'n prynu
Ei vn mab Christ Iesu anwyla.

Dull cyffredin y mesur canlynol gan y Ficar, yw defnyddio
seithsill ym mhob llinell, gan ddechreu y drydedd llinell â sill
acenol, fel hyn :—

A dysc yn brudd gydnabod,
Nad oes o flaen y Drindod,
Iawn am bechod ond gwaed Crist,
A'i angau trist a'i 'fudd-dod.

Ond weithiau defnyddia wyth sill yn y drydedd llinell, â'r
sill gyntaf ynnddi yn anacenol, megis y tair llinell eraill, fel
hyn :—

A gwybydd fod Duw 'n foddlon,
I'r iawn a wnaeth Christ drosom,
Ac er ei swyn yn barod iawn,
Roi pardwn llawn i'r ffyddlon.

Dull cyffredin y mesur canlynol gan y Ficar, yw doddi saith
sill ym mhob llinell, y gyntaf a'r drydedd yn dechreu â sill
acenol, a'r ail a'r bedwaredd â sill anacenol, fel hyn :—

Ni wnaeth Duw vn gene 'rioed,
Mewn tir, mewn coed, mewn dyfnder,
Nes partoi ei ymborth tyn
I'r geneu cyn ei ganer.

O berthynas i iaith y Ficar Prichard, gellir sylwi, yn fyr, yr ymddengys yn eglur mai ei brif, os nad ei unig amcan ef, gyda golwg ar iaith, oedd bod yn gwbl ddealladwy i'r werin bobl, yn enwedig gwerin y Dcheubarth. Er mwyn cyrhaedd yr amcan yma, ni phetrusai ef ddim arfer geiriau a ystyrir yn gwbl estronol i'r Iaith Gymraeg, os barnai eu bod yn fwy cynnefin i'r bobl na'r geiriau a dybir eu bod yn Gymraeg. Defnyddiai eiriau hefyd yn gyffredin yn eu dull gwerinol yn hytrach na'u dull llenorol, pan y tybiai y byddai'r naill ddull yn fwy adnabyddus i'r bobl gyffredin na'r llall; ac ni phetrusai ddim newid geiriau arferedig i ateb i'r odl, os meddyliai yn unig eu bod yn ddealladwy i'w ddarllenwyr cyffredin. Gwelir hyn yn yr ychydig esamplau canlynol. Dynodir y geiriau estronol a newidiedig â llythyrenau Italaidd yn yr esamplau hyn:—

Mae e' *Methlem* gwedi eni,
Yn y *stabal twnt* i'r *Ostri* ;
Awn bob *Christion* i gyflwyno,
Ac i roddi golwg arno.

Awn i *weld Conqueror Ange*
Wedi rwymo mewn *cadache* ;
A'r Mab a rwyga deyrnas Satan
Yn y *crails* heb allu *crippian*.

Christ sy'n cadw'r holl *alhuedde*
Sydd ar uffern ac ar *ange* :
Ni baiidd Diawl nac angau *dwtchio*
Neb, nes cael gan Grist ei *two*.

Ni fyn *Christ* roi i Sant nac Angel,
Dyn na delw o un *fettel*,
Bart na *pharsel*, rhan na chyfran
O'r gogonian sy 'ddlo ei hunan.

Er i'r lladron *spcilio* d' enaid,
A'th archolli yn dra *embaid* ;
Cred yn *Ghris* t y gwir Samariad,
Fe iacha d' archollion *desprad*.

Carcharorion dan law Satan,
Yn y *Dionshawn* mawr yn cwynfan,
Byth y *byssem* bawb yn *gryddfu*,
Oni *bysse'r* Jesu ein prynu.

Pwy *bynna* geisio *madile*
Ei bechod a'i *drosedde*
A chael *pardwn* gan Dduw gwyn,
Rhaid dilyn hyn o *werse*.

Rhaid dywedyd gair eto am y Ficar fel Bardd Awenyddol. Y mae'n eglur mai addysgiadau crefyddol a moesol wedi eu doddi ar gân gyffredin, a gynnwys ei bennillion ef gan mwyaf ; eto y mae amryw o honynt yn arddangos syniadau hedegog a gwir awenyddol, ac yn profi bod yr awdur, wrth natur yn fardd athrylithgar ; megis y llinellau canlynol o'r gân a elwir " Cofiwch Angau :"—

Byrr yw'n hoes ac Ancertennol,
Heddyw'n fyw, y foru'n farwol ;
Gynne'n fawr, y boir yn gelain ;
Dyma gyflwr dyn a'i ddamwain.

Fel y rhed yr haul i'r hwyr,
Fel y treulia'r ganwyll gwyr,
Fel y syrthia'r Rhosyn gwynn,
Fel y diffydd tarth ar lyn ;
Felly treulia, felly rhed,
Felly derfydd pobol Grêd,
Felly diffydd bywyd dyn,
Felly syrthiwn bob yr un.

Fel y trewir pysc â thryfer,
Fel y saethir phesant dyner,
Fel y torrir blodau'r ardd,
Fel y lleddir gweunydd hardd ;
Felly trewir dyn heb wybod,
Felly saethir yn ddiddarfod,
Felly torrir gwychder dyn,
Felly 'n lleddir bob yr un.

Fel y cwymp holl ddail yr allt,
Fel y croppia'r gwelle 'r gwallt,
Fel y gwywa lili 'r maes,
Fel y tyr y gwydyr glas ;
Felly gwynn, felly tyrr,
Felly craccia 'n bywyd byrr,
Felly croppir einioes dyn,
Felly cwympwn bob yr un.

Gellid nodi llauws o ddarnau o gyffelyb ansawdd hedegog a gwir farddonol. Y mae ysgrifenydd galluog yn " Y Traethodydd,"¹ yn sylwi yn dra phriodol, fel y tybir, ar gynnwys caniadau'r Ficar megis tri dosparth :—

1. Fel y maent yn tafu goleuni ar amgylchiadau y genedl yn y dyddiau hyny ; ac ar ddygwyddiadau yr oes.
2. Fel y maent yn cynnwys crynodeb o athrawiaethau mawrion crefydd ddadguddiedig.
3. Fel y maent yn gasgliad o gynghorion neu reolau i'w dilyn ym mhob sefyllfa.

¹ Y Traeth., cyf. ii., t. 143—155.

A chyda hyn y rhaid i minnau derfynu hanes Llenyddiaeth yr enwog Ficar Llanymddyfri.

EDWARD DAFYDD, o Fargam, ym Morganwg, ydoedd fardd llafurus a galluog. Yr oedd Edward Dafydd, yn ol Cofres y Dr. Pughe sydd o flaen *Gwaith Llywarch Hen*, ac yn ol yr un Gofres sydd yn *History of Wales* y Dr. John Jones, yn Ddysgybl Cerdd Dafod yng Nghadair Morganwg yn y fl. 1580, lle y dywedir bod Llewelyn Sion yn Llywydd; a'i fod yn yr un cymmeriad drachefn yn y Gadair honno yn y fl. 1620, lle yr oedd Watcin Powel yn Llywydd; a dengys yr un awdurdodau ei fod yntau, Edward, yn llywydd yn yr un Gadair yn y fl. 1660. Pe na buasai ond 18 oed pan yn ddysgybl yn y Gadair gyntaf, yn 1510, yr oedd yn 98 oed pan yn llywyddu'r Gadair honno yn y fl. 1660. Oedran go fawr i fod yn y fath swydd; eithr nid annichonadwy, ond odid. Ond nid dyna'r cyfan: yr oedd efe yn fyw ac yn weithgar, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, fel y ceir gweled eto, yn y fl. 1681; a dywedir na bu farw hyd y fl. 1690,¹ pan ydoedd, yn ol yr amseriadau a nodwyd yn 138 oed, oedran pur addfed yn oed i Brydydd; ond yr oedd rhai o Feirdd Morganwg yn myned yn hen iawn, os gwir a ddywedai Twm Ifan Prys, yr hwn a dystiai, fel y gwelsom, ei fod ef yn "*Gant a deg ar hugain*" pan yn cyfansoddi pennill i fynegi hyny.²

Ychydig o waith prydyddol Edward Dafydd sydd ar gael, hyd y gwn i; dim ond rhyw 23 o ddarnau byrion sydd yng *Nghyfrinach y Beirdd*, fel enghreifftiau o'r mesurau. Cywydd Deuair Hirion, o ddwy linell ar hugain yw'r darn hwyaf.³ Wele isod esampl o'r mesur a elwir yn y "*Gyfrinach*," "*Cadwyngyrch*," yr un mesur a "*Thawddgyrch Cadwynog*" Dosparth Dafydd ap Edmwnnt:—

Ti wiw noddaist awenyddion
A defnyddion ei ddwfn addysg;
A da rhoddaist radau rhyddion
I gilyddion y goleuddysg.

¹ Williams's *Em. Welshm.*, p. 131.

² *Iolo MSS.*, t. 201.

³ *Cyfr. y Beirdd*, t. 105.

Dy garyddion
 Yw Prydyddion
 Aur Ieithyddion
 Irwaith hoywddysg ;
 Cai 'n newyddion
 Gan d' ofyddion
 Fel gywyddion
 Yn fawl gwiwddysg.

Edward Dafydd a'i cant i Syr Rhisiart Bassed o'r Bewpwr.¹

Prif waith llenyddol Edward Dafydd, a'i unig waith, hyd y gwyddys, oedd casglu a threfnu "Cyfrinach y Beirdd," yr hwn sydd waith gwir werthfawr o'i ddosparth. Gyda golwg ar y gorchwyl yma dywed efe ei hun fel y canlyn :—

Gann ddarford imi er yn lasfachgen hoffi ag astudio Barddoniaeth, a chwilio Llyfrau y Beirdd ag Awduron dysgedigion, ag yn enwedig Llyfrau y Beirdd henaf o Gymru, a chann ystyried yr arch a roddwyd ar y Beirdd yng Ngorsedd Cerdd Dafod *Caer Dydd*, yr honn a gynneiliwyd yn y Castell yno dann Nawdd, drwy Ddawn, a Gorchymyn yr *Arglwydd William Herbert*; ys ef, iddynt chwilio i maes, a dwyn ar ail arfer yr HEN DREFN A DOSBARTH ar y Gelfyddyd wrth Gerdd Dafod a'i Pherthynasau; ag ar *Frciniau a Defodau Beirdd Ynys Prydain*, mi a lwyr ymroddais i'r ymbrawf a allwn i rywsaint o les herwydd hyn o amcan; gann weled o honof yn drylwyr amherffeithrwydd yr hynn sydd gennym mewn prynt² ar yr achos hyn; ...a chwedi hir a mawr lafurwaith mi roddais ar gasgl yr hyn a welir ymma'n fy Llyfr maeth...*Lewis Morganwg* a gafodd i maes lawer o bethau, ond nid y cwbl; *Meuryg Dafydd* a ddatguddiodd lawer o honynt yn y Llyfr a wnaeth ef iddei Arglwydd *Syr Edward Lewis o'r Fann*; *Dafydd Benwyn*, a *Dafydd Llwyd Mathew*, a wnaethant Lyfrau, gan ddangos ynddynt o'r newydd rhai pethau hen iawn; a *Llewelyn Sion o Langewydd* a gasglwys y cyfan yng nghyd iddei Lyfr o'u gwaith hwynt, ag a wnaeth Drefn a Dosparth ar fesurau Cerdd a'r parth oedd berthynaidd iddynt, gann roddi trem goleuwl ag athrawiaeth ermynt, a'i ddangos yn amlwg wrth brif a chyssefn Ryw ag Ansawdd, ag nid oedd yn ei Lyfr amgen na hynn o fai, ys ef nid oedd wrth raid ag achos ym mhob mann, hanner digon o Fesurau a Phennillion Cynnyrch a golygwel er dysgu'r mesurau; ...ag nid oedd ef ond hen a methedig pann gymmerth y gwaith mewn Bryd a Llaw; er hynny efe a wnaeth ei oreu; a chann fod hynn o ddiffyg yn ei Lyfr ef, mi a wnaethum fy ngorau er cynnull yng nghyd yr hynn a ellais o Feirdd ein gwlad, er cynnal Gorsedd wrth gerdd, er cael barn cymmaint a ellid ar y peth, a chyfrnerth ganthynt yn fy ngorchwyl, a hynn a gafwyd yn rwydd³.....

A'r Ddosparth honn a farnwyd yn gyfiawn herwydd Prif ansawdd Cerdd Dafawd, ag arfer PRIF FEIRDD YNYS PRYDAIN; ag a gadarnhawyd yn yr ORSEDD WRTH GERDD DAFOD a gynneiliwyd yn y BEWPUR ym MORGANWG ar DDYDD LLUN, a DYDD MAWRTH, a DYDD MERCHER y SUL GWYNN yn y Flwyddyn 1681, dan Nawdd a Dawn Syr RHISIART BASSED, FARCHOG, Arglwydd y lle; a than OSTEG A RHYBUDD UN DYDD a BLWYDDYN drwy FORGANWG a GWENT, ag EUAS; ac yn BENCERDDIAID yno CHARLES BWTTWN YSGWEIER, a DAFYDD O'R NANT, ag EDWART DAFYDD O FARGAM, a chyda hwynt, y Rhain, yn BRYDYDDION a BEIRDD WRTH FRAINT A DEFOD BEIRDD YNYS PRYDAIN, ag yn Athrawon cyfiawnfarn, nid amgen,

¹ *Cyfrinach y Beirdd*, t. 135.

² Y mae'n debyg mai cyfeiriad sydd yma at Ramadeg Gruffydd Roberts, 1567; Gramadeg I. D. Rhys, 1592; a "Barddoniaeth hen Brydyddiaeth Wm. Middleton, 1593; yr unig lyfrau oedd "mewn prynt" yn egluro Rheolau Barddoniaeth, hyd y gwyddys, cyn amser Edward Dafydd.

³ *Cyfrinach y Beirdd*, t. 2, 3.

- | | |
|----------------------|------------------------------|
| 1. HYWEL LEWYS. | 8. CHARLES DAFYDD MEREDYDD. |
| 2. JOHN ROBERTS. | 9. HOPCIN LLYWELYN, |
| 3. THOMAS LEWYS. | 10. LLEISION IFAN. |
| 4. DAFYDD EDWARD. | 11. JENKIN RICHARDS. |
| 5. SION PADARN. | 12. BLEDDYN SION. |
| 6. MORGAN GRUFFYDD. | 13. SAMUEL JONES, OFFEIRIAD. |
| 7. DAFYDD EVAN SION. | |

A Hynn i gyd yn ENW DUW A PHOB DAIONI. AMEN.¹

A chann un a'r llall yn yr Orsedd honno [medd Edward Dafydd] y cefais y Pennillion cynnyrch ag oedd yn ddiffig yn LLYFR LLEWELYN SION; ambell pennill yn wir a dynnais o waith Beirdd y ddwy oes ddiweddaf, a rhai a welir a henynt a wnaethum fy hun; ag am yr athrawiaethau ar ddechreu'r mesurau, nid ynt amgen na llwyr a didwyll ymadroddion LLEWELYN SION.²

Gwelir weithian yn eglur, fel y tybir, na chwblhawyd "Dosparth Morganwg," yr hon a gamenwir "Yr Hen Ddosparth," hyd ym mhen 230 o flynyddau ar ol Eisteddfod Caerfyrddin, a gynnaliwyd yn y fl. 1451, yn yr hon y trefnodd Dafydd ap Edmunt y 24 mesur, ac y canodd arnynt oll mewn naw diwrnod, yn well na neb arall oedd yn bresennol, am yr hyn y cafodd efe y Gadair Arian.³

Am deilyngdod y ddwy Ddosparth, dichon na pherthyn i mi draethu; ond pes gofynid fy marn, ni phetruswn ddywedyd bod mesurau Ddosparth Morganwg yn rhagori, am fod llawer o honynt yn hwy na mesurau y llall; ond bod y naill a'r llall yn annhraethol rhy gaethion i gynnyrchu caniadau mawrion, awenyddol ac anfarwol, fel caniadau Homer, Virgil, neu Milton.

O barth amser Edward Dafydd, nis gwelaf fi y gellir bod yn sicr yn ei gylch, ond ei fod yn ei flodau yn y fl. 1681; sef, pan gynnaliwyd Gorsedd Cerdd Dafod yn y Bewpur; ac y mae llythyaeth a geiriadaeth *Cyfrinach y Beirdd* yn profi bod yr amseriad hwnw yn ddigon cywir.

¹ *Cyfr. y Beirdd*, t. 1.

² *Yr un*, t. 3.

³ *Y Greal*, t. 101—2.

PENNOD XIV.

HANES LLENYDDIAETH RYDDIEITHOL PRIF AWDURON YR UNFED GANRIF
AR BYMTHYG.

Y RHESWM dros ddechreu y bennod hon âg ychydig o hanes y *Trioedd* ydyw, bod tebygrwydd i rai o honynt gael eu cyfansoddi mor foreu a thua dechreu y ganrif hon, tra y mae sicrwydd i eraill gael eu cyfansoddi tua chanol y ganrif; ac y mae llawer iawn o honynt na wyddys yn fanwl pa bryd, na chan bwy, y'u cyfansoddwyd; ond y mae eu llythraeth a'u geirweddïad yn profi iddynt oll, oddi eithr yr ychydig a nodwyd yn y ganrif flaenorol, gael eu cyfansoddi rywbrÿd yn ystod y ganrif bresennol; tra y cyfansoddwyd rhai o honynt ond odid, ychydig yn ddiweddarach.

Ymddengys bod cyfansoddi *Trioedd* wedi dyfod yn un o ddefodau Cadair Farddol Tir Iarll tua chanol y ganrif hon; ac y mae cryn sicrwydd o amserïadau rhai o honynt, fel y tystia y mynegïadau canlynol:—

Ac velly tervyna *Trioedd* y Brodyr,¹ a Rhisiart Iorwerth a'u cant yrhain hevyd, gerbron Twmpath Prydyddion Tir Iarll.

Yr oedd Rhisiart Iorwerth yn ei flodau rhwng y fl. 1540 ac 1580.—*Cambr. Biography.*

Ac velly tervyna *Trioedd* y Sais; sev ydynt rhiv wythnosau y vlwyddyn. Hopgin Twm Philip o'r Gelli Vid a'u cant, gerbron cadair wrth gerdd dafawd tir Iarll, y bymtheg vlwyddyn o goroniad y Vrenines Elsbed; sev gwyliau y Sulgwyn, 1572.—*Myv. Arch.* t. 904.

Ac velly tervyna *Trioedd* y Pedair Cenedl; a'r Arg'lywydd William Herbert Iarll Rhaglan a'u gwnaeth.—*Myv. Arch.* t. 915.

Yr oedd William Herbert yn ei flodau rhwng y fl. 1570 ac 1610.—*Powell's Hist. Cambr., p. 399.*

Y mae rhai o *Drioedd* y ganrif hon yn cael eu priodoli i Taliesin, i Dyfnwal Moelmud, i Catwg Ddoeth, ac i Dafydd ab

¹ *Trioedd* ar gyhoedd a' gaid. yn addysg
Gan wiwddoeth hynaviald;
Dysg Inni yn des caraid,
Doethineb byw rhyw a rhaid.

Gwilym ; ond y mae ansawdd eu cyfansoddiad yn profi nad oedd dim a fynno'r gwŷr hyny â hwynt. Y tebygolrwydd yw, ddarfod i rywrai yn ystod y ganrif hon fenthycu enwau y gwŷr hyny er mwyn i'w gwaith, ond odid, fod yn fwy poblogaidd. Am y *Trioedd* a Dyfnwal Moelmud,¹ nid ydynt ddim amgen na Chyfreithiau Hywel Dda, wedi eu troi yn *Drioedd* gan ryw ysgrifenydd yn ystod y ganrif bresennol, fel y prawf eu cyfansoddiad ; a diau bod rhai *Trioedd* o'r ganrif hon yn hynach na hwynt. Dosparthodd T. Stephens² holl *Drioedd* y ganrif hon yn chwe Dosparth, fel y canlyn :—

I.	Trioedd	Cerdd.
II.	„	Barddas.
III.	„	Doethineb.
IV.	„	Braint a Defod.
V.	„	Cyfraith.
VI.	„	Ynys Prydain, sef y Trioedd Hanesyddol.

Dywed Stephens y cynnwys y rhai hyn amryw gangenau, y rhai a enwir yn y daflen ganlynol, yng nghyd â rhif y Trioedd ym mhob rhes, a chyfeiriad at y llyfrau, y cyfrolau, a'r tudalenau, ym mha rai y maent i'w gwled. Rhoddir ychydig esamplau o *Drioedd* pob Dosparth ar ei ol, er mwyn i'r darllenydd weled ansawdd eu cyfansoddiad, a chael awgrym o'r amserau yr ysgrifenydd hwynt.

I. TRIOEDD CERDD.³

					<i>Rhif.</i>
1.	Trioedd Cerdd,	Dosparth Edeyrn Dafod Aur, t. xxxvii.	68
2.	„	Pum Llyfr Kerdduriaeth, Dosp. Ed. D.
		Aur, t. cii.	84
3.	„	Ed. Williams's Lyric poem. ii. 254	11
4.	„	Cyfrinach y Beirdd, t. 43	85
5.	„	Myv. Arch., t. 832	78
6.	„	„ t. 870	52
7.	„	Iolo MSS., t. 88.	20

ESAMPLAU.

Tri bei cyffredin ar Gerdd ;—Torr Mesur, Drwg Ystyr, a Cham Ymadrawdd. —*Dosp. Ed. D. Aur*, t. xxxviii.
Tair kaink yssydd o Gerdd dawawd, nid amgen, Klerwriaeth, a Teuluwriaeth, a Phrydyddiaeth.—*Pum Llyfr Cerddur*, t. cii.

¹ Myv. Arch., t. 918—963. ² Y Belrnlad, cyf. iv., t. 381.

³ Cyfeiria Stephens at “*Drioedd Cerdd*” yng “*Ngrammadeg Sion Dafydd Rhys* ; ond nid oes unrhyw gyfansoddiad ar ddull *Trioedd Rheolaidd* ar “*Gerdd*,” na dim arall, yn y *Gramadeg hwnw*.

ESAMPLAU.¹

Tri dyn anhawdd eu credu, rhodiadur o bell, darllenwr llyvyr anghyfaith, ac à vo hyn no'i gymydogion.—CATWG DDOETH, *Myv. Arch.*, t. 793.²

Tri pheth ni hir barâa : rhyvyg heb urddas, cadernid heb gydwylbod, a hir bechawd heb ediveirwch.—TALIESIN : *Myv. Arch.*, t. 834.²

Tri pheth hynod ar Gymro : awen, haelioni a llawenydd.—*Yr Ar. W. Herbert.*

Tri pheth hynod ar Sais : arawwch, hyder, a diwydrwydd.—*Yr un.*

Tri pheth hynod ar Franc : gwychder, syberwyd, ac anwadalwch.—*Yr un.*

Tri pheth hynod ar Wyddel : truth, dichell, a frost.—*Yr un.*

IV. TRIOEDD BRAINT A DEFOD.

Williams's (Iolo Morganwg) Lyric Poems, ii., 227 Rhif.
18

ESAMPLAU.

Tri chynteffigion Beirdd gorseddog Ynys Prydain, PLENNYDD, ALAWN, a WRON.—*Lyric Poems*, ii., 227.

Am dri achos y gelwir Beirdd, yn FEIRDD WRTH FRAINT A DEFOD BEIRDD YNYS BRYDAIN, yn gyntaf am mai yn YNYS BRYDAIN y cafwyd Barddoniaeth gyntaf, yn ail am nâ chafwys un gwlad arall erioedd ddeall cyfiawn ar Farddoniaeth; yn drydydd am nas gellir cynnal Barddoniaeth gyfiawn eithr ym Mraint Defodau a Llafar Gorsedd BEIRDD YNYS PRYDAIN, ac am hyn o bâ wlad bynnag y bônt, BEIRDD WRTH FRAINT A DEFOD BEIRDD YNYS PRYDAIN au gelwir.—*Yr un ll.*

V. TRIOEDD CYFRAITH.

- | | | | |
|----|---|--|-----|
| 1. | Trioedd Cyfraith Hywel Dda, Myv. Arch., 938—963 | ... | 184 |
| 2. | Trioedd Dyfnwal Moelmud | {
1. Trioedd y Cludau a Thrioedd y Cargluddau, Myv. Arch., t. 918
2. Trioedd Gwladoldeb a Chywladoldeb, Myv. Arch., t. 920 | 34 |
| | | | 248 |

ESAMPLAU.

Tair Clud gyfarwedd y sydd : barddoniaeth, govaniaeth, a thelynoriaeth. Neu val hyn, tair clud gyvanedd y sydd yn mraint devodau cenedyl y Cymry; bardd, feryllt, a thelynior : *Myv. Arch.*, t. 918.

Tair sail gwladoldeb : baint, meddiant, a chyfraith.

Tair sail cyfraith : amdifyn, cosp, ac anrhydedd, parth ag à wneler er lles gwlad a chenedl.—*Myv. Arch.*, t. 920.

VI. TRIOEDD YNYS PRYDAIN.

- | | | | |
|----|---|-----|-----|
| 1. | Y Gyfres hynaf, o Lyfr Coch o Hergest : ³ <i>Myv. Arch.</i> , t. 395 | ... | 60 |
| 2. | O Lyvyr Mr. R. Vaughan, o'r Hengwrt, a'r Cwta Kyfarwydd, a Llyfrau Sion Palmer, John Jones, o'r Gelli Lyfdy, ³ &c., <i>Myv. Arch.</i> , t. 388 | ... | 103 |
| 3. | Y Drydedd Gyfres a gopiwyd yn y fl. 1601, "o Lyfyr Caradawg Nant Garvan, ac o Lyfyr Ieuan Brechfa," gan "Thomas Jones o Dregaron" (Twm Sion Catî) : <i>Myv. Arch.</i> , 400—411 | ... | 126 |

¹ Gwelir ar unwaith yr elai rhoddi esamplau o'r holl *Drioedd* a nodir yn y Dosparth yma llawer rhy faith; gan hyny rhaid boddloni ar esampl o'r ddau awdur hynaf a nodir, gan gymharu eu gwaith hwy a'r eiddo un o'r rhai diweddaraf a ysgrifennodd *Drioedd*.

² Dywedir bod Catwg Ddoeth yn bucheddu yn y 5med ganrif (Williams's *Em. Welshm.*, p. 69); a bod Taliesin o'r fl. 520 i 570 (Ibid., p. 477); er hyny gwelir bod y gwaith a briodolir iddynt hwy yn llawn mor hawdd eu darllen, a Thrioedd yr Arglwydd William Herbert, oedd yn ei fodau, fel y gwelwyd, o'r fl. 1570 i 1610 !

³ Bu'r ddwy gyfres hyn dan sylw eisoes, fel y gwelwyd, wrth ymdrin a llenyddiaeth y ganrif gyntaf a'r ail o gyfnod y testyn.

ESAMPLAU O'R DRYDYDD GYFRES.

Tri enw a ddodded ar Ynys Prydain o'r dechreuad : Cyn ei chyfanneddu y doded arni Clas Merddin, a gwedi ei chyfanneddu y doded arni y Fel Ynys, a gwedi gyrru Gwledigaeth arni y gan Prydain ab Aedd Mawr y doded arni Ynys Prydain. Ac nid oes dylwed i neb arni namyn i Genedl y Cymry, can ys hwy ai goresgynasant gyntaf, a chynn no hynny nid oedd neb o ddyonion yn byw ynddi, eithr llawn eirth, a Bleiddiau ac Efeinc, ac Ychain bannog ydoedd.—*Triad 1: Myv. Arch., t. 400.*

Tair Talaith Teyrmedd a ddodded Rhodri Mawr yng Nghymru : un, Dinefwr ; ail, Aberffraw ; Trydydd, Mathrafal ; a Thywysawg Taleithiawg ym mhob un o'r Tair Talaith ; a'r hynaf ei oed o'r tri thywysawc, bynnag y byddai o honynt, yn Benn Teyrmedd ; sef hynny brenin Cymru oll ; a'r ddau eraill wrth ei air ef, a gair ei air ef ar bob un o naddynt, a phenraith a phenhynaif hwnnw ym mhob Gorsedd Ddygynnull, ac ym mhob Cyfro Gwlad a Chenedl.—*Triad 126: Myv. Arch., t. 411.*

Gwelir wrth y rhestrau' blaenorol fod Trioedd yn rhan bur helaeth o lenyddiaeth Gymreig yn ystod y ganrif bresennol o gyfnod y testyn ; ac y mae'n eglur hefyd wrth orgraff yr esamplau a roddwyd eu bod oll yn gyfansoddiadau y ganrif hon, gan nad yw orgraff yr hynaf o honynt odid yn ddim hynach nag orgraff cyfeithiad y Dr. Morgan o'r Bibl, a gyhoeddwyd yn y fl. 1588, tra y mae rhai o honynt yn orgraff y Dr. Davies o Fallwyd ; am hyny y maent yn gwbl ddealladwy i ddarllenwyr Cymreig cyffredin, oddi eithr ychydig hen eiriau sydd ynddynt yma ac acw.

Dylid crybwyll hefyd nad yw'r Trioedd yn agos gymmaint o nifer ag y gellid tybied wrth y rhestrau blaenorol, gan fod rhai cannoedd o honynt yn cael eu hadrodd yr ail a'r drydedd waith, a llawer o honynt y chweched waith, mewn gwahanol ysgrifau. Byddai yn hawdd profi hyn, trwy eu cymharu yn ofalus â'u gilydd ; ond rhaid i mi brysuero weithian at lenyddiaeth fwy pwysig a diammheuol.

SYR IHON PRYS (*Sir John Price*, LL.D.), fel yr ymddengys, oedd awdur y *Llyfr Cyntaf* a argraffwyd yn Gymraeg. Y mae'r Dr. Richard Davies, Esgob Tŷ Ddewi, yn ei "Epistol at y Cymru," sydd o flaen "Y Testament Newydd, o Gyfeithiad William Salesbury," yn cyfeirio at yr awdur a'i waith fel y canlyn :—

Eithr mor ddiystyr fyddai iaith y Cymro, a chyn bellet ir esceulusit, ac na allodd y print ddwyn ffrwyth yn y byt yw gyfri i'r Cymro yn i iaith i hun hyd yn hyn o ddydd neu ychydig cyn hyn i gosodes Wiliam Salsburi yr Efengylon a'r

epystelay, a arferit yn yr Eglwys tros y flwyddyn, yn Gymraeg yn print, a' Syr Ihon Prys¹ yntay y Pader, y Credo a'r X Gorchymyn.²

Enw y Llyfr y cyfeiriwyd ato sydd fel hyn :—

BEIBL. Yn y Llyvyr hwn y Traethyr Gwyddor Kymraeg. Kalendyr. Y Gredo neu bynkey yr flydd Gatholig. Y Pader neu Weddi yr Arglwydd. Y Deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampay arveradwy, a'r Gweddiau Gocheladwy ae Keingeu. [Llundain, 1546, 4plyg.]³

“Dywed yr Esgob Humphreys, gynt o Fangor,” medd Gwilym Lleyn, “mai math o Almanac ydoedd, o ychydig ddalenau. Dodwyd ‘Beibl,’ mewn llythyrenau breision ar ben uchaf y ddalen gyntaf, i dynu sylw, mae yn debyg, gan fod rhanau o'r Beibl ynddo, yr hwn oedd hollol ddyeithr yng Nghymru yn y dyddiau hyny.”

Mab ydoedd Ihon Prys i Rhys ab Gwilym Gwyn, yr hwn a ddisgynai o un o deuluoedd hynaf sir Frycheiniog. Addysgwyd ef yn *Broadgate Hall*, neu Goleg Penfro, yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn Ddoethawr o'r Gyfraith (Ll.D.), yn y fl. 1534. Cafodd lawer o swyddi gwladol pwysig; ac o'r diwedd urddwyd ef yn Farchog.

Ysgrifennodd ddau lyfr arall o leiaf, yn Lladin; sef, “*Commentarioli Britannicæ Descriptionis Fragmentum*,” a “*Historiæ Britannicæ Defensio* ;” a chyhoeddwyd hwy ym mhen tuag ugain mlynedd ar ol iddo farw; y cyntaf yn y fl. 1572, a'r llall yn 1573. Cyfeithwyd y ddau i'r Saesneg, a chyhoeddwyd hwy mewn cyssylltiad â llyfrau eraill, fel y ceir gweled rhag llaw.

RICHARD DAVIES, D.D. ; WILLIAM SALESBURY ; a'r PARCH. THOMAS HUET. Ddir y tri wŷr enwog hyn yng nghyd yma, o herwydd eu cyssylltiad yn y gwaith llenyddol pwysig a ddaw dan sylw yn fuan.

Y DR. RICHARD DAVIES oedd yr hynaf o'r tri. Mab oedd Richard i Dafydd ap Gronwy, uchelwr o sir Ddinbych, medd Gwallter Mechain; curad Cyffin, medd eraill, ger llaw Aberconwy, sir Gaernarfon; a dywedir mai mewn lle a elwir Plas y Person, yn yr ardal honno y ganwyd ef, yn y fl. 1501. Dywedir hefyd ei fod yn fardd, ac yn ddysgybl i Lewis Dwn; ond nid oes sicrwydd, hyd y gwelais i, fod dim o'i farddoniaeth ar gof a chadw.

¹ “Marchog vrddol.” ² Epistol E. M. At y Cymru, t. v. ³ Llyfr. y Cymry, t. 3.

Cafodd ei addysg athrofaol yng Ngholeg New Inn, yn Rhydychain, ac urddwyd ef yn offeiriad. Yn y fl. 1550, anrhegwyd ef, o blegid ei ddysg, gan Edward VI., â Ficeriaeth Burnham, ac â pherigloraeth Maidsmarton, yn sir Buckingham ; a chafodd Ganoniaeth yr Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy. Amddifadwyd ef o'i fywiolaethau gan "Mari Waedlyd" a'i Phabyddion, o blegid ei Brotestaniaeth ; a gorfodwyd ef a'i wraig, fel amryw eraill, i ffoi am eu bywyd i Geneva, lle y bu dros dro yn byw ar elusen ; ond canfuwyd ei werth yno o'r diwedd, a chafodd fywoliaeth gysurus yno. Ar ol marwolaeth *brydlawn* "Mari Waedlyd," yn 1558, dychwelodd i Frydain ; ac yn 1559, dyrchafwyd ef gan Elizabeth i Esgobaeth Llanelwy ; ac yn 1561, trosglwyddwyd ef i Esgobaeth Mynyw, lle y bu yn cydlafurio â William Salesbury a Thomas Huet i gyfieithu y Testament Newydd, fel y ceir gweled eto, i'r Iaith Gymraeg.

O gylch yr un amser hefyd, cyfieithodd Josua, Barnwyr, a Ruth, ac yn ol rhai, dau lyfr Samuel hefyd, o'r Hebraeg i'r Saesneg, y rhai a gyhoeddwyd yn yr argraffiad Seisnig a elwir "Bibl yr Esgobion," yn 1568. Bu yr Esgob dysgedig a llafurus farw yn y fl. 1581, yn 80 oed.¹

WILLIAM SALESBURY a deilynga barch y Cymry hyd ddiwedd amser, am mai efe oedd prif gyfieithydd yr argraffiad Cymreig cyntaf o'r TESTAMENT NEWYDD. Normaniad o genedl ydoedd William o du ei dad, sef ail fab Foulk (Fowc) Salesbury, ap Robert Salesbury, ap Thomas Salesbury Hen, o Leweni, ger llaw Dinbych. Priododd Robert Salesbury, taid William, Gwenhwyfar, unig ferch ac etifeddes Rhys ap Einion Fychan, o'r Plas Isaf, yn Llanrwst. Foulk Salesbury, o'r Plas Isaf, a briododd ferch un Pilstwn, o Fon ; ac felly yr oedd llawer mwy o waed Cymreig yn William Salesbury, fel y rhan fwyaf o hiliogaeth yr hen Normaniaid a ymsefydlasant yng ngwahanol barthau Cymru ar ol y Goresgyniad yn y fl. 1066, nag o waed Normanaidd ; a daeth amryw o honynt yn brif goleddwyr llenyddiaeth Gymreig.²

¹ Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 202, &c. ; Williams's Em. Welshm., p. 103.

² Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 194, &c. ; Williams's Em. Welshm., p. 466.

Y sydd, ail irwydd Orwen,
 Llatai a gyrch lletty Gwenn ;
 Ag ar y lloer eigr y llu
 A gais dwyll, drwy gastellu.
 O chaiff fann wylan eiliw,
 A'i bebyll aur, o bob lliw,
 Dwyn a gais dann ei gesul.
 Gwenn i'r Mab oganwr Mül.
 Er hyn moes hon o'r herwydd,
 Ci daear gwyllt cai dair Gwýdd :
 Dôs i'r Ddól, dewis Iâr dda,
 Ag Oenyn a gai yna ;
 A rhodia 'mysg y rhedyn,
 Gylch y Ddól gwilia wých ddŷn ;
 A gochel Sawl uchel Sôn,
 Gŵn eiddig a'i Gynyddion.
 O gweli 'r Paun gwiliwr pŵr,
 Iddo Fadyn ddefeidiwr
 Cadr cais ei hel adref,
 Hudol Gwenn o'r Ddól oedd ef
 I b'le bynnag blew hanel
 Gwergi gwyddeli y ddêl,
 Gwilia ef, lle cartrefai,
 Gwobr o gíg, gî byrr a gai ;
 A'i ddial ar ei ddwyen,
 Ammod gwych, am hudo gwenn.
 Adolwyn yt dal a naid,
 A rhwyg ŵr, a'r Húg euraid :
 A lladd, llatai frawd Llowdden,
 A dwg ei bais, deg a'i benn :
 Ag am Wenno gi Meinael,
 Gâd rhof a'r gwiw wawdwr hael ;
 A cherdd cýd bytho wých hwnn,
 Am Wenno yr ymwanwn.¹

Cyffelyb o ran ansawdd dduchanol a digrif
 Llwynog" ydyw yr Awdl ganlynol i'r "Ll
 bod hon yn ymosodiad arno, tra mai gwahod
 cymmwynas i'r bardd yw'r cywydd uchod.
 hon gynt yn gywreinbeth cynganeddol ; ac f
 ac ystyried yr amser y cyfansoddwyd hi
 gwnaed hi yn lled fuan ar ol yr "Eisteddfod
 a gynnaliwyd yng Ngwern y Clepa yn
 awdurdodwyd *cywydd cynganeddol* gyntaf,
 Prif hynodrwydd yr Awdl hon, heb la
 dduchanol a digrifol, ydyw ei geiriau cyfan
 Yr enw a roddwyd arni gan Rhys Jones syd

¹ Gorch. Beirdd Cymru, t. 90

...
...
...

Mary ...
L ...
M ...
M ...

Robert ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...

R ...
R ...
R ...
R ...

n lyfr
dd â'i

bl sydd
y mae
owbted
ce, and
also of
onour.'
ys dair
' neu,
aesnec.'
ynnwys
ll yn y
yfr pur
â'r gair
ofn saif
d arall
hun, ni
y mae
ystyr ar
Waley
ceir yr

lundain,
air olaf.

own. A
wragedd

eddodd
no gael
yr enw

ers in the

hyny, a

ie letters in
sh man shall
same wel, it
unciation of
lesbury, 1550.

Ganwyd William Salesbury yn y Plas Isaf ; ond ni wyddys yn fanwl pa bryd y dygwyddodd hyny. Barn Golygydd craffus "Llenyddiaeth y Cymry," ar seiliau da, iddo farw o gylch y fl. 1593, tua dwy flynedd cyn i Henri Perri gyhoeddi yr "Egluryn Phraethineb" yr hwn a ddechreuasid gan Salesbury.¹ Od oedd efe yn 70 oed pan fu farw, ganasid ef yn y fl. 1523. Cafodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain, lle yr yfodd ei ddysg yn gyflym ac yn helaeth. Aeth o Rydychain i Lundain i fyfyrïo'r gyfraith ; ond ym mhen rhyw ennyd ar ol myned yno, daeth etifeddiaeth y Plas Isaf i'w feddiant trwy ryw ddamwain nad yw weithian yn hyspys ; a dychwelodd yntau i'w dreftadaeth yng ngwlad ei enedigaeth, i wasanaethu ei genedl mewn llenyddiaeth.²

THOMAS HUET ydoedd ail gynnorthwywr William Salesbury yn ei orchwyl pwysig o gyfieithu y *Testament Newydd* i'r Iaith Gymraeg. Ychydig iawn a wyddys o'i hanes ef, heb law ei fod yn Gantor Tŷ Ddewi o'r fl. 1562 hyd 1588 ; iddo dreulio y rhan fwyaf o'i oes yn Llanafan Fawr, ym Muallt ; ei fod yn Beriglor Cefnlllys yn sir Frycheiniog, a Diserth yn sir Feirionydd ; iddo gynnorthwyo yr Esgob Davies i gyfieithu rhai llyfrau ; ac iddo farw yn y fl. 1591.³ Od oedd efe yn 70 oed yn marw, ganasid ef yn y fl. 1521. Weithian, dychwelir at lenyddiaeth prif gyfieithydd cyntaf y Testament Newydd, yr enwog

WILLIAM SALESBURY. Ymddengys mai'r gwaith cyntaf a gyhoeddwyd gan Salesbury oedd yr un canlynol :—

A Dictionary
in Englyshe and Welshe moche ne-
cessary to all such Welshemen as
wil spedly learne the englyse tōgue
thought vnto the Kynges maie-
stie very mete to be sette for-
the to the vse of his graces
subiectes in Wales: Whe
revnto is p'fixed a litle
traetyse of the en-
glyshe pronūcia-
cion of the let-
ters, by
Wyllyam Salesbury.⁴

¹ Llyfr. y Cymry, t. 19. ² Gwaith G. Mecham, cyf. II., t. 198.

³ Gwaith G. Mecham t. 206 ; Williams's Em. Welshm., p. 224 ; Llyfr. y Cymry, t. 21. ⁴ Yr un, t. 5.

Wele eglurhad Golygydd y "Llyfryddiaeth" ar yr hen lyfr rhyfedd yma, yr hwn, fel y mae yn eglur, a'i gwelodd â'i lygaid ei hun :—

Cymmaint ag a welir uchod, ar ddull cyrnen wrthdröedig, yw y cwbl sydd ar wyneb cyntaf dalen enwol y llyfr hynafol hwn. Ar gefn y ddalen hòno y mae y cyflwyniad i'r Brenin Harri VIII. :—'To the moost Victorious & Redowbted prince Henry theyght by the grace of God Kyng of Englande, Fraunce, and Irelande defender of the faythe. And of the Churche of Englande and also of Irelâde in erthe the supream Hedde be al prosperitey in continuall honour.' Yna y canlyn—'Wyllyam Salesburi wrth y darllawdr,' yr hyn a gynnwys dair dalen. Wedi hyny y daw—'Natur a sain y llythyren vchod yn Saesneg;' neu, fel y gelwir y rhaglith hwn ar frig y dail,—'Athrawaeth i ddyscy darllen Saesneg.' Cymraeg ydyw, a llenwa 6 dalen. Yna y dechreu y Geiriadur ei hun. Cynnwys yr holl lyfr 83 o ddail, neu 166 o dudalenuau 4plyg bychan. Y mae yr oll yn y llythyren ddu, ac, fel llawer o lyfrau yr oes hòno, heb ei dudalenu...Llyfr pur denu ydyw. Rhenir y tudalen yn bedair colofn :...y golofn gyntaf sydd â'r gair *Kamberaec* (ac weithiau *Camraec*) uwch ei phen; uwch ben yr ail golofn saif *Saesonaec* (ac weithiau *Saesnec*); uwch ben y drydedd ceir *Welshe* (a phryd arall *Walshe*); ac uwch ben y bedwaredd saif *Englyshe*....Yn y gwaith ei hun, ni cheir, er enghraifft, ddim yn y golofn Seisoneg ar gyfer y gair 'dyn'; ac y mae llawer gair Cymraeg mewn gwahanol fanau yn y gwaith heb un gair cyfystyr ar ei gyfer yn y golofn Seisoneg... Ar y tudalen olaf o'r gwaith ceir—'Johan Waley y prenter yn danfon anerch ar pobol Kymry;' ac ar waelod hòno y ceir yr argraffeb ganlynol :—

'Imprynted at London in Foster lane by me
John Waley.
(1547).

Cum prini legio ad imprimendum solum.'

Y mae dau gyfargraff o Eirlyfr Salsbri yn y Gywreinfia Brydeinig, yn Llundain, un yn hollol gyflawn, a'r llall yn ddiffygiol o'r ddwy ddalen gyntaf a'r pedair olaf. Y mae cyfargraff perffaith hefyd o hono yn Llyfrgell Peniarth Meirion.

Hwyrach nad annifyr fyddai enghraifft...o'r Geiriadur boreuol hwn. A ganlyn yw ei eglurhad ar y gair *Wynwyn* :—'Wynwyn llyseun oddyryr gwragedd with eu llygait er Kymel wylo pan fo meirw eu gwyr.'¹

Llyfr Saesneg oedd yr ail a ysgrifenyddwyd ac a gyhoeddodd W. Salesbury; ac ymddengys i ddau argraffiad o hono gael eu cyhoeddi: y cyntaf, fel y tybir, yn y fl. 1550, dan yr enw canlynol, heb enw yr awdur wrtho :—

A Brief and plain Introduction, teaching how to pronounce the Letters in the Brytysh Tongue.²

Ychwanegodd yr awdur lawer at y gwaith wedi hyny, a chyhoeddodd ef dan yr enw canlynol :—

A playne and a familiar Introductiō, teaching how to pronounce the letters in the Brytische tongue, now commonly called Welshe, whereby an Englysh man shall not only wyth ease read the sayde tonge rightly: but marking the same wel, it shal be a meane for hym wyth one labour to attayne to the true pronounciation of other expedient and most excellent languages. Set forth by VV Salesbury, 1550. And now 1567, perused and augmētēd by the same.

¹ Llyfr y Cymry, t. 6. ² Yr un, t. 7.

This Treatise is most requisite for any man, yea, though he can indifferently well reade the tongue, who wyl be thorowly acquainted with anie piece of translation, wherein the sayd Salesbury hath dealed.

Imprinted at London by Henry Denham, for Humfrey Toy, dwelling at the sygne of the Helmet in Paules church yearde. The xvii. of May. 1567.

“Llyfryn 4plyg bychan, o 27 dalen, mewn llythrenau duon, ydyw,” medd Gol. y “Llyfryddiaeth.” “Cyflwynir ef—‘To my louing Friende Maister Humfrey Toy:’ a dyddir y cyflwyniad yn y wedd hon:—‘Soiurning at your house in Paules Churchyarde, the 6 of May. 1567.’ Y mae yr enw wedi ei argraffu yn fath o binygl, fel rhif 1, d.f. 1547.”¹

Llyfr Saesneg hefyd oedd y trydydd o waith W. Salesbury, a'i enw sydd fel hyn:—

The baterie
of the Popes Botereult, common-
lye called the high Altare. Com-
piled by W. S. in the yere
of oure Lorde
1550.

“Yna,” medd Gol. y *Llyfryddiaeth*, “y canlyn dyfyniad o 2 Cor. x. 4—6. Ni chynnwys dalen yr enw un amseriad, nac enw argraffydd, nac enw argraffle; ond ar y diwedd dywedir:—

‘Imprinted at London by Robert
Crowley, dwelling in Elye tentes in
Holburne. The yere of our Lorde. .MDL.’

“Cynnwys 54 o ddail (8plyg) heb rifnodi eu tudalenau. Cyflwynir y gwaith yn y wedd ganlynol:—‘To hys singuler good Lord, Syr Richarde Rych, Lord Rych, & Lord Chauncelloure of England: his mooste fayethfull and humble seruante Wyllyam Salesburye wyseth euerlastyng felisitie.’ Cynnwys y llythyr cyflwyn ddwy ddalen; yna y daw—‘William Salesburye to the Christen Reader,’ yn cynnwys dwy ddalen arall; ac yna y canlyn y ‘Baterie’ ei hun. Y mae argraffwaith y llyfr hwn yn llawer gwell nag argraffwaith y Geirlyfr. Y mae cyfargraff o hono ar gadw yn y Gywreinfia Brydeinig.”²

Llyfr Cymraeg ydyw y pedwerydd a noda G. Lleyrn fel gwaith W. Salesbury, sef hwn:—

¹ Llyfr. y Cymry, t. 23. ² Yr un, t. 7.

Arweiniad hawdd ac eglur i'r iaith Gymraeg. Gan W. Salesbury.

Ond y mae'r Gol. yn awgrymu mai yr un oedd hwn a'r ail a nodwyd eisoes ; gan y dywed, " Gwel d.f. 1567." Dichon mai math ar gyfieithiad ydoedd o hwnw ; canys dywed y casglydd diwyd,—“ Dichon y dylasai fod ychydig ym mlaen—ef allai bedair neu bum mlynedd.” Gan hyny, y mae yn eglur nad yw yr amseriad a ddododd efe iddo ddim amgen na dyfaliad.

Y pummed gwaith a gyhoeddodd yr awdur llafurus hwn, hyd y gallaf fi ddyfalu, oedd y llyfr Cymraeg canlynol :—

KYNNIVER
llith a ban o'r yscry-
thur ac a ddarllieir yr Ecclesie pryd
Commun y Sulieu a'r Gwylieu
trwy'r vlywyddyn ; o Cam-
bereiciat W. S.
Tit ii.

Llewychawdr iachwyawl rat Deo i pawp dyn can eu dyscu y ymwady ac annuoldeb a chwanteu bydol a byw yn sobr ac yn gyfawyn ac yn dduwiol yn y byd yn awr can ddisgwyl am y wynvydedic obotha a llewychat gogoniant y Deo mawr a'n Iachawdyr Ieshu Christ yr hwn ae dodes ehunan trosom er en pryny o ywrth oll enwiredd a charthy iddo ehunan pobl priawt y ymgar a gweithredodd da.

Rom i.

Nyd cywilyddus *geny* vi Euangel can ye gallu
Deo ydyw hi ar iecheit i pop vn yn credu ynthei.

Ar ei ddiwedd y mae a ganlyn :—

¶ Imprinted at
London by Roberte Crow-
ley for William Salès-
bury dwellynge in Elye tentes in
Houlbourne
Anno Domini
M.D.L. i.¹

Y chweched llyfr y bu gan William Salesbury law yn ei ysgrifeniad, yw yr un canlynol :—

Llyfr Gweddi Gyffredin. [unplyg.]

Finis Tra Vo.—Imprinted at London by Henry Denham at the costes and charges of Humfrey Toy, 1567, and are to be sold at his shop at the sygne of the Helmet in Paules Churchyard. Cum privilegio and imprimendum solum.²

Priodolir y llyfr hwn gan rai i W. Salesbury, a chan eraill i'r Dr. Richard Davies, Esgob Mynyw. Dywel Gol. y *Llyfr-yddiaeth* “nad oes ond ychydig o anghyssondeb rhwng y

¹ Llyfr. y Cymry, t. 8. ² Yr un, t. 21.

ddau fynegiad. Cydwaith Davies a Salesbury ydoedd y cyfeithiad." Dywed rhai mai Davies a Salesbury a ddygasant draul argraffu'r gwaith hwn rhyngddynt,¹ ond ar derfyn y gwaith ei hun, fel y gwelir, dywedir mai ar gost a thraul Humffrey Toy² yr argraffwyd ef. Cyfëir y gwaith hwn yn y *Llyfryddiaeth ar ol* cyfeithiad W. Salesbury o'r Testament Newydd; ond ymddengys bod tystiolaeth yr Esgob Davies yn ei "Epistol at y Cembra," sydd o flaen y Testament, yn profi i'r gwrthwyneb, lle y dywed wrth ei ddarllenydd:— "Etto o'r hen [Destament] may r psalmay cenyt eysus yn gymraeg yn llyfr y gwasanaeth."³

Ond o holl lafur llenyddol dirfawr yr enwog William Salesbury, cynnysgaeddwr cyntaf y Cymry â llyfrau gwerthfawr yn eu hiaith eu hunain, y *seithfed Llyfr* oedd yr annhraethol bwysicaf; sef—

Testament newydd ein Arglwydd Iesu Christ. Gwedi ei dynnu yd y gadei yr ancyfaiath 'air yn ei glyydd o'r Groec a'r Llatin, gan newidio ffurf llythyren gairiae-dodi. Eb law hynny y mae pob Gair a dybiwyt y vot yn andeallus, ai o ran lleidiath y 'wlat, ai o ancynefinder y deunydd, wedi ei noti ai eglurhau ar 'ledymyl y tu dalen gydrychiol.

Ar ddiwedd y llyfr ceir yr hyn a ganlyn:—

Imprinted at London, by Henry Denham, at the costes and charges of Humfrey Toy,⁴ dwelling in Paules churchyarde, at the signe of the Helmet.

Cum privilegio ad imprimendum solum.

Anno. 1567. Octob. 7.

Ymddengys wrth y difyniad blaenorol o ddalen enwol y Testament Newydd hwn, a gymmerwyd o *Llyfryddiaeth y Cymry*, nad oedd enw W. Salesbury arni yn yr argraffiad cyntaf,⁵ yr hwn nid yw wrth law; ond y mae'n hyspys ddigon mai efe oedd cyfeithwr y rhan fwyaf o lawer o hono; canys dywed y Dr. Richard Davies, yn ei "Epistol at y Cembra," yr hwn yw'r gwaith blaenaf yn y llyfr, fel hyn:—

Ti a ddylt fod yn llawen, ac yn fawr dy ddiolch i Dduw, i ras y Vrenhines, i vrddas (vrddas tragwyddawl a ro Duw yddynt am hyny) Canys trwy eu awdurtot,

¹ Llyfr. y Cymry, t. 21.

² Dywedir bod Humffrey Toy yn Gymro o du ei fam a'i nai.—Llyfr. y Cymry, t. 10, nod t

³ Test. Newydd, argr. 1850, Epist. at y Cembra, t. vii.

⁴ Yn nhy Humffrey Toy yr oedd W. Salesbury yn llettya tra y bu yn Llundain yn darllen profeni y Testament, fel yr oeddynt yn dyfod allan o'r Waeg.—Llyfr. y Cymry, t. 10.

⁵ Y mae "Cyfeithiad William Salesbury" ar ddalen enwol yr all argraffiad, a gyhoeddwyd yng Nghaeruarfon yn y fl. 1850; ond diau mai Robert Griffith, a'i dodes i mewn.

ae gorchymyn hwynt i may dy Escopion trwy gymhorthwy William Salisbury, yn dwyn yt yn gymraeg, ac yn brint yr yscrythyr 'lan (dy gynefin gynt) a gynhwisir o fewn corph y Bibl cysegredic. Dyma r naill ran yn barot, rhon a elwir y Testament newydd, tra vych yn aros (trwy Dduw ni bydd hir hynny) y rhan arall a elwir hen Testament.¹

Prawf hyn yn gadarn mai William Salisbury oedd y prif offeryn i ddwyn y gwaith mawr yma i ben; yr hwn, fel y dywed Gwallter Mechain, oedd "Gwaith penaf W. Salsbri, a'r gwaith a rydd beraidd sain i'w enw ym mhlith ei genedl hyd ddiwedd amser." Y mae yn y difyniad o eiddo yr Esgob Davies awgrym, fel y gwelir, fod gan yr "Escopion" ryw law yn nygiad y gwaith allan. Dichon eu bod yn cymhell Salisbury i'w gyflawni; ond nis canfyddir bod gan neb o honynt, oddi eithr yr Esgob Davies ei hun yn unig, ddim arall a fynnent âg ef; canys ar *gost* Humphrey Toy yr argraffwyd y gwaith. Y mae'n wir ddarfod i'r Senedd ddeddfu, yn y fl. 1563, "bod i'r ddau Destament, yr Hen a'r Newydd, a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, gael eu cyfieithu i'r Gymraeg dan olygiad pump o Esgobion, sef y pedwar Cymreig ac Esgob Henffordd. Penderfynwyd yn y Senedd i'r cyfieithiadau hyny fod yn barod i'r Eglwysydd erbyn Gwyl Ddewi [y 1af o Fawrth], 1566, dan boen deugain punt o ddirwy ar bob esgob yn niffyg cyflawniad: a dyffygiau a wnaethant heb allu amgen; canys nid gwaith bychan yn y dyddiau hyny, a roddesid iddynt. Ond pa un a wnaethant ai talu eu dirwyon ai peidiaw, ni wyddys, ac ni waeth. Pa fodd bynag, drwy annogiadau yr esgobion a'i ewyllysgarwch ei hun, anfonodd W. Salsbri ei gyfieithiad o'r Testament Newydd i'r wasg ym mhen un flwyddyn wedi yr amser a benodwyd gan y Senedd, ac ymddangosodd yn llyfr pedwarplyg hardd, yn cynnwys pedwar cant ond un o dudalenau; yng nghyd ag Epistol 'Richard can 'rat Dyw Episcop Menew, yn damuno adnewyddiat yr hen ffydd Catholic a' goleuni Euangel Christ i'r Cembra oll, yn enwedig i bop map eneid dyn o vewn ei Escopawt'—megys rhagarweiniad—a llythyr byr oddi wrth 'Eu car o waet yn ol y cnawt, au brawt

¹ Test. Newydd, arg. 1860, Epist. at y Cembra, t. vii.

ffydd-in Christ Iesu, *William Salesbury*.' Y mae rhagarweiniad helaeth, dan enw '*Argument*,' o flaen y Pedair Efengyl, Llyfr Actau yr Apostolion, pob un o'r Epistolau, a Llyfr 'Gweledigaeth Ioan,' yng nghyd â chynnwysiad cyfrdo i bob pennod. Ni renir y pennodau yn adnodau o ddechreu Matthew hyd ddiwedd yr Epistol iaf at Timotheus; ond dosbarthir i adnodau oddi yno i ddiwedd Gweledigaeth Ioan.

"Cynnorthwywyd W. Salsbri yn ei gyfeithad gan ddau Gymro dysgedig [fel y crybwyllwyd eisoes] a llafurwyr diwyd yng ngwinllan eu Harglwydd, sef Risiart, esgob Mynyw, a'r Parchedig T. Huet, Cantor Mynyw; a rhanriad y llafur rhyngddynt a ddynodir ar ymylau y dalenau yn y drefn ganlynol:—

"O ddechreu Mathew hyd ddiwedd ail Epistol at y Thesalonaiad—gan W. S.—sef Wiliam Salsbri. Yr Epistol iaf at Timothëus gan D. R. D. M., sef yr Esgob Risiart Davies, Mynyw. Yr ail at Timothëus, Titus, a Philemon, gan W. S. At yr Hebraeid, Epistol St. Iago, a dwy St. Pedr, gan yr esgob. Tri Epistol Ioan ac un Judas gan W. S.—a'r Dadguddiad, gan T. H. Cantor."¹

Er mai cyfeithiad Salesbury o'r Testament Newydd oedd y rhan ddigymmysg gyntaf erioed a argraffwyd o'r Bibl yn Gymraeg, eto y mae'r Esgob Davies yn barnu'n gadarn fod y Testament Newydd, a rhanau helaeth o'r Hen hefyd, os nad yr holl Fibl, yn iaith y Brytaniaid er sefydliad cyntaf Cristionogaeth yn eu plith. Casgl hyn oddi wrth berffeithrwydd ffydd y Merthyron Brytanaidd hynaf; oddi wrth dystiolaeth Eusebius, yr hwn a ddywed,—“Yr efengyl a bregethwyd mewn byr amser yn yr holl fyd; a'r Groegiaid a'r Barbariaid a dderbyniasant yr hyn a *ysgrifenuyd* am Iesu, yn *llythyren* ac yn *iaith* y wlad;” ac oddi wrth y gwirionedd fod cynnifer o hen ddiarhebion y Cymry “wedi eu tynu o berfedd yr Ysgrythyr Lân;” megis, “A Duw a digon;” “Heb Dduw heb ddim;” “A Gair Duw yn uchaf;” “Y Mab rhad;” “Cyn

¹ Gwaith G. Mechain, cyf. II. t. 201, &c.; Llewelyn's British Versions, pp. 4 7.

wired a'r efengyl;" a lluaws eraill cyffelyb, y rhai y dengys efe yn helaeth, yn ei "Epistol" o flaen y Testament dan sylw, o ba Ysgrythyrau y maent wedi eu tynu.¹

Pa wedd bynnag, od oedd y Bibl, neu ryw ranau o hono, gan yr hen Frytaniaid yn eu hiaith, fel y tybia'r Dr. R. Davies, rhaid mai mewn ysgrifen yr ydoedd; canys ni ddechreuwyd argraffu mewn unrhyw iaith hyd ym mhen rhai cannoedd o flynyddau ar ol dyfodiad yr Efengyl i'r wlad hon: o herwydd paham, yr oedd yn annichonadwy i'r Bibl fod ym meddiant ond ychydig iawn o'r trigolion, a'r rhai hyny y dysgedicaf o honynt. A phan ddaeth Pabyddiaeth i'w llawn dyfiant yn y wlad, ymrôdd yr offeiriaid a'r mynachod Pabaidd, y rhai a ddysgent y bobl mai "mammaeth duwioldeb yw anwybodaeth," i ysgubo'r wlad mor lân ag y medrent oddi wrth yr Ysgrythyrau, lle y dichon fod ychydig o honynt. Nid rhyfedd, gan hyny, i'r Esgob R. Davies fethu gweled cymmaint ag un Bibl Cymraeg yn nechreu ei oes; dim ond Pum Llyfr Moses yn nhŷ ewythr iddo pan ydoedd fachgenyn; a neb yn gwneud un sylw o'r rhai hyny;² canys yr oedd Pabyddiaeth yn ei llawn rym yng Nghymru pan oedd efe yn dechreu bucheddu. Yr oedd yn y wlad ryw ddernynach eraill o'r Bibl, "yn gymmysgedig â dychymmygion disyllfaen," megis talfyriad llygr-edig o ddechreu Genesis;³ talfyriad cymmysgedig Dafydd Ddu o Hiraddug;⁴ a'r cyffelyb, ond odid.

Erbyn yr amser yr oedd W. Salesbury a'r Esgob Davies yn dechreu cyfieithu y Testament Newydd, yr oedd ansawdd y genedl Gymreig wedi llwyr newid; ac yr oedd awydd am y Bibl wedi dyfod yn angerddol yn y wlad hon, cystal a holl wledydd Protestanaidd Ewrop. Yr oedd cyfieithiad Saesneg William Tyndal⁵ o'r Testament Newydd, y cyntaf erioed a argraffwyd yn Saesneg, wedi ei gyhoeddi yn Antwerp, neu yn Hamburgh, mor foreu a'r fl. 1526; ac yr oedd y *pummed*

¹ Epist. at y Cembrau, t. ix.—xii.

² Yr un, t. viii.

³ Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 189

⁴ Myv. Arch., t. 367—377.

⁵ Yr oedd W. Tyndal, cyfeithydd cyntaf y Bibl i'r Saesneg, yn frodor o Gymru.—Llewelyn's Br. . Verstons, p. 3.

argraffiad o hono allan erbyn y fl. 1534, ac wedi ei ledaenu yn helaeth yn Lloegr ac ym mysg dysgedigion Cymru hefyd. Heb law hyny, cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'r holl Fibl yn Saesneg, trwy awdurdod freninol, yn 1535, dan yr enw "Miles Coverdale;" a'r ail argraffiad yn 1550; a'r trydydd, yn 1553. "Yn 1560 cyhoeddwyd *Bibl Geneva*, o gyfieithiad y ffœdigion Seisnig pan oeddynt ar herw yn y ddinas hòno rhag llosgi o sel yn Lloegr, gyda Chranmer a Ridley."¹

Heb law yr argraffiadau Seisnig crybwylledig, y rhai oll, wrth reswm, oedd wrth law W. Salesbury a'r Esgob Davies, pan yn cyfieithu y Testament Newydd i'r Gymraeg, dywedir bod llythyr ysgrifenedig yn Llyfrgell Syr Thomas Mostyn, yng Ngloddaith, oddi wrth un Tomas Llywelyn o Regoes, at yr Esgob Davies, yn ei annog i gyfieithu yr Ysgrhythrau, ac yn rhoddi ychydig o hanes ei gyfieithiad ei hun o Destament Saesneg W. Tyndal, yr hwn a orphenwyd o gylch y fl. 1540. "Ni fynegir i ni i'r Esgob Davies a W. Salsbri fenthyciaw cyfieithad Tomas Llywelyn; ond y mae rhesymau cedyrn o blaid hyny. Os nad yw fy awdwr yn fy nghamarwain, y mae Cymreigiaeth Gwent a Morganwg yn drylawyn drwy ei holl gyfieithad, ym mherthynasau cystrawen, treigladau perwyddiadau, dull ymadrodd, a myrdd o briodoliaethau ereill—yn gymmaint nas geill un ond rhyfeddu pa fodd y dangosai y Testament Cymraeg cyntaf yn argraffedig, gynnifer o nodweddiadau Gwenhwysaidd, os na chafodd cyfieithiad yr hen Fardd o Ystrad Dyfodwg ei arferyd a'i ddilyn yn helaeth drwy gydawl y gwaith. Gwyneddwyr o enedigaeth oedd yr Esgob Davies a Wiliam Salsbri, ac nid oes wybodaeth iddynt erioed gyfaneddu yn Ngwent na Morganwg, nac yn un ardal arall lle y llefarir y Wenhwysseg. Ac y mae Testament argraffedig Wiliam Salsbri heddyw, ac erioed, gan mwyaf yn annealladwy i drigolion Gwynedd."²

Gan y gwyddys bod yr Esgob Davies a W. Salesbury yn wŷr mor ddysgedig a chyfarwydd yn yr ieithoedd gwreiddiol,

¹ Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 204.

² Difyniad o "Malkin's History of South Wales," yn Ngwaith G. Mechain, cyf. II., t. 191, &c.

tuedda G. Mechain i ammheu y casgliadau blaenorol, eiddo Malkin ; ond rhaid i'r ysgrifenydd gyfaddef yr ymddangosant iddo ef yn rhai pur naturiol ; ac nis gwel efe fod yn ddim sarhâd ar y cyfieithwyr dysgedig wneud defnydd o bob moddion yn eu cyrhaedd, yn Gymraeg, Saesneg, neu ryw ieithoedd eraill, cystal a'r ieithoedd gwreiddiol, er gwneud eu cyfieithiad y goreu ag y medrent. O leiaf, bydd ef yn defnyddio pob gwaith a fo wrth law er cyrhaedd ei amcan pan yn ysgrifenu ; canys ni wŷyr pa ddyben i awdur brynu llyfrau, os na chaiff eu defnyddio wrth gyfansoddi.

Pa ddelw bynnag, y mae Golygydd dysgedig "Llyfryddiaeth y Cymry" yn cymmeryd golwg arall ar y pwngc, fel hyn :—"Y rheswm pa ham y mae'r cyfieithiadau Cymreig o'r Ysgrhythrau yn dwyn arnynt gymmaint o nodwedd y Ddeheubartheg, er mai Gwyneddigion gan mwyaf oll oedd y cyfieithwyr, yw, o herwydd mai ynddi hi braidd yn hollol yr ysgrifenedid yr holl *ryddiaith* hyd yr amser dan sylw. Nid oes ond y nesaf peth i ddim o gyfansoddiadau rhyddieithol i'w cael yn nhafodiaith Gwynedd o flaen Testament Gwilym Salsbri ; a hyn, tebygol, yw yr achos fod ieithwedd y cyfieithiad hwnw mor hynod o drwstan ac annheleidiw."¹

Y dystiolaeth hon sydd wir : yn nhafodiaith "drwstan ac annheleidiw" y Deheubarth yr oedd ein holl ryddiaith braidd hyd yn hyn, fel y prawf "Cyfreithiau Hywel Dda," yr ychydig Gymraeg sydd yn "Llyfr Llandaf," y "Mabinogion," "Bucheddau y Saint," "Achau y Saint," "Meddygon Myddfai," y "Trioedd," ac, ond odid, ychydig bethau eraill. Yr achos penaf, fe allai, fod llafarwedd y cyfansoddiadau a nodwyd mor "hynod o drwstan ac annheleidiw" i'n clustiau ni yn awr, ydyw eu hamddifadrwydd o dreigliad rheolaidd y llythyrenau ; heb law bod llawer mwy o eiriau estronol yn llafarwedd y Deheubarth nag yn un Gwynedd, o herwydd i'r trigolion ymgymmysgu cymmaint â'r Ffleminiaid a'r Normaniaid. Y mae cyfieithiad clogyrnog Wm. Salesbury yn profi ei fod yn dylun y

¹ Llyfr. y Cymry, t. 13, nod *

brodyr Deheuol yn y ddau beth a nodwyd bron i'r eithafoedd, fel mai pur briodol yw duchan lem Gwallter Mechain ar y gwaith, yr hwn a ddywed :—" Pe rhoddid enw un o'r pedwar mesur ar hugain cerdd dafod ar waith Wiliam Salsbri, yn llythyrenu geiriau Cymraeg—*Clogyrnach* a fyddai yr enw cymhwysaf ; o herwydd nad yw efe ond ambell waith yn lleddfu geiriau, trwy newid y llythyrenau gwreiddiol i'w deilliaid perthynol." Dodir ychydig o esamplau ger bron yma, o filoedd sydd yn y gwaith :—

Y pyscotyn cyntaf a ddel i vynydd...ac wedy yt' agory ei enau, ti a gei ddam o vgain ceinioc : Mat. xvii. 27.

Any welaf yn ei ddwylo ol y cethri, a' dodi vy-bys yn ol y cethri : Ioan xx. 25.

I tempto Yspryt yr Arglwydd : Act. v. 9.

Ac i gydgympwyll a chwi : Act. xxviii. 20.

Ac yn ddywethaf *oll'* e welspwyt geny *vine* hefyt *vegis gas* un antempic : 1 Cor. xv. 8.

Y mae'n dylyn yr un anystwythder blin yn ei Gymreigiad (pe Cymreigiad hefyd) o eiriau Groeg a Lladin ;² megis fel hyn, er esampl, o'r Groeg :—

Angelion, euangel, hypocritieit, batyddio.—[am].

Anglyion, efengyl, rhagrithwyr, bedyddio.—[Ac fel hyn o'r Lladin :—]

Pechat, discipulon, prophwyti, cariat.—[am]

Pechod, dysgyblion, neu, disgyblion, prophwydi, cariad.

Nid rhyfedd i'r hen Forus Cyffin ddywedyd am y cyfeithiad hwn fel y canlyn :—

E ddarfuessid cyfeuthu'r Testament newydd ynghylch yr wythfed neu'r nowfed fwyddyn o Deyrnas eyn harglwyddes frenhines *Elizabeth*, ond yr oedd cyfed

¹ Gwalth G. Mechain, *cyf. ii.*, t. 207.

² Dywed y feiriadaeth am yr hyn a ysgrifenis ar gyfeithiad W. Salesbury o'r Testament Newydd fel hyn :—

Tudal. 650.—Y mae ei syniadau ynghylch William Salesbury yn dra niwlog ; ystyria ef fel wedi ysgrifenu Cymraeg clogyrnaidd, ond ni ddengys pa mor bell y mae y diffyg y cyfeirir atto yn bwngc o sillebiaeth yn unig o herwydd ni arferai Salesbury ysgrifenu yn seinyddol (phonetically). Fel rheol esgeulusai gyfnwid-iadau geiriau (mutations) ; ysgrifeniwyd y rhan fwyaf o honynt yn eu ffurf wreiddiol. Ymddengys fod Llywelyn Fychan fel yn tybied y gallai iaith Salesbury fod yn fwy derbyniol yn Neheudir Cymru nag yn y Gogledd, fel pe na byddai Cymry y Dehau ar ol meithrin arddull rhyddieithiol am lawer o oesau yn flaenorol yn fwy clust deneu gyda golwg ar y pwngc o iaith na brodorion Gogledd Cymru."

Fe wél y darlennydd fod yr hyn a ysgrifenis yn y tudalennau hyn (636—650) ar gyfeithiad W. Salesbury, yn gwbl gyttunol â syniadau difyniedig y Cymreigwyr galluog hyn :—Gwallter Mechain, Golygydd Llyfryddiaeth y Cymry, a Morus Cyffin. Gan hyny, ni welaf fi pa fodd, ac ni ddengys y feiriadaeth chwaith yn eglur, pa fodd i newid dim ar yr hyn a ysgrifenis ar y pwngc, nac i ychwanegu dim ato, na thynu dim oddi wrtho.

llediaith a chymaint anghyfaith yn yr ymadrodd brintiedig, na alle clust gwir Gymro ddioddef clywed mo'naw'n iawn.¹

Dywedir i'r Esgob Davies a Salesbury ddechreu cyfieithu yr Hen Destament ar ol gorphen y Newydd ; ac wedi bod wrth y gwaith dros ddwy flynedd, ddarfod iddynt ymrafaelio yng nghylch tadogaeth rhyw un gair ; ac o herwydd hyny i'r ddau daflu'r gwaith i fynu ; ac nad oes sicrwydd iddynt ysgrifenu dim mwyach.

Nid yw hyspys pa bryd y dechreuodd W. Salesbury ei *wythfed* llyfr, a elwir "Egluryn Phraethineb," yr hwn a adawodd yn anorphenol ; ond a gyhoeddwyd, gydag ychwanegiad, fel y ceir gweled eto, gan Henri Perri, ym mhen tua dwy flynedd ar ol marwolaeth Salesbury.

Dywedir i'r ysgrifenydd llafurus adael llyfr arall hefyd ar ei ol yn barod i'r wasg, sef cyfieithiad a elwir fel hyn :—

Yr Athrawiaeth am Weddi. Gan John Prideaux, Esgob Caerwrangon.

Nid oes amseriad wrth y llyfr hwn ; ond Gwilym Lley'n a'i dyry yn y fl. 1607 ; ac ar ei ol dywedir,—“ William Salbri, Ex. a barai y llyfr hwn ym rint ;” oddi wrth yr hyn y tybir iddo ei adael yn barod i'r wasg.”²

GRUFFYDD ROBERTS oedd *ŵr* dysgedig, llafurus, a gwladgarol ; ac yr oedd yn gydoeswr â William Salesbury ; a thybir ei fod yn frodor o'r un ardal. Yr oedd crefydd y ddau yn bur wahanol ; canys Protestaniaid eiddgar a llafurus oedd Salesbury, fel y gwelwyd ; ond Pabydd yr un mor eiddgar, os nad llafurus hefyd, oedd G. Roberts. Yr oedd ieithwedd y ddau hefyd yn wahanol iawn. Ieithwedd glogyrnog, ddieithr, ac anymarferol oedd yr eiddo Salesbury ; tra yr oedd ieithwedd Roberts yn ystwyth, cynnefin, ac ymarferol.

Ychydig iawn a wyddys o hanes Gruffydd Roberts ; ond ymddengys yn bur eglur mai Gwyneddwr ydoedd, fel yr awgrymwyd eisoes ; canys llafarwedd Gwynedd a ddefnyddia. Hefyd, y mae efe yn ei Ragdraith i'r "Drych Christianogawl" yn dywedyd, yn enw yr Iaith Gymraeg, fel y canlyn :—

¹ Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr, argr. 1671, At y Darlleydd, t. 5. ² Llyfr. y Cymry, t. 41.

Fe fydd weithiau yn dostur fy nghalon [medd yr Iaith] wrth weled llawer a anwyd i'm dywedyd yn ddiystyr genthynt am danaf, tan geisio ymwrthod a mi, ac ymgystlwg ag estroniaith cyn adnabod dim o honi. Canys chwi a gewch rai yn gytrym ag y gwelant afon Hafren, ne glochdai Ymwythig, a chlowed Sais yn doedyd yn ei iaith *good morrow*, a ddechreuant ollwng i Cymraeg tros gof, a'i doedyd yn *fawr* i llediaeth : i Cymraeg fydd Seisnigaidd, a'u Saisneg (duw a wyr) yn rhy Gymreigaidd.

Gan ei fod yn son am fyned i olwg yr Amwythig ar y ffordd i Loegr, gellir casglu yn naturiol mai o'r Gogledd y golygai fod y cychwyn. Gyda golwg ar ei amser yn fanwl, y mae'n dywyll ; gan hyny, nid oes ond dyfalu yn ei gylch. Gellir casglu oddi gyfeiriad Rhosier Smyth ato, yn ei Ragdraith i'w "Gatechism,"¹ ei fod yn fyw ac iach yn y fl. 1611 ; a gwyddys ei fod yn ei flodau yn y fl. 1567. Gan hyny, tybir na byddid ym mhell oddi wrth y nod, pe dodid ei enedigaeth o gylch y fl. 1540, a'i farwolaeth tua'r fl. 1620. Cafodd ei addysg athrofaol ym Mhrifysgol Sienna, yn yr Ital, dan nawdd William Herbert, Iarll Penfro ; a thybir mai yno y graddiwyd ef yn M.D. (Doethor Meddyginiaeth). Golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* a ddywed fel hyn am dano :—

Gan nad oes ar gael ond ychydig iawn o hanes y Dr. Gruffydd Roberts, hwyrach nad amhriodol cyflêu yma y crybwylliad canlynol am dano, allan o'r *Herleian Miscellany*, cyf. vii., t. 132, col. 2 :—"Oddi yno [sef o Lyons] aethom i Milan, lle, ym mhalas y Cardinal Borromeo y cawsom yn llettya Gymro â'i enw Dr. Robert Griffin [gwall am Gruffydd Roberts], gwr mawr ei gymmeradwyaeth yno, a chyffeswr i'r dywededig Gardinal ; gan yr hwn y croesawyd ni yn dra chyweithas, ac yr anfonwyd ni i dŷ offeiriad Seisonig yn y ddinas, o'r enw Meistr Harries, yr hwn hefyd a roddes i ni dderbyniad o'r mwyaf hynaws ; a'r un modd tri boneddig o Loegr, y rhai a arosent yn ei dy, ac oeddynt newydd ddychwelyd o Rufain ; hwy hefyd, o ran traul a syberwyd, a ymddygasant fel boneddigion tuag atom, yn ystod yr amser yr arosem yn Milan."²

Yr unig lyfr a gyhoeddwyd gan y Dr. Gruffydd Roberts ei hun, hyd y gwyddys, oedd yr un canlynol, tu dalen enw yr hwn sydd fel hyn :—

Dosparth Byrr Ar y rhann gyntaf i ramadeg, lle³ cair llawer o byngciau anhepcor i vn a chwen-nychai na doedyd y gymraeg yn ddilediaith, nai scrifennu'n iawn.

A orchfygo yma a goronir fry
1567. Primo Martü.

¹ Llyfr. y Cymry, t. 86. ² Yr un, t. 22, nod *

³ Yn lle *dd*, *ll*, *sc w*, dodir nodyn dan y llythyronau canlynol fel hyn :— *d* ! *u* ; a rhoddir math o hirnod ar *n* pan y saif yn lle *nn*.

Ar yr ail tudalen o ddalen yr enw, ceir y cynnwysiad canlynol i'r rhan gyntaf o'r llyfr:—

Beth yw gramadeg, a phessawl rhann ar-benig sydd iddi.	Cap. 1.	dol. 8.
Iawnscrif a phessawl pwnc oi 'striaui yn i chylch, a phum peth perthynassol i lythyren oi draethu	Cap. 2.	dol. 13.
Llun, henwau a nifer y llythyrennau.	Cap. 3.	dol. 16.
Gwahaniad rhwng y llythyrennau.... ..	Cap. 4.	dol. 22.
Dosparth ar y diphdongiaid a'r cyseiniaid.	Cap. 5.	dol. 24.
Sillafiaeth, s. y phordd sydd i wneuthur sillafau o gysswllt y llythyrennau.	Cap. 6.	dol. 52.
Wyth swydd gwahaniaeth y 'madrodd	Cap. 7.	dol. 65.
Phugrau iawnscrifenyddiaeth, a descrifiad pob vn o honynt.	Cap. 8.	dol. 69.
Cyssillafiaeth, s. modd i wneuthur gefriau o'r sillafau	Cap. 9.	dol. 72.
Dosparth ar yr ail rann i ramadeg a elwir Cyfiachyddiaeth.		
Y Rhan Divaethaf i ramadeg a elwir Tonyddiaeth.		
Dosparth ar fessurau cerdd dafod yn dangos beth yw messur a phessawl rhywogaeth sydd o honynt.		

1. Symlen yr Abostolion mewn deuddeng englyn.
2. Y Gredo mewn messur arall.
3. Gweddi'r arglwydd, ne'r weddi arglwyddiaul mewn saith englyn.
4. Cyfarchiad yr angel, a elwir yr afi Maria, tri englyn.
5. Yr un mewn messur Cyhydedd nawban.
6. Y deg gorchymyn, a alwai'r hen gymru y dengair mewn deng englyn.
7. Saith rinwedd yr eglwys, a elwir sagrafennau.
8. Amryw englynion.
9. Llyfr Marcws Twlliws Sisero, a elwir Caton hynaf, ne o henaint, at Titus Pomponius Atticus.

Nifer tudalenau un copi sydd yn yr Amgueddfa Frytanaidd sydd fel hyn:—Y rhan gyntaf, 92; yr ail ran, 112; y drydedd ran 72; y bedwaredd ran, 8; yr anerchiadau a'r rhagdrwaith, 16; oll yn 300 o dudalenau 8plyg bychan.

Yr oedd barn Morus Cyffin am y gwaith hwn yn dra gwahanol i'w farn am gyfieithiad Salesbury o'r Testament Newydd, a ddifynwyd eisoes. Am y Gramadeg yma dywed fel y canlyn:—

Mi a welais ddosparth byr ar y rhan gyntaf i Ramadeg cymraeg (*Gramadec Doct. Gr. Robert*) a brintiesid er ys-talm, yr hwn sydd ddarn o waith dyscedig ynghelfyddyd gramadec, mor buraid, mor lathraidd, ag mor odidawg ei ymadroddiad, na ellir damuno dim perffeithiach yn hyny o beth. Ni wn i weled etto, na chlywed sôn am ddim amgenach yn Gymraeg a nêmwawr o addysc yntho.¹

Dywed Golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* yr "ail argraffwyd y Gramadeg hwn gan W. Spurrel, Caerfyrddin, yn 1857, 16plyg; ond nid yn hollol gyflawn, canys y mae ychydig o'r cyfieithion ar y diwedd yn eisiau yn yr argraffiad newydd." Cyhoeddwyd yr un rhanau o'r gwaith yn *Yr Haul*, yr un flwyddyn, fel y

¹ Deffyniad y Ffydd, At y Darlwydd, t. 6.

tybiaf; canys y mae genyf y darnau o'r *Haul* sy'n cynnwys y ddalen enwol; anerchion yr Iaith Gymraeg i'r Iarll Penfro; "yr hygar ddarllewydd;" a'r naw "Cap." (pennod) blaenaf o'r Gramadeg.

Nid ydys yn gwybod i'r Dr. Gr. Roberts gyhoeddi un llyfr arall ei hun; ond y mae sicrwydd i un arall, o leiaf, o'i waith, gael ei gyhoeddi gan gyfaill Pabaidd ffyddlawn a Chymreigaidd iddo, a'i enw

RHOSIER SMYTH; a chyssylltiad y gŵr enwog hwn â'r Dr. G. R., ydyw un rheswm dros ei ddwyn dan sylw yn bresennol.

Y mae hanes y Cymro llafurus a gwladgarol yma eto yn hynod o brin; ond dywed ei hun mai brodor "o dref Llan Elwy" ydoedd; a'i fod yn "Athraw Theologyddiaeth;" ac y mae "S.T.H.D." ar ol ei enw yn un o'i lyfrau. Tybir mai yn Paris y cafodd ei raddio; a'i fod yn Athraw mewn cyssylltiad â'r Brifysgol yno. I ysgolion y Cyfandir yr arferai Pabyddion cyfoethog Cymru a Lloegr anfon eu plant y pryd hyn i gael eu dysgeidiaeth. Ymddengys bod y Dr. Smyth ryw faint ieuengach na'i gyfaill y Dr. Gr. Roberts. Y mae sicrwydd ei fod yn ei flodau o'r fl. 1609 i 1615. Tybir iddo fucheddu o gylch y fl. 1548 hyd 1618, os nad ychydig yn hwy. Ond â'i lenyddiaeth ef â'i gyfaill y mae a fynnir yma, yn fwy nag â'r awduron eu hunain.

Yr ail lyfr o waith y Dr. Gr. Roberts, hyd y gwyddys, yr hwn a gyhoeddwyd dan olygiad y Dr. Smyth, oedd yr un canlynol:—

Y DRYCH CHRISTIANOGAWL, yn yr hwn y dichon pob Christian ganfod gwreiddin a dechreuad pob daioni sprydawl, sef gwybod modh i wasanaethu Duw, drwy ei garu a'i ofni yn fwy na dim, ag i dalu ymaith beth bynnag ar a fo rwystr i hynny.

Y RHAN gyntaf yn peri gwasanaethu Duw drwy ei garu. 8v. *Rhotomagi apud haeredes Jathroi Faronis.* 1585.¹

Mewn llythyren ddu y mae wedi ei argraffu bron oll; a hynny, fel y gwelir, yn Rouen, yn Ffraingc; ac felly yr oedd yn un o'r llyfrau Pabyddol a argraffwyd ar y Cyfandir gyda'r

¹ British Museum. C. 25, b. Argraffiad claf, T. III.; I lyfr. y Cymry, t. 29.

bwriad o'u lledaenu ym mhlith trigolion Cymru. Cynnwys y llyfr oll, rhwng dalen yr enw, y rhagdreithau, a'r cynnwysiad, 100 o ddalenau, neu 200 o dudalenau. Y rhagdraith cyntaf yw yr eiddo Gr. Roberts, yr hwn a ddengys yn amlwg mai efe oedd awdur y llyfr, a ddechreu fel hyn :—

YR AWDVR NEVR GWR A WNAETH Y LLYFR YMA AT EI garedigion Gymry yn erchi phyniant a lhwychiant idhynt....

O Fulan
Yr eidoch
G. R.

Gwaith y Dr. Rhosier Smyth yw yr ail Ragdraith, yr hwn a derfyna fel hyn :—

O DREF ROAN
eych gwladwr
caredig
R. S.¹

Ymddengys mai'r llyfr cyntaf o'i waith ei hun, neu'n hytrach, o'i gyfieithiad ef, a gyhoeddwyd gan y Dr. Smyth, yw y canlynol :—

Crynhodeb o addysg Cristionogawl, a Dosparth Catholic ar ddeuddeg pwnc y Phydd a elwir y Gredo, hefyd ar weddi yr Arglwydd, sef y Pader ar Gyfarchiad yr Angel, a elwir Ave Maria, yn ddiweddaf ar y Deg gair Deddf a elwir y Deg gorchymyn. Gwedi ei gyfieithu o'r Lladin i'r Gymraeg, drwy ddyfal astudiaeth a llafur D.² Rosier Smith o dref Llan Elwy, Athraw o Theologyddiaeth, megis ymddiddan ne ddialogiaith rhwng y discibil a'r athraw.

Y mae yr enwad maith yna yn dynodi ansawdd ac amcan y llyfr yn ddigon eglur ; a gwelir bod y cyfieithydd yn ysgrif-enwr Cymraeg pur wych, fel y Dr. Gr. Roberts, ac ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi. Tybir mai yr un llyfr a'r "Crynhodeb" uchod ydyw y gwaith canlynol, wedi helaethu rhywfaint arno :—

Catechism Petrus Canisius, yr hwn a gyfieithiwyd yn Gymraeg gann D. Rossier Smyth, S.TH.D., o Dref Lanelweu, 1611, ac a brintiwyd yn ninas Paris.³

Arwydda yr ymadrodd canlynol, o waith Smyth, mai'r Dr. Gr. Roberts oedd ei arweinydd yn yr Iaith Gymraeg ; a bod

1 Y Traethodydd, 1876, t. 435.

² Gol. y "Llyfryddiaeth" a ddywed am y D. yma fel hyn :—"Talfyriad ydyw o *Dominus*, y gair Lladin am *feistr* neu *arglwydd*; a cheir et yn fynych o *faen* enwau awduron ac ereill nad oeddynt Ddoethoriaid. Mewn oes ddiweddarach, arferid *Mr.* yn bur gyffredin o *faen* enwau awdwyr. Yn rhif 4, d.f. 1607 [Llyfr. y Cymry, t. 83], canfyddir fod D. yn cael ei arfer o *faen* enw benyw (yr Arglwyddes Arabella Stuart), lle y mae yn dynodi *Domina*=arglwyddes, *meistres*, *boneddiges*."—Llyfr. y Cymry, t. 84, nod *

³ Llyfr. y Cymry, t. 86.

ganddo y meddwl uchaf am dano, a'r parch mwyaf iddo, fel ieithwr cystal ag fel duwinydd :—

Gwelais yn da ganlyn yr hybarçus orthographiad a'r arderchawg athraw D. Grufyd Robert Canon Theologaid o Fam-Eglwys Dinas Milen gwr a haedai glod a mawl tragwydawl nid yn unig o herwyd ei aml rinwedau eithyr hefyd er mwyn y-e dysg a ye wybodaeth ac yn bendifadeu yn yr Iaith Gymraeg.¹

Dywedir mai yr un llyfr yw y "Catechism" uchod, a'r hwn a elwir fel y canlyn :—


OPUS CATECHISTICUM D. PETRI CANISU THEOLOGI EX SOCIETATE JESV. *Sef yw*: *Swm* ne grynodedb o ddysc Gristionogawl, a dosparth Catholic, ar holl bwnciau'r Phydd.¹

Dywed ysgrifenydd yn *Y Traethodydd* fod llythyren y llyfr yna ychydig yn fwy na llythyren Gramadeg y Dr. Gr. Roberts, ac nid yr un llythyren, fel y mynegodd Gwilym Lleyn.² Ymddengys i'r llyfr hwn gael ei argraffu ddwywaith ar ol hyn: un argraffiad yn y fl. 1657,³ a'r llall yn y fl. 1683.⁴

Llyfr arall o gyfieithiad Rosier Smyth yw yr un canlynol :—

Theater Du Mond sef iw Gorsedd y Byd, lle i gellir gweled trueni a Llaseni Dyn o ran y Corph a'i Odidawgrwydd o ran yr Enaid; a Scrifenwyd gynt yn y Ffrangaeg, ag a gyfieithwyd i'r Gymraeg drwy lafyr Rosier Smyth o Dref Lan Elwy, Athraw o Theologyddiaeth, Psal. 48. Homo cum in honore esset, non intellexit, comparatus est iumentis insipientibus & similis factus est iis. Dyn pan oedd mewn anrhydedd heb ddeall a gyffelybwyd i'r anifeiliaid di wybodus, ag ai gwnaeth i hun yn debyg iddynt hwy.

Dymchwel yma.



Nid oes or Byd.

A Brintiwyd yn Ninas Paris 1615.

¹ Llyfr. y Cymru, t. 80. ² Traethodydd, 1876, t. 435. ³ Llyfr. y Cymru, t. 172. ⁴ Yr un, t. 229.

Nid oedd y copi a welodd Gwilym Lleyn yn gwbl gyflawn ; ond tybiai y cynnwysai tua 300 o dudalenau 24 plyg bychan. Y mae'r llyfr wedi ei ddostranu fel y canlyn :—

Y Darlleuvr Havvddgar.
Gorsedd y Byd *llifer* i.
Yr Ail Llyfr.
Y Trydydd Llyfr.
Traethiad o odidawgrwydd dyn.

Dodir brawddeg neu ddwy yma fel enghraifft o'i Gymreig-
iad :—

Y phelyasom yn y llyfr cynta ddyddyn 'r anifeiliaid, dangosasom pa ddiffyg y sydd yntho ef, pa fodd y dylae dderchafu i hun yvychlavv ynthvvy, o hervvydd i urddas ai ragoriaeth gan ystyrio i fod yn vaelach ag yn ddistyrach nag ynthvvy mevvyn llavver o bethau. Am hyny gan i ni o 'rblaen rodidi ar lavvr yn drvsvcvvl ryvv bethau o drueni dyn, y navvr yr ydym yn myned rhagom i ddatcanu yn fanylach tostyrys tragetiaetca trveni dyn, gan ddechreu oi anedigaeth ai ddyfodiad i'r byd, a chvvedi gosod allan yn hollavvl holl amserau i favvyd hyd oni ddygom ef ivv fedd, yr hvvn sydd derfyn a diwedd pob peth.

Gwelir bod yr hen Smyth yn Gymreigiwr lled dda, ac ystyried yr amser, a'i fod yntau yn treulio ei oes bron i gyd mewn gwledydd estronol. Gan mai yn Paris yr argreffid y llyfr, ac nad oes *w* yn y Ffrangcaeg, gorfodid ef i ddefnyddio dwy *v* yn ei lle. Pan gyfieithai Smyth o lyfrau prydyddol y Bibl, megis *Job*, *Salmau*, *Diarhebion*, a'r cyffelyb, dodai yntau ei gyfieithiad mewn mydr. Wele ychydig esamplau o *Job* x. 9—12. Dodir y Cyfieithiad cyffredin yn uchaf, a'r eiddo Smyth oddi tano :—

9. Cofia, attolwg, mai fel clai y gwnaethost fi ; ac a ddygi di fi i'r pridd dracheffn ?

*Cofia arglvvydd fal im gwnaethost yn vvanddyn
Fal y llestruvr y lestror' pryddyn
Yr hvvm all i ddinistriio ai droi yn lludvo
A chofia fal i'm phyrfaist o 'run ddelw.*

10. Oni thywelltaist fi fel llaeth ; ac oni cheulaist fi fel caws ?

*A chavns a geseilir o laeth ag o hufen
A chvvedi iti y hefyd faelodau gydorphen.*

11. Ti a'm gwisgaist i & chroen, ac & chnawd ; ti a'm diffynnaist i & g esgyrn ac a gïau.

*Cofia fal i'm gwisgaist a chig ag a chroen
Ag esgyrn a gïau cydgydiaist fi i boen.*

12. Bywyd a thrugaredd a ddarperaist i mi, a'th ymgeledd a gadwodd fy yspryd.

*Ac a roddaist i'm hefyd drigaredd a byvvyd
A'th anvvelediagaeth a geiduv fy yspryd.¹*

¹ Llyfr. y Cymry, t. 88—90.

Yng nglŷn â'r llyfr yna y ceir y crybwylliad olaf am y Cymro llafurus ac anturiaethus hwn. Y mae Gwilym Lleyrn yn cyfeirio yn ei ddangoseg at y fl. 1618 dan enw Smyth ; ond nid oes yno son am dano o gwbl. Yr unig lyfr a gofnodir dan y flwyddyn honno yw yr un a elwir "Eglurhad Helaethlawn o'r Athrawiaeth Gristionogawl." Nid yw y cyfieithiad na chynnwys y llyfr annhebyg i "Gatechism Petrus Conisius" a fu dan sylw eisoes ; ac fe ddichon fod gan Smyth ryw law yn ei gyfieithiad neu ei gyhoeddiad ; ond "drwy ddiwydrwydd a dyfal gymmorth y penbefig¹ canmoladwy V. R." y "Cymreigydd ef o'r Italaeg." Y mae'r gair "cymmorth" yn awgrymu nad y "penbefig" ei hun a'i Cymreigiodd. Y mae'r iaith yn bur debyg i iaith Smyth a Roberts ; a dichon mai un o honynt a'i cyfieithodd ; ac mai'r "Penbefig canmoladwy V. R." a ddygodd y draul o'i gyhoeddi.

Cyn gadael hanes llenyddiaeth Gymreig y ddau lenor Pabyddol dysgedig hyn, y Dr. Gr. Roberts a'r Dr. R. Smyth, dylid crybwyll yr ymddengys eu bod yn teimlo yn angerddol dros iaith a llenyddiaeth gwlad eu genedigaeth. Heb law hyny, yr oedd eu syniadau crefyddol yn hynaws, cymmedrol, a duwiolfrydig. Yn hyn, yr oedd eu gwaith yn dra annhebyg i rai llyfrau Pabyddol a gyhoeddwyd yn Gymraeg ar eu hol.

Ond rhaid troi yn ol weithian at y prif lyfrau a ddylynasant "Ddosparth Byrr" y Dr. Gr. Roberts. Pan y byddo llyfrau mewn iaith estronol yn ymdrin â llenyddiaeth Gymreig, neu rywbeth perthynol i'r gyfryw lenyddiaeth ; neu rai wedi cymeryd eu defnyddiau o'r Iaith Gymraeg, tybir y gellir eu hystyried yn perthyn i lenyddiaeth Gymreig. Ymddengys bod rhai o gyfansoddiadau dysgedig

HUMPHREY LLWYD o'r dosparth yma. Mab ac etifedd Robert Llwyd, Ysw., o dref Ddinbych, oedd yr ysgolhaig a'r hynafieithydd enwog. Ganwyd Humffrey yn y fl. 1527. Cafodd ei addysg athrofaol yng Ngholeg Brazenoze, yn Rhydychain, lle y myfyriai feddyginiaeth ; ac yn y fl. 1551, gradd-

¹ Camargraff, yn ddiâu, o'r gair, *pendefig*.

iwyd ef yn M.A. Yn fuan wedi hyny cymmerwyd ef yn feddyg i deulu yr Arglwydd Arundel, oedd ar y pryd yn Ganghellydd y Brifysgol; a gwasanaethodd y swydd yn y teulu hwnw am 15 mlynedd. O gylch y fl. 1551, aeth yn gydnabyddus â'r Arglwydd Lumley, chwaer yr hwn a briododd efe wedi hyny. Casglodd luaws o lyfrau prinion a gwerthfawr i'w arglwyddiaeth, y rhai sydd yn awr yn yr Amgueddfa Frytanaidd. Yn y fl. 1563, dychwelodd i'w dref enedigol, Dinbych, lle y dilynai alwedigaeth meddyg, gan dreulio ei amser hamddenol i ychwanegu ei wybodaeth lenyddol a cherddorol. Mor gymmeradwy ydoedd yng ngolwg pob gradd o drigolion Dinbych, fel yr etholwyd ef yn aelod Seneddol dros y fwrdeisdref. O gylch y pryd hyn, aeth yn gydnabyddus, trwy gyfrwng Syr Richard Clwch (*Clough*), â'r daearyddwr enwog Ortelius, i'r hwn y rhoddes efe ddarluniau o Gymru a Lloegr i'w cyhoeddi yn *Ancient Geography* (Hen Ddaearyddiaeth) y gŵr enwog hwnw; ac anrhegodd ef hefyd â llawysgrif o'i waith Lladin ar Hynafiaethau Brytanaidd. Bu farw y llenor galluog a llafurus hwn yn y fl. 1568, yn 41 oed; a chladdwyd ef yn yr Eglwys Wen, ger llaw Dinbych, lle y mae cofadail arw ar ei fedd. Y mae darlun cyntefig o hono yn Ashton, yn agos i Groesoswallt, palas un o ddisgynyddion Llwydiaid, Fox-hall, Dinbych, o'r rhai yr hanodd Humffrey Llwyd; ac y mae copi prydferth o'r darlun hwnw, mewn durgerfiad, yn *Yorke's Royal Tribes of Wales*, gyferbyn a'r tudalen 118.¹ Dywedir mai'r gwaith cyntaf a ysgrifennodd oedd yr un canlynol:—

An Almanack and Calendar, containing the day, hour, and minute of the change of the moon for ever, and the sign that she is in for these three years, with the names and signs of the planets.

Ac eglura amryw fanylion eraill, ebai J. H. Parry, yn ei Ragymadrodd. Er y dywedir, medd yr un ysgrifenydd, mai hwn oedd ei gyfansoddiad cyntaf; eto, y mae yr amser yn

¹ *Yorke's Royal Tribes*, p. 117; *Pennant's Tours*, vol. II., p. 155; *Parry's Cambr. Plutarch*, p. 299; *Williams's Em. Welshm.* p. 291; *Gelr. Bywgr. I. F.*, t. 601.

anhyspys. Ysgrifennodd amryw fân draethodau eraill, yn Saesneg, yn ol yr un awdurdod, ar feddyginiaeth, a'r cyffelyb; ond y rhai cyntaf o'i waith a ddygent berthynas uniongyrchol â Chymry a Chymraeg, oedd y rhai Lladin canlynol, heb ei enw wrthynt:—

De Monâ Druidum Insulâ antiquitate suæ restitutâ Armamentario Romano. [Antverpiæ, 1570.]¹

Commentarioli Britannicæ Descriptonis Fragmentum. [Coloniæ, 1572. 8vo.]

Ysgrifennwyd y ddau draethodyn yna gan Humffrey Llwyd yn y fl. 1568, ychydig amser cyn ei farwolaeth; a chyflwynwyd hwy i'w gyfaill mynwesol Ortelius. Cyfieithwyd yr olaf i'r Saesneg, a chyhoeddwyd ef dan yr enw canlynol:—

The Breviary of Britayne. As this Most Noble, and renowned Land, was of Ancient time divided into three kingdomes, England, Scotland, and Wales. Contayning a learned discourse of the variable state and alteration thereof, under divers, as wel natural: as forren Princes and Conqueruors. Together with the Geographical description of the same, such as nether by elder, nor later writers, the like hath been set fourth before. Written in Latin by Humffrey Lhuyd of Denbigh, a Cambre Britayne, and lately Englished by Thomas Twyne, Gentleman. 1573.²

Ond prif waith Humphrey Llwyd oedd ei *Historie of Cambria*, yr hwn a gasglwyd ganddo o *Frut y Tywysogion*, gan Caradog Llancarfan, ac a gyfieithodd efe i'r Saesneg. Gadawyd ef yn anorphenol gan yr awdur o herwydd afiechyd, yr hwn a ddylynwyd gan ei farwolaeth gynnarol; ond dygwyddodd fod copi o hono ym meddiant Syr Henry Sidney, Arglwydd Lywydd y cyffindiroedd; a chyhoeddwyd ef ar ddymuniad y gŵr hwnw, gan

DAFYDD POWEL, D.D.³ Ganwyd y gŵr enwog hwn yn sir Ddinbych, o gylch y fl. 1552; ac yr oedd yn fab i Hywel ab Dafydd ab Gruffydd ap Ithel, ac yn disgyn yn syth o Llywelyn Aurdorchog o Ial, yr hwn a fucheddai yn y 12fed ganrif. Aeth i Rydychain yn y fl. 1568; ac yn y fl. 1572, graddiwyd ef yn B.A.; yn 1576, yn M.A.; yn 1582, yn B.D.; ac yn 1583, yn D.D.; yr hyn sydd brawf o'i gynnydd cyflym a boddhaol; ac mewn canlyniad, cafodd amryw fywiolaethau eglwysig, ac yn eu plith Ficeriaeth Rhiwabon; ond â'i lenyddiaeth y mae

¹ Parry's Cambr. Plut. p. 303—4; Llyfr. y Cymry, t. 24.

² Yr un, t. 25.

³ Parry's Cambr. Plutareh, pp. 305-6.

a fynnir yma. Bu farw, ar ol llafur a defnyddioldeb mawr, yn y fl. 1598, pan nad oedd ond 46 oed.

Gwaith llenyddol pwysicaf a mwyaf poblogaidd y Dr. Powel, ac sydd wedi bod felly fyth er pan gyhoeddwyd ef, ac a bery yr un modd eto, tra y parheir i ddarllen ac ysgrifenu Hanes Cymru, ydyw yr un canlynol :—

The historie of Cambria, now called Wales : A part of the most famous Yland of Brytaine, written in the Brytish language above two hundred years past : translated into English by H. Lhwyd, Gentleman, augmented, and continued out of Records and best approved Authors, by Daudid Powel Doctor in diuinitie. Com Priviligio.¹

Y mae copi carpiog o'r gwaith wrth law yr ysgrifenydd ; ond heb yr enwad-ddalen a rhai dalenau ar y diwedd. Dywed Gwilym Lleyrn "nad oes amseriad ar y wyneb-ddalen ; ond yn niwedd y Rhagymadrodd y mae—'From my lodging in London the 25 of March, 1584 ; ac yn niwedd y llyfr y mae '1584.' 'Imprinted at London by Rafe Newberie and Henrie Denham. Cum Priviligio Regiæ Maiestalis.'"²

Y mae amryw argraffiadau o'r gwaith rhagorol hwn wedi ymddangos er pan gyhoeddwyd ef gyntaf, "wedi ei newid, ei helaethu, a'i ddiwygio," yr hyn sydd brawf o'i gymmeradwy-aeth gan hoffwyr hanes Gymreig. Y cyntaf ar ol marwolaeth yr awdur, fel y tybir, ydoedd hwn :—

THE HISTORY OF WALES. Comprehending the Lives and Succession of the PRINCES OF WALES, from CADWALADR the last King, to *Llewelyn* the last Prince, of *British* Blood. With A short Account of the Affairs of WALES, under the Kings of *England*.

Written originally in *British* by *Caradoc of Llancarvan* ; and formerly published in *English* by Dr. *Powel*.

Now newly augmented and improved by W. WYNNE, A.M. and Fellow of *Jesus-Colledg, Oxon*

LONDON : Printed by *M. Clark*, for the Author, and are to be sold by *R. Clavell*, at the Peacock at the West-End of *S. Pauls*. 1697.³

Y mae Gwilym Lleyrn yn galw y llyfr yna y "Trydydd argraffiad" o *History* y Dr. Powel, gan gymmeryd yn ganiataol mai yr *ail* argraffiad o hono oedd y llyfr canlynol, yr hyn sy'n ymddangos i mi yn lled ammheus :—

A Description of Wales, by Sir John Price, published by Thomas Ellis, with Robert Vaughan of Hengwrt's Notes.

Oxford, Printed 1663.⁴

¹ Llyfr. y Cymry, t. 27.

² Yr un, t. 28.

³ Cymmerwyd yr enw uchod o enwad-ddalen y copï el hun sydd wrth law genyf. Y mae yr un enw, ond ychydig yn wahanol, gan Gwilym Lleyrn yn y *Llyfryddiaeth*, t. 260.

⁴ Llyfr. y Cymry, t. 190.

Fel y canlyn y dywed y *Llyfryddwr* enwog ei hun am y gwaith yna :—

Math o ail argraffiad diwygiedig ydyw o lyfrau Syr John Price; ond mor wahanol i'r eiddo hwnw, fel na feddyliai neb ei fod yr un. Nid argraffwyd ond 128 o dudalenau o hono. Dywed Edward Jones, 'Bardd y Tywysog,' mai argraffiad newydd ydoedd o 'Powel's History of Wales.' Yr oedd Robert Vaughan o Hengwrt, wedi bwriadu cyhoeddi gwaith Powel, gyda gwelliadau a chwanegiadau; ac efe a roddodd ei bapyrâu i law Mr. Ellis, ei gymmydog. Yr achos pa ham y darfu iddo adael y gwaith yn anorphenol ydoedd, meddir, i Percy Enderbie gyhoeddi yr eiddo ef—'Cambrian Triumphans,' a'i fod wedi defnyddio y defnyddiau y bwriadai Ellis eu defnyddio, ag oedd wedi eu casglu tuag at ei lyfr. Gwerthwyd yr holl lenau, oddi eithr ychydig iawn, yn bapyr diwerth, fel ag y mae yn anhawdd iawn cael gafael ar un o honynt.

Arwydda'r difyniad yna yn eglur, fel y tybir, nad oedd ei ys-grifenydd yn gwbl hyspys beth, yn fanwl, oedd cynnwysiad y gwaith dan sylw, o'r hwn nid argraffwyd ond 128 o dudalenau; ac na chyhoeddwyd erioed y rhai hyny fel llyfr, eithr y "gwerthwyd hwy, oddi eithr ychydig iawn, yn bapyr diwerth." Gan hyny, beth bynnag oedd cynnwys y gwaith hwnw, y mae yn ymddangos i mi fod yn hollol amhriodol ei alw yn "ail argraffiad" o "Historie of Cambria" y Dr. Powel.

Cyhoeddwyd ail argraffiad o waith y Parch. W. Wynne yn y fl. 1702, yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf, fel y gwelwyd, yn y fl. 1697, heb na "chwanegiad na diwygiad," namyn "Map of Wales by J. Sellers."¹ Geilw Gwilym Lleyrn hwn "Y pedwerydd argraffiad" o waith y Dr. Powel; ond yr *ail* argraffiad ydoedd o waith y Parch. W. Wynne. Cyhoeddwyd gwaith Wynn drachefn, gydag ychydig ychwanegiad (yr hwn sy'n dygwydd bod wrth law genyf), dan yr enw canlynol :—

The History of Wales. Written originally in British by Caradoc of Lhan-carvan, Englished by Dr. Powell, and augmented by W. Wynne, Fellow of Jesus College, Oxon, to which is added, A Description of Wales, by Sir John Price. A new Edition, greatly improved and enlarged, with Pedigrees of Families.

Llun Derwydd sydd yma yn droednoeth goesnoeth, a'i farf bron at ben ei lin; ffon uchel yn ei law chwith, a llyfr ynghyda changen o'r uchelwydd yn ei law ddeha

A CHIEF DRUID.

London : Printed for T. Evans, at No. 50. in the Strand, near York Buildings. MDCCLXXIV.

¹ Llyfr. y Cymry, t. 260.

Y mae G. Lleyrn yn galw hwn "y pummed argraffiad," o waith y Dr. Powel; ond y *trydydd* argraffiad ydoedd o waith W. Wynne, gyda'r ychwanegiad a nodwyd o waith Syr John Price.

Cyhoeddwyd *ail* argraffiad o'r argraffiad olaf a nodwyd, heb na "newidiad nac ychwanegiad ato," yn y fl. 1784; yr hwn a elwir gan G. Lleyrn, "y chweched argraffiad" o waith y Dr. Powel; ond y *pedwerydd* argraffiad ydyw o waith WYNNE. Dyna yr olaf a nodir yn *Llyfryddiaeth y Cymry* (t. 618); ac y mae'n debyg mai yr olaf ydoedd a argraffwyd cyn y ganrif bresennol (y 19fed); ond y mae un argraffiad o'r ganrif yma o hono yn dygwydd bod wrth law genyf, gydag "ychwanegiad" eto; enwad-ddalen yr hwn sydd fel y canlyn:—

THE HISTORY OF WALES. Written originally in British by Caradoc of Llancarvan; Translated into English by Dr. Powell; augmented by W. Wynne, Fellow of Jesus College, Oxon; Revised and corrected, and a collection of TYPOGRAPHICAL NOTICES attached thereto, BY RICHARD LLWYD, GENT. of Llannerch-Brochwel, in the county of Montgomery.

SHREWSBURY: Printed by John Eddowes, Corn-Market.
MDCCCXXII. [8vo].

Y mae hwn y *pummed* argraffiad o waith Wynne. Dywed y cyhoeddwr yn eglur, yn ei "*Advertisement*," mai gwaith "MR. Wynne" ydyw yr argraffiad hwn: dyma fel y mynega:—

The late Mr. RICHARD LLWYD, ...in the present volume, confined himself to the republication of the History of Wales, as given by Mr. WYNNE, contenting himself with modernising the language, supplying notes of reference, and occasionally introducing notes explanatory or corrective of Mr. WYNNE's text.

Y gwir yw na chyhoeddwyd erioed eto *ail argraffiad* teg ac annewidiol o'r *Dr. Powel's Historie of Cambria*; a gresyn garw ydyw hyny. Gobeithio y cymmer rhyw wladgarwr, neu wladgarwyr, y gorchwyl dyddorol mewn llaw yn fuan.

Peth arall sy'n peri syndod a gofid meddwl i mi ydyw, nad oes neb o'r Bywgraffwyr Cymreig lluosog sydd wrth law genyf, hyd y canfyddais, yn son un gair am y W. WYNNE enwog, y cyhoeddwyd argraffiadau mor lluosog o'i *History of Wales!* Y cwbl a wn i am dano ydyw yr hyn a ddywed Gwilym Lleyrn yn fyr, fel hyn:—

WILLIAM WYNNE ydoedd fab ieuengaf Robert Wynne, o'r Garthewyn, yn sir Ddinbych; cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Iesu, yn Rhydychain.

Cafodd ei ordeinio gan Esgob Bangor. Bu farw yn 1704, yn 34 oed. [Felly, ganwyd ef yn y fl. 1674]. Claddwyd ef ym Mangor.¹

Nid ydys yn gwybod i ddim o waith Wynne ymddangos, ond ei "*History of Wales*;" ond cyhoeddwyd amryw o fân lyfrau dan olygiad Dr. Powel heb law ei "*Historie of Cambria*;" ond oll yn Lladin; y rhai y gwelir eu henwau yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, fel y canlyn.—Rhif 1, 2, t. 29; Rhif 3, 4, t. 30; Rhif 6, t. 40; a Rhif 4, t. 76.

Llyfr arall pur bwysig i'r Cymry uniaith ar y pryd, a gyhoeddwyd ym mhen dwy flynedd ar ol *Historie of Cambria* y Dr. Powel, oedd yr un canlynol:—

LLYFR GWEDDI GYFFREDIN, a Gweinidogaeth y Sacramentae, ac eraill gynneddfau a Ceremoniae yr Eccles Loegr: *Viewed, perused and allowed by the Bishops, according to the act established for the translation of the Bible and this Book into the British tongue.*

At London imprinted by John Windet at the costes and charges of Thomas Chard. 1586.—Cum privilegio. [4plyg].²

Dyry G. Lleyn amryw esamplau o Gymreigiad y llyfr hwn; ond rhaid boddloni yma ar un yn unig:—

BOREU WEDDI. PSAL. I.

Gwyn ei vyd y gwr ny rodiawdd yn cyceor yr andewiolion, ac ny savodd yn ffordd pechaturieit, ac nyd eiste ddawdd yn eisteddfa yr ei gwatworus.

Eithyr bot ei ewyllys yn *Deddyf yr Arglwydd, ac yn *Ddeddyf ef bot yn mywrio ddydd a' nos

*Canys ef vydd mal pren wedy'r blanny yn *glan dyfroedd yr hwn a dowc ei firwyth yn ei *dempor: a ei *ddalen ny wywa, a pha beth bynac a wnel ef, a lwydda.

Nyd velly [y *bydd] yr ei anuwioll, eithyr mal y *man vs, yr hwn a chwal y gwynt ymaith.

Am hyny ny saif yr andewiolion yny varn, na'r pechaturiaid yn cynnulledfa yr ei cyfion.

Can ys yr Arglwydd a edwyn ffordd yr ei cyfion, a ffordd yr andewiolion a gyfergollir.³

*ynghyfraith.

*gyfraith.

*Ac ys.

*avonydd.

*amser.

*ddail.

*mae.

* gwan, peiswyn, llwch.

Gwelir mai Cymraeg clogyrnog sydd yn y llyfr hwn, tebyg i Gymraeg Wm. Salisbury; ond ceir cyfnewidiad er annhraethol gwell, yn y Llyfr Bendigaid a ddaw dan sylw yn y nesaf; sef,—

¹ Llyfr. y Cymry, t. 261.

² Yr un, t. 31.

³ Yr un, t. 38.

Y Beibl Cyssegr-Lan. Sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Imprinted at London by the Deputies of Christopher Barker, Printer's to the Queen's most Excellent Majestie. 1588. [Unplyg].¹

Ond cyn sylwi dim ar y cyfieithiad godidog hwn, rhaid dywedyd ychydig am ei Brif gyfieithydd enwog, a'i gynnorthwyr gwladgarol.

WILLIAM MORGAN, D.D., oedd prif gyfieithydd y llyfr cysygreddig hwn. Dywed yr achyddion fod William yn disgyn yn syth o du ei dad o Nefydd Hardd, cyff un o bymtheg llwyth Gwynedd, o Lys Nant Conwy, yn Arfon. Eraill a'i holrheintiant i Marchudd ap Cynan, o Lys Bryn Ffanigl, Uwch Dulas, Dinbych, cyff un arall o bymtheg Llwyth Gwynedd; ond nid yw o bwys yn y byd pa un a ddisgynodd efe o'r naill neu'r llall ai peidio; canys ni raid i ŵr fel y Dr. Morgan wrth achau uchel i gynnal ei enw mewn edmygedd: y mae ei *waiih* ef yn ddigon er peri i'w enw a'i goffadwriaeth fod yn anwyl gan bob Cymro cywir galon, tra y pery yr Iaith Gymraeg, ac yn llawer hwy.

Mab ydoedd i John² Morgan o'r Wybrnant, ar derfyn plwyfi Penmachno a Dolyddelen, y rhai a ffurfiant ddosparth Deheuol Cwmmwd Nant Conwy. Dywed T. W. Hancock y "ganwyd y Dr. Morgan yn 1547"; a thybir nad yw bell oddi wrth y gwir amser. Ni wyddys ym mha le y cafodd W. Morgan ei ddysg foreuol; ond ymddengys iddo gael ei wreiddio mewn dysgeidiaeth o'i febyd; a phan gyrhaeddodd oedran cyfaddas, cafodd dderbyniad i Goleg Ioan Sant, yng Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn D.D. Ym mhen rhyw ennyd ar ol cael ei urddo yn offeiriad, na wyddys pa mor fuan, cafodd Ficeriaeth y Trallwng ym Mhowys, yn y fl. 1575. Wedi bod yno dros ryw dymmor yn cyfieithu yr Ysgrythyrau, ac yn pregethu yr Efengyl yn ei phurdeb i'r trigolion anystywallt, ennynodd digofaint rhai o'r plwyfolion hanner Pabaidd yn ei erbyn; a llwyddasant o'r diwedd i gael gwys i'w orfodi i ymddangos yn Llys Archesgob Caergaint (y Dr. Whitgift) i ateb drosto ei

¹ Llyfr. y Cymry, t. 41.—Copi o'r all argraffiad truenus, a gyhoeddwyd yn Nolgellau, aydd wrth law yr ysgrifenydd.

² Parry's Cambr. Plut., p. 318; Y Gwladgarwr, cyf. v., t. 253.

hun. "Nid gwaeth cywir er ei chwilio." Nis gallasai dim byd mwy ffortunos ddygwydd na gorfodi y Parch. W. Morgan, yn y fl. 1585, i ymddangos ger bron yr Archesgob. "Cafwyd y Ficar yn ddieuog o'r achwyniadau a ddygwyd yn ei erbyn," medd Gwallter Mechain, "a mwy na hyny, yr archesgob pwylllog a'i hoffodd herwydd ei ddysg a'i ymarweddiad; ac yn ol mynych ymddyddan âg ef ar bynciau crefyddol, a deall ei fod er eisys wedi cyfieithu *Pum Llyfr Moses* i'r Gymraeg, efe a'i hanogodd ef i fyned ym mlaen yn y gwaith angenrheidiol a chanmoladwy. Rhoddir yma ddyfyniad allan o lythyr Lladin y cyfieithydd at y Frenines Elizabeth, yr hwn a argraffwyd o flaen y Bibl yn 1588, ac a gyhoeddwyd yn Gymraeg gan Mr. Charles Edwards yn ei lyfr a elwir *Hanes y Ffydd Gristionogol*, yr hwn lyfr a gyhoeddwyd (y 6ed argraffiad) gan y Parchedig Dr. P. Williams o Lanbedrog, yn y fl. 1822. Rhan o Gyffes y Cyfieithydd at y Frenines sydd fel y canlyn":—

Wrth weled mor llesol ac angenrheidiol ydoedd cyfieithu'r Ysgrythrau eraill [sef yr Hen Destament] i'r Gymraeg (er i atgof o'm gwendid fy hun, a maintioli'r gorchwyl, a dryganiaeth rhai anwydau, fy nigaloni yn hir) gan gydsynio â dymuniadau'r Duwiol, goddefais fy mherswadio i ymosod ar y gwaith poenus hwn, a thra anghymeradwy i lawer. A chwedi ei ddechreu, diffygiaswn o ran anhawstra'r peth, a maintioli'r gôst, a dygasem bum llyfr Moses yn unig at yr Argraphwasg, oni buasai i'r parchedical archesgob Caergaint, achleswr dysgeidiaeth, amddiffynwr y gwirionedd, a thirion wrth ein Cenedl ni, fy nghymmorth â'i haelioni, â'i awdurdod, ac â'i gyngor i fyned ym mlaen. Ar ol ei siampl ef, aeth gwyr da eraill yn gynnorthwyol i mi; hyd oni chyfieithais i yr Hen Destament i gyd, a diwygiais argraphiad y Newydd.²

Wedi i'r Dr. Morgan gael cefnogaeth garedig Archesgob Caergaint, daeth amryw wŷr dysgedig a galluog eraill ym mlaen i'w gynnorthwyo mewn gwahanol ffyrdd i orphen ei waith ardderchog, y rhai a gydnebydd ef yn ddiolchgar yn ei Lythyr Cyflwyn.

Y DR. JOHN WHITGIFFT (Saes. *Whitgift*), yr Archesgob, wrth reswm, a ddyry efe ar ben y rhestr. Ganwyd ef yn Great Grimsby, yn sir Gaerlwythcoed (*Lincoln*), o gylch y fl. 1530. I'w ewythr, Robert, Abad ar Fynachdy y Brodyr Duon yn Wellow, yn agos i Grimsby, yr ymddiriedwyd ei

¹ Gwaith G. Mechain, *cyf. II.*, t. 219.—Rhoddir y difyniad yng ngholriad a llythraeth Ch. Edwards, fel y maent yn yr argraffiad crybwylledig o'i walth.

² Y Ffydd Ddifffuant, t. 296.

addysg; ac yntau a'i dysgodd yn egwyddorion y Grefydd Brotestanaidd. Yn y fl. 1583, gwnaed ef yn Archesgob Caer-gaint (Saes. *Canterbury*), lle y bu hyd ei farwolaeth yn y fl. 1603. Gwelwyd yn llythyr cyflwyn y Dr. Morgan, pa fath gynnorthwy a gafodd gan yr Archesgob caredig hwn.¹ Y nesaf a nodar'r Dr. Morgan fel ei gynnorthwywr, yw Esgob Llanelwy, sef,

WILLIAM HUGHES, D.D., yr hwn a anwyd yn sir Gaer-narfon. Mab ydoedd i Huw ap Cynric, o'i wraig Gwenllian, merch John Fychan ap John ap Gruffydd ap Owen Pygott. Dechreuodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain; ac wedi hyny, symmudodd i Goleg Crist yn Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn M.A.; ac yn y fl. 1568, graddiwyd ef yn Rhydychain yn B.D. Wedi hyny, yn y fl. 1570, graddiwyd ef yn D.D. yn Nghaergrawnt. Ar ol cael amryw fywiolaethau eglwysig o bwys, yn y fl. 1573, cyssegrwyd ef yn Esgob Llanelwy, lle y bu hyd ei farwolaeth yn Hydref y fl. 1600. Ni fynegir pa gynnorthwy a roddes yr Esgob dysgedig a chyfoethog hwn i'r Dr. Morgan yn ei waith pwysig.²

Y DR. HUGH BELLOT, Esgob Bangor, ydyw y nesaf y cyfeiria'r Dr. Morgan ato fel un o'i gynnorthwywyr. Cafodd ei addysg athrofaol yng Nghaergrawnt; ac yn y fl. 1585, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Bangor; ac wedi hyny, symmudwyd ef i Esgobaeth Caerlleon, lle y bu farw, yn y fl. 1596. Tybir mai Sais o genedl ydoedd; ond yr oedd efe, fel T. Gouge, wedi hyny, "yn caru ein cenedl ni."³

GABRIEL GOODMAN, D.D., ydoedd gymmwynaswr haelionus i'r Dr. Morgan yn ei waith mawr, fel y ceir gweled yn ebrwydd. Ganwyd ef yn Rhuthyn, Sir Ddinbych, yn y fl. 1528. Ail fab ydoedd i Edward Goodman o'r dref honno, yr hwn oedd y cyntaf a gymmerth y cyfenw *Goodman*; ond yr oedd yn perthyn i deulu hollol Gymreig, gan ei fod ef (Edward) yn disgyn, trwy Tomas ap Edward, o Siencyn Goch,

¹ Llyfr. y Cymry, t. 44 : Llywelyn's Brit. Versions, p. 22.

² Williams's Em. Welsh., p. 226; Llyfr. y Cymry, t. 46; Llewelyn's Brit. Versions, p. 22. Gwel yr un lleoedd yn y ddau olaf.

o Landyrnog, yn Nyffryn Clwyd. Mam Gabriel oedd Sisely, merch Edward Thelwal o Blas-y-ward, o'r un lle. Anfonodd ei dad, Edward, Gabriel i Brifysgol Caergrawnt o gylch y fl. 1544, lle y graddiwyd ef yn M.A. Trwy ddylanwad Syr W. Cecil, wedi hyny, Arglwydd Burleigh, yn nheulu yr hwn y gwasanaethai Gabriel Goodman fel Caplan, gwnaed ef yn un o Gôr-berigloriaid St. Paul yn Llundain, tua'r fl. 1558; ac yn y fl. 1560, cafodd yr un swydd yn Eglwys Gadeiriol Westminster. Yn y fl. 1561, graddiwyd ef yn D.D., a dyrchafwyd ef yn Ddeon yn yr un eglwys, yr hon swydd a ddaliodd ef hyd ei farwolaeth yn y fl. 1561. Cafodd yr anrhydedd o lawnodi y "Namyn Un Deugain Erthyclau Ffydd," y rhai y cyttunwyd arnynt yn y fl. 1562; ac efe a gyfieithodd yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid yn y cyfieithiad newydd o'r Bibl Seisnig, a elwir "Bibl yr Esgobion," a gyhoeddwyd yn y fl. 1568.

Heb law y gefnogaeth lenorol werthfawr a roddes efe i'r Dr. Morgan, bu'n gymmwynaswr haelionus i lenyddiaeth yn ei dref enedigol, Rhuthyn; canys yn y fl. 1590, sefydlodd Elusendai yno, ac Ysgol o radd uchel, yr hon sydd yn bod yno fyth, ac yn yr hon y cafodd rhai o brif ddynion ein cenedl eu haddysg ragbarotoawl.¹

Gwyddys y bu'r DR. POWELL a'r ARCHDDIACON PRYS dan sylw cisoes, y rhai a nodar Dr. Morgan fel ei gynnorthwywyr. Nid yw hyspys pa gynnorthwy a gafodd gan y gwŷr dysgedig yna; canys dywed yn ei lythyr cyflwyn, fel y gwelwyd, mai efe ei hun a *gyfieithodd* "yr Hen Destament *i gyd*," ac a *ddiwygiodd* "argraffiad y Newydd;" yr hyn, yn ddiâu, fel y mae'n hawdd canfod wrth gymmharu ieithwedd cyfieithiad Salesbury âg un y Dr. Morgan, oedd yn llawn cymmaint o waith, os nad mwy, a phe cyfieithiasai ef o'r Groeg yn ddigyfrwng ei hunan.

Nid yw'r Dr. Morgan yn son dim am yr "Apocrypha" sydd rhwng y ddau Destament yn ei argraffiad ef, yr hwn, yn

¹ Llewelyn's Brit. Versions, p. 22; Y Gwladgarwr, cyf. iv., t. 257; Williams's Em. Welshm., p. 175; Llyfr. y Cymry, t. 47.

ddilys ddiammheu, a gyfieithiwyd ganddo ef. Dichon nad ystyriai'r Dr. Morgan, mwy na llawer ar ei ol, fod yr "Apocrypha" yn wahanol ei awdurdod i Ysgrythyrau eraill yr Hen Destament, ac mai hyny oedd yr achos nad yw yn crybwyll am dano.

RICHARD FYCHAN [Saes. *Vaughan*], D.D., oedd yr olaf a enwa'r Dr. Morgan fel un o'i gynnorthwywyr. Mab oedd Richard i Thomas ap Robert Fychan, o Nyffryn, lle rhwng Tudweiliog ac Edeyrn, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Ei fam oedd Catrin, merch Gruffydd ap Sion ap Gruffydd o Leyn. Cefn Amwlch, fel y tybia rhai, oedd ei annedde. Cafodd ei addysg athrofaol yng Ngholeg Ioan Sant, Caergrawnt. Cafodd ei raddau colegawl, fel y tybir, yng Nghaergrawnt, er y dywedir bod cyssylltiad rhyngddo â Rhydychain hefyd. Wedi bod yn dal prebenderiaeth Helborn, ym Mhrifeglwys St. Paul, ac Archdeoniaeth Middlesex, ar y 25med o Ionawr, 1595, cysegrwyd ef yn Esgob Bangor. Yn y fl. 1597, symmudwyd ef i Esgobaeth Caerlleon; ac yn y fl. 1604, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Llundain; ac yno y bu efe farw, ar y 30fed o Fawrth, 1607.¹

Dyna ddarluniad byr o'r prif lenorion dysgedig a roddasant ryw gynnorthwy i'r Dr. Morgan, neu'n hytrach y Ficar Morgan oedd efe ar y pryd. Y mae'n anhawdd gwybod pa gynnorthwy a roddes y tri wyr hyn, y Dr. Powel, yr Archddiacon Prys, a'r Dr. Fychan, i'r Ficar Morgan, yn ei lafur mawr a bythgofiadwy. Dichon bod dyfaliad Gwilym Lleyn yn gywir; sef iddynt "roddi iddo rydd fynedfa i'w llyfrgelloedd," darllen a chwilio "ei gyfieithiad, gan ei olygu a'i ddiwygio drosto."² Gwelwyd fod Morgan yn Llundain yn y fl. 1583, yn rhoi cyfrif o'i oruchwyliaeth, yn llys yr Archesgob Whitgiffit; pan nad oedd ganddo ddim wedi ei gyfieithu, namyn *Pum Llyfr Moses* yn unig. Aeth i Lundain drachefn o gylch y fl. 1587, i roddi ei waith gorchestol yn y wasg. Gan hyny, rhaid ei fod wedi cyfieithu "yr Hen Destament i gyd," namyn *Pum Llyfr Moses*, a'r "Apocrypha," a diwygio "argraffiad y Testament Newydd,"

¹ Williams's *Em. Welshm.*, p. 509; *Llyfr. y Cymry*, t. 48; *Llewelyn's Brit. Vers.*, p. 23.

² *Llyfr. y Cymry*, t. 49.

yn yr yspaid byr o bedair blynedd! Hawdd, gan hyny, y gellir credu ei fod yn medru "iaith ei fam yn well nag un iaith arall," fel y dywedodd wrth yr Archesgob, pan y gallai wneud y fath orchestwaith mewn cyn lleied o amser. Tra yr oedd yn Llundain y pryd hyn yn golygu ei waith mawr, fel yr oedd yn dyfod trwy'r wasg, cafodd garedigrwydd digyffelyb y Dr. Goodman—y *Dyn Da*, mewn gwirionedd. Yr oedd yr Archesgob Whitgiffit wedi cynnyg ei arfolli tra y byddai yn golygu ei waith godidog yn Llundain; ond gan fod yr Archesgob yn byw yn Lambeth, yr oedd tŷ Goodman yn fwy cyflëus iddo; ac yno y llettyodd, yn fawr ei barch a'i groeso dros yr holl amser, nes y daeth ei holl waith cyssegredig trwy'r wasg yn y fl. 1588, gan ymweled â'r Archesgob yn achlysurol.¹

"Er bod y Dr. [Ficar] Morgan, pan ddechreuodd ei lafur hirfaith, yn edrych yn uwch 'am daledigaeth y gwobrwy,' nag at unrhyw gynneilyddion coronau a theyrnwiall daiarawl; eto ni ymddygodd mor annynol a gwrthod y dyrchafadau a gynygiwyd iddo yn ebrwydd wedi cyhoeddiad ei Fibl."²

Ym mlaenaf oll, graddiwyd ef yn D.D.; ac yn y fl. 1595, cyssegrwyd ef yn Esgob Llandaf, lle y bu hyd y fl. 1601; pan y trosglwyddwyd ef i Esgobaeth Llanelwy; ac yno y bu farw ar y 10fed o Fedi, 1604; a chladdwyd ef dranoeth yn nghôr yr eglwys, lle nad oes linell ar na maen na mynor i goffa ei enw peraidd, a'i lafur annifanadwy!³

Yr wyf yn ddibetrus alw'r gwaith hwn yn un tra rhagorol, pe na bai genyf ddim i gefnogi hyny ond ei Gymreigiad ystywyth a meistrolgar, yn oed heb gymmeryd i ystyriaeth yr amser yr oedd yn cael ei ysgrifenu, a'r defnyddiau geirwon, "trwstan ac annhelediwy," â'r sawl yr oedd yn adeiladu. Mor gwbl "drwstan ac annhelediwy" yw iaith pob llyfr Cymraeg a gyhoeddwyd cyn cyfieithiad y Dr. Morgan, oddi eithr Gramadeg Gruffydd Roberts yn unig, fel y maent braidd oll yn annealladwy i ddarllenwyr cyffredin y dydd heddyw, yng Ngwynedd a Deheubarth; ac y mae'r Gramadeg crybwylledig felly hefyd yn ei lythyaeth gyntefig. Cymmerer un enghraifft

¹ Illustr. Potent. Seren. Princip. Elizabethæ; Llewelyn's Brit. Versions, p. 18, &c.: Parry's Camb. Plut., p. 320; Y Gwladgrwr, cyf. v., t. 254; Llyfr. y Cymry, t. 44.

² Gwaith G. Mechain, cyf. ii. 221. ³ Yr un, cyf. ii., t. 221, a'r awdurdodau eraill a nodwyd.

a ddifynir, heb chwilio am y waethaf, o gyfieithiad W. Salesbury, y llyfr Cymraeg mwyaf a argraffwyd cyn cyfieithiad y Dr. Morgan. Dodir cyfieithiad Salesbury ym mlaenaf, a chyfieithiad y Dr. Morgan o'r un ymadroddion ar ei ol.

ACT. XVII. *Testament Sals., t. 255, yr ail argr.*

Yno Paul a safodd ym-pervedd (canol) heol Mars ac a ddyvot, A wyr Athenieit *mi ach* gwelaf chwi ym *pop petholl* yn vawr eich goglyd ar y dywie. Can ys wrth ddyvot heibio, ac edrych ar eich glochwytae *ys* ceveis allor, yn yr hon ydd escrivenit, IR DEO ANVVYBODEDIC. Yr hwn gan hyny eb vybot ydd ych yn ei addoly, hwnw venagaf ychwy. Dew yr hwn a wnaeth y byd, a'r oll pethae ys ydd ynthaw, can y vot ef yn Arglwydd nef a' daear, ny thric ef mewn templeae gwneythuredic-a-dwylaw, ac nid addolir a dwylaw dynion, val pe bai arno eisiae dim, ac ef e yn rhoddi i bawp vywyt ac anhenetl a' phop peth, ac a wnaeth or vn gwaed oll genetl dynion i breswyliaw ar *hyd* wynep y ddaiar, ac a 'osodes yr amserae ar y ddaroedd ei rrac ordeiniau, a therfynae ei preswylfa, er ceisiau o hanwynt yr Arglwydd, a byddei yddwynt gan *ymbalfaly* y gaffael ef, cyd yn diau nad yw ef yn y pell y wrth yr vn o hanam. Can ys yntaw ef ydd ym byw, ac ydd ym yn ymodi, ac y mae en bod, megis ac y dyvot rei a eich Poetau hunain, O bleit ei genedleth hefyt ym.

ACT. XVII. 22—28. *Yr ail argr. o Fibl y Dr. Morgan. (Yr un ymadroddion).*

22 Yna y safodd Paul yng-hanol Areopagus, ac a ddywedodd, Ha wyr Atheniaid, mi a'ch gwelaf chwi ym mhob peth yn goel-fucheddol :

23 Canys wrth ddyfod heibio ac edrych ar eich addoliaeth, mi a gefais allor yn yr hon yr scrifennasid : I'R DUW YR HWN NID ADWAENIR : Yr hwn yr ydych chwi yn ei addoli heb ei adnabod, hwnnw yr wyf fi yn ei ddangos i chwi.

24 Duw yr hwn a wnaeth y byd a'r hyn sydd ynddo oll, efe yn Arglwydd nef a daiar nid yw yn aros mewn temlau o waith dwylo :

25 Ac ni wasanaethir ef â dwylo dynion, fel pe bai arno eisiau dim, gan ei fod ef yn rhoddi i lawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll :

26 Ac efe a wnaeth holl genhedlaeth dynion o un gwaed i breswyllo ar wyneb y ddaiar oll, wedi iddo bennu yr amseroedd gosodedig, a dodi terfynau i'w preswylfod hwynt :

27 Fel y ceisient yr Arglwydd, os bydde iddynt gan balfalu ei gael, er nad yw efe yn ddiaur neppell oddi wrth bob un o honom.

28 O blegit ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod, megis y dywedodd rhai o'ch Poetau chwi eich hunain : canys ei genhedlaeth hefyd ydym ni.

Yn y cyfieithiad ardderchog hwn, yn lle bod yr holl ymadroddion wedi eu gadael yn un clystrwr annosparthus, megis gan W. Salesbury, wele'r Dr. Morgan wedi trefnu ei gyfieithiad yn adnodau cyflëus i gyfeirio atynt ; ac yn lle gadael mwy na hanner y llythyrenau heb eu treiglo yn ddyladwy, fel y gwnaeth y blaenaf, nes bod y rhan fwyaf o'i eiriau yn glogyrnog ac annarllenadwy, i'r cyffredin, wele yr olaf wedi newid y llythyrenau braidd oll i'w deilliaid priodol, fel y mae'r geiriau, cystal a'r gystrawen, yn ystwyth, perorol, a hyfryd.

Ond nid godidowgrwydd iaith cyfieithiad y Dr. Morgan ydyw ei unig ratoriaeth. Tystia gwŷr cwbl alluog i farnu, bod y

cyfieithiad hwn o ieithoedd gwreiddiol y Bibl, y cywiraf o unrhyw gyfieithiad adnabyddus. Cymmerer tystiolaeth y Dr. Llewelyn, o Ben yr Alltan Isaf, ym mhlwyf Gelligaer, ym Morgangwg, yr hwn oedd Athraw ar Goleg y Bedyddwyr yn Llun-dain, i addysgu'r myfyrwyr yn ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrhythrau; ac o blegid ei ddlofn wybodaeth o'r ieithoedd hyny, anrhegwyd ef â'r radd o M.A., ac wedi hyny âg Ll.D., gan Brifathrofa Aberdeen. Ar ol dywedyd bod y dyrchafiadau a gafodd Morgan, trwy annogaeth yr Archesgob ac Esgobion dysgedig, fel cydnabyddiaeth am ei gyfieithiad godidog, "yn brawf tybiadol cryf ei fod yn llawn alluog at y gorchwyl a gymmerth mewn llaw," efe a ddywed fel hyn:—

Heb law hyny, credaf bod profion mewnol yn y cyfieithiad ei hun, ddarford iddo gael ei wneud yn ddigyrwng o'r gwreiddiol. Nis gallaf ddarllen y bennod gyntaf o Genesis yn Hebraeg a Chymraeg, heb ddyfod i'r penderfyniad y boddlonir pob beirniad cymhwys, ond iddo ddal sylw ar un dull ymadrodd yn unig a gyfarfyddir yn fynych yn y bennod honno; sef, 'a'r hwyr a fu, a'r borau a fu, y dydd cyntaf,' &c.¹ Y mae'r Gymraeg yn debycach i'r Hebraeg yn yr adnodau hyn, ac amryw eraill sydd yn yr Hen Destament, nag un iaith arall sydd i mi yn adnatyddus. Ni buaswn yn sylwi ar y pethau hyn [cystrawen a theithi y ddwy iaith], oddi eithr chwedl ddi sail a gofnodir gan Ames,² sydd yn awgrymu mai o'r Saesneg yn unig y cyfieithodd Morgan yr Ysgrhythrau i'r Gymraeg. Seilir yr haerriad ar un gair yn Dat. v. 8, o argraffiad 1588, ac nid, fel y dywed Ames, o Destament 1567.³

Barna Gwallter Mechain, o'r hwn y talfyrir yr hyn a ganlyn, mai rhyw Suddas o Gymro a fynegodd y gair tramgwyddus i'r Ames ymyrgar, yr hwn oedd mor anwybodus o wir ystyr geiriau Cymraeg a'r estron ei hunan. Dodir yr ymadrodd ger bron fel y mae yng nghyfieithiad Salesbury a Morgan:—

Ac yr ydoedd gan bob vn o honynt *te'lyney a phiolac* aur yn llawn o erogley. —W. S. 1567.

Ac yr ydoedd gan bob un o honynt *delynau a chrythau* aur yn llawn o arogl-darth.—Y Dr. Morgan. 1588.

Crybwyllwyd eisoes bod S. yn dal yn rhy gaeth at yr iaith wreiddiol yn ei gyfieithiad; ac yma ni newidiodd y gair Groeg, *φιάλα*, ond i *phiolae* yn Gymraeg. Ond y Dr. Morgan, y Cymreigiwr goreu yn ei oes (a'i gyfieithiad ef yw'r puraf o ran iaith hyd heddyw) a welai'r gair *phiolae* yn rhy estronol, ac a gyfieithiodd y gwreiddiol i *grythau*. Clywsai'r Suddas Cymro

¹ Gen. i., 5, 8, 13, &c. ² Typog. Antiq., p. 321. ³ Llewelyn's Brit. Versions, pp. 59—61.

mai gair Cymraeg cyfystyr i'r geiriau Seisnig *viol*, *violin*, neu *fiddle*, oedd *crwth* ; a dywedodd hyny wrth Ames y Sais, yr hwn a benderfynodd yn y fan mai o'r Saesneg y cyfieithiwyd yr Ysgrythyrau i'r Gymraeg ; ac i'r cyfieithydd gamddeall y gair Saesneg *vials*, a'i droi yn *grythau*, enw offer cerdd ! Felly, nid oes gan y Sais na'r Cymro trwstan un deongliad arall i'r gair *crythau* ; ac, ysywaeth, nid oedd gan ein cydwladwr, Dr. Llewelyn, yr un chwaith, pe amgen, buasai'n llawen ganddo ei ddodi yn ei amddiffyniad. Am hyny, y mae yn esgusodi Salesbury am beidio defnyddio *crythau*, heb ganddo well esgus dros y Dr. Morgan na thybied i'r gair lithro yn amryfus i'r wasg, na wyddai neb pa fodd ! Pe buasai'r Dr. Llewelyn yn ddyfnach Cymreigiwr, medd un ysgrifenydd craffus,¹ gwelsai fod y gair *crythau*, nid yn unig yn Gymraeg diledryw, ond hefyd yn gymhwys i'w sefyllfa yn yr adnod, o ran arwyddocâd. *Crwth*, benywaidd, *croth* : *crwm*, *cryman* ; *crwth cerdd*, *crwth halen*. Felly *crwth* yw unrhyw *lestr* neu *flwch* o gynnwysiad. Gwnai un plisgyn *wy* ddau *grwth*, ond ei drychu yn ei hanner. *Crythau*, o ran eu llun, oedd *thuserau* Corah a'i holl gynnull-eidfa ; a *chrwth* oedd *thuser* Aaron, yn llawn o aroglarth, pan safodd rhwng y byw a'r meirw : a phaham nad *crythau* oedd *phiolau* Ioan yn y Datguddiad ?

Difyna yr awdwr luaws o enghreifftiau ereill i brofi mai o'r Hebraeg y cyfieithwyd y Bibl Cymraeg cyntaf, eithr ni nodir yma ond ychydig o honynt. "Gan larpio y llarpiwyd ef." Dybliad y gair, megis sicrhâd pendant, sydd hanfodol i'r Hebraeg ; ac yn y Gymraeg, fe'i dylunir yn llythyrenol. Yn y Bibl Saesneg, 1589, ceir "of a surety he is torn in pieces ;" ac ym Mibl y Brenin James I., 1603, cynllun y Bibl Saesneg presennol, y ceir, "surely he is torn in pieces."—"Gan labyddio llabyddier ef, neu gan saethu saether ef." "He shall be stoned to death, or striken thorowe with darting." 1589. "But he shall surely be stoned, or shot thorow :." 1603.—"Gan ddial dialer arno." "Gan gospi cosper ef." Yn y ddwy adnod, y cyfieithiad Saesneg yw, "He shall be surely punished," heb

¹ Cambr. Register, vol. III., p. 156.

wahanol eiriau cyfattebol i "ddial" a "chospi."¹

Y mac'r cyfieithiad Cymraeg o'r Hen Destament yn frith trwyddo o'r llafarwedd Hebraeg yma a'r cyffelyb, nad oes dim tebyg i'w gael yn y cyfieithiad Saesneg, nac mewn un cyfieithiad arall sy'n adnabyddus ; yr hyn sydd brawf cadarn fod ein pencyfieithydd, y Dr. Morgan, yn dilyn yr Ysgrythrau Hebraeg yn llawer dyfalach nag unrhyw gyfieithiadau oedd at alwad. Ymddengys i'r prifawduron Cymreig hoffi'r llafarweddau Hebreig, rhag eu grymused ; am hyny ceir hwy yn lled fynych yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Testament Newydd, cystal ag yn eu hysgrifeniadau eraill ; megis,—“Gan glywed y clywch, ac ni ddeallwch, ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch.”² “A'r hyn a hauom ni mewn munudau a gweddillwn ychydig flynyddoedd, gan dyfu a dŷf i ni yn goronau a theyrnwial mewn gogoneddus a dedwydd dragywyddoldeb.”³

Prawf Gwallter Mechain yn foddhaol, fel y tybir, mai o'r Groeg, ac nid o'r Saesneg, y cyfieithwyd y Testament Newydd, gan fod Cymreigiad y Dr. Morgan yn cydweddu â'r flaenaf yn llawer gwell nag â'r olaf. Noda efe amryw esamplau, o'r sawl ni ddifynir yma ond un :—“Pa sawl *basgedaid*...a pha sawl *garwellaid*.”⁴ Y mac yn y Groeg ddau air gwahanol, fel y Gymraeg ; ond nid oes yn y Saesneg ond yr un gair am y naill a'r llall, sef *baskets*. Ped o'r Saesneg y cyfieithiasid, ni soniasid am *garwellaid*.⁵

Er anhawdded cefnu ar y llyfr cyssegredig hwn, y rhan bwysicaf, mewn llawer ystyr, o lenyddiaeth Gymreig, rhaid myned bellach at lenyddiaeth eraill o'r prif awduron Cymreig.

HENRY SALESBURY, ydoedd un o hiliogaeth Salesburiad Lleweni. Ganwyd ef yn Nolbelider, sir Ddinbych, yn y fl. 1561. Cafodd ei addysg athrofaol yn Neuadd Alban Sant, yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.C. ; ac ymsefydlodd yn nhref Dinbych fel meddyg. Yr unig lyfr a gyhoeddwyd o'i waith oedd yr un canlynol :—

¹ Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 223—229. ² Mat. xlii., 14, cyfieithiad y Dr. Morgan.

³ Rheol Buchedd Sanctaidd, gan Ellis Wynne (awdur y “Dardd Cwsg.”) argr. 1701, t. 2.

⁴ Mat. xvi. 9, 10. ⁵ Gwaith G. Mechain, cyf. II., t. 228.

Grammatica Britannica in usum linguæ studiosorum succinctâ methodo et perspicuitate facili conscripâ, et nunc primum in lucem edita. HENRICO SALESBURY, Denbighiensi, autore. Londini, 1593. [8vo].

Thomas Salesbury, un o'i geraint a'i cyhoeddodd ; a chyflwynwyd y llyfr i Henri, Iarll Penfro. Yn y Llythyr Saesneg at y Darllenwydd, dywedir bod "amryw bethau da eraill yn barod i'r wasg, megis y *Testament Brytanaidd*, wedi ei ddiwygio yn ddiweddar gan Esgob Llanelwy. Tybir mai Testament Salesbury oedd hwn, wedi ei ddiwygio ym mhellach gan y Dr. Morgan. Hefyd, gadawodd yr awdur llafurus Eiriadur Cymraeg a Lladin ar ei ol, yr hwn y bwriedid ei gyhoeddi gydag argraffiad newydd o'i Ramadeg. Enwad-ddalen y Geiriadur oedd fel hyn :—

Geirva Tafod Cymraeg : hoc est, Vocabularium Linguæ Gomeritanæ, sive vocum antiquitus Britannicarum ferme omnium, una cum Latinis quibus explicantur, Commentariolum per Henricum Salesbury. Cui accessit ejusdem Linguæ Grammatica ab eodem authore olim edita, jame denuo recognita, ad linam revocata, et pluribus locis adaucte, cum rerum et locorum insignium locupletissimo Indice.

Dywedir i'r Geirlyfr hwn fyned yn anorphenol i law y Dr. Davies, o Fallwyd, ac iddo wneud defnydd mawr o hono yn ei Eiriadur Cymraeg a Lladin.¹

M. KYFFIN, neu fel y gelwir ef yn gyffredin, MORUS CYFFIN, oedd un o brifawduron enwocaf Cymru ; ac ystyrir ei waith gan feirniaid galluocaf ein cenedl, ym mysg y cyfansoddiadau perffeithiaf o ran geirweddiad a chystrawen a gyhoeddwyd yn yr Iaith Gymraeg. Ail fab ydoedd Morus i Richard Cyffin o'r Glasgoed, yn Llansilin, sir Ddinbych. Ni fynegir pa bryd y ganed ef, na pha bryd y bu farw ; ond y mae yn eglur ei fod yn ei flodau yn y fl. 1595. Od oedd yn 40 oed y pryd hyny, ganwyd ef yn y fl. 1555 ; ac od oedd yn 70 oed pan fu farw, dygwyddodd hyny yn y fl. 1625. Ni wyddys chwaith ym mha ysgolion neu golegau y cafodd ei ddysgeidiaeth ; ond y mae'n eglur wrth ei ymadroddion ef ei hun, fel y ceir gweled yn ebrwydd, ei fod yn feistr mewn saith neu wyth o ieithoedd. Yr unig lyfr a gyhoeddwyd o'i waith yw y canlynol :—

¹ Williams's Em. Welshm., p. 464 ; Llyfr. y Cymry, t. 68--9.

Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr : lle y ceir gweled, a gwybod, dosparth gwir Grefydd Crist, ac anghywirdeb Crefydd Eglwys Rhufain : Angenrheidiol i bawb ei ddeallid, a madws i ddynion ei ddyscu, o ran arwain eu bucheddau yn y byd, fel y cafont fywyd tragwyddol yn y byd a ddaw. Wedi ei gyfeithu o Ladin, yn Gymraeg, drwy waith M. KYFFIN.

Er bod yr "Annerch at yr howddgar ddarlledd Cristionogawl," wedi ei amseru gan M. Kyffin ei hun fel hyn :—"O dref *Lunden* ym-Mis *Hydref*. 1594. M. K.;" eto, dywed "Charles Edwardes," yn "At y Darlledd" sydd o flaen yr ail argraffiad, mai "yn y flwy. 1595" y cyhoeddwyd ef. Enwad-ddalen yr ail argraffiad sydd fel hyn :—

Dadseiniad Meibion y Daran. Sef ail-printiad o lyfr Escob JUEL a elwir Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr ; Ac o Epistol yr Escob DAVIES at y Cemburu.

An Echo of the Sons of Thunder. Being a second impression of Bishop JUEL'S Apologie, and of Bishop DAVIES his Epistle, in the British tongue.

Nescio qua Natale dulcedino cunctos Ducit, & immemores non sinit esse sui.

Printiedig yn Rhydychen gan W. H. ac a werthir gan lyfrwyr Gwrecsam, a Llanfyllin, a marsiandwyr Pen y bont ar ogwr. 1671.

Gyda golwg ar Gymraeg y traethawd rhagorol hwn, dywed y cyfeithydd dysgedig ei hun, yn ei "Annerch at yr howddgar Ddarlledd Cristionogawl," fel hyn :—

Mi a dybiais yn oref adel heibio'r hen eiriau Cymreig yr rhai ydynt wedi tyfu allan o gydnabod a chyd-arfer y cyffredin, ag a ddewisais y geiriau howssaf, rhwyddaf, a sathredicca 'g allwn, i wneuthyr ffordd yr ymadrodd yn rhydd ag yn ddirwystus i'r sawl ni wyddant ond y gymraeg arferedig. Eithr am ryw air angenrheidiol, yr hwn ni ellid dangos mo sylwedd ei rym, na synnwyr ei arwyddocâd yn gymraeg, e ddarfu i mi yn-ôl arfer yr iaith *Saesonaeg*, *Ffrangeg*, iaith *Itali*, iaith *Spaen*, a bagad o ieithoedd eraill, gymryd y cyfryw air o'r *Groeg*, neu o'r *Lladin*, yn y modd y mae'n gynefin gan mwyaf ymhôb gwlad yng-Hred er ys-talm o amser. Nid oes nêmwyr o'r fath eiriau ; ag o'r rhai rheitaf di a gei hysbysrwydd a deonglad ar eu penneu eu hun, ar ôl diwedd hyn o Rag-ddoediad. Er maint fu fy ngofal am myfyrdod yn hyn o beth, etto, mi a wna gyfri gael fy marnu a beio arnaf gan ryw fath a'r goeg ddynion, y rhai a graffiant ar ymbell air ymma ag accw, ag a ddoedant yn y fan, wele, geiriau seisnigaidd a geiriau lldingaidd yw rhain, yn dwyno'r gymraec : f' ateb i'r rheini ydyw'r ddihareb *Ni Wyr, ni Welodd, ni Ddysc*. Druain gwerin, ychydig a wyddant, llai a welsant, ag nid gwiw son am ddyscu iddynt. Myfi a faddeua i'r rhai hyn eu hanwybodaeth a'u ffolineb, ag adawaf i rai eraill chwerthin am eu penneu. Hawdd yw gwybod am ryw eiriau Seisnig, nad oes, ag na bu er ioed eiriau cymreig iw cael ; a hefyd may geiriau yn dylod o'r *Ffrangeg* yw'r rhan fwyaf o'r rhai y mae'n hwy yn tybied eu bod yn seisnigaidd. Ag am y geiriau lldingaidd, pwy nis gwyr nad yw'r iaith Gymraec yn ei herwydd, ddim amgen, onid hanner lldin drwyddi. Mi' allwn pe bae gennyf hamdden wneuthyr llyfr digon ei faint o'r geirieu cymreic arferedig, a fenthycciwyd nid yn vniig o'r *Lladin* a'r *Ffrangeg*, eithr o iaith *Itali*, ag iaith *Spaen* hefyd : heb law 'r *dafod Roeg*, ac *Ebrw*, a'r cyfryw. Rhyw rai di-ddysc di-synwyr, a ddoedant ddarfod i'r Ieithoedd hynny fenthyccio gan y Gymraeg, ag nid yr iaith Gymraeg genthyn-nhwy.

Cyhoeddwyd y trydydd argraffiad o'r gwaith rhagorol hwn yn y Bala, yn y fl. 1808, gan y Parch. Thomas Charles ; a'r

pedwerydd argraffiad yn Llundain, yn y fl. 1849, gan y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol. Cyfansoddwyd y gwaith ardderchog hwn yn Lladin, gan y Dr. John Jewel, esgob Salisbury (Caer-caradog); a chyhoeddwyd ef y tro cyntaf yn y fl. 1562, wrth yr enw "*Apologia Ecclesiae Anglicanae*." Dywedir i'r llyfr hwn wneud mwy o les i achos y Diwygiad Protestanaidd, yn y gwahanol wledydd y cyfieithwyd ef i'w hieithoedd, nag unrhyw waith arall a gyhoeddwyd yn yr oes honno; ac nid ydyw eto allan o amser. Teilynga y cyfieithiad Cymraeg gael ei ddarllen a'i fyfyrion gan bob Cymro, nid yn unig o herwydd rhagoroldeb ei egwyddorion Protestanaidd, ond hefyd o blegid purdeb Cymreig ei arddull a'i eirwediad ystwyth a thelediwr. Y mae'n wir fod llythraeth amryw o'i eiriau wedi myned allan o arfer erbyn hyn; ond y mae, hyd yn oed yn hynny, yn rhagori yn fawr ar bob llyfr Cymraeg a gyhoeddwyd o'i flaen, ond Bibl y Dr. Morgan yn unig.

Dengys "Annerch" M. Kyffin ei fod yn dra awyddus am droi y Salmau ar gân, pe cawsai hamdden. Dyma fel y dywed ar y pwngc yma:—

Gwaith rheidiol iawn fydde troi'r *Psalmeu* i gynghanedd Gymraeg, nid i gânghanedd Englyn, nag Owdl, na Chowydd, nag i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly ni ellir byth troi na'r *Psalmeu*, na dim arall yn gywir.¹ Eithr i'r fath fesur a thôn canghaneidd ag sydd gymeradwy ymhôb gwlad, a ddiwygwyd drwy dderbyniad discleirdeb yr Efengel...Pette gennyf y seibiant a'r hamdden sydd gan lawer, cyntaf peth, a chwannocca poen a gymerwn i arnaf, fydde, tueddu at hyn o waith, ar ôl cyd-siarad a dysgedigion Cymry, ynghylch pa ddull a math ar gynghanedd, a debygid oref a chymessuraf i hyn o Dduwioldeb.

Nid ymddengys i'r enwog M. Kyffin fyth gael "y seibiant a'r hamdden" a ddymunai at y gorchwyl yma, nac at ddim Cymraeg arall, ond y "Deffyniad Ffydd," a ysgrifennodd mor odidog.²

HENRI PERRI oedd Gymreigydd manwl arall, a chydoeswr â Morus Cyffin. Brodor o sir Fflint ydoedd Perri; a disgynai o hen deulu parchus a honnent eu bod yn disgyn o Ednowain

¹ Dywed Edmunt Prys syniad tebyg iawn i hyn o flaen ei gyfieithiad ef o'r Salmau; a dda y gwyddai am syniad M. KYFFIN. Gwyddys hefyd mor fethedig, fel y crybwyllwyd o'r blaen, a fu ymgais Gwilym Ganoldref, trwy droi'r Salmau i "cynghanedd Englyn, Owdl, a Chowydd."

² Williams's Em. Welshm. p. 270; Lyfr y Cymry, t. 70.

Bendew, o Lys Coed y Mynydd, Tegeingl, cyff un o Bymtheg Llwyth Gwynedd.¹ Ni wyddys pa bryd y ganwyd ef; ond bu farw yn y fl. 1617; a gellir casglu wrth yr aml ddyrchafiadau eglwysig a gafodd, y cyrhaeddodd oedran teg.² Od oedd efe yn 70 oed pan yn marw, ganwyd ef o gylch y fl. 1547. Gorphenodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.D. yn y fl. 1597; a gwnaed ef yn Gapelwr Syr Richard Bwlkeley, Beaumaris, Mon. Cafodd berigloraeth Rhosgolyn, Mon, yn y fl. 1601; ac yn y fl. 1606, rhoddwyd perigloraeth Trefdraeth iddo yn yr un sir; a rhodd yntau Rosgolyn i fynu. Gwnaed ef yn Ganon Eglwys Gadeiriol Bangor yn y fl. 1612; ac yn y fl. 1613, cafodd berigloraeth, Llanfachraith, Mon. Yr unig lyfr Cymraeg a ysgrifennodd, hyd y gwyddys, oedd y gwaith canlynol:—

Egluryn Phraethineb, sef Dosparth ar Retoreg, un o'r saith gelbhydhyd yn dycsu lluniaeth ymadroth a'i pherthynasau. A ddechreuwyd gan Mr. William Salesbury, a anghwanegwyd ac a orphenwyd gan Mr. Henri Perri, drwy draul Syr Sion Salesbury o Leweni Sir Ddinbych. Printiedig gan Ioan Dantes, yn Llundin. 1595.³

Ymddengys wrth y llythyaeth yna mai yn orgraff ansathredig Ioan Dafydd Rhys yr ysgrifennwyd yr argraffiad cyntaf o'r gwaith hwn; ac nid llawer mwy sathredig yw orgraff yr ail argraffiad, a gyhoeddwyd dan olygiad y Dr. Owen Pughe, enwad-ddalen yr hwn sydd fel y canlyn:—

Rhetoreg neu Rheitheg, a ddechreuwyd gan y Mr. Wiliam Salisbury, a anghwanegwyd ac a orphenwyd gan Mr. Henri Perri, trwy draul Sir Sion Salesbury o Leweni yn Sir Ddinbych, 1580.

Egluryn Fraethineb, sef Dosparth ar Retoreg, un o'r saith gelyyddyd, yn dycsu lluniaeth ymadrawd a'i pherthynasau.

Argraffedig gan Ioan Dantes yn Llundain, 1595—ac a ailargraffwyd gan S. Rousseau yn Llundin, 1807.

Ysgrifennodd J. W. Pritchard, Plas y Brain, Mon, ar dudalen olaf y copi o'r argraffiad hwn sydd genyf fi, fel hyn:—

Y mae llawer iawn o bethau yn ddyffgiol yn yr argraffiad hwn, wrth fel yr oedd yn yr argraffiad cyntaf.—J. W. P.

Cyhoeddwyd yr argraffiad diffygiol hwn drachefn yn Llanrwst, yn y fl. 1829, yn yr orgraff gyffredin. Gresyn na cheid

¹ Y Greal, t. 157. Register, vol. i., p. 156.

² Humphreys's Add. to A. Wood's Athen. Oxon. in the Cambr.

³ Llyfr. y Cymry, t. 70.

argraffiad cywir yn ol yr argraffiad cyntaf o'r gwaith cywrain hwn.

HUW LEWYS, o Landdeiniolen, Sir Gaernarfon, oedd gyfieithydd y llyfr nesaf a ddaw dan sylw. Ni wyddys ddim am y gŵr hwn, ond ei fod yn ei flodau yn y fl. 1595. Ymddengys wrth ddalen enw y llyfr, a'r difyniadau a roddir ar ol yr enw gan Olygydd y Llyfryddiaeth, bod "H. L." yn Gymreigydd go wych, ac ystyried ei amser. Fel y canlyn y rhed y ddalen enwol hirfaith:—

Perl mewn Adfyd, neu Perl ysprydawl, gwerthfawrocaf, yn dyscu i bôb dyn garu, a chosleidio y groes, meis peth hyfryd angenrheidiawl i'r enaid, pa gonffordd sy yw gael o honi, ple, ac ymha fodd, y dylid ceisiau diddanwch, a chymorth ym hob adfyd : a thrachefn, pa wedd y dyle bawb i ymddwyn i hunain mewn blinder, yn ol gair duw, a escrifennwyd yn gyntaf mewn Dwitich gann bregethwr dyscedig Otho Wermulerus, ac a droed i'r Saesonaeg gan D. Miles Coverdal, ac yr awrhon yn hwyr i'r Gembraeg gann H. L.

Joseph Barnes a'i printiodd yn Rhydychen. 1595. [12]plyg.]

Y mae'n eglur fod y llyfr wrth law Gol. y *Llyfryddiaeth*, yr hwn a ddywed,—“Heb law y llythyr cyflwyn at y Dr. Vaughan (Esgob Llundain wedi hyny), yr hwn a gynnwys 9 tudalen, ceir yn y rhagarweiniad i'r gwaith wyth o Englynion ‘At yr unrhyw wr,’ y rhai a lofnodir ‘Hy. Lewys;’ ac anerch o 9 tudalen ‘Ir Darllenydd Chrisnogaid rhad a thangneddyf Ynghrist.’ Y mae oll, ond yr arweinolion hyn, wedi ei argraffu mewn llythyren ddu led brydferth ; a gwna yr awdur ar ddiwedd ei anerch ‘Ir Darllennydd,’ y sylw canlynol o barth i'r llythyaeth:—‘Na feia am nad oes (y) ymhob mann o flaen (n) ne (r) lle y dyle fod, canys ni alle y printiwr wneuthur amgen, am nad oedd ganthaw cymaint ac oedd angenrheidiol o'r llythyrennae hynny : ac felly cymer y (d') yn lle y (dd) ac (l) yn lle (ll) ac os damweiniodd i vn llythyren ac i air fod allan oi le, meddwl mae Saeson ai printiodd, 'rhai oeddynt anghyfarwydd yn yr iaith. cymer bob peth mewn rhan dda, a thi am anogi i, ac eraill hefyd, i gymeryd poen mewn pethau eraill o hyn allan, drosot. yn iach.’”

Y llyfr Cymraeg-diweddaf, hyd y gwyddys, a gyhoeddwyd yn ystod y ganrif hon ydoedd yr un canlynol:—

Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, ac eraill Gynneddfau a Ceremonïau yn Eglwys Loegr.

- Printiedig yn Llundain gan Ddeputïaid Christopher Barker, Printiwr i ardderchoccaf Fawrhydi y Frenhines. 1699.¹

COFRES O ENWAU, AMSEROEDD, A CHRYBWYLLIAD AM
GYFANSODDIADAU BEIRDD A LLENORION YR 16FED GANRIF.

- 1500 Mathew Broomfield, ysgr.
 1500 Dafydd ap Ifan Llwyd, ysgr.
 1500 Dafydd Gorlech, ysgr.
 1500 Lewis Trefnant, 1 gân argr.
 1500—1530 Gutyn Cyriog, ysgr.
 1500—1530 Sion Ceri, 20 o ganau ysgr.
 1500—1530 Hywel ap Llewelyn ab Meredydd, ysgr.
 1500—1530 Ieuan ab Gruffydd Leiaf, ysgr.
 1500—1530 Gruffydd Llwyd ap Ifan, ysgr.
 1500—1540 Gruffydd ap Tudur ap Hywel, ysgr.
 1500—1540 Rhys ap Hywel Hen.
 1500—1540 Dafydd ap Phylip Rhys, ysgr.
 1500—1540 Ieuan ap Hywel ap Llewelyn Fychan.
 1500—1540 Ieuan Delyniol, ysgr.
 1500—1540 Llywelyn ap Hywel ap Llywelyn ap Gronw, ysgr.
 1500—1560 Rhys ap Cynfarth.
 1500—1560 Gruffydd ap Hywel ap Tudur.
 1500—1590 Bedo Hafesp.
 1500—1590 Rhydderch ap Sion, ysgr.
 1501—1581 Richard Davies, D.D., argr.
 1510—1540 Ieuan ap Rhydderch ap Llywelyn.
 1510—1540 Rhisiart Fynglwyd, ysgr.
 1515—1550 Robert Perrot, cerddor.
 1520 Syr Sion Teg, ysgr.
 1520—1550 Sion Brwynog, 2 gân argr. ; 70 ysgr.
 1520—1550 Gruffydd Hiraethog, 4 cân argr. ; 30 ysgr.
 1520—1550 Dafydd ab Belyn.
 1520—1550 Meredydd ab Dafydd Fychan.

¹ Dodwyd 1699 yma, trwy gamagraff, yn lle 1599.—Llyfr. y Cymry, t. 72.

- 1520—1550 Morus ap Huw ap Tudur, ysgr.
 1520—1550 Sion Mawddwy, argr. ac ysgr.
 1520—1550 Rhys ab Gwilym Tomas.
 1520—1560 Dafydd Benwyn, argr. ac ysgr.
 1520—1560 Ieuan ap Hwlcyn.
 1520—1560 Gruffydd Nanmor, ysgr.
 1520—1560 Tomas Fychan Castell Bychwyn.
 1520—1580 Tomas Llywelyn o Regoes, ysgr.
 1520—1580 Meuryg Dafydd, argr. ac ysgr.
 1520—1601 Llywelyn Sion, argr. ac ysgr.
 1520—1601 Gabriel Goodman, D.D.
 1521—1591 Tomas Huet, argr.
 1523—1593 Wiliam Salesbury, argr. ac ysgr.
 1527—1568 Humphrey Llwyd, argr.
 1530 Harri ap Rhys ab Gwilym, ysgr.
 1530 Ralf ap Robert, ysgr.
 1530 Gronw Wiliam, ysgr.
 1530—1560 Rhys Cain, argr. ac ysgr.
 1530—1560 Hywel ap Syr Mathew, ysgr.
 1530—1560 Syr Owain ab Gwilym, ysgr.
 1530—1570 Ieuan Bedo Gwyn, ysgr.
 1530—1570 Ieuan Gwynionydd, ysgr.
 1530—1580 Wiliam Cynwal, argr. ac ysgr.
 1530—1587 Wiliam Lleyn (Llŷn), argr. ac ysgr.
 1530—1590 Hugh Belot, D.D.
 1530—1600 Sion Tudur, argr. ac ysgr.
 1530—1600 William Hughes, D.D.
 1530—1601 Simwnt Fychan, argr. ac ysgr.
 1534—1609 Ioan Dafydd Rhys, argr.
 1535—1620 Huw Llwyd o Gynfal, ysgr.
 1536—1600 Gwilym Ganoldref, argr.
 1537—1607 Richard Fychan, D.D.
 1538—1610 Tomas Prys (Thomas Price), argr. ac ysgr.
 1540—1570 Dafydd Llwyd Hyppynt.
 1540—1570 Dinga Moel ap Llywelyn Chwith.
 1540—1570 Rhys Gwinionydd.
 1540—1570 Huw Arwystl, ysgr.

- 1540—1570 Hywel Ddu
 * 1540—1570 Hywel Eurdrem, ysgr.
 1540—1580 Syr Ifan o Garno, ysgr.
 1540—1570 Ieuan Fychan ap Ieuan ap Adda
 1540—1570 Ieuan Gruffydd Leiaf, ysgr.
 1540—1570 Lewis ap Ednyfed
 1540—1570 Llywelyn ap Hwlcyn
 1540—1570 Morus ap Ieuan ap Einion, ysgr.
 1540—1570 Owain ab Dafydd, ysgr.
 1540—1570 Syr Dafydd Owain
 1540—1570 Rhisiart ap Owain ap Dabeinion, ysgr.
 1540—1570 Rhys Tren, ysgr.
 1540—1570 Morus ap Llywelyn, ysgr.
 1540—1580 Syr Ifan o Garno, ysgr.
 1540—1580 Rhisiart Iorwerth, Trioedd ysgr.
 1540—1580 Huw Lley, ysgr.
 1540—1580 Morgan Talai
 1540—1580 Rhys ap Einion
 1540—1580 Siancyn ap Einion
 1540—1580 Tomas Gwynedd, ysgr.
 1540—1620 Gruffydd Roberts, argr.
 1541—1580 Syr John Prys, argr.
 1541—1621 Edmwnt Prys, argr. ac ysgr.
 1547—1604 William Morgan, D.D., argr.
 1547—1617 Henri Perri, argr.
 1548—1618 Rhosier Smyth, argr.
 1550 Edward Brwynllys
 1550 Rhys Brychan
 1550 Cadwaladr ap Rhys Trefnant
 1550 Dafydd ap Rhys o Fenni
 1550 Dafydd Alaw
 1550 John Gruffydd
 1550—1560 Sion Ceri, ysgr,
 1550—1560 Llywelyn ap Hywel ap Llywelyn ap Gronw
 1550—1560 Gruffydd Dwn, argr.
 1550—1560 Rhys ap Dafydd Llwyd ap Llywelyn Llygliw, ysgr.
 1550—1570 Ieuan Feudwy

- 1550—1580 Lewis Brwynog
 1550—1580 Gutyn Gethin
 1550—1580 Huw Conwy
 1550—1580 Henry Dwn
 1550—1580 Gronwy Foel
 1550—1580 Lewis Menai, ysgr.
 1550—1580 Huw Penal, ysgr.
 1550—1580 Lewis Trefnant, ysgr.
 1550—1590 Ieuan ap Llywelyn ap Mali
 1550—1590 Owain Ifan (Owain Gwynedd) argr. ac ysgr.
 1550—1590 Wiliam Penllyn, ysgr.
 1550—1590 Llywelyn ab Gruffydd ap Gwilym
 1550—1590 Tomas Wiliam Hywel
 1550—1600 Huw ap Gwilym, ysgr.
 1550—1600 Morus Llela
 1552—1598 Dafydd Powel, D.D., argr.
 1555—1620 M. Kyffin (Morus Cyffin) argr.
 1558—1600 Tomas Prys o Blas Iolyn, ysgr.
 1560 Dafydd Llwyd Mathew
 1560—1600 Huw Bangor
 1560—1600 Huw Llwyd o Henblas
 1560—1600 Huw Dwn, ysgr.
 1560—1580 Morgan ap Hywel ap Tudur, ysgr.
 1560—1590 Gruffydd ap Ieuan ap Rhys
 1560—1590 Gruffydd ap Llywelyn Llwyd, ysgr.
 1560—1590 Ieuan Ilar
 1560—1590 Ieuan Tew Ieuangc, ysgr.
 1560—1590 Dafydd Jones Llanfair, argr. ac ysgr.
 1560—1590 Morus Benwyn, ysgr.
 1560—1590 Morus Llwyd ap Wiliam, ysgr.
 1560—1600 Gruffydd ap Rhydderch Goch, ysgr.
 1560—1600 Guto ap Ifan Llydan
 1560—1600 Rhisiart Cynwal, argr. ac ysgr.
 1560—1600 Gwilym Gwyn
 1560—1600 Harri Ddu
 1560—1600 Ieuan Llwyd, argr. ac ysgr.
 1560—1600 Gruffydd Phylip, argr. ac ysgr.

AA

- 1560—1600 Hywel ab Dafydd Llwyd, ysgr.
 1560—1600 Ieuan Madog Dafydd, ysgr.
 1560—1600 Lewis ap Hywel, ysgr.
 1560—1600 Syr Sion Owain, ysgr.
 1560—1600 Rhys Gele, ysgr.
 1560—1600 Rhys ap Ednyfed
 1560—1600 Rhys Tomas ab Dafydd ap Hywel
 1560—1620 Richard Parry, D.D., argr.
 1560—1625 Wiliam Barlow
 1561—1593 Henry Salesbury, argr. ac ysgr.
 1562—1590 Wiliam Blethyn
 1564 Edward ap Ralf, ysgr.
 1565—1573 Lewis Evans
 1565—1644 Sion Phylip, argr. ac ysgr.
 1568 Syr Huw Pennant, ysgr.
 1568 Lewis Edward (Lewis Mon), ysgr.
 1569—1644 Rhys Prichard (Llanymddyfri), argr.
 1570 Gwilym Hir, Trioedd argr.
 1570—1580 Gruffydd Penllyn.
 1570—1600 Lewis Conwy.
 1570—1600 Huw Dyfi
 1570—1600 Huw Ufudd
 1570—1600 Hywel ap Einion
 1570—1600 Hywel Gethin, ysgr.
 1570—1600 Ieuan Gyfanedd
 1570—1600 Ieuan Llafar
 1570—1600 Lewis ap Ifan ap Siancyn
 1570—1600 Huw Llifon
 1570—1600 Owain ap Ieuan ap Rhys, ysgr.
 1570—1600 Siams ap Harri, ysgr.
 1570—1600 Sion ap Huw Conwy, ysgr.
 1570—1700 Sion ap Meredydd ap Hywel
 1570—1600 Huw Trygarn
 1570—1600 Rhobert ap Ithel ap Llywelyn
 1570—1600 Hywel ab Dafydd ap Llywelyn ab Madog
 1570—1642 William Wroth, argr. ac ysgr.
 1570—1644 John Davies o Fallwyd (D.D.), argr.

- 1571—1636 James Perrot, argr.
 1572 Hopcin Twm Phylip, Trioedd argr.
 1573—1606 Tomas ap Wiliam, Trefriw, argr. ac ysgr.
 1577—1600 Syr Huw Roberts Lèn, argr. ac ysgr.
 1580 Dafydd Llyfni
 1580 Dafydd Pennant, ysgr.
 1580 Rhys Cain
 1580—1600 Lewis Daron
 1580—1614 Lewis Dwn, argr. ac ysgr.
 1580—1620 Huw Ceiriog
 1580—1620 Sion Clywedog
 1580—1620 Elis Cynfrig, ysgr.
 1580—1620 Gwilym ap Hywel.
 1580—1620 Ieuan ap Rhys Morus
 1580—1620 Lewis Gig Eidion (Lang Lewis), ysgr.
 1580—1620 Syr Lewis Mawddwy, ysgr.
 1580—1620 Morgan ap Huw Lewis, ysgr.
 1580—1620 Morus Dafydd, ysgr.
 1580—1620 Huw Phylip
 1580—1620 Watcin Powel
 1580—1620 Wiliam Powel
 1580—1620 Lewis Powel
 1580—1620 Rhydderch ap Rhisiart, ysgr.
 1580—1620 Sion ap Hywel Gwyn, argr. ac ysgr.
 1580—1620 Dafydd Edward o Fargam, argr. ac ysgr.
 1580—1620 Sion Caerau Hen
 1580—1620 Tomas Lewis Ieuaf, ysgr.
 1580—1620 Twm Tegid
 1580—1622 John Owen (Audoenes)
 1580—1640 Rhys Wyn ap Cadwaladr, ysgr.
 1580—1681 Edward Dafydd o Fargam, argr. ac ysgr.
 1584—1669 Wiliam Phylip, argr. ac ysgr.
 1585—1654 Robert Llwyd, Ficar y Waun, argr.
 1588—1685 Edward Lhwyd, argr. ac ysgr.
 1590 Elis ap Ifan ap Rhicert
 1590—1620 Twm Sion Cati (Thos. Jones, Tregaron), ysgr.
 1590—1630 Dafydd ab Nicolas

- 1590—1630 Tomas Lewis y Llechau, argr. ac ysgr.
 1590—1630 Sion Morgan
 1590—1630 Hopcin Thomas Phylip, ysgr.
 1590—1620 Hywel Siancyn
 1590—1630 Rhys Gruffydd
 1590—1630 Robert Dyfi, ysgr.
 1590—1630 Sion ap Robert ap Rhys ap Hywel, ysgr.
 1590—1630 Tomas Brwynllys, ysgr.
 1590—1630 Syr Rowland Williams, ysgr.
 1590—1637 Huw Machno, ysgr.
 1590—1640 Cadwaladr Cesail
 1590—1640 John Jones o'r Gelli Lyfdy, ysgr.
 1592—1607 Gabriel Powel, argr. ac ysgr.
 1592—1660 Robert Fychan o'r Hengwrt, argr. ac ysgr.
 1594—1666 James Powel
 1595 Huw Lewys, argr.

PENNOD XV.

HANES LLENYDDIAETH Y RHAN GYNTAF O'R EILFED GANRIF AR BYMTHYG,
 SEF YR HANNER CANRIF OLAF O GYFNOD Y TESTYN.

YR oedd cyfnewidiad pwysig wedi cymeryd lle gyda golwg ar amgylchiadau Beirdd a Cherdorion erbyn dechreu y ganrif hon. Ymddengys bod boneddigion Cymru, erbyn hyny, wedi myned mor Scisnig yn eu harferion, fel nad oedd neb o honynt yn cadw na "Bardd Teulu" na "Phencerdd" yn eu preswylfeydd: o leiaf, methais i ganfod cymmaint ag un yn gwneuthur hyny. Hefyd, gellir casglu bod cyfraith, neu "Lythyr Cynnwys" y Frenines Elizabeth i swyddogion Eisteddfod Caerwys, yn y fl. 1568, wedi llwyr ddiddymu yr arfer o glera, oedd mor ennillgar cyn hyny i'r beirdd a'r cerddorion; fel yr oeddynt bellach yn gorfod "canu ar eu bwyd eu hun," ys dywed hen

ysgrif yn y *Greal*; yr hyn a gyfyngodd lenyddiaeth i'r dosparth annibynol llên a lleyg, gan mwyaf, fel y ceir gweled wrth fyned ym mlaen.

Heb law hyny, ni chynnaliwyd Eisteddfod o fath yn y byd byth yng Ngwynedd na Phowys ar ol yr Eisteddfod grybwyll-edig yng Nghaerwys, hyd ym mhen 148 mlynedd ar ol terfyn olaf cyfnod y testyn, sef yn y fl. 1798, pan y cynnaliwyd math ar Eisteddfod yng Nghaerwys, eto, dan nawdd Owain Myfyr a Chymdeithas Gwyneddigion Llundain, fel y crybwyllwyd.

Dywedir y cynnaliwyd un cyfarfod llenyddol bychan, a elwid "Cadair Morganwg" yn ystod yr hanner cyntaf o'r ganrif hon, sef yn y fl. 1620; ond ni fynegir ym mha le y cynnaliwyd y "Gadair" honno, na pha orchwyl a wnaed ynddi. Dywedir mai Watcin Powel oedd y "llywydd" neu yr "athraw" ynddi; ac mai y dysgyblion, neu yr "awenyddion," yn ol y Dr. Pughe, oedd Dafydd Edward, Edward Dafydd, a Dafydd ab Dafydd, Mathew. Felly, *pedwar* oedd yr holl gynulleidfa yn y "Gadair" honno!

Yr holl hanes a allaf gael am y WATCIN POWEL hwn ydyw mai efe oedd unig ddysgybl Meirig Dafydd yng Nghadair Morganwg yn y fl. 1550; yn yr hon nid oedd, neb ond hwynt-hwy ill dau; ei fod yn un o chwe dysgybl Llywelyn Sion yn y Gadair a gynnaliwyd yn y fl. 1558; a'i fod yn Llywydd yr un Gadair, fel y crybwyllwyd, yn y fl. 1620. Nid ydys yn gwybod bod dim o'i waith wedi ei drosglwyddo i'r oesau hyn.¹ Tymor lled dywyll ar lenyddiaeth Gymreig, mewn gwirionedd, oedd yr hanner canrif yma ar ei hyd; ond tywyllwch ydoedd cyn codiad haul yn yr hanner nesaf o'r ganrif.

Y llyfr Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd yn y ganrif hon, yn ol *Llyfryddiaeth y Cymry*, oedd yr un canlynol:—

Darmerth, neu Arlwy Gweddi, a ddychymygywd er mawr ddyrchafiad Duw-ioldeb, ac i chwaneu Gwybodaeth ac Awydd yr annysgedig ewyllysgar i iawn wasanaethu y gwir Dduw. Gan Robert Holland, gweinidog gair Duw, a Pherson Llan Ddeferowg yn sir Gaerfyrddin.² [Rhydychain. 4plyg].

Nid oes dim amseriad yng nglŷn â'r llyfr hwn; ond Gwilym Lleyan a'i dododd dan y fl. 1600; a dichon fod ganddo ef awd-

¹ Jones's Hist. Wales, p. 225. ² Llyfr. y Cymry, t. 72.

urdod dros hyny, er nad ydyw yn ei gofnodi. Methais ganfod dim o hanes y ROBERT HOLLAND hwn yn unman. Yr unig Robert Holland a grybwyllir gan y Bywgraffwyr, y naill ar ol y llall, yw Robert Holland Ysw., o Ddinbych, tad un Hugh Holland, awdur amryw lyfrau Seisnig, yr hwn oedd yn ei flodau yn y fl. 1589, ac a fu farw yn y fl. 1633.¹

Ymddengys mai brodor o Sir Gaerfyrddin oedd awdur y "Darmerth"; ac mai yn y lle a elwir yn awr Llanddowror yr oedd yn gweinidogaethu; ac y mae llythyaeth a geirweddiad enw ei lyfr yn arwyddo ei fod yn Gymreigydd medrus ac ystwyth. Y mae chwedl Ladin ddigrifol yn *Liber Landavensis*, t. 120-1, wedi ei chyfieithu i'r Saesneg yn t. 367-8, yng nghylch enw Llanddowror, yr hon chwedl a Gymreigiwyd gan Olygydd y *Llyfryddiaeth* fel y canlyn:—

Yr oedd yn byw yn ardal Daugleddyf ym Mhenfro, yn amser Teilo Sant, wr o'r enw Cynwain, yr hwn oedd yn hanu o deulu pendefigaidd, ond yr oedd wedi syrthio i ddirfawr angen a thlodi, o herwydd llucogrydd ei blant, o'r rhai y genid iddo un bob blwyddyn. Gwedi ymgynghori o'r tad helbulus â Sant Teilo, yng nghylch ei deulu nifeiriol, a derbyn ei gynghor, ond heb ei ddilyn ond mewn rhan yn unig, penderfynodd fodd y plant, neu eu rhoi i fyny i'r Sant, os gofalai ef am danynt. 'Fel yr oedd Sant Teilo un tro yn dyfod heibio ar ddamwain y ffordd hōno, efe a ganfu y tad yn Rhyd Syndedig, ar lan yr Afon Taf, o dan gynhyrfaid y diafol, yn suddo y plant o un i un yn yr afon i'w boddi; o achos ei dlodi a'i angenoctyd. Pan welodd Sant Teilo y fath anfadwaith, derbyniodd hwynt oll yn ailyw, ac wedi rhoddi diolch, bedyddiodd hwynt yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Gwedi cymmeryd ymaith y saith mab oddi wrth y tad anffodus, dygodd y sant hwynt i fyny, anfonodd hwynt i astudio llenoriaeth, a gosododd hwynt i fyw ar ei dir ei hun yn Llandeilo [fel y gelwid y fan y pryd hwnaw]; ac felly derbyniodd y lle oddi wrthynt hwy yr enw *Llanddyfrguyr*, o herwydd, o achos eu buchedd grefyddol, nid oedd iddynt un ymborth ond pysgod dyfrol, y rhai, yn ol eu rhifedi hwynt, sef saith, a anfonid iddynt gan Dduw yn feunyddiol, ar gareg yn yr Afon Taf, yr hon, o herwydd hyny, a alwyd Llech y Myneich. A thrachefn, gelwir hwynt *Dyfrguyr*, am eu cael yn y dwfr, eu dianc o'r dwfr, a'u cynnal gan bysgod o'r dwfr. *Dyfrguyr* yn yr iaith Frythonaeg, sydd yn arwyddo *aquatici viri*.

Yn ol y ffluglith yma, yr hon yr ymddengys fod rhyw faint o sail iddi, iawn enw y lle yw *Llanddyfrwyr*, yr hwn yn ddigon hawdd a lygrwyd yn *Llanddowror*. Mewn cyfeiriad at yr un chwedl, sonir am yr lle, mewn man arall o'r llyfr [t. 74], dan yr enw *territorium Aquilantium*, h.y. tiriogaeth y *Dyfrguyr*. Saif Eglwys Llanddowror ar lan yr Afon Taf, oddeutu dwy filltir i'r de-orllewin o Gaerfyrddin, ac ar gyffiniau Swydd Benfro.²

Yr ail lyfr Cymraeg a gyhoeddwyd yn yr adran hon o'r ganrif oedd yr un canlynol:—

Psalamae y Brenhinol Brophvvyd Dafydd, gwedi eu cynghanedhu mewn mesurau cymreig. Gann Gaptan Wiliam Middleton. Yn nesaf y gallodd at fedhwl yr Yspryd glân.

Simon Stafford a Thomas Salisbury a'i printiodh yn Llundon. 1603. [4plyg].

¹ Williams's Em. Welshm., p. 219.

² Llyfr. y Cymry, t. 73.

Gan y gwnaed rhai sylwadau ar y llyfr hwn a'r un canlynol eisoes, eir ym mlaen yn awr heb ond doddi eu henwad-ddail ger bron.

Rhann o Psalmae Dafydd Brophwyd, jvv canu ar ôl y dôn arferedig yn Eglwys Loegr.

Simon Staffordd a'i Printiodd yn Llundun dros T. S. 1603. [4plyg].

Y pedwerydd llyfr Cymraeg a gyhoeddwyd yn y ganrif hon oedd yr un canlynol :—

Pregethau a osodwyd allan trwy awdurdod i'w darllein ymhob Eglwys blwyf a phob capel er adeiladaeth i'r bobl annysgedig. Gwedi eu troi i'r iaith Gymeraeg drwy waith Edward James.

Robert Barker printiwr i odidowgaf fawrhydi y Brenin ai Printiodd yn Llundain. Anno Dom. 1606. [4plyg bychan].

Am EDWARD JAMES, cyfieithydd medrus y gwaith hwn, a elwir yn gyffredin, "Llyfr yr Homiliau," dywed Golygydd *Llyfryddiaeth y Cymry* fel hyn :—

Nid ymddengys fod ar gael ddim o hanes EDWARD JAMES, cyfieithydd bybarch yr Homiliau i iaith y Cymry. Er gwasanaethu o hono ei genedlaeth mor ragorol, nis gwyddys pa le na pha bryd y ganwyd ef, nac y bu farw ; ac nid oes un sicrwydd pa un ai gwr llên ai gwr lleyg ydoedd. Ni cheir mo'i enw mewn un geiriadur bywgraffiadol : ac nid oes un gramadegydd na geirlyfrwr wedi dyfynu cymmaint a llinell o'i waith. Y mae ei gyfieithiad o'r Homiliau yn gyfieithiad rhagorol dros ben, ac yn teilyngu sylw, pe na bai ond er mwyn ei briodwedd wir Gymreig yn unig. A mae lle i farnu, gyda chryn ddilysrwydd, wrth ambell ymadrodd, ffurf rhai geiriau, ac ychydig neillduolion yn yr ieithwedd, mai gwr o'r Deheudir ydoedd y cyfieithydd clodwiw. Saif Edward James ar orsaf uchel fel gwasanaethwr ei gyd-genedl, yn ymyl Gwilym Salsbri, yr Esgob Morgan, a'r Esgob Parri ; ac fel ysgrifennwr Cymraeg dilediaith, nid yw yn ol i un o honynt.¹

Dyna ganmoliaeth uchel gan *ŵr* cwbl gymhwys, fel y *gŵr* pob llenor Cymreig, i ffurfio barn ar yr achos. Cyffelyb eto ydyw tystiolaeth y Parch. John Roberts, Tremeirchion, golygydd dysgedig yr ail argraffiad o gyfieithiad Edward James, yr hwn a ddywed fel y canlyn :—

Rhaid i'r golygydd gyfaddef ei fod yn analluog i roddi dim o hanes y cyfieithydd, na'i broffes, eithr ei enw yn unig, EDWARD JAMES, fel yr ymddengys yn enwad-ddalen ei argraffiad ef. Ni bu'r golygydd yn alluog, er pob ymosyniad ac ymchwiliad a wnaeth, i sicrhau pa un a oedd efe yn glerigwr, ac a wnaeth efe'r cyfieithiad dan nawdd ac awdurdod ai peidio. Y mae teilyngdod y cyfieithiad yn arddangos ei fod yn ysgolhaig, cystal ag y mae ei lafur yn brawf o'i aidd dros y grefydd Brotestanaidd ; ac yn rhoddi iddo fythol hawl i fod yng nghymdeithas Enwogion Cymru, y rhai a deilyngant barch oesol eu cydwaladwy. Y mae yn ddilys ddiarnheuw y derbynid ac yr ystyridd y cyfieithiad bob amser fel gwaith

¹ Llyfr. y Cymry, t. 80.

wedi ei gyflawni yn gymmeradwy, fel y gellir casglu oddi wrth y defnydd cyhoeddus a wneid o hono, pan y cyfyngid gweinyddiadau pulpud y cyffredin o'r clerigwyr at ddarllen yr Homiliau.¹

Ond er mor anhyspys ydyw hanes y cyfeithydd celfydd, yr ydys yn gwybod un peth pwysig, diammheuol, am dano ; sef, ei fod yn ei flodau yn y fl. 1606, pan gyhoeddwyd yr Homiliau. Pe tybid ei fod y pryd hwnw yn 50 oed (ac y mae addfedrwydd ei waith yn arwyddo nas gallasai fod nemawr ieuengach ar y pryd), ganwyd ef o gylch y fl. 1556 ; ac felly, yr oedd yn gydoeswr â phrif Gymreigwyr y genedl, y Dr. Morgan, yr Archddiacon Prys, Morus ac Edward Cyffin, Henri Perri, y Dr. Davies o Fallwyd, ac eraill ; ond am amser ei farwolaeth, fel y gwelwyd eisoes, nis gellir cymmaint a dyfalu.

Cyn rhoddi enghraifft o ddull y Cymreigydd galluog yma o gyfeithu, dodir esamp'l o'i ddull yn cyfansoddi, sef ei Ragymadrodd :—

Y mae'r Apostol Paul yn tystiolaethu yn oleu na all neb alw neu weddio ar Dduw heb gredu ynddo, na all neb gredu heb wrando, na neb wrando heb fod rhai a bregetho air Duw iddynt. Am hyny, pan ystoriodd y brenhin ieuangc duwiol Edwary VI. pa mor anaml oedd gwir bregethwyr gair Duw o fewn ei deyrnas ef, y rhai a fedrai addy-gu'r bobl i gredu yn Nuw, i alw arno, ac i gadw ei orchymynion sanctaidd ef, efe a barodd wrth gyngor ei gyngoriaid i w'r duwiol dysgedig, cyfarwydd yngair Duw, gynnull a scrifennu yr Homiliau duwiol yma, allan o'r Ysgrythyrau sanctaidd ; unig ffynnon pob doethineb ; unig ymborth yr eneidiau ; unig dywysog ac arweinydd, a rhinwedd, a duwioldeb ; unig ddiwreiddwydd pob chwyn gwenwynig ; unig wrthladdydd pob anwybodaeth ; ac unig gyferbyn yn erbyn pob athrawiaeth dwyllodrus, yr hon sydd yn tywys i ofer-goel, traws-opiniynau, a delw-addoliad. Yn yr Homiliau hyn y cynhwysir y prif byngciau o'n ffydd ni, ac o'n dyled tu ag at Dduw a'n cymmydogion ; fel y gallai yr Ofleiriad a'r Curadiaid annysgedig, y rhai ni fedrant yn amgen etto, wrth adrodd, datgan, a darllain yr Homiliau hyn, bregethu i'w pobl wir athrawiaeth ; ac fel y gallai pawb o'r bobl wrth wrando, ddysgu'n union ac yn iawn anrhydeddu ac addoli yr Hollalluog Dduw, a'i wasanaethu yn ddiwyd. Yr Homiliau hyn hefyd, am eu bod mor fuddiol, a orchymynodd yr ardderchog Frenhines Elizabeth eu hargraphu eilwaith [yn Saesneg, bid sicr] ; a hi a roddodd yr un gorchymyn am eu darllain hwy ag a roisai ei brawd duwiol yn y blaen. Ac megis na ellir dywedyd bod ar y ddaear erioed Dywysog a ddangosodd ymhob peth arall fwy o zel Dduw, ac o ofal dros ei ddeiliaid, na'r Brenhin godidog ardderchog duwiol James ein Grususaf Frenhin a'n Llywydd ; felly yn y peth hyn ni ddangosodd efe ddim llai o'r fath zel a gofal nag a ddangosasai y Brenhin Edward VI. a'r Frenhines Elizabeth, o'i flaen ef. O herwyd yntau trwy gyfraith eglwysig (fel y gellir gweled yn y 46 Canon a wnaeth y Gymmanfa Esgobion ac Eglwyswyr, a gynhaliwyd yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad ef ar Brydain, Ffrainc, a'r Iwerddon, yr hon a gadarnhaodd ei fawrhydi ef â'i awdurdod goruchel brenhinol) a rois orchymyn caled ar fod i bob Person, Ficar, a Churat, ddarllain yr

¹ Hom. argr. 1817, *Advert* p. ix.—Y mae yr argraffiad yma wedi ymgadw yn bur dda, ar y cyfan, at leithwedd Gymreigaidd hen argraffiad 1606, fel y ceir gweled wrth gymharu difnydd o'r nall a'r llall ar gyfer eu glydd rhagllaw. Cyhoeddwyd trydydd argraffiad o'r gwaith dan olygiad y Parch. Morris Williams (Nicander), yn y Bala, yn y fl. 1847 ; yr hwn, mewn gwirionedd, sydd gyfeithiad gwahanol, heb feddu ond ychydig o leithwedd rymus a Chymreigaidd y ddau argraffiad blaenorol.

Homiliau hyn bob Sul a Gwyl (o ddiffyg pregeth) ymhob Eglwys Blwyf a Chapel o fewn ei deyrnas ; fel y gallai y rhai ni chlywant lafar pregethwr ond yn anaml, wrth arfer o glywed darllain y pregethau duwiol dysgedig hyn yn fynych ddysgu mewn amser gredu yn Nuw yn union ac yn ffyddlon, galw arno o ddirif ac yn deilwng, gwneuthur y cwbl o'u dyled tu ag at Dduw a'u cymmydogion, ac ymddwyn felly yn y byd hwn yn ol gwybodaeth, fel y caffont fwynhau bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw, trwy ein Iachawdwr Iesu Grist. Etto er nad oedd rheitiach i un wlad wrth y fath gynhorthwy nag i wlad Cymru, am fod pregethwr mor anaml ynddi, ni ewyllysodd Duw i ni gael neb o'r Homiliau hyn na'r fath eraill yn yr iaith Gymraeg, hyd yn amser hyn. Ond wele, y Cymro, hwy yn awr yn dy iaith di dy hun, fel y medrech dithau wrth eu gwrandio eu deall hwy. Duw a wnelo wneuthur i ti fawr lles, ac a'th wnelo dithau yn ddiolchus i Dduw am ei fawr ddaioni. Amen.¹

Weithian, dodir enghraifft fer o'r argraffiad cyntaf a'r ail ar gyfer eu gilydd, fel y gweler y gwahaniaeth rhyngddynt :—

YR ARGRAPHIAD CYNTAF.

1606.

Megis nad yw gwir ystyr yr athrawiaeth ymma : yr ydys yn ein cyfiawnhau ni yn rhâd, heb weithredoedd, neu fe'n cyfiawnhau'r ni trwy ffydd ynghrist yn vnig : nid yw yr ystyr, meddaf, mai'n gorchwyl ni yn credi ynghrist, neu ffydd Grist yr hon sydd ynom ni, sydd yn ein cyfiawnhau ni, ac yn haecddu ini gyfiawnhad (o herwydd ni byddai hynny onid ein cyfrif ein hunain yn gyfiawn drwy ryw weithred neu rinwedd ynom ein hunain). Ond gwir ystyr a meddwl yr athrawiaeth hon, yw, er ein bod ni'n gwrandio gwir air Duw, ac yn ei gredu, er bod ynom ffydd, gobaith, cariad, edifeirwch, ac ofn Duw ac er ein bod ni'n gwneuthur llawer o weithredoedd da, etto rhaid ni ymwrthod a holl haeddiant y rhinweddau ymma, ffydd, gobaith, cariad, a phob rhinweddau eraill ar a wnaethom, neu a allon eu gwneuthur, megis pethau o lawer yn rhy weinion yn rhy analluog, ac yn rhy anghyflawn i haecddu ini oollyngdod o'n pechodau, a chyfiawnhad, ac am hynny rhaid ini ymddiried yn vnig ynnhrugaredd Duw, a'r aberth a wnaeth ein Archoffeiriad, a'n Ceidwad Christ Iesu mab Duw a offrymmodd ef unwaith drosom ni ar y groes, i hebrwng ini trwy hynny rád Duw a gollyngdod, cystadl o'n dechreuol bechodau cyn bedydd, ac o'n pechodau gweithredol y rhai a wnaethom ar ol bedydd, os ni a wir edifarhawn, ac a drown yn ddiragrith atto ef.²

YR AIL ARGRAFFIAD,

1817.

Megis nad hyn yw gwir ystyr yr athrawiaeth yma ; yr ydys yn ein cyfiawnhau ni yn rhad, heb weithredoedd, neu fe'n cyfiawnheir ni trwy ffydd yng Nghrist yn unig ; nid yr ystyr yw mai'n gorchwyl ni yn credu yng Nghrist, neu ffydd Crist yr hon sydd ynom ni, sydd yn ein cyfiawnhau ni, ac yn haecddu i ni gyfiawnhad (o herwydd ni byddai hynny ond ein cyfrif ein hunain yn gyfiawn drwy ryw weithred neu rinwedd ynom ni ein hunain) ond gwir ystyr a meddwl yr athrawiaeth hon yw, er ein bod ni yn gwrandio gwir air Duw, ac yn ei gredu, er bod ynom ffydd, gobaith, cariad, edifeirwch, ac ofn Duw ; ac er ein bod yn gwneuthur llawer o weithredoedd da ; etto rhaid i ni ymwrthod a holl haeddiant y rhinweddau yma, ffydd, Gobaith, a Chariad, a phob rhinweddau a daionus weithredoedd eraill a wnaethom, a wnawn, neu a allwn eu gwneuthur, megis pethau o lawer yn rhy weinion, yn rhy analluog, ac yn rhy anghyflawn i haecddu i ni oollyngdod o'n pechodau, a chyfiawnhad ; ac am hynny rhaid i ni ymddiried, yn unig yn nhrugaredd Duw, a'r aberth a wnaeth ein Harchoffeiriad a'n Ceidwad, Crist Iesu Mab Duw a offrymmodd efe unwaith drosom ni ar y groes i hebrwng i ni trwy hynny rad Duw a gollyngdod, cystal o'n dechreuol bechodau cyn bedydd, ac o'n pechodau gweithredol, y rhai a wnaethom ar ol bedydd, os ni a wir edifarhawn, ac a drown yn ddiragrith atto ef.³

Hom. argr. 1817, t. xvlii.

² Yr un, Llyfr., argr. 1606, t. 33.³ Yr un, argr. 1817, t. 30.

Gwelir bod yr ail argraffiad yn dilyn y cyntaf yn bur ffyddlawn, heb newid odid ddim ond y llythraeth a'r gwahannodiad yn unig. Gwel y cyfarwydd hefyd fod ieithwedd Edward James mor ystwyth, nerthol, a Chymreigaidd, fel y mae yn hollol deilwng i gael ei restru ym mhlith Prifawduron (*Classics*) y Cymry, gyd â'r Dr. Morgan, Morus Cyffin, Edmwnt Prys, y Dr. Parry, y Dr. Davies o Fallwyd, Stephen Hughes, Charles Edwards, Elis Wynn, Edward Samuel, Theophilus Evans, Goronwy Owain, a Ieuan Brydydd Hir Ieuaif; ysgrifenyddwyr o ran grymusder, llyfnder, ac arbenigrwydd Cymreig eu geirweddïad, na chododd ond ychydig ysgrifenyddwyr ar eu hol cyfartal iddynt.

Am y llyfr Cymraeg nesaf a gyhoeddwyd yn yr hanner canrif yma, yr hwn a ddodir gan Gwilym Lleyl yn y fl. 1607, dywedir eb efe, mai "William Salbri, Esc. a barai y llyfr hwn ym rint." Gan hyny, gellir casglu mai W. Salesbury a'i cyfieithodd, ac a'i gadawodd ar ei ol yn barod i'r wasg. Enw'r llyfr sydd fel hyn :—

Yr Athrawiaeth am Weddi. Gan John Prideaux, Esgob Caerwrangon.¹

Gwnaed ychydig sylwadau eisoes ar y tri llyfr Cymraeg nesaf a gyhoeddwyd yn yr hanner canrif yma, o gyfieithiad Rhosier Smyth; sef,—

Crynhodeb o Addysg Cristionogawl, &c.—1609.

Catechism Petrus Conisius, &c.—1611.

Theater Du Mond sef iw Gorsedd y Byd, &c.—1614.

Ni fynegir pwy oedd awdur, neu gyfieithydd, y llyfryn Cymraeg nesaf a gyhoeddwyd yn y ganrif hon, yr hwn a ddodir gan Moses Williams a Gwilym Lleyl dan y fl. 1616 :—

Llythyr at Drigolion y Wlad ynghylch eu Heneidiau.

Ymddengys na welodd yr un o'r ddau goflyfrwyr diwyd y llyfryn canlynol :—

Llyfr Plygain sef Cristianyddiaeth, neu Addysc a gweddieu Gristnogaid yw dyscu i blant, ac iw harfer o bob dyn Duwiol anghenrheidiol o'u gwybod ai cofio.

Y 5 waith o'i ddyfodiad allan gwedi ei cyfieithu ar ol trefn y llyfr gweddieu cyffred i nol diwaethaf.

Cynhwysiad y llyfr sydd yw weled yn y tu arall i'r ddalen.

Llundon dros E. White. 1618.

¹ Llyfr. y Cymry, t. 81.

“ Y tu arall i'r ddalen ” sydd fel hyn :—

Swm o'r hyn a gynhwysir yn y llyfer hwn.
 Dechreu a diwedd pob Term yn Westm.
 Calender Cyffredinol gwedi ei chwaneu a llawer o betheu nodedic.
 Hyspysrwyd am y Flwyddyn ai rhanneu, &c.
 Almanac tros 25 o flynyddoed.
 Henweu'r oll pen feircu.
 Henweu holl Siroedd ac Escobiaetheu o fewn Tywysogaeth Gymbru.
 Gwyddor Gymreic.
 Athrawiaeth neu Addysc anghenrheidiol i bawb i medru ai gwybod.
 Gweddion cyn bwyd a diolch wedi-bwyd.
 Borewawl a Phryd-nhawinol weddei.
 Cyffes Athanasius.
 Y Litani.
 Y Psalmeu edifeirwch.
 Rhagorawl Psalmeu a llawer o weddieu dwywol.
 Henweu holl Frenhinoedd Lloegr ai teyrnasiad ar a fu er amser y conquerwr.

Ysgrifenydd hynyna genyf o'r hen lyfr, fel y mae, air a llythrennau, pan oeddwn yn arwerthfa Pengwern, Sir Ddinbych, Mai 1, 1874. Cnepyn o lyfr tew ydyw, tua 4 modfedd o hyd a thair o led ; a dyna'r cwbl a wn i am dano. Yn yr un flwyddyn, cyhoeddwyd y llyfr canlynol :—

Eglurhad Helaethlawn o'r Athrawiaeth Gristnogawl, a gyfansodhwyd y tro cyntaf yn Italaeg, trwy waith yr Ardherchocaf a'r Hybarchaf Gardinal, Rhobert Bellarmin, o Gymdeithas yr Iesv. Ag o'r Italaeg a gymreigwyd er budh Ysprydol i'r Cymru, drwy dhiwydrwyd a dyfal gymmorth y penbefig canmoladwy V. R. Permissu Superiorum. MDCXVIII.

Y mae awdur y llyfr hwn, y Cardinal Bellarmin, yn ddigon hyspys i'r Bywgraffwyr cyffredinol, fel prif ysgrifenydd Pabaidd ei oes ar dduwinyddiaeth ddadleuol, ac amryw byngciau eraill ;¹ ond methwyd cyfarfod â dim ar “ y penbefig [pendefig?] canmoladwy V. R.,” na'r cyfieithydd a gynnorthwywyd ganddo. Ym mhen tua dwy flynedd ar ol cyhoeddi y llyfr crybwylledig, y llyfr nesaf a gyhoeddwyd yn Gymraeg oedd,—

Yr Hen Destament, a'r Apocrypha, a'r Testament Newydd. O gyfieithiad William Morgan, Esgob Llanelwy. A chwedi eu gwelldu gan Richard Parry, Esgob Llanelwy. Argraphwyd yn Llundain, gan Norton a Bill, argraphwyr i'w Fawrhydi, yn y flwyddyn 1620.

Er y mynegir ar ddalen yr enw, fel y gwelir, mai “cyfieithiad William Morgan” wedi ei “wellhau” oedd hwn ; eto y mae'r gwelliadau neu'n hytrach y newidiadau, mor luosog trwy'r holl waith, fel y gellir ei ystyried, ar y cyfan, yn gyfieithiad gwa-

¹ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Belg., vol. 1., p. 482.

hanol.¹ Yr oedd gan ddau ŵr enwog ran arbenig yn y cyfieithiad a'r argraffiad yma o'r Bibl Cyssegr-lân. Y blaenaf a nodir yw yr hwn y mae ei enw ar yr enwad-ddalen, sef,—

RICHARD PARRY, Esgob Llanelwy. Mab oedd y Richard yma i John, o Bwll Halog, sir Ddinbych, ac Elen ei wraig, merch Dafydd ap John ap Twna, o Lanfair. Harri, taid Richard, ydoedd fab Dafydd ap Howel ap Gronwy ap Gruffydd ap Llywelyn ap Cynfrig Efell.² Ganwyd Richard yn Rhuthyn, yn y fl. 1560. Cafodd ei addysg foreuol gan William Camden yn Ysgol Westminster. Yn y fl. 1579, ac efe yn 19 oed, etholwyd ef yn efrydydd Eglwys Crist ym Mhrifysgol Rhydychain. Yn y fl. 1592, gwnaed ef yn Ganghellydd Bangor, ac yn Ficar Gresford. Yn y fl. 1598, graddiwyd ef yn D.D.; a'r flwyddyn ganlynol penodwyd ef yn Ddeon Bangor. Tybir mai o gylch y pryd hyn y priododd efe Gwen, merch John ap Rhys Wynn, o Lwyn Ynn.³ Pan fu farw'r Dr. Morgan, cyssegrwyd y Dr. Parry yn Esgob Llanelwy ar y 30fed o Ragfyr, 1604.

JOHN DAVIES, a adnabyddir yn well wrth yr enw Y DOCTOR DAVIES O FALLWYD, oedd y gŵr enwog arall y bu ganddo ran arbenig yn y Cyfieithiad dan sylw o'r Bibl Sanctaidd. Mab oedd efe i Dafydd ap Ioan, gwehydd oedd yn byw yn Llanferras, sir Ddinbych; a'i fam ef oedd Elizabeth, merch Lewis Dafydd Llwyd, un o hiliogaeth Ednyfed Fychan, cadlywydd enwog Llywelyn ap Iorwerth, Tywysog Cymru o'r fl. 1194 hyd 1240.⁴ Mab oedd Dafydd, tad gwrthrych hyn o nodiadau, i Ioan ap Rhys ap Ednyfed, o Lan Rhaiadr yng Nghymeirch, sir Ddinbych. Dywed Yorke fod Dafydd ap Ioan ap Rhys, yn un o Lwyth Marchudd,⁵ yr hwn Farchudd oedd gyff un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, ac yn preswyllo yn Llys Bryn Ffanigl, Uwch Dulas, Dinbych.⁶ Y mae'r Dr. Davies ei hun, mewn llythyr at Syr John Wynn o Wydir, Awst 26, 1623, yn galw Robert Fychan o'r Hengwrt, yr hynafeithydd enwog, yn gefnder.⁷ Yn ol y tystiolaethau hyn, yr oedd John Davies wedi

¹ Llewelyn's Brit. Versions, p. 28. ² Dwnn, *Heraldic Visit.*, vol. II., p. 320.

³ Dwnn, *Her. Visit.*, vol. II., p. 320.

⁴ *Cambr. Reg.*, vol. II., p. 158; *Han. Cymru, Carnh.* t. 611, &c.

Yorke's *Royal Tribes*, p. 104, note s. ⁵ *Y Graal*, t. 156. ⁷ *Cambr. Reg.*, vol. II., p. 470.

disgyn o deulu pendefigaidd ; ac y mae'n debyg i hyny fod yn fantais iddo yn ei yrfa ddyfodol.

Ganwyd ef o gylch y fl. 1570, fel y gwelwyd yn Nghofres y ganrif flaenorol, yn Llanferras, ger llaw yr Wyddgrug, yn sir Ddinbych. Mynegir yn gyffredin iddo gael ei addysg foreuol yn Ysgol Rhuthyn, a sefydlwyd ychydig flynyddau cyn hyny gan y Dr. Gabriel Goodman ; ac mai "un o'r athrawon oedd y Dr. Richard Parry, yr hwn a fu wedi hyny yn Esgob Llan-elwy"; ond Golygydd manwl y *Llyfryddiaeth* a ddywed fel hyn :—

Sefydlwyd Ysgol Ramadegol Rhuthyn gan y Deon Goodman yn y fl. 1590, chwe mlynedd *ar ol* i Davies fyned i Rydychain, a dwy flynedd *ar ol* iddo ymadael o'r Brifysgol hōno. Nis gallai ef, gan hyny, dderbyn ei ddyys yn Ysgol Fawr Rhuthyn, a hithau heb ei sylfaenu ar y pryd ; ond hwyrach bod yno ysgol lled enwog cyn i'r Deon Goodman sylfaenu yr ysgol bresenol. Ni bu yr Esgob Parry erioed yn athraw Ysgol Rhuthyn.¹

Tybia rhai mai mewn ysgol anghyhoedd a gedwid gan y Dr. Parry yn Rhuthyn, rhwng 1579 a 1592, y cafodd y Dr. Davies ei addysg foreuol, pan y dechreuodd cyfeillach gynhes rhyngddynt a barhaodd ar hyd eu hoes ; ond tyb yw hyn ; canys nid oes awgrym yn hanes y Dr. Parry iddo fod erioed yn cadw un math ar ysgol, mewn un man, heb law nad yw'r Dr. Davies yn crybwyll o gwbl iddo fod erioed dan addysg y Dr. Parry. Gellir *casglu*, ar sail bur gadarn hefyd, oddi wrth y mynegiad canlynol, sydd yn Rhagymadrodd y Dr. Davies i'w Eiriadur Cymraeg a Lladin, y bu ryw bryd, ar ryw adeg o'i fywyd, dan addysg y Dr. Morgan :—

Yn gyntaf, y Parchedig William Morgan, Doethawr Duwinyddiaeth, o Brifysgol Caergrawnt, cyfieithydd cywir a fydglaw yn Ysgrhythrau Sanctaidd i'r Iaith Gymraeg, Esgob Gwyladwrus Llandaf yn gyntaf, ac wedi hyny Esgob Llanelwy, enw yr hwn sydd hyfryd genyf ei draethu a'm genau ; canys wrth draed y Gamaliel hwnw y cefais fy addysgu a'm dwyn i fynu.

Y mae yr ymadrodd, "y cefais fy nysgu a'm dwyn i fynu" yn bur awgrymiadol, ac yn arwyddo y bu dan addysg y gwr enwog hwnw pan oedd yn ieuangc. Hefyd, y mae yr achyddion, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn olrhain y Dr. Morgan, o du ei fam, i Marchudd ; a diau bod y ddau lenor enwog yn gwybod hyny ;

¹ Llyfr. y Cymry, t. 99, nod *

a dichon bod y fath garenydd yn peri mwy na chyffredin o ofal ac anwyldeb y naill am y llall. Dyna'r cwbl a wyddys am addysg foreuol y Dr. Davies.

Yn y fl 1589, dechreuodd Davies, ac efe yn 19 oed, ar ei fywyd athrofaol yng Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.A. Nid arosodd yno y waith hon ond dros bedair blynedd, o ddiffyg moddion ond odid. Ar ol aros yn ei wlad ei hun, gan lafurio'n galed yn y cyfamser am ddysg a gwybodaeth, dychwelodd eto i Rydychain yn y fl. 1594; a chafodd ei urddo yn ddiakon neu offeiriad, os nad y naill a'r llall, gan ei gâr, y Dr. Morgan, fel y dyfalir. Ni wyddys ddim o'i hanes am y 10 mlynedd nesaf o'i fywyd, heb law y tybir mai rywbyrd yn ystod yr adeg honno y priododd efe *Jane*, merch John ap Rhys Wynn, o Lwyn Ynn, a chwaer *Gwen*, gwraig y Dr. Richard Parry.¹

Yn y fl. 1606, cafodd Davies berigloriaeth Mallwyd, gan y Brenin Iago I.; ac ar derfyn yr un flwyddyn, wedi i'r Dr. Parry gael Esgobaeth Llanelwy ar ol marwolaeth y Dr. Morgan, gwnaed Davies yn Gaplan i'r Esgob Parry. Yn y fl. 1608, aeth Davies eto, ac efe yn 38 oed, i Rydychain am bedair blynedd; ac yn y fl. 1612, etholwyd ef i ganoniaeth Llanelwy. Yn y fl. 1613, cafodd berigloriaeth Llan ym Mawddwy, yn sir Feirionydd; ac yn y fl. 1615, cafodd ficeriaeth Darowain, yn sir Drefaldwyn, yr hon a roddes efe i fynu er mwyn cael Llanfawr, ger llaw'r Bala; a dywed rhai bod Garthbeibio hefyd ganddo. Yn y fl. 1616, graddiwyd ef yn D.D.; ac yn y fl. 1617, cyfnewidiodd ganoniaeth Llanelwy am gôr-weinyddiaeth Llanefydd. Wrth ystyried nifer ei fywiolaethau cyfoethog, nid rhyfedd i Risiart Cynwal, y bardd, ddywedyd wrtho:—

Y mae iti renti drwy ras,
Mab dewrddloeth, mwy bo d'urddas:
Mallwyd sydd am wellâd sant,
A Mawddwy yn eich meddiant,
A Llanfawr, blaenfawr heb ludd,
Llawn afael a Llanefydd.

Gellir casglu oddi wrth lythyr y Dr. Davies at Mr. Owen Wynn o Wydir, a'i Ragymadrodd i'w Eiriadur, ei fod, mewn

¹ Canibr. Reg., vol. 1., p. 168.

cyssylltiad â'r Dr. Parry, ei gyfaill, a'i gyd-frawd yng nghyfraith, wedi dechreu newid a diwygio cyfieithiad y Dr. Morgan o'r Bibl yn lled fuan ar ol i'r Dr. Parry gael ei ddyrchafu i Esgobaeth Llanelwy. Y mae rhai yn meddwl bod gan y Dr. Davies law yng nghyfieithiad y Dr. Morgan cystal ag eiddo'r Dr. Parry ; a thybiant y cefnogir hyny gan y geiriau canlynol sydd yn Rhagymadrodd y Dr. ei hun i'w Ramadeg ; sef, "*Utique S.S. Bibliorum interpreti Brit. indignus fui administer.*" Ond y mae pob lle i gasglu bod y Dr. Morgan wedi dechreu ei waith mawr mor foreu a'r fl. 1578, os nad ychydig yn foreuach, pan symmudodd efe o'r Trallwm i Lanrhaidr ym Mochnant, a phan nad oedd y Dr. Davies ond wyth oed ; ac yr oedd wedi gorphen ei orchestwaith godidog erbyn 1587, pan yr aeth i Lundain i edrych ar ol ei argraffu ; a phan nad oedd Davies ond 17 oed. Y mae clod llenyddol y Dr. Davies yn ddigon uchel heb gam briodoli dim o'r eiddo y Dr. Morgan iddo.

Yn y fl. 1620, fel y gwelwyd, pan oedd y Dr. Davies yn 50 oed, cyhoeddwyd y cyfieithiad newidiedig a briodolir i'r Dr. Parry ; ond, fel y sylwa un o fywgraffwyr y Dr. Davies, "bernir mai iddo ef y mae'n ddyledus priodoli llawer o gywreirwydd yr argraffiad hwnw."¹

Ymddengys bod dau beth arbenig yn cymhell y Dr. Parry i gyhoeddi ail argraffiad, neu'n hytrach, ail gyfieithiad o'r Bibl : yn gyntaf, prinder y llyfr gwerthfawr yn y Dywysogaeth, gan fod sail i gredu nad oedd argraffiad y Dr. Morgan yn cynnwys mwy na rhyw 500 copi, ar y dechreu ; sef tua hanner rhifedi eglwysau a chapeli anwes y Dywysogaeth ; ac erbyn amser y Dr. Parry, yr oedd llawer o'r copiau hyny wedi gwisgo allan bron yn llwyr.² Yn ail, bod yr Esgob Parry, a'i gyd-frawd yng nghyfraith, y Dr. Davies, yn credu bod angen llyfnhau yr ymadrodd, a diwygio cystrawen argraffiad y Dr. Morgan mewn llawer o fanau. Rhy hael oedd y Dr. Morgan yn gyffredin, yn eu barn hwy, o'r geiriau *yna, felly, gan hyny*, a'r cyffelyb, yn enwedig yn nechreu ymadroddion. Dodir ychydig esamplau

¹ Y Gwladgarwr, Caer, cyf. v.. t. 225.

² Llewelyn's Brit. Versions pp. 23-30.

yma o gyfieithiad y Dr. Morgan, yn nghyd â diwygiad y Dr. Parry ar eu hol, yn lle lluaws y gellid eu gosod ger bron :—

GEN. xlii. 3 : *Yna* dêc o frodyr Ioseph : 1588.—*A* dêc brodyr Ioseph : 1620.

GEN. xliii. 15 : *Felly* y gwŷr a gymmerasant yr anrheg : 1588.—*A'r* gwŷr a gymmerasant yr anrheg : 1620.

GEN. xli. 17 : Pharao *gan hynny* a ddywedodd : 1588.—*A* Pharao a ddywedodd : 1620.

GEN. xl. 10 : Ei gwryse hi oeddynt addfed [eu] grawnwin : 1588.—Ei grawnsupiau hi a ddug rawnwin addfed : 1620.

GEN. xl. 5 : Efe a gyscodd *hefyd* ac a freuddwydiodd : 1588.—Ac efe a gyscodd ac a freuddwydiodd : 1620.

Tybir mai yr achos penaf am y gwahaniaeth yng nghystraweniad y ddau argraffiad ydyw, bod y Dr. Morgan wedi dal yn gaethach at ddulliau a nodweddiadau yr ieithoedd gwreiddiol na'i ddilynwyd ; a'u bod hwy wedi cymmeryd y rhyddid i Gymreigio ei Hebraegiadau ef, fel y gwelir yn yr esamplau canlynol :—

GEN. xli. 40 : Tydi a oruchwyli fy nhŷ fi, ac ar dy fin y cusana fy mhobl oll : 1588.—Tydi a fyddi ar fy nhŷ, ac wrth dy air di y llywodraethir .fy mhobl oll : 1620.

Newidiwyd trefn a sefyllfa ambell adnod gyfan gan y diwygyr ; ac mewn manau eraill gosodent air cymhwysach yn lle gair a dybient hwy yn anwedus ; megis *celaneddau* yn lle *burgynnod* yn Gen. xv. 11. Yn Job xl. 15, y Dr. Morgan a drodd *beemoth* yn *elephant* (pen. xl. 10, ydyw ei ddosparthiad ef.) Yr oedd y dysgedigion gynt, gan mŵyaf, o'r un dyb ag ef ; ond yn argraffiad y Dr. Parry (1620), adferwyd yr enw cyntefig, *beemoth*, fe allai o herwydd y dadleuon oedd ar draed. Ym mhen amser, Bochart ddysgedig yn ei waith rhagorol *Hierozicon*, a'i gwnaeth bron yn ddiarnheul mai'r march-afon (*hippopotamus*) ydyw y *beemoth* ; a chrocodil yr *Afon Sihor*, ac afonydd eraill, ydyw'r *lefiathan* ; creaduriaid cedyrn ac ofnadwy, rhy adnabyddus yn ardaloedd creision y dwyreinfyd, lle yr oedd Job a'i gyfeillion yn cyfanneddu. Dyma'r gwahanol gyfieithiadau o Job xl. 18, yn ol dosparthiad y Dr. Morgan ; ond *adu.* 23, yn ol y Dr. Parry, a'r argraffiadau presennol :—

Wele efe a orthryma afon [fel] na phrysuro hi i [redeg] efe a obeithie y rhuthre Iorddonen iw safn ef : 1588.—Wele efe a yf¹ yr afon [ac] ni phrysura, efe a obeithiai y tynnai efe yr Iorddonen i'w safn : 1620.

¹ Ystyr y gair Hebraeg a gyfieithir "a yf," ydyw, "a dreisia."

Bochart a gyfieitha yr adnod fel hyn :—

Wele er gwasgu o'r ffrydlif arno, ni ddychrynir ef : bydd efe yn ddigyffro pe rhuthrai Iorddonen yn erbyn ei safn.

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddau gyfieithiad Cymreig ydyw hyn : y Dr. Morgan a ddychymmyg, gan faint y behemoth a'i awydd i yfed, ei fod yn ddigonol i luddias ffrwd yr afon i lifo : ni phrysura hi, nid â yn ei blaen. Y cyfieithiad Seisnig a edrydd na phrysura y *behemoth* o herwydd ei gryfder. Y Dr. Parry, ac eraill, megis wedi cloffi rhwng dau feddwl, a gyfieithodd yn y fath ddull, fel y gellir cymhwyso y gweithrediad nacaol (" ni phrysura") naill ai at y *behemoth* ai at yr *afon*. "Efe a yf yr afon [ac] ni phrysura": ni phrysura y *behemoth* rhag ffrwd a llifeiriant yr afon ; neu, ni phrysura yr *afon* lifo, gan gorff a llwngc yr anghenfil. Gan mai yn awenyddol, neu yn ol rheolau barddoniaeth yr Hebraeid, y cyfansoddwyd y darluniadau prydyddol a gynnwysir yn y pennodau hyn, y Dr. Morgan, fel y tybir, a ddyry'r ddychymmyg mwyaf awenyddol ; gan ei fod ef yn priodoli *ammhrysurddeb* i'r elfen ddifywyd, sef yr afon.

Rhaid cyfaddef, er i'r Dr. Parry a'r Dr. Davies wellhau llawer ar argraffiad y Dr. Morgan ; ond ni ddylid haeru, er hyny, bod y cyfnewidiadau *oll* yn welliadau. Cymmerer ychydig enghriffiau i egluro hyn :—

JOB xxxix. 6, lle y sonir am yr " asyn gwyllt :"—[Myfi] yr hwn a osodais yr *anialwch* yn dŷ iddo : a'r *morfa* yn drigfa iddo ef : 1588.—Yr hwn y gosodais yr *anialwch* yn dŷ iddo : a'r *diffaethwch* yn drigfa iddo : 1620.

Gwelir yma osod *diffaethwch* yn lle *morfa* y Dr. Morgan. Nid yw *diffaethwch* ond gair arall am *anialwch* ; a dichon bod pob un o honynt yn *ddihalenaid*, yr hyn nid yw *morfa* byth. Y Saesneg am *ddiffaethwch* yn yr adnod hon yw "*barren land*"; a "*salt places*" ar gyfer yn ymyl y ddalen. Gosododd y Dr. Parry "*halendir*" ar ymyl y ddalen yntau. Paham felly y gwrthodwyd *morfa* ?

NUM. xi. 5 : Cof yw gennym y pyscod y rhai a fwyttasom yn yr Aipht yn rhad : 1588.—Cof yw gennym y *pyscod* yr oeddyd yn ei *fwytta* : 1620.

Yma, “*ei fwytta*” a berthyn i bysgod lawer, ond nid i *un* pysgodyn. Parhaodd y gwall hwn ym mhob argraffiad hyd yr un a gyhoeddwyd yn y fl. 1799.¹ Yn hwnw, “*eu bwytta*.”²

PSALM xvi. 6 : Etifeddiaeth a syrthiodd i ni mewn [lleoedd] hyfryd : 1588.— Y llynynau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd : 1620.

Ac felly hyd heddyw yn yr argraffiadau ystrydeb. Pwngc a ddadleuwyd yw hwn, fe allai, ar du y diwygiad.

LUC xxiii. 32 : Ac fe a ddygwyd dau eraill, y rhai [oeddynt] ddrwgweithredwyr iw rhoi iw marwolaeth gyd âg ef : 1588.— Ac arweiniwyd gyd âg ef hefyd ddau ddrwgweithredwyr eraill i'w rhoi i'w marwolaeth : 1620.

Yma y mae'n dra eglur iddynt waethygu ar gyfieithiad y Dr. Morgan ; canys gesyd yr adnod hon ger bron llygaid y meddwl fwy na dau ddrwgweithredwyr yn cael eu harwain i'r dienyddiad ! Aeth yr adnod hon trwy'r wasg o argraffiad i argraffiad, hyd oni sefydlwyd gan Gymdeithas y Beiblau. Ond yn y Testament dwy-icithol, a argraffwyd yng ngwasg Clarendon yn y fl. 1826, dan olygiad y Parch. John Jones (Tegid), adferwyd yr adnod i eiriadaeth gywirach fel hyn :—

Ac arweiniwyd gyd âg ef hefyd ddau eraill, drwgweithredwyr, i'w rhoi i'w marwolaeth.

Daeth Testament o'r un wasg, ac o'r un cywirdeb allan yn y fl. 1828,³ dan olygiad yr un beirniad cyfarwydd.

I Cron. xii. 8 : yn yr adnod hon dywed y Dr. Morgan fod y Gadiaid a ymgysylltasant â Dafydd yn ei gyfyngder, “*yn wŷr milwraidd, yn trin tarian a gwaiw-ffôn*.” Y Dr. Parry a ddywed eu bod “*yn medru trin*,” nid *tarian* a *gwaiw-ffôn*, ond *tarian* a *bwccled* ; hyny ydyw, tarian yn un llaw, a bwccled, neu darian eto, yn y llaw arall ! Pe byddai i un fyddin gael ei harfogi yn ol cyfieithiad y Dr. Morgan, a byddin arall yn ol cyfieithiad y Dr. Parry, byddai yn hawdd brudio pwy a ennillai

¹ Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn yn Rhydychalu, gan y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, dan olygiad y Parch. John Roberts, Tremelrhion.—Y Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639.

² “Ceir y gwall anafus hwn ym mhob un o'r argraffiadau diweddar y cafodd yr ysgrifenydd gylleusdra i ymgynghori ag ef ; ac yn eu plith argraffiad 4plyg hardd y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, Llundain, 1857, yr hwn a arferir yn lled gyffredin yn yr eglwysi y dyddiau hyn. Cynnwys yr unrhyw argraffiad lawer o wallau dybryd eraill, heb son am anghysonderau.”—Gol. Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 233, nod 1.

³ Rhwystrwyd lledaeniad yr argraffiad hwn, am nad oedd y golygydd wedi dilyn llythyr-aeth y Dr. Parry.—Gol. Gwaith G. Mechain, cyf. ii., t. 233, nod 2.

y fuddugoliaeth. Cyn i Eiriadur y Dr. W. O. Pughe ymddangos, tybid mai o'r Saesneg, *buckler*, yr oedd *bwccled* yn tarddu; ac yntau o'r Lladin wladaidd *bucularum*, *bucula*,¹ sef bogail y darian. Arfau *amddiffyn* yw *tarian*, *bwccled*, ac *astalch*, i'w harfer âg un llaw; ond ni lwyddai neb, fel "gwŷr milwraidd," mewn rhyfel, heb arfau *niweidiol*, cleddyf neu waywffon, yn y llaw arall.

Yn Gen. xxvii. 45, lle y mae Rebeca yn cynghori ei mab Jacob i ffoi i Haran rhag dialedd ei frawd Esau, hi a ddywed wrtho (yn ol cyfieithiad y Dr. Morgan), "Paham y byddwn yn ymddifad o honoch *ill dau* [mewn] un dydd?" Y mae *ill dau* yma yn feius, o herwydd bod Jacob a'i fam wyneb yn wyneb. Ni leferir *ill dau*, *ill tri*, ond am *ddau* neu *dri*,² a fyddont yn absenol. Awn *ein* dau; ewch *eich* dau; ânt *eu* dau neu *ill* dau. Y Dr. Parry a newidiodd "*ill dau*" yr argraffiad cyntaf i *eich* dau; a da y gwnaeth.

EZRA ii. 69: Rhoddasant yn ol eu gallu i dryssor-dŷ'r gwaith chwe *myrddiwn*, a mil o *ddracmonau* aur, a phum mil o bunnoedd arian: 1588.—Rhoddasant yn ôl eu gallu i dryssor-dŷ y gwaith vn fil a thriugain o ddrachmonau aur, a phum mil o bunnoedd o arian: 1620.

Gwelir y trodd y Dr. Parry y "chwe myrddiwn" uchod i "driugain mil," yr hyn oedd ddiwygiad. Y *dracmonau* hyn oeddynt yr un werth a'r sylltau y sonir am danynt yn 1 Cron. xxix., 7. Y mae'r enw *swllt* yn ddigon i gamarwain Cymro i dybio mai arian oedd eu defnydd; ond darnau *aur* oeddynt, gwerth o gylch 15 swllt bob un. Wrth y gair *punnoedd*, yn yr adnod uchod, y deallir cynnifer o *bwysi*, nid arian. Felly, eglurach a fuasai, "pum mil o bwysi arian."³

Cyffelyb ydyw'r newidiadau trwy'r holl gyfieithiad, weithiau er gwell ac weithiau er gwaeth. Llyfr unplyg mawr, yn yr hen

¹ Y Dr. Pughe a dardd y gair *bwccled* o *bug*, a *hobgoblin*, ac o *clad*, a *sheltering*. Y mae'r tarddiad uchod yn llawer tebycach o fod yn gywir na'r etiddo Dr. Pughe. Y gwir yw bod genym gannoedd o eiriau yn hanu yn amlwg o'r Lladin cystal ag o leithoedd eraill, heb law *bwccled*; megis=*abad*, *abates*; *abl*=*abalis*; absen=*absentia*; a'r cyffelyb trwy yr holl egwyddor.

² Gellir defnyddio y rhagenw *ill* yn y trydydd person yn y ddau ryw, o faen unrhyw nifer; megis,—“A'r un dull oedd iddynt *ill pedair*.”—“A'u cantau oedd yn llawn llygaid oddi amgylch *ll pedwar*.” Ezeo. i., 16, 18. —“A hwy a'i cymmerasant hi *ill saith*.” Marc xii. 22.

³ Gwalth G. Mechain, cyf. ii., t. 229—235.

lythyren ddu, ydyw Bibl y Dr. Parry, fel Bibl y Dr. Morgan, ond ei fod yn llawer mwy, ac am hyny, yn bur anhwylys i'w ddefnyddio; eithr nid ymddengys y bwriedid iddo gael ei ddefnyddio gan neb ond offeiriad rhyw 500 o eglwysau plwyfol Cymru; canys hyny oedd nifer y copïau a argraffwyd o hono. Ond fel yr oedd y Diwygiad Protestanaidd yn cynnyddu yng Nghymru, yr oedd awydd am Air Duw yn mwyhau; ac ymrôdd dynion da, fel y ceir gweled, i ddarpar ar gyfer hyny.

Nid ydys yn gwybod ddarvoud i'r Dr. Parry wneud unrhyw waith llenyddol, heb law yr hyn a nodwyd yng nglŷn â'r Bibl Cymraeg. Dichon ei fod ef, fel ei ragflaenydd yn Esgobaeth Llanelwy, sef y Dr. Morgan, yn ystyried bod yr hyn a wnaethai gyda'r Bibl yn ddigon o orchwyl bywyd iddo: beth bynnag am hyny, y mae'n ddigon i wneud ei enw a'i goffadwriaeth yn anwyl gan bob dosparth Cristionogol o genedl y Cymry hyd byth bythoedd.

Yn y fl. 1616, sefydlodd y Dr. Parry bod i chwe phunt yn y flwyddyn i gael eu talu o etifeddiaeth ei fab Richard, a'i etifeddion dros byth, at gynnal efridydd tlawd yng Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain, a enid yn Rhuthyn, neu yn Esgobaeth Llanelwy.

Bu yr Esgob enwog a gwladgar hwn farw ar y 26ed o Fedi, 1623, yn y tŷ a berthynai iddo fel Archddiacon, yn Dyserth, sir Fflint, ac efe yn 63 oed; a chladdwyd ef yn Eglwys Gad-ciriol Llanelwy, lle nid oes un math ar gofnod i nodi gor-phwysle ei weddillion.¹

Ym mhen tua blwyddyn ar ol cyhoeddiad Bibl y Dr. Parry, cyhoeddodd ei gydlafurwr yn y gwaith pwysig hwnw, y Dr. JOHN DAVIES O FALLWYD, Ramadeg Cymraeg yn Lladin, enw yr hwn sydd fel y canlyn:—

Antiquæ Linguae Britannicæ, nunc communiter dictæ Cambro-Britannicæ, a suis Cymræcæ, ab alijō Wallicæ, Rudimenta: Juxta genuinam naturalemque ipsius Linguae Proprietatum, qua fieri potuit accurata Methodo et Brevitate conscripta.

Londini, apud Johannem Billium Typographum Regium. 1621. [12mo.]

¹ Gwaith G. Mecham, cyf. ii., t. 2:9; Llyfr. y Cymry, t. 93; Williams's *Em. Welshm.* p. 390; Y Gwyddoniadur, cyf. viii., t. 240; *Han. Cref. yng Nghymru*, D. Peter, t. 209, 213.

Y mae hwn yn waith gwych, yn tra rhagori, fel Gramadeg, ar un I. D. Rhys. Unig amcan hwn, yr un modd a'r eiddo Rhys, fel y crybwyllwyd, oedd hyfforddi offeiriad yr Eglwys Sefydledig yn yr Iaith Gymraeg trwy gyfrwng y Lladin, er mwyn iddynt fod yn fwy cymmwys i ddysgu'r werin bobl yn egwyddorion crefydd. Dichon mai prif ddiffyg y gwaith hwn ydyw, bod yr awdur yn cymmeryd yr holl ddfyniadau a ddyry fel enghreifftiau, o brydyddiaeth yr hen feirdd, yn lle o rydd-iaith ystwyth y Dr. Morgan, Morus Cyffin, a chyfieithiad y Dr. Parry ac yntau ei hun. Cymmerer ychydig o'i ddfyniadau blaenaf er enghraifft :—

De *iai*, *ieu* : *iau*, *ieu* : *ion*, *iow* : *wai*, *wei* : *wau*, *wou* : *vay*, *wey* : idem iudicium esto quod supro de *ai*, *ei* : *au*, *eu* : *ou*, *ow* : *ay*, *eu*.

Item *ua* in *buaswn*, *buasud*, *buasai*, &c. Cum compositis, aliquando a poetis ita contrahitur ut unis syllabæ, diphthongi sc. improprie, formam induere vileatur, ut,

Nai ap brawd yw hwn i'r pren
A fuasai yn llaw Foesen. L. G.

Præterea, diphthongorum nonnullæ apud poetas sæpe dirimuntur,

Ae, *Cymraeg laes-deg o lys dyffrynt.* Cyn.

A bran dda ei chymraeg

A'r lleuad aur a'r llaw deg. LL. M. T.

Eglwys yw fal glas iae

A drws y porth dros y pen. D. G. i *helm*.¹

Nid wrth egluro'r seiniau yn unig y mae'r Dr. Davies yn difynu prydyddiaeth fel awdurdod ; ond felly y gwna wrth egluro y rhanau ymadrodd, y gystrawen, y trofegau, a thon-yddiaeth : yn wir, methais daro wrth gymmaint ag un *dfyniad* rhyddieithol yn yr holl lyfr !

Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd y Dr. Davies y llyfr canlynol :—

Catecism.

Mewn llythyr Saesneg a ysgrifennodd y Dr. Davies at "*Mr. Owen Wynn of Gwydir...Mallvid 30 Jan. 1627*," efe a ddywed,—“Yr wyf yn anfon i chwi gwpl o Gatecismau : nid oes genyf ond deg neu ddeuddeg o'r 500 a argreffais yn 1621, neu buaswn yn anfon i chwi ychwaneg.”² Y mae'n dra sicr mai'r Doctor ei hun a gyfieithodd y llyfr hwn.

¹ Antiq. Ling. Brit. p. 39.

² Cambr. Reg. vol. ii. p. 473.

Y gwaith nesaf a gyhoeddodd efe oedd Geiriadur Cymraeg a Lladin, ynghyd â thalfyriad o Eiriadur Lladin a Chymraeg y Dr. Thomas ab Wiliam o Drefriw.¹ Dyma yr enwad-dalen :—

Antiquæ Lingvæ Britannicæ, nunc vulgò dicte Cambro-Britannicæ, a suis Cymraecæ vel Cambricæ, ab aliis Wallicæ, et Lingvæ Latinæ, Dictionarium Duplex. Prius, Britannico-Latinum, Plurimis venerandæ antiquitatis Britannicæ monumentis respersum. Posterius, Latino-Britannicum. Accesserunt Adagia Britannica, & plura et emendatiora quàm antehàc edita.

Londini, Impress. in ædibus R. Young, Impensis Joan. Davies SS. TH. D. An. Dom. 1632.

Bu Geiriadur y Dr. Davies yn safon yr Iaith Gymraeg dros gant a hanner o flynyddau, sef o'i gyhoeddiad yn y fl. 1632, hyd gyhoeddiad Geiriadur mawr Cymraeg a Saesneg y Dr. W. O. Pughe, yn y fl. 1803; ac y mae llythraeth y Dr. Davies

¹ Mab oedd y Thomas ab Wiliam hwn i Wiliam ap Thomas ab Gronwy, yr hwn a hanai o du ei dad o Ednowain Bendew, cyff cenedl yn o Bymtheg Llwyth Gwynedd, a'i fam ydoedd Catherine, bastarddes Meredydd Wynn ap Ifan ap Robert, o Wydir, ger llaw Llanrwst. Ganwyd ef, yn ol ei dystiolaeth ei hun yn ei "Lyfr Achau," mewn lle a'i enw Ardde'r Meneich, wrth droed yr Wyddfa, yn nghwmwd Llechwedd Isaf, sir Gaernarfon; ond ni hyspysir ym mha flwyddyn. Cafodd ei addysg athrofaol yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A., fel aelod o Goleg Brazenose, yn y fl. 1573. Dychwelodd wedi hyn i wlad ei enedigaeth, ac ymsefydlodd yn Nhrefriw, ger llaw Llanrwst, lle y dilynai yr alwedigaeth o feddyg. Heb law ei Eiriadur mawr, Lladin a Chymraeg, o'r hwn y casglodd y Dr. Davies yr ail ran o'i Eiriadur, ysgrifennodd y Dr. T. Williams lyfr o'r enw "Prif Achau yr holl Gymru Benbaladr." Dywed y dechreuodd gasglu hwn yn y fl. 1578, ac ychwanegodd lawer ato yn 1589 ac 1609. Ysgrifennodd lyfr ar feddyginiaeth hefyd; a dywed I. Foulkes fod copi o hwnw, mewn llawysgrifen, gan Ioan Lleifiad, Liverpool. Dywedir hefyd yr ysgrifennodd "Lyfr Prophwydoliaethau Cymraeg, Saesneg, a Lladin;" a Llysielyfr helaeth yn y tair iaith; a bod copi ysgrifenedig o honynt yn llyfrgell Hengwrt. Ni chyhoeddwyd dim o'i ysgrifeniadau, hyd y gwyr yr ysgrifenydd, ond y talfyriad crybwyllledig o'i Eiriadur Lladin a Chymraeg, gan y Dr. Davies; a'i "Annerch o flaen ei Eiriadur, at yr hybarch Arglwyddi, Pendefigion, Boneddigion urddasol, yr Ysgolheigion athrylithus, a'r hygar Gyfredin yn holl Gymru benbaladr," a gyhoeddwyd yn *Y Greal*, t. 61. Nid yw hyspys pa bryd y bu farw, mwy na phryd y ganwyd ef; ond prawf llythyr a ysgrifennodd at Syr John Wynn o Wydir, ar yr zifed o Hydref, 1620, ei fod yn fyw y pryd hyn; ac od oedd yn 20 oed pan raddiwyd ef yn Rhydychain yn y fl. 1573, yr oedd yn 77 oed pan ysgrifennodd y llythyr crybwyllledig. Dywedir mai Pabydd ydoedd o ran ei farn grefyddol; ac y bu yn gurad unwaith yn Nhrefriw; yr hyn a amhheuir gan eraill. Pa wedd bynnag, y mae sicrwydd iddo gael ei wysio fel Pabydd, i Lys Eglwysig Bangor, y 23ydd o Fai, 1606; ac wedyn i Lys Eglwysig cyffelyb yn Llundain, y 12fed o Dachwedd, 1607; ac os nad oedd mewn rhyw swydd eglwysig, ni wyddys pa fodd i roi cyfrif am y cyfryw wysiadau. Ymddengys bod y gair *Syr* yn cael ei ddodi, o foesgarwch, yn yr oesau hyn, o flaen enwau gwyr eglwysig, megis y dodir y gair *Parch.* yn ein dyddiau ni o flaen enwau offeiriaid Eglwys Loegr, a Rhufain, a phregeth-wyr Ymneillduol.—Bishop Humphrey's Add. to Wood's Athen., p. 266; *Cambr. Reg.*, vol. i., p. 157; vol. ii., p. 472; *Llyfr. y Cymry*, t. 112; *Williams's Em. Welshm.*, p. 537; *Geir. Bywgr. I. F.*, t. 1034.

yn gymhwysach i fod yn safon llythraeth Gymraeg hyd yn awr, na llythraeth y Dr. Pughe, yr hon, yn bur fynych, sy'n seiliedig ar fympwy, yn hytrach nag ar arfer a llithrigrwydd sain ; ond o ran rhif geiriau, y mae Geiriadur y Dr. Pughe yn dra rhagorol. Diwygiwyd ei lythraeth ef i raddau, ac ychwanegwyd llawer o eiriau hefyd at ei gasgliad ef, yn y "Geiriadur Cenhedlaethol, Cymraeg a Saesneg," a gyhoeddwyd gan Mr. T. Gee, Dinbych, yn y fl. 1859, &c.

Lewis Morris (Llewelyn Ddu o Fon) oedd y cyntaf i alw sylw at ddiffyg Geiriadur y Dr. Davies, yr hyn a wnaeth mewn llythyr at Sais a'i enw S. Pegge, Chwef. 11, 1761, yn yr hwn llythyr y dywedai fel hyn :—

Gwaith Brysiog yw Geiriadur y Dr. Davies, y goreu sydd genym ; ac nid yw'n cynnwys dros hanner corff yr iaith, yr hyn a barodd i mi, er ys deugain mlynedd bellach, wneud cymmaint o chwaneigiadau ato, er fy mudd fy hun, ag a allwn yn ystod fy narlleniad. Gwnaeth Mr. Edward Llwyd ychydig yn y ffordd honno yn yr *Arch. Brit.*, ond nid yw yr holl eiriaduron eraill namyn sothach a hudlewyn. Nid oedd T. Richards y crybwyllwch am dano yn un o'ch llythyrau at y Dr. Phillips, yn gymhwys at y gorchwyl : cymmerth ef hyd yn oed wallau y Dr. Davies i mewn, a chwanegodd lawer atynt o'i waith ei hun, a gwaith ei ohebwy, enwau y rhai yn ffol a roddes ym mysg ei hen awduron hybarch, megis pe sypynid Quarles a Cibber i fynu gyda Horas a Virgil. Yr oedd Richards yn ilafurus, ond yn hynod o anwybodus a hwyrdrwm.¹ Yr oedd y Dr. Davies yn ddŷn o wybodaeth ddofn mewn ieithoedd ; yn brydydd Cymreig go dda ; ac yn dra hyddysg yn ein iaith, fel yr ymddengys wrth sylwadau yn ei ysgrifflaw sydd yn fy meddiant i ; ond yr oedd yn gwbl anwybodus o athroniaeth naturiol ; ac anturiaf ddywedyd na wyddai ddim am anifeiliaid, oddigerth ei ysgrubliad a'i ednod ei hunan. Cyfieithodd enwau ei anifeiliaid, ei lysiau, a'i gloddilion o eiriaduron gwaelion, pan oedd athroniaeth naturiol yn ei babandod ; o herwydd pa ham, ni ddylid ymddiried ynddo mewn un erthygl braidd ar y pethau hyn ; ac y mae ei lyfr fel plentyn wedi ei eni yn ei chwemis.²

Beiwyd Llywelyn Ddu gan rai am ddywedyd mai "gwaith brysiog yw Geiriadur y Dr. Davies," yn gymmaint ag iddo fod wrtho dros yn agos i *ddeugain mlynedd* ; ond nid gyda golwg ar yr *amser* a gymmerwyd i'w gasglu a'i ysgrifenu y galwai Llywelyn ef yn "waith brysiog," namyn gyda golwg ar ei *gynnwysiad*, ei *drefn*, a'i *ansawdd* ; ac, yn wir, dywed y Doctor ei hun, yn ei Ragymadrodd i'r Geiriadur, mai "lladrata yr amser" a wariodd ar y llyfr hwn a wnaeth, "oddi ar bethau eraill mwy pwysig."

¹ Cyfelyb oedd barn Goronwy Owain am "poor plodlin : Richards."—Gronov., t. 222.

² *Cambrian Register*, vol. i., t. 370.

Tybiodd rhai mai ar ei Eiriadur y dibyna clod llenyddol (os nad crefyddol hefyd) y Dr. Davies mewn oesau dyfodol; ond cred yr ysgrifenydd fod ei glod yn dibynu mwy o lawer yn y dyfodol ar ei gyfieithiadau rhagorol; canys y mae ei Eiriadur, cystal a'i Ramadeg, y rhai a fwriadai efe i'r gwyr eglwysig a'r llenorion, fel y crybwyllwyd, yn gwbl anhyspys i gorff y genedl; ond deil ei gyfieithiadau, yn enwedig ei gyfieithiad o'r Bibl mewn cysylltiad â'r Dr. Parry, tra y pery yr Iaith Gymraeg i gael ei darllen.

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd y Dr. Davies ei Eiriadur, cyhoeddodd hefyd gyfieithiad o *Parsons's Christian Resolutions*, dan yr enw canlynol:—

Llyfr y Resolusion, yr hwn sydd yn dysgu i ni bawb wneuthur ein goreu, a rhoi cwbl o'n bryd a'n meddwl ar fod yn wir Gristianogion, hyny ydyw ar ymadael a'n drwg fuchedd, a throï ar ddaioni a duwioldeb;—Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan I. D. er lles i'w blwyfolion;—A'i brintio yn Llundain yn nhy John Beale, tros yr un I. D. 1622.

Pabydd eithafol, ond tra defosiynol, oedd Robert Parsons, awdur y llyfr hwn; ond dywed Gol. y *Llyfryddiaeth* i'r Dr. Davies "gymmeryd i gyfieithu o hono argraffiad Edmund Buny, yr hwn oedd Brotestant, ac a wnaeth lawer iawn o gyfnewidiadau yng ngwaith gwreiddiol Parsons, er mwyn ei gyfaddasu at wasanaeth Protestaniaid. Y mae genyf yn awr o'm blaen argraffiad o'r gwaith cyseffin, wedi ei gyhoeddi ar ol argraffiad newidiedig Buny, yn y rhagymadrodd i'r hwn y mae yr awdur yn dylorni y gwr hwn yn bur ddi-ddedfod am ei hyfdra yn newidio, ac, medd ef, yn niweidio ei waith. Nid yw y cyfieithiad Cymraeg yn cytuno mewn un modd â'r argraffiad Pabyddol hwn. Tebygol i'r Dr. Davies olygu y llyfr hwn trwy y wasg, pan oedd yn Llundain yn achos argraffu y Geiriadur; canys canfyddir i'r ddau waith ymddangos o fewn corff yr un flwyddyn."¹

Dywed yr un llenor fod "ieithwedd y llyfr hwn yn wir odidog." Cyhoeddwyd y llyfr gwerthfawr hwn ddwywaith ar ol hyn yn ystod cyfnod y testyn, fel y ceir gweled eto; ac un-

¹ Llyfr. y Cymry, t. 117, nod *.

waith yn nechreu y ganrif bresennol, sef yn y fl. 1802, dan olygiad y Dr. Pughe.

Gellir casglu mai yr un llyfr oedd y canlynol, gydag ychydig chwanegiadau, fe allai, a'r "Catecism" a nodwyd eisoes a gyhoeddwyd gan y Dr. Davies yn y fl. 1621 :—

Yr Hen Lyfr Plygain a'r Gwir Gatechism, &c.

Am y llyfr yma dywed awdur y *Llyfryddiaeth*,—"Hwn a 'brintiwyd gynt,' meddai Thomas Jones, yr Almanaciwr, 'drwy orchymyn y Brenin, a thrwy lafur boen (y Doctor John Davies) yn y flwyddyn o oed Iesu, 1633.'" Ymddengys mai hwn oedd y llyfr olaf y bu gan y Dr. Davies law yn ei gyhoeddiad ; ond byddai efe, pan yn darllen gwahanol lyfrau, ac yn canfod ynddynt ryw ymadroddion, neu ddarnau, a'i boddhai yn fwy na chyffredin, yn arfer doddi nodau ar ymyl y dail gyferbyn a hwynt. Cyhoeddwyd y rhai hyny, fel y ceir gweled eto, ym mhen hir amser ar ol marwolaeth y Doctor, dan yr enw "Blodeuog Waith y Prydyddion Brytanaidd."

Dywed ysgrifenydd yn *Cymru*, O. Jones, cyf. i. t. 395, bod "cyfrol drwchus" o ysgrifeniadau y Dr. Davies ger ei fron ef pan yn ysgrifenu ei hanes, "o tu ag 800 o dudalenau, wedi ei hysgrifenu yn fân ac yn agos, gyda phrydferthwch mawr, yn cynnwys Awdlau, Cywyddau, Caniadau, Pryddestau, a Hanesion achlysurol, Gwasanaeth Mair, ac amryw Weddiau, &c. Ar derfyn yr olaf dywed, 'Y copi yr ysgrifenyd hwn allan o honaw, a ysgrifenasid yn Llanharri yn Morganwg, ynghylch y 30 o Harri VIII., sef tua y flwyddyn 1537. Ac a ysgrifenyd yma yn y flwyddyn 1631.' Y mae y rhan fwyaf wedi eu copio o'r Llyfr Coch o Hergest, gyda rhai darnau o'r Llyfr Du, a llyfrau eraill, fel y mynega. Crybwylla wrth derfynu hefyd fel hyn :—"Y Llyfr Coch o Hergest, sydd yn awr yn eiddo Syr Lewis Mawsele, a'i dŷ ym Margam. A'r llyfr hwnw a ddaeth ym menthyg i Fallwyd, yn sir Feirionydd, pan oedd Crist 1634. A lle gwelych Ll. C., y Llyfr Coch a arwyddocâ.'"

Hefyd, arferid dangos pregethau, mewn llawysgrifen, yn Ysgol Ystrad Meirig, y rhai y dywedid mai pregethau y Dr.

Davies o Fallwyd oeddynt. Dywedodd Llywelyn Ddu o Fon, fel y gwelwyd, bod y Dr. Davies yn brydydd Cymreig gweddol dda; ond ni lwyddodd yr ysgrifenydd i weled odid ddim o'i brydyddiaeth. Dywed Gol. y *Llyfryddiaeth* bod "rhai ysgriflyfrau o farddoniaeth Gymreig yn llawysgrifen y Dr. Davies ar gadw yn y Gywreinfaf Brydeinig yn Llundain."

Bu'r Dr. Davies farw yn ddi blant, ar y 15fed o Fai, 1644; a chladdwyd ef yn nghanell Eglwys Mallwyd, a rhoddwyd cerfiad Lladin bychan ar gareg ei fedd; ond gan fod y gareg yn llawr y lle, llwyr wisgodd y cerfiad hwnw ymaith; eithr "trwy ymdrechion y diweddar Barch. Rowland Williams, Person Ysgeifiog yn swydd Fflint (gwr genedig o'r plwyf hwn), gosodwyd i fyny yn Eglwys Mallwyd Goffech harddwych o fynor gwyn, gwaith y cerfedydd rhagorol Mr. Solomon Gibson o Lynlleifiad, er cof am y dysgedig Ddr. Davies. Saif ar fur gogleddol yr Eglwys, yn lled agos ar gyfer y ddarllenfa, a chynnwys arysgrifen" Lladin lled faith am y llenor Cymreig galluog a diwyd yma.¹

Y Llyfr Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd, hyd y gwyddys, ar ol Gramadeg y Dr. Davies a gyhoeddwyd yn y fl. 1621, oedd yr un canlynol:—

Llyfr Gweddi Gyfredin, ynghyd â Llyfr y Psalmau. Wedi ei cyfieithu a'i cyfansoddi ar Fesur Cerdd yn Gymraeg. Drwy waith Edmund Prys, Archdiacon Meirionydd. A'i Printio yn Llundain, 1621.

Y mae'n debyg mai cyfieithiad y Dr. Parry a'r Dr. Davies oedd y "Llyfr Gweddi Gyfredin" uchod. Y llyfr Cymraeg nesaf eto, heb son am rai y Dr. Davies, fel y dylid cofio, oedd yr un canlynol:—

Llyfr y Psalmau. VVedi ev cyfieithv, ai Cyfansoddi ar fesvr Cerdd yn Gymraeg. Drwy waith Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd. A'i Printio yn Llundain, 1628.

ROBERT LLWYD, FICAR Y WAUN, ydoedd y llenor Cymreig nesaf o ran amser, hyd y cenfydd yr ysgrifenydd, i'r Dr. Davies: ac nid pell oddi wrtho ydoedd ychwaith fel Cymreigydd. Er mor deilwng yw cyfansoddiadau R. Llwyd, y rhai, o

¹ Llyfr. y Cymry, t. 101.

ran geirwediad a sylwedd sydd ym mhith goreuon yr iaith ; er hyny gellir dywedyd am dano fel y dywedodd Gol. y *Llyfr-yddiaeth* am Edward Iames, cyfieithydd gwych yr *Homiliau*, “ Ni cheir mo'i enw mewn un Geiriadur bywgraffiadol ; ac nid oes un Gramadegydd na Geirlyfrwr wedi difynu cymmaint a llinell o'i waith !”

Y mae rhieni Robert Llwyd, ei gartref cyntefig, amser ei enedigaeth, ei addysg, ac amser ei farwolaeth, yn gwbl anhyspys ; ond dywed Walker, yn ei *Sufferings of the Clergy*, iddo gael ei benodi yn Ficar y Waun (*Chirk*), yn Nyffryn Llangollen, sir Ddinbych, yn y fl. 1615. Gan iddo gael Ficeriaeth y flwyddyn honno, gellir casglu ei fod yn 30 oed, o leiaf, ar y pryd ; ac os felly, ganwyd ef yn y fl. 1585 ; yn wir, y mae *Edward Willis's Survey of St. Asaph*, yn awgrymu mai'r lle cyntaf a gafodd oedd Ficeriaeth yn sir Amwythig. Os felly, y mae'n dra thebyg ei fod yn hynach na 30 pan gafodd Ficeriaeth y Waun. Yn y fl. 1619, cafodd Ficeriaeth Llanrwst ; ac yn 1625, cafodd Ficeriaeth y Cwm gerllaw Llanelwy, a Pherigloriaeth Llandyssul, yn agos i'r Dref Newydd, sir Drefaldwyn. Prawf hyn fod Ficar y Waun yn bur gymmeradwy gan yr Esgobion.

Yn y fl. 1629, ym mhen pedair blynedd ar ol y dyrchafiadau diweddaf, cyhoeddodd y llyfr canlynol :—

Pregeth ynghylch Edifeirwch, gan Arthur Dent. O gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficar y Waun, yn sir Ddinbych.

Pa ham yr arferwyd y gair “gynt” yn yr enw uchod, ni wyddys ; ond y mae sicrwydd yn y cofnod canlynol, yr unig un sydd yng Nghoflyfr Eglwys y Waun yn crybwyll enw R. Llwyd, ei fod efe yno ym mhen pedair blynedd ar ol cyhoeddi Pregeth Arthur Dent :—

Jane Lloyd filia Robti Lloyd vicari de Chirke sepulta fuit apud Llandysul 26. Septembris 1633.

Dengys y cofnod yna hefyd fod Robert Llwyd yn ŵr priod ; ond pwy oedd ei wraig nid yw hyspys. Fe allai mai brodor o Landyssul ydoedd hi neu efe, os nad pob un o'r ddau ; ac mai

hyny oedd yr achos iddo gladdu ei ferch ym mynwent y plwyf hwnw yn hytrach nag yn y Waun, heb law ei fod yn Beriglor Llandyssul. Beth bynnag am hyny, prif waith Robert Llwyd oedd y llyfr canlynol :—

Llwybr hyffordd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd. Yn yr hwn y dichon dyn ystyriol weled ei gyflwr presennol, pa un ai cadwedig, ai colledig. Wedi ei osod allan ar ddull ymddyddanion, yn gyntaf yn Saesonaec, o waith Arthur Dent, Gweinidog Gair Duw. Ac yr awr-hon wedi ei gyfieithu yn Gamberaeac er cymmorth i'r Cymro annyscedig, fel y gallo efe gael yn ei dafodiaith ei hûn, foddion a chyfryngau i chwaneu ei wybodaeth i wasanaethu Duw.

Printiedig yn Llundain gan Nicholas Okes dros George Latham, ac a geir ar werth ym monwent St. Paul tan arwydd Pen Esgob. 1630.

Gwelir nad yw enw Robert Llwyd yn yr enwad-ddalen; ond ar ddiwedd "At y Darllenydd," dywedir fel hyn :—"O'm stafell yn Ffoster-lân yn Llundain yr Vgeinfed dydd o fis Medi, 1629. Yr ciddoch yn yr Arglwydd R. Ll." Wrth ymresymu â'i "Ddarllenydd," efe a ddywed fel hyn :—

Ai anhawdd genit dreulio amser yn y gorchwyl hwn, nid rhaid i ti gollu dim amser a waethygo arnat, neu a rwystro dy orchwyllion bydol yn eu pryd : y mae'r nos yn hir y gaiaf, a'r Suliau, a'r gwyliau yn hir yr haf; gad ymmaith y twmpath chwareu, a'r bowlliau, a'r tafarnau, a'r bêl-droed, a'r denis, a'th negeseuau; gwna y pethau hyn yn weddol ar dy ddiwrnodau dy hûn, o bydd achos; eithr gwasanaetha Dduw ar ei ddydd ei hûn; ac onidê efe a ddiigia wrthit, ac i ba le y ffoi di rhagddo?...Ai ni fedri di ddarllain Cymraec, na neb o'th dy chwaith? O, beth a ddywedaf wrthit, ond Duw a'th helpio druan; pa fodd y gwasanaethi di Dduw, gan na fedri ddarllain ei air ef. Dyse yn gyntaf y gellych, neu bâr i ryw vn o'th dy ddyseu darllain, a dyseid y lleill gan hwnw : Mi a gymmeraf arnaf osod y dyn ieuange a fynnych (yn enwedig o bydd efe hydlyse) ar ffordd gymmwy i ddyfod i ddarllain o honaw ei hûn yn adrybelydr yn ôl cymmeryd o honof ychydig o boen gyd ag ef tros vn wythnos. A pheth yw hyny wrth y llesad a ddichon dyfu oddiwrtho?

Yr oedd y rhai hyn yn gynghorion gwerthfawr dros ben yn oes Robert Llwyd, pan nad oedd Ysgolion Sabbothol mewn bod, nac Ysgolion Dyddiol ychwaith yng nghyrhaedd un o fil o'r werin bobl. Y mae'n amlwg hefyd fod Ficar y Waun yn Eglwyswr gwir grefyddol, ac achos eneidiau ei gydwladwyr annysgedig a difantcison yn agos at ei galon. Gan fod ei enw, sef "R. Lloyd," wrth "At y darlleydd" sydd ynglŷn â "Charwr y Cymru," a ddaw dan sylw rhag llaw, y mae'n sicr mai efe oedd awdur yr anerchiad hwnw. Yr hanes diweddaff sydd ar gael am y Cymreigydd medrus yma, hyd y gwyddys, yr hwn a elwir gan Rowland Vaughan, "Y llên dysgedig, a'm hanwyl athro Mr. R. lloyd Ficar y Waun," ydyw, bod Prof-

yddion Cromwel wedi ei droi allan o'i fywiolaethau yn y fl. 1654.¹ Yr oedd y clerigwyr Cymreig yn cael eu troi allan o ddiffyg gwybodaeth o egwyddorion crefydd, ac o'r Iaith Gymraeg ; am esgeuluso pregethu ; am anfoesoldeb ; ac o herwydd eu gelyniaeth at lywodraeth Cromwel, a'u pleidgarwch i frenhiniaeth.¹ Y mae cyfieithiadau Robert Llwyd yn ddigon o brofion nad oedd efe yn euog o'r tri throsedd blaenaf ; gan hyny y mae'n dra sicr mai yr olaf oedd ei bechod ef, cystal a lluaws eraill yn yr oes honno. Methais daro wrth Robert Llwyd ar ol iddo gael ei ddiarddel gan y Profyddion ; am hyny cesglir ei fod wedi marw cyn y fl. 1660, pan esgynodd Charles II. i'r orsedd ; pe amgen, y mae braidd yn sicr y cawsid hanes ei adferiad yntau i'w fywiolaethau.

Y llyfr nesaf a gyhoeddwyd ar ol llyfr cyntaf R. Llwyd oedd yr un canlynol :—

Yr Ymarfer o Ddwioldeb : yn cyfar-wyddo dŷn i ryngu bodd Duw. Yr hwn lyfr â osodwyd allan yn saeson-aec o waith y gwir barchedig dād Lewis Escob Bangor, ac a gyfieithwyd yn Gamber aec o waith Row. Vaughan o Gaergai o sir Feirion wr bonheddig. *Est voluisse satis.*

Printiedig gan Felix Kyngston tros Robert Allot, ac ydynt iw cael tan lŷn yr Arth, ym monwent St. Paul yn Llundain. 1630.

ROWLAND VAUGHAN (FYCHAN), o Gaer-gai, ger llaw y Bala, oedd y gŵr llafurus hwn. Bu hynafiaid R. Fychan yng Nghaer-gai dros oesau lawer ; ac yr oeddynt hwy, ac yntau ar eu hol, yn "foneddigion tiriawg," cyfoethog, a dylanwadol. Dywed ysgrifenydd yn y *Gwyllyddydd*, y gelwid ef y Cadben Fychan ; a'i fod ym mrwydr Naseby,² yn ymladd o blaid y brenin ; ac fel prawf, rhoddir y cyfieithiad canlynol o hen hypsysiad ; ond ni fynega yr ysgrifenydd pa le y cafodd ef :—

Ymofyner am un S— H— o L—n—ll—ch—d, yn agos i Fangor ; gŵr du, byr, llydan ei ysgwydd, a chydnerth o wneuthuriad. Bu yn ymladd dan y Cadben Rowland Fychan ym mrwydr Naseby, lle y cymmerwyd ef [S— H—] yn garcharor.³

Pa un bynnag a oedd efe yn Gadben ym mrwydr Naseby ai peidio, y mae sicrwydd yn ei ganiadau ei fod yn wrthwynebydd eiddgar i'r Weriniaeth dan Cromwel ; a dywedir iddo

¹ Walker's Sufferings of the Clergy.

² Ymladdwyd y frwydr honno ar y 14ydd o Febrfn, 1645.—Hume and Staphord's Hist. Engl., vol. ii., 107.

³ Gwyllyddydd, cyf. iv., t. 247.

gael ei garcharu dros dair blynedd o'r herwydd yng Nghaerlleon Gawr, ac y mae efe ei hun yn tystio y llosgwyd ei balas gan y swyddwyr, ac y rhoddwyd ei etifeddiaeth i gâr iddo, yn yr englyn canlynol :—

Caer-gai nid difai fu gwaith tân—arnad,
Ocrnych wyd yr-wan ;
Caer aethost i'm câr weithian,
Caer-gai lle bu cywir gân.

Y mae'r amser y dygwyddodd yr anffawd yma wedi ei gadw mewn coffadwriaeth yn yr englyn canlynol o waith Wiliam Phylip :—

Mil chwechant gwarant gwiwrai—yn digwydd,
Pump a deugain difai ;
Er dwyn i'r gwyr adwaenai,
Ar gof pan losged Caer-gai.

Pan gyfarfu Rowland Fychan â Wiliam Phylip ar un o fynyddoedd sir Feirionydd yn amser eu henciliad, anerchodd y bardd ei gyfaill fel hyn :—

Pe cawn i'r Pen-gryniion
Rhwyng ceulan ac afon,
Ac yn fy llaw goed-ffon o linon ar li,
Mi gurwn yn gethin
Ynghweryl fy mrenin,
Mi a'u gyrwn yn un byddin i'w boddi.

I'r hyn yr atebodd W. Phylip yn y fan, gan ddywedyd ;—

Pe cawn i'r Pen-gryniaid
Ar ben goriwaered,
Er gwaned a hyned wyf heno,
A phastwn du-ddraenen
'R wy'n ddeuddeg a thri'gain,
Chwi a'm gwelech i 'n llawen yn llowio.¹

Pan osodwyd Charles II. ar orsedd Brydain, adferwyd R. Fychan i'w etifeddiaeth, ac ail adeiladwyd ei balas, a dododd yntau y pennill canlynol yn gerfiedig uwch ben y drws :—

Dod glod i bawb yn ddibrin,
A chûr dy frawd cyffredin ;
Ofna Dduw, can's hyn sydd dda,
Ac anrhydedda 'r brenin.

Wedi iddo ail adeiladu Caer-gai cyfansoddodd yr englyn canlynol ar yr achlysur :—

¹ Eos Ceiriog, Llyfr 1., a Sketch, &c., p. xi.

Llawer Caer yn daer i'w dydd—a losgwyd
 Lesgwaith gwŷr digrefydd ;
 Y Gaer hon i gywir rhydd,
 Caer gain yw Caer-gai newydd.

Gwelir bod Rowland Fychan yn brydydd go ddoniol. Y mae un gerdd led faith o'i gyfansoddiad yn yr hen *Flodengerdd*, a elwir " Adroddiad fal y bu gynt,"¹ ar yr un testyn a'r pennillion blaenorol. Cynnwys y gân 22 o bennillion fel y rhai canlynol:—

Pan elont i'r yrfa, yn hyn o Gymanfa,
 I fynd a'r *Milisia*, Maleusus eu hynt ;
 A chryfdwr y deyrnas, i fwrdd o law *Siarlas*,
 Nhwy welen yn addas, hyn iddynt !

Hwy godant yr Arfau, nhwy a hwyliant y llongau,
 Fel dyna i chwi'r dechrau, bu'r dychryn yn gerth,
 O gas i Bapistiaid, hwy laddant eu Henaid,
 Yr hên Buritaniaid, wŷr dinerth.

Ni byddent hwy'n fodlon, i gael o'r *Esgobion*,
 I roddi cynghorion, o herwydd eu bod ;
 Scottiaid a'i gwnaethau, a gawsant i'w Codau,
 Ddau can mil o Bunnau, heb ammod.

Ond fel llenor rhyddieithol y daeth Rowland Fychan yn fwyaf adnabyddus, ac yn fwyaf llesol i genedl y Cymry yn gyffredinol ; a'r gwaith pwysig a gyfieithodd ac a gyhoeddodd gyntaf, oedd yr un a nodwyd eisoes ; sef, " Yr Ymarfer o Dduwioledeb." Y mae'r dernyn canlynol o annerch y cyfieithydd gwladgar " At y Darllenydd," sydd o flaen y llyfr crybwylledig, yn dra theilwng o sylw " boneddig a gwreng," yn yr " oes oleuedig hon," lle y mae'r gwladgarwr clodwiw yn gwneud gwawd o'r Cymry mursenaidd, oedd yn ei oes ef, yn dibrisio iaith eu mam a gwlad eu genedigiaeth :—

Yr ydwyf fi yn gweled cymmaint o ragor rhyngddi ac iaith y Saeson, ac sydd rhwng cochol newydd a chaberden glytiog : ac etto nid oes vn sail o athrawiaeth yn y saith gelfyddyd, nad yw wedi ei addurno yn eu hiaith hwy. Oh Frutaniaid gwaedol, cymmerwch chwithau beth poen a thraul, i osod allan eich tafodiaith gyfoethog : oddieithr i chwi fod o vn feddwl a'r cymru seisnigaidd, y rhai sydd yn tybied yn oreu ddileu a diffoddi ein hiaith ni....Mwyaf peth sydd yn dyfod yn erbyn ein hiaith ni ydyw, anhawsed gan y cymru roddi eu plant i ddyscu, fel y mae'n well gan lawer dŷn fod ei etifedd yn fuwch yn ei fyw na threulio gwerth tuwch i ddyscu iddo ddarllain : ac ni cheir yn lloegr nemmawr o eurych, neu scubwr simneiau na fedro ddarllain, ac na byddo a'i lyfr tan ei gessel yn yr Eglwys, neu yn ei ddarllain pan fyddo'r achos....Ac nid oes genif fi ond hyn i ddyweddy wrthit, i gloi ar y cwbl. Edrych a ddichon y llyfr hwn roddi meddyginiaeth i'th enaid, neu lyfrau eraill o'i gyffelyb : megis y llyfr hwnaethol a gyfenwir

¹ *Blodengerdd*, arg. 1759, t. 52.

Llyfr yr hyffordd i'r nefoedd o gyfieithiad y llên dyscedig, a'm hanwyl athro Mr. Ro. lloyd Ficar y waun, neu bregeth am edifeirwch o waith yr vnryhw gymreugydd rhagorol : ac oni ddichon hynny beri i ti wellhau dy fuchedd, ni byddit ddim gwell *pe cyfodai un oddiwyth y meirau* i'th athrawiaethu, eithr os cei di ddaioni oddiwyth y llyfr hwn, meddwl yn dy weddi am vn a fydd rhwym i wneuthur i'w iaith a'i wlad y gwasanaeth a'r vfydd-dod gorau ar a fedro, tra byddo ei enw *Row. Vaughan*.

Cyhoeddwyd pump o argraffiadau eraill o'r llyfr hwn yn ystod cyfnod y testyn, y rhai a ddeuent dan sylw yn eu hamserau priodol ; heb law amryw lyfrau eraill, fel y ceir gweled rhag llaw.

Y llyfr nesaf a gyhoeddwyd yn y ganrif hon, o ran amser, oedd yr un pwysig canlynol :—

Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Printiedig yn Llundain, gan Robert Barker, Printiwr i Ardderchoccaf fawr-hydi y Brenin : a chan Assignes Iohn Bill. Anno Dom. 1630.

Maint yr argraffiad hwn ydyw 8plyg bychan. Y mae'r Llyfr Gweddi Gyffredin yn ei ragflaenu ; yr Apocrypha rhwng y ddau Destament ; ac ar ol y Testament Newydd, y mae "Llyfr y Psalmau, wedi cv cyfieithv, a'i cyfansoddi ar Fesur Cerdd, yn Gymraeg. Drwy waith Edmwnd Prys Archdiacon Meirionydd." Y mae Tôn (*Tune*) unllais, yn yr "hen nodiant," wrth reswm, mewn cyssylltiad â deuddeg o'r Psalmau, fel y crybwyllwyd eisoes.

Gwelwyd eisoes mai 500 copi yn unig a argraffwyd o Fibl y Dr. Morgan yn y fl. 1588, sef tua hanner digon, neu lai, i'r eglwysau plwyfol ; a'r un nifer a argraffwyd wedi hyny, ym mhen 32 mlynedd, sef yn y fl. 1620, o Fibl y Dr. Parry ; ac ni fwrriedid hwn, mwy na'r llall, ond i'r nifer bychan hwnw o'r eglwysau plwyfol yn unig. Bu'r Cymry, fel cenedl, dros *ddeng mlynedd a thriugain* ar ol sefydliad Protestaniaeth yn y wlad, yn amser y Frenines Elizabeth, ac am yn agos i *gan mlynedd* ar ol gwahanu Brydain oddi wrth Eglwys Rhufain yn amser Harri VIII., heb fod dim Biblau yn eu cyrhaedd o gwbl, fel pe na buasai ganddynt hwy, fel cenedl, ddim a wnelent â Gair Duw ; ac na pherthynai ond i ychydig o honynt wrando namyn rhyw ddarnau o hono unwaith yn yr wythnos, mewn 500, neu lai, o eglwysau plwyfol ! Heb law hyny, plygiad

mawr (a elwir unplyg), drud, anhwylyus, mewn llythyren ddu anhyspys i'r cyffredin, oedd y ddau argraffiad bychan a nodwyd. Gan hyny, yr oedd angen dirfawr am Fibl Cymraeg bychan, rhad, a hwylus, ar gyfer y werin bobl; a dau ŵr o haniad Cymreig, yn Llundain, a gawsant yr anrhydedd gyntaf o ddarpar Bibl fel hyn ar gyfer eu cydgenedl, sef Rowland Heilyn a Syr Thomas Middleton.

ROWLAND HEILYN, medd y Dr. Llewelyn, ydoedd Henadur Llundain, ac wedi deilliaw o Gymru. Enw Cymraeg ar swydd ydyw *heilyn*. Gair Cymraeg arall am y swydd yw *trulliad*.¹ Y mae dau le, o leiaf, yng Nghymru, a elwir *Pentref Heilyn*; ac y mae'n dra thebyg iddynt gael eu galw felly oddi wrth swydd eu preswylydd cyntefig. Tyddyn lled fawr ydyw un, Pentref Heilyn, ym mhlwyf Llanfechell, sir Fon, yn ymyl y Brynddu, llys hynafol Bwcleiod, Mon. Ym mhlwyf Llanymyneich, ar gyffiniau sir Amwythig a sir Drefaldwyn, y mae'r Pentref Heilyn arall; ac ymddengys mai oddi wrth enw hwnw y tybia Gwallter Mechain y cafodd Rowland Heilyn, a'i hynafiaid, eu cyfenw. Fel y canlyn yr ysgrifena efe ar y pwngc:—

Further to the south-west, on the confines of the parish [of Llanymyneich], is situated Pentre Heilyn, formerly the seat of the Heilyns, who took this for their cognomen, from their being hereditary cupbearers to the princes of Powys. It seems they were also purse-bearers, and ministers of finance, and their extravagance of the public money gave rise to the proverb—'Hael Heilyn o god y wlad.' Heilyn is generous out of the public purse

In the family of Heilyns I find three that will not disgrace our Cambrian Biography. The first was Grono ab Heilyn, chosen by our last Llewelyn to treat with the commissioners of Edward Longshanks, for the concluding of a final peace; which was done, and the terms observed for a while, until the oppression of the English became no longer tolerable. Thus driven to the last extremity, despair strung Cambria's bow; Snowdon re-echoed with 'death or freedom;' its lord fell by the hand of an assassin, and with him expired liberty.

The second was ROWLAND HEILYN, alderman and sheriff of London; who dying in the year 1634, without male issue, one of his daughters marrying a Congrave, the estate was transferred to that family. 'This Rowland Heilyn was a man of singular goodness. He caused the Welsh Bible to be printed at his own charge, in a portable volume, for the benefit of his countrymen; which was before in a large church folio.' He also published the Practice of Piety in Welsh;² and

¹ Y mae *trulliad* a *phenrulliad* yn eiriau Ysgrhythrol, cyfystyr a'r geiriau Seisnig *butler* a *cupbearer*: Gen. xi., 1, 9.

² Dywed un Bywgraffydd Cymreig "Rowland Heylin" a gyhoeddodd "yr argraffiad cyntaf o blyg mawr, o'r Bibl Cymraeg, a ymddangosodd yn 1630." *Cymru, O. J., cisf. t., t. 635.* Ond y gwir yw mai plyg y Bibl a gyhoeddodd Rowland Heilyn ydyw y *leiaf* a gyhoeddwyd o'r Bibl Cymraeg (oddid eithr "Bibl John Canno," a gyhoeddwyd yn 1812), sef *Splyg bychan*, at yr un faint a 12plyg yr oes bresennol.

³ Yr "Ymarfer o Ddawioldob," o gyfieithiad Rowland Fychan.—Gwel t. 423, &c.

a Welsh Dictionary, for the benefit of his countrymen. The Welsh Bibles before were rare and costly, but now grown common in every man's hand, and in his own mother's tongue.

The third was Dr. Peter Heilyn, nephew to the above-mentioned Rowland. The Doctor's name and works are so well known, that I need say no more respecting him here, save that he died in the year 1662.¹

SYR THOMAS MIDDLETON, fel y crybwyllwyd, oedd brif gynnorthwywr Rowland Heilyn i ddwyn yr argraffiad dan sylw allan, yr hwn a gyhoeddwyd yn y fl. 1630. Bu dau Syr Thomas Middleton, sef tad a mab. Yr oedd y cyntaf yn frawd i Syr Huw Middleton a Gwilym Ganoldref, y bardd; a bu yn Arglwydd Faer Llundain dan deyrnasiad Iago I.; a phrynodd Gastell y Waen yn y fl. 1595. Dywedir yn gyffredin mai'r Syr Thomas hwn a gynnorthwyodd R. Heilyn i gyhoeddi'r Bibl yn y fl. 1630; ond dywed Gol. *Llyfryddiaeth y Cymry*, mai "mab" i'r Syr Thomas yna, sef "yr ail Filtwn" o Gastell y Waen, yr hwn "a gymmerth ran yn y rhyfel rhwng Siarl I. a'r Senedd, a ddug ran o draul argraffu Beibl Cymraeg 1630. Felly cwythredd i'r gwr hwn (ac nid brodyr) oedd dygiedydd yr Afon Newydd i Lundain, a chynghaneddwr y Salmu ar fesur cerdd.²

Y llyfr Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd yn yr hanner canrif yma ar ol yr argraffiad a nodwyd o'r Beibl, oedd yr un canlynol:—

Car-wr y Cymru, Yn annog ei genedl anwyl, a'i gydwlad wyr er mwyn Crist a'i heneidiau i chwilio yr Scrythyrau yn ol gorchymyn Crist. Joh. 5. 39. Y rhai, yr awr 'hon yn ddiweddar a brintiwyd o newydd yn Gymraec; ac a geir ar werth yn llyfrau cynnwys, a bychain eu maintioli a'i pris, drwy fawr ddiwydrwydd, a thraul Swrn o wyr Duwyol, enwog ac ewyllys-gar i wneuthur daioni i'r Cymru.

Llundain, Printiedig gan Felix Kyngston, drwy awdurdod. 1361.³

Llyfryn bychan 32plyg ydyw hwn, yn cynnwys 135 o du dalenau. Yn ei ddechreu ceir "Cynhwyswyd y llyfryn hwn," yr hyn a ddilynir gan gorff y gwaith. Yna, ceir "Gweddi y Cymro am faddeuant *am iado hyd yn hyn esgeuluso chwilio yr Scrythyrau, ac am Râs o hyn allan i'w iawn-chwilio hwynt.*"

¹ Gwaith Gwallter Mechain, cyf. iiii., t. 19; Llewelyn's Acc. of the Welsh Bible, pp. 36—40; Williams's Em. Welshm., p. 219.

² Llyfr. y Cymry, t. 110, nod *; Llewelyn's Acc. of the Welsh Bible, p. 39; Geir Bywgr. I. F., t. 759; Geir. Bywgr. J. T. J., cyf. ii., t. 266; Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 628.

³ Camargraffiad ydyw 1361, yn lle 1631.

Yn nesaf, "Gweddi y Car-wr dros y Cymru, *ar i Dduw drugarhau wrthlynt* a gostwng eu calonau *i gadw y gyfraith hon.*" Dilynir hynyna gan "Foreuol weddi i'w arfer *mewn teulu,*" a "Phrydnawnol weddi i'w harfer *mewn teulu;*" yna, "Boreuol weddi Penteulu *ar y dydd Sabboth,*" a "Phrydnawnol weddi Penteulu *ar y dydd Sabboth,*" ac yna, "Gweddi pen teulu *cyn bwyd,* a Diolchgarwch pen teulu *ar ol bwyd.* Dilynir hyn gan "*At y Darlleydd,*" gan "R. Lloyd," sef "Ficar y Waun," a fu dan sylw eisoes. Yn nesaf dywedir, "Felix Kyngston *ai printiodd, dros yr Awdur, drwy Awdurdod;*" yna ceir Annerch Saesneg, "To all the Worthy and True-hearted Well-willers and furtherers of the Spiritual weale of Wales, who have put their helping hands and *hearts to that late, necessary,* and worthy work of setting forth the Bible in Welsh, in a small volume. The Author of this Welsh treatise, wisheth Wisdom's Gift (as a gracious Recompence of Reward from the Lord) viz.: Length of daiss, riches and honor: with Eternal life which *is the gift of God* through Iesus Christ our Lord. Amen." Terfyna'r llyfryn gyda, "The pronounciation of the Letters in the British tongue;" hefyd, "A comparison of the pronounciation of the letters in Welsh to the Greek and Hebrew letters, By Edward Kyffin."

Gwelir bod amryw wŷr enwog mewn duwioldeb wedi rhoddi help llaw i wneud y llyfryn crefyddol hwn yn dderbyniol gan y Cymry; ond nad yw enw priod yr awdur yn eu plith o gwbl. Y mae'n wir y ceir ei enw fel "Car-wr dros y Cymru," ac "The Author of this Welsh treatise," yn eu plith. Ni cheir enw priod chwaith yn yr enwad-ddalen; ond ceir gweled yn eglur yn enwad-ddalen y llyfr a elwir "Trysor i'r Cymru," mai

OLIVER THOMAS oedd enw priod "Car-wr y Cymru." Er maint oedd ei bryder ef dros ei genedl, ac er mor egniol y llafuriodd er eu diwygio a'u moesoli, ni chymmerth neb o honynt hwy y drafferth leiaf i drosglwyddo dim neillduol o'i hanes ef i'r oesau dyfodol. Y cwbl sydd genym o berthynas iddo ydyw

ambell gyfeiriad damweiniol yn unig. Ni wyddys pwy oedd ei deulu, na pha bryd, yn fanwl, y ganwyd ef. Dywed Anthony Wood, ei gydoeswr Seisnig, y cafodd ei addysg athrofaol yn Neuadd Hart, Rhydychain; y bu'n dal rhyw leoedd yn sir Amwythig; ac mai yn Felton yn y sir honno y bu farw; ond pa bryd, ni fynega.¹ Dywedir mai "Gweinidog o Groesoswallt ydoedd; er na cheir bod neb o'r enw wedi bod erioed yn gweinidogaethu yno yn yr Eglwys Sefydledig, nac yn un lle arall yn y gymmydogaeth sydd o fewn Esgobaeth Llanelwy." Y mae'n bur debyg iddo droi yn Bresbyteriad yn fuan ar ol ymadael o'r Brifysgol, gan fod ei enw ef, yng nghyd â gweinidogion eraill, wrth "gyfreithlondeb y Cyfammod yn y fl. 1671."² Gwyddys wrth ei waith dan sylw, a'r un a gyhoeddwyd yn y fl. 1677, a elwir "*Trysor i'r Cymru*," ei fod yn ŵr crefyddol, gwladgarol, a thra hyddysg yn yr Ysgrythyrau; a'i fod yn bur gyfrifol ym mhlith y Cymry yn ei ddydd, gan fod ei enw ym mysg y Profyddion Cymreig yn y "Ddeddf er gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru, a wnaed yn y fl. 1649."³ Gwyddys hefyd oddi wrth yr amseriadau a nodwyd, ei fod yn flodau o'r fl. 1631 i 1649; am hyny, gellir casglu iddo gael ei eni yn bur gynnar yn y ganrif bresennol.

Y llyfrau Cymraeg nesaf a gyhoeddwyd yn yr hanner canrif yma, yw y rhai canlynol:—

Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau a chynneddfau a Ceremoniau eraill yn Eglwys Loegr.

A Brintiwyd yn Llyndain gan Assignes John Bill ag iw gwerthu gida Robert Melborne yn sin y milgi ym mynwent St. Paul. 1634.

Y mae i'r Psalmiau enwad-ddalèn wrthynt eu hunain, fel hyn:—

Psalmu Dafydd o'r vn cyfieithiad â'r Bibl cyffredin, &c. Anno 1634.

"Y Bibl Cyffredin," y pryd hyn, oedd cyfieithiad y Dr. Parry o'r Bibl; ond y mae cryn wahaniaeth yn lled fynych rhwng cyfieithiad y Psalmiau yn y "Llyfr Gweddi" hwn a chyfieithiad

¹ Wood's Athen. Oxon., vol. i., p. 860. ² Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 503.

³ Han. Crefydd, D. Peter, t. 224.

y Dr. Parry, fel y gwelir yn yr enghraifft ganlynol o'r iofod
Psalm :—

CYFIEITHIAD Y DR. PARRY.

Cenwch yn llafar i'r Arglwydd,
yr holl ddaiar :

2 Gwasanaethwch yr Arglwydd
mewn llawenydd : deuwch o'i flaen ef &
chan.

3 Gwybyddwch mai'r Arglwydd
sydd Dduw ; efe a'n gwnaeth, ac nid
ni ein hunain : ei bobl ef *ydy*m, a
defaid ei borfa.

4 Ewch i mewn iw byrth ef &
diolch, ac iw gynteddau â mawl :
diolchwch iddo, a bendithiwch ei enw.

5 Canys da yw'r Arglwydd ; ei
drugaredd *sydd* yn dragywydd ; a'i
wirionedd hyd genhedlaeth a chenedl-
aeth.

CYFIEITHIAD Y LLYFR GWEDDI.

Cenwch yn llafar i'r Arglwydd
yr holl ddaiar : Gwasanaethwch yr
Arglwydd mewn llawenydd, deuwch
yn ei wydd ef mewn gorfoledd.

Gwybyddwch mai yr Arglwydd
sy Dduw : efe a'n gwnaeth ac nid ni
ein hunain : ei bobl ef *ydy*m, a defaid
ei borfa.

Ewch i mewn i'w byrth ef &
diolch, ac i'w lysoedd & moliant gen-
ych, diolchwch iddo a chlodforwch ei
enw.

Canys daionys yw yr Arglwydd,
a'i drugaredd sydd yn dragywydd, a'i
wirionedd a bery o genhedlaeth hyd
genhedlaeth byth.

Llyfr y Psalmau, vvedi ev Cyfieithv, a'i cyfansoddi ar fesvr cerdd, yn Gym-
raeg. Drwy waith Edmund Prys, Archdiacon Meirionydd. A'i Printio yn
Llundain. 1638.

Llyfr cymmysg, Cymraeg a Saesneg, ydyw y nesaf yn yr
hanner canrif yma, a berthyn i "Lenyddiaeth Gymreig," hyd y
canfyddir ; yr hwn sydd fath ar gasgliad o hen ddaroganau
prydyddol Cymreig (gyda chyfieithiad Seisnig), yn cyfeirio at
ryw waredwr enwog i'r Cymry, dan yr enw "Coronog Faban,"
a'r cyffelyb ffugiadau. Nid oedd amseriad nac enw awdur
wrth y copi a welodd Gwilym Lleyn ; ond dyry efe ef dan y
fl. 1640, fel hyn :—

A Bright Northern Star, Discovering the Fate of Great Britain.

Y daroganwyr a'r beirdd y cyfeiria y casglydd atynt ydyw
y rhai canlynol :— "*Taliesin Ber Beirdd* ; *Merlin Ambrose* ;
Areverend Devyn, and Prophet, Sometimes Bishop of *St. Davies*
in *South Wales* ; Robin Ddv, sometimes of *Anglesey*, a *Bardh*,
Prophet and excellent Poet ; *Addajras*, a *Barah* [*Bardh*]
Prophet, and a Poet ; *Merthin Ambrose*, a great Prophet ;
Mernhin [Merthin] *Silvestris* ; *Kilfardh*, or *Heinyn fardh*,
called by both names, who lived in the days of *Taliesin*, in
North Wales, an admirable Prophet ; *David Gorrleth*, an ex-
cellent Poet, and Master of Arts, that lived 190 years ago, and

his Songs are grounded on *Taliesin* and *Merthins* Prophecies; *David Namor*, Bardh and Poet; *Gwyon Bath* a great Prophet, and the antientest of all the rest; *Johannis de Ruperissa*; *Fryar Bacon*, a notable and substantial Prophet, who propheceyed of the destiny of the Mouldwarp; *Rees Gochoryri*, a Prophet and an excellent Poet; *Iollo Goch*, a Prophet and a Poet; *John de Breidlington*, a notable Prophet, that sets the destiny of the red Lion, whose name is said to begin with the letter C; *Gwenddlyd*, one of the ten sybils; *Master John Cipian*, Doctor in Astrology; *Torquatus Vandrivus*, Student in the Art Magick; *Jevan o drwch y daran*, fore-telling of fall of Ministers, and of great warres; *Bergam of Maelor* in *Denbigh-shire*, wherein notable things are fore-told, with the Conquerous descent from the principality of *Powis* and *North Wales*; *Gronwddv of Anglesey*, wherein an Angel reveal unto him the Kingly succession in the regal Government, until the coming of the British Conquerour should appear 222 years after the same revelation, or in the year 1642; *Hosan Parchellan*."

Terfyna'r llyfr gyda daroganau amryw estroniaid. Gwelir yn y difyniad blaenorol bod y casglydd wedi clywed, neu weled, enwau llawer o'r hen feirdd Cymreig; ond crap pur wael oedd ganddo ar ysgrifenu eu henwau; ac ymddengys y credai (o leiaf dywedai) eu bod oll yn Brophwydi, neu Ddewiniaid; ac y mae'n bur eglur ei fod yntau ei hun yn credu, neu yn proffesu, bod yn un o'r frawdoliaeth.

Y mae *Gwilym Lley*n yn tybied mai awdur yr hen lyfr digrifol, oedd *Arise Evans*, y *Dewinwr*; ac ymddengys fod ei dyb yn gywir. Dywed *Gol. y Llyfryddiaeth* mai "ei iawn enw ydoedd *John Evans*; ac yr ymddengys iddo fabwysio *Arise* yn ei le pan yr ymgymmerodd â gorcheiniaeth," sef dewiniaeth trwy ymofyn â'r meirw, &c. Brodor o blwyf *Llan Gelynin*, yn sir *Feirionydd*, oedd y gorcheiniwr rhyfedd hwn. Yr oedd yn bleidiwr penboeth i *Charles I.*, ac yn elyn penderfynol i *Cromwel* a'r *Weriniaeth*. Dywedir y cafodd ei addysg yn *Rhydychain*; ac ar ol bod yn gurad dros ryw hyd ym mhlwyf

Enfield, yn sir Stafford, a chael ei ddiswyddo o herwydd rhyw gamymddygiad, symmudodd i Lundain, lle y gosododd ei hun i fynu fel athraw yn yr ieithoedd clasurol, ac mewn gorcheiniaeth a serddewiniaeth. Yn y fl. 1632, yr oedd WILLIAM LILY, yn ddysgybl iddo ; a dywedir mai efe a ddechreuodd wthio serddewiniaeth i ben y twyllwr enwog hwnw.¹ Fel y canlyn y traetha Pennant ar y Serddewinwr Evans :—

I shall now mention another singular personage, a native of the same parish of *Cylynin*. This was a noted astrologer, and ill-favoured knave, *Arise Evans*, a character and a species of impostor frequent in the reigns of *Elizabeth* and *James I.* His figure is preserved in the *Antiquarian Repository*, and answers the description given of him by his great pupil *William Lilly*, as having a broad forehead, beetle brows, thick shoulders, flat nose, full lips, a down look, black curling stiff hair, and splay foot. He was a deep student in the *black art* ; and *Lilly* assures us, that he had most *piercing judgment naturally upon a figure of theft*, and many other questions, he ever met withal ; was well versed in the *nature of spirits* ; and had many times used the *circular way of invocating*. He then tells how his friend, *Evans*, by means of the angel *Salmon*, brought to him a deed, which one of his customers had been wronged of, at the same time blowing down part of the house of the person in whose custody it was ; and, again, how, to satisfy the curiosity of Lord *Bothwell* and Sir *Kenelm Digby*, who wanted to see a spirit, he liked to have lost his life, being carried over the *Thames*, and flung down near *Battersca*, by the spirits, whom he had vexed at the time of invocation, for want of *making a due fumigation*. These ridiculous impostures were encouraged by the fashionable credulity of the times ; and the greatest men were the dupes of the pretenders to occult science.²

Weithian dodir ychydig esamplau o'r llyfr rhyfedd a achlysuorodd yr holl nodiadau blaenorol, sef "The Bright Northern Star," a briodolir, fel y gwelwyd, i'r Serddewinwr Evans :—

*Koronog faban Medd Taliesin
A hyny a ddarllenir yn llyfre Merthin
Yng hanoli ous i Rhuthwr yw elin
Ag yni ddiwedd i bydd brenin.*

The *Translation*, *Koronog faban* saith *Taliesin*, and these are read in the books of *Merthin*, in his mid age wil run furious to his enemy, and in his latter days will be a king.

*Koronog faban dyma beth rhyfedd
Chag ef Kafod, i Kilia i'r gogledd
Af a a gill yn lloegir Arglwyddi amowredd
Ag uto brenni fodd ymddiwedd.*

The *Translation*, *Koronog faban* wonderfully wil betake himself to the to avoyd a storm, he shal lose in *England*, Lordships and greatness, and yet he shal be a King before his end.

*Koronog faban Medd hen
Proffwyd or Almaen yn Abergastii
A gill yn i siemgtd y Goron alyllois
Agyn i henaint i bidd gwerdowis.*

¹ Williams's *Em. Welsh.*, p. 150 ; Mackenzie's *Imp. Dict. Univ. Biog.*, vol. ii., p. 182.

² Pennant's *Tours*, vol. ii., pp. 266--7, Ed. 1810.

The *Translation*, *Koronog faban* saith an ancient Prophet from *Almania*, in his youth wil lose the Crown due unto him, in his old age wil be a man of might and greatness.

Ceir y pennillion yna yng Nghaniadau y "Coronog Faban" sydd yn yr *Iolo MSS* yn bur amrywiol.

AMRYWIADAU Y PENNILL CYNTAF.

Koronog faban mēdd Taliesin
a hynny ddarllenir yn llyfrau Myrddin
ynghanol i oes i rhythur yw elyn
ag yny diwedd i bydd brenin.¹

Coronog Faban medd Taliesin
Ac y lieir yn llyfrau Merddyn,
Gwae a gant ragddaw ruthr ei elin
Ban dyddwg yn wlad ei gad gyflin.²

Coronog Faban medd Taliesin
A ddarlleir yn llyfrau Merddin,
Ynghanol ei oes ef nertha Werin
Ac yn niwedd ei oes ef a fydd Brenin.³

Coronog faban medd Taliesin
A hynny a ddarllenir yn llyfrau Merddin
Ynghanol ei oes i rhuthr iw elin,
Ac yn ei ddiwedd y bydd brenin.⁴

AMRYWIADAU YR AIL BENILL.

Koronog faban dyma beth rhyfedd
rag ofn kafod i kilia i'r gogledd
ef a gyll yn lloegr arglwyddiaeth a mawredd
ag etto brenin fydd yn i ddiwedd.⁵

Coronog Faban llyma beth rhyfedd
gan ddyfod cawod a gil i'r gogledd,
Ef gyll yn Lloegr Arglwyddiaeth mawredd,
Ac etto Brenin fydd e'n y diwedd.⁶

Coronog Faban llyma beth rhyfedd
Rhag ofn cafod ef a gilia i'r Gogledd,
Fe gyll yn Lloegr Arglwyddiaeth ryfedd,
Ac etto Brenin fydd e'n y diwedd.⁷

Coronog faban llyma beth rhyfedd
Rhag ofn cafod a gil i'r Gogledd,
Cyll yn Nhir Lloegr yn llwyr ei fawredd,
Ac etto brenin bydd ef yn y diwedd.⁸

AMRYWIADAU Y TRYDYDD PENNILL.

Koronog faban medd hēn Eleamys
proffwyd yr Almaen yn abergasis
a gyll yny iengtid y goron ddestlus
ag ny henaint i bydd gŵr dawnis.⁹

¹ Iolo MSS., t. 288. ² Yr un, t. 267. ³ Yr un, t. 271. ⁴ Yr un, t. 279. ⁵ Yr un, t. 283.

⁶ Yr un, t. 265. ⁷ Yr un, t. 272. ⁸ Yr un, t. 274. ⁹ Yr un, t. 283.

Coronog Faban medd Ernigus
Hen Broffwyd yr Alban a fydd allus
Gwisg yn ei ieuenctid goron ddestlus,
Ag yn ei henaint bydd Ior dawnus.¹

Coronog faban medd Henric^u_ws
Hen brophwyd yr Alban a fudd gallus
Ac yn ei Ieuenctid y goron ddestl^u_ws
Ac yn ei henaint a fydd ddown^u_ws.²

Coronog faban medd Hen Riccus
Prophwyd yr ^{Alban}almaen yn Abergassis.
A gyll yn ei ieuenctid y goron ddyledus
Ag yn ei ieuenctid y bydd gwr dawnus.³

Cyhoeddwyd lluaws o fân lyfrynach Seisnig eraill yn ystod y blynyddau hyn ; ond matterion gwladol, perthynol i ymryson y breninwyr a'r gwerinwyr, ydyw eu cynnwys braidd oll, heb odid ddim perthynas rhyngddynt â llenyddiaeth Gymreig. Y cyfansoddiad llenyddol, cystal a chrefyddol, cyntaf a gyhoeddwyd ar ol y llyfryn dibwys a nodwyd ddiweddaf, oedd yr argraffiad canlynol o'r Testament Newydd :—

Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Jesu Grist. Argraffwyd yn y Flwyddyn M.D.C.XLI.

Tybia awdur y *Llyfryddiaeth*, gan nad oes enw lle nac argraffydd wrth hwn, "y dichon mai yn gyfrinachol y cafodd ei argraffu, gan yr Anghydfurfwyr, ac nid gan argraffwyr trwyddedig y brenin [Charles I.], er bod llun y llew a'r unicorn o amgylch y goron ar yr wyneb-ddalen."⁴ Cyhoeddwyd yr argraffiad yma, yn ol y Dr. T. Rees, oedd William Wroth a Walter Cradoc;⁵ dau o enwogion boreuaf yr Anghydfurfwyr yn Nghymru.

WILLIAM WROTH a anwyd yn Abergefenni, neuç yn agos yno, yn y fl. 1570. Dywedir ei fod yn hanu o'r hen deuluoedd parchusaf yn sir Fynwy ;⁶ ond methwyd cael dim o'u hanes hwy, na hanes ei fabandod yntau. Derbyniwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, ar yr 21fed o Ionawr, 1586. Graddiwyd ef yn B.A. ar y 18fed o Chwefror, 1595. Ni fynegir pa bryd yr

¹ Iolo MSS.; t. 268. ² Yr un, t. 272. ³ Yr un, t. 280. ⁴ Llyf. y Cymry, t. 128.

⁵ Rees's Hist. Noncon. in Wales, p. 499. ⁶ Ibid, p. 41; Han. Egl. Annl. Cymru, cyf 1., t. 9.

urddwyd ef yn offeiriad ; ond ymddengys i hyny ddygwydd yn fuan ar ol iddo gael y radd o B.A., canys dywedir iddo gael Ficeriaeth Llanfaches (plwyf rhwng Casnewydd a Chas Gwent), gan y noddwr, Syr William Lewis o'r Fan, ger llaw Caerphili, rywbyrd yn ystoŵ y fl. 1595.

Cafodd W. Wroth ei argyhoeddi trwy farwolaeth ddisym-mwth gŵr boneddig o gâr iddo, oedd yn un o'i wrandawyr yn Eglwys Llanfaches ; yr hyn a ddygwyddodd, fel y gellir casglu oddi wrth yr hanesion manylaf am dano, o gylch y fl. 1600, pan oedd efe tua 30 oed.¹ Yn lled fuan ar ol ei ddwys argyhoeddiad, ymroddes Wroth i deithio gwahanol barthau Cymru, a rhai manau yn Lloegr hefyd, "gan bregethu yr Arglwydd Iesu ;" a mawr y croesaw a roddid iddo gan grefyddwyr difrifol trwy'r holl wlad. Gorfodwyd ef o'r diwedd i ymddangos ger bron y Dr. T. Field, Esgob Llandaf, yr hwn a ofynodd iddo yn ddigllawn, pa fodd y beiddiai droseddu canonau yr Eglwys trwy'r fath weithrediadau afreolaidd. Atebodd Wroth druan, yn ostyngedig, gan ddywedyd, "Fy Arglwydd, y mae fy nghydwladwyr truain, wrth y miloedd, yn myned i'r farn yn eu pechodau, a neb yn eu rhybuddio i ffoi rhag y llid a fydd ; ac nis gallaf fod yn llonydd heb fynegi iddynt eu perygl ofnadwy, er i mi droseddu canonau yr Eglwys wrth wneuthur hyny." Dywedodd Wroth y sylw yna gyda'r fath deimlad dwys a dagrau, fel y tynodd ddagrau o lygaid yr esgob hefyd ; yr hwn a'i gollyngodd ymaith y waith hon, gan ddywedyd yn dyner wrtho, "Dos, ac na phecha mwyach." Er hyny, parhau i droseddu a wnaeth Wroth, a chael ei oddef yn yr Eglwys hefyd, ond trwy lawer o helbulon ac ymosodiadau, hyd tua diwedd y fl. 1638, pan y gwyswyd ef i Lys yr Arbrwyadaeth;² a'r canlyniad fu ei amddifadu o'i Ficeriaeth. Yn y flwyddyn ganlynol, sefydlodd Wroth Eglwys Annibynol yn Llanfaches ; ac yn nechreu'r fl. 1642, bu farw mewn oedran teg, a chladdwyd ef, yn ol ei ddymuniad ei hun, dan drothwy Eglwys y

¹ The Broadmead Records, e.l. 1847, pp. 7. 8 ; Rees's Hist. Noncon. in Wales, p. 43.

² The Court of High Commission.

plwyf lle y bu gwasanaethu am o gylch deugain mlynedd. Nid ydys yn gwybod y bu ganddo law mewn cyhoeddi unrhyw lyfr Cymraeg ond yr argraffiad a nodwyd o'r Testament Newydd.

WALTER CRADOC a anwyd yn Nhrefela, ym mhlwyf Llan-gwm-ucha, ger llaw Brynbuga (Usk), yn sir Fynwy. Dywedir iddo gael ei addysg athrofaol yn Rhydychain; ond gan nad yw coflyfrau yr athrofa yn myned mor bell yn ol a'i amser ef, ni sonir am dano mewn cyssylltiad â'r athrofa. Tybir iddo gael ei eni rhwng y fl. 1606 ac 1610; tra y dyry rhai ei enedigaeath yn 1600. Galwai Esgob Llandaf ef yn y fl. 1633, yn "gydymaith ieuangc hyf ac anwybodus." Tybir iddo gael ei argyhoeddi, pan yn ieuangc, dan bregethiad William Wroth, yn Llanfaches, oedd yn lled agos i'w gartref. Pan adawodd yr athrofa, sefydlwyd ef yn gurad, yn gyntaf mewn lle a elwir *Peterston-under-Ely*, yn sir Forganwg; ac wedi hyny yn Eglwys Mair Santes yng Nghaer-dydd. Yn y fl. 1633, cymmerth yr esgob ei drwydded i wasanaethu y guradiaeth honno oddi arno, am iddo wrthod darllen Llyfr y Chwareuon ar y Sabbath. Mewn canlyniad i hyny, aeth yntau i Wrecsam, a derbyniwyd ef, trwy ryw foddion sydd weithian yn anhyspys, i'r guradiaeth yno. Ond wedi bod yno o ddeutu blwyddyn, llwyddodd rhyw fragwr dylanwadol, a'i enw Timothy Middleton, i'w droi oddi yno, am iddo glywed mai efe a fu'n foddion i sobri llawer o feddwon y dref, ac i waghau'r tafarnau.

Pan ymadawodd o Wrecsam, bwriadai ddychwel i'r Deheubarth, ac ar ei ffordd, treuliodd beth amser gyd â'i gyfaill, Richard Symonds, yn Amwythig, lle yr aeth yn gydnabyddus â Richard Baxter. Ymhen rhyw ennyd aeth oddi yno i Sir Henffordd, lle yr arfollwyd ef yn garedig gan Syr Robert Harley, o Brampton Briars, dros dair neu bedair blynedd; o'r lle yr elai ar deithiau pregethwrol yn fynych i Sir Faesyfed, Sir Frycheiniog, Sir Drefaldwyn, a Sir Aberteifi; a bu'n dra llwyddiannus.

Yn y fl. 1639, yr ydys yn cael W. Cradoc yn Llanfaches, yn

cynnorthwyo yr oedranus Wroth i sefydlu Eglwys Gynnull-eidfaol yno; ac ym mhen dwy flynedd wedyn, llwyddodd y ddau, fel y gwelwyd, i gyhoeddi argraffiad o'r *Testament Newydd*. Pan fu farw Wroth, W. Cradoc a ddewiswyd yn olynedd iddo yn yr Eglwys honno; ond ni chafodd lonydd yno dros fwy na dau neu dri mis ar ol marwolaeth Wroth; canys pan dorodd y rhyfel allan rhwng Charles I. a'r Senedd, ffodd Cradoc, ac eraill o'r eglwys, i Gaerodor, yr hon oedd ar y pryd ym meddiant byddin y Senedd. Yn y fl. 1643, rhoddwyd y ddinas honno i fynu i filwyr y brenin; ac yna ffodd Cradoc, ac eraill a allent, i Lundain. Yn fuan ar ol cyrhaedd yno, appwyntiwyd Cradoc yn bregethwr sefydlog yn *Great All-hallows*. Parhaodd yn y sefyllfa yma hyd y fl. 1646, pan y dychwelodd ef, a'r pregethwyr eraill a ffoisant o Gymru pan dorodd y rhyfel allan, yn ol i'r Dywysogaeth, i fod yn bregethwyr teithiol yno, dan nawdd y Senedd.

Dengys T. Rees¹ bod Cradoc wedi cyhoeddi argraffiad o'r *Testament Newydd* yn y fl. 1646; ond methais daro wrth hanes yr argraffiad hwnw mewn un man arall;² ond cyttuna yr awdurdodau ei fod wedi cyhoeddi argraffiad o'r *Testament Newydd* yn y fl. 1647. Hefyd, cyhoeddodd ef, mewn undeb â Vavasor Powel, argraffiad o'r holl *Fibl*, ac o'r *Testament Newydd* ar wahan, yn y fl. 1654.

Nid ydys yn gwybod ddarfod i Walter Cradoc gyhoeddi unrhyw lyfr Cymraeg arall. Bu farw yn Trefela, ar y 24ydd o Ragfyr 1659, a chladdwyd ef yng nghanell Eglwys Llangwm-ucha, sir Fynwy.³

Gellir casglu mai rhyw gyfran o waith Rhys Prichard, Ficar Llanymddyfri, oedd y llyfr Cymraeg nesaf a gyhoeddwyd ar ol y *Bibl* a'r *Testament Newydd* a nodwyd, yr hwn a elwir yn *Llyfryddiaeth y Cymry* fel hyn; a ddodir dan y fl. 1646:—

¹ Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 499.

² Llywelyn's Hist. Acc. of the Welsh Ed. of the Bible, p. 55; Llyfr. y Cymry, t. 141; Gwyddoniadur, cyf. I., t. 639; Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 51.

³ Broadmead Records, p. 29; Williams's Em. Welshm., p. 85; Llyfr. y Cymry, t. 165; Geir. Bywgr. J. T. J., cyf. I., t. 82; Gwyddoniadur, cyf. x., t. 500; Enwogion y Ffydd, cyf. I., t. 111.

Canwyll y Cymry, &c. Gan Rhys Prichard, Ficar Llanymddyfri yn Neheubarth [Llundain. 8plyg.]¹

Priodola awdwr y *Llyfryddiaeth*, "ac eraill," gyhoeddiad y gwaith yna i Stephen Hughes; ond y mae'r Golygydd yn amhieu'r priodoldeb o hyny; a barn efe nad oes brawf i Stephen Hughes gyhoeddi dim o waith y Ficar hyd y fl. 1672. Dywed hefyd nad "Canwyll y Cymry" oedd enw argraffiad 1646; "canys dywed S. Hughes mai *wedi* argraffu o hono ef y gwaith y cyfarfu â'r enw hwnw yn un o ysgrifau yr awdwr; a chwanaega:—'Yr wyfi yn deisyf ar y neb a'i printio ar fy ol i roddi yr enw hynny iddo.'" Pa wedd bynnag, "Canwyll y Cymru" y gelwir y gwaith yn argraffiad addefedig cyntaf S. Hughes, fel y canlyn:—

Canwyll y Cymru—yn bedair rhan. Llundain. [8plyg.]²

Heb law y rhan grybwylledig o waith Rhys Prichard a gyhoeddwyd, yn ol y *Llyfryddiaeth*, yn 1646, tybir y cyhoeddwyd llyfryn arall yn yr un flwyddyn, o waith OLIVER THOMAS, a elwid fel y canlyn:—

Drych i dri math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhithgristion, a'r Gwirgristion.

Gwilym Lleyllyn a ddywed, "Yr ydys yn ei gyflëu yma [dan y fl. 1646] ar awdurdod 'Llythyr at y Darllenydd' i'r 'Trysor i'r Cymry,' o ba lyfr y mae hwn yn rhan, lle y dywedir fod y 'Drychau' wedi eu 'printio unwaith o'r blaen er ys deng mlynedd ar hugain a aethant heibio.'"³

Cyhoeddwyd y "Trysor i'r Cymru" yn y fl. 1677, a'r "Drych" a nodir uchod yw yr ail draethawd yn y casgliad, am yr hwn y dywedir yn yr enwad-ddalen:—"Drych i dri math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhith-gristion, a'r Gwir-gristion, o waith Mr. Oliver Thomas, Carwr y Cymru."⁴

Y llyfr Cymraeg nesaf a gyhoeddwyd, hyd y canfyddir, a hyny yn y flwyddyn ganlynol, sef 1647, oedd—

Y Testament Newydd.

Hwn oedd y rhan gyntaf o'r Ysgrythyrau a gyhoeddwyd ar ol yr argraffiad o'r holl Fibl yn y fl. 1630, yr hwn argraffiad

¹ Llyfr. y Cymry, t. 188. ² Yr un, t. 200. ³ Yr un, t. 140. ⁴ Yr un, t. 207.

a greasai syched mawr mewn lluaus o'r genedl am "ddidwyll laeth y Gair." Dywedir mai 1,000 o gopïau 12plyg bychan a gyhoeddwyd o'r Testament hwn, heb na chynnwysiad i'r pennodau, na chyfeiriadau ar ymyl nac ar odreu y dail; ac ni fynegir pwy oedd y cymmwynaswr a'i cyhoeddodd.¹ Dyma yr unig lyfr Cymraeg, hyd y canfyddir, a gyhoeddwyd yn ystod y fl. 1647.

Ymddengys mai argraffiad o'r "Salmau ar gân" ydyw y llyfr Cymraeg nesaf, yr hwn a ddodir yn *Llyfryddiaeth y Cymry* dan y fl. 1648, fel hyn :—

Y Salmau ar gân. Llundain. [12plyg].

Am yr argraffiad yma o'r Salmau cân dywed Gwilym Lleyn fel hyn :—

Dyma y waith gyntaf y cawn grybwyllid am y Salmau fel hyn ar gân. Y mae yn dra thebyg mai yr argraffiad cyntaf ydoedd o waith yr Archddiacon Prys, ac iddo gael ei gyhoeddi wrtho ei hun, ac nid yn gyssylltiol â'r Beibl, na Llyfr y Weddi Gyffredin; canys nid ydys yn cael fod yr un wedi eu cyhoeddi y flwyddyn hon.²

Ymddengys i'r Llyfryddwr llafurus anghofio ddarfod iddo gofnodi bod cyfeithiad Edmund Prys o'r Salmau ar gân wedi ei gyhoeddi o'r blaen yn y blynyddoedd 1621,³ yn 1628;⁴ ac yr ydym yn gwybod, fel y dangoswyd eisoes, eu bod mewn cyssylltiad â'r argraffiad o'r Bibl a gyhoeddwyd yn 1630.

Y llyfr Cymraeg diweddaf a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod y testyn, hyd y gwyddys, oedd yr un canlynol :—

Cywydd Marwnad Siarles y Cyntaf, Brenin Prydain Fawr, Ffrainge, a'r Werddon, a'r Ynysoedd a'r Moroedd o'u cwmpas, Pen amddiffynwr y Ffydd. O waith Wiliam Philip o Sir Feirionydd, ŵr bonheddig. A.D. 1648.⁵

Dywed Gol. y *Llyfryddiaeth* mai allan o lawysgrifen y cymmerwyd yr enw blaenorol; "ond y mae genym dystiolaeth benodol a diymwad," eb efe, "gael o'r Farwnad ei *hargraffu*; canys yng 'Nghywydd Marwnad Wiliam Phylip o'r Hendre Fechan,' o waith ei gân Phylip Sion Phylip, ceir y llinellau canlynol mewn cyfeiriad at y gwaith dan sylw :—

'Gwnai *Farwnad* wiw-rad ar ol
Ein Brenin uniawn breiniol;

¹ Llewelyn's Hist. Acc. &c., p. 55; Llyfr. y Cymry, t. 141; Gwyddoniadur, cyf. i., t. 639

² Llyfr. y Cymry, t. 145. ³ Yr un, t. 102. ⁴ Yr un, t. 104. ⁵ Yr un, t. 149.

Ei gwyn am *Siarls* genym sydd
 Yn *brintiedig*, braint dedwydd ;
 Teilwng oedd, lân ben talaith,
 Yn *brint* roi i holl iawn-bur waith.'

"Dywed yr un Farwnad i Wiliam Phylip farw ym mis Chwefror, yn y fl. 1669, a chael o hono ei gladdu yn Llan-ddwywe :—

'Oedran Iesu, Deyrn oesoedd,
 Yn dwyn gwr da enwog, oedd
Mil, chwecchant, wylant helaeth,
Chwe deg a naw, och dygn aeth !
 Yn *Chwefror* y llwyr dorwyd
 Pen Awen gymhen i gyd ;
 Ai corff hwn, y gwr hoff hael,
 I *Lan Ddwyrwe* lân ddiwael :
 Y Bedd lle mae i orweddiad
 Wrth glun sydd y dedwydd dad.'

"Nid oes ddadl nad ar fedd Wiliam Phylip y mae y gareg sydd yn dwyn yr argraff ganlynol : 'W. Ph. 1669, FE. XL.' Gesyd y difyniad blaenorol hyny tu hwnt i amheuaeth. Costiodd ysgrifenu Marwnad Siarls yn ddrud i'r bardd ; attafaelwyd ei holl feddianau gan wyr y Senedd ; a gorfu arno yntau ffoi am ei einioes, ac ymlechu ym mhlith y llwyni eithin ac yn holltau mynyddoedd Ardudwy,"¹ lle y cyfarfu, fel y gwelwyd eisoes, â Rowland Fychan o Gaer-gai, lle yr oedd yntau wedi gorfod ffoi o herwydd ei ffyddlondeb i'r freniniaeth. Yn ei bennill ateb i R. Fychan, pan oedd y ddau ar ddiflant ym Mynyddoedd Ardudwy, dywed y bardd ei fod ar y pryd, "yn ddeuddeg a thriugain ;" ac, medd Gol. y *Llyfryddiaeth*, "os oedd ef yn 72 oed yn 1648, rhaid ei fod o gylch 93 yn 1669, pan y dygwyddodd ei farwolaeth ;" a rhaid hefyd y ganwyd ef o gylch y fl. 1576. "Cyfeirir yn ei farwnad at ei fawr oedran pan y bu farw :—

" 'Triniodd y byd tra anwir,
 Trwy iawn hap i oedran hir ;
 Mewn glân fuchedd rinweddawl
 Hyd ei fedd, wr hynod fawl.' "

Y Cywyddau argraffedig eraill o waith Wiliam Phylip, yw y rhai canlynol :—

Marwnad Gruffydd Fychan ab Sion Fychan o Gaergai Esgwier.²
 Cywydd y Bedd.³

¹ Llyfr. y Cymry, t. 140—50.

² Y Brython, cyf. iv., t. 147

³ Yr un, t. 185.

Marwnad i'r unrhyw wr eilwaith [Gruffydd Fychan ab Sion Fychan o Gaergai]
yn ymddyddan â'r marw megys mewn breuddwyd neu ddrych.¹

Y mae pedair o ganiadau rhyddion, lled feithion, o'i waith
yn y *Blodeugerdd*, ar y testynau canlynol :—

Cerdd i Siani.
Carol i'r Gwirod, ar Dôn Deuair.
Dirifau'r Amser.
Pedwar Peth rhagorol i'w Cofio.

Y gân a nodwyd olaf sydd fel y canlyn :—

Pedwar peth oedd raid ei gofio,
I fwrw pob oferedd heibio ;
Mewn cynghaneld ac ysgrifen,
Dyma'r pedwar peth i'w darllen.

Os rhaid rhoi *Cyfri* am bob gair ofer,
O flaen Duw i bawb ryw amser ;
Er Duw pa dâl sy i Ddyn i'w Wyllo,
Am bob gweithred ddrwg a wnelo.

Oni *Ystyria* Duw am bechod,
Y Dyn gwirion ffol di-wybod ;
Beth a ddywed o flaen IESU,
Y Dyn sy'n gwybod ac yn pechu?

Os *Casha* Duw y Cybydd an-lan,
Am nacau o'i eiddo ei hunan ;
Y 'mhle 'r ettyb chwi ellwch ddeall,
Y traws a ddycco 'r eiddo arall?

Os *Condemnir* wrth roi cyfri,
Y Dyn ni wnaeth erioed ddaioni ?
Beth a geiff y Dyn i'w ddywedyd
Ni wnaeth ond drwg holl ddyddiau ei fywyd ?

Dy di a weli o flaen dy Lygaid,
Beth ydyw ystad y pechaduriaid ;
Nid am bethau mawr a bychan,
Ond Trugaredd Duw ei hunan.

Galw am rās ac Edifeirwch,
Ac a Duw gwna di dy heddwch ;
Cais dy bardwn gwylia gyssgu,
Rhag dy farw Cyn y foru.²

Yr hyn a nodwyd yw'r cwbl o'i waith, hyd y gwyddys, sy'n
argraffedig, heb law ychydig Englynion sydd yn y *Y Greal* a'r
Brython. Dengys cofres y Dr. Pughe hefyd fod un gerdd ys-
grifenedig o'i waith yn un o Ysgriflyfrau Myfyr ; ond nis gwn
pa un ai caeth ai rhydd ydyw honno.

¹ Y *Brython*, cyf. iv., t. 285.

² *Blodeugerdd*, arg., 1759, t. 413.

Er nad argraffwyd dim ychwaneg o weithiau yn dwyn perthynas uniongyrchol â llenyddiaeth Gymreig yn ystod yr hanner canrif olaf o gyfnod y testyn, hyd y gwyddys ; eto, fe gynnyrchwyd amryw gyfansoddiadau pwysig gan rai gwŷr enwog a anwyd ar wahanol amserau yn ystod yr hanner canrif honno a'r un flaenorol ; am hyny, tybir mai i gyfnod y testyn y perthyn y cyfryw gyfansoddiadau agosaf. Yn awr, ymdrechir nodi y rhai hynotaf o'r cyfryw gyfansoddiadau, ynghyd â'u hawduron.

JAMES HOWELL oedd enw awdur, neu gasglydd, y llyfr cyntaf o'r dosparth yma a nodir ; ac un hynod iawn ydoedd fel y ceir gweled yn ebrwydd. Ganwyd James yn y fl. 1594, yng Nghefn-y-Bryn, yn mhlwyf Llangammarch, sir Frycheiniog, lle yr oedd ei dad, Thomas Howell, yn gurad, o'r fl. 1576 hyd 1631, pryd y cafodd fywioliaeth Abernant a Chynwil Caio, yn sir Gaerfyrddin. Cafodd James ei ddysg foreuol yn Ysgol Rydd Henffordd ; ac yn fl. 1610, pan oedd yn 16 oed, anfonwyd ef i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain. Yn y fl. 1613, graddiwyd ef yn B.A. ; ac yn 1619, aeth ar daith trwy Holand, Fflandrys, Ffrainc, yr Hispaen, a'r Ital ; a dysgodd ieithoedd y gwledydd hyny. Yn y fl. 1622, anfonwyd ef i'r Hispaen er ymdrechu adennill llong Seisnig oedd dan attafaeliad gan isfrenin Sardinia. Yn y fl. 1623, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg yr Iesu ; ac yn fuan wedi hyny, penodwyd ef yn ysgrifenydd i Scrope, Iarll Sunderland ; a thrwy ddylanwad y boneddwr hwnw, etholwyd ef yn aelod Seneddol dros Richmond yn y fl. 1626. Yn 1630, aeth yn ysgrifenydd gyda Robert, Iarll Leicester, yr hwn a benodasid yn negesydd y Llywodraeth Brydeinig i Lys Denmarc ; ac yno dangosodd y fath allu hyawdl i areithio yn Lladin, fel y derbyniodd ffafrau neillduol gan y brenin. Pan ddychwelodd i Loegr, penodwyd ef yn un o ysgrifenyddion y Cynghor yn Llundain ; ond o herwydd ei wastraff, cyfyngwyd ef yn lled fuan i garchar y Llynges am ddyled. Yn y fan honno yr ymroddes i ysgrifenu llyfrau. Dywed Wood fod nifer yr holl lyfrau a ysgrifonodd rhwng 50

a 60. Pan esgynodd Charles II. i'r orsedd yn y fl. 1660, penodwyd Howell yn Hanesydd Breninol; a llanwodd y swydd honno hyd ei farwolaeth yn y fl. 1666.¹ Nid ydys yn gwybod iddo ysgrifenu dim Cymraeg ond a geir yn y llyfr cymmysg rhyfedd a ganlyn:—

Lexicon Tetraglotton, An English-French-Italian-Spanish Dictionary, Whereunto is adjoined a large Nomenclature of the proper Terms (in all the fowvr) belonging to several Arts and Sciences, to Recreations, to Professions both Liberal and Mechanicks, &c. Divided to Fiftie two Sections; With another Volume of the Choicest Proverbs in all the sayed Toungs, (consisting of divers complete Tomes) and the English translated into the other Three, to take off the reproach which useth to be cast upon Her, that she is but barren in this point, and those Proverbs She hath, are but flat and empty. Moreover, There are sundry familiar Letters and Verses running all in Proverbs, with a particular Tome of the British, or old Cambrian Sayed-Sawes and Adages, which the Author thought fit to annex hereunto, and make Intelligible, for their great Antiquity and Weight: Lastly, there are Centuries of New Sayings, which in tract of Time, may serve for Proverbs to Posterity. By the Labours and Lucubrations of James Howell, Esqr., *Senesco, non Segnesco*.

London, Printed by Thomas Leach. [1659].

“Y mae i'r rhan Gymraeg o'r llyfr mawr a chywrain hwn,” medd G. Lley, “ragddalen arall, â'r darn, neu y dosbarth hwnw yn cael rhifo ei ddalenau wrtho ei hun:—‘Diharebion Cymraeg, Wedu ei cyfieithu yn Saisoneg. British, or old Cambrian Proverbs, and Cymraecau Adges never Englished (and divers never published) before.’ Y mae yr ‘Epistle Dedicatory’ yn gyflwynedig ‘to the Right Honorable, (My most endeared Lord) Richard Earl of Carbery, &c. At his Palace in Golden Grove’; ac wedi ei amseru ‘London 4^o Idus Martii. 1658,’ gan yr awdur ‘Jam. Howell’; ac un arall tra chywrain, ‘To the Knowing Reader’; ac ‘A Letter to the Author from a worthy Gentleman who supplied him with some British Proverbs,’ gan ‘Richard Owen,’ a’i amseru ‘Eltham in Kent. Aug. 20, 1657.’”

Diarhebion Cymreig, wedi eu cyfieithu gan James Howel.²

Dododd G. Lley hwn dan y fl. 1659; a Gol. y *Llyfryddiaeth* a ddywed am dano fel y canlyn:—

Nid yw hwn ddim amgen na darn neu gyfran o'r ‘Lexicon Tetraglotton.’... Hwn yw yr unig ddarn Cymraeg sydd yn y gwaith hwnw. Cynnwys 48 o ddalenau. Os ystyrir ef yn waith gwahanredol, ni ddyblasid ei gofnodi fel rhan o'r

¹ Williams's Em. Welshm., p. 220.

² Llyfr. y Cymry, t. 182.

Geirlyfr Pedriethiog; ac os ystyrir ef (yr hyn ydyw mewn gwirionedd) megys rhan o hwnw, ni ddylasid ei osod ef i lawr ar ei ben ei hun. Heb hwn nid oes dim perthynas rhwng y Geirlyfr a Chymru neu Gymraeg; ac amlwg yw na ddylasid cofnodi yr un gwaith ddwywaith. Hyd yr wyf yn deall, ni chyhoeddwyd mo'r 'Diarebion Cymraeg' ar eu pen eu hunain.¹

EDWARD WYNN, D.D., ydoedd lenor Cymreig arall; yr hwn a anwyd, fel y tybir, o gylch y fl. 1600. Mab ieuengaf oedd efe i Edward Wynn, Ysw., o Fodewryd, Mon, a Margaret, merch y Dr. R. Morgan, Esgob Bangor. Cafodd ei addysg athrofaol yng Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn B.A. (G.C. = Gwryf yn y Celfyddydau), medd Williams;² ond A.C. (Athraw yn y Celfyddydau = M.A.), medd Gwilym Llyn.³ Ar y 5med o Fehefin, 1644, cafodd beriglorigaeth Llan ym Mawddwy, gan ei ewythr, yr Esgob Owen, Bangor. Ar ol dyrchafiad Charles II. yn 1660, cafodd beriglorigaeth Llanarmon, yn sir Gaernarfon, a Llangeinwen, yn sir Fon. O gylch y fl. 1661, cymmerth y radd o D.D.; a chafodd beriglorigaeth Llanllechid, yn sir Gaernarfon; ac yn y fl. 1663, gwnaed ef yn Ganon yn Llanelwy, ac yn Ganghellydd ym Mangor; ac yn y fl. 1668, cafodd beriglorigaeth Llaneugrad, Mon. Bu farw ar yr 17fed o Ragfyr, 1669; a chladdwyd ef yn Llangaffo, Mon.

Gwelir y bu'r Dr. Wynn yn bur llwyddiannus yn ei oes am fywiolaethau; ac yn wir, chwareu teg iddo, bu'n fwy defnyddiol na llawer un a gafodd gymmaint ag yntau, a mwy hefyd. Sefydodd ysgol yng Nghaergerbybi, lle nad oedd dim manteision addysg cyn hyny; rhoddes 50p. i addurno Eglwys Gadeiriol Bangor; 100p. er cynnal clasgedog o 6p. y flwyddyn yng Ngholeg yr Iesu, yng Nghargrawnt, lle y cawsai ei addysg athrofaol ei hun; a chyfansoddodd y llyfr Cymraeg canlynol:—

Trefn Ymarweddiad y Gwir Gristion, neu Lwythr hyffordd i'r Cymro i rodio arno beunydd gyda Duw. Gan Edward Wynn, D.D. [Llundain, 1662. 8plyg.]⁴

Ail argraffwyd y llyfr hwn "yn y Mwythig gan John Rhydderch, tros Thomas John Morgan, yn y flwyddyn 1723-4."⁵

RICHARD JONES o Ddinbych, oedd awdur arall o'r adran yma o gyfnod y testyn. Ychydig o'i hanes ef sydd ar gael, fel

¹ Llyfr. y Cymry, t. 182. ² Williams's Em. Welshm., p. 548. ³ Llyfr. y Cymry, t. 189

⁴ Llyfr. y Cymry, t. 188. ⁵ Yr un, t. 336.

y rhan fwyaf o'i gydoeswyr. Fel y canlyn y dywedodd Gwallter Mechain am dano :—

Nis gwn pwy oedd *Richard Jones* o Ddinbych, os nad yr un â Richard Jones, mab Sion Puw o Henllan, yn ymyl Dinbych, a anwyd o ddeutu y fl. 1603. Yr oedd y gwr hwn yn un o oreuon ein cenedl; ond ni chafodd ei goffiad y sylw a deilyngai. Derbyniwyd ef yn aelod o Athrofa yr Iesu yn Rhydychain, yn 1621. Cymmerodd ei radd yno, a bu wedi hyny yn bregethwr. Ysgrifnodd grynoded o lyfrau a phenedau y Bibl, a galwodd y llyfr *Gemma Cambricum*. Ysgrifnodd yr enwog James Howel ragymadrodd o gymmeradwyaeth iddo; ac argraffwyd ef yn Rhydychain, yn 1652.¹ Y mae yn brin iawn yn bresennol. Mynegodd y Dr. Michael Roberts, penaeth Athrofa yr Iesu, i Wood, fod Mr. Jones wedi marw yn yr Iwerddon, ryw bryd cyn 1657. Nid oedd annichonawl iddo gyfieithu llyfr Mr. Gouge, o herwydd yr oeddynt ill dau o'r un oedran; ac yr oedd Mr. Gouge hyd y flwyddyn 1662 yn weinidog fyddlaw a llafurus yn yr Eglwys Sefydledig. Tebyg mai o ffordd y gwrthryfel yr aeth Mr. J. i'r Iwerddon. Buddiol fyddai cael ychwaneg o hanes y gwr da hwn.²

Enw'r llyfr cyntaf y cyfeiriwyd ato, a'r unig un o gyfansoddiaid R. Jones, fel yr ymddengys, sydd fel hyn :—

Gemma Cambricum, neu Mnemonica Biblorum.—Perl y Cristion, neu Gofiadur y Bibl. Gan Richard Jones, M.A.³

Tybir mai yr ail ran o "Berl y Cymro" ydyw y llyfr canlynol, medd G. Lleyl :—

Testun y Testament Newydd, &c. Llundain.

Y llyfrau a gyfieithwyd gan R. Jones oedd y rhai canlynol :—

Hyfforddiadau Cristionogol. Yn dangos Pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y dydd. A osodwyd allan yn Saesonec, Gan Thos. Gouge, Gweinidog yr efengyl, ac yn Gamberaec gan Richard Jones, o Ddinbych.

Printiedig yn Llundon gan A. Maxwell, i'r Awdwr. 1675.

"Diwygiwr y Preint-wasg," medd G. Lleyl, "oedd Charles Edwards";⁴ a diau mai efe oedd y cyhoeddwr, ac nid yr "awdwr," fel y dengys yr enwad-ddalen. Llyfr arall a gyfieithwyd gan R. Jones, oedd "Bellach neu Byth,"⁴ o waith Baxter; ac a gyhoeddwyd yn y "Trysor i'r Cymro," yn y fl. 1677.

Ymddengys bod y tri llenor nesaf, nid yn unig yn gydoeswyr, ond hefyd yn gydymdrechwyr llafurus a llwyddiannus er cynnysgaeddu y Cymry â llenyddiaeth Gymreig fuddiol; am

¹ Yn Llundain, yn 1655, yn ol Cofrestr Moses Williams, rhif 101, fel yn y *Llyfryddiaeth*; ond Wood a'i dryy yn 1652, fel Gwallter Mechain. Y mae'n dra thebyg ei fod ym meddiant Moses Williams pan yn ei gofrestru; ond y mae'n amheus a oes amser a lle ei argraffiad ynddo ai peiddlo.

² Gwaith G. Mechain, cyf. il., t. 300. ³ Cofr. M. Williams, rhif 101; *Llyfr. y Cymry*, t. 168.

⁴ *Llyfr. y Cymry*, t. 202.

hyny tybir bod yn eithaf priodol sylwi ychydig arnynt yma mewn cyssylltiad â'u gilydd ; sef oeddynt Thomas Gouge, Charles Edwards, a Stephen Hughes.

THOMAS GOUGE, fel yr ymddengys, oedd yr hynaf o'r tri. Sais cyfoethog, dysgedig, duwiol, a haelionus iawn oedd efe ; mab i'r enwog William Gouge, D.D., periglor Blackfriars, Llundain. Ganwyd Thomas yn Bow, yn agos i Stradford, yn Middlesex, ar y 19ydd o Fedi, 1605. Er mai Sais trwyadl, o dad a mam, oedd Mr. Gouge, bu mor ymdrechgar i hyfforddi ein cenedl ni yn y pethau a berthynent i'w heddwch a'i hiachawdwriaeth, trwy gyfrwng llenyddiaeth Gymreig, ac mor haelionus er eu cysur tymmorol, fel y bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig byth yng nghof pob Cymro gwladgarol a ddarlleno ei hanes, a'r llyfrau gwerthfawr y bu'n foddion, mewn cyssylltiad â'r ddau lenor a enwyd, i'w cyhoeddi.

Cafodd Gouge ei addysg foreuol yn Ysgol Eton, ac wedi hyny yng Ngholeg y Brenin ym Mhrifathrofa Caergrawnt, i'r hon yr aeth yn y fl. 1626, lle y graddiwyd ef yn M.A., ac y daeth yn gymmrawd o'r Coleg. Wedi hyny, newidiodd ei gymmrodoriaeth am fywiolaeth blwyfol Colsden, ger llaw Croyden, yn Surrey, lle y bu am ddwy neu dair blynedd ; ac yn y fl. 1638, symmudodd i St. Sepulchre, yn Llundain. Bu yn llafurio yn egnol, ffyddlon a haelionus iawn yn y plwyf ehang a phoblogaidd hwnw dros bedair blynedd ar hugain. Heb law ei fod yn dyfal bregethu, yr oedd yn dra diwyd yn ei ymweliadau â'r cleifion a'r tlodion ; ac yr oedd ei gyfraniadau at eu hangenion tymmorol yn gyfartal i'w gyfarwyddiadau ysprydol iddynt. Byddai yn holwyddori bob boreu drwy'r flwyddyn yn yr eglwys, yn benaf y rhai tlotaf, y rhai yn gyffredin oedd yn fwyaf anwybodus, ac yn enwedig yr hen a'r methiantus, y rhai a feddent fwyaf o amser. Er mwyn eu denu i ddyfod ato i dderbyn addysg, arferai roddi arian iddynt unwaith yn yr wythnos, ond newidiai y diwrnod i gyfranu, er mwyn eu denu i ddyfod yn wastad i wrando ei addysgiadau a'i gynghorion. Am y tlodion a allent weithio, prynai lin a chywarch iddynt i'w

nyddu; talai yn haelionus am eu gwaith; a gwerthai yr edafedd ym mhlith ei gyfeillion fel y gallai. Bu'n foddion i achub llawer o'i blwyfolion rhag seguryd, tloidi, a llygredigaeth bywyd. Y fath esampl ogoneddus oedd y dŷn duwiol, haelionus, a llafurus hwn i athrawon cyfoethog, a boneddigion tiriog ein gwlad!

Pan ddaeth Deddf Babaid, annuwiol yr Unffurfiad i rym yn y fl. 1662, rhoddes yr hynaws Thomas Gouge ei fywioliaeth eglwysig i fynu, gan sylwi yn dirion a boneddigaidd, "Nid oes angen am danaf fi mwyach yn Llundain, lle y mae cynnifer o weinidogion teilwng; ond gallaf finnau wneud daioni mewn lle arall heb roddi tramgwydd i neb." Prin y dygwyddodd dim yn ystod y ganrif hon mwy ffodus i genedl y Cymry, oedd mor amddifad o fanteision llenyddol ac addysgiadol, na'r amgylchiad rhyfedd yma.¹

Am gyssylltiad pwysig y gŵr enwog a hunanymwadol hwn â llenyddiaeth Gymreig, nid yw hyspys yn fanwl pa bryd, na pha fodd y trodd ei sylw haelionus at genedl y Cymry. Gan fod Charles Edwards a Stephen Hughes yn Llundain yn fynych y pryd hyn, mewn cyssylltiad â'r llyfrau a ddygid ganddynt trwy'r wasg, tybia'r Dr. T. Rees na byddai dim yn fwy naturiol na meddwl iddo ddyfod i gyssylltiad â hwy; a bod y darluniad a roddent hwy o sefyllfa amddifad eu cydwladwyr, wedi arwain y dyngarwr enwog i ddewis y Dywysogaeth fel prif safle ei ddefnyddioldeb dyfodol. Y mae'n bur debyg hefyd iddo ddyfod i gyfarfyddiad â Walter Cradoc a Vavasor Powel yn Llundain, ychydig cyn amser Charles Edwards a Stephen Hughes; a'u bod hwythau wedi mynegi iddo amddifadrwydd eu gwlad o foddion gwybodaeth Gristionogol. Ar ol iddo roddi ei fywioliaeth blwyfol i fynu, fel y crybwyllwyd, dywed Mr. Charles iddo gael "trwydded gan rai o'r esgobion i bregethu yng Nghymru"; ond ysgrifenydd arall a ddywed mai "gan hen drwydded Prifysgol yr awdurdodwyd ef i bregethu yn achlysurol." "Yn ei deithiau blynyddol i Gymru," medd

¹ Trysorfa 1813, t. 50—1; Rees's Hist. Prot. Noncon., pp. 224—5; Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Blog., vol. II., p. 584.

Mr. Charles, "canfu yn fuan fod anwybodaeth y trigolion yn ddifawr; a bod angen neillduol am lafurio i roddi moddion gwybodaeth yn eu plith. Yr oedd yn teithiaw i Gymru pan oedd rhwng 60 a 70 oed, ac yn rhanu llawer o arian ym mhlith y trigolion; ond ei ddiben penaf oedd eu dysgu i ddarllen ac ysgrifenu, ac i ddeall prif byngciau Cristionowgrwydd. Gosododd rhwng 3 a 400 o ysgolion yn y trefydd; a byddai yn talu ei hun dros gannoedd o blant tlodion." Dywed y Dr. Tillotson y cyfyngodd Gouge ei elusenau dros y deng mlynedd olaf o'i fywyd bron yn hollol at Gymru, am mai yno y barnai bod mwyaf o angen am danynt; ac o herwydd ei fod yn waith mor fawr gwariodd nid yn unig yr hyn oll a allai hebgor o'i etifeddiaeth ei hun, oedd yn 200p. y flwyddyn, ond hefyd treuliodd ei holl amser a'i egni i gynhyrfu elusengarwch eraill er ei gynnorthwyo. Yr oedd ganddo ddau amcan godidog yn hyn yma: un oedd dwyn plant tlodion i ddysgu darllen ac ysgrifenu, ac i gael eu hyfforddi yn ofalus yn egwyddorion crefydd; a'r llall oedd, cynnysgaeddu pob un mewn oed, yn enwedig y tlodion, â manteision a moddion gwybodaeth, trwy gyfrwng llyfrau daionus, y rhai a ddeuant dan sylw yn ebrwydd.

Dechreuodd llafur haelionus T. Gouge yng Nghymru o gylch y fl. 1670; ond ymddengys nad oedd ei gynlluniau wedi ymffurfio yn drefniant rheolaidd hyd 1674. Y mae hanes gwaith y flwyddyn honno, "o ganol Haf 1674 hyd Wyl Fair 1675," fel y canlyn:—

1. Gosodwyd 812 o blant tlodion mewn ysgolion i ddyscu Saesneg, mewn 51 o drefydd penaf Cymru, heb law dros 500 a roddwyd mewn ysgolion y flwyddyn o'r blaen, cyn i'r ymddiried yma ddechreu.
2. Prynwyd a rhanwyd 32 o Fiblau Cymraeg, mewn amryw deuluoedd; sef y cwbl a ellid eu cael o gopiau yng Nghymru a Llundain.
3. Rhoddwyd 240 o Destamentau Cymraeg i bobl tlodion a allent ddarllen Cymraeg.
4. Dosparthwyd 500 yr un modd o'r llyfr a elwir "Holl Ddyledsdydd Dyn," yn Gymraeg.

Bu yr ymdrech duwiol a haelionus yna yn foddion i gynhyrfu amryw o wŷr goreu Cymru i roi dros 500 o'r plant Cymreig tlotaf mewn ysgolion ar eu traul eu hunain. Felly, yr oedd o gylch 1,850 oll wedi eu doddi mewn ysgolion i ddysgu darllen Saesneg erbyn diwedd y fl. 1674.

Parhaodd y trefniant yna mewn gweithrediad cyhyd ag y bu Thos. Gouge byw ; ond bu ef farw ar 29fed o Hydref, 1681, yn y 77fed flwyddyn o'i oedran ; a bu'r trefniant farw gydag ef, neu yn fuan ar ei ol. Y camsyniad mawr oedd rhoi'r plant mewn ysgolion i ddysgu *Saesneg*. Yr oedd hyny yn gwneud yr ysgolion yn gymharol ddiles i blant y bobl dlodion. Defnyddiodd Stephen Hughes iaith gref yn ei Ragymadrodd i "Ganwyll y Cymry," a gyhoeddwyd yn y fl. 1672, yn erbyn sefydlu *Ysgolion Seisnig* yn yr oes hono i dlodion Cymru. Yn y ganrif ganlynol, dealodd Gruffydd Jones, Llanddowror, archwaeth ei gydwladwyr yn well na'r haelfrydwyr Seisnig daionus ; ac o ganlyniad, sefydlodd ef *Ysgolion Elusenol Cymreig*, y rhai a fuant o annhraethol les i'r dosparthiadau canol a gweithgar yng Nghymru.

CHARLES EDWARDS oedd y nesaf o ran oedran, fel y tybir, o'r tri wŷr enwog a nodwyd, oedd yn cydweithio er cynnysgaeddu y Cymry â llyfrau buddiol a gwerthfawr. Er hyny, ni wyddys odid ddim am dano ef ; ond yn unig yr hyn a ellir ei gasglu oddi wrth y llyfrau godidog y bu ganddo law yn eu diwygio a'i cyhoeddi ; ac efe a gyfansoddodd rai o honynt hefyd, fel y ceir gweled eto. Ni wyddys ddim pwy oedd ei rieni, pa bryd, na pha le y ganwyd ef ; pa fanteision addysg a gafodd, na pha un a oedd efe mewn urddau esgobol ai peidio. Gyda golwg ar hyn, y mae'r Dr. L. Edwards, o'r Bala, yn sylwi yn dra phriodol fel y canlyn :—

Am ba beth yr oedd ysgrifenywyr y dyddiau hyny yn meddwl, nis gwyddom : ond meddwl am gadw coffadwriaeth y dynion goreu heb ei golli oddi ar y ddaear *nid oeddynt*. Os rhoddwyd cymmaint a gair o hanes Charles Edwards ar lawr gan ei gydoeswyr, ar bapur neu ar gareg feidd, y mae rhyw gaddug wedi ei guddio er ys talm. Gwelsom ofyniad yn y '*Cambro-Briton*,' oddiwrth un '*Chwiliedydd*,' yr hwn, debygem, oedd Dr. Williams, o Ianbedrog, yn holi am ryw hysbysrwydd mewn perthynas iddo : ond er i'r golygydd ei hun gyfeirio at y gofyniad, nid ydym yn deall iddo byth dderbyn atebiad. Y mae yr holl hanes a roddir gan Dr. Williams yn nechreu yr argraffiad diweddaf [o '*Hanes y Ffydd*'] yn gynnwysedig mewn dau lythyr ; un oddiwrth y Parch. Walter Davies, a'r llall oddiwrth John Edwards, Ysw., o *Great Ness*. Yn y cyntaf dywedir i Charles Edwards gael ei eni yn Rhyd-y-Croesau, yn mhlwyf Llansilin, yn swydd Dinbych, ar derfynau plwyfau Croesoswallt a Selattyn : ac i'w frawd hynaf, Robert Edwards, briodi Annes Kyffin, merch ac etifeddes Robert Kyffin, o Garth Eryr yn Mochnant. Yn y llall dywedir nad oedd ond un Charles wedi bod yn y teulu, a bod hwnw yn fab

i Robert Edwards, o Cynlleth, yn swydd Dinbych. Hyd yma y mae yr hysbys-iadau am dano yn cyrhaedd ; ac y mae yn rhaid addef nad yw y ddau hanes uchod yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn hollol gyson. Dichon er hyny nad oes ynddynt ddim anghysondeb gwirioneddol. Ond os na ellir credu y ddau, diau y dyliid rhoddi y flaenoriaeth i'r Parch. Walter Davies.

ychydig sydd i'w gael yn mhellach na hyn heb law tybiaeth. Barna rhai ei fod yn offeiriad ; ond y cwbl a ellir ei ddywedyd yn benderfynol yw, ei fod yn aelod o'r Eglwys Sefydledig, o'r un ddelw ac ysbryd a Leighton neu Gurnal.¹

"Tybiodd amryw," medd Isaac Foulkes, "ei fod wedi derbyn addysg athrofaol yn Rhydychain. Nid oes dim prawf i'r dyb hon ond fod 'Hanes y Ffydd' wedi derbyn 'Imprimatur' is-ganghellydd y Brifysgol, a bod y Parch. Thomas Richards, Llangrallo, yn rhoddi y nodyn canlynol yn y gyfres o awduron Cymreig o flaen ei Eiriadur. : 'Parch. Charles Edwards, gweinidog Croesoswallt, gwr tra dysgedig, awdur llyfr Cymraeg o'r enw "Hanes y Ffydd Gristionogol," 1680.' Nid yw y ffaith flaenaf o angenrheidrwydd yn profi ei fod yn aelod o'r Brifysgol ; ac y mae ei fywgraffydd diweddaraf, y Parch. Wm. Edmunds, athraw Ysgol Ramadegol Llanbedr, yn dweud yn bendant mai camsyniad yw yr olaf, 'o herwydd y mae yn eithaf dilys na fu Charles Edwards erioed yn weinidog Croesoswallt, canys p'un oedd yn offeiriad neu beidio.' Pa fodd bynag, y mae yn amlwg ei fod yn ysgolor gwych, yn wr o dalentau dysglaer, yn awdur Cymraeg o'r dosparth blaenaf, ac yn caru yn fawr les ysprydol ei gydwladwyr."²

Y mae'n eglur, gan hyny, fel yr awgrymwyd eisoes, mai yr hyn a ellir ei gasglu oddi wrth y llyfrau y bu Charles Edwards mewn cyssylltiad â hwynt, ydyw yr hyn a wyddys sicraf am dano. Y mae genym sicrwydd ei fod yn ysgrifenydd o'r fath oreu o'r fl. 1670 hyd 1686. Profir ei fod yn Gymreigiwr campus yn y flwyddyn gyntaf a nodwyd, oddi wrth "At y Darlleydd" sydd o flaen "Dadseiniad Meibion y Daran," a gyhoeddwyd dan ei olygiad, fel y ceir gweled eto ; ac y mae ei "*Fatherly Instructions*" a gyhoeddwyd yn y fl. 1686, yn profi ei fod yn hyddysg mewn amryw ieithoedd heb law y Gymraeg a'r Saesneg y pryd hyny. Yn awr, od oedd efe o gylch 70 oed y fl. 1686, ganwyd ef tua'r fl. 1616 ; ac y mae'r gwirionedd

¹ Traeth. Llen. y Dr. E., t. 190.

² Geir. Bywgr. I. F., t. 270.

nad oes hanes iddo ysgrifenu na chyhoeddi dim ar ol 1686, yn awgrymu yn gryf y bu farw yn fuan ar ol hyny.

STEPHEN HUGHES oedd yr ieuengaf, fel yr ymddengys, o'r tri chymmwynaswyr Cymreig mawrion a nodwyd ; ond er y gellir casglu ei fod ef ryw faint yn ieuengach na Charles Edwards, tybir iddo ymuno â Thomas Gouge i gyhoeddi rhai llyfrau cyn i Charles ddechreu ar y gorchwyl pwysig hwnw. Ond er ei holl gymmwynasau a'i ddefnyddioldeb i'w genedl, ychydig iawn o'i hanes yntau a gadwyd ganddi hyd ein dyddiau ni.

Ganwyd ef yn nhref Caerfyrddin o gylch y fl. 1620, medd rhai, blwyddyn neu ddwy yn ddiweddarach, medd eraill. Y mae ei hanes foreuol, ei addysg, ei argyhoeddiad, a dechreuad ei yrfa swyddogol yn yr Eglwys Wladol, yn gwbl anhyspys. Dywedir iddo gael bywioliaeth blwyfol Meidrym, yn ei sir enedigol, yn y fl. 1645 ; a gellir casglu hefyd oddi wrth ei gân sydd o flaen "Canwyll y Cymru," a gyhoeddwyd yn y fl. 1672, y bu'n gwasanaethu ym mhlwyf Merthyr Cynon, ger llaw Caerfyrddin, dros ryw ennyd, mewn cysylltiad â Meidrym. Y mae'r gwirionedd iddo gael bywioliaeth Meidrym yn 1645, yn profi dau beth ; sef, ei fod wedi cael urddiad esgobol ; a hefyd, ei fod wedi ei eni mor foreu ag o gylch y fl. 1620 ; canys os yn y flwyddyn honno y ganwyd ef, nid oedd ond 25 oed pan gafodd fywioliaeth Meidrym ; a rhyw ddwy flynedd ieuengach na hyny y gallasai gael urddau esgobol ; felly *rhaid* ei fod wedi ei eni o 1620 i 1622.

Y mae hanes teithiau cenhadol y dŷn llafurus hwn, ac effeithiau rhyfeddol ei bregethau ar y gwrandawyr, yn dra dyddorol ; ond gan mai â'i lenyddiaeth ef, fel eraill, y mae a fynnom ni yma, ni cheir ond crybwyll pethau eraill. Ymddengys mai ymroddi i bregethu a wnaeth S. Hughes yn ebrwydd ar ol ymsefydlu ym Meidrym a Merthyr Cynon. Pregethai nid yn unig yn ei eglwysau plwyfol ei hun, ac yn yr holl eglwysau plwyfol cyfagos, i'r sawl y cai dderbyniad ; ond hefyd aeth allan yn bur fuan, yn ol gorchymyn ei Arglwydd, "i'r prif ffyrdd a'r

caeau," ac i heolydd ac ystrydoedd y dinasoedd, gan gymhell pobl i ddyfod i mewn fel y llenwid tŷ y Gwardwr.

Pan ddechreuodd y Weriniaeth, ar ol torfynyglu Charles I. yn y fl. 1649, cafodd S. Hughes, cystal a phregethwyr diargyhoedd a galluog eraill, gyflawn ryddid i bregethu ym mhob man y caffai dderbyniad ; ac erbyn y fl. 1650, terfyn olaf cyfnod y testyn, yr oedd amryw gymdeithasau crefyddol wedi ei casglu trwy ei ymdrechion, y rhai oll a borthai efe, hyd eithaf ei allu, " â gwybodaeth ac â deall." Dengys hen gofnodau yr Anghydfurfwyr yn sir Gaerfyrddin mai ffrwyth ei lafur ef, yn benaf, oedd yr eglwysi a gasglwyd yn Mhen-cadair, Capel Isaac, Pant Teg, Llanedi, Caerfyrddin, Llan-y-bri, Henllan, a Threlech.¹

Pan ddaeth Deddf yr Unffurfiad i rym yn y fl. 1662, bwrwyd ef allan o fywioliaethau Meidrym a Merthyr Cynon ; ac o hyny allan ymroddes yntau i wasanaethu yr eglwysi Ymneillduol a gasglasid ganddo ; ac estynnodd derfynau ei lafur i amryw siroedd eraill. Yn lled fuan ar ol cael ei fwrw allan o'r Eglwys Sefydledig, priododd wraig dduwiol a rhinweddol o Abertawy, a symmudodd yno i fyw ; a chan fod ganddi hi gyfran weddol o dda'r byd hwn, a'i bod yn ddiwyd, cynnil, a gofalus, bu'n gynnorthwy arbenig iddo i gyflawni ei weinidogaeth. Cyrchai yn rheolaidd i ymweled â'r eglwysi a gynnullasai, er pelled ydoedd oddi wrth y rhan fwyaf o honynt ; ac ennillodd ei ymroddiad a'i lafur iddo y cyfenwad anrhydeddus " Apostol sir Gaerfyrddin."

Ond pa faint bynnag a bregetho ac a lefaru dynion, a phamor effeithiol a llesol bynnag y gall hyny fod, fe dderfydd yn fuan, rhag mor fyr ydyw bywyd dŷn : *Llyfr* yn unig a bery i lefaru i oesoedd diderfyn. Llefarwyd yng Nghymru yn dra nerthol ac effeithiol gan Hywel Harris, Daniel Rowlands, Jones o Langan, Roberts o Glynog, John Elias, Christmas Evans, Williams o'r Wern, ac eraill ; ond ni wŷyr yr oes hon, ac ni wybydd yr oesau dyfodol, ddim am danynt, ond yn unig yr

¹ Han. Egl. Annib. Cymru, cyf. lli., t. 353.

hyn a drosglwyddir iddynt trwy gyfrwng *llyfrau*. Ond fe bery dynion i lefaru trwy'r cyfrwng yma, tra y pery eu holafiaid i'w cyhoeddi a'u darllen. Heb son am yr Ysgrifenyddwr cysegredig, o Moses neu Job hyd yr Apostol Ioan, y mae *Homer*, yr hwn, fel y tybir, oedd yn cydoesi a'r Prophwyd Esaiah, tuag 800 mlynedd cyn Crist, yn lefaru yn awr, trwy ei *lyfr*, wrth fwy o filiynau nag y llefarodd erioed trwy ei *enau*. Felly, pa faint bynnag o les a wnaeth y tri wŷr enwog hyn, Thomas Gouge, Charles Edwards, a Stephen Hughes, trwy lefaru â'u tafodau yn ystod eu bywyd llafurus a defnyddiol, y mae'n ddilys ddi-ammheu iddynt wneuthur mil mwy o les parhaus, ac i fwy o nifer hefyd fil o weithiau, trwy gyfrwng y llyfrau defnyddiol a gyhoeddwyd ganddynt, weithiau mewn undeb â'u gilydd, ac weithiau ar wahân.

Ymddengys mai Stephen Hughes, yr ieuaf o'r tri a nodwyd, oedd y blaenaf o ryw yspaid ar y maes llenyddol. Y llyfr cyntaf a gyhoeddodd efe, yn ol Gwilym Lleyn, oedd yr "*Ymarfer o Dduwioledeb*," o gyfieithiad Rowland Fychan, a gyhoeddodd y tro cyntaf yn y fl. 1630.¹ Dyry G. Lleyn argraffiad S. Hughes dan y fl. 1656.² Yr ail lyfr a gyhoeddwyd ganddo, yn ol yr un awdurdod, yn 1670, oedd yr un canlynol :—

Y Drydedd Ran o waith Mr. Rees Prichard, gynt Ficar Llanymddyfri yn sir Gaerfyrddin, gŷda Llythyr at Plwyfolion Llanddyfri, Llanfair ar Brin, a Llanedi yn sir Gaerfyrddin, a Llythyr at y Cymru a ddarllenant y llyfr hwn, ynghyd ag Ymholiad beunyddiol o waith Usher, a'r lleill o waith S. Bernard. [Llundain, 8plyg].

Dywed Gwilym Lleyn, mewn cyssylltiad â hwn, bod "iddo gyflwyniad a rhagymadrodd gan Stephen Hughes ;"³ yr hyn a brawf yn ddiammheuol mai S. Hughes a'i cyhoeddodd ; ac ymddengys iddo wneud hyny cyn cael y gwaith yn gyflawn, a chyn taro wrth yr enw "Canwyll y Cymru ;" ond ym mhen dwy flynedd ar ol hyn, cafodd yr enw, a chyhoeddodd y gwaith drachefn, fel y ceir gweled rhag llaw.

Yn awr, daw yr ail wŷr enwog i'r maes, sef Charles Edwards, ym mhen blwyddyn, fel y gwelir, ar ol ei gydlafurwr diwyd ;

¹ Gwel t. 421.

² Llyfr. y Cymry, t. 170.

³ Yr un, t. 197.

a chyhoeddodd y gwaith ammhrisiadwy canlynol, o'i gasgliad a'i ysgrifeniad ei hun :—

Y Ffydd Ddi-fuant. Adroddiad o Helynt y Grefydd Gristionogol er dechreuad y byd hyd yr oes hon, a phrofiad o'i gwirionedd a'i rhinwedd. The unfeigned Faith. Containing a briefe History of the Christian Religion from the beginning of the World to the present Age, and a prooffe of its veritie and efficacie. Yr ail-printiad gyd ag anghwanegiad.

Printiedig yn Rhydychain gan Hen: Hall, ac a werthir gan lyfrwyr Gwrecsam : a chan Mr. Gor [y ddalen yn ddrylliog] yn Ghaer-Fyrddin, a Mr. Vertue yn Abergavenny, ac ymhen y bont ar ogwr. 1671.

Gwelir nad oes enw awdur wrth y llyfr hwn ; ond y mae'n ddigon hyspys mai yr enwog Charles Edwards a'i hysgrifennodd ; canys y mae ei enw yn llawn wrth yr argraffiadau dilynol, un o'r sawl a gyhoeddwyd yn oes yr awdur. Gwelir wrth yr enwad-ddalen uchod y gelwir yr argraffiad yma, " Yr ail printiad gyd ag anghwanegiad"; ond ni welais i pa bryd, nac ym mha le y cyhoeddwyd argraffiad o flaen hwn. Y mae'n dra sicr mai gwall yr argraffydd yw'r mynegiad dan sylw.

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd Ch. Edwards y llyfr dan sylw, cyhoeddodd ail argraffiad o " Ddadseiniad Meibion y Daran," o waith Morus Cyffin, fel y gwelwyd eisoes.¹ Yn ei " At y Darllynydd" o flaen yr argraffiad hwnw (yr ail), yr hwn sydd wrth law, dywed " Charles Edwards" fel hyn :—

Tra yr oeddwn yn chwilio i geisio gwybod helynt y grefydd Gristnogol ymysc ein gwladwyr ni gynt, cefais olwg ar y ddau draethawd hyn, y fuont gynorthwyol i ddechreu adferiad y ffydd ym-mhlith ein henafiaid ni yn yr oes ddiweddaf aeth heibio. DEFFYNIAD Y FFYDD a gyfieithwyd, ac a gyhoeddwyd yn Gymraeg er's pymtheng mlynedd a thrigain (sef yn y flwy. 1595²) a'r Epistol a brint-iwyd gyd a'r Testament Newydd er's tair blynedd a chant (yn y flw. 1567).³ Mi welwn y ddau wedi heneiddio, ac yn ddi-yngedeidd yn y wlad, yn llechu mewn ymbell gornel, mewn dillad sitrachoc, llychlyd, ac yn ô-debyg i'r ddau dystion, *wedi eu gwisco a sachlaint* (Dac. xi. 3) a lludw hefyd, er iddynt haeddu croesaw gwell : Am hynny cipiais hwynt oddiar y gwyfyn, a'r rhwd ydoedd barod yw difetha hwynt, a rhoddais wisc newydd am yr hen gyrph, a theilwng iddynt y Cymwynas.

Yn yr un flwyddyn eto (1671), cyhoeddwyd gan T. Gouge a Stephen Hughes,—

Y Bibl Cyssegr-lan ; sef yr Hen Destament a'r Newydd. Llundain.

Yr oedd nifer y copiâu a gyhoeddwyd, medd G. Lley, yn 6000. Nid yw'r *Dr. Llewelyn* na'r *Gwyddoniadur* yn nodi'r argraffiad pwysig yma o'r Bibl.

¹ Gwel t. 386. ² Ar ymyl y ddalen y mae hyn yn y gwroiddiol.

Dyry G. Lleyn gyhoeddiad y gwaith canlynol i Stephen Hughes a Thos. Gouge, gyda chynnorthwy y Dr. Thomas, Deon Caerwrangon, a rhai offeiriaid yn Neheubarth Cymru :—

Llyfr y Psalmau [cân a darllen] yng nghyd â'r Testament Newydd. Printiedig yn Llundain. 1672.

Golygydd y *Llyfryddiaeth* a ddywed am yr argraffiad yma fel y canlyn :—

Ymddengys yn dra thebyg mai yr un yw argraffiadau 1671 ac 1672, gyda gwyneblen wahanol ; canys y mae yn fwy na thebyg na ddaeth allan *ddau* argraffiad o'r Ysgrhythiau mor agos i'w gilydd. Yn yr argraffiad hwn dilynodd S. Hughes yr argraffiad a elwir 'Beibl Cromwel,' gan arfer y llythyren Seisonig J, megys y gwneir yn hwnw. Dywed y Parch. T. Charles fel y canlyn am yr argraffiad hwn :—'Y mae gofal a diwydrwydd Mr. Stephen Hughes yn ganmoladwy iawn yn diwygio y Bibl Cymraeg o lawer o wallau oedd yn y tri argraffiad blaenorol o'r cyfieithiad presennol ; ac y mae, er nad heb rai gwallau eto, mor ddiwall ag un argraffiad a ymddangosodd gwedi hyny, os nad yn fwy. Y mae yr orgraff a'r attaliadau mor addas, os nid yn fwy nag un argraffiad o'r Biblau Cymreig. Dilynodd argraffiad 1654, yn rhoddi y llythyren Seisnigaid J i mewn, yr hon oedd o'r blaen yn ddyeithr i'r iaith Gymraeg.' Cymharer rhif 1, d. f. 1654.¹

Yn y flwyddyn hon (1672), fel yr ymddengys, y cyhoeddodd Stephen Hughes waith Ficar Llanymddyfri, am y tro cyntaf, dan yr enw canlynol :—

Canwyll y Cymru—yn bedair rhan. Llundain.

Rhanau o'r gwaith a gyhoeddasiid o'r blaen ; ond ymddengys bod hwn yn gyflawn, y gweddill o'r hwn a gafodd y cyhoeddwr diwyd, y mae'n debyg, gyd â'r enw "Canwyll y Cymru" [*Cymry*, yn ol y dull presennol].

Llyfr arall a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn hon (1672), ar draul Thomas Gouge, oedd yr un canlynol ; ac y mae'n dra sicr mai Charles Edwards neu Stephen Hughes oedd "Diwygiwr y Preint-wasg :"—

Holl Ddyled-swydd Dyn, Gwedi ei osod ar lawr Mewn modd hynod o Eglur, Defnyddiol i bawb, ond yn enwedig i'r Darllenydd mwyaf Annysgedig. Gwedi ei ddosparthu i XVII o Bennodau ; Y rhai trwy ddarllen un o honynt bob Dydd yr Arglywydd, a ddarllenir i gyd trostynt deirgwaith yn y Flwyddyn. Anghenrheidiol i bob Teuluoedd. Ynghyd a Dwywolder Neillduol ar amryw Achosion. A gyfieithwyd yn Gymro-aeg gan J. Langford, A.M.

London, Printed for R. Royston, Bookseller to the King's Most Excellent Majesty. 1672.

Gellir casglu oddi wrth gyfenw *John Langford* mai Sais ydoedd o du ei dad, o leiaf. Ganwyd ef yn Rhuthyn ; a

¹ Llyfr. y Cymry, t. 200.

chafodd ei addysg athrofaol yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef ar yr 28fed o Chwefror, 1659, yn B.C. Dywedir ei fod yn dal bywioliaethau eglwysig yng Nghymru.¹

Y llyfr nesaf a gyhoeddwyd ar draul Thomas Gouge, a hyny yn y fl. 1675, oedd ail argraffiad o'i waith ef ei hun, ac o gyfieithiad Richard Jones, Dinbych, fel y gwelwyd ; sef, yr "Hyfforddiadau Cristnogol;" a gwelwyd mai Charles Edwards oedd "Diwygiwr y Preint-wasg."

Yn yr un flwyddyn eto (1675), cyhoeddwyd argraffiad (*y trydydd*) o'r "Ymarfer o Dduwioldeb," o gyfieithiad trwsgl Rowland Fychan, ar draul T. Gouge a S. Hughes, dan olygiad Charles Edwards, fel y gwelwyd eisoes.

Cofnodir argraffiad o "Hanes y Ffydd" gan Gwilym Lleyland dan y fl. 1676 ; ond ymddengys mai yn y fl. 1677 yr argraffwyd hwnw ; canys "Llundain, Ebr. 1677" sydd ar ddiwedd "At y Darlennydd," gan Charles Edwards, sydd yn argraffiad y Dr. P. Williams. Fel y canlyn y cofnodir yr argraffiad gan G. Lleyland :—

Hanes y Ffydd, gan Charles Edwards. Rhydychen.

Dywed G. Lleyland am hwn :—"Dyma yr ail argraffiad";² ond credir iddo roddi y gair *ail* mewn amryfusedd, yn lle'r gair *trydydd*, os gwir ydyw mai "ail-printiad" oedd yr un a gyhoeddwyd yn 1671, fel y mynegir yn yr enwad-ddalen. Dywed yr un ysgrifenydd fod "darluniau heirdd o amryw fath o fferthyrdodau" yn yr argraffiad hwn.

Ymddengys bod gan *bedwar* gwr galluog law yng nghyfansoddiad, cyfieithiad, a chyhoeddiad y llyfr canlynol :—

Gair i Bechaduriaid, a Gair i Sainct. Y cyntaf yn tueddu i ddeffroi cydybodau Pechaduriaid diosal i wir deimlad ac ystyriaeth o'r cyflwr erchyll y maent ynddo, tra fyddont yn byw yn eu cyflwr Naturiol heb Ail-enedigaeth. Yr ail, yn tueddu i gyfarwyddo y Duwiol, a'r rhai a Ail-anwyd i amryw ddyledswyddau enwedigol. Gan Tho. Gouge, Gweinidog yr Efyngyl. Ac a gyfieithiwyd gan W. Jones, Gweinidog yr Efyngyl.

Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr yn y flwyddyn 1676.

Yr awdur oedd Thomas Gouge ; y cyfieithydd oedd Wiliam Jones ; "Diwygiwr y Preint-wasg" oedd Charles Edwards ;

¹ Llyfr. y C. mry, t. 201,

² Yr un, t. 200.

a'r hwn a roddes " Agoriad ar Eiriau yn y llyfr hwn, nad ydyw rhai pobl yn eu deall, yn rhyw fanau o Ddeheudir Cymru, wedi eu hegluro trwy eiriau mwy cyffredin a sathredig," oedd Stephen Hughes.

O berthynas i WILLIAM JONES, am yr hwn nis crybwyllwyd o'r blaen; gŵr genedigol o Sir Feirionydd oedd efe. Bu'n cadw yr Ysgol Ramadegol yn Rhuthyn dros beth amser; ac wedi hyny symmudodd i Ddinbych, lle y dewiswyd ef yn gapelwr i'r Llywodraethwr Twistleton; a thua'r fl. 1648, gwnaed ef yn weinidog y plwyf. Darfu i Weithred yr Unffurfiad ei wthio o'r Eglwys Sefydledig, a Gweithred y Pum milltir ei yru o'r dref; a chafodd noddfa gan y Treforiaid yn y Plas Teg, Sir Fflint, y rhai a roddasant iddo werth 20p. y flwyddyn o dir at ei gynnalïaeth. Dioddefodd unwaith dri mis o garchar am gynnal gweddi deuluaidd yn nhŷ gŵr boneddig, lle y lletyai. Yn y diwedd, symmudodd i Estyn, lle y bu farw mewn oedran teg, yn y fl. 1679.¹

Yn yr un flwyddyn eto ag y cyhoeddwyd y llyfr a nodwyd ddiweddaf, sef 1676, cyhoeddwyd y llyfr canlynol o waith T. Gouge, wedi ei gyfieithu gan W. Jones:—

Principlau, neu Bennau y Grefydd Gristionogol, A agorïd fel y gallo y gwannaf eu deall. Gan T. G. Gweinidog yr Efengyl. Ac a gyfieithwyd gan W. J. Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr yn y flwyddyn 1676.

Dywedir mai Stephen Hughes a fynnodd gael y llyfr canlynol allan, yr hwn a ddodir yn y *Llyfryddiaeth* dan y fl. 1677; ond ni fynegir ar yr enwad-ddalen, ym mha flwyddyn yr argraffwyd ef:—

Galwad i'r Annychweledig. Gan Richard Baxter. Llundain.

Bernir fod gan S. Hughes, os nad T. Gouge hefyd, law arbenig yn nygiad y llyfr canlynol trwy'r wasg:—

Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd, sef Llyfr yn cynnwys, 1. Agoriad byrr ar Weddi yr Arglwydd. 2. Ymddiddanion rhwng y Carwr a'r Cymro. 3. Ymddiddanion rhwng Crist a'r Publican, &c. Amryw Reolau Duwiol, &c. Ai Brintio yn Llundain gan Thomas Dawkes, Printiwr yng-hymraeg i ardderchoccaf Fawrhydi y Brenin. 1677.

¹ Llyfr. y Cymry, t. 193, a'i awdurdodau.

Rhoddir canmoliaeth uchel i'r llyfr hwn gan feirniaid galluog. Y mae enwad-ddalen i bob un o'r tri thraethodyn a gynnwys y gyfrol.

Yn yr un flwyddyn eto, cyhoeddwyd yr argraffiad olaf o "Hanes y Ffydd" a ddaeth allan dan olygiad yr awdur ei hun, dan yr enw canlynol :—

Y Ffydd Ddi-fuant. sef, Hanes y Ffydd Gristionogol, a'i Rhinwedd. Y trydydd preintiad gyd ag angwanegiad. The Vnfeigned Faith. Containg a brief Historie of the Christian Religion, and a proof of its verity and efficacy. The third impreffion with Augmentation.

Printiedig yn Rhydychen gan Hen : Hall, ac a werthir yn Nimbech a Gwrecsam, a Llanfyllin, Abergavenni, Caer-Fyrddin, a threfydd eraill. 1677.

Yr oedd Biblau Cymraeg wedi myned mor brinion erbyn y flwyddyn hon (1677), fel y methodd Stephen Hughes, mewn undeb â Thomas Gouge, gael mwy nag 20 o gopiau ar werth trwy'r holl deyrnas. Cynhyrfodd hyn hwy i ymdrechu cael argraffiad helaeth allan mor fuan fyth ag y gallent ; a llwyddasant tu hwnt i'w disgwyliad dyngarol, trwy gael cynnorthwy amryw wŷr haelfrydig eraill, ac yn eu plith yr hyglod Arch-egob Tillotson ; a chyn diwedd y flwyddyn, cyhoeddwyd yr argraffiad canlynol :—

Y Bibl Cyssegr-lan, Sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Printiedig yn Llundain gan John Bill, Christopher Barker, a Henry Newcomb, a Henry Hills, Printwyr i Ardderchoccaf fawrhydi y Brenin ; ac a werthir gan John Hancock, tan lûn y tri Bibl yn Popes-Head Alley, yn Cornhill. 1677.¹

Cynnwysai yr argraffiad yma 8,000 o gopiau ; mwy o 2,000 na'r ddau argraffiad olaf, y rhai a gyhoeddasant gan Vavasor Powel a Walter Cradoc yn y fl. 1654, a'r un a gyhoeddasant gan T. Gouge a S. Hughes yn 1671, y rhai nid oeddynt ond 6,000 bob un. Yr oedd yr argraffiad yma, yn y fl. 1677, yn cynnwys y Llyfr Gweddi Gyffredin, yr Apocrypha, a'r Salmau Cân ; ac yr oedd enwad-ddalen i bob un o honynt ar wahân ; a gallai'r prynwr gael copi o'r naill neu'r llall ar ei ben ei hun.

Yr oedd argraffiad o "Ganwyll y Cymru" a gyhoeddasai Stephen Hughes yn y fl. 1672, wedi ei werthu yn bur llwyr yn

¹ Llyfr. y Cymry, t. 213.—Dywed y Dr. Llywelyn (*Brit. Versions*, p. 42), mai yn y fl. 1678 y cyhoeddwyd yr argraffiad yma ; ac felly y dangosir yn y *Gwyddoniadur* (cyf. i., t. 639) ; ond ymddengys bod Gwilym Lleyn yn copio y difyniad uchod o enwad-ddalen copi o'r Bibl oedd ger ei fron ar y pryd.

ystod y naw mlynedd dilynol ; am hyn cyhoeddodd yntau yr argraffiad canlynol o'r "Ganwyll" a'r pethau eraill a nodir yn nglŷn â hi :—

Canwyll y Cymru ; Sef gwaith Mr. Rees Prichard gynt Ficer Llanddysfri. A brintwyd o'r blaen yn bedair rhan, wedi ei cyssylltu oll ynghyd yn un Llyfr. The Divine Poems of Mr. Rees Prichard, sometimes Vicar of Llandovery, in Carmarthen Shire. Wherunto is added The Strange but True Narrative of the Chief Things, spoken and acted, by an unclean Spirit at Mason. Translated out of French into English, by Dr. Peter Du Moulin, upon the desire of the Honorable Robert Boyle Esquire. And now done into Welsh, by S. Hughes of Swansea.

London Printed by Tho. Dawks, his Majesties British Printer. Sold by Enoch Prosser, at the Rose and Crown in Sweeting Rents, at the East End of the Royal Exchange, 1681. The Price bound, 2s. 6d.

Y mae'r ddau draethodyn a enwir isod yn gyssylltiedig â'r "Ganwyll" yn yr argraffiad yma, ag iddynt enwad-ddalen bob un, fel hyn :—

Dav Gymro yn taring yn Bell o'u Gwlad, ac ymgyffwrdd ar fynydd, ac yn chwedleua am a welson ac a glywson ynghylch consurwyr, rheibwyr, dewiniaid a'r fath.¹

Adroddiad cywir o'r pethau pennaf, ar a wnaeth, ac a ddywedodd ysbryd aflan ym Mascon, yn Burgundy, Yn Nhŷ un Mr. Francis Peraud, Gweinidog Eglwys y Protestaniaid yn y Dref honno : A osodwyd allan yn Ffrangaeg gantho ef ei hun ; a chwedi hynny yn Saesonaeg, gan un ac oedd a gwybodaeth neillduol ynghylch y Stori hon : Ac yn awr wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan S. H. yn y flwyddyn 1681.

Byddai Stephen Hughes yn ysgrifenu llythyrau "At y Darllenydd," a chyflwyniadau eraill yn gyffredin yng nglŷn â'r llyfrau a gyhoeddai. Y mae "Llythyr at y Darllenwr" gyda'r gwaith hwn ; a chyflwyniad helaeth i "Thomas Manwering," gorwyr y Ficar, yn dechreu fel hyn :—

Anrhydeddus Syr,

UN o Fendithion mawr yr Arglwydd Dduw i Ddnyon ar y Ddaiar, ydyw danfon iw mysc hwynt *Weinidogion Ffyddlon*, sef rhai ac a fyddo, nid yn unig yn pregethu *Athrawiaeth dda*, eithr hefyd yn rhoddi *SiampI dda* i'w Gwrandawyr, mewn Ymarwediad Duwiol, sobr, a Chyfiawn, canys trwy Weinidogaeth y cyfryw rai yn gyffredinol, y mae Duw yn rhoddi i Bobl *Wybodaeth* jachasol o hono ei hun, *Ffydd* yn Grist, *Edifeirwch* am bechod, a *Newydd-deb* buchedd, heb yr hyn ni ddichon neb fod yn gadwedig.

Os cafes rhai erioed y Fendith hon, Plwyfolion *Llanddysfri*, *Llansfair* ar Bryn, a *Llanedi* a'i cawsant hi (*pe medrasent hwy yn ei Dydd unweithur deynydd da o honi*) pan danfonodd Duw atynt y Parchedig Mr. Rees Prichard, i fod yn Weinidog iddynt. Canys ni bu dim o'i ran ef yn ôl, na thrwy *Bregethu*, na thrwy *siampI dda*, i geisio i troi nhwy at Dduw trwy *Iesu Grist*, fel y byddent cadwedig.

¹ Gwelir na chrybwyllir am y traethodyn hwn yn enwad-ddalen y "Ganwyll." Yn y "Llythyr at y Darllenydd" sydd o flaen y nesaf, sef yr "Adroddiad cywir," dywed S. Hughes mai Robert Rolant, "gynt gweinidog *Llanddowror*, yn Shlr Gaer" (*Fyrdidia*) oedd awdur y traethodyn yma ar consuriaeth.

Terfyna y cyflwyniad yna fel y canlyn :—

Rhynged bodd i chwi bardyno fy enonra am helaethrwydd i ; a derbyniwch hyn i gyd mi attolygaf arnoch, megis arwydd o gariad at ein Gwlad, ac 'or parch hyny ar y sydd yn ddyledus i chwithe.

Anrhydeddus Syr,

Eich gwasanaethwr gostyngedig,

[*Stephen Hughes.*

Broadstreet yn Llundain, y 29 o Fis Tachwedd, 1680.

Gall y craffus ddeall wrth hynyna pa fath Gymreigiwr oedd y llafurus Stephen Hughes. Dyna yr argraffiad olaf o “Ganwyll y Cymru” a ddaeth allan yn ei oes ef ; ond cyhoeddwyd amryw argraffiadau o honi yn yr oesau dyfodol.

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd y gwaith yna (1681), bu farw Thomas Gouge, fel y gwelwyd ; o ganlyniad bu raid i'r ddau Gymro, Charles Edwards a Stephen Hughes, wasanaethu eu cenedl heb gynnorthwy y dyngarwr haelfrydig hwnw. Dan olygiad Charles Edwards y daeth y llyfr canlynol allan ; sef yr ail argraffiad :—

Llwybr hyffordd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd, &c.¹
Printiedig yn Llundain gan Bennet Griffin yn y flwyddyn 1682.

Rhagflaenir yr argraffiad hwn gan y pethau canlynol, y rhai, fel yr ymddengys, a briodola awdur y *Llyfryddiaeth* i Charles Edwards :—

Ystyriaeth, a chynnwysiad yr ymddiddanion² hyn a ddengys i ni.

1. Drueni dyn tan naturiaeth, a'i ymadferth i ddiange rhagddo.
2. Anwiredd yr amser ymma, a chyffredin lygredigaeth y byd.
3. Nodau plant Duw, a nodau y rhai gwrthodedig : ac arwyddion hyspys o iachawdwriaeth a damnedigaeth.
4. Mor anhawdd yw myned i fywyd : a lleied yw nifer y rhai a fânt yno.
5. Anwybodaeth y byd, a'i wrthatebion yntef.
6. Hyfryd addewidion yr Efengyl, ac aml drugareddau Duw i'r sawl oll â edifarfânt ac â gredant, ac â wir ddychwelant atto ef.

Y mae talfyriad o “Bregeth ar Edifeirwch. Gan Arthur Dent,” mewn cyssylltiad â'r llyfr, megis yr oedd yn yr argraffiad cyntaf.

Am y llyfryn tlws canlynol, y mae sicrwydd mai Charles Edwards oedd ei awdur :—

Gwyddorion Naturiol. 1682. [32plyg.]

¹ Gwel t. 420. ² Ar ddull ymddiddan y mae'r gwaith.

Yn niwedd yr argraffiad a nodwyd o'r "Llywybr hyffordd," dywed Ch. Edwards am y "Gwyddorion" fel hyn :—" Y mae'r awrhon Briflyfr Newydd wedi dyfod allan, yn cynnwys Gwyddorion Ysprydol a Naturiol, gyd ag ysbysrwydd o'r amser, a Ffeiriau Cymru, fel yr oedd yn y Llyfr Plygain gynt, iw dysgu i'r ieuaingc, ac iw hystyried gan bawb." Y mae hefyd yn cynwys "*Barddoniaeth* i Hanes y Ffydd. A ddanfonodd *Mr. Hugh Salisbury* o *Glog Caenog* (*tra yr oedd efe yn Ysgolhaig yn Rhydychen*) i'w printio gyda'r llyfr hwn."

Llyfr arall a gyfansoddwyd neu a arolygwyd, ac a gyhoeddwyd gan Charles Edwards, yn y fl. 1683, fel y tybir, oedd yr un canlynol :—

Gwr Cyffredin yn ei Addoliad a'i Ymarfer, Neu, Hyfforddiadau wrth ba rai yr annysgedig a allant wybod pa fodd i'w hymddwyn eu hunain, yn eu hamryw Ddyledsuyddau tuag at Dduw a Dyn. Wedi eu cymhwyso i'r dealldwriaethau Gwaelaf. Pregethwr xii. 13. Rhydychen.

Ymddengys mai'r llyfr Cymraeg diweddaf a olygwyd ar ei ddyfodiad trwy'r wasg gan y llafurus Ch. Edwards, oedd yr un canlynol :—

Llyfr y Resolusion, yr hwn sydd yn dysgu i ni bawb wneuthur ein goreu, a rhoi cwbl o'n bryd a'n meddwl ar fod yn wir Gristianogion, hynnydyw ar ymadael a'n drwg fuchedd, a throi ar ddaioni a duwioldeb. Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan y Dr. J. D. er llës i'w blwyfolion. Fe brintwyd y llyfr hwn, erys mwyn na hanner cant o flynyddoedd a aethant heibio, ac yn awr drachefn, nid yn unig er mwyn y Gymraeg bûr sydd ynddo (yn amgenach nag mewn un Llyfr ond y Bibl) eithr hefyd er mwyn y defnydd da ar a ellir ei wneuthur o hono. Yr ail Argraphiad yn Llundain, gan J. R. yn y flwyddyn 1684. [8plyg.]

"Golygydd yr argraffiad hwn," medd awdur y *Llyfryddiaeth*, "oedd Mr. Charles Edwards : ac y mae yn ei ddiwedd hefyd draethawd 'Am orphwys ar Grist yn vnig am fywyd ac Iechydwrriaeth,' gan T. Gouge, fel parhâd o'r llyfr a elwid 'Gair i Bechaduriaid,' gan yr un, ac a gyfieithwyd gan W. Jones." A Gol. y *Llyfryddiaeth* a ddywed fel hyn :—

Cynnwysa yr argraffiad rhagorol hwn o 'Llyfr y Resolusion' 394 o dudalennau 8plyg bychan, heb law 6 tudalen o bethau arweiniol. Ar ddiwedd y traethawd 'Am orphwys ar Grist,' ceir 5 tudalen o "Agoriad ar ryw Eiriau dieithr i rai yn Neheubarth," er mwyn gwneuthur y gwaith yn hwylusach i ddarllenwyr pob parth o'r Dywysogaeth. Y mae yr argraffiad drwyddo yn un hynod o gywir. Buasai yn dda iawn cael argraffiad newydd o'r gwaith godidog hwn.¹

¹ Llyfr. y Cymry, t. 231.

Yr ydys yn casglu mai'r llyfr canlynol oedd y diweddaf a gyhoeddwyd dan olygiad Charles Edwards, gan y dygyddodd ei gyhoeddiad yn yr un flwyddyn ag y bu'r llenor llafurus farw. Tybir mai cyfieithiad ydyw hwn o'r llyfr diweddaf ond un a nodwyd ; sef, "Gwr Cyffredin yn ei Addoliad a'i Ymarfer, Neu Hyfforddiadau," &c. ; neu dichon mai hwnw sydd gyfieithiad Cymraeg o hwn, yr hwn sydd gasgliad o waith Charles Edwards ei hun :—

Fatherly Instructions : being Select Pieces of the Writings of the Primitive Christian Teachers. Translated into English. With an Appendix. Entituled Gildas Minimus.

London, Printed in the year 1686.

Gall y darllynydd weled yn awr y cyhoeddwyd cynnifer a 15 o lyfrau pwysig a rhagorol dan olygiad y llafurus Charles Edwards ; a hyny, cofier, tua 200 mlynedd yn ol ! Ac yr oedd 9 o honynt, fel y tybir yn gryf, yn gynnyrch ei ymchwiliad, ei gasgliad, a'i ysgrifeniad ef ei hun ; sef,—*Hanes y Ffydd ; Tru- eni dyn tan naturiaeth ; Anwiredd yr amser yma ; Nodau plant Duw ; Mor anhawdd yw myned i fywyd ; Anwybodaeth y byd ; Hyfryd addewidion yr Efengyl ; Gwr cyffredin yn ei addoliad ; a'r Fatherly Instructions.*

Gwelwyd bod dau gydweithwyr egnïol Stephen Hughes, sef T. Gouge a C. Edwards, weithian wedi myned i'r "anneddle lonydd," gan ei adael ef i ymdrechu gwneud lles i'w gydwladyr amddifaid ; ac ni bu yntau ond dros ychydig amser ar eu hol ; eithr ni phallodd ei egni i wneud daioni i'w genedl yn yr adeg fer honno. Y llyfr diweddaf y ceir enw Stephen Hughes mewn cyssylltiad âg ef, a'r unig un a gyhoeddwyd ganddo ar ol marwolaeth C. Edwards, oedd yr un canlynol ; a'r hwn a argraffwyd yn yr un flwyddyn ag y bu yr awdur llafurus farw :—

Taith neu Siwrnai y Pererin, tan Rith neu Gyfflybiaeth Breuddwyd. Yn yr hwn y dangosir, i. Y Môd y mae y Pechadur yn Cychwyn, neu yn Dechreu ei Siwrnai, o'r Byd hwn i'r Nefoedd. ii. Y Peryglon y mae fe'n cyfarfod âg hwynt, yn ei Daith. iii. Ei Ddyfodiad o'r diwedd i'r Wlad ddymunol, neu'r Nefoedd, mewn Diogelwch.

Wedi Lisenso gan R. Midgley, 23 o fis Tachwedd, 1686. Printiedig yn Llun- dain gan J. Richardson, yn y flwyddyn 1688.

Gwelir y bu'r llyfr hwn gryn ddwy flynedd ar ol ei "Lisenso," cyn cael ei brintio. Math ar rydd gyfieithiad, neu aralleiriad

ydyw o "*Daith y Pererin*," gan John Bunyan; ac yn y "*Llythyr at y Darllenydd*" sydd ar ei ddechreu, yr hwn, yn ddiau, yw cyfansoddiad diweddfaf y gwladgar Stephen Hughes, efe a ddywed fel hyn:—

Fy Anwyf Gyd-wladwyr,—Yr wyfi 'n danfon yn awr Llyfr i'ch mysg, y fu Offeryn i wneuthur llawer o Ddaioni, i fagad o bobl, y sydd yn deall Saesneg, yr hwn a gyfieithiwyd, megis i'r Ffrangaeg a'r Dwish, felly hefyd yr-wan i'r Gymraeg; mewn Gobaith y bydd e buddiol (trwy fendith yr Arglwydd) naill ai i Weithio Grás lle mae'n niftyg; neu yntau i angwanegu Grás, lle y mae e eisus.

Gwir yw fod yn y Llyfr yma Blisgyn a Chnewyllyn; ac am hynny, rhaid ei ddarllen o'n fynych trosto; fel y galler torri y Plisgyn (sef, deall y Damhegion, y sy'n rhedeg trwyddo) ac felly canfod y Cnewyllyn (y matter cynnwysedig yn y cyffelybiaethau) i'w fwytta (trwy fyfyrto arno) megis ymborth melus ac iachusol.

Y mae'r Cyfieithiad o waith pedwar o honom, Gwr boneddig o Wynedd (yn yr hanner olaf o'r Llyfr); Gwr o Benkader; Ysgolhaig ieuange a ddaeth gyda mi i'r Ddinas hon; ac o'm gwaith fy hunan (y rhan fwyaf o hono) gan sefyll ar ysgwyddau y lleill, fel y gallwn ganfod ym-mhellach nag hwynt hwy.

Ni chedwais i Eiriau, ond ystyr a Meddwl yr Awdwr (mewn amryw fannau) yn y cyfieithiad: Canys fel y gwyr y Dysgedig yn ddigon da, nid oes vn Llyfr a gyfieithir, o vn iaith i'r llall, Air yn Air, a dal ei ddarlain; o blegit bod Phrases (ymadroddion) a geiriau yn brydferth mewn vn iaith y rhai nid dynt felly mewn iaith arall.

Mi a adewais allan Ail-adroddiad rhyw bethau, ar a oedd yn y llyfr Saesneg; canys wedi eu gosod hwy ar lawr vnwaith, Beth oedd raid eu mynegi hwy drachefn.

Mi a angwanegais ym mron *sheet* at y Llyfr, ynghylch mynediad y Pererin tua Mynydd Sinai; ynghyd â llawer o egluriadau eraill; fal y gellit ei ddeall yn well: Ac mi a adawaf y Dysgedig i farnu, pa vn nad yw'r Llyfr yma yn hawddach i'w ddirnad a'i ddeall na'r llyfr Saesneg. Ac fel na byddom yn Farbariaid y naill i'r llall, mi a agorais eiriau Gwyr Gwynedd a'n geiriau ni o Ddeheubarth; a'n geiriau ninne, a'i geiriau nhwythau.

Yna, wedi gwneuthur amryw sylwadau cymmeradwyol yng nghylch y gwahanol lyfrau a gyhoeddais yn ei oes, terfyna'r cyfieithydd gofalus fel hyn:—

Eich Gwasanaethwr yn yr Arglwydd. S. H.

Llundain y 10 o
*Ionawr 1687.*¹

Er mai hwn oedd y llyfr olaf a gyhoeddwyd trwy ymdrech, a than olygiad Stephen Hughes; er hyny, nid oedd y gwaith diweddfaf y rhagddarparasai efe yn ddiwyd at ei gyhoeddi. Yr oedd wedi rhagddarpar yn egnïol i gael argraffiad helaeth o'r Bibl Cymraeg trwy'r wasg; ond bu farw cyn cyrhaedd ei amcan clodwiw. Y gwr a gymmerth y gwaith mewn llaw ar ol marwolaeth Stephen Hughes, oedd Mr. D. Jones, yr hwn a droisid allan o Eglwys Blwyfol Llandyssilio, ar derfynau sir

¹ Llyfr. y Cymry, t. 240—1.

Gaerfyrddin a sir Benfro. Llwyddodd y gwr hwnw, trwy gyn-northwy yr Arglwydd Wharton, yn benaf, i gyhoeddi 10,000 o gopiau yn y fl. 1690, o'r argraffiad a ddarparasai S. Hughes at ei gyhoeddi.¹

SION TREREDYN ydoedd lenor Cymreig oedd yn ei flodau yn niwedd cyfnod y testyn; ond diau iddo gael ei eni yn yr 16fed ganrif. Dyfalir mai JOHN EDWARDS oedd enw priod y gwr crefyddol hwn; eithr ni wyddys odid ddim am dano ond yn unig a ellir ei gasglu oddiwrth yr hyn a ddywed ei hun yng nglŷn â'i gyfieithiad o'r *Marrow of Modern Divinity*, o waith *Edward Fisher*. Nid oes gan y Parch. R. Williams ond ychydig linellau arno, y rhai o'u cyfieithu sydd fel y canlyn:—

TREFREDYN, (SION,) ysgrifenydd ym mysg yr anghydfurfwyr Cymreig, yr hwn oedd yn ei flodau o 1650 i 1700. Ffurf gyfieithiedig ydyw yr enw yma o'i enw priod, John Fenton; efe ydyw awdur 'Madruddyn y Difnyddiaeth ddiweddaraf,' 8plyg, Llundain, 1651, yr hwn a ystyrir yn gynllun da o ieithwedd y Deheudir.²

Cyffelyb ydyw y Geiriaduron Bywgraffyddol a ddilynasant Mr. Williams, wrth reswm; ond credir y gellir profi nad oes odid frawddeg o'r difyniad yna yn gywir. Y mae'n eglur nad "ysgrifenydd ym mysg yr anghydfurfwyr Cymreig" oedd Sion *Tre-Redyn*, fel yr ysgrifennai efe yr enw; canys dywed ei hun, fel y ceir gweled yn fuan, iddo gael ceuad ei enau ar yr 20fed o Orphenaf, 1650, rhag arfer ei "weinidogaeth." Sefydlwyd y "Ddeddf er gwell Lledaeniad a Phregethiad yr Efengyl yng Nghymru" ar yr 22fed o Chwefror, 1649;³ gan hyny, y mae'n eglur mai gan y "Profyddion" y ceuwyd genau Sion *Tre-Redyn*; ac nid oeddynt hwy yn "ceuad genau" neb rhag "arfer eu gweinidogaeth," ond rhai "anwybodus o egwyddorion y grefydd Gristionogol, neu rai yn esgeuluso pregethu, neu rai yn arwain bywyd anfoesol, neu rai yn ymlynu yn gyndyn wrth y freniniaeth, ac yn erbyn y llywodraeth," sef gweriniaeth. Y mae'n dra sicr mai o blegid y trosedd diweddaf y ceuwyd genau Sion *Tre-Redyn*; canys yn ddiau nid oedd

¹ Calamy's *Acct. of Ejected Ministers*, vol. II., p. 720.

² Williams's *Em. We'shm.*, p. 495; *Geir. Bywgr. I. F.*, t. 958; *Geir. Bywgr. J. T. J.*, cyf. II., t. 601.

³ Rees's *Hist. Prot. Noncon.*, p. 505.

cyfieithydd y "*Madruddyn*" nac yn anwybodus, yn esgeuluso pregethu, nac yn anfoesol. Tybir, gan hyny, mai Eglwyswr zelog oedd Sion Tre-redyn ; a gellir casglu ei fod yn gyndyn dros y Freniniaeth a'r Egwys Sefydledig.

Ni welaf ddim prawf chwaith fod Sion wedi para yn ei flodau hyd 1700. Y mae'n eglur ei fod wedi gorphen ei gyfieithiad erbyn yr zofed o Orphenaf, 1650, ac na ddechreuodd gyfieithu hyd nes y ceuwyd ei enau gan Brofyddion y Senedd ; yr hyn a ddygwyddodd, fel y gellir casglu'n deg, yn lled gynnar yn 1649 ; ac nid oes air o son am dano ef ar ol y 10fed o Fai, 1651, pan y gorphenodd ei anerch "I'r Darllenydd." Gan hyny, y cwbl a wyddys am ei amser ef hyd sicrwydd ydyw, ei fod yn ei flodau, neu yn alluog i ysgrifenu, o'r fl. 1649 hyd 1651.

Camsyniad rhyfedd oedd dywedyd mai "*John Fenton*" oedd ei enw priod, pan y dywed ef ei hun, "O Cyfieithiad J. E. i'r Gymraeg." Er mor gyfnewidiol ydyw llythyrenau y Gymraeg, nid ydys yn gwybod am gymmaint ag un esampl o *E* yn newid i *F*. Yr un mor gamsyniol hefyd oedd dywedyd mai efe "yw *awdur* 'Madruddyn y Difinyddiaeth diweddaraf,'" pan y dywed efe ei hun yn eglur, fel y crybwyllwyd, mai *cyfieithydd* yn unig oedd efe, "O waith *E. F.* yn Saesoneg"; heb law y gwyddys mai *awdur* y llyfr oedd *Edward Fisher*, gwr dysgedig o sir Gaerloyw, yr hwn a fu yn cadw ysgol, dros ryw ennyd, mewn rhyw barth o Gymru ; ac wedi hyny a aeth i'r Werddon, lle y bu farw.¹

O barth Sion Tre-Redyn fel cyfieithydd, caiff Golygydd y *Llyfryddiaeth* draethu ei farn yn fuan.

Ganwyd Sion Tre-Redyn, eb efe ei hun, "ar Lan Hafren, ym mro Gwent, lle y mae Saesoniaith yn drech na Britanaith." Pa bryd y ganwyd ef, ni fynega ; ond gan ei fod yn ei flodau yn 1649, gellir casglu y cafodd ei eni yn gynnar yn yr hanner canrif yma o gyfnod y testyn, os nad yn foreuach. Nid oes awgrym am amser ei farwolaeth ar gof a chadw, hyd y gwyddys Ysgrifena Gwilym Llwyn fel hyn am dano :—

¹ Mackenzie's Imp. Dict. Univ. Blog., vol. II., p. 393.

Nid oes, fel y gwelir, ond cyn-lythyrenau enw y cyfieithydd ar wyneb-ddalen y llyfr fel hyn—'J. E.' Y mae Walker yn enwi tri, o'r enw *John Edwards*, a drowyd o'r eglwysi gan 'Brwywyr Lledaeniad yr Efyngyl,' sef o *Lanstone*, *Tredynoc*,¹ a *Llanmartin*; ond y mae yn debygol mai cydiol oedd y lleoedd hyn, o leiaf rhyw ddau o honynt, ond pa un o honynt oedd cyfieithydd y llyfr hwn, a eilw ei hun yn ei anerchiadau arweiniol, yn 'Sion Trededyn,' nis gellir yn awr benderfynu; er y meddylodd rhai mai cyfieithiad yw *Trededyn*, ac mai *John Fernton*, neu *Fenton*, yn fyrrach, oedd ei enw; ond nid ydys yn cael fod neb wedi cael ei ddeoli yn y parthau hyny o'r enw hwnw; rhaid gan hyny mai un o'r Edwardsiaid ydoedd, ac mai *Fernton* neu *Ferntown*, neu *Fe'nton* oedd enw ei drigfan, a'i gyfieithu yn *Trededyn* yn gydiol â'i enw cyntaf.

Weithian deuir at enw y cyfieithiad, yr hwn sydd fel y canlyn:—

Madrddyn y Difynyddiaeth Diweddaraf; neu Llyfr Saesoneg a elwir, *The Marrow of Modern Divinity*. Oblegid y Cysfammod o Weithredoedd, a'r Cysfammod o rás, a'u hymarfer hwy ill dau, a'u diweddion, dan yr hên Destament, a'r Testament Newydd. Ym mha un y dangosir yn eglur, pa cyn belled y mae dyn yn sefyll ar y gyfraith o rhan ei Cyfiawnnhaad, ac ar hynny yn haeddu ei alw yn Ddeddfwr. A pha cyn bellhed y mae arall yn bychanu'r gyfraith o rhan Sancteiddiad, ac ar hynny yn haeddu ei alw yn Ddeddf-wrthwynebwyr. A'r llwybr canolog rhwng y ddau, yr hon â arwain i fywyd tragwyddol trwy Iesu Christ.

Mewn cyd-ymddyddan rhwng.

Evangelista. Gweinidog yr Efyngyl.

Nomista. Ddeddfwr neu wr yn dal o ochr y cyfraith.

Antinomista. Ddeddf-wrthwynebwyr, neu wr yn llwyr bychanu'r gyfraith.

Neophitus. Christian iefangc.

O waith E. F. yn Saesneg.

O Cyfieithiad J. E. i'r Gymraeg.

Printiedig yn Llundain gan T. Mabb, a A. Coles, dros William Ballard, ag i cael arwerth yn siop ef dan lun y Bibl, yn heol'r úd yn Ninas Bristol. 1651.

Yr oedd yr hen wyrda gynt mor hoff o enwau meithion i'w llyfrau ag ydyw awduron yr oes hon o rai byrion. Am y cyfieithiad hwn, dywed Gol. y *Llyfryddiaeth* fel hyn:—

Cynnwys 303 o dudalenau 16plyg, neu 8plyg bychan, heb law y rhaganerch at foneddigion y wlad, ac at y darlennydd, yng nghyd â rhai pethau arweiniol ereill. Dywedir gan y Parch. R. Williams yn ei *Eminent Welshmen* yr ystyrir y gwaith hwn yn gynllun neu olygwel da o iaith y Deheudir. Nid yn synych y gwnaed camsyniad mwy anfodus. Nid yn unig nid yw yn enghraifft deg o iaith y Deheubarth, ond nid yw yn gynllun o'r iaith mewn un parth o'r Dywysogaeth; canys gwaith anghelydd, trwsogl, carbwl ydyw,—y fath ag a allesid ddysgwyl o law un ag oedd wedi arfer meddwl ac ysgrifenu yn Seisoneg, a byw ym mhlith y Seison, ac i gryn raddau wedi anghofo manylion ei famiaith Gymraeg. O ran ieithwedd, hwyrach mai y llyfr telycaf iddo, ar rai golygiadau, yn Gymraeg, yw Testament Salsbri, ond ei fod yn llawer llai ysgolheiglyd na'r gwaith clogyrnog hwnw.

¹ "Enw Cymraeg Tredynnoc, neu Tredonock, yn Ngwynedd," medd Gol. y *Llyfryddiaeth*, "yw *Tref Redynog*, o'r hyn nid yw y ffurthau Seisoneg ond llygriadau diweddar; ac ystyr *Tref Redynog* (neu *Tref Redyn*, yw *Fern-town*, o'r hyn y gellir *Fenton* fod yn ddullweddad, er bod tarddiad arall yn ymddangos yn fwy naturiol, ac yn agosach ato. Gellir barnu gyda chrym debygrwydd mai gweinidog plwyf *Tref Redynog* ydoedd *Sion Trefredyn*, cyn cael o hono ei droi allan gan wyr Cromwel."

Er mwyn i'r darllenydd gael prawf o hyn, cymmered y dernyn canlynol o anerch y cyfieithydd "I'r ardderchoccaf Herberdiaid, y mwynaf Morganiaid, y bonheddiccaf Kemysiaid, y gwirlanaf Wiliemmaid, ac eraill Pendefigion o tu fewn i wlad Gwent":—

Ac yn awr, Pendefigion urddasol, maddeuwch attolwg, fyn cwynunion yn erbyn fynghyd wlad—wyr & ddlibrisiant ein hên mamiaith a dangoswch chi adolwg, eich serch atti, trwy dderbyniad roesawgar o'm poen ewyllysgar i, yn gyfieithiad o'r llyfryn hwn—na ddeliwch ar fy aneirif camsyniadau am hawl feiau, canys nid wyf fi (â anwyd ar lan Hafren ym mro Gwent lle y mae saesoniaith yn drech na'r Britanaith) yn cymmeryd arnaf na medraeth, nac hyspysrwydd yn y Cymraeg, eithr nid bychan yw fy serch at yr iaith a daioni fyn' gwlad, ac er caud fyn' genau rhac ymarfer fyn' gweinidogaeth, i'm torcalon mwyaf, er nad wyf fi, onid y gaclaf o filoedd, ac yn an-addas o'r uchel-swydd weinidogaidd, etto (am fod yn anhawdd gennyf fi, ac yn tra enbeidus i mi, na llwyr ymadel a'm gwlad, na bod ychwaith yn segur ynddi, y cymmeraisi, hyn o boen ewyllysgar.***

Eich gwasanaethur parotol ymnhob gwaith yr Arglwydd

Gorphenaf 20, 1650.

SION TRE-REDYN.

Treuliwyd cymmaint a hyn o le ac amser yng nghyfeillach y Cymreigiwr clogyrnog hwn, am fod cynnifer o gamsyniadau wedi eu cyhoeddi o berthynas iddo.

MORGAN LLWYD O WYNEDD ydyw y nesaf y daw ei lenyddiaeth dan sylw. Er maint a ysgrifenydd ar y llenor galluog, cyfriniol, a chymmeradwy hwn, y mae ei hanes yn ymddangos yn bur dywyll. Dywedir iddo gael ei eni yng Nghynfal, ger llaw Ffestiniog, yng nghantref Ardudwy, sir Feirionydd, yn y fl. 1619. Gellir casglu mai w'yr oedd Morgan i'r enwog Huw Llwyd o Gynfal; canys yr oedd ei fam yn cartrefu yng Nghynfal, tua'r fl. 1640, fel y prawf ei lythyr ati, yr hwn a gyhoeddwyd yn *Y Dysgedydd*, 1837, t. 315, 343. Cesglir i Morgan gael ei argyhoeddi wrth wrando Walter Cradoc yn pregethu yn y fl. 1635, pan oedd efe (Morgan) yng Ngwrecsam yn yr ysgol; ac y mae'n sicr y bu yntau yn pregethu yno, yn achlysurol, o leiaf, dros rai blynyddau wedi hyny. A fu efe yno rywbryd, fel "gweinidog sefydlog," sydd bur ammheus; gan fod ei farn am y ddyledswydd o bregethu bron mor wahanol i'r Ymneillduwyr ag ydoedd i'r Eglwys Sefydledig, fel y dengys ei gyfansoddiadau yn eglur, yn enwedig ei brif waith, sef "Llyfr y Tri Aderyn." Credai efe fod pob llanerch o'r ddaear, ar ol ymddangosiad y Gwardwr arni, mor

gyssegredig i bregethu a'u gilydd; am hyny, teithiodd efe lawer i bregethu trwy Dde a Gogledd; a phregethai ym mhob man lle y cai wrandawyr a chaniatâd; mewn tai anedd, mewn ysguboriau a beudai, yn y prif ffyrdd a'r caeau, ac yn heolydd ac ystrydoedd y dinasoedd. Dywed R. Jones y byddai yn pregethu ym Mhwlheli ar ddyddiau marchnad; ac yn arfer myned trwy'r farchnad â'i ddwyllaw ar ei gefn, â'i Fibl yn ei law; ac y byddai'r bobl yn cilio o'i flaen, fel pe buasai gerbyd yn carlamu trwy'r heolydd. Dywedir mai effaith ei bregethiad tanbaidd ef oedd y gynnulleidfa gyntaf o Ymneillduwyr a ymsefydlodd yn y Bala; a chredir iddo fod yn offerynol i gasglu llawer cynulleidfa heb law honno.

Pan sefydlwyd y "Ddeddf er gwell lledaeniad a phregethiad yr Efengyl yng Nghymru," yn y fl. 1649, dewiswyd Morgan Llwyd yn un o'r 25 "Profyddion" oedd i ofalu am hyny. Yr oedd y gorchwyl hwnw yn rhoddi iddo gyfleusdra a mantais neillduol i deithio Cymru benbaladr i bregethu ei hunan, cystal ag i edrych am i eraill wneuthur hyny, yr hyn, fel yr ymddengys, oedd ei brif hyfrydwch.

Wrth ystyried byrder oes Morgan Llwyd, y mae maint ei lafur pregethwrol a llenyddol yn ddigon o ryfeddod i bob dŷn sy'n gwybod rhywfaint am natur y fath lafur dyfal a phryderus; canys bu efe farw ar y 3ydd o Fehefin, 1659, pan nad oedd ond 40 oed; a chladdwyd ef ym monwent yr Ymneillduwyr yn y Rhos Ddu, ger llaw Gwrecsam. Er lleied o hanes personol Morgan Llwyd sydd ar gof a chadw, y mae mwy wedi ei ysgrifenu arno ef a'i lyfrau, nag ar odid un Cymro arall yn ei oes ef, fel y gall y darlennydd weled yn y llyfrau y cyfeirir atynt isod.¹

Gan fod pedwar o'i gyfansoddiadau, ac yn eu plith y penaf o'i waith, wedi eu cyhoeddi yn y fl. 1653, ryw 6 blynedd cyn ei

¹ A Winding Sheet for Baxter's Dead, p. 11. Ejected Ministers, 2nd ed., p. 714. Drych yr Amseroedd, t. 10. Richard's Cambro-Brit. Blog., p. 200. Han. Crefydd D. Peter, arg. 1851, t. 228. Han. y Bedyddwyr, t. 154. Traethodydd, 1848, t. 30. Williams's Em. Welshm., p. 293. Method. Cymru, J. H., cyf. i., t. 32. Rees's Hist. Prot. Noncon., p. 123. Traeth. Llen. Dr. Edwards, t. 133. Enwog. y Ffydd, cyf. i., t. 398. Llyfr. y Cymry, t. 163, 302. Hanes Egl. Annib. Cymru, cyf. iv., t. 7. Gwyddoniadur, cyf. vii., t. 34. Can M. Llwyd, gan y Parch. J. Peter, t. 1.

farwolaeth, gellir casglu ei fod wedi dechreu eu cyfansoddi gryn amser cyn hyny; ac y mae'n debyg mai ar ei deithiau pregethwrol a Phrofiedyddol, y myfyriodd y rhan fwyaf, os nad y cyfan o honynt. Chwiliodd y diweddar Ioan Pedr (y Prof. John Peter, Bala) yn bur fanwl i hanes yr awdur a'i gyfansoddiadau, yn yr Amgueddfa Frytanaid, a llyfrgelloedd eraill; a dyry efe yr amser y cyhoeddwyd hwy gyntaf, a'r amseroedd yr adgyhoeddwyd hwynt, fel y canlyn:—

1. Llyfr y Tri Aderyn—1653, 1714, 1752, 1826 (Llanrwst. N.D.)
2. Gwaedd yn Nghymru—1653, 1727, 1750, 1766.
3. Gair o'r Gair—1656, 1745, 1829.
4. Yr Ymroddiad—1653, 1657, 1737, 1765.
5. Llythyr i'r Cymry Cariadus—1653, 1657, 1727, 1750, 1766.
6. Y Disgybl a'r Athraw o Newydd—1657, 1737, 1765.
7. Cyfarwyddyd i'r Cymro—1657, 1737, 1765.
8. Gwyddor Uchod—1657, 1737, 1765 (Barddoniaeth serddewinol yw hwn.)

Heb law yr argraffiadau uchod, ymddangosodd amryw o'r Tri Aderyn, ac o'r Gair o'r Gair, yn y ganrif bresennol. Cyfieithwyd yr olaf i'r Saesonaeg, a chyhoeddwyd ef yn 1739, a dywed Baxter fod M. L. wedi cyhoeddi llyfr ei hun yn Saesonaeg, o dan y teitl "A Dialogue between Martha and Lazarus about his soul." Y mae amryw o'i lythyrau hefyd ar gael yng Nghymraeg a Saesonaeg. Crybwyllia Richards yn ei "Cambro British Biography" ei fod yn gyfarwydd ag ysgrifenu yr hen gyfrinwyr, ac y mae Dr. Nicholas o'r un farn.¹

Yn awr, dodir enwau llyfrau Morgan Llwyd ger bron, fel yr argraffwyd hwynt yn oes yr awdur:—

Dirgelwch i rai i'w ddeall, ac i eraill i'w watwor, neu Lyfr Tri Aderyn. Gan Morgan Llwyd o Wynedd. [1653].

Gwaedd Ynghymru yn Wnech pob Cydwytbod Euog. Gan Morgan Llwyd o Wynedd. [1653].

Yr ymroddiad, neu Bapuryn a gyfieithwyd ddwywaith i helpu y Cymry unwaith allan o'r hunan a'r Drygioni. [1653].

Llythyr i'r Cymry Cariadus. Gan Morgan Llwyd o Wynedd. [1653].

Gair o'r Gair, neu Sôn am Sôn, y Lleferydd Anfarwol. Gan Morgan Llwyd. [1656].

Y Disgybl a'r Athraw o Newydd.—1657.

Cyfarwyddyd i'r Cymro. Gan Morgan Llwyd o Wynedd. [1657]

Gwyddor uchod. O. G. M. Llundain. [1657].

Am ansawdd ac ystyr prif waith Morgan Llwyd, sef "Llyfr y Tri Aderyn," dywed y Dr. Edwards o'r Bala fel y canlyn:—

Y penaf o gyfansoddiadau Morgan Llwyd yw 'Llyfr y Tri Aderyn,' yr hwn a ysgrifenydd ar ddull ymddyddan rhwng yr Eryr, y Golomen, a'r Gigfran. Nis gellir darllen ond ychydig ddalenau heb weled fod yr awdur yn feistr ar y dull yma o gyfansoddi. Y mae yr Eryr yn siarad fel Eryr, y Golomen fel Colomen, a'r Gigfran fel Cigfran. Tybygid fod yr Eryr yn cynnychioli Cromwell, a'r Golomen yn sefyll am yr Anghydlfurfwyr, neu o leiaf y rhai a fuasant felly cyn i Cromwell gymmeryd meddiant o'r Llywodraeth, ac mai wrth y Gigfran y mae i ni ddeall yr hen Eglwys Sefydledig. Nis gellir canfod priodoldeb nac ystyr amryw

¹ Can Anghyhoeddedig o waith Morgan Llwyd, MSS. 14, 974, p. 525.

ranau o'r ymddyddan heb gadw hyn mewn golwg. Ond dilys ydyw, fod yma hefyd gyfeiriad pellach, fel y mae rhai o'r esbonwyr goreu yn barnu fod mewn llawer o'r darluniadau proffwydoliaethol yn y Bibl; a bod y Golomen wedi ei bwriadu i ddynodi gwir Gristionogion yn mhob oes; a bod y Gigfran, a'i 'llais garw gwrol,' yn llefaru iaith gelynyon y gwirionedd, ac erlidwyr crefydd ysbrydol; a'u bod, yn ngwedd freninol yr Eryr, yn gweled dyn cydwybodol a diragfarn i athrywynu rhwng y pleidiau. Nid oes yn hyn ddim yn annaturiol; oblegid nid oedd y rhyfel cartrefol rhwng y brenin a'r senedd ond parhad o'r hen ryfel rhwng cydwybodolrwydd ac anghydwybodolrwydd. Dyfeth. crefydd ysbrydol oddiar y ddaear oedd dyben yr Archesgob Laud a'i ganlynwyr, ac amddiffyn y grefydd hono oedd dyben y blaid wrthwynebol. Pwy bynag a wado hyn, nid yw ond bradychu ei anwybodaeth; ac y mae yr anwybodaeth hono yn awr yn ddiesgus, wedi i'r mater gael ei chwilio mor fanwl, a'i ddangos mor oleu, gan Thomas Carlyle, a Dr. Merle D'Aubigne.¹

Heb law y cyfansoddiadau a nodwyd, cafodd Ioan Pedr ddwy hen gân o waith Morgan Llwyd yn yr Amgueddfa Frytanaidd, mewn hen lawysgrif o'r 17fed ganrif, rhif 14,874, o'r sawl y cyhoeddodd efe ychydig gopïau yn y fl. 1875, i'w rhanu rhwng ei gyfeillion. Cynnwys un o'r caniadau (y flaenaf yng nghopi argraffedig I. Pedr) 30 o bennillion fel y rhai canlynol, y rhai sydd flaenaf yn y gân :—

1. Fy enaid cyfod can i Dduw
i'th wreiddin byw ath ffynnon
Ysgwyd ymaith yr holl lwch
y tristwch a'r amheuon.
2. Dod heibio'r holl feddian' gwael
a fynent gael dy lethu
nerth Duw a gododd Grist yn glau
a'th gyfyd dithau i fyny
3. Amod a wnaeth a'th di drwy lw
ni fyn mo'th fwrw ymaith
o rwydau diffaith kipiodd di
Ond nid i'th golli eilwaith.

Nid oes dim penawd rheolaidd i'r gân yna yn yr hen lawysgrif, namyn rhyw wyth o eiriau Lladin ar gongl y ddalen gyntaf ar ledgroes, o'r sawl nis gellir gwneud synwyr; ond y mae penawd rheolaidd i'r ganig fechan arall, yr hon a ddodir yma yn gyflawn fel y canlyn :—

BYWYD YR AWDWR A YSGRIFENWYD GANTHO
EF EI HUN, AC A DDANFONODD
I'R PARCH. THOMAS WILLIAMS
AWDWR YR OES-LYFR.

1. Yn mynydd yr Olewydd trwy lais
Y cefais enedigaeth,
Mynydd llygredig yw fy ngwlad—
Dechreuad fy naturiaeth.

¹ Traethod. Llen. y Dr. Edwards, t. 139

2. Ym mynydd Sinai, gwedi hyn,
Mewn dychryn y lletyais,
Dan fellt y gyfraith bum yn hir,
Ar maelawr y dihunais.
3. Ar fynydd Seion gwelais hedd,
Trugareidd, a hyfrydwch,
Wrth fyw trwy ffydd ar Dduw a'm gwnaeth,
Trwy Grist mewn hiraeth heddwch.
4. I fynydd Gilboa rhaid nesâu,
Mewn arfau a rhyfeloedd,
Y lle bu pawb yn gwneuthur plaid
Yn danbaid yn eu hoesoedd.
5. Yn olaf, daethum i roi tro
I fynydd Nebo hardd-deg,
Oddiyno gwelais Ganaan wych,
Lle caf wrth edrych 'hedeg.

MORGAN LLWYD A'I GWNAETH.

Gwnaeth Ioan Pedr y nodiadau canlynol ar ddiwedd y gân hon :—

Gwel argraffiad Thomas Williams o'r 'Llythyr i'r Cymry Cariadus' a 'Gwaedd yn Nghymru,' 1727, tudal. 12. Y mae T. W. yn sylwi ar *maelawr* mai tir gwastad a olyga. Dichon fod hyny yn gywir; ond ai nid oes yma gyfeiriad hefyd at Maelor, lle y saif Gwrecsam? A dichon fod cyfeiriad at wahanol fanau lle y bu yn trigianu yn yr enwau eraill a fenthycia. Beth bynag am hyny, y mae y cyfatebiad yn darawiadol rhwng ei grybwylliad am dano ei hunan yn diuno yn *Maelawr* â'r traddodiad am ei droedigaeth yn Ngwrecsam.

Nid anfuddiol yw cymharu y ddwy gân uchod a'u gilydd. Gwelir eu bod nid yn unig ar yr un mesur, ond hefyd yn anadlu yr un ysbryd cyfriniol, ac yn hollol gyfateb i deithi meddwl yr awdwr. Y mae 'Gwyddor Uchod' yn bur wahanol yn y ffurf a'r cynnwysiad, ac etto hawdd yw canfod llaw yr un saerniwr awenyddol.

HUW MORUS ydyw y bardd a'r llenor diweddaf o gyfnod y testyn a ddaw dan ein sylw; ac y mae'n gwbl gymhwys i gael ei restru gyda phrif fardd dechreuad cyfnod y testyn, sef DA-FYDD AB GWILYM; a chymeriad uwch iddo, nis gall yr ysgrifenydd ei roddi.

Trydydd mab oedd Huw i uchelwr cyfrifol oedd yn byw ar ei etifeddiacth ei hun ym Mhont y Meibion, ym mhlwyf Llan-silin, yn Nyffryn rhamantus Ceiriog, yn sir Ddinbych. Ganwyd ef yn y fl. 1622; ac felly, nid oedd ond ychydig flwyddi yn icuengach na Charles Edwards, Vavasor Powel, Morgan Llwyd, a Stephen Hughes. Nid yw hyspys iddo gael unrhyw fanteision dysgeidiaeth, heb law a gyrhaeddodd trwy rym ei athrylith gynhenid ei hun. Pan ddaeth i oedran cyfaddas, dodwyd ef yn brentis o farcer gyda gwr oedd yn byw mewn lle

a elwid Gwaliau, yn Owrtyn Madog (*Overton*), yng nghantref Maelor, yn sir Fflint. Dywed un o'i fywgraffwyr iddo ymadael o'r lle hwnw cyn gorphen ei brentisiaeth, o herwydd caethiwed ei sefyllfa;¹ ond y mae rhai o ganiadau'r bardd yn profi i'r gwrthwyneb, er caethed ydoedd yn y fangre honno.²

Pan derfynodd "saith mlynedd" prentisiaeth Huw Morus, fel y dywed efe ei hun yn un o'i ganiadau, ni phoenodd efe mo'i hun yng nghylch barcio crwyn, ond dychwelodd i dŷ ei dad, ym Mhont y Meibion, lle y preswylodd rhag llaw gyd â'i rieni, ac ar eu hol hwy gyd â'i frawd hynaf, ac fe allai gyd âg olynydd hwnw, fel amaethwr cynnorthwyl; ond od ystyrir rhifedi mawr ei gyfansoddiadau, gellir casglu y daliai ei law y pin ysgrifenu yn llawer amlach nag y daliai y gaib, y rhaw, a'r aradr.

Caneuon serch oedd ffrwyth cyntaf ei awen doreithiog, y rhai a gymhwyswyd at amryw fesurau telynegol, y sawl a nodir yn fanwl yn y llyfr a gynnwys ei waith, a elwir *Eos Ceiriog*.³ Mynych y ceisiodd ysgrifenydd diweddarach ei ddywarded yn y dosparth yma o brydyddiaeth; ond ni ddaeth neb o honynt yn agos i fynu â chynlluniau naturiol ac awenyddol yr "Eos" o Geiriog; ac anfynych y mae neb weithian yn cynnyg y dull hwnw o brydyddu.

Cyfansoddodd Huw Morus hefyd amryw ddrychwawdiau (*dramas*) cyssegredig yn ei ddyddiau boreuaf, a rhai cymwawdiau (*comedies*); ond y mae y rhan fwyaf o'r rhai hyny wedi myned i ebargofiant. Ymdaenodd ei glod fel prydydd, a'i barodrwydd i gyfansoddi yn ddifyfyr, yn ebrwydd trwy'r holl ardaloedd; ac o ganlyniad cai wahoddiad mynych, a chroesaw gwresog, yng Nghastell y Waen, Brogyntyn, y Glasgoed, a'r Plas Newydd.

Yr oedd Huw Morus yn nodedig am ddefnyddio ei Awen rymus ac effeithiol i amddiffyn y gwan a'r amddifaid a gaent gam ac anghyfiawnder. Bu mewn perygl unwaith, o leiaf, am

¹ Geir. Bywgr. I. F., t. 748. ² Eos Ceiriog, llyfr. I., a Sketch, &c., p. iv.

³ Eos, Ceiriog, llyfr I., Eglurhad t. xlv.—1.

ei fywyd o blegid ei zel yn erbyn trais ac anghyfiawnder. Achlysurwyd hyny trwy hocedwaith yspeilgar a ddygwyddodd ym Maelor, lle y trawsdynwyd etifeddiaeth oddiwrth y cyfiawn etifedd, trwy ffugysgrifeniad Ewyllys, wrth yr hon y defnyddiwyd llaw y marw i ysgrifenu ei enw : ac wedyn tyngwyd mai llawysgrifen y marw ydoedd. Pan ddaeth y si am y weithred erchyll honno i glustiau y bardd, defnyddiodd ei awen rymus i fflangellu'r hocedwyr diras yn dra diarbed, mewn pedair o ganiadau barddonol a llymion, a elwir "Cerddi Tiroedd y Taerion."¹ Y mae'r cerddi godidog hyn, megis lluaws eraill o ganiadau Huw Morus, yn dangos bod yr awdur athrylithgar yn dra hyddysg yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd ; a'i fod yn bleidiwr gonest i'r gwan a'r amddifaid, ac yn elyn calon i bob twyll, hoced, rhagrith a lladrad.

Cymmerir ychydig enghreifftiau i brofi yr hyn a haerir :—

Nid oes dim yn *temtio* yr un,
Yn waeth na'i felus chwantau ei hun,
Pan lithier ganddynt yn gytún,
Ei ddoniau a'i lun a ddiwyned ;
Chwant yw'r fam a'r fammaeth fwyn,
I fagu anwiredd ynddo i ymddwyn,
Nes amlhâu fel dail ar lwyn
ei lonaid.

Chwant a wnaeth i *Efa'n* siwr,
Wrando ar y sarph, a thwylo'i gwr,
A digio'i Cheidwad, cadarn dŵr,
A'i noddwr—fenyw addien !
Am geisio mwy na'i *hordinhdd*,
Cael ei melldigo ei hun a'i had,
A cholli'r cwbl oedd lesdd—
Iwys Eden !

Ni chadd meibion *Jacob* chwaith,
On'd cywilydd mawr o'u celwydd maith,
Twylo eu tad &r siaced fraith,
A wnai iddo ganwaith gwyno ;
Gwerthu eu brawd i'r *Aiph* a wnaen'
A gorfol gwedi ymgyrnu o'i flaen,
Fel caethweision cyn y caen'
eu cinio.

Achan chwannog a ro'i nghûdd,
Yr aur a'r fantell, werthfawr fudd,
Fe ddigwyddodd diwrnod prudd,
A chywilydd grudd a chalon ;
Y guddfa gél i'r goleu a gaed,
Ac yntau a'i blant, annuwiol waed,
Ynghyd a'r diofryd bethau a wnaed
yn boethion.

¹ Eos Ceirlog, llyfr II., t. 128—157.

Ni chadd *Dafydd* fawr ei ras,
 A alwai Duw'n ddewisol was,
 Am waed *Urias*, hwn a la's,
 Mo'i gjaidd gas i'w guddio ;
 Gwedi i *Nathan* lân ei liw,
 Ei *gondemnio* â dameg wiw,
 Rhoes farn ei hun, gyhoeddus i'w
 gyhuddo.

Mewn cyffelyb fodd doniol, addysgiadol, a rhybuddiol, noda drachwant Ahab a Jezebel, Gehazi, Haman, ac eraill, hyd Judas Iscariot ; a therfyna y gân ragorol hon, gan annog pawb i fod yn onest, yn dduwiol, ac i ymddiried yn Nuw am bob peth angenrheidiol i'r corff cystal ag i'r enaid, mewn pennillion prydyddol, cyffelyb i'r un canlynol :—

Os wyt mewn eisiau'n wan ddi blaid,
 Gan Dduw bob dydd, trwy ffydd, na phaid,
 Cais—ti a gei bob angenrhaidd,
 I'th gorff a'th enaid hefyd ;
 Cura'r porth, fe ddaw Mab *Mair*,
 I'th ddwyn i'r wledd wen groyw-wedd *grair*,
 Daw Crist ei hun ar hanner gair
 i agoryd.

Yn yr ail gân y mae'r bardd yn dychymmyg bod clychau Eglwys Rhiwabon yn diaspedain seinio o honynt eu hunain, yn nyfnder y nos, pan oedd y weithred ysgeler o ddefnyddio llaw'r marw i danysgrifio y ffug Ewyllys ; ac yr oedd y rhan fwyaf o drigolion yr ardaloedd yn credu bod hyny wedi dygwydd mewn gwirionedd. Dwg y Bardd y dychymmyg yma i mewn fel y canlyn :—

Fe chwadd yr Arglwydd awdur gras,
 Am ben y drygddyn cyndyn cas,
 Am dynu ei gleddyf min-deneu glas,
 Mewn Ewyllys atgas allan ;
 I ladd y tlawd fel ergyd gwn,
 Y gwrda doeth, â gair di dwn,
 Y cleddau hir â y'nghalon hwn
 ei hunan.

Gwae 'rhai sydd mewn ufudd nerth,
 Yn gŵyro deddfau, castiau certh,
 A gwae 'sgrifenyddion sydd am werth,
 Yn britho'r drafferth rwystrus ;
 I droi un gwirion, druan gwael,
 Oddi wrth farn union, er mwyn cael
 Ei dynu o'i feddiant,—dyna fael
 anfelus.

Yng nghantref *Maclor*, cyngor caeth,
 Y gwnaed y pechod, syndod saeth,

gochelgarwch na hwynt-hwy; canys ni chanai efe byth yn erbyn y Senedd a Chromwel, yn ystod y Weripiaeth, ond mewn dammegion ac allegau, y rhai nid eglurodd nes y daeth y Freniniaeth i'w rhwysg drachefn, yn amser Charles II. Fel hyn, yn un o'i ddammegion, ei bersonau ef oedd y rhai canlynol :—

Llew : Charles I.
 Llewod Ieuainc : y Tywysogion Ieuainc.
 Llwynogod Lloegr Goch : y Senedd.
 Y Llwynog : O. Cromwel.
 Moch Prydyn : y Fyddin Ysgotaid.
 Eirth y Werddon : y Gwyddelod Pabaidd.
 Defaid : y Deiliaid heddychol.
 Bugeiliaid : y Clerigwyr alltudiedig.

Yn ei "Frwydr y Bwystfilod," ei weithredwyr oedd y rhai canlynol :—

Barcud, } Y pleidiau cydymgeisiol am lywodraeth y Weriniaeth.
 Cigfran, }
 Oen : cyllid yr Eglwys a'r Llywodraeth.
 Mwyalchen : y Blaid gymmedrol.
 Y Llwynog : O. Cromwel.

Pan ddyrchafwyd Charles II. i'r orsedd, ni lefarai'r Bardd mwyach mewn dammegion, ond dygai Lambert, Walter Cradoc, Vavasor Powel, ac eraill, ar y llwyfan dan eu henwau priod. Yr oedd yn cael ei flino yn alaethus, "yn amser rhwysg Oliver," am fod rhai na chawsant addysg mewn Prifysgolion Eglwysig, a heb gael eu hurddo yn ol trefn Eglwys Loegr, megys gofaint, gwehyddion, cryddion, melinyddion, a'r cyffelyb, yn cael "tramwy gan bregethu y Gair," heb gofio yn ddiau, am yr hyn a wnaeth *holl Eglwys Jerusalem*.¹ Wele esampl fer o'i gwyn wylofus ar y pwngc yma :—

Gan faint sydd i'n *hathro* i'w gilydd heb goelio,
 Nid ydynt yn llwyddo mo'n hwylio mewn hedd ;
 Pob *sect* sydd yn tynu, yn anneallus o'r neilldu,
 Heb fedru gwir ranu'r gwirionedd.

Gwr gwych yn ei *gledau*, a chwilia 'r 'Scrythrau,
 Fel *Ustus* a farnai rhwng beiau ar y bàr,
 A hwn, er na ddywedo na phader na chredo,
 A i'r pulpudd i focio 'r hen Ficar....

Rhai a ddywed yn dduwiol, mai 'r *Gof* sydd ysprydol,
 Ac eraill modd gwrol a ganmol y *Crydd* ;
 A rhai sy 'n deisyfu y *Crydd* i'w ceryddu,
 A'r lleill yn moliannu 'r *Melinydd*.

¹ Act. viii. 1, 4; xi. 19—24.

Fe ddywed y Person a'i *sgil* o'r ysgolion,
 Sydd offeriad o ffynnon ddofn eigion o ddysg,
 Fod y gwyr hyny yn dwyllwyr i'n dallu,
 Heb fedru 'n tueddu ni at addysg.

Ymddengys bod y Bardd yn cael ei flino yn irad hefyd gan y *Crynwyr*, y rhai oedd yn lled luosog tua chanol ei oes ef yn ardaloedd Dolobran, a manau eraill yn y wlad ; am hyny, efe a ddywed mewn dychryn :—

Rhai gwagedd syfrdanllyd, mewn dadl sy'n dywedyd,
 Gael cyffwrdd â'r yspryd mewn breuddwyd i'n bro ;
 O ! 'r synwyr sy' rwan, yn gaeth hwy bregethan'—
 A medran', brau ffwdan brophwydo !¹

Un o hoff ddosparthiadau Huw Morus oedd dosparth y *Carolau*, yn enwedig, “Carolau Nadolig.” Ymddengys yr ystyriai efe y NADOLIG mor gyssegredig, os nad mwy felly, a'r “Dydd cyntaf o'r wythnos” ; am hyny y mae'n cwyno yn dost mewn “Carol Gwyliau a wnaed yn amser rhwysg Oliver,” gan ddywedyd :—

Pob dyn, sydd a'i dafod yn well na'i gydwybod,
 Yn dywedyd gyfarfod â phennod y ffordd,
 Yn anghof gollyngwyd yr amser y ganwyd
 Oen hyfryd, wiw Brophwyd y briif-ffordd.

O gâs, ac o ddirmyg, i'r dydd bendigedig,
 Y ganwyd ein meddyg caredig Oen cu,
 Aiff rhai at yr *arad*', yn bur iawn eu bwriad,
 A'r lleill yn ddi-ddirnad i *ddyrrnu*.

Fe â'r Meistr bonheddig, mor fwyn yn ei fenyg,
 I weithio'r Nadolig, drwy chwithig drwch wedd ;
 Ar ol hyny flwyddyn ni wna efe un gronyn,
 Ond eiste'n wr gerwin, a gorwedd,

Wrth gofio am yr *Iesu*, mae llawer yn tynu
 I ffordd yr hen *Cymry* sy'n llechu yn y llwch,
 Ac ynddynt grediniaeth i wrando'r gwasanaeth,
 Ar ddydd genedigaeth ei degwch.²

O herwydd bod y Bardd mor enwog yn nosparth y *Carolau*, byddai deisyfiadau am rai erbyn y Nadolig yn dylifo ato o bob parth o Wynedd ; ac ni leihaodd y taerineb am danynt na'i athylith yntau i'w cyfansoddi, hyd y Nadolig olaf o'i oes ; a chan ei fod mor hyddysg yn yr Ysgrythyrau, a bod ei *Garolau*, yn anad un dosparth o'i ganiadau, mor llawnion o syniadau Ysgrythyrol am y Gwarddwr bendigedig, a threfn yr iechydwr-

¹ Eos Ceiriog, llyfr 1., t. 179-183.

² Yr un, t. 180.

iaeth trwyddo ef, dilyd ddiammheu iddynt wneud llawer o les i'w gydgenedl.

Er mai caniadau rhyddion, megis Cerddi a Charolau, ydyw corff mawr prydyddiaeth Huw Morus; eto, y mae hyny o'i Gywyddau a'i Englynion a drosglwyddwyd i ni, yn profi ei fod yn feistr trwyadl yn y gynghanedd, a holl fanylion eraill y "pedwar mesur ar hugain." Fel enghraifft, cymmerer y llinellau canlynol o'i "Gywydd Marwnad i Syr Thomas Mostyn, a'i Arglwyddes, a gladdwyd yn yr un bedd, yn Eglwys y Rhos, yng Nghreuddyn":—

Och dori bôn uchder y byd,
 Och oer bwn, a chur benyd ;
 Och ddydd du, Och ddiweddedd dawn,
 Ni cherddir, yn iach hirddawn ;
 Och a wyddoch i waeddi,
 Och lwy'r groch, uchel yw'r gri ;
 Och adwyth i chwi ydoedd,
 Och ! Och flin !—uwch uwch y floedd !
 Och *farwel* dost ym *Mostyn*,
Ffarwel hallt i'w *pherl* ei hun ;
 Rhosyn o *Fostyn* a fu,
 Aeth o Gloddiaith i'w gladdu ;
 Syr *Thomas* a'i air twymyn,
 Oedd wrës haf, mae'n ddi-wrës hyn ;
 Oer lafur ar wyl *Ifan*,
 Rhy oer y tŷ'n rhewi'r tân ;
 Oer i eryr hir aros,
 O'i lŷs rhydd yn *Eglwys Rhos* ;
 I'r llŷs oedd a'r lles iddynt,
 Llai brys gwŷr, lle bu wrës gynt ;
 Os oerodd y llys arian,
 Ar eich lles oerach y llan ;
 Och o'r gais, ewch o'r goror,
 Rhyhwyr myn'd o rhewa'r môr ;
 Gadael yr angel yw'r ing,
 Gwŷn gofid, mewn gwam gyfyng ;
 Angeu a'i rhoes, ing yr hawg,
 A'i arf erchyll ar farchawg ;
 A'i Arglwyddes wawr *Gloddiaith*,
 I ran Duw aent i'r un daith ;
 Ni ddymunodd i'w maenol,
 Aeres wych, aros o'i ôl ;
 Gado i fonedd gydfyned,
 A wnaeth Crist am wenith cred ;
 Un foddion yn fyw oeddynt,
 Un gred goel, un gariad gynt ;
 Un galon union, un air,
 Un ddaioni'n ddi-anair ;
 Brau doddiad, bwrw eu dyddiau,
 Heb awr ddig y bu yr ddau ;
 Cyd fawrhau, cyd fwrw eu hoes,
 Cloi mwyniant cwlwm einioes ;

Cyd ymwasg, caudad ammod,
 Cyd gadw cler, cyd godi clod ;
 Cyd ddiweddu, cedd ddidan,
 Cyd fyw'r un *lwc*, cyd farw'n lân !
 Cyd hunodd, unodd y ddau,
 Cyd orwedd o'u cadeiriau ;
 Diau fyned dau fonedd,
 Dau ran byd i'r un bedd ;
 Nid all dim, a dull damwain,
 Ysgar y ddau gymmar gain ;¹ &c.

Er yr ymddengys bod Huw Morus, fel y crybwyllwyd, yn gynnegin â'r mesurau caethion ; eto, nid ydys yn gwybod iddo ganu ond ar bedwar o honynt yn unig ; sef Mesur Cywydd Deuair Hirion, o'r hwn y mae'r difyniad uchod yn engraffit ; a Hir a Thoddaid ; Gwawdodyn Hir ; ac Englyn Unodl Union. Wele ychydig esamplau o'r tri mesur olaf a nodwyd :—

Hir a Thoddaid i Syr William Williams, Glasgocd.

Cymro dewr gwrol cymmer di'r gorau,
 Cyfiawnder fyni, cyfan derfynau ;
 Rhai ' eisiau synwyr, yn rhuo *sarionau*,
 O egin y cedyrn yn weigion eu codau ;
Salmon y doethion, dithau—'n rhoi gwinoedd,
 A thirion diroedd, a th aur yn dyrau.²

Gwawdodyn Hir i annerch Mrs. Margaret Fychan o Lwydiarth, yr hon a roddodd Edward Morus y Prydydd ar waith i gyfieithu llyfr o'r Saes'neg i'r Gymraeg ; a'r hwn a argraffwyd ar draul y foneddiges er lles y Cymry.

Am wawr oleuni i'r marwol anian,
 Am rodd o addysg, mawredd ddidan,
 Am wir olud, mwya' 'r a welan'—
 Amledd melus, miloedd a'i molan'—
 Mawr yw ym mysg mawr a mân—ymwared
 Mawr ged, fyw uchod—*Marged Fychan*.³

Y mae Englynion Unodl Union y bardd yn dra lluosog, fel y ceir achlysur i grybwyll eto yn fuan. Dodir ychydig esamplau o honynt yma :—

Cyffes y Bardd ar Wely Clefyd.

Meddylion trymion a'm troes'—i wyllo,
 O weled term hiroes ;
 Tra dinerth yw troed einioes,
 Tarfu wnaeth at derfyn oes.

Gan bechod arw nôd, 'r wyn 'n un—i'w dybied
 Yn debyg i eilun ;
 I ddi-warthu 'r wedd wrthun,
 Nid oes help ond Iesu 'i hun.

¹ Eos Ceirlog, llyfr 1., t. 4. ² Yr un, llyfr 11., t. 356. ³ Yr un. t. 362.

- A gweled fyred wyf fi—o fuchedd,
 Afachus ddirieidi ;
 O gwel achos i'm golchi,
 Oen Duw Tad—yn dy waed di.
- Mwyaf clod hynod i henwas—beidio
 A bydol gymdeithas ;
 Goreu mawrddawn grym urddas,
 Groyw 'mroi i grio am ras.
- Am ras, hoff urddas, mae ffydd—i'm henaidd,
 Mae hyny 'n llawenydd ;
 Mae'n dda odiaeth—mae'n ddedwydd,
 Mai 'Mhrynwyr yn Farnwr 'fydd.
- Prynwr, Iachawdwr, a Cheidwad—odiaeth,
 Ydwyf o'r dechreuad ;
 Duw ddyddiwr di-ddiweddiad,
 Dydi 'foddloniaist dy Dad !
- Duw feddyg diddig 'fu 'n diodde'—hyd farw,
 Dy fawredd a brifiai ;
 Codaist, nodaiest eneidiau,
 Goleu nôd i gael y Ne'.¹
- Gogoniant, moliant am eli—o'th waed,
 A'th wiwdeg oleuni ;
 A'th rinwedd—nerthwr ini,
 I fynu dwg f enaid i !²

Ond er anhawdded cefnu ar gyfeillach y prydydd athrylithgar hwn, yr olaf o gyfnod ein testyn, fel y crybwyllwyd o'r blaen, ac un o brif feirdd ein cenedl ni; er hyny rhaid ymbarotoi bellach at derfynu ein hymchwiliad i hanes cynnyrch toreithiog ein testyn; a gwneir hyny ar ol manylu ychydig ymhellach ar ein bardd, am yr hwn y dywedodd Dafydd Samuel fel y canlyn :—

Y mae Huw Morus i'w restru ym mhlith y penaf o'r prydyddion Cymreig. Yr oedd ei grebwyll yn ffrwythlawn, amrywiol, ac aruchel. Yr oedd pob peth yn dylifo o'i ysgrifell gyda'r fath rwyddineb ac esmwythder, fel y gellir galw ei gyfansoddiadau yn ysprydoliaeth ei hunan. Nid oes dim cymhellwaith ynddynt o gwbl, na dim yn dangos ymdrech llafurus; ond y mae'r cyfan yn gynnyrch diledryw yr Awen. Yr oedd efe yn tra rhagori yn y ddawn a elwir *hoenusder*; ac yr oedd yr un mor fedrus yn y teimladrwydd a'r arucheledd. Er prawf o'r cyntaf, cyfeiriwn yn neillduol at 'Garol Gwyliau a wnaed yn amser rhwysg OLIVER;' 'Marwnad Gwŷr OLIVER;' 'Cân i ofyn Feiol;' a 'Chyffes a Hanes Dic y DAWNS.'³

¹ Y mae'n ddiagramheuol genyf fi mai fel y canlyn yr ysgrifennodd y Bardd y geiriau a italeiddir genyf isod yn yr englyn hwn :—

Duw feddig diddig fu'n diodde'—hyd farw
 Dy fawredd a brifie ;
 Codaist, nodaiest eneidie,
 Goleu nod i gael y Ne.

² Foes Ceiriog, llyfr H., t. 425.

³ Yr un, llyfr L., t. 179, 203, 304, 340.

Byddai yn bur anhawdd cael dim yn fwy tyner ac effeithiol yn y dull teimladwy, nag ydychyd 'Cywydd Marwnad BARBARA gwraig RICHARD MILTWN, o'r Plas Newydd, Llan Silin,' mewn dull o ymddiddan rhwng y drangedig a'i phriod goroesol.¹ Y ddau gyfansoddiad prydfertaf yn yr iaith Saesneg, ar yr un pwngc, yw 'Myfyrdraith ar Farwolaeth ei Foneddiges, gan yr Arglwydd Littleton';² a'r llall yw, 'Er Cof am Foneddiges Ieuangc,' gan Mr. Shaw.³ Pwy bynnag a'u cymharo â'r farwnad hon, rhaid iddo gyfaddef bod y Bardd Cymreig, di-goleg, yn llawn cyfartal iddynt, os nad yn rhagori arnynt. Y mae 'Cyffes y Prydydd ar ei glaf Wely,'⁴ yn gyfansoddiad llawn o eirweddidiad dyrchafedig, a syniadau aruchel. Ymdriniau â phyngciau crefyddol gyda chyffelyb arddurniant; ac ni chyfyrdodd erioed â'r arch gyda dwylaw halogedig.

Fel ysgrifenydd telynegol, cymharai awdur diweddar⁵ ef 'i seren wib ryfeddol, yn ymddangos ar ol chwyldroad o 300 mlynedd,' amser ymddangosiad Dafydd ab Gwilym yn y ffurfafen awenyddol. Yr oedd y ddau awdur hyn, fel y sylwa yr un ysgrifenydd, 'yn llawn o athrylith bur; ac ymddengys nad oedd yr un o'r ddau yn ddyledus i gelfyddyd.'⁶

O'r diwedd, y Bardd athrylithgar a hybarch, ac efe yn llawn o ddyddiau ac anrhydedd, ac yn hyderus ddisgwyl am anfarw-oldeb, a suddodd yn esmwyth dan ddihoeniad henaint. Treuliodd ei ddyddiau olaf i ymbarotoi erbyn y cyfnewidiad mawr a phwysig, gan ddyrchafu ymbiliau difrifol at orsedd trugaredd, a hyny, gan mwyaf, mewn llinellau a phenillion prydyddol, yn oed yn ei amser olaf. Dodir yma un esampl o'r cyfryw benillion difrifol. Pan aeth cyfaill iddo at ei wely ychydig amser cyn ei farw, a gofyn pa fodd yr ydoedd, atebodd yntau :—

Myn'd i'r ail adail ar redeg—yr wyf,
Lle ceir oes ychwaneg,
I baradwys bur wiwdeg,
Yn enw Duw—yn union deg.⁷

Bu'r Bardd awenyddol farw ar y 31fed o Awst, 1709, yn 87 oed; a chladdwyd ef wrth fur Eglwys Llansilin, lle y dodwyd maen coffadwriaeth gan ei nai, perchenog Pont y Meibion; ac ar y maen cerfiwyd y ddau Englyn canlynol, o waith y Parch. Robert Wynn, Ficar Gwyddelwern :⁸—

Dyma *Hirw* 'fu byw yn y byd—yn bencerdd
Ar byngciau celfyddyd,
Gwir organ y gân i gyd,
Diammeu yw—dyma *Oryd*.

¹ Eos Ceiriog, llyfr i., t. 12. ² A Monody on the Death of his Lady, by Lord Littleton.

³ To the Memory of a Young Lady, by Mr. Shaw. ⁴ Eos Ceiriog, llyfr ii., t. 87.

⁵ Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Foni). ⁶ Cambr. Register, vol. i., p. 426.

⁷ Eos Ceiriog, llyfr ii., t. 427.

⁸ Cambr. Reg., vol i., p. 426. Eos Ceiriog, llyfr i., *Sketch*, pp. iii.—xxvi. Williams's Em. Welshm., p. 347. Davies's (Gwallter Mechain) Engl. Works, p. 291. Geir. Bywgr. I. F., t. 748. Geir. Bywgr. J. T. J., cyf. ii., t. 297. Gwyddon., cyf. vii., t. 580. Cymru, O. J., cyf. ii., t. 339. Enwogion y Ffydd, cyf. i., t. 435.

Er *Greogiaid*, blaeniaid, aer blys—iawn naddiad
 Awenyddiaeth fedrus,
Lladinwyr ledwŷr di lys,
 Hwya' mawredd Huw Morus !

Er godidoced Bardd oedd Huw Morus, ac fmor boblogaidd oedd y caniadau awenyddol a adawodd ar ei ol, ni chyhoeddwyd casgliad cryno a destlus o honynt hyd ym mhen 114 o flynyddau ar ol i'r awdur doniol fod " Yn ddigon tawel yn eigion tywod " monwent Llansilin ! Ond pan wnaed hyny, cyflawnwyd y gwaith gan un o brif lenorion Cymru, fel y ceir gweled yn ebrwydd, Nid ydys yn gwybod i ddim o ganiadau poblogaidd y Bardd gael eu hargraffu yn ei oes ef, oddi eithr rhyw ychydig gan Ffowc Owen o Nantglyn, yn y fl. 1686, a chan Thomas Jones o'r Mwythig, yn 1696, pan oedd y Bardd yn 74 oed. Yn y fl. 1759, ym mhen hanner can mlynedd ar ol i'r Bardd farw, cyhoeddwyd rhai o'i ganiadau gan Huw Jones o Langwm, a Dafydd Jones o Drefriw, yn y fl. 1759 ; a chyhoeddodd yr olaf amryw o'i ganiadau rhyddion drachefn yn y bl. 1766 ac 1779. O'r diwedd, daeth prif lenor dechreu y 19edd ganrif ym mlaen, sef GWALLTER MECHAIN, a chyhoeddodd gasgliad helaeth a manwl o'i ganiadau, dan yr enw canlynol :—

Eos Ceiriog, sef Casgliad o Bêr Ganiadau HUW MORUS ; yn ddau Lyfr. O Gynnulliad a Diwygiad W. D.

Yn Ngwrecsam argraffwyd ac a gyhoeddwyd gan J. Painter. [12plyg. Pris 12s.]

Wrth " Lyfr," yn yr Enwad-ddalen yna, y golygir yr hyn a feddylir yn gyffredin wrth *gyfrol*. Arweinolion y " Llyfr I." a gynnwys "*A Sketch of the Life and Character of the Author,*" pp. iii.—xvi. ; "Y Cyhoeddwr at y Darlennydd," t. xvii—xxxviii. ; "Eglurhad o'r llythyrenau cyfarwyddawl a osodwyd yn y casgliad hwn, i ddynodi y gainc, neu y mesur, ar ba un y dadgenir pob un o'r Dyrifau," xlii.—l. ; a "Chywydd na ddaeth i law nes yr oedd rhan o'r gwaith yn argraffedig," t. li.—lvi. Cynnwys corff y " Llyfr I." hwn 363 o dudalenau.

Yr enwad-ddalen a chynnwysiad yn unig sy'n rhagflaenu " Llyfr II.," sef vi. o dudalenau ; a chynnwys corff y " Llyfr "

430 o dudalennau; ac un tudalen yn nodi gwallau y wasg. Cynnwys y *ddau* “*Lyfr*” y nifer canlynol o ganiadau :—

Cywyddau	18
Carolau a Cherddi... ..	129
Ynglynion	229
	376

Dosparthwyd y caniadau yna gan y Casglydd fel y canlyn:—

LLYFR I.

Rhan I.—Cywyddion	18
Rhan II.—Mabinogion	22
Rhan III.—Hanesion	11
Rhan IV.—Priodolion	29

LLYFR II.

Y Rhelyw o'r Rhan I.—Cywyddion	2
Rhan V.—Difrifolion	18
Rhan VI.—Moesolion	12
Rhan VII.—Galar-Gwynion	18
Rhan VIII.—Dwyfolion	20
Rhan IX.—Ynglynion	229

Bu raid i'r Casglydd gofalus adael 70 o Garolau a Cherddi heb eu cyhoeddi, “rhag chwyddo y Llyfr i ormod o faint”; a dywed bod rhai o'r caniadau hyny yn “rhagorol.” Gresyn na chyhoeddid y rhai hyny bellach. Gwelir mai rhif “Cerddi a Charolau” y Bardd, a chyfrif y 70 a adawyd allan, yw 199. Dywed y Casglydd fod “gair ar led fod casgliadau o waith Huw Morus yn cynnwys 300 o nifer. Dichon i hyny fod yn wir,” eb efe; “ond er chwilio yn fanwl, ym mhell ac agos, methwyd genyf weled onid yr hyn a grybwyllais. Diammeu fod llawer o'i ganiadau ef yn awr ar ddisperod a choll. Clywais fod llyfrau ysgrifen, o'i waith *ef* gan mwyaf, wedi cael eu trosglwyddaw gan hoffwyr barddoniaeth gyda hwynt i Loegr. Am y rhai y gellir dywedyd yng ngeiriau y Bardd ei hun :—

Clai y Sais yw 'r cloau sydd,
Ar wyneb yr awenydd.”

O barth ansawdd gwahanol ganiadau Huw Morus yn gyffredinol, dywed y Casglydd fel y canlyn :—

Am y *Mabinogion* (Rhan 2) a ganwyd cyn i'r bardd gyrhaedd addfedrwydd pwyll, gellir ei ddiheuraw trwy ddal fod yn oed ei Faswedion, yn fwy diwair nag eiddo ei gyfoedion yn Nghymru nac yn Lloegr. Yn ei *Ddifrifolion*, ei ymgais oedd dangos harddwch a buddioldeb buchedd foesol; ac yn ei *Ddwyfolion* (Rhan 8) gellir gwled mai sylfaen ei foesoldeb derbyniol ef oedd ffydd yn yr Iachawdwr. Mae llawer o'i Garolau Nadolig ef ar goll; ac o'r rhai ydynt ar gael, ugain a dderbynias i'r casgliad presennol; a gellir amgyffred ond eu darllen, mai nid diffyg defnydd sylweddawl, nac athrawiaeth iachus, a barodd iddynt fyned dan warth a gommeddiant; ond, yn hytrach, clust ferwinllyd yr oes

bresenawl, yr hon sydd yn serchu mwy ar swyn na synwyr,—a'r galon fflisig ei harchwaeth, a flinai yn oed ar y Manna, os cefid yn feunyddiol. Ebrwydd gyd â'r rhai hyn yr aeth yr 'Hen Dôn' Carolau Gwyliau yn ddi-flas, gan ddewis yn ei lle rhyw rigwm ar 'Old Darby'—'Charming Chloë'—'Betty Brown'—a'r fath sothach, cymhwysach i *Ben y Beili* yn *Nghraes Oswallt*, nac [nag?] i un man o addoliad crefyddol.¹

Yn awr, goddefer i'r ysgrifenydd fynegi fod yn dra dyddorol iddo ef feddwl, megis y cafodd ddechreu hyn o hanes lenyddol yng nghyfeillach llenor y cydnabyddir yn gyffredinol ei fod yn y dosparth blaenaf o feirdd ei wlad, sef DAFYDD AB GWILYM; felly hefyd ei fod yn cael ei therfynu yng nghyfeillach llenor arall, sef HUW MORUS, yr hwn y cydnebydd pawb cymmhwys i farnu, ei fod yn meddu awen barod, goethedig, a ffrwythlawn; ac felly yn gwbl addas i fod yn yr un dosparth aruchel a'r blaenaf.

Peth arall tra hynod yn hanes y ddau lenor hyn (Dafydd ab Gwilym a Huw Morus), un ar ddechreu, a'r llall ar ddiwedd, cyfnod y testyn, ydyw, nad oedd yr un o'r ddau yn ddyledus am ei enwogrwydd i ddim dysg ond yn unig a gyrhaeddodd trwy nerth ei athrylith a'i ddiwydrwydd ei hunan; ac er hyny, ychydig iawn o feirdd Cymru sy'n deilwng i gael eu rhestru yn yr un dosparth aruchel a hwynt-hwy, o rân crebwyll, darfelydd, ac amledd eu cyfansoddiadau awenyddol. Y gwir yw, mai rhai wedi eu *geni* yn feirdd a llenorion oedd y ddau, ac nid rhai wedi eu sacrnio gan ddysg a chelfyddyd.

COFRES O ENWAU, AMSEROEDD, A CHRYBWYLLIAD AM
GYFANSODDIADAU BEIRDD A LLENORION YR HANER
CANRIF OLAF O GYFNOD Y TESTYN.

- 1600 Robert Holland, argr.
1600 Watcin Clywedog, ysgr.
1600 Sion Cynwrig, ysgr.
1600—1630 Huw ap Rhisiart ap Dafydd, 2 gân ysgr.
1600—1630 Hywel Tomas Dafydd, ysgr.
1600—1630 Huw Ieuan ap Robert, ysgr.
1600—1640 Hywel Hir.

¹ Eos Ceiriog, At y Darllenydd, t. xxxv.

- 1600—1640 Robert Wynn ap Cadwaladr, ysgr.
 1600—1640 Ffowc Prys, ysgr.
 1600—1640 Sion Gethin
 1600—1644 Sion Hywel ap Sion
 1600—1650 Tomas Siancyn ap Ifan
 1600—1650 Robert Clidro, ysgr.
 1600—1651 Sion Tre-Redyn, argr.
 1600—1654 William Erbury, ysgr.
 1600—1657 William Bound, argr.
 1600—1669 Edward Wynn
 1600—1673 John Price, argr.
 1601—1666 George Gruffydd, argr. ac ysgr.
 1603—1655 Richard Jones, Dinbych, argr.
 1605—1681 Thomas Gouge, argr.
 1606 Edward Iames, argr.
 1608—1661 Thomas Powel, D.D., argr.
 1609—1679 William Jones o Ddinbych, argr. ac ysgr.
 1610 Einion ab Gruffydd
 1610—1650 Sion Meirion
 1613—1632 John (Arise) Evans, argr.
 1613—1689 William Thomas, D.D., argr.
 1616—1686 Charles Edwards, argr.
 1617—1670 Vavasor Powel, argr.
 1618—1665 Thomas Jones o Nanteos, argr.
 1618—1670 Thomas Anwyl
 1618—1690 Alexander Gruffydd, D.D.
 1618—1697 Rondl Davies, argr.
 1619—1659 Morgan Llwyd o Wynedd, argr. ac ysgr.
 1620 William Burchinshaw, ysgr.
 1620—1650 Sion Gutyn Fychan
 1620—1650 Harri Howel o Langyfelach, argr.
 1620—1650 Dafydd Meifod, ysgr.
 1620—1655 Thomas Fychan, argr.
 1620—1659 Walter Cradoc, argr. ac ysgr.
 1620—1660 Humphrey William

- 1620—1660 Humphrey Dafydd ap Ifan
 1620—1667 Gruffydd Phylip, ysgr.
 1620—1688 Stephen Hughes, argr.
 1620—1695 Henry Fychan, argr.
 1622—1709 Huw Morus, argr. ac ysgr.
 1624 Rhisiart Phylip, argr.
 1630 Rowland Heilyn, argr.
 1630 Bedo Bach
 1630—1660 Rowland Prys
 1630—1682 Rowland Fychan, argr. ac ysgr.
 1631—1649 Oliver Thomas, argr. ac ysgr.

Fe anwyd amryw feirdd a llenorion eraill yng nghorff yr hanner canrif hon, ond yr oeddynt yn rhy ddiweddar i wneuthur dim o bwys yn ystod cyfnod y testyn; megis y rhai canlynol :—

- 1635—1708 Richard Davies (Crynwr), argr.
 1638—1659 Lewis Bayly, argr.
 1640—1670 Hywel Llwyd, Morganwg, ysgr.
 1643—1730 Owen Gruffydd, argr.
 1643—1730 Gruffydd Owen
 1644—1669 Edward Wynn, D.D., Bodewryd, argr.
 1644—1716 Daniel Williams, D.D., argr.
 1646—1670 John Prys, argr.
 1646—1682 Thomas Jones, Croesoswallt, argr.
 1647—1713 Thomas Jones, yr Almanaciwr, argr.
 1648—1715 Richard Lucas, argr.
 1648—1671 Owen Prys, argr.

CYNNWYSIAD.

PENNOD I.

PWYSIGRWYDD y testyn; Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol yn deilwng o barch am fynnu Hanes ein Llenyddiaeth; yr hyn yw Llenyddiaeth, a'r prif bethau perthynol iddi; dosparthiad Thomas Stephens o Lenyddiaeth Gymreig; Y prif bethau perthynol i ddosparthiad Llenyddiaeth Gymreig; Cyfnod cyntaf Llenyddiaeth Gymreig; Cofres o Lenorion y Cyfnod Cyntaf; ail gyfnod Llenyddiaeth Gymreig; Cofres o Lenorion yr ail gyfnod; dirywiad Llenyddiaeth Gymreig; dyfodiad pennillion ac anterlwtiau i arfer; hanes yr Hen Hud a Lledrith *tudalen 9*

PENNOD II.

PWYSIGRWYDD amseryddiaeth cyfansoddiadau; esamplau o Lenyddiaeth gwahanol ganrifoedd; effaith Geiriadur y Dr. Pughe ar Lenyddiaeth Gymreig; cyngghanedd yn awgrymu amser Llenyddiaeth Gymreig; y Beirdd yn brif lenorion yr hen Gymry ymhob cangen o lenyddiaeth; Yr hen feirdd yn wŷr boneddig tiriawg, ac yn geraint a chyfeillion i'r breninoedd a'r tywysogion; hen ysgrif ar swyddi beirdd Gwynedd; trefn gwŷr wrth Gerdd Dafod yn ol trefn y Deheubarth; ansawdd Llenyddiaeth Gymreig wedi newid erbyn dechreu cyfnod y testyn *tudalen 26*

PENNOD III.

HEN Lenyddiaeth y Cymry mewn llawysgrifau hyd pan ddechreuwyd argraffu Cymraeg; Chwaliad hen lyfngelloedd llawysgrifol y mynachdai; prif gasglyddion y llawysgrifau Cymreig; Crynoad o hanes cynnwys y prif gasgliadau llawysgrifol; talfyriad o hanes cynnwys y Llyfr Coch o Hergest, a chasgliad Owen Myfyr; esampl o'r rhan brydyddol a rhydd-ieithol *tudalen 37*

PENNOD IV.

EFFAITH ymchwiliad Edward Lhwyd i hen gasgliadau llawysgrifol; yr esamplau argraffedig cyntaf o hen lawysgrifau Cymreig; y gwahanol lawysgrifau a argraffwyd mewn canlyniad; cyfieithiad a chyhoeddiad caniadau Llywarch Hen; Sharon Turner, a'i gydoeswyr, ar yr hen Ganiadau Cymreig; cyhoeddiad y *Myrcyrian Archaeology of Wales*; Gwaith Edward Davies (Y Celtig); yr hen gyfansoddiadau Cymreig a gyhoeddwyd gan *The Welsh MSS. Society*, Cyhoeddiad *Cyfrinach y Beirdd, y Mabinogion, The Four Ancient Books of Wales*; cynllun Archddiacon Ceredigion o drin hen gyfansoddiadau Cymreig; cyhoeddiad *The Literature of the Kymry*; dosparthiad yr hen gyfansoddiadau a briodolir i Taliesin; "*Taliesin*," gan D. W. Nash *tudalen 49*

PENNOD V.

Y CYFNEWIDIAD dedwydd a gymmerth le yn nghyfansoddiadau'r beirdd tua dechreu cyfnod y testyn; dygiad cyngghanedd i brydyddiaeth; hanes y "Tair Eisteddfod Dadeni"; hanes Llywelyn ab Gwilym; hanes a chyfansoddiadau Ednyfed ab Gruffydd, Llywelyn ab Gruffydd, Madog ab Gruffydd, Dafydd ab Gwilym, Sion y Cent, Rhys Goch Eryri, a Iolo Goch; cofres o amserau ac enwau llenorion y "Tair Eisteddfod Dadeni" *tudalen 85*

PENNOD VI.

LLENYDDIAETH cydoeswyr boreuaf llenorion y "Tair Eisteddfod Dadeni;" sef, Trahaiarn Brydydd Mawr, Gwilym Ddu o Arfon, Llywelyn Brydydd Hodnant, Hillyn, Sefnyn, Iorwerth ap y Cyriog, Casnodyn, Gruffydd ab Meredydd ab Dafydd, Madog Dwygraig, Iorwerth Fychan, Llywelyn Ddu, Rhisieryn, Iorwerth Beli, Gruffydd ap Tudyr, a'r Prydydd Breuan; Cofres o amserau ac enwau y llenorion boreuaf a gydoesent & Beirdd y Tair Eisteddfod Dadeni *tudalen* 136

PENNOD VII.

HANES a Llenyddiaeth Gruffydd Gryg, Thomas ap Einion Offeiriad, Dafydd Ddu o Hiraddug, Dafydd Nanmor, Rhys Goch ap Rhicert, Hywel ap Rhys, Gruffydd ap Adda ab Dafydd, Llywelyn Goch ab Meurig Hen, a Lleucu Llwyd; cofres o amserau ac enwau y gweddill o lenorion yr hanner canrif cyntaf o gyfnod y testyn *tudalen* 146

PENNOD VIII.

HANES a Llenyddiaeth Ieuan Hen, Ieuan Fawr ap y Diwlith, Gruffydd Llwyd ab Dafydd ap Einion Lygliw, Rhys Brydydd ap Rhys ap Rhicert, Ieuan Tew Hen, a Hywel Srdwal. Cerddoriaeth a rhyddiaith. Cofres o amserau ac enwau llenorion y rhan olaf o'r 14edd ganrif *tudalen* 184

PENNOD IX.

CYFRAITH orthrymus Harri IV. yn erbyn y llenorion Cymreig a'r Eisteddfodau; hanes a llenyddiaeth Dafydd ab Meredydd ap Tudur, Rhys Nanmor, Ieuan Gethin ap Ieuan ap Lleision, Ieuan Rhydderch ap Ieuan Llwyd, Ieuan Llwyd ab Gwilym, Meredydd ap Rhys, Guto'r Glyn, Llywelyn ab Gutyn, Gwilym Tew, Ieuan Brydydd Hir Hlynaf, Tudyr Penllyn, Llawdden, a Dafydd ap Edmwnt; hanes Eisteddfod Caerfyrddin yn y fl. 1451; diffyg a methiant y Mesurau Caethion; hanes a llenyddiaeth Lewis Glyn Cothi; Cofres o amserau ac enwau llenorion y rhan gyntaf o'r 15fed ganrif *tudalen* 195

PENNOD X.

LLUOSOGRWYDD beirdd a llenorion yr hanner olaf o'r 15fed ganrif, a'u hansawdd; nifer Cadeiriau Barddol Morganwg yr hanner canrif yma; hanes a llenyddiaeth Meredydd ap Rhoser, Gutyn Owain, Ieuan Deulwyn, Iorwerth Fynglwyd, Dewi ap Ieuan Du, Lewys Morganwg, a Tudyr Aled. Cofres o amseroedd ac enwau beirdd a llenorion yr hanner canrif hon *tudalen* 244

PENNOD XI.

CERDDORIAETH cyfnod y testyn; yr hen Feirdd yn Gerddorion a Phrydyddion; ceingciau cerddorol Cadwgan a Chyhelyn; Ceingciau dienw; Dai Llwyd y Cerddor; celfeiriau cerddorol *tudalen* 260

PENNOD XII.

TREM ar Ryddiaith y ddwy ganrif flaenorol o gyfnod y testyn; ansawdd ein hen hanesion; hoffder y Cymry o chwedlau a rhamantau, yr hyn a roddes hanfod i'r Mabinogion, Bucheddau y Saint, y Brutiau, ac *Ystoriau* eraill; dechreuad, amseroedd, a dosparthiad y cyfansoddiadau hyn; awduron y rhai hynaf yn anhyspys; y mynachod yn dwyn yr elfen grefyddol i'r chwedlau Cymreig; yr hen Feirdd yn wrthwynebol i Lenyddiaeth ffugiol; y mynachod yn cymmeryd mantais o hyny i borthi archwaeth y bobl; darlun Stephens a Ioan Pedr o'r rhamantau; Ieuan Brechfa; y Trioedd *tudalen* 265

PENNOD XIII.

HANES Llenyddiaeth prif Feirdd, Traethodwyr, a Cherddorion yr 16fed ganrif; yr Eisteddfodau a'r Cadeiriau Barddol; y gwahanol ddulliau o raddio Beirdd; hanes a llenyddiaeth Meyrig Dafydd, Dafydd Llwyd Mathew, Dafydd Benwyn, Llywelyn Sion, Edward Dafydd, Sion Mawddwy, Gruffydd Hiraethog, a Sion Brwynog; Llenyddiaeth Pencerddiaid ail Eisteddfod Caerwys; Llenyddiaeth Wiliam Cynwal, Edmwn't Prys, Sion Tudur, Sion Phylip, Ioan Dafydd Rhys, Gwilym Ganoldref, Tomas Prys, a Rhys Prichard *tudalen 296*

PENNOD XIV.

HANES Llenyddiaeth Ryddieithol prif awduron yr 16fed ganrif. Cyfansoddiad y Trioedd; dosparthiad y Trioedd. Hanes a Llenyddiaeth Richard Davies, D.D., William Salesbury, Thomas Huet, Gruffydd Roberts, Rhosier Smyth, Humphrey Llwyd, Dafydd Powel, D.D., William Wynn, William Morgan, D.D., John Whitgift, D.D., William Hughes, D.D., Hugh Bellot, D.D., Gabriel Goodman, D.D., Richard Fychan, Henry Salesbury, M. Kyffin, Henri Perri, a Huw Lewys. Y llyfr argraffedig diweddaf yn y ganrif hon. Cofres o amseroedd ac enwau Beirdd a Llenorion yr 16fed ganrif *tudalen 343*

PENNOD XV.

HANES Llenyddiaeth y rhan gyntaf o'r 17fed ganrif, sef yr hanner canrif olaf o gyfnod y testyn. Amgylchiadau llenorion Cymreig wedi llwyr newid erbyn hyn. Yr Eisteddfodau a'r Cadeiriau Barddol wedi diflannu, a'r canlyniad o hyny. Hanes a Llenyddiaeth Robert Holland, Edward James, Richard Parry, D.D., John Davies, D.D., Thomas Williams, Robert Llwyd, Rowland Fychan, Syr Thomas Middleton, Oliver Thomas, John (Arise) Evans, William Wroth, Walter Cradoc, William Phylip, James Howell, Edward Wynn, D.D., Richard Jones, Thomas Gouge, Charles Edwards, Stephen Hughes, Sion Tre-Redyn, Morgan Llwyd, a Huw Morus. Cofres o amseroedd ac enwau Beirdd a Llenorion yr hanner canrif olaf o gyfnod y testyn *tudalen 396*





